




Plant a Phobl Ifanc:
Gweithredu'r Hawliau

Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004








Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

G/232/06-07
ISBN 0 7504 8911 1

Medi
CMK-22-12-077

© Hawlfraint y Goron 2006

Cynnwys

	Tudalen
Rhagair	
Canllawiau	**1**
Statws a Chynnwys y Canllawiau hyn	**3**
Diffiniadau a chysyniadau allweddol	**5**
Crynodeb Gweithredol	**9**
Pennod 1: Y Fframwaith Deddfwriaethol	**23**
Deddf Plant 1989	
Deddf Addysg 1996	
Deddf Tai 1996	
Deddf Addysg 2002	
Deddf Trwyddedu 2003	
Deddf Tai 2004	
Deddf Plant 2004	
Deddfwriaeth arall	
Pennod 2: Swyddogaethau a Chyfrifoldebau – Adran 28 o Ddeddf Plant 2004	**35**
Y Ddyletswydd i Ddiogelu a Hyrwyddo Lles	
Fframwaith ar gyfer Gwneud Trefniadau Effeithiol i Ddiogelu a Hyrwyddo Lles Plant	
Trefniadau Strategol a Sefydliadol	
Monitro ac Archwilio Trefniadau Diogelu a Hyrwyddo Lles	
Trefniadau i Ddiogelu a Hyrwyddo Lles Plant mewn Gwahanol Asiantaethau	
Awdurdodau Lleol	
Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol	
Yr Heddlu	
Heddlu Trafnidiaeth Prydain	
Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol	
Timau Troseddau Ieuenctid	
Carchardai/Dalfeydd Diogel i'r Ifanc	
Canolfannau Hyfforddi Diogel	
Pennod 3: Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Eraill	**99**
Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS)	
Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC)	
Comisiynydd Plant Cymru	
Y Lluoedd Arfog	
Y Sectorau Gwirfoddol a Phreifat	
Cymunedau Ffydd	
Y Gymuned Ehangach	

Pennod 4: Byrddau Lleol Diogelu Plant **113**
Aelodaeth
Aelodau Eraill o'r Bwrdd
Ymwneud Asiantaethau a Grwpiau Eraill
CAFCASS CYMRU
Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC)
Eraill
Swyddogaethau Byrddau Diogelu
Ehangder y Buddiant
Trefniadaeth a Dull Llywodraethu
Ffiniau BLlDP
Cynllunio
Monitro ac Arolygu
Protocolau BLlDP
Fforymau Amddiffyn Plant Rhanbarthol
Grŵp Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan

Pennod 5: Strwythurau Cynllunio a Diogelu **129**
Byrddau Lleol Diogelu Plant
Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc
Partneriaethau Diogelwch Cymunedol
Partneriaid Craidd
Swyddogaeth a Chylch Gorchwyl y Grŵp Cydgysylltu
Strategol

Pennod 6: Effaith Cam-drin ac Esgeulustod **137**
Cyflwyniad
Cam-drin ac Esgeulustod
Y Cysyniad o Niwed Sylweddol
Canfyddiadau o Ymchwiliadau Diweddar ac Adolygiadau
Achosion Difrifol: Goblygiadau i Bolisi ac Ymarfer

Pennod 7: Egwyddorion gweithio gyda phlant a'u teuluoedd **149**
Cyflwyniad
Cyfrifoldeb ar y Cyd
Gweithio mewn Partneriaeth â Phlant a Theuluoedd
Amrywiaeth
Dull Integredig
Cydweithredu Rhyngasiantaethol i Wella Lles Plant
Rhai Goblygiadau ar Gyfer Polisi ac Ymarfer

Pennod 8: Ymdrin ag Achosion Unigol **161**
Cyflwyniad
Gweithio Gyda Phlant y Mae Pobl yn Pryderu am eu Lles
Egwyddorion sy'n Ategu'r Gwaith o Ddiogelu a Hyrwyddo Lles Plant
Bod yn Ymwybodol o Les Plant
Lles Plant Heb eu Geni
Y Prosesau ar Gyfer Diogelu a Hyrwyddo Lles Plant
Atgyfeirio at Wasanaethau Cymdeithasol Plant Awdurdod Lleol Lle Mae Pryderon Ynglŷn â Lles Plentyn

Atgyfeirio
Rhannu Gwybodaeth
Cyfrinachedd
Honiadau o Niwed o Ganlyniad i Weithgarwch Rhywiol Dan Oedran
Ymateb Gwasanaethau Cymdeithasol i Gysylltiadau ac Atgyfeiriadau
Camau Uniongyrchol i Amddiffyn Plentyn
Asesiad Cychwynnol
Camau Nesaf – Plentyn Mewn Angen Ond Heb Niwed Sylweddol Gwirioneddol neu Debygol
Camau Nesaf – Plentyn Mewn Angen a Niwed Sylweddol Gwirioneddol neu Debygol
Diogelwch Uniongyrchol
Trafodaeth Strategaeth
Ymholiadau ac Asesiad Craidd Adran 47
Cyfweliadau Ymchwiliol gyda Phlant
Gorchmynion Asesu Plant
Effaith Ymholiadau a47 ar y Teulu a'r Plentyn
Canlyniad Ymholiadau dan a47
Pryderon Heb eu Cadarnhau
Pryderon Wedi'u Cadarnhau Ond Ni Ystyrir Bod y Plentyn Bellach Mewn Perygl o Ddioddef Niwed Sylweddol
Pryderon Wedi'u Cadarnhau ac Ystyrir Bod y Plentyn Mewn Perygl Parhaus o Ddioddef Niwed Sylweddol
Y Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol
Cwynion Ynglŷn â Chynhadledd Amddiffyn Plant
Trefniadau Gweinyddol a Chadw Cofnodion
Gweithredu yn Dilyn y Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol
Y Cynllun Amddiffyn Plant
Ymyrraeth
Y Gynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant
Gwneud Penderfyniadau
Cynadleddau Amddiffyn Plant Cyn Geni a Chynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant Cyn Geni
Plant Sy'n Derbyn Gofal Gan yr Awdurdod Lleol
Cofnodi Bod Plentyn yn Destun Cynllun Amddiffyn Gofal
Rheoli a Darparu Gwybodaeth am Blentyn
Cofnodi

Pennod 9: Diogelu plant a allai fod yn arbennig o agored i niwed **221**

Cyflwyniad
Plant sy'n Byw Oddi Cartref
Ymchwilio i Gam-drin Sefydliadol neu Gam-drin Lluosog
Plant yn yr Ysbyty
Plant yn y Ddalfa
Cam-drin Plant Anabl
Cam-drin Gan Blant a Phobl Ifanc

Plant y mae eu Hymddygiad yn Dynodi Diffyg Rheolaeth Rhieni
Cam-drin Domestig
Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant
Delweddau Cam-drin Plant, y Rhyngrwyd a Thechnoleg Gwybodaeth
Salwch Ffug neu Salwch Gwneud
Plant Rhieni sy'n Camddefnyddio Sylweddau
Cam-Drin Plant Sy'n Gysylltiedig â "Meddiant" neu "Ddewiniaeth", neu Mewn Ffyrdd Eraill Sy'n Ymwneud â Chredo Ysbrydol neu Grefyddol
Plant a Theuluoedd Sy'n Mynd ar Goll
Plant Sy'n Derbyn Gofal Sy'n Rhedeg i Ffwrdd Neu'n Mynd Ar Goll o'u Lleoliad Gofal
Plant Sy'n Mynd ar Goll o Addysg
Plant o Deuluoedd Sy'n Byw mewn Llety Dros Dro
Plant Mudol
Anffurfio Organau Rhywiol Merched
Priodasau Gorfod

Pennod 10: Adolygu Achosion Difrifol **249**
Cyflwyniad
Diben yr Adolygiadau
Pryd Ddylai Bwrdd Lleol Diogelu Plant Gynnal Adolygiad Achos?
Cychwyn Adolygiad Achos Difrifol
Amseru
Pwy Ddylai Gynnal Adolygiadau?
Adolygu Asiantaethau Unigol
Adroddiad Cyffredinol y Bwrdd Lleol Diogelu Plant
Adolygu Cam-drin Sefydliadol
Atebolrwydd a Datgelu Gwybodaeth
Dysgu Gwersi yn Lleol
Dysgu Gwersi yn Genedlaethol

Pennod 11: Hyfforddiant a Datblygiad Rhyngasiantaethol **263**
Cyflwyniad
Diben Hyfforddiant ar Gyfer Gwaith Rhyngasiantaethol
Cynulleidfaoedd Targed
Swyddogaethau a Chyfrifoldebau ar Gyfer Hyfforddiant
Fframwaith Hyfforddiant
Swyddogaeth y Bwrdd Lleol Diogelu Plant
Swyddogaeth yr Is-grŵp Hyfforddiant
Sicrhau Ansawdd ac Effeithiolrwydd
Swyddogaeth Cyflogwyr
Cynulleidfaoedd, Lefelau a Chanlyniadau Hyfforddiant

Pennod 12: Honiadau o Gam-drin neu Bryder ynghylch Rhywun sy'n Gweithio gyda Phlant **271**
Cyflwyniad:
Manteisio ar Ymddiriedaeth Plentyn
Cwmpas
Cefnogi'r Rhai Dan Sylw
Cyfrinachedd
Ymddiswyddo a Materion yn Ymwneud â Chontractau
Cadw Cofnodion
Amserlenni
Goruchwylio a Monitro
Ystyriaethau Cychwynnol
Gwahardd
Monitro Cynnydd
Rhannu Gwybodaeth
Camau Wedi Ymchwiliad Troseddol neu Erlyniad
Camau Wedi i Achos Ddod i Ben
Dysgu Gwersi
Camau Mewn Perthynas â Honiadau Ffug Neu Ddi-Sail

Pennod 13: Rheoli Pobl sy'n Cyflwyno Perygl o Niwed i Blant **283**
Cydweithio
Canllawiau ar Droseddau yn Erbyn Plant
MAPPA
Prosesau a Mecanweithiau Eraill
Datgymhwyso Rhag Gweithio Gyda Phlant
Cofrestr Troseddwyr Treisgar a Throseddwyr Rhyw (ViSOR)
Gorchmynion Hysbysu
Gorchmynion Atal Troseddau Rhyw (SOPOs)
Gorchmynion Perygl o Niwed Rhywiol (RSHOs)
Y Rhestr Deddf Amddiffyn Plant
Rhestr 99 y DfES

Pennod 14: Rhannu Gwybodaeth **295**
Egwyddorion Allweddol Rhannu Gwybodaeth
Materion Anodd Sy'n Wynebu Ymarferwyr
Beth Yw'r Cyfyngiadau Cyfreithiol?
Dyletswydd Hyder Cyfraith Gwlad
A Yw'r Wybodaeth yn Gyfrinachol?
Cynnal Cyfrinachedd
Datgelu Gyda Chaniatâd
Datgelu Heb Ganiatâd
A Oes Yna Wahaniaeth Rhwng Datgelu Gwybodaeth o Fewn Eich Sefydliad A Datgelu Gwybodaeth i Sefydliad Arall?
Beth Os Yw'r Ddyletswydd yn Ddyletswydd i Blentyn Neu Berson Ifanc?
Deddf Hawliau Dynol 1998
Deddf Diogelu Data 1998
Darpariaethau Statudol Eraill

Datgelu Gwybodaeth am Droseddwyr Rhyw
Canllawiau Proffesiynol
Cadw Cofnodion
Goruchwyliaeth a Chymorth

Atodiad A: Fframwaith ar Gyfer Asesu Plant Mewn Angen a'u Teuluoedd **311**

Atodiad B: Defnydd o Holiaduron a Graddfeydd Fel Tystiolaeth o Asesu a Gwneud Penderfyniadau **319**

Atodiad C: Troseddau a Restrir yn Atodlen Un y Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 **323**

Atodiad D: Cysylltiadau Amddiffyn Plant y Weinyddiaeth Amddiffyn **331**

Rhagair

Canllawiau

Mae'r Canllawiau hyn wedi'u hanelu at Brif Swyddogion a holl reolwyr ac ymarferwyr y cyrff a enwir yn adrannau 28 a 31 o Ddeddf Plant 2004. Y bwriad yw eu galluogi i adolygu eu polisïau, gweithdrefnau ac arferion cyfredol, dadansoddi cyflwr cyfredol trefniadau diogelu a hyrwyddo lles plant eu cyrff a phenderfynu pa gamau sydd angen eu cymryd i weithredu'r Canllawiau.

Mae'r Canllawiau'n nodi sut ddylai'r holl asiantaethau a gweithwyr proffesiynol gydweithio i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a'u hamddiffyn rhag niwed. Maent wedi'u cyfeirio at yr holl bartneriaid statudol ar y Byrddau Lleol Diogelu Plant ac eraill sy'n dod i gysylltiad â phlant a theuluoedd trwy eu gwaith. Maent yn berthnasol i'r rhai sy'n gweithio yn y sectorau statudol, gwirfoddol ac annibynnol.

Dyma'r cyrff sy'n dod o dan y ddyletswydd i ddiogelu a hyrwyddo lles plant o dan adran 28 o Ddeddf Plant 2004:

- awdurdod lleol;
- Bwrdd Iechyd Lleol;
- Ymddiriedolaeth GIG y mae eu holl neu'r rhan fwyaf o'u hysbytai, sefydliadau a chyfleusterau wedi'u lleoli yng Nghymru;
- awdurdod heddlu a phrif swyddog heddlu ardal heddlu yng Nghymru;
- Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain, o ran cyflawni swyddogaethau mewn perthynas â Chymru;
- bwrdd prawf lleol ar gyfer ardal o Gymru;
- tîm troseddau ieuenctid ar gyfer ardal o Gymru;
- llywodraethwr carchar neu ganolfan hyfforddi ddiogel yng Nghymru (neu, yn achos carchar neu ganolfan hyfforddi ddiogel dan gontract, ei g/chyfarwyddwr); ac
- unrhyw berson sy'n darparu gwasanaethau mewn perthynas â'r trefniadau a wnaed gan awdurdod lleol yng Nghymru o dan adran 23(1)(b) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (c.21) (gwasanaethau cymorth ieuenctid).

Dyma'r cyrff sydd wedi'u dynodi fel partneriaid awdurdod lleol mewn Bwrdd Lleol Diogelu Plant o dan adran 31 o Ddeddf Plant 2004:

- prif swyddog heddlu ardal heddlu y mae unrhyw ran ohoni yn ardal yr awdurdod lleol;

- bwrdd prawf lleol ardal y mae unrhyw ran ohoni yn ardal yr awdurdod;
- tîm troseddau ieuenctid ardal y mae unrhyw ran ohoni yn ardal yr awdurdod;
- Bwrdd Iechyd Lleol ardal y mae unrhyw ran ohoni yn ardal yr awdurdod;
- Ymddiriedolaeth GIG sy'n darparu gwasanaethau yn ardal yr awdurdod;
- llywodraethwr unrhyw ganolfan hyfforddi ddiogel yn ardal yr awdurdod (neu, yn achos canolfan hyfforddi ddiogel y rhoddwyd contract iddi, ei chyfarwyddwr); a
- llywodraethwr unrhyw garchar yn ardal yr awdurdod sy'n cadw plant fel rheol (neu, yn achos carchar y rhoddwyd contract iddo, ei gyfarwyddwr).

Mae'r canllawiau yn:

- disgrifio sut mae camau gweithredu i ddiogelu plant yn perthyn i gyd-destun ehangach cefnogi plant a theuluoedd;
- crynhoi rhai o'r gwersi a ddysgwyd o ymchwil a phrofiad hyd yn hyn ar natur ac effaith cam-drin ac esgeulustod, a'r ffordd orau o weithredu prosesau amddiffyn plant;
- nodi swyddogaeth a chyfrifoldebau gwahanol asiantaethau ac ymarferwyr;
- amlinellu'r ffordd y dylid cytuno ar, gweithredu ac adolygu trefniadau cydweithio trwy Fyrddau Lleol Diogelu Plant;
- nodi'r prosesau y dylid eu dilyn pan mae yna bryderon am blentyn, a'r camau gweithredu y dylid eu cymryd i ddiogelu a hyrwyddo lles plant sy'n dioddef, neu mewn perygl o ddioddef, niwed sylweddol;
- darparu canllawiau ar amddiffyn plant mewn amgylchiadau arbennig, yn cynnwys plant sy'n byw i ffwrdd o gartref;
- amlinellu rhai egwyddorion pwysig y dylid eu dilyn mewn gwaith gyda phlant a theuluoedd;
- nodi'r prosesau y dylid eu dilyn os oes trasiedi'n digwydd, er mwyn dysgu gwersi a gwneud unrhyw welliannau angenrheidiol i ymarfer er mwyn diogelu plant; a
- thrafod pwysigrwydd hyfforddiant aml-asiantaeth, ac ystyried gofynion hyfforddi ar gyfer trefniadau amddiffyn plant effeithiol.

Mae hefyd yn berthnasol i'r sefydliadau hynny nad ydynt o dan ddyletswydd statudol benodol, ond sydd â chyfraniad allweddol i'w wneud yn y maes hwn, yn cynnwys:

- Cyrff statudol eraill, yn cynnwys y gwasanaeth tân, Cyd-bwyllgor Addysg Cymru a chyrff addysg bellach ac addysg uwch;
- Sefydliadau sector gwirfoddol a sector annibynnol sy'n comisiynu neu'n darparu gwasanaethau perthnasol, yn cynnwys gwasanaethau eiriolaeth, i blant a phobl ifanc;
- y Gwasanaeth Mewnfudo;
- Gwasanaeth Cynnal Cenedlaethol i Geiswyr Lloches;
- y lluoedd arfog.

Statws a Chynnwys y Canllawiau hyn

Mae'r canllawiau wedi'u paratoi a'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Maent yn disodli *Gweithio gyda'n gilydd i Ddiogelu Plant: canllaw i weithio'n rhyngasiantaethol er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant*, a gyhoeddwyd yn 2000 a *Diogelu Plant: Cydweithio er Mwyn Sicrhau Canlyniadau Cadarnhaol*, a gyhoeddwyd yn 2004.

Mae canllawiau blaenorol eraill, *Diogelu Plant sy'n Ymwneud â Phuteindra* (2000) a *Diogelu Plant y mae Salwch yn cael ei Achosi neu'i Ffugio gan Ofalwyr* (2002) yn dal mewn grym.

Mae'r canllawiau'n adlewyrchu'r egwyddorion a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a gadarnhawyd gan Lywodraeth y DU ym 1991 ac yn ystyried y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, yn enwedig Erthyglau 6 ac 8. Maent yn ystyried y deddfwriaethau perthnasol eraill ar adeg y cyhoeddi, ond maent wedi'u seilio'n bennaf ar ofynion Deddf Plant 1989 a Deddf Plant 2004 sy'n darparu fframwaith cynhwysfawr ar gyfer gofalu am blant ac amddiffyn plant.

Cyhoeddir Penodau 1 a 2 a 4 i 10 y canllawiau hyn i awdurdodau lleol yng Nghymru o dan Adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970, sy'n gofyn i awdurdodau lleol weithredu o dan ganllawiau cyffredinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru wrth gyflawni eu dyletswyddau gwasanaethau cymdeithasol. Dylai awdurdodau lleol gydymffurfio wrth gyflawni eu gwaith gwasanaethau cymdeithasol oni bai bod amgylchiadau lleol yn nodi rhesymau eithriadol sy'n cyfiawnhau amrywiad.

Mae'r canllawiau ym Mhennod 2 yn nodi'r trefniadau, swyddogaethau a chyfrifoldebau allweddol ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles plant o dan adran 28 o Ddeddf Plant 2004, sy'n datgan bod:

"Each person and body to whom this section applies must make arrangements for ensuring that-

(a) their functions are discharged having regard to the need to safeguard and promote the welfare of children; and

(b) any services provided by another person pursuant to arrangements made by the person or body in the discharge of their functions are provided having regard to that need."

Caiff y canllawiau hyn eu cyhoeddi ar y cyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Ysgrifennydd Cartref. Mae hyn yn gofyn i bob person neu gorff y mae dyletswydd adran 28 yn berthnasol iddynt ystyried unrhyw ganllawiau a roddir iddynt at y diben hwn gan yr Ysgrifennydd Gwladol a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Golyga hyn fod yn rhaid iddynt ystyried y canllawiau ac, os ydynt yn penderfynu mynd ar drywydd arall, rhoi rhesymau clir dros wneud hynny.

Caiff Penodau 4 i 10 y canllawiau hyn eu cyhoeddi o dan Adran 34 o Ddeddf Plant 2004, sy'n gofyn i awdurdodau lleol yng Nghymru a phob un o'u partneriaid Bwrdd, wrth gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant, ystyried unrhyw ganllawiau a roddir iddynt at y diben hwnnw gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol. Golyga hyn fod yn rhaid iddynt ystyried y canllawiau ac, os ydynt yn penderfynu mynd ar drywydd arall, rhoi rhesymau clir dros wneud hynny.

Caiff Penodau 11 i 14 eu cyhoeddi fel canllawiau arfer da. Maent yn amlinellu arferion cyfredol ac yn amlygu rhai materion ymarfer y gallai Byrddau Diogelu eu hystyried, ond nid ydynt yn gosod unrhyw swyddogaethau neu ofynion ychwanegol ar Fyrddau uwchlaw'r hyn a nodwyd yng ngweddill y Canllawiau hyn.

Mae'r canllawiau hyn hefyd yn cynghori sefydliadau preifat a gwirfoddol sy'n dod i gysylltiad gyda phlant neu sy'n cynnig gwasanaethau i blant. Pan fo sefydliadau preifat neu wirfoddol wedi'u comisiynu i ddarparu gwasanaethau ar ran person neu gorff statudol yn adran 28(1) o Ddeddf Plant 2004, dylid gwneud trefniadau i alluogi'r person neu'r corff statudol i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn unol â'r canllawiau hyn.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i weithio gydag awdurdodau lleol, eu sefydliadau cynrychioli, a'u partneriaid wrth ddatblygu ymhellach bolisïau i sicrhau nad ydynt yn gosod baich newydd ar eu hadnoddau heb gymorth ariannol.

Diffiniadau a chysyniadau allweddol

Cam-drin: emosiynol	Trin plentyn yn wael yn emosiynol yn barhaus gan achosi effeithiau andwyol difrifol a pharhaus ar ddatblygiad emosiynol ac ymddygiadol y plentyn.
Cam-drin: esgeulustod	Gweler *Esgeulustod* isod.
Cam-drin: corfforol	Taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, tagu, neu achosi niwed corfforol fel arall i blentyn. Gall niwed corfforol gael ei achosi hefyd pan fo rhiant neu ofalwr yn ffugio neu'n achosi salwch mewn plentyn o dan eu gofal.
Cam-drin: rhywiol	Gorfodi neu hudo plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, waeth a yw'r plentyn yn ymwybodol o beth sy'n digwydd ai peidio, yn cynnwys: • cyswllt corfforol, yn cynnwys gweithredoedd treiddiol ac anhreiddiol; • gweithgareddau digyswllt fel cael plant i wylio deunydd pornograffig neu i fod yn rhan o ddeunydd pornograffig neu i wylio gweithgareddau rhywiol; neu • annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol amhriodol.
Plant mewn angen	Mae plentyn yn blentyn mewn angen os: • yw ef/hi yn annhebygol o gyflawni neu gynnal, neu gael y cyfle o gyflawni neu gynnal, safon iechyd neu ddatblygiad rhesymol heb gael gwasanaethau gan awdurdod lleol; • yw ei iechyd neu ei ddatblygiad yn debygol o gael ei niweidio'n sylweddol, neu ei niweidio ymhellach, heb gael gwasanaethau o'r fath; neu • os yw ef/hi yn anabl.
Amddiffyn plant	Mae **amddiffyn plant** yn rhan o drefniadau diogelu a hyrwyddo lles. Mae hyn yn cyfeirio at y gwaith sy'n cael ei gyflawni i amddiffyn plant penodol sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol o ganlyniad i gam-drin neu esgeulustod.
Plant	**Plentyn** yw unrhyw un o dan 18 oed. Mae 'plant' felly'n golygu 'plant a phobl ifanc' drwy'r ddogfen. Nid yw'r ffaith fod plentyn wedi cael ei ben-blwydd yn 16 oed, yn byw'n annibynnol neu mewn Addysg Bellach, neu'n aelod o'r lluoedd arfog, neu mewn ysbyty, carchar neu sefydliad troseddwyr ifanc yn newid ei statws na'i hawl i gael gwasanaethau neu i gael ei amddiffyn o dan Ddeddf Plant 1989.

‘Gwasanaethau cymdeithasol plant’ neu ‘wasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol’	Gwaith awdurdodau lleol wrth gyflawni eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â phlant. Nid yw oes bwriad i hyn awgrymu adran gwasanaethau cymdeithasol plant ar wahân.
Datblygiad	Datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol.
Niwed	Cam-drin neu amharu ar iechyd neu ddatblygiad, yn cynnwys, er enghraifft, nam a ddioddefwyd yn sgil gweld neu glywed rhywun arall yn cael ei gam-drin.
Iechyd	Iechyd corfforol neu feddyliol.
Awdurdod Lleol	Cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol.
Esgeulustod	Esgeuluso plentyn yn barhaus neu ddifrifol, neu fethu ag amddiffyn plentyn rhag bod yn agored i unrhyw fath o berygl, yn cynnwys oerfel, newyn neu fethiant difrifol i gyflawni agweddau pwysig ar ofal, gan arwain at niwed sylweddol i iechyd neu ddatblygiad y plentyn, yn cynnwys methiant anorganig i ffynnu.
Diogelu a hyrwyddo lles plant	• Amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin a’u hesgeuluso; • Atal niwed i’w hiechyd neu eu datblygiad; a • Sicrhau eu bod yn derbyn gofal diogel ac effeithiol; … er mwyn eu galluogi i gael y cyfleoedd bywyd gorau posibl.
Niwed sylweddol	Dywed Adran 31(10) o Ddeddf Plant 1989 "where the question of whether harm suffered by a child is significant turns on the child's health or development, his health or development shall be compared with that which could reasonably be expected of a similar child".
Lles	Nid oes diffiniad statudol. Cyflwynodd Deddf Plant 989 y rhestr wirio lles y mae’n rhaid i lys ei hystyried dan rai amgylchiadau. Dywed Deddf 1989 “a court shall have regard in particular to- • The ascertainable wishes and feelings of the child concerned (considered in the light of his age and understanding). • His physical, emotional and educational needs; • The likely effect on him of any change in his circumstance. • His age, sex, background and any characteristics of his which the court considers relevant.

	• Any harm which he has suffered or is at risk of suffering. • How capable each of his parents, and any other person in relation to whom the court considers the question to be relevant, is of meeting his needs. • The range of powers available to the court under this Act in the proceedings in question."

Crynodeb Gweithredol

Lles y plentyn sydd bwysicaf wrth ystyried lles a diogelwch. Mae diogelu plant yn gyfrifoldeb i bawb.

Mae'r ddogfen hon yn nodi sut ddylai sefydliadau ac unigolion gydweithio i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

Mae wedi'i chyfeirio at Brif Swyddogion, uwch reolwyr a rheolwyr gweithredol yn ogystal ag ymarferwyr a rheolwr rheng-flaen sydd â chyfrifoldebau arbennig am ddiogelu a hyrwyddo lles plant, mewn:

- Sefydliadau sy'n gyfrifol am gomisiynu neu ddarparu gwasanaethau i blant, pobl ifanc, ac oedolion sy'n rhieni/gofalwyr; a
- Sefydliadau sydd â chyfrifoldeb arbennig am ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi mabwysiadu saith Nod Craidd ar gyfer gweithio i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc:

- yn cael dechrau da mewn bywyd;
- yn cael amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu;
- yn mwynhau'r iechyd gorau posibl ac nad ydynt yn cael eu cam-drin, eu fictimeiddio na'u hecsbloetio;
- yn cael mynediad i weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol;
- yn cael eu clywed, eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod;
- yn cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol;
- yn osgoi cael eu rhoi dan anfantais oherwydd tlodi.

Mae'r nodau hyn hefyd wedi'u cynnwys yn y pum canlyniad allweddol ar gyfer gwella lles plant o adeg cenhedlu nes eu bod yn oedolion, sydd wedi'u nodi yn adran 25(2) o Ddeddf Plant 2004 [http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2004/40031--d.htm#25].

Mae patrymau bywyd teuluol yn amrywio ac nid oes un ffordd berffaith o fagu plant. Mae sgiliau rhianta da yn cynnwys gofalu am anghenion sylfaenol plant, rhoi cynhesrwydd a chariad iddynt a'r ysgogiad sydd ei angen ar gyfer eu datblygiad, mewn amgylchedd sefydlog sydd â chanllawiau a ffiniau cyson. Mae gan rieni, gofalwyr a theuluoedd swyddogaeth hanfodol yn y maes hwn a dylid eu hannog a'u cefnogi i hybu ymddygiad cadarnhaol gan eu plant.

Dylai pob rhiant – gyda chymorth teulu a ffrindiau, y gymuned ehangach a gwasanaethau statudol a gwirfoddol – sicrhau bod eu plant yn cael eu magu gyda digon o ofal, yn ddiogel rhag niwed a dylent hybu iechyd a datblygiad eu plant a'u helpu i gyflawni eu potensial.

Mae bod yn rhiant yn her. Yn aml, mae angen delio â blaenoriaethau sy'n cystadlu am sylw i sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd y cartref a gwaith yn ogystal â cheisio deall beth yw'r ffordd orau o ddiwallu anghenion plant ym mhob cam o'u datblygiad. Mae angen cymorth ar rieni ac maent yn ei haeddu. Dylai cais am gymorth gael ei weld fel arwydd o gyfrifoldeb yn hytrach na methiant fel rhiant.

Mae ystod eang o wasanaethau a gweithwyr proffesiynol yn darparu cymorth i deuluoedd fagu plant. Gall gwasanaethau statudol a gwirfoddol gynorthwyo teuluoedd: trwy helpu pob plentyn i wireddu ei botensial llawn – er enghraifft, trwy wasanaethau addysg ac iechyd cyffredinol; trwy ddarparu cymorth arbenigol i'r rhai sydd ei angen; a thrwy ddarparu cymorth, neu ymyrryd fel arall, ar adegau trallodus neu argyfyngus. Yn y mwyafrif llethol o achosion, y rhieni ddylai benderfynu pryd i ofyn am gymorth a chyngor ar ofal a magwraeth eu plant. Dim ond mewn achosion eithriadol y dylid ymyrryd yn orfodol ym mywyd y teulu: er enghraifft, pan fo angen gwneud hyn i ddiogelu plentyn rhag niwed sylweddol. Dylai ymyrraeth o'r fath – cyn belled ei fod yn gyson â diogelwch a lles y plentyn – gynorthwyo teuluoedd i wneud eu cynlluniau eu hunain ar gyfer lles ac er mwyn amddiffyn eu plant.

Mae gan rai plant anghenion arbennig, gan eu bod yn anabl, neu oherwydd bod angen gwasanaethau arbennig arnynt i gyflawni neu gynnal safon resymol o iechyd neu ddatblygiad, neu i atal niwed i'w datblygiad. Caiff y plant hyn eu disgrifio fel 'plant mewn angen' yn Neddf Plant 1989. Efallai bod angen gwahanol fathau o gymorth a gwasanaethau ychwanegol arnyn nhw a'u teuluoedd.

Gall rhai plant fod yn dioddef, neu fod mewn perygl o ddioddef, niwed sylweddol, naill ai o ganlyniad i weithred fwriadol, neu fethiant gan riant neu ofalwr i weithredu neu i ddarparu gofal, neu'r ddau. Efallai bod angen diogelu'r plant hyn rhag niwed, yn ogystal â diwallu eu hanghenion eraill.

Diogelu Plant

Dim ond pan fo pobl a chyrff allweddol yn cydweithio i gynllunio a darparu gwasanaethau mwy integredig o gwmpas anghenion plant a phobl ifanc y gellir sicrhau a chynnal canlyniadau gwell i blant. Mae angen i'r newid hwnnw gael ei arwain a'i reoli'n lleol a chael cefnogaeth genedlaethol.

Bydd hyn yn golygu cydweithio gwell rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid, a rhwng y partneriaid hynny a phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd a chymunedau. Y nod yw symud i sefyllfa, yn lleol a chenedlaethol, lle mae:

- lles plant a phobl ifanc yn ganolog i bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer plant a theuluoedd fel y nodwyd yn *Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau (2004),* sy'n ceisio sicrhau bod yr holl

bobl a'r cyrff allweddol yn gweithio mewn partneriaeth i gyflawni canlyniadau cyffredin;

- atebolrwydd cyffredinol clir gan wasanaethau;
- gwasanaethau lleol allweddol yn cael eu hintegreiddio, lle bo'n briodol, o gwmpas anghenion plant a phobl ifanc, a bod plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu a gwerthuso'r gwasanaethau a ddarperir ar eu cyfer;
- pobl a chyrff allweddol yn gweithio'n dda ar eu pen eu hunain a chyda'i gilydd trwy wasanaethau cyffredinol, wedi'u targedu ac arbenigol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant; a
- lle mae plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn derbyn cymorth effeithiol cyn gynted ag y gwelir bod anhawster.

Pennod 1: Y Fframwaith Deddfwriaethol

Mae'r Bennod hon yn rhoi amlinelliad bras o'r ddeddfwriaeth sy'n fwyaf perthnasol i waith diogelu a hyrwyddo lles plant. Mae'n cynnwys canllawiau ar:

- **Deddf Plant 1989**

  [http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1989/Ukpga_19890041_en_1.htm]
- **Deddf Addysg 1996**

  [http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1996/1996056.htm]
- **Deddf Tai 1996**

  [http://www.opsi.gov.uk/ACTS/acts1996/1996052.htm]
- **Deddf Trwyddedu 2003**

  [http://www.opsi.gov.uk/ACTS/acts2003/20030017.htm]
- **Deddf Tai 2004**

  [http://www.opsi.gov.uk/ACTS/acts2004/20040034.htm]
- **Deddf Plant 2004**

  [http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2004/20040031.htm]

Pennod 2: Swyddogaethau a Chyfrifoldebau o dan Adran 28 o Ddeddf Plant 2004

Mae Adran 28 o Ddeddf Plant 2004 yn gosod dyletswydd ar bobl a chyrff allweddol i wneud trefniadau i sicrhau eu bod yn cyflawni eu swyddogaethau mewn modd sy'n ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Y bobl a'r cyrff allweddol sydd wedi'u cwmpasu gan y ddyletswydd yw:

- awdurdodau lleol;
- yr heddlu;

- y gwasanaeth prawf;
- cyrff y GIG;
- Timau Troseddau Ieuenctid;
- Llywodraethwyr/Cyfarwyddwyr Carchardai a Sefydliadau Troseddau Ieuenctid;
- Cyfarwyddwyr Canolfannau Hyfforddi Diogel;
- Heddlu Trafnidiaeth Prydain.

Mae ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o swyddogaeth eraill yn hanfodol os yw asiantaethau ac ymarferwyr i gydweithio'n effeithiol. Mae'r Bennod hon, felly, yn amlinellu prif swyddogaethau a chyfrifoldebau diogelu plant asiantaethau. Dylid cydweithio yn yr holl elfennau o gynllunio, rheoli, comisiynu/darparu a chyflenwi gwasanaethau.

Wrth gyflawni eu dyletswydd statudol dylai asiantaethau:

- Sicrhau ymrwymiad uwch reolwyr i bwysigrwydd diogelu a hyrwyddo lles plant;
- Sicrhau bod yr asiantaeth yn cyflawni ei rhwymedigaethau o dan Ddeddf Plant 2004, yn enwedig pan fydd o dan ddyletswydd i:

  (a) gydgysylltu gydag awdurdodau lleol wrth wneud trefniadau ar gyfer gwella lles plant;

  (b) gweithio gydag asiantaethau partner i sefydlu Byrddau Lleol Diogelu Plant a sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol.
- Sicrhau bod yr asiantaeth yn dyrannu'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni ei rhwymedigaeth o dan Ddeddf Plant 2004;
- Datblygu datganiad ysgrifenedig clir o gyfrifoldebau'r asiantaeth tuag at blant sydd ar gael i bob gweithiwr cyflogedig a chleientiaid yr asiantaeth;
- Sefydlu a chynnal llinell atebolrwydd glir yn y sefydliad ar gyfer gwaith ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant;
- Datblygu'r gwasanaeth yn barhaus gan ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles a'i seilio ar sylwadau plant a theuluoedd lle bo'n briodol;
- Datblygu a darparu hyfforddiant a datblygiad parhaus ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant i bob gweithiwr cyflogedig sy'n gweithio gyda phlant neu eu teuluoedd neu sy'n dod i gysylltiad â nhw;
- Codi ymwybyddiaeth yr holl weithwyr cyflogedig o'u swyddogaeth i amddiffyn plant a'r cysylltiadau rhwng gwasanaethau i oedolion a gwasanaethau i blant a'u teuluoedd;
- Sicrhau bod gweithdrefnau recriwtio diogel ar waith;

- Sefydlu trefniadau cydweithio rhyngasiantaethol effeithiol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a chydweithredu â nhw; a
- Datblygu polisïau a phrotocolau effeithiol ar rannu gwybodaeth.

Dylid cydweithio yn yr holl elfennau o gynllunio, rheoli, comisiynu/darparu a chyflenwi gwasanaethau.

Pennod 3: Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Llywodraeth Cynulliad Cymru ac eraill

Mae Pennod 3 yn amlinellu prif swyddogaethau a chyfrifoldebau Llywodraeth Cynulliad Cymru ac asiantaethau eraill nad ydynt wedi'u cwmpasu gan adran 28 o Ddeddf Plant 2004, mewn perthynas â diogelu plant.

O fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae gan CAFCASS CYMRU ac Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru swyddogaeth i ddiogelu plant.

Gall sefydliadau statudol gefnogi gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan aelodau o'r gymuned hefyd, trwy gynnig mynediad i gyngor a hyfforddiant ar amddiffyn plant, ac ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

Rydym oll yn gyd-gyfrifol am ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc, boed fel rhiant neu aelod o deulu, ffrind neu gymydog, cyflogwr neu weithiwr cyflogedig neu wirfoddol. Gall aelodau o'r gymuned helpu i ddiogelu plant a phobl ifanc os ydynt yn ystyriol o'u hanghenion, ac yn barod ac yn abl i weithredu os oes ganddynt bryderon ynghylch lles plentyn.

Pennod 4: Byrddau Lleol Diogelu Plant

Mae Pennod 4 yn egluro swyddogaeth, cwmpas a gwaith Byrddau Lleol Diogelu Plant (BLIDPau).

Mae'r BLIDP yn fecanwaith statudol allweddol ar gyfer cytuno sut bydd sefydliadau perthnasol ym mhob ardal yn cydweithio er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant yn yr ardal honno, ac i sicrhau effeithiolrwydd eu gwaith.

Bydd BLIDP yn:

- cyflawni gweithgareddau sy'n diogelu plant ac yn ceisio nodi ac atal cam-drin ac esgeulustod, neu niwed i iechyd neu ddatblygiad, a sicrhau bod plant yn tyfu dan amgylchiadau sy'n gyson â gofal diogel ac effeithiol;
- arwain a chydgysylltu gwaith rhagweithiol sy'n ceisio targedu grwpiau penodol ac yn;
- arwain a chydgysylltu trefniadau ar gyfer gwaith ymatebol i amddiffyn plant sy'n cael, neu mewn perygl o gael, eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

Mae swyddogaethau craidd BLlDP wedi'u nodi yn Rheoliadau Byrddau Lleol Diogelu Plant (Cymru) 2006 sef:

- meithrin perthynas o gyd-ymddiried a chyd-ddealltwriaeth ymhlith y rhai a gynrychiolir ar y Bwrdd;
- codi ymwybyddiaeth o'r angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â sut y gellir cyflawni hynny;
- datblygu gweithdrefnau gyda'r diben o gydgysylltu gwaith ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant, gan gynnwys polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â:
  - (a) rhannu gwybodaeth;
  - (b) camau gweithredu, yn cynnwys trothwyon ar gyfer ymyrryd, i'w cyflawni pan mae yna bryderon am ddiogelwch nes les plentyn;
  - (c) recriwtio a goruchwylio pobl sy'n gweithio gyda phlant neu sy'n dod i gysylltiad rheolaidd â nhw;
  - (ch) diogelwch a lles plant sy'n cael eu maethu'n breifat.
- adolygu effeithlonrwydd y camau a gymerir gan bartneriaid y Bwrdd i gydgysylltu'r hyn a wnânt er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant ac i wneud unrhyw argymhellion y gwêl yn addas i'r personau neu'r cyrff hynny yng ngoleuni adolygiad o'r fath;
- cyflawni "adolygiadau achosion difrifol";
- monitro i ba raddau y cyflawnir neu y cyflawnwyd unrhyw argymhellion a wnaed mewn adolygiad neu adolygiad achos difrifol;
- datblygu meini prawf ar gyfer mesur perfformiad yr awdurdod gwasanaethau plant yn ôl y cynllun plant a phobl ifanc, lle bo'r cynllun yn ymwneud â diogelu a hyrwyddo lles plant;
- lledaenu gwybodaeth am ymarfer gorau wrth ddiogelu a hyrwyddo lles plant ymhlith y cyrff cynrychiadol a phersonau eraill;
- cynnal gwaith ymchwil i ddiogelu a hyrwyddo lles plant;
- adolygu anghenion hyfforddi pobl sy'n gweithio yn yr ardal gyda golwg ar glustnodi gweithgareddau hyfforddi i gynorthwyo gyda diogelu a hyrwyddo lles plant;
- darparu hyfforddiant gyda'r diben o gynorthwyo gyda diogelu a hyrwyddo lles plant;
- cydweithredu â Byrddau eraill (yng Nghymru neu Loegr) ac unrhyw gyrff tebyg yn yr Alban a Gogledd Iwerddon lle ystyria'r Bwrdd y byddai'n fuddiol i'r ddwy ochr wneud hynny; a
- cheisio cyngor neu wybodaeth lle ystyria'r Bwrdd y byddai'n ddymunol at ddibenion y swyddogaethau uchod.

Mae Deddf Plant 2004 yn gofyn i bob awdurdod lleol yng Nghymru sefydlu BLIDP, sy'n dwyn ynghyd gynrychiolwyr y prif asiantaethau a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gyfrifol am amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Mae'r Ddeddf yn nodi'r canlynol fel partneriaid mewn Byrddau Diogelu:

- yr awdurdod lleol;
- prif swyddog yr heddlu;
- y bwrdd prawf lleol;
- y tîm troseddau ieuenctid;
- y Bwrdd Iechyd Lleol;
- ymddiriedolaeth GIG sy'n darparu gwasanaethau yn ardal yr awdurdod;
- llywodraethwr neu gyfarwyddwr unrhyw ganolfan hyfforddi ddiogel yn yr ardal;
- llywodraethwr neu gyfarwyddwr unrhyw garchar yn yr ardal.

Bydd y partneriaid statudol hyn felly yn ffurfio aelodaeth graidd y BLIDP ac yn cymryd cyfrifoldeb arweiniol o ran eu swyddogaethau statudol o dan y Ddeddf.

Fodd bynnag, mae angen i'r Byrddau Diogelu fod yn gynhwysol a chynnwys cynrychiolwyr o blith partneriaid lleol. Mi ddylai CAFCASS Cymru, gyda'I cyfrifoldeb statudol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, gael eu cynnwys yn aelodaeth yr BLIDP. Mae yna amrywiaeth o asiantaethau eraill sydd â chyfraniad pwysig a gwerthfawr i'w wneud i'r gwaith o redeg BLIDP. Efallai na fydd gan y partneriaid statudol rai mathau penodol o arbenigedd sydd eu hangen ar y Bwrdd.

Dyma'r asiantaethau eraill sydd â budd perthnasol ond nad ydynt wedi'u henwi yn y Ddeddf (nid yw'r rhestr yn derfynol):

- NSPCC
- gwasanaeth y crwner
- Gwasanaeth Erlyn y Goron
- gwasanaethau camddefnyddio sylweddau
- sefydliadau addysg nad ydynt yn cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol
- cartrefi plant annibynnol
- cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau
- meddygon teulu
- asiantaethau gwirfoddol
- gwasanaethau cymorth i dystion.

Uwch-reolwyr gwahanol wasanaethau ac asiantaethau'r ardal yn cynnwys y sectorau annibynnol a gwirfoddol ddylai fod yn aelodau o'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant. Mae gan aelodau unigol BLIDP ddyletswydd fel aelodau i gyfrannu at waith effeithiol y BLIDP.

I weithio'n effeithiol, mae angen i'r BLIDP gael adnoddau digonol a dibynadwy gan y sefydliadau sy'n aelodau ohono. Dylid cytuno'n lleol ar gyllideb pob BLIDP a chyfraniad pob sefydliad.

Dylai BLIDP sicrhau bod ganddo drefniadau priodol ar gyfer ymwneud â Llywodraeth Cynulliad Cymru lle bo'n briodol. Yn arbennig, mae angen cael trefniadau i gynnwys Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru a CAFCASS CYMRU.

Bydd angen i'r BLIDP gynnwys y gymuned ehangach hefyd, gyda phlant a theuluoedd sy'n derbyn gwasanaethau diogelu.

Pennod 5: Strwythurau Cynllunio a Diogelu

Mae Pennod 5 yn mynd i'r afael â'r angen i sicrhau bod gan asiantaethau drefniadau a strwythurau i ddarparu dull cydgysylltiedig o gynllunio a chyflenwi gwasanaeth ar draws y Byrddau Diogelu, Partneriaethau Fframwaith, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a chyrff partneriaeth eraill. Mae'n awgrymu rhai templedi y gallai asiantaethau fod eisiau eu hystyried wrth gynllunio a chytuno ar eu trefniadau lleol eu hunain

Pennod 6: Effaith cam-drin ac esgeulustod

Mae'r bennod hon yn egluro beth a olygir wrth gam-drin ac esgeulustod; yn ystyried eu heffaith bosibl ar blentyn; ac yn trafod y cysyniad o niwed sylweddol.

Gall rhywun gam-drin neu esgeuluso plentyn drwy beri niwed, neu drwy fethu â gweithredu i atal niwed. Gall plentyn ddioddef camdriniaeth mewn teulu neu mewn lleoliad sefydliadol neu gymunedol; gan rywun y mae'n ei adnabod, neu'n fwy anarferol, gan ddieithryn.

Pennod 7: Egwyddorion gweithio gyda phlant a'u teuluoedd

Mae yna rai egwyddorion a ffyrdd o weithio cyffredin a ddylai fod yn sail i arfer pob asiantaeth a gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio i ddiogelu plant a hyrwyddo'u lles. Mae Pennod 7 yn nodi rhai o'r pwysicaf o'u plith, yn cynnwys:

- Gweithio mewn Partneriaeth â Phlant a Theuluoedd;
- Cynnwys Plant;
- Cynadleddau Grŵp Teuluol;
- Darparu Cymorth, Cyngor ac Eiriolaeth i Blant a Theuluoedd;
- Cydnabod a pharchu Amrywiaeth a Chydraddoldeb;
- Yr angen i waith ganolbwyntio ar y plentyn a bod yn seiliedig ar ddatblygiad plentyn;
- Adeiladu ar gryfderau yn ogystal â nodi anawsterau;
- Gweithio trwy ddull aml-asiantaeth/rhyngasiantaethol a'r;
- Angen i weithio ar draws Gwasanaethau Oedolion a Phlant.

Pennod 8: Ymdrin ag achosion unigol

Mae'r bennod hon yn rhoi cyngor ar yr hyn a ddylai ddigwydd os oes gan rywun bryderon ynglŷn â lles plentyn (gan gynnwys plant sy'n byw oddi cartref), ac yn enwedig pryderon bod plentyn yn cael, neu ei fod mewn perygl o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso. Nid rhoi canllawiau arfer manwl yw'r bwriad, ond yn hytrach amlinellu disgwyliadau clir ynglŷn â'r ffordd y dylai asiantaethau a gweithwyr proffesiynol weithio gyda'i gilydd i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

Mae'r bennod yn nodi manylion y prosesau i'w dilyn wrth ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ymateb i bryderon am les plentyn a gwneud atgyfeiriad i sefydliad statudol (gwasanaethau cymdeithasol plant, yr heddlu neu'r NSPCC) a all gymryd camau gweithredu i ddiogelu a hyrwyddo lles plant;
- gwneud asesiad cychwynnol o sefyllfa'r plentyn a phenderfynu beth i'w wneud nesaf;
- gweithredu ar frys i amddiffyn plentyn rhag niwed, os oes angen;
- cynnal trafodaeth strategaeth pan mae yna bryderon y gallai plentyn ddioddef niwed sylweddol, a threfnu cynhadledd ar amddiffyn plant lle bo'n briodol;
- penderfynu a yw plentyn mewn perygl parhaus o niwed sylweddol ac felly y dylai gael cynllun amddiffyn plentyn, rhoi'r cynllun ar waith a'i adolygu'n rheolaidd.

Pennod 9: Amddiffyn Plant o dan Amgylchiadau Penodol

Mae'r bennod hon yn amlinellu rhai ystyriaethau arbennig sy'n berthnasol wrth ddiogelu plant dan amrywiaeth o amgylchiadau penodol. Mae'n ychwanegu at, yn hytrach na chymryd lle Pennod 8, sy'n nodi'r fframwaith sylfaenol ar gyfer y camau gweithredu i'w cymryd dan unrhyw amgylchiadau pan fo gan riant, gweithiwr proffesiynol, neu unrhyw un arall bryderon am les plentyn.

Mae'n cwmpasu:

- Plant sy'n byw oddi cartref;
- Hil a Hiliaeth;
- Bwlio;
- Gofal Maeth yn cynnwys Maethu Preifat;
- Cam-drin sefydliadol neu Gam-drin Lluosog;
- Plant yn yr Ysbyty;
- Plant yn y Ddalfa;
- Plant Anabl;

- Cam-drin gan Blant a Phobl Ifanc;
- Diffyg Rheolaeth Rhieni;
- Cam-drin Domestig;
- Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant;
- Delweddau Cam-drin Plant, y Rhyngrwyd a Thechnoleg Gwybodaeth;
- Salwch Ffug neu Salwch Gwneud;
- Plant Rhieni sy'n Camddefnyddio Sylweddau;
- Cam-drin plant sy'n gysylltiedig â "meddiant" neu "ddewiniaeth", neu mewn ffyrdd eraill sy'n ymwneud â chredo ysbrydol neu grefyddol;
- Plant a Theuluoedd sy'n mynd ar goll;
- Plant sy'n derbyn gofal sy'n rhedeg i ffwrdd neu'n mynd ar goll o'u lleoliad gofal;
- Plant sy'n mynd ar goll o Addysg;
- Plant o Deuluoedd sy'n byw mewn llety dros dro;
- Plant Mudol;
- Plant sy'n dioddef masnachu mewn pobl;
- Plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches;
- Anffurfio Organau Rhywiol Merched;
- Priodasau Gorfod.

Pennod 10: Adolygu Achosion Difrifol

Mae Rheoliadau Byrddau Lleol Diogelu Plant (Cymru) 2006 yn mynnu bod Bwrdd Lleol Diogelu Plant yr ardal yn cynnal adolygiad achos difrifol pan fo'n gwybod am achos o gam-drin neu esgeuluso plentyn neu yn amau achos o'r fath, a:

- phan fo plentyn yn marw; neu
- pan fo plentyn yn dioddef anaf a allai fygwth ei fywyd neu amharu yn ddifrifol ac yn barhaol ar ei iechyd a'i ddatblygiad, neu pan fo wedi dioddef cam-drin rhywiol arbennig o ddifrifol.

Mae'n rhaid i LNSB yr ardal gynnal adolygiad difrifol.

Yn ogystal, dylai BLIDP gynnal adolygiad achos difrifol bob amser:

- pan fo plentyn yn cyflawni hunanladdiad;
- pan fo rhiant i blentyn yn cael ei lofruddio ac y cychwynnir adolygiad llofruddiaeth yn y cartref; neu
- pan fo plentyn yn cael ei ladd gan riant â salwch meddwl.

Gall Bwrdd hefyd gynnal adolygiad achos difrifol pan fo plentyn o fewn ei ardal yn dioddef niwed nad yw'n bodloni'r meini prawf uchod ond pan fo pryderon ynghylch, er enghraifft:

- y modd y mae gwahanol asiantaethau yn cydweithio; neu
- bolisïau neu weithdrefnau lleol.

Diben adolygiad achos difrifol yw cadarnhau pa un a oes gwersi i'w dysgu o ran y modd y dylai asiantaethau a gweithwyr proffesiynol lleol weithio gyda'i gilydd i ddiogelu plant. Nid oes fawr o werth i adolygiadau oni bai y dysgir gwersi ohonynt ac felly, dylid llunio a gweithredu cynllun gweithredu yn dilyn adolygiad achos difrifol.

Pennod 11: Hyfforddiant a Datblygiad Rhyngasiantaethol

Mae Pennod 11 yn ymwneud â hyfforddiant a datblygiad. Mae hyfforddiant ar gyfer gwaith rhyngasiantaethol yn golygu hyfforddiant a fydd yn galluogi pobl i weithio'n effeithiol gyda phobl o asiantaethau eraill.

Mae'n rhaid i bawb sy'n gweithio gyda phlant, a chydag oedolion sy'n rhieni neu'n ofalwyr, feddu ar yr wybodaeth a'r sgiliau i gyflawni'u swyddogaethau, er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys gallu adnabod a chodi pryderon ynglŷn â diogelu lles plentyn. Rhaid iddynt hefyd allu gweithio yn effeithiol ag eraill, o fewn eu hasiantaeth eu hunain yn ogystal ag mewn asiantaethau eraill. Y ffordd orau o sicrhau hyn fydd trwy gyfuniad o hyfforddiant ar gyfer asiantaethau unigol a hyfforddiant aml-asiantaeth.

Dylai'r BLlDP:

- sicrhau y caiff anghenion hyfforddiant eu nodi a'u diwallu yng nghyd-destun datblygiadau lleol a chenedlaethol mewn polisi ac arferion. Dylid gwneud hyn trwy gyfrwng system ffurfiol o nodi anghenion hyfforddiant, a systemau i werthuso'r hyfforddiant er mwyn gofalu ei fod yn diwallu anghenion lleol; a
- chynnwys hyfforddiant fel eitem reolaidd ar agenda'r BLlDP. Dylai'r Bwrdd roi ystyriaeth yn rheolaidd i ofalu: bod argymhellion a wneir mewn arolygiadau, archwiliadau ac adolygiadau achosion difrifol yn cael eu hadlewyrchu yng nghyfraniadau'r Bwrdd i hyfforddiant; bod hyfforddiant yn mynd i'r afael â blaenoriaethau a strategaethau cyfredol y Bwrdd; ac y trafodir ac y cytunir ar y cyfrifoldebau dros ddarparu hyfforddiant i asiantaethau unigol a hyfforddiant aml-asiantaeth.

Mae'r BLlDP, neu is-grŵp hyfforddiant yn gweithredu ar ei ran, yn gyfrifol am ddarganfod pa hyfforddiant sydd ei angen yn lleol, gofalu y darperir hyfforddiant priodol, a chadw golwg strategol dros hyfforddiant aml-asiantaeth, er mwyn hybu arferion effeithiol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

Pennod 12: Honiadau o Gam-drin neu Bryder ynghylch Rhywun sy'n Gweithio gyda Phlant

Gall plant gael eu cam-drin gan bobl sy'n gweithio gyda nhw mewn unrhyw leoliad. Rhaid rhoi sylw difrifol i bob achos o gam-drin neu honiad o gam-drin gan weithiwr proffesiynol, aelod staff, gofalwr maeth neu wirfoddolwr felly, ac ymdrin â'r mater yn unol â gweithdrefnau cyson.

Mae Byrddau Lleol Diogelu Plant yn gyfrifol am ofalu bod gweithdrefnau rhyngasiantaethol effeithiol wedi'u sefydlu ar gyfer ymdrin â honiadau yn erbyn pobl sy'n gweithio gyda phlant, ac am fonitro a gwerthuso pa mor effeithiol yw'r gweithdrefnau hyn.

Mae'r bennod hon felly yn nodi fframwaith ar gyfer rheoli achosion. Mae'r fframwaith yn berthnasol i ystod ehangach o honiadau na'r rhai hynny ble y ceir achos rhesymol i gredu bod plentyn yn dioddef, neu yn debygol o ddioddef, niwed sylweddol. Mae hefyd yn berthnasol i honiadau a allai awgrymu bod unigolyn yn anaddas i barhau i weithio gyda phlant yn ei swydd bresennol, neu mewn unrhyw swydd. Dylid ei ddefnyddio mewn perthynas â phob achos ble yr honnir bod rhywun sy'n gweithio gyda phlant wedi:

- ymddwyn mewn modd sydd wedi niweidio plentyn, neu a allai fod wedi niweidio plentyn;
- cyflawni trosedd, o bosibl, yn erbyn plentyn neu yn ymwneud â phlentyn; neu
- wedi ymddwyn tuag at blentyn neu blant mewn modd sy'n awgrymu ei fod ef neu hi yn anaddas i weithio gyda phlant.

Pennod 13: Rheoli pobl sy'n cyflwyno perygl o niwed i blant

Mae'r bennod hon yn rhoi canllawiau a gwybodaeth am yr amrywiaeth o fecanweithiau sydd ar gael wrth reoli pobl sydd wedi'u nodi fel rhai sy'n cyflwyno perygl neu berygl posibl o niwed i blant. Mae'n cynnwys meysydd megis:

- Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd;
- Datgymhwyso rhag Gweithio gyda Phlant o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000 (CJCSA), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003;
- Cofrestr Troseddwyr Treisgar a Throseddwyr Rhyw (ViSOR);
- Gorchmynion hysbysu a fwriadwyd i sicrhau y gall dinasyddion neu breswylwyr Prydain yn ogystal â phreswylwyr o dramor, fod yn destun gofynion hysbysu (ViSOR) yn y DU os ydynt yn cael euogfarn neu rybuddion am droseddau rhyw dramor;
- Gorchmynion Atal Troseddau Rhyw (SOPOs) a gyflwynwyd gan Ddeddf Troseddau Rhyw 2003;

- Gorchmynion Perygl o Niwed Rhywiol (RSHOs) a gyflwynwyd gan Ddeddf Troseddau Rhyw 2003;
- Rhestr Deddf Amddiffyn Plant; a
- Rhestr 99 yr Adran Addysg a Sgiliau.

Pennod 14: Rhannu Gwybodaeth

Mae'r bennod hon yn rhoi canllawiau ar rannu gwybodaeth am blant a phobl ifanc ac yn cwmpasu pob gwasanaeth yn cynnwys iechyd; addysg; blynyddoedd cynnar a gofal plant; gofal cymdeithasol; troseddau ieuenctid; yr heddlu; gwasanaethau cynghori a chymorth; a hamdden.

Mae'r canllawiau hyn wedi'u bwriadu ar gyfer pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn y gwasanaethau hyn, boed yn weithwyr cyflogedig neu'n wirfoddolwyr, ac yn gweithio yn y sectorau preifat, cyhoeddus neu wirfoddol. Maent yn cydnabod fod y rhan fwyaf o benderfyniadau i rannu gwybodaeth yn gofyn am farn broffesiynol, ac yn ceisio darparu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth y mae ymarferwyr eu hangen i wneud penderfyniadau. Maent yn cwmpasu'r prif resymau pam y byddai ymarferwyr am neu angen rhannu gwybodaeth:

- i helpu plant a phobl ifanc i gyflawni'r canlyniadau allweddol rydym am eu sicrhau i bawb: bod yn iach, cadw'n ddiogel, mwynhau a chyflawni, gwneud cyfraniad cadarnhaol, a chyflawni lles economaidd;
- diogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc trwy eu hamddiffyn rhag cael eu cam-drin, atal niwed i'w hiechyd neu ddatblygiad, neu sicrhau eu bod yn tyfu mewn amgylchiadau sy'n gyson â darparu gofal diogel ac effeithiol; ac
- atal plant a phobl ifanc rhag troseddu.

Mae'r canllawiau hefyd yn:

- nodi prif egwyddorion rhannu gwybodaeth;
- amlygu'r materion anodd y mae ymarferwyr yn eu hwynebu o bryd i'w gilydd wrth rannu gwybodaeth;
- nodi canllawiau craidd materion rhannu gwybodaeth i'r holl ymarferwyr;
- crynhoi arferion da o ran cynnwys plant, pobl ifanc a rhieni mewn trafodaethau ar rannu gwybodaeth;
- crynhoi'r pethau allweddol y dylai ymarferwyr wybod amdanynt mewn perthynas â Dyletswydd Hyder Cyfraith Gwlad, y Ddeddf Hawliau Dynol a'r Ddeddf Diogelu Data ac yn;
- darparu gwybodaeth bellach am y ddeddfwriaeth sy'n rhoi sail gyfreithiol i gasglu, defnyddio a rhannu gwybodaeth.

1: Y Fframwaith Deddfwriaethol

1.1 Mae'r Bennod hon yn nodi'r prif ddarpariaethau statudol sy'n cwmpasu gwaith Byrddau Lleol Diogelu Plant a swyddogaethau a chyfrifoldebau asiantaethau unigol.

Deddf Plant 1989
[http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1989/Ukpga_19890041_en_1.htm**]**

Diogelu a Hyrwyddo Lles plant

1.2 Mae Adran 17 Deddf Plant 1989 yn gosod dyletswydd gyffredinol ar bob awdurdod lleol:

- to safeguard and promote the welfare of children within their area who are in need; and
- so far as is consistent with that duty, to promote the upbringing of such children by their families, by providing a range and level of services appropriate to those children's needs.

Plant sy'n dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol

1.3 Pan fo awdurdod lleol –

- yn cael ei hysbysu bod plentyn sy'n byw, neu sydd yn ei ardal –
  - is the subject of an emergency protection order; or
  - is in police protection; or
- ag achos rhesymol i amau fod plentyn sy'n byw, neu sydd yn ei ardal yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol,

bydd yr awdurdod yn gwneud ymholiadau angenrheidiol, neu'n ysgogi ymholiadau angenrheidiol, i'w alluogi i benderfynu a ddylai gymryd unrhyw gam gweithredu pellach i ddiogelu neu hyrwyddo lles y plentyn (Deddf Plant 1989 a47(1)).

Y Ddyletswydd i gydweithio i ddiogelu a hyrwyddo lles plant

1.4 Mae Deddf Plant 1989 yn gosod dwy ddyletswydd benodol ar asiantaethau i gydweithio er lles plant agored i niwed:

1.5 Mae Adran 27 yn galluogi awdurdod lleol i ofyn am gymorth gan:

- unrhyw awdurdod lleol;
- unrhyw awdurdod addysg lleol;
- unrhyw awdurdod tai lleol;

- unrhyw awdurdod iechyd, Awdurdod Iechyd Arbennig neu Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol; ac
- unrhyw berson a awdurdodwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru
- wrth gyflawni swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan Ran III y Ddeddf.

1.6 Mae rhan hon y Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu cymorth a gwasanaethau i blant mewn angen, yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, a'r rhai mewn llety diogel. Mae gan y corff y gofynnir am ei gymorth yn yr amgylchiadau hyn ddyletswydd i gydymffurfio â'r cais, cyn belled ei fod yn gydnaws â'i ddyletswyddau a'i swyddogaethau eraill.

1.7 Mae Adran 47 yn gosod dyletswydd ar:

- unrhyw awdurdod lleol;
- unrhyw awdurdod addysg lleol;
- unrhyw awdurdod tai lleol;
- unrhyw awudrdod iechyd, Awdurdod Iechyd Arbennig neu Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol; ac
- unrhyw berson a awdurdodwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

i helpu awdurdod lleol gyda'i ymholiadau mewn achosion lle mae yna achos rhesymol i amau fod plentyn yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol.

Ystyr "niwed" ["harm" yn y Ddeddf]

1.8 Mae adran 31(9) o Ddeddf Plant 1989 yn diffinio "niwed" fel cam-drin neu amharu ar iechyd neu ddatblygiad. Mae'n golygu mwy na thrais corfforol ac yn cynnwys cam-drin rhywiol a mathau o gam-drin nad ydynt yn gorfforol. Mae unrhyw niwed mae plentyn yn ei ddioddef yn sgil rhywun yn aflonyddu neu'n bygwth ei riant yn dod o dan y diffiniad o "niwed". Mae Adran 120 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 yn diwygio'r diffiniad o niwed yn Neddf Plant 1989 i gam-drin neu amharu ar iechyd a datblygiad, yn cynnwys, er enghraifft, amharu yn sgil gweld neu glywed rhywun arall yn cael ei gam-drin. Mae'r diwygiad yn berthnasol i bob achos lle mae'r llys yn gweithredu'r 'rhestr wirio les' yn adran 1(3) o Ddeddf Plant 1989. Mae hyn yn cynnwys achosion i sicrhau cyswllt neu orchmynion preswyl.

Plant sy'n derbyn llety gan awdurdod iechyd neu awdurdod addysg lleol

1.9 O dan Adran 85, pan fo plentyn yn derbyn llety gan unrhyw awdurdod iechyd neu awdurdod addysg lleol ("yr awdurdod lletya" neu "the accommodation authority") –

- for a consecutive period of at least three months; or
- with the intention, on the part of that authority, of accommodating him for such a period,

the accommodating authority shall notify the responsible authority.

……the accommodating authority shall notify the responsible authority when they cease to accommodate the child.

…….. “the responsible authority” means-

- the local authority appearing to the accommodating authority to be the authority within whose area the child was ordinarily resident immediately before being accommodated; or
- where it appears to the accommodating authority that a child was not ordinarily resident within the area of any local authority, the local authority within whose area the accommodation is situated.

Where a local authority have been notified ……. they shall-

- take such steps as reasonably practicable to enable them to determine whether the child’s welfare is adequately safeguarded and promoted while he is accommodated by the accommodating authority; and
- consider the extent to which (if at all) they should exercise any of their functions under this Act with respect to the child.

Plant sy’n derbyn llety mewn cartref gofal preswyl, cartref nyrsio neu gartref nyrsio meddwl

1.10 Yn yr un modd, dyma a ddywed adran 86(1) o’r Ddeddf: where a child is provided with accommodation in any residential care home, nursing home or mental nursing home—

(a) for a consecutive period of at least three months; or

(b) with the intention, on the part of the person taking the decision to accommodate him, of accommodating him for such period,

(c) the person carrying on the home shall notify the local authority within whose area the home is carried on.

(2) Where subsection (1) applies with respect to a child, the person carrying on the home shall also notify that authority when he ceases to accommodate the child in the home.

(3) Where a local authority have been notified under this section, they shall—

(a) take such steps as are reasonably practicable to enable them to determine whether the child's welfare is adequately

safeguarded and promoted while he is accommodated in the home; and

(b) consider the extent to which (if at all) they should exercise any of their functions under this Act with respect to the child.

Plant sy'n derbyn llety mewn ysgol annibynnol

1.11 O ran lles plant sy'n derbyn llety mewn ysgolion annibynnol, dywed adran 87(1) o'r Ddeddf mai the duty of—

(a) the proprietor of any independent school which provides accommodation for any child; and

(b) any person who is not the proprietor of such a school but who is responsible for conducting it,

to safeguard and promote the child's welfare.

(2) Subsection (1) does not apply in relation to a school which is a children's home or a residential care home.

(3) Where accommodation is provided for a child by an independent school within the area of a local authority, the authority shall take such steps as are reasonably practicable to enable them to determine whether the child's welfare is adequately safeguarded and promoted while he is accommodated by the school.

Deddf Addysg 1996 [http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1996/1996056.htm]

Cyflogi plant

1.12 Mae swyddogaethau Awdurdodau Lleol yn ymwneud â chyflogi plant dan adran 559 o Ddeddf Addysg 1996 ac adran 18(2) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 yn swyddogaethau addysg. Mae Gwasanaeth Lles Addysg yr Awdurdod Lleol yn gyfrifol am weinyddu deddfwriaeth cyflogi plant, sydd wedi'i chynnwys mewn is-ddeddfau lleol ar hyn o bryd. Mae'n rhaid diogelu iechyd, addysg a lles pob plentyn sy'n cael trwydded waith neu drwydded berfformio. Mae gan gyflogwyr plant gyfrifoldeb hefyd i ddiogelu a hyrwyddo lles plant trwy wneud cais am drwydded gyflogaeth i'r awdurdod lleol.

Cyfleusterau gwasanaethau ieuenctid

1.13 Mae swyddogaethau'r awdurdod lleol mewn perthynas â darparu cyfleusterau gwasanaethau ieuenctid wedi'u nodi yn adran 508 o Ddeddf Addysg 1996.

Deddf Tai 1996 [http://www.opsi.gov.uk/ACTS/acts1996/1996052.htm]

1.14 Mae Adran 213A o Ddeddf Tai 1996 (a fewnosodwyd gan Ddeddf Digartrefedd 2002) yn sicrhau bod awdurdod tai yn cysylltu â gwasanaethau cymdeithasol (gyda chaniatâd) pan fo teulu gyda phlant yn anghymwys neu'n ddigartref yn fwriadol hy nid yw'r brif ddyletswydd digartrefedd yn berthnasol iddynt ac mae'r teulu am gael cymorth o dan Ran 3 o Ddeddf Plant 1989. Os gwrthodir caniatâd, gall yr awdurdod tai ddatgelu gwybodaeth am achos o ddigartrefedd i'r gwasanaethau cymdeithasol os yw neu y gallai'r plentyn fod mewn perygl o niwed sylweddol.

1.15 Mae Adran 213A hefyd yn sicrhau bod awdurdodau tai'n cydweithio gyda gwasanaethau cymdeithasol i ddarparu cyngor a chymorth fel sy'n rhesymol i helpu aelwydydd anghymwys neu aelwydydd sy'n ddigartref yn fwriadol gyda phlant i gael llety. Fodd bynnag, nid yw'r ddyletswydd yn ymestyn i ddarparu llety i'r teulu.

Deddf Addysg 2002
[http://www.opsi.gov.uk/ACTS/acts2002/20020032.htm]

1.16 Mae Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 yn gosod dyletswydd ar AALlau, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, a chyrff llywodraethau sefydliadau AB i wneud trefniadau mewn perthynas â lles plant. Mae'n rhaid i AALlau wneud trefniadau i sicrhau bod eu swyddogaethau fel AALl yn cael eu cyflawni mewn modd sy'n diogelu a hyrwyddo lles plant (hy pobl dan 18 oed). Yn yr un modd, mae'n rhaid i gyrff llywodraethu wneud trefniadau i sicrhau bod eu swyddogaethau o ran arwain yr ysgol, neu'r sefydliad, yn cael eu cyflawni mewn modd sy'n diogelu a hyrwyddo lles plant sy'n ddisgyblion yn yr ysgol, neu sy'n derbyn addysg neu hyfforddiant yn y sefydliad. Mae'n rhaid i bob corff dalu sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, yn Lloegr, neu'r Cynulliad Cenedlaethol yng Nghymru, wrth benderfynu pa drefniadau sy'n rhaid eu gwneud i gydymffurfio â'u dyletswydd.

Deddf Trwyddedu 2003
[http://www.opsi.gov.uk/ACTS/acts2003/20030017.htm]

1.17 Nod cyffredinol y Ddeddf Trwyddedu yw moderneiddio'r ddeddfwriaeth ar werthu a chyflenwi alcohol a thrwyddedu adloniant cyhoeddus. Roedd y Ddeddf yn trosglwyddo pwerau trwyddedu Gwirodydd o'r Llysoedd Ynadon i Awdurdodau Lleol, trwy greu 'Awdurdodau Trwyddedu'. Mae'n rhaid hysbysu nifer o 'awdurdodau cyfrifol' am bob amrywiad o ran trwydded a cheisiadau newydd. Mae'r awdurdodau cyfrifol hyn yn cynnwys yr heddlu a'r adran dân, yn ogystal â "*a body which represents those who, in relation to any area, are responsible for, or interested in, matters relating to the protection of children from harm, and is recognised by the licensing authority for that area for the purposes of this section as being competent to advise it on such*

matters." Yr ardaloedd eu hunain fydd yn penderfynu pwy fydd y corff hwn, y Bwrdd Lleol Diogelu Plant neu'r gwasanaethau cymdeithasol o bosibl.

Deddf Tai 2004 [http://www.opsi.gov.uk/ACTS/acts2004/20040034.htm]

1.18 Mae Rhan 1 o Ddeddf Tai 2004 yn rhoi pwerau a dyletswyddau i awdurdodau lleol gymryd camau yn erbyn amodau tai gwael, ac yn cyflwyno System Raddio Iechyd a Diogelwch Tai newydd i weithwyr iechyd yr amgylchedd awdurdodau ei defnyddio i asesu effaith peryglon iechyd a diogelwch yng ngoleuni'r defnyddwyr sydd fwyaf agored iddynt. Enghreifftiau yw lleithder a llwydni (y grŵp mwyaf agored i niwed yw plant dan 14 oed), problemau gyda chyfleusterau golchi, glanweithdra a draeniau (plant dan 5 oed) a chwympo rhwng lefelau (plant dan 2 oed). Mae'r system newydd yn disodli'r safon addasrwydd tai ac yn darparu dull gwrthrychol o asesu difrifoldeb peryglon a nodi'r camau adfer mwyaf priodol.

Deddf Plant 2004 [http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2004/20040031.htm]

1.19 Mae Deddf Plant 2004 yn adeiladu ar y fframwaith a nodwyd yn Neddf Plant 1989 mewn nifer o ffyrdd ac yn ei gryfhau. Mae nifer o ddarpariaethau Deddf 2004 yn ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â chyfrifoldebau asiantaethau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Mae'r rhain wedi'u nodi isod.

Adran 25: Cydweithio i wella lles

1.20 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel sail i'w holl waith gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae hawliau'r Confensiwn wedi'u troi'n saith Nod Craidd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio eu gweithredu, i sicrhau bod plant a phobl ifanc:

- yn cael dechrau da mewn bywyd;
- yn cael amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu;
- yn mwynhau'r iechyd gorau posibl ac nad ydynt yn cael eu cam-drin, eu fictimeiddio na'u hecsbloetio;
- yn cael mynediad i weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol;
- yn cael eu clywed, eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod;
- yn cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol;
- yn osgoi cael eu rhoi dan anfantais oherwydd tlodi.

1.21 Mae'r nodau hyn wedi'u hadlewyrchu yn adran 25 o Ddeddf Plant 2004 ac yn cryfhau'r trefniadau ar gyfer amddiffyn a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc. Am y tro cyntaf, mae'n gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru (y cyfeirir atynt fel awdurdodau gwasanaethau plant yn y Ddeddf) i wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithio gyda golwg ar wella lles plant yn eu hardal, o ran:

- Iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol;
- Amddiffyn rhag niwed ac esgeulustod;
- Addysg, hyfforddiant a hamdden;
- Eu cyfraniad i gymdeithas;
- Lles cymdeithasol ac economaidd.

1.22 Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, mae gofyn i awdurdod lleol hyrwyddo cydweithio rhyngddo ef a'i bartneriaid, sef:

- Awdurdod yr Heddlu a phrif swyddog yr heddlu ardal heddlu y mae unrhyw ran ohoni yn ardal yr awdurdod lleol;
- Bwrdd prawf lleol ardal y mae unrhyw ran ohoni yn ardal yr awdurdod;
- Tîm troseddau ieuenctid ardal y mae unrhyw ran ohoni yn ardal yr awdurdod;
- Bwrdd Iechyd Lleol ardal y mae unrhyw ran ohoni yn ardal yr awdurdod;
- Ymddiriedolaeth GIG sy'n darparu gwasanaethau yn ardal yr awdurdod; a
- Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant.

1.23 Mae'r partneriaid hyn hefyd yn cael eu gosod dan ddyletswydd statudol i gydweithio gyda'r awdurdod lleol i wneud y trefniadau hyn.

Adran 26: Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc

1.24 Mae Adran 26 yn darparu ar gyfer rheoliadau a fydd yn gofyn i awdurdodau lleol baratoi a chyhoeddi cynllun yn nodi eu strategaeth ar gyfer cyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc. Bydd y Cynllun Plant a Phobl Ifanc yn gynllun ar gyfer gwasanaethau plant lleol. Bydd yn cynnwys y trefniadau ar gyfer cydweithio sy'n ofynnol o dan Adran 25 a bydd yn gyson â chynlluniau strategol partneriaid lleol sydd wedi'u cwmpasu gan y ddyletswydd honno. Caiff ei baratoi drwy ymgynghori â phlant, pobl ifanc, gofalwyr a theuluoedd a phob sefydliad lleol perthnasol yn cynnwys Bwrdd Lleol Diogelu Plant.

1.25 Bydd Canllawiau Cynllunio'n cael eu cyhoeddi yn 2007 gyda'r cynlluniau cyntaf yn dechrau yn 2008.

Adran 27: Cyfrifoldeb am Swyddogaethau o dan adrannau 25 a 26

1.26 Mae'r Ddeddf yn gofyn i asiantaethau allweddol benodi uwch swyddogion gyda chyfrifoldeb am eu swyddogaethau o dan adrannau 25 a 26.

1.27 Mae gofyn i bob awdurdod lleol benodi Cyfarwyddwr Arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc a dynodi aelod arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc at ddibenion cydgysylltu a goruchwylio trefniadau o dan adrannau 25 a 26 y Ddeddf. Bydd y Cyfarwyddwr Arweiniol a'r Aelod Arweiniol yn darparu ffocws proffesiynol a gwleidyddol i wasanaethau plant. Mae ganddynt dair swyddogaeth:

- cyfrifoldeb i hyrwyddo gwaith partneriaeth yn gorfforaethol ledled yr awdurdod lleol ac, mewn cydnabyddiaeth o'i swyddogaeth arwain, rhwng yr awdurdod a'i bartneriaid;
- darparu arweiniad i sbarduno newid;
- sicrhau bod yr awdurdod lleol yn gweithredu hawliau plant a phobl ifanc.

1.28 Mae gofyn i Fyrddau Iechyd Lleol benodi Cyfarwyddwr Gweithredol ac Aelod Bwrdd penodol nad yw'n swyddog a bydd Ymddiriedolaethau GIG yn dynodi Swyddog Gweithredol Arweiniol a Chyfarwyddwr Anweithredol i gymryd cyfrifoldeb cyffredinol am eu trefniadau cydweithio yn y broses gynllunio partneriaeth, gan adlewyrchu'r un tair swyddogaeth.

Adran 28: Trefniadau Diogelu a Hyrwyddo lles

1.29 Mae Adran 28 o Ddeddf 2004 hefyd yn gofyn i'r canlynol wneud trefniadau ar gyfer sicrhau bod eu swyddogaethau'n cael eu cyflawni mewn perthynas â'r angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant:

- Awdurdod lleol;
- Bwrdd Iechyd Lleol;
- Ymddiriedolaeth GIG y mae eu holl neu'r rhan fwyaf o'u hysbytai, sefydliadau a chyfleusterau wedi'u lleoli yng Nghymru;
- Awdurdod heddlu a phrif swyddog heddlu ardal heddlu yng Nghymru;
- Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain, o ran cyflawni swyddogaethau mewn perthynas â Chymru;

- Bwrdd prawf lleol ar gyfer ardal o Gymru;
- Tîm troseddau ieuenctid ar gyfer ardal o Gymru;
- Llywodraethwr carchar neu ganolfan hyfforddi ddiogel yng Nghymru (neu, yn achos carchar neu ganolfan hyfforddi ddiogel dan gontract, ei g/chyfarwyddwr); ac
- Unrhyw berson sy'n darparu gwasanaethau mewn perthynas â'r trefniadau a wnaed gan awdurdod lleol yng Nghymru o dan adran 123(1)(b) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (c.21) (gwasanaethau cymorth ieuenctid).

Adran 29: Cronfeydd data gwybodaeth

1.30 Mae Adran 29 yn rhoi'r pŵer i'r Cynulliad sefydlu, neu ofyn i awdurdodau lleol sefydlu, cynnal a gweithredu cronfa ddata o wybodaeth sylfaenol am bob plentyn yn ardal yr awdurdod neu, os yw'r ddyletswydd i greu cronfa ddata neu gronfeydd data wedi'i gosod ar gorff arall, i fod yn rhan o'i weithrediad.

Adran 30: Archwilio swyddogaethau

1.31 Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth i swyddogaethau awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru gael eu harchwilio gan y Cynulliad.

Adrannau 31-34: Byrddau Lleol Diogelu Plant

1.32 O dan adran 31 o'r Ddeddf, mae Pwyllgorau Amddiffyn Plant Ardal yn cael eu disodli gan Fyrddau Lleol Diogelu Plant. Mae'r Ddeddf yn nodi bod y canlynol yn bartneriaid statudol awdurdod lleol sy'n rhaid eu cynrychioli ar bob Bwrdd Diogelu:

- Prif swyddog heddlu ardal heddlu y mae unrhyw ran ohoni yn ardal yr awdurdod lleol;
- Bwrdd prawf lleol ardal y mae unrhyw ran ohoni yn ardal yr awdurdod;
- Tîm troseddau ieuenctid ardal y mae unrhyw ran ohoni yn ardal yr awdurdod;
- Bwrdd Iechyd Lleol ardal y mae unrhyw ran ohoni yn ardal yr awdurdod;
- Ymddiriedolaeth GIG sy'n darparu gwasanaethau yn ardal yr awdurdod;
- Llywodraethwr unrhyw ganolfan hyfforddi ddiogel yn ardal yr awdurdod (neu, yn achos canolfan hyfforddi ddiogel y rhoddwyd contract iddo, ei chyfarwyddwr); a

- Llywodraethwr unrhyw garchar yn ardal yr awdurdod sy'n cadw plant fel rheol (neu, yn achos carchar y rhoddwyd contract iddo, ei gyfarwyddwr).

1.33 Mae Adran 32 y Ddeddf yn diffinio amcan Bwrdd Lleol Diogelu Plant fel a ganlyn:

- cydgysylltu'r hyn sy'n cael ei wneud gan bob person neu gorff a gynrychiolir ar y Bwrdd at ddibenion diogelu a hyrwyddo lles plant yn ardal yr awdurdod a'i sefydlodd; a
- sicrhau effeithiolrwydd yr hyn sy'n cael ei wneud gan berson neu gorff o'r fath at y dibenion hynny.

Tabl: Cyrff sy'n cael eu cwmpasu gan ddyletswyddau deddfwriaethol allweddol

	Deddf Plant 2004			Deddf Addysg 2002	Deddf Plant 1989	
	Adran 25 (dyletswydd i gydweithio)	Adran 28 (dyletswydd i ddiogelu a hyrwyddo lles	Adran 31 (partneriaid statudol BLIDP)	Adran 175 (dyletswydd i ddiogelu a hyrwyddo lles)	Adran 27 (cymorth gyda phlant mewn angen)	Adran 47 (cymorth gydag ymholiadau am niwed sylweddol
Awdurdod Lleol	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Awdurdod Heddlu	✓	✓				
Prif Swyddog Heddlu	✓	✓	✓			
Bwrdd Prawf Lleol	✓	✓	✓			
Tîm Troseddau Ieuenctid	✓	✓	✓			
Bwrdd Iechyd Lleol	✓	✓	✓		✓	✓
Ymddiriedolaeth GIG	✓	✓	✓		✓	✓
Heddlu Trafnidiaeth Prydain		✓				
Carchar neu Ganolfan Hyfforddi Ddiogel*		✓	✓			
Ysgolion a Gynhelir				✓		
Colegau AB				✓		
Ysgolion Annibynnol				✓		
Gwasanaethau Contract[+]		✓		✓		

*sy'n cadw plant

[+]o dan adran 28 o Ddeddf Plant 2004 mae'n rhaid i swyddogaethau a gyflawnir ar ran unrhyw un o'r asiantaethau statudol a enwir yn yr adran honno dan gontract neu gytundeb gwasanaeth ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

Deddfwriaeth arall y gall fod angen cyfeirio atynt:

Deddf Diogelu Data 1998
http://www.opsi.gov.uk/ACTS/acts1998/19980029.htm

Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998
http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1998/19980037.htm

Deddf Amddiffyn Plant 1999
http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1999/19990014.htm

Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000
http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2000/20000043.htm

Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003
http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2003/20030044.htm

Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2003
http://www.opsi.gov.uk/ACTS/acts2003/20030043.htm

2: Swyddogaethau a Chyfrifoldebau – Adran 28 o Ddeddf Plant 2004

Each person and body to whom this section applies must make arrangements for ensuring that:

(a) their functions are discharged having regard to the need to safeguard and promote the welfare of children; and

(b) any services provided by another person pursuant to arrangements made by the person or body in the discharge of their functions are provided having regard to that need.

(Section 28(2); Children Act 2004)

Y Ddyletswydd i Ddiogelu a Hyrwyddo Lles

2.1 Mae Adran 28 o Ddeddf Plant 2004 yn gosod dyletswydd ar bobl a chyrff allweddol i wneud trefniadau i sicrhau eu bod yn cyflawni eu swyddogaethau mewn modd sy'n ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant[1]. Mae'n anochel y bydd y defnydd o'r ddyletswydd hon yn amrywio yn ôl natur a swyddogaethau pob asiantaeth.

2.2 Y bobl a'r cyrff allweddol sydd wedi'u cwmpasu gan y ddyletswydd yw:

- awdurdodau lleol;
- yr heddlu;
- y gwasanaeth prawf;
- cyrff y GIG;
- Timau Troseddau Ieuenctid;
- Llywodraethwyr/Cyfarwyddwyr Carchardai a Sefydliadau Troseddau Ieuenctid;
- Cyfarwyddwyr Canolfannau Hyfforddi Diogel;
- Heddlu Trafnidiaeth Prydain.

2.3 Mae dyletswydd adran 28 yn golygu bod yn rhaid i'r bobl a'r cyrff allweddol hyn wneud trefniadau i sicrhau dau beth. Yn gyntaf, bod eu swyddogaethau'n cael eu cyflawni mewn modd sy'n ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, ac yn ail, bod y gwasanaethau maent yn eu rhoi dan gontract yn cael eu darparu yn yr un modd.

2.4 Nid yw'r ddyletswydd yn rhoi unrhyw swyddogaethau newydd i asiantaethau, nac yn disodli eu swyddogaethau cyfredol. Mae'n gofyn iddynt gyflawni eu swyddogaethau mewn modd sy'n ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

[1] Plant yw pawb o dan 18 oed.

2.5 Ar lefel sefydliadol neu strategol, y nodweddion allweddol yw:

- Sicrhau ymrwymiad uwch reolwyr i bwysigrwydd diogelu a hyrwyddo lles plant;
- Sicrhau bod yr asiantaeth yn cyflawni ei rhwymedigaethau o dan Ddeddf Plant 2004, yn enwedig pan fydd o dan ddyletswydd i;

  (a) gydgysylltu gydag awdurdodau lleol wrth wneud trefniadau ar gyfer gwella lles plant;

  (b) gweithio gydag asiantaethau partner i sefydlu Byrddau Lleol Diogelu Plant a sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol;

- Sicrhau bod yr asiantaeth yn dyrannu'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni ei rhwymedigaeth o dan Ddeddf Plant 2004;
- Datblygu datganiad ysgrifenedig clir o gyfrifoldebau'r asiantaeth tuag at blant sydd ar gael i bob gweithiwr cyflogedig a chleientiaid yr asiantaeth;
- Sefydlu a chynnal llinell atebolrwydd glir yn y sefydliad ar gyfer gwaith ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant;
- Datblygu'r gwasanaeth yn barhaus gan ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles a'i seilio ar sylwadau plant a theuluoedd lle bo'n briodol;
- Datblygu a darparu hyfforddiant a datblygiad parhaus ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant i bob gweithiwr cyflogedig sy'n gweithio gyda phlant neu eu teuluoedd neu sy'n dod i gysylltiad â nhw;
- Codi ymwybyddiaeth yr holl weithwyr cyflogedig o'u swyddogaeth i amddiffyn plant a'r cysylltiadau rhwng gwasanaethau i oedolion a gwasanaethau i blant a'u teuluoedd;
- Sicrhau bod gweithdrefnau recriwtio diogel ar waith;
- Sefydlu trefniadau cydweithio rhyngasiantaethol effeithiol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a chydweithredu â nhw; a
- Datblygu polisïau a phrotocolau effeithiol ar rannu gwybodaeth.

Fframwaith Ar Gyfer Gwneud Trefniadau Effeithiol I Ddiogelu A Hyrwyddo Lles Plant

2.6 Bydd gan bob asiantaeth gyfraniadau gwahanol i'w gwneud at ddiogelu a hyrwyddo lles plant yn dibynnu ar y swyddogaethau maent yn gyfrifol amdanynt. Er enghraifft, efallai mai prif gyfraniad rhai gwasanaethau fydd nodi a gweithredu ar eu pryderon am les plant a ddaw i gysylltiad â nhw, tra y bydd eraill yn ymwneud â chefnogi plentyn ar ôl i bryderon gael eu nodi. Bydd trefniadau effeithiol yn helpu asiantaethau i greu a chynnal diwylliant ac ethos sefydliadol sy'n adlewyrchu pwysigrwydd diogelu a hyrwyddo lles plant.

Trefniadau strategol a sefydliadol

Ymrwymiad uwch reolwyr i bwysigrwydd diogelu a hyrwyddo lles plant

2.7 Dylai prif swyddogion ac uwch reolwyr ddangos arweiniad, a bod ymwybodol o, a chymryd cyfrifoldeb am:

- bopeth a wna eu holl weithwyr cyflogedig; a
- threfnu adnoddau priodol i fodloni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau statudol.

2.8 Dylent nodi person penodol ar lefel uwch reolwyr i hyrwyddo pwysigrwydd diogelu a hyrwyddo lles plant ledled y sefydliad. Mae uwch reolwyr hefyd yn gyfrifol am fonitro popeth a wna eu gweithwyr cyflogedig i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu clywed a bod pryderon am eu lles eu hunain neu les unrhyw blentyn arall yn cael eu cymryd o ddifrif ac yn derbyn ymateb priodol.

Sicrhau bod yr asiantaeth yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan Ddeddf Plant 2004

2.9 Wrth gyflawni eu swyddogaeth statudol o dan adran 28 o Ddeddf Plant 2004, mae angen i asiantaethau weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, yn enwedig y rhai sy'n cael eu cwmpasu gan adran 28 y ddyletswydd. Mae'r Ddeddf Plant yn darparu dau ddull partneriaeth allweddol a fydd yn cyfrannu at sicrhau bod asiantaethau'n cyflawni dyletswydd adran 28: yn gyntaf, y ddyletswydd o dan adran 25 i asiantaethau gydweithio â'r awdurdod lleol i wneud trefniadau gyda golwg ar wella lles plant ac, yn ail, y ddyletswydd o dan adran 31 i asiantaethau partner gydweithio â'r awdurdod lleol i sefydlu a gweithredu Byrddau Lleol Diogelu Plant.

2.10 Dim ond os yw asiantaethau'n barod i ymrwymo i'r lefel briodol o amser ac adnoddau y gall trefniadau partneriaeth lwyddo. Mae adrannau 25(6) a 33(1) a (2) yn galluogi asiantaethau partner i wneud cyfraniadau (ariannol, neu drwy ddarparu staff, nwyddau, gwasanaethau, llety neu adnoddau eraill) at ddibenion Byrddau Diogelu neu i wneud trefniadau i wella lles.

2.11 Dylid penderfynu'n lleol ar y math a'r lefel o gyfraniad gan bob sefydliad partner. Fodd bynnag, mae angen i asiantaethau partner gydnabod bod ganddynt gyfrifoldeb ar y cyd i gyflawni'r dyletswyddau Deddf Plant hyn, yn cynnwys cyfrifoldeb ar y cyd i benderfynu sut bydd adnoddau angenrheidiol yn cael eu darparu ar lefel a fydd yn gallu cefnogi'r ddarpariaeth.

Datganiad clir o gyfrifoldebau'r asiantaeth tuag at blant sydd ar gael i bob gweithiwr cyflogedig

2.12 Dylai'r datganiad hwn gynnwys unrhyw blant sydd dan ofal yr asiantaeth, unrhyw blant mae'r asiantaeth yn gweithio'n uniongyrchol â nhw a'r rhai y mae'r asiantaeth neu ei chleientiaid yn dod i gysylltiad â nhw. Gall fod yn rhan o bolisi a/neu weithdrefnau cyfredol asiantaeth.

2.13 Dylid hysbysu pob gweithiwr cyflogedig o bolisïau a gweithdrefnau'r asiantaeth[2] ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phwysigrwydd gwrando ar blant a phobl ifanc, yn enwedig os ydynt yn mynegi pryderon am eu lles eu hunain neu les plant eraill.

2.14 Dylid cael systemau effeithiol i alluogi plant, gweithwyr cyflogedig a phobl eraill i wneud cwyn os ydynt yn pryderu na chymerwyd camau gweithredu i ddiogelu a hyrwyddo lles plentyn yn unol â gweithdrefnau'r asiantaeth.

Llinell atebolrwydd clir yn y sefydliad ar gyfer gwaith ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant

2.15 Dylai fod yn glir pwy sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am gyfraniad yr asiantaeth i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a beth yw'r llinellau atebolrwydd o bob gweithiwr cyflogedig i fyny trwy'r sefydliad i'r sawl sydd â'r cyfrifoldeb terfynol am les plant. Dylai fod yn glir hefyd gyda phwy ddylai pob gweithiwr cyflogedig drafod a mynegi unrhyw bryderon am les plant. Gall cyfrifoldebau am ddiogelu a hyrwyddo lles plant weithredu ar 4 lefel:

- unigol, y gellir ei gwmpasu o fewn disgrifiadau swydd;
- proffesiynol, sy'n cael ei reoli gan godau ymddygiad ar gyfer gwahanol ddisgyblaethau;
- sefydliadol, gyda llinellau atebolrwydd clir ledled y sefydliad i lefel uwch swyddogion;
- aml-asiantaeth, gyda llinellau atebolrwydd ar gyfer sut mae pobl a chyrff allweddol yn cydweithio i ddiogelu a hyrwyddo lles plant drwodd i'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant.

2.16 Dylai trefniadau arbennig gynnwys:

- sicrhau bod pob gweithiwr cyflogedig yn gwybod rhif cyswllt person i gysylltu ag ef/hi am gyngor neu i atgyfeirio os yw'n pryderu am les neu ddiogelwch plentyn – yn cynnwys y trefniadau ar gyfer gwasanaeth y tu allan i oriau;

[2] Mae asiantaethau Cymru i gyd wedi cymeradwyo Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

- rhoi cyfrifoldebau gweithwyr cyflogedig ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles plant yng nghynllun busnes pob tîm ac yn yr amcanion gwaith y cytunwyd arnynt ar gyfer gweithwyr unigol, lle bo'n briodol;
- meithrin diwylliant o weithredu agored a chyd-gyfathrebu lle mae gweithwyr cyflogedig yn cael eu hannog i fynegi pryderon yn ddi-oed am les plentyn.

Dylai'r gwaith o ddatblygu'r gwasanaeth ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles a dylid ei seilio ar sylwadau plant a theuluoedd, lle bo'n briodol

2.17 Wrth ddatblygu gwasanaethau lleol, dylai'r rhai sy'n gyfrifol ystyried sut bydd y gwaith o ddarparu'r gwasanaethau hyn yn ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Dylai prosesau cynllunio lleol ganolbwyntio i raddau helaeth ar sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn atal plant rhag niwed ac yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc yn eu hardal. Bydd hyn yn cynnwys y trefniadau ar gyfer cynlluniau Plant a Phobl Ifanc a chynlluniau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol.

2.18 Dylai asiantaethau sicrhau bod y gwaith o gynllunio a datblygu gwasanaethau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant yn seiliedig ar sylwadau plant a rhieni, er enghraifft, trwy eu cynnwys mewn trafodaethau am ble i leoli gwasanaeth fel ei fod yn hygyrch (yn dibynnu ar brif swyddogaethau'r asiantaeth) neu sut i'w ddatblygu fel bod lles plant yn cael e'i ddiogelu a'i hybu. Gellir cynnwys plant a theuluoedd drwy ymgynghoriadau unigol ar brosiectau penodol, ymgynghori parhaus â grwpiau defnyddwyr neu ddefnyddio adborth am wasanaethau cyfredol.

2.19 Dylid gwneud ymdrech arbennig i sicrhau bod grwpiau penodol o blant a phobl ifanc sy'n cael eu heithrio o weithgareddau cymryd rhan yn aml yn cael eu cefnogi i leisio'u barn, er enghraifft, plant anabl a phlant sy'n derbyn gofal. Dylid gofyn am safbwyntiau a sylwadau plant ifanc iawn hefyd mewn ffyrdd sy'n briodol i'w hoed a'u dealltwriaeth.

2.20 Yn ogystal, wrth gyflawni eu dyletswydd o dan Adran 28 o Ddeddf Plant 2004, dylai asiantaethau ystyried:

- effaith pob gwasanaeth ar ddiogelwch a lles plant. Er enghraifft, a yw lleoliad y gwasanaeth yn golygu bod y plant a'r teuluoedd a dargedir yn gallu ei gyrraedd yn hawdd a diogel?
- sut bydd plant yn cael eu cadw'n ddiogel wrth ddefnyddio gwasanaethau, er enghraifft, goruchwyliaeth briodol gan weithwyr cyflogedig hyfforddedig;
- dulliau o wella gwasanaethau cyfredol i sicrhau diogelwch plant a hybu eu lles, er enghraifft, dylai awdurdodau lleol sicrhau bod eu holl ardaloedd chwarae yn ddiogel, yn hygyrch a'u bod yn darparu

cyfleoedd i blant ddysgu a mwynhau eu hunain. Dylid sicrhau hefyd bod y newidiadau hyn yn cael eu seilio ar sylwadau plant lleol a'u rhieni.

Darparu hyfforddiant ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant i bob gweithiwr cyflogedig sy'n gweithio gyda phlant neu eu teuluoedd (yn dibynnu ar brif swyddogaethau'r asiantaeth) neu sy'n dod i gysylltiad â nhw

2.21 Dylai gweithwyr cyflogedig ddeall eu swyddogaeth a'u cyfrifoldebau, a rhai gweithwyr proffesiynol a sefydliadau eraill. Mae hyn yn hanfodol os yw asiantaethau i gydweithio'n effeithiol. Caiff asiantaethau eu hannog, lle bo'n briodol, i alluogi eu gweithwyr cyflogedig i gymryd rhan mewn hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu'n rhyngasiantaethol yn ogystal â hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu gan asiantaethau unigol.

2.22 Wrth gyflawni'r ddyletswydd i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, mae angen i asiantaethau sicrhau bod:

- yr holl weithwyr cyflogedig sy'n gweithio, neu sy'n dod i gysylltiad â phlant a theuluoedd yn derbyn hyfforddiant perthnasol rheolaidd sydd wedi'i deilwra i'w swyddogaethau unigol;
- uwch weithwyr cyflogedig yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau i ofynion statudol a dulliau newydd o weithio gyda phlant a theuluoedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth fel bod yr wybodaeth berthnasol yn cael ei throsglwyddo i'r rhai ar y rheng flaen;
- hyfforddiant ar gyfer gweithwyr cyflogedig sy'n gweithio, neu'n dod i gysylltiad â phlant a theuluoedd neu gydag oedolion sy'n achosi perygl posibl i blant yn cael ei ddarparu gan asiantaethau unigol ac yn rhyngasiantaethol;
- y gweithwyr cyflogedig hyn yn cael mynediad i'r canllawiau hyn a'u hyfforddi i'w weithredu'n effeithiol;
- gweithwyr cyflogedig yn deall eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau a rhai gweithwyr proffesiynol a sefydliadau eraill o ran diogelu a hyrwyddo lles plant;
- gweithwyr cyflogedig yn ymwybodol o faterion amrywiaeth, yn cynnwys hil, diwylliant ac anabledd, a'r effaith maent yn ei gael ar fywyd y teulu.

2.23 Disgwylir y bydd yr awdurdod lleol, drwy'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant (BLIDP), yn cymryd yr arweiniad i sicrhau bod gan asiantaethau partner strategaeth hyfforddi gynhwysfawr ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles plant. Bydd y BLIDP hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod asiantaethau partner yn cydymffurfio â'i strategaeth hyfforddi.

Recriwtio diogel

2.24 Dylid cael gweithdrefnau recriwtio a fetio cadarn i helpu i atal pobl anaddas rhag gweithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â phlant. Mae cynnal archwiliadau trylwyr ar bob darpar weithiwr cyflogedig fel rhan o'r broses recriwtio, a chael geirda yn allweddol yn hyn o beth. Mae'n rhaid i bobl sy'n gyfrifol am recriwtio gweithwyr cyflogedig i weithio gyda phlant a'u teuluoedd dderbyn hyfforddiant priodol. Pan fo adolygiad o gofnod troseddol yn amod gorfodol i gael swydd, mae'n rhaid ei gwblhau fel mater o drefn a'i ailadrodd yn rheolaidd, o fewn tair blynedd o leiaf, gydol cyfnod y swydd. Lle bo'n briodol, gofynnir am Ddatgeliad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol http://www.crb.gov.uk/ ac unrhyw wiriadau angenrheidiol o restr POCA ar Restr 99.

2.25 Dylai pob asiantaeth a sefydliad sydd â staff, gwirfoddolwyr neu ofalwyr maeth yn gweithio'n agos gyda phlant fod â pholisïau a gweithdrefnau i atal pobl sy'n anaddas rhag gweithio gyda phlant. Dylai'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn gynnwys y nodweddion canlynol:

- archwilio gwybodaeth sy'n cael ei rhoi gan ymgeiswyr a chanolwyr;
- datrys unrhyw anghysondebau;
- cynnal gwiriad adnabod a gwirio unrhyw gymwysterau academaidd neu alwedigaethol;
- cael geirda proffesiynol annibynnol a geirda cymeriad;
- cael hanes cyflogaeth llawn darpar aelodau staff (yn cynnwys gwirfoddolwyr a gofalwyr maeth) a chadw'r hawl i ymgynghori â chyflogwr blaenorol; holi cyn-gyflogwyr pam y daeth cyflogaeth flaenorol i ben;
- nodi unrhyw fylchau neu anghysondebau a gofyn am esboniad;
- sicrhau bod unigolyn yn ddigon iach a bod ganddo'r gallu corfforol i gyflawni'r swydd;
- cynnal cyfweliad wyneb-yn-wyneb i asesu addasrwydd yr ymgeisydd i weithio gyda phlant yn ogystal â'i addasrwydd ar gyfer y swydd;
- cael datgeliad priodol gan wasanaeth Datgeliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol [http://www.disclosure.gov.uk/], a ddylai gynnwys gwiriad o Restr 99 yr Adran Addysg a Sgiliau a Rhestr y Ddeddf Amddiffyn Plant;
- gwirio cofrestri proffesiynol, os yn berthnasol;
- penodi gweithwyr ar ôl cael tystlythyron a'u gwirio. Dylid atgoffa canolwyr na ddylai geirda gynnwys unrhyw gamddatganiad perthnasol neu hepgor gwybodaeth sy'n berthnasol i addasrwydd yr ymgeisydd; a
- gwneud pob swydd sy'n cynnwys gweithio gyda phlant (yn cynnwys trosglwyddiadau mewnol) yn amodol ar gyfnod prawf.

2.26 Dylai cyfwelwyr fod yn barod i archwilio agweddau ymgeiswyr tuag at blant a gofal plant, eu canfyddiadau am ffiniau ymddygiad derbyniol tuag at blant, a chwestiynau am ffiniau ac agweddau rhywiol.

2.27 Ni all y broses ddethol fwyaf gofalus hyd yn oed ddod o hyd i bawb a allai achosi perygl i blant. Dylai rheolwyr a goruchwylwyr ôl-gyflogaeth fod yn effro bob amser i ddangosyddion ymddygiad amhriodol.

2.28 Mae'r un mor bwysig bod gan asiantaethau weithdrefnau clir i ymateb i gyhuddiadau bod gweithwyr cyflogedig neu ofalwyr maeth wedi cam-drin plant a bod prosesau disgyblu'n cael eu gweithredu yn unol â chynllun rhyngasiantaethol y cytunwyd arno sy'n cynnwys cytundeb i ymdrin ag ymholiadau adran 47 am niwed posibll i blentyn ac unrhyw ymchwiliadau troseddol sy'n digwydd yr un pryd.

Trefniadau cydweithio rhyngasiantaethol effeithiol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant

2.29 Mae asiantaethau a gweithwyr cyflogedig unigol yn cydweithio i ddiogelu a hyrwyddo lles plant yn cael effaith sylweddol ar ganlyniadau gwell i blant a phobl ifanc dan 18 oed. Dylai'r broses o rannu gwybodaeth a'r berthynas adeiladol rhwng gweithwyr cyflogedig unigol ac aelodau o dimau gael ei chefnogi gan arweiniad cryf yr aelod arweiniol ar gyfer y gwasanaethau plant a phobl ifanc, a chyfarwyddwr arweiniol y gwasanaethau plant a phobl ifanc ac ymrwymiad yr holl brif swyddogion. Dylai'r gwaith effeithiol hwn gael ei wneud ar lefel strategol a lefel plentyn unigol.

2.30 Mae'n rhaid cyflawni unrhyw waith rhyngasiantaethol yn unol â chanllawiau'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant mewn perthynas â diogelu plant; neu yn unol â'r polisi y cytunwyd arno gyda'r Bwrdd lleol i bob carchar yn achos y Gwasanaeth Carchardai. Dylai canllawiau'r BLIDP fod yn gyson â'r canllawiau hyn a'r *Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd* (2001).

2.31 Yn ogystal, bydd y Fframwaith Asesu Cyffredin (www.cafwales.co.uk) ar gael i'w ddefnyddio'n fuan yn y broses i nodi plant a fyddai'n elwa ar wasanaethau ychwanegol ac i benderfynu pa weithwyr proffesiynol/asiantaethau a fyddai yn y sefyllfa orau i ddarparu'r gwasanaethau hyn.

Rhannu gwybodaeth

2.32 Mae gallu gweithwyr proffesiynol i rannu gwybodaeth yn effeithiol yn allweddol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Mae'r rhannu gwybodaeth hwn yn gyfraniad pwysig at y symud sydd i fynd i'r afael ag anghenion plant yn fuan yn hytrach nag aros tan i broblemau difrifol godi eu pen.

2.33 Dylai hefyd gynnwys cael systemau, safonau a phrotocolau ar waith i rannu gwybodaeth am blentyn a'i deulu yn yr asiantaeth a rhwng

asiantaethau. Dylai'r protocolau hyn gydymffurfio ag unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

2.34 Dylai pawb sy'n dod i gysylltiad â phlant neu oedolion drwy eu gwaith neu sy'n gweithio gydag oedolion sy'n achosi perygl posibl i blant ddeall diben rhannu gwybodaeth er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant. Mae angen iddynt fod yn hyderus am beth y gallant ei wneud ac y dylent ei wneud o dan y gyfraith, gan wybod sut i gael caniatâd i rannu gwybodaeth, a phryd gellir rhannu gwybodaeth pan na chafwyd caniatâd neu pryd y byddai gofyn am ganiatâd yn gosod y plentyn mewn mwy o berygl o niwed.

2.35 Er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant, dylai trefniadau sicrhau bod:

- pob gweithiwr cyflogedig a ddaw i gysylltiad â phlant neu gydag oedolion sy'n achosi perygl posibl i blant yn deall beth i'w wneud a'r dulliau mwyaf effeithiol o rannu gwybodaeth os ydynt yn credu bod angen gwasanaethau arbenigol neu wedi'u targedu o bosibl ar blentyn a theulu er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau;
- pob gweithiwr cyflogedig a ddaw i gysylltiad â phlant neu gydag oedolion sy'n achosi perygl posibl i blant yn deall beth i'w wneud a phryd i rannu gwybodaeth os ydynt yn credu y gallai plentyn fod mewn angen, yn cynnwys plant sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed;
- canllawiau asiantaeth-benodol priodol yn cael eu cynhyrchu i ategu canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru, a bod canllawiau o'r fath a hyfforddiant priodol yn cael eu darparu i weithwyr cyflogedig cyfredol a newydd fel rhan o'u trefniadau ymsefydlu;
- canllawiau a hyfforddiant yn cwmpasu'r broses o rannu gwybodaeth rhwng gwahanol broffesiynau, sefydliadau ac asiantaethau, yn ogystal ag o'u mewn, a bod trefniadau hyfforddiant yn ystyried gwerth hyfforddiant aml-asiantaeth yn ogystal â hyfforddiant asiantaethau unigol.

Monitro Ac Archwilio Trefniadau Diogelu A Hyrwyddo Lles

2.36 Bydd cyfrifoldebau asiantaethau am ddiogelu a hyrwyddo lles plant, yn cynnwys y trefniadau maent yn eu gwneud o dan adran 28, yn cael eu monitro gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant (BLlDP). Mae Adran 31 Deddf Plant 2004 yn gofyn i awdurdodau gwasanaethau plant sefydlu BLlDP sy'n cynnwys partneriaid allweddol lleol (hy y rhai yn adran 31(3) y Ddeddf).

2.37 Yn ogystal, bydd trefniadau asiantaethau ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles plant a gweithgareddau'r BLlDP yn cael eu hasesu gan yr arolygiaethau perthnasol. Mae'r cyrff adolygu allanol sy'n arolygu, rheoleiddio ac archwilio iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru wedi datblygu cyfres o egwyddorion ac arferion (concordat) y cytunwyd arni i

gefnogi'r broses o wella gwasanaethau i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

2.38 Mae arolygiaethau gwasanaethau llywodraeth leol yn cydweithio o dan raglen gwella Cymru. Bydd arolygu gwasanaethau yn darparu asesiad annibynnol o ymdrechion y gwahanol sefydliadau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, gan alluogi arolygiaethau i ddwyn ynghyd dystiolaeth arolygu berthnasol a gwerthuso i ba raddau mae'r Byrddau Lleol Diogelu Plant yn cyfrannu at wella lles plant a phobl ifanc mewn ardal awdurdod lleol.

Trefniadau I Ddiogelu A Hyrwyddo Lles Plant Mewn Gwahanol Asiantaethau

Awdurdodau Lleol

Ymrwymiad ac atebolrwydd uwch reolwyr

2.39 Mae gofyn i awdurdodau lleol benodi cyfarwyddwr arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc (adran 27(1)(a) o'r Ddeddf) a dynodi aelod arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc (adran 27(1)(b)).

Swyddogaeth y Cyfarwyddwr Arweiniol

2.40 Nid yw swyddogaeth y Cyfarwyddwr Arweiniol yng Nghymru yn newid trefniadau ar gyfer awdurdod gweithredol neu atebolrwydd dros wasanaethau, yn wahanol i Gyfarwyddwr Gwasanaethau Plant yn Lloegr. Bydd gan Gyfarwyddwyr Arweiniol Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc dair swyddogaeth allweddol. Yn bennaf, byddant yn gyfrifol am hyrwyddo partneriaeth wrth gynllunio ar gyfer plant a phobl ifanc, yn gorfforaethol ar draws adrannau awdurdod lleol ac, yn rhinwedd ei swyddogaeth arwain, ar draws yr awdurdod a'i bartneriaid. Mae'r cyfrifoldeb yn annibynnol ar, ac yn ychwanegol at unrhyw gyfrifoldeb gweithredol sydd gan gyfarwyddwr arweiniol am wasanaeth arbennig neu grŵp o wasanaethau. Mae'n canolbwyntio ar alluogi trefniadau cydweithio.

2.41 Yn ail, bydd Cyfarwyddwyr Arweiniol yn darparu'r arweiniad sydd ei angen i sicrhau bod cynllunio partneriaeth yn cael y sylw dyledus gan yr awdurdod lleol ac yn hyrwyddo newid strategol i blant a phobl ifanc yn yr ardal. Bydd hyn yn cynnwys hyrwyddo'r angen am rannu gwybodaeth am gynllunio a gwneud penderfyniadau mewn awyrgylch adeiladol a chydweithredol. Bydd y Cyfarwyddwr Arweiniol hefyd yn ceisio sicrhau bod gan bartneriaethau drefniadau llywodraethu clir a'u bod yn canolbwyntio ar fesurau canlyniad wrth gynllunio ac asesu perfformiad yn rheolaidd, er mwyn eu galluogi i fesur eu heffeithiolrwydd. Bydd Cyfarwyddwyr Arweiniol yn gyfrifol am sicrhau bod y trefniadau ar gyfer llywodraethu partneriaeth yn cael eu cytuno

a'u hadolygu'n flynyddol, gan ddefnyddio dull Hunanasesu Partneriaeth Nuffield neu ddull tebyg. Byddant hefyd yn gyfrifol am gwblhau Dull Hunanasesu yr NSF ar gyfer Gwasanaethau Plant, Pobl Ifanc a Mamolaeth sy'n mesur gwelliannau mewn safonau gwasanaethau.

2.42 Yn drydydd, bydd y Cyfarwyddwyr Arweiniol yn gyfrifol am sicrhau bod yr awdurdod lleol yn gweithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Bydd y cyfrifoldeb hwn yn cynnwys sicrhau bod plant a phobl ifanc, a theuluoedd yn cymryd rhan yn y gwaith o baratoi ac adolygu'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc (CPPhI), bod eu safbwyntiau'n cael eu cynrychioli'n effeithiol a bod materion a godwyd ganddynt yn derbyn ymateb.

2.43 Bydd y Cyfarwyddwr Arweiniol yn atebol i'r Prif Weithredwr am gyflawni'r tasgau a bennwyd, ac felly i aelodau gweithrediaeth, a phwyllgorau trosolwg a chraffu'r awdurdod.

2.44 Rhaid i Gyfarwyddwyr Arweiniol fod yn uwch swyddogion sydd â'r awdurdod angenrheidiol i arwain proses o newid a fydd yn effeithio ar ddealltwriaeth ac agwedd eu cymheiriaid at weithio mewn partneriaeth. Mae gan yr agweddau hyn bwysigrwydd ychwanegol o ystyried safle arweiniol awdurdodau lleol mewn hyrwyddo partneriaeth.

Swyddogaeth yr Aelod Arweiniol

2.45 Mae swyddogaeth yr Aelod Arweiniol yn adlewyrchu swyddogaeth y Cyfarwyddwr Arweiniol ar lefel wleidyddol. Bydd yr Aelod Arweiniol yn gyfrifol, o fewn y broses wleidyddol, am hyrwyddo swyddogaeth arweiniol yr awdurdod i alluogi gwaith partneriaeth, gan sicrhau bod prosesau gwneud penderfyniadau yn rhoi sylw dyledus i'r angen am gydweithio rhwng partneriaid. Dylai yr Aelod Arweiniol hyrwyddo cydweithio effeithiol ac yn rhannu'r cyfrifoldeb am sicrhau bod blaenoriaeth ddyledus yn cael ei rhoi i anghenion plant a phobl ifanc gyda'r Cyfarwyddwr Arweiniol, a bod negeseuon allweddol o'r broses gymryd rhan yn cael eu clywed ac yn derbyn ymateb.

2.46 Bydd yr Aelod Arweiniol yn darparu arweiniad ar draws ystod gwasanaethau plant yr awdurdod lleol a thu hwnt, trwy gydweithio â phartneriaid. Mae'r swyddogaeth yn wahanol i un y Cyfarwyddwr Arweiniol gan fod y cyfrifoldeb arwain yn un gwleidyddol yn hytrach na phroffesiynol. Fel aelod etholedig o'r cyngor, bydd yr Aelod Arweiniol yn cefnogi datblygiad cyfeiriad strategol ar gyfer gwasanaethau'r awdurdod lleol ac yn annog arweinwyr sefydliadau partner i ddatblygu a chynnal gweledigaeth ar y cyd.

2.47 Dylai Aelod Arweiniol Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc fod yn aelod o weithrediaeth yr awdurdod. Bydd y swyddogaethau y bydd gan yr Aelod Arweiniol gyfrifoldeb gwleidyddol amdanynt yr un fath â swyddogaethau'r Cyfarwyddwr Arweiniol, fel y disgrifiwyd uchod, o leiaf. Fel aelod o weithrediaeth yr awdurdod lleol, bydd yr Aelod Arweiniol mewn sefyllfa i amlygu atebolrwydd prif swyddogion i'r prif

weithredwr ac aelodau arweiniol am gyfraniad eu gwasanaeth arbennig i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc, ac i gyflawni eu cyfrifoldebau dan y Cynllun Plant a Phobl Ifanc (CPPhI). Bydd yr Aelod Arweiniol hefyd mewn safle delfrydol i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu gwneud cyfraniad gwirioneddol i ddatblygiad gwasanaethau. Bydd hyn yn cael ei wneud trwy eu cynnwys yn y broses gynllunio, lle y gallant roi eu sylwadau ar flaenoriaethau ac effeithiolrwydd gwasanaethau. Mae'n bwysig eu bod yn derbyn ymateb.

2.48 Mae'n rhaid i'r cyfathrebu rhwng partneriaethau ac asiantaethau partner unigol ddarparu gwybodaeth effeithiol am gefndir a rhesymau am benderfyniadau. Bydd hyn yn gyfrifoldeb arbennig i'r cyfarwyddwr a'r aelod arweiniol wrth gyflawni eu swyddogaethau i hyrwyddo cydweithio. Mae'n rhaid iddynt sicrhau bod gweithrediaeth a chyngor yr awdurdod yn cael eu hysbysu am benderfyniadau perthnasol gan bartneriaid wrth fynd ati i wneud penderfyniadau. Bydd angen cysylltiadau tebyg â'r rhai sy'n arwain ymddiriedolaethau GIG a BILlau.

2.49 Yr awdurdod lleol fydd yn penodi Cyfarwyddwyr ac Aelodau Arweiniol. Bydd y Cyfarwyddwr Arweiniol yn aelod o dîm corfforaethol yr Awdurdod, ac yn atebol i'r Prif Weithredwr, sy'n adrodd i'r cyngor ar berfformiad ei swyddogion. Gall y Prif Weithredwr weithredu fel Cyfarwyddwr Arweiniol os teimlir bod hynny'n briodol.

2.50 Bydd y Cyfarwyddwr Arweiniol a'r Aelod Arweiniol yn cydweithio'n agos er mwyn cyfnewid gwybodaeth a sylwadau fel eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau ar gyfer gwasanaethau plant yn effeithiol. Dylai'r Cyfarwyddwr Arweiniol allu cael mynediad uniongyrchol at holl aelodau'r awdurdod, yn cynnwys aelodau'r weithrediaeth a'r pwyllgor craffu.

Gwella lles plant

2.51 Nod Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yw gwella lles plant a chymunedau. Mae Adran 2 yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol ddatblygu strategaethau cymunedol i hybu neu wella lles economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol eu hardaloedd.

2.52 Mae Adran 25 o Ddeddf Plant 2004 yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod gwasanaethau plant a phobl ifanc i wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithio rhwng yr awdurdod ag asiantaethau partner perthnasol i wella lles plant a phobl ifanc yn eu hardal mewn perthynas ag:

- iechyd corfforol a meddwl, a lles emosiynol;
- amddiffyn rhag niwed ac esgeulustod;
- addysg, hyfforddiant a hamdden;
- gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymdeithas;
- lles cymdeithasol ac economaidd.

2.53 Ym mis Medi 2005, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ddogfen Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth (NSF) http://www.wales.nhs.uk/sites/documents/441/ACFD1F6.pdf. Mae'r NSF yn cyfrannu at gyflawni saith nod craidd Llywodraeth y Cynulliad i blant a phobl ifanc trwy wella ansawdd a lleihau amrywiadau mewn darpariaeth gwasanaethau trwy osod safonau cenedlaethol. Nid yw'r safonau yn yr NSF yn ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol yn unig, maent hefyd yn berthnasol i wasanaethau llywodraeth leol eraill sy'n dylanwadu'n gryf ar les plant a phobl ifanc fel addysg, tai, hamdden a thrafnidiaeth. Mae gwerth yr NSF yn dibynnu ar i ba raddau mae'r camau gweithredu allweddol yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu polisi a chynllunio gwasanaethau a'u defnyddio i ddiffinio mesurau ansawdd gwasanaethau a fydd yn sail ar gyfer monitro a gwerthuso.

2.54 Tra bod angen rhoi ystyriaeth arbennig i'r safon ddiogelu arfaethedig ym mhennod 2 yr NSF a'r camau gweithredu allweddol cysylltiedig, bydd safonau a chamau gweithredu yr NSF cyfan yn effeithio ar hyrwyddo lles plant. Enghraifft o hyn yw Pennod 6 – Plant a Phobl Ifanc mewn Amgylchiadau Arbennig, Safon 3 Ansawdd Gwasanaethau, cam gweithredu allweddol 6.14. Nid enghraifft unigol yw hon, mae eraill i'w cael yn yr NSF.

Swyddogaeth awdurdodau lleol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant

2.55 Mae lles plant yn gyfrifoldeb corfforaethol i'r awdurdod lleol cyfan, gan weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau cyhoeddus eraill, y sector gwirfoddol, a defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Mae holl wasanaethau awdurdodau lleol yn effeithio ar fywydau plant a theuluoedd, ac mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb arbennig at y plant a'r teuluoedd sydd mewn perygl o gael eu hallgáu'n gymdeithasol. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i gynllunio gwasanaethau i blant sydd mewn angen, gan ymgynghori ag ystod eang o asiantaethau eraill. Dylai'r awdurdod lleol hefyd gymryd cyfrifoldeb arweiniol am sefydlu Byrddau Lleol Diogelu Plant a sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol - dyma'r fforwm rhyngasiantaethol sy'n gweithredu fel pwynt canolog ar gyfer cydweithio lleol i ddiogelu plant.

2.56 Wrth feddwl yn fwy corfforaethol ynglŷn â beth fydd o fudd i ddinasyddion lleol, mae rhai awdurdodau wedi cyflwyno strwythurau rheoli a fydd yn torri ar draws ffiniau adrannau a gwasanaethau traddodiadol. Mae rhai awdurdodau, er enghraifft, wedi cyflwyno trefniadau rheoli a fydd yn dod ag amrywiaeth o wasanaethau sy'n effeithio ar blant at ei gilydd. Pan fo'r canllawiau hyn yn cyfeirio at adrannau gwasanaethau cymdeithasol, mae'n golygu y rhan honno o awdurdod lleol sy'n cyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

Gwaith rhyngasiantaethol effeithiol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant

2.57 Mae'r ddyletswydd i wneud trefniadau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant yn cynnwys gwaith rhyngasiantaethol effeithiol. Felly, dylai awdurdodau lleol:

- hysbysu gweithwyr cyflogedig o'r trefniadau a wneir gan asiantaethau eraill o dan Adran 28 o Ddeddf Plant 2004. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael mynediad di-oed i'r gwasanaethau (cyffredinol, wedi'u targedu ac arbenigol) angenrheidiol, gan gydnabod ystod ac amrywiaeth eu hanghenion a'u cryfderau er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant;
- sicrhau bod asiantaethau eraill y mae'r ddyletswydd i wneud trefniadau i ddiogelu a hyrwyddo lles yn berthnasol iddynt yn ymwybodol o gyfrifoldebau'r awdurdod lleol yn cynnwys sut bydd y gweithwyr cyflogedig sy'n cyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn ymateb i atgyfeiriadau mewn perthynas â diogelwch a lles plentyn.

Canfod dymuniadau a theimladau plant mewn angen

2.58 Wrth weithio gyda phlant mewn angen, dylid canfod eu dymuniadau a'u teimladau yn unol ag a17, a20 ac a47 o Ddeddf Plant 1989, fel y'i diwygiwyd gan Adran 53 o Ddeddf Plant 2004. Mae'r adran hon yn ei gwneud hi'n ofynnol canfod dymuniadau a theimladau plant, cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol, wrth wneud penderfyniadau am ddarparu gwasanaethau i blant mewn angen o dan a17, gwneud ymholiadau o dan a47 a gwneud penderfyniadau am lety o dan a20 o Ddeddf Plant 1989.

Gwasanaethau Cymdeithasol

2.59 Mae gan awdurdodau lleol, sy'n gweithredu er mwyn cyflawni eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, ddyletswyddau cyfreithiol penodol mewn perthynas â phlant o dan Ddeddf Plant 1989 ac o dan Ddeddf Plant 2004. Mae ganddynt ddyletswydd gyffredinol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant mewn angen yn eu hardal, a - chyn belled â bod hyn yn gyson â diogelwch a lles y plentyn - i hyrwyddo magwraeth plant o'r fath gan eu teuluoedd, trwy ddarparu gwasanaethau sy'n briodol i anghenion y plentyn (a17 - Deddf Plant 1989). Dylent wneud hyn mewn partneriaeth â rhieni ac mewn ffordd sy'n sensitif i hil, crefydd, diwylliant ac iaith y plentyn. Gallai gwasanaethau gynnwys gofal dydd i blant ifanc, gofal ar ôl ysgol i blant ysgol, cynghori, gofal seibiant, canolfannau i deuluoedd neu gymorth ymarferol yn y cartref. Yn aml iawn, nid y gwasanaethau cymdeithasol yw'r unig asiantaeth sydd mewn cysylltiad â phlant agored i niwed a'u teuluoedd, ac mae partneriaethau ag asiantaethau eraill - yn arbennig asiantaethau addysg ac iechyd - yn hanfodol i gynorthwyo plant a theuluoedd o'r fath.

2.60 Mae gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol ddyletswydd hefyd i wneud ymholiadau os ydynt yn amau bod plentyn yn eu hardal yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol, i'w galluogi i benderfynu a ddylent gymryd unrhyw gamau gweithredu i ddiogelu neu hyrwyddo lles y plentyn (a47 o Ddeddf Plant 1989). Maent angen cymorth asiantaethau eraill i wneud hyn yn effeithiol ac mae Adran 47 yn gosod dyletswydd ar:

- unrhyw awdurdod lleol;
- unrhyw awdurdod addysg lleol;
- unrhyw awdurdod tai;
- unrhyw awdurdod iechyd, Awdurdod Iechyd Arbennig neu Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol; ac
- unrhyw berson a awdurdodwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

i helpu awdurdod lleol gyda'i ymholiadau mewn achosion lle mae yna achos rhesymol i amau bod plentyn yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol. Wrth holi asiantaethau eraill am wybodaeth, mae'n bwysig bod staff gwasanaethau cymdeithasol yn mynegi'n glir beth yw natur a phwrpas y cais. Yn arbennig, mae angen bod yn glir a gafwyd caniatâd gan y sawl a wnelo'r wybodaeth ag ef neu hi neu a fyddai gofyn am ganiatâd o'r fath yn rhoi'r plentyn mewn perygl o niwed sylweddol ym marn yr awdurdod. Bydd hyn yn galluogi'r rhai sy'n derbyn ceisiadau am wybodaeth i farnu a ddylid torri'r ddyletswydd i gynnal cyfrinachedd o dan amgylchiadau'r achos arbennig.

2.61 Mewn awdurdodau lleol, mae staff gwasanaethau cymdeithasol yn gweithredu fel y prif bwynt cyswllt i blant y ceir pryderon am eu lles. Gall plant, rhieni, neu aelodau teulu sydd eisiau cymorth, ffrindiau a chymdogion pryderus, neu weithwyr proffesiynol ac eraill o sefydliadau statudol a gwirfoddol gysylltu â nhw yn uniongyrchol. Gall ystyried anghenion cymorth cyn gynted ag y gwelir bod anawsterau atal problemau mwy difrifol rhag datblygu. Mae angen nodi manylion cyswllt yn glir, gan eu rhoi ar wefannau awdurdodau lleol ac mewn llyfrau ffôn hefyd.

2.62 Bydd plentyn sydd mewn perygl o niwed sylweddol yn blentyn mewn angen. Mae'r adran gwasanaethau cymdeithasol yn gyfrifol am gydlynu asesiad o anghenion y plentyn, gallu'r rhieni i gadw'r plentyn yn ddiogel ac i hybu ei les, ac amgylchiadau'r teulu ehangach. Yn y mwyafrif llethol o achosion, mae plant yn cael eu diogelu rhag niwed trwy weithio gyda rhieni, aelodau o'r teulu ac oedolion arwyddocaol eraill ym mywyd y plentyn i ofalu bod y plentyn yn ddiogel, ac i hybu ei ddatblygiad, ar yr aelwyd. Pan mae plentyn mewn perygl parhaus o niwed sylweddol, mae gwasanaethau cymdeithasol yn gyfrifol am gydgysylltu cynllun rhyngasiantaethol i ddiogelu'r plentyn, sy'n nodi ac yn defnyddio cyfraniadau aelodau o'r teulu, gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill. Mewn ambell achos, gall yr adran gwasanaethau

cymdeithasol, gan ymgynghori ag asiantaethau a gweithwyr proffesiynol eraill cysylltiedig, farnu na ellir diogelu lles y plentyn yn ddigonol yn y cartref. Dan yr amgylchiadau hyn, gall yr adran gwasanaethau cymdeithasol wneud cais i'r llysoedd am Orchymyn Gofal, sy'n gosod y plentyn yng ngofal yr awdurdod lleol. Os credir bod y plentyn mewn perygl uniongyrchol, gall yr adran gwasanaethau cymdeithasol wneud cais i'r llysoedd am Orchymyn Amddiffyn Brys, sy'n golygu bod y plentyn yn cael ei amddiffyn gan yr awdurdod lleol am hyd at wyth diwrnod.

Gorchmynion:

Gorchmynion Gofal: Mae Gorchymyn Gofal yn cael ei wneud gan y llys (o dan Adran 31(1)(a) o Ddeddf Plant 1989) ac yn gosod y plentyn yng ngofal yr awdurdod lleol, gyda chyfrifoldeb rhiant yn cael ei rannu rhwng y rhieni a'r awdurdod lleol. Ni ellir gwneud gorchymyn oni bai bod y llys yn fodlon bod:

- y plentyn dan sylw yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol; a
- bod y niwed neu'r tebygolrwydd o niwed i'w briodoli i'r;
    - ffaith nad yw'r gofal a roddir i'r plentyn, neu sy'n debygol o gael ei roi iddo pe na bai'r gorchymyn yn cael ei wneud, yn ofal rhesymol y disgwylir i riant roi i'r plentyn; neu
    - bod y plentyn y tu hwnt i reolaeth rhieni.

Gorchmynion Gofal Dros Dro: Gall llys wneud Gorchymyn Gofal Dros Dro (hyd at wyth wythnos yn y lle cyntaf) pan fo achos cais am Orchymyn Gofal yn cael ei ohirio neu pan fo llys mewn unrhyw achos yn gofyn am ymchwiliad o amgylchiadau cartref y plentyn.

Gorchymynion Amddiffyn Brys: Mewn sefyllfaoedd argyfwng, pan mae angen amddiffyn plentyn yn syth, o dan Adran 44 o Ddeddf Plant 1989, gall y gwasanaethau cymdeithasol gael cyfrifoldeb rhiant am gyfnod y Gorchymyn, sef wyth diwrnod (y gellir ei ymestyn i uchafswm o 15 diwrnod).

Gorchmynion Goruchwylio Addysg: O dan Adran 36 o Ddeddf Plant 1989, gall plentyn o oedran ysgol gorfodol gael ei osod dan oruchwyliaeth yr AALl pan nad yw'n cael ei addysgu'n briodol yn sgil presenoldeb gwael yn yr ysgol. Nod y Gorchymyn yw cryfhau ac annog rhieni i gyflawni eu cyfrifoldeb tuag at y plentyn; mae angen rhywfaint o gydweithredu felly rhwng y rhieni a'r ALl/ysgol i roi cyfle i ddarpariaethau'r Gorchymyn lwyddo.

Llety – Gorchmynion Adran 20: Mae rhai plant yn derbyn gofal gan awdurdod lleol trwy gytundeb gyda, neu ar gais, y rhieni, efallai oherwydd problemau yn y teulu sy'n ei gwneud hi'n anodd iddynt ymdopi. O dan Adran 20 o Ddeddf Plant 1989, mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu llety i blant mewn angen o'r fath (gweler isod). Gellir rhoi llety (gofal preswyl neu faeth) am gyfnod byr neu hir. Nid oes achos llys, ac mae'r rhieni'n cadw cyfrifoldeb llawn fel rhieni. Dylid annog cysylltiad parhaus rhwng y rhieni ac addysg eu plant lle bo hynny'n rhesymol.

2.63 Dylai staff gwasanaethau cymdeithasol plant a BLlDPau gynnig yr un lefel o gymorth a chyngor i ysgolion annibynnol a cholegau addysg bellach mewn perthynas â diogelu a hyrwyddo lles disgyblion ac amddiffyn plant ag y maent yn ei wneud i ysgolion (y wladwriaeth) a gynhelir. Mae'n arbennig o bwysig bod staff gwasanaethau cymdeithasol plant a BLlDPau yn sefydlu sianeli cyfathrebu gydag ysgolion annibynnol lleol (yn cynnwys ysgolion annibynnol arbennig) fel bod plant sydd angen cymorth yn derbyn sylw buan ac unrhyw gyhuddiadau o gam-drin yn cael eu hymchwilio'n gyflym.

2.64 Dylid ystyried cyfrifoldebau gwasanaethau cymdeithasol tuag at blant yng nghyd-destun yr amrywiaeth eang hon o ofal cymdeithasol a chymorth, fel bod plant a theuluoedd yn derbyn cymorth a chefnogaeth mewn ffordd integredig sy'n cydnabod ystod ac amrywiaeth eu hanghenion a'u cryfderau.

Gwasanaethau Addysg

2.65 Mae gan bob ysgol, yn cynnwys ysgolion annibynnol, ysgolion nas cynhelir a sefydliadau Addysg Bellach (AB) ddyletswydd gyffredinol i gyflawni eu swyddogaethau gyda golwg ar ddiogelu a hyrwyddo lles eu disgyblion trwy:

- greu a chynnal amgylchedd dysgu diogel i blant a phobl ifanc;
- nodi ble mae yna bryderon ynglŷn â lles plentyn a chymryd camau gweithredu i fynd i'r afael â nhw, lle bo'n briodol, mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill;
- Mae ysgolion hefyd yn cyfrannu trwy'r cwricwlwm gan ddatblygu dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a gwydnwch plant.

2.66 Mae creu amgylchedd dysgu diogel yn golygu cael trefniadau effeithiol ar waith i fynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion. Mae rhai yn destun gofynion statudol, yn cynnwys trefniadau amddiffyn plant, iechyd a diogelwch disgyblion a bwlio. Mae eraill yn cynnwys trefniadau ar gyfer diwallu anghenion plant â chyflyrau meddygol, darparu cymorth cyntaf, diogelwch yn yr ysgol, mynd i'r afael â cham-drin sylweddau, a chael trefniadau ar waith i ddiogelu a hyrwyddo lles plant ar leoliadau galwedigaethol estynedig. Mae hefyd yn golygu cael trefniadau recriwtio, disgyblu ac adrodd effeithiol i sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn y sefydliad yn addas yn unol â chanllawiau penodol Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r egwyddorion a amlinellwyd ym mharagraff 2.24-2.28 uchod. Mae'r trefniadau recriwtio, disgyblu ac adrodd hyn a'r egwyddorion cysylltiedig hefyd yn berthnasol i staff Gyrfa Cymru sy'n darparu gwasanaethau gyrfaoedd statudol a gwasanaethau cysylltiedig mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach.

2.67 Mae gan staff y byd addysg swyddogaeth allweddol yn y gwaith o nodi-pryderon am les a dangosyddion cam-drin neu esgeulustod posibll

mewn cyfnod cynnar: cyfeirio'r pryderon hyn i'r asiantaeth briodol, sef yr adran gwasanaethau cymdeithasol fel rheol; a chyfrannu at asesu anghenion plentyn. Pan fydd gan blentyn anghenion ychwanegol, neu ei fod yn anabl, bydd gan yr ysgol wybodaeth bwysig am lefel dealltwriaeth y plentyn a'r dulliau mwyaf effeithiol o gyfathrebu gyda'r plentyn. Byddant mewn sefyllfa dda hefyd i roi barn ar effaith triniaeth neu ymyrraeth ar ofal neu ymddygiad y plentyn.

2.68 Ni ddylai staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth addysg fynd ati i ymchwilio i achosion posibll o gam-drin neu esgeulustod, ond gall adran gwasanaethau cymdeithasol sy'n ymchwilio i bryderon o'r fath ofyn iddynt am wybodaeth, a gallant gynorthwyo'r adran gwasanaethau cymdeithasol trwy gyfeirio pryderon, darparu gwybodaeth ar gyfer ymholiadau a47 amddiffyn plentyn, cyfrannu at asesiadau a chymryd rhan mewn cynadleddau ac adolygiadau amddiffyn plant.

2.69 Pan fo plentyn o oedran ysgol yn destun cynllun amddiffyn plentyn rhyngasiantaethol, dylai'r ysgol fod yn rhan o'r gwaith o baratoi'r cynllun. Dylid nodi'n glir beth yw swyddogaeth a chyfrifoldebau'r ysgol o ran cyfrannu at gamau gweithredu i ddiogelu'r plentyn, a hybu ei les.

2.70 Dylai pob ysgol a sefydliad Addysg Bellach:

- gael polisi a gweithdrefnau sy'n unol â chanllawiau'r AALl a gweithdrefnau rhyngasiantaethol y cytunwyd arnynt yn lleol;
- sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'n cael eu darparu mewn fformat sy'n briodol i oedran a dealltwriaeth y plentyn, yn arbennig pan fo ysgolion yn darparu ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol;
- sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau hyn yn cwmpasu gwasanaethau sy'n ymestyn y tu hwnt i'r diwrnod ysgol (ee llety preswyl lle mae'n cael ei ddarparu, gweithgareddau cymunedol ar safle'r ysgol ac ati);
- rhoi gweithdrefnau recriwtio a rheoli ar waith sy'n ystyried yr angen i ddiogelu plant a phobl ifanc, yn cynnwys trefniadau ar gyfer cynnal gwiriadau priodol ar staff a gwirfoddolwyr a gweithdrefnau i ddelio â chyhuddiadau o gam-drin yn erbyn aelodau staff a gwirfoddolwyr sy'n cydymffurfio â gweithdrefnau rhyngasiantaethol y cytunwyd arnynt yn lleol;
- cael uwch aelod o staff wedi'i ddynodi i fod yn bennaf gyfrifol am ymdrin â materion amddiffyn plant, rhoi cyngor a chymorth i staff eraill, ymgynghori â'r Prif Swyddog Diogelu Plant o'r AALl, a gweithio gydag asiantaethau eraill. (DS dylid penodi dirprwy i weithredu yn absenoldeb y person penodol, ac efallai y bydd angen nifer o ddirprwyon mewn sefydliadau mawr, neu'r rhai sydd â llawer o bryderon amddiffyn plant);
- sicrhau bod:
  - yr holl staff a gwirfoddolwyr, boed yn rhai sy'n addysgu neu'n cyflawni gwaith arall, yn derbyn hyfforddiant priodol i'w galluogi i

gyflawni eu cyfrifoldebau ar gyfer diogelu'n effeithiol, a chadw'r hyfforddiant yn gyfredol trwy hyfforddiant gloywi;

- y person penodol yn derbyn hyfforddiant mewn gwaith rhyngasiantaethol sy'n cael ei ddarparu gan, neu yn dilyn y safonau y cytunwyd gan, y BLlDP, a hyfforddiant gloywi i gadw ei wybodaeth a'i sgiliau'n gyfredol; a
- staff a gwirfoddolwyr dros dro sy'n gweithio gyda phlant yn cael eu hysbysu am drefniadau'r ysgol ar gyfer amddiffyn plant a'u cyfrifoldebau;
- sicrhau bod unrhyw ddiffygion neu wendidau mewn perthynas â threfniadau diogelu sy'n cael eu hysbysu yn cael eu datrys yn ddi-oed; a

- sicrhau bod y corff llywodraethau (neu'r perchennog yn achos ysgol annibynnol) yn dynodi llywodraethwr i fod yn gyfrifol am faterion amddiffyn plant yn cynnwys adolygu polisïau a gweithdrefnau'r ysgol o leiaf bob blwyddyn ac i fod yn llywodraethwr cyswllt i gynnal cyswllt â'r awdurdodau statudol mewn perthynas ag achosion disgyblu staff ym maes amddiffyn plant.

2.71 Yn ogystal, mae gofyn i gyflogwyr athrawon ac eraill y mae eu gwaith yn ymwneud â darparu addysg adrodd am achosion o ymddygiad proffesiynol annerbyniol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel yr amlinellwyd yng nghylchlythyr canllawiau 33/2005 y Cynulliad [http://www.learning.wales.gov.uk/pdfs/c3305-cases-of-misconduct05-e.pdf].

2.72 Mae adrannau gwasanaethau cymdeithasol a BLlDPau yn cynnig yr un faint o gymorth a chyngor i ysgolion annibynnol ar faterion amddiffyn plant ag y maent i ysgolion a gynhelir. Mae'n bwysig iawn fod y sianeli cyfathrebu hyn yn cael eu cynnal a'u datblygu fel bod plant sydd angen cymorth yn derbyn sylw buan a bod unrhyw gyhuddiad o gam-drin yn cael ei ymchwilio'n briodol. Dylai ysgolion annibynnol sy'n darparu gofal meddygol a/neu nyrsio sicrhau bod eu staff meddygol a nyrsio yn cael cyngor priodol a hyfforddiant rhyngasiantaethol ar amddiffyn plant.

2.73 Mae ysgolion hefyd yn cyflawni swyddogaeth bwysig o ran gwneud plant a phobl ifanc yn ymwybodol o ymddygiad annerbyniol tuag atynt a sut y gallant gadw'u hunain yn ddiogel. Mae'r fframwaith statudol ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) yn rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddysgu am sut i gadw'n ddiogel. Er enghraifft, dylid dysgu plant i adnabod a rheoli peryglon mewn gwahanol sefyllfaoedd ac yna penderfynu sut i ymddwyn yn gyfrifol: i farnu pa fath o gysylltiad personol sy'n dderbyniol ac annerbyniol; i adnabod pryd mae pwysau gan eraill (yn cynnwys pobl maent yn eu hadnabod) yn bygwth eu diogelwch a'u lles personol a datblygu dulliau effeithiol o wrthsefyll pwysau; yn cynnwys gwybod pryd a ble i gael cymorth; a defnyddio technegau pendantrwydd i wrthsefyll pwysau sydd o ddim lles iddynt.

2.74 Gall materion fel cam-drin domestig fod yn anodd i'w trafod yn yr ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, gall trafodaethau am ddiogelwch personol a chadw'n ddiogel gadarnhau'r neges fod unrhyw fath o drais yn annerbyniol; rhoi gwybod i blant a phobl ifanc ei bod hi'n iawn iddynt siarad am eu problemau; a'u cyfeirio at ffynonellau cymorth.

2.75 Mae cosb gorfforol wedi'i wahardd i bob disgybl ym mhob ysgol. Mae'r gyfraith yn gwahardd aelod o staff rhag defnyddio unrhyw lefel o gyswllt corfforol er mwyn cosbi disgybl, neu er mwyn achosi poen neu anaf neu gywilydd. Caniateir i athrawon ysgol ddefnyddio grym rhesymol i reoli neu ffrwyno disgyblion o dan rai amgylchiadau. Gall staff eraill wneud hynny hefyd, yn yr un ffordd ag athrawon, cyn belled eu bod wedi'u hawdurdodi gan y pennaeth i reoli neu i ofalu am ddisgyblion. Dylai pob ysgol gan bolisi ar ddefnyddio grym i reoli neu ffrwyno disgyblion. Mae canllawiau pellach i'w cael yng Nghylchlythyr 37/98 ar "Defnyddio Grym Rhesymol i Reoli neu Ffrwyno Disgyblion" Am gopi cysylltwch a assembly-publications@wales.gsi.gov.uk.

Dysgu seiliedig ar waith

2.76 Pan fo ysgolion yn trefnu lleoliadau gwaith i bobl ifanc, dylai'r ysgol sicrhau bod gan ddarparwr y lleoliad gwaith neu ddarparwr y dysgu seiliedig ar waith bolisïau a gweithdrefnau priodol. Pan fo'r awdurdod lleol yn gosod pobl ifanc mewn lleoliadau gwaith neu gyda darparwyr dysgu seiliedig ar waith, yr awdurdod sy'n cyflawni'r cyfrifoldebau hyn.

Gwasanaethau Ieuenctid

2.77 Mae gan Weithwyr Ieuenctid a Chymunedol (YCWs) gysylltiad agos â phlant a phobl ifanc a dylent fod yn effro i arwyddion o gam-drin ac esgeulustod a gwybod beth i'w wneud os oes pryderon am les plentyn. Dylai gwasanaethau ieuenctid awdurdod lleol (LAYS) roi cyfarwyddiadau ysgrifenedig, yn gyson â'r Byrddau Lleol Diogelu Plant, ar pryd ddylai'r gweithwyr ieuenctid hyn ymgynghori â chydweithwyr, rheolwyr llinell, ac awdurdodau statudol eraill am bryderon sydd ganddynt am blentyn neu berson ifanc. Dylai cyfarwyddiadau'r gweithwyr ieuenctid bwysleisio pwysigrwydd diogelu lles plant a phobl ifanc a phwysigrwydd cynnal cyfrinachedd rhwng y person ifanc a'r gweithiwr ieuenctid, cyn belled â bod hyn yn gyson â lles y person ifanc. Mae'r un gofyniad yn berthnasol i wirfoddolwyr y Gwasanaeth Ieuenctid.

2.78 Pan fo'r awdurdod lleol yn ariannu sefydliadau ieuenctid gwirfoddol neu ddarparwyr eraill trwy grant, contract neu drefniadau partneriaeth eraill dylid gwirio bod trefniadau priodol ar waith i ddiogelu plant a phobl ifanc neu fod trefniadau o'r fath yn rhan o'r cytundeb ar gyfer y grant neu'r contract. Mewn achosion o'r fath, gellir gofyn am ganllawiau gan eu cyrff cenedlaethol, neu'r BLIDP, ar y ffordd orau o weithredu er lles plant a phobl ifanc sy'n derbyn gwasanaeth ganddynt.

Gwasanaethau Diwylliannol a Hamdden

2.79 Mae awdurdod lleol yn darparu ac yn hwyluso amrywiaeth eang o gyfleusterau a gwasanaethau i blant fel llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden a pharciau. Mae eu gweithwyr cyflogedig, gwirfoddolwyr a chontractwyr yn cael gwahanol lefelau a mathau o gysylltiad â phlant sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn. Dylent fod yn effro i unrhyw arwyddion y gellir bod angen diogelu plentyn rhag niwed a gwybod pwy i gysylltu â nhw os oes ganddynt bryderon, a bod yn ymwybodol o'r cyfraniad pwysig maent yn ei wneud i alluogi plant i gyflawni eu potensial.

2.80 Mae gwasanaethau hamdden a diwylliannol sydd wedi'u cynllunio ar gyfer plant a theuluoedd yn cael eu darparu'n eang yn fasnachol a chan y gymuned a'r sectorau gwirfoddol. Mae llawer yn annibynnol ar awdurdodau lleol, ond gall rhai fod yn derbyn cymorth grant neu'n cael eu cynnal ar safleoedd sy'n cael eu rheoli gan gyrff cyhoeddus. Bydd darparwyr y gwasanaethau hyn yn cael gwahanol lefelau o gysylltiad â phlant ac felly dylent gael gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â gweithdrefnau Byrddau Lleol Diogelu Plant, yn manylu ar drefniadau atgyfeirio ac ymatebion eraill i wybodaeth a allai godi am bryderon amddiffyn plant, a gofynion hyfforddiant staff sy'n gweithio gyda phlant. Dylid mabwysiadu arferion gwaith a gweithdrefnau sy'n lleihau sefyllfaoedd lle gallai plant gael eu cam-drin, fel cyswllt heb oruchwyliaeth. Mae'n arfer da hefyd i lunio codau ymarfer i hyfforddwyr a rhieni ac ar gyfer cyfranogiad plant mewn gweithgareddau sy'n cael eu darparu gan adrannau, gan ddosbarthu'r codau hyn yn eang.

Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

2.81 Mae'r rhain yn cynnwys canolfannau teuluoedd, canolfannau plant, meithrinfeydd (yn cynnwys meithrinfeydd yn y gweithle), gwarchodwyr plant, grwpiau chwarae a chynlluniau gwyliau a thu allan i oriau ysgol. Mae'r gwasanaethau hyn yn rhan bwysig o fywydau a datblygiad babanod a phlant ifanc. O dan Ran 10 o Ddeddf Plant 1989, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Safonau Gofal 2000, mae gofyn i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn darparu gwybodaeth a chyngor am ofal dydd a darpariaeth gwarchod plant, a bod hynny a hyfforddiant yn cael ei ddarparu i ddarparwyr gofal dydd a gwarchodwyr plant. Dylai rhaglenni hyfforddi awdurdodau lleol ar gyfer staff blynyddoedd cynnar y sector preifat, gwirfoddol ac ysgolion a gynhelir gynnwys hyfforddiant ar weithdrefnau amddiffyn plant.

Awdurdodau Trwyddedu

2.82 Mae gan yr Awdurdod Lleol, gan ei fod yn Awdurdod Trwyddedu, gyfrifoldeb i gyflawni ei swyddogaethau o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 [http://www.opsi.gov.uk/ACTS/acts2003/20030017.htm] i amddiffyn plant rhag niwed – un o bedwar amcan trwyddedu. Mae 'awdurdodau cyfrifol', er enghraifft y gwasanaeth tân neu'r heddlu, yn cael cyfle i

wneud cyflwyniadau ar geisiadau am grant neu amrywiad i drwydded safle neu dystysgrif clwb. Yn ei ddatganiad polisi trwyddedu mae gofyn i'r Awdurdod Lleol nodi pa gorff (yr awdurdod cyfrifol) sy'n gymwys i'w gynghori ar faterion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant rhag niwed.

2.83 O dan adran 182 o Ddeddf 2003 [http://www.opsi.gov.uk/ACTS/acts 2003/30017--j.htm#182] mae gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyhoeddi canllawiau i awdurdodau trwyddedu ar gyflawni eu swyddogaethau trwyddedu, sy'n cynnwys amddiffyn plant rhag niwed. Yn ogystal, pan fo trwydded safle'n awdurdodi ffilmiau i gael eu dangos mae'n rhaid i'r drwydded gynnwys amod sy'n gofyn am gyfyngu mynediad i blant yn achos ffilmiau sydd â chyfyngiad oedran a ddosbarthwyd yn ôl argymhellion y Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydeinig (BBFC) neu'r awdurdod trwyddedu ei hun. Gall awdurdod trwyddedu ddewis peidio â nodi'r BBFC fel corff dosbarthu'r ffilm a phenderfynu ar unrhyw gyfyngiad o ran mynediad i blant ei hun.

Awdurdodau tai a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig

2.84 Gall staff tai a digartrefedd awdurdodau lleol gyflawni swyddogaeth bwysig o ran diogelu a hyrwyddo lles plant fel rhan o'u gwaith bob dydd; gan gydnabod materion lles plant, rhannu gwybodaeth, gwneud atgyfeiriadau a rheoli neu leihau peryglon. Mae gan reolwyr tai sy'n gweithio i awdurdod lleol neu i landlord cymdeithasol cofrestredig (RSL), ac eraill sydd â swyddogaeth rheng flaen fel swyddogion iechyd yr amgylchedd, swyddogaeth bwysig hefyd. Er enghraifft:

- gall staff tai, yn eu cyswllt beunyddiol â theuluoedd a thenantiaid, ddod yn ymwybodol o anghenion a materion lles y gallant fynd i'r afael â nhw'n uniongyrchol (er enghraifft, trwy drwsio neu addasu cartrefi) neu drwy gynorthwyo'r teulu i gael cymorth gan sefydliadau eraill;
- mae awdurdodau tai yn allweddol wrth asesu anghenion teuluoedd sydd â phlant anabl y gellir bod angen addasu eu tai fel eu bod yn gallu cymryd rhan yn llawn ym mywyd y teulu a chyrraedd eu potensial llawn;
- mae gan awdurdodau tai swyddogaeth rheng flaen i weithredu mewn argyfwng, er enghraifft i reoli'r broses o ailgartrefu neu adfeddiannu pan fydd oedolion a phlant yn mynd yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref o ganlyniad i drais domestig;
- gall staff tai, trwy eu cyswllt beunyddiol â'r cyhoedd a theuluoedd, ddod yn ymwybodol o bryderon am les plant penodol. Hefyd, hwyrach y bydd gan awdurdodau tai ac RSLs wybodaeth bwysig a allai gynorthwyo gwasanaethau cymdeithasol plant yr awdurdod lleol i gynnal asesiadau o dan a17 neu a47 o Ddeddf Plant 1989. Hwyrach y bydd gan staff gwasanaethau cymdeithasol plant a sefydliadau eraill sy'n gweithio gyda phlant wybodaeth a fydd yn

gwneud asesiadau o'r angen am fathau arbennig o dai yn fwy effeithiol hefyd. Dylai awdurdodau ac RSLs ddatblygu protocolau ar y cyd i rannu gwybodaeth gyda sefydliadau eraill, er enghraifft gwasanaethau cymdeithasol plant neu weithwyr iechyd proffesiynol mewn achosion priodol; a

- gallai swyddogion iechyd yr amgylchedd sy'n archwilio amodau tai rhent preifat ddod yn ymwybodol o amodau sy'n effeithio'n andwyol ar blant yn arbennig. O dan Ran 1 o Ddeddf Tai 2004, bydd awdurdodau yn ystyried effaith peryglon iechyd a diogelwch mewn tai ar breswylwyr agored i niwed yn cynnwys plant wrth benderfynu pa gamau gweithredu y dylai landlordiaid eu cymryd i wella amodau.

2.85 Mewn rhai ardaloedd, nid yw awdurdodau lleol yn berchen nac yn rheoli tai yn uniongyrchol - mae'r cyfrifoldebau hyn wedi'u trosglwyddo i un RSL neu fwy. Mae awdurdodau tai yn dal yn gyfrifol am asesu anghenion teuluoedd o dan ddeddfwriaeth digartrefedd ac am reoli enwebiadau i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n darparu tai yn eu hardal. Maent yn parhau i gyflawni swyddogaeth bwysig o ran diogelu plant yn sgil eu cysylltiad â theuluoedd fel rhan o'r asesiad o angen, ac yn sgil y dylanwad sydd ganddynt wrth gynllunio a rheoli'r broses o flaenoriaethu, asesu a dyrannu tai.

2.86 Sefydliadau wedi'u rheoleiddio'n annibynnol yw RSLs, nid cyrff cyhoeddus. Nid yw'r RSLs o dan yr un dyletswyddau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant â'r awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cefnogi'r egwyddor o gael RSLs i weithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, ac mae'n rhaid i gymdeithasau tai weithio gydag awdurdodau lleol i alluogi'r awdurdod lleol i gyflawni ei ddyletswydd i bobl agored i niwed a'r rhai sydd wedi'u cwmpasu gan bolisi Cefnogi Pobl Llywodraeth y Cynulliad.

Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

Swyddogaeth y GIG mewn perthynas â diogelu a hyrwyddo lles plant

2.87 Mae Adran 28 o Ddeddf Plant 2004 yn berthnasol i bob Bwrdd Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru.

2.88 Mae pob gweithiwr iechyd proffesiynol, yn y GIG, sector preifat, ac asiantaethau eraill, yn cyflawni swyddogaeth bwysig i sicrhau bod plant a theuluoedd yn derbyn y gofal, y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt i hybu iechyd a datblygiad plant. Yn sgil natur cyffredinol darpariaeth iechyd, gweithwyr iechyd proffesiynol yn aml yw'r gweithwyr cyntaf i fod yn ymwybodol bod teuluoedd yn cael anhawster i ofalu am eu plant.

2.89 Mae'n bwysig cynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol ym mhob cam o'r gwaith gyda phlant a theuluoedd:

- adnabod plant sydd angen cymorth a/neu eu diogelu, a rhieni a allai fod angen cymorth ychwanegol i fagu eu plant trwy gydnabod y gallai eu gallu fel rhieni gael ei gyfaddawdu;
- adnabod oedolion a allai fod yn berygl i blant;
- sicrhau bod pob lleoliad iechyd yn ddiogel i blant;
- cyfrannu i ymholiadau am blentyn a theulu;
- asesu anghenion plant a gallu rhieni i ddiwallu anghenion eu plant;
- cynllunio a darparu cymorth i blant a theuluoedd agored i niwed;
- cymryd rhan mewn cynadleddau amddiffyn plant;
- cynllunio cymorth i blant sydd mewn perygl o niwed sylweddol;
- darparu cymorth therapiwtig i blant sydd wedi'u cam-drin a'u rhieni/gofalwyr;
- cymryd rhan yn y gwaith o ddiogelu plant rhag niwed sylweddol, trwy'r cynllun amddiffyn plant; a
- chyfrannu at adolygiadau achos.

2.90 Bydd angen cydweithio agos ag asiantaethau eraill bob amser, yn cynnwys unrhyw weithwyr iechyd proffesiynol eraill cysylltiedig.

2.91 Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 yn cynnwys dyletswydd ar bob corff y GIG i gyflwyno a chael trefniadau ar gyfer monitro a gwella ansawdd y gofal iechyd sy'n cael ei ddarparu gan y corff ac ar gyfer y corff hwnnw (a45) ac yn rhoi'r pŵer i Lywodraeth Cynulliad Cymru bennu safonau i'w hystyried gan bob corff GIG yng Nghymru wrth gyflawni'r ddyletswydd honno (a46).

Byrddau Iechyd Lleol

2.92 Mae gan BILlau ddyletswydd statudol i gymryd arweiniad strategol cyffredinol am yr holl wasanaethau iechyd yn y GIG (ac am y gwasanaethau iechyd maent yn eu comisiynu) o ran gwaith rhyngasiantaethol lleol mewn perthynas â diogelu plant.

2.93 Mae'r 22 Bwrdd Iechyd Lleol (BILl) yng Nghymru'n cyd-ffinio â'r 22 awdurdod lleol. Maent yn gyfrifol am nodi anghenion iechyd eu poblogaeth a chomisiynu gwasanaethau priodol. Mae gofyn iddynt gynllunio a chomisiynu gwasanaethau iechyd gan ddarparwyr gofal sylfaenol ac eilaidd a sicrhau bod mesurau diogelwch priodol ar waith i amddiffyn a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc. Mae Adran 28 o Ddeddf Plant 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i BILlau wneud trefniadau ar gyfer sicrhau bod eu swyddogaethau'n cael eu cyflawni mewn modd sy'n ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

2.94 Mae Adran 25 o Ddeddf Plant 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i BILlau a phartneriaid statudol eraill wneud trefniadau i gydweithio â'i gilydd gyda golwg ar wella lles plant yn yr ardal. Dylai'r trefniadau hyn helpu i sicrhau bod trefniadau cydweithio'n hybu iechyd a lles y boblogaeth mae'n ei gwasanaethu. Dylent sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau lleol yn adlewyrchu canllawiau cenedlaethol ac egwyddorion arferion gorau er mwyn diogelu plant a phobl ifanc.

2.95 Mae Gwasanaeth Amddiffyn Plant y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol yn gweithio gyda ac ar ran y BILlau i'w galluogi i gyflawni eu swyddogaethau statudol.

Ymrwymiad ac atebolrwydd uwch reolwyr

2.96 Mae gofyn i Fyrddau Iechyd Lleol benodi swyddog arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc (adran 27(2)(a) o'r Ddeddf) a dynodi aelod arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc (adran 27(2)(b)). Bydd y cyfarwyddwr arweiniol yn gyfrifol am oruchwylio swyddogaethau'r Bwrdd o dan adran 25 o'r Ddeddf. Mewn perthynas â'r swyddogaethau hyn mae'r Ddeddf yn gofyn i Fwrdd Iechyd Lleol gydweithio gydag awdurdod lleol i wneud trefniadau i wella lles plant yn ardal yr awdurdod.

Swyddogaeth y BILl

2.97 Mae gan Brif Weithredwyr BILl gyfrifoldeb i sicrhau bod y cyfraniad mae iechyd yn ei wneud i ddiogelu a hyrwyddo lles plant yn cael ei gyflawni'n effeithiol ledled yr economi iechyd lleol cyfan drwy drefniadau comisiynu'r BILl.

- Dylai BILlau weithio gydag awdurdodau lleol i gomisiynu a darparu gwasanaethau sydd wedi'u cydgysylltu ar draws asiantaethau a'u hintegreiddio lle bo'n bosibl;
- Gall Prif Weithredwyr BILlau ddirprwyo'r cyfrifoldeb hwn i "swyddog arweiniol" ac aelod "arweiniol" ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc mewn perthynas â swyddogaethau'r Bwrdd o dan Adran 25 o Ddeddf Plant 2004 (Cydweithio i wella lles);
- Mae dyletswyddau statudol y BILlau yn cynnwys ymrwymo i a chymryd rhan yng ngwaith Byrddau Lleol Diogelu Iechyd (BLlDPau) yn cynnwys cynrychiolaeth ar y bwrdd ar lefel uchel briodol hy swyddog gweithredol arweiniol;
- Dylai'r BILl sicrhau bod ganddo fynediad i feddyg dynodedig a nyrs ddynodedig sydd wedi'u darparu a'u penodi gan y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol;
- Mae'r BILl yn gyfrifol am ddarparu a/neu am sicrhau bod eu meddyg a'u nyrs dynodedig (y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol) yn darparu cyngor a chymorth priodol i'r BLlDP mewn perthynas ag amrywiaeth o swyddogaethau iechyd;

- Mae'n rhaid i'r BILl sicrhau bod gan bob asiantaeth iechyd y mae ganddynt drefniadau comisiynu gyda nhw gysylltiadau gyda BLIDP penodol a bod asiantaethau'n gweithio mewn partneriaeth yn unol â chynllun busnes blynyddol a chynllun plant y BLIDP;
- Dylai BILlau sicrhau bod gan bob darparwr iechyd y maent yn comisiynu gwasanaethau ganddynt bolisïau a gweithdrefnau asiantaeth unigol ac aml-asiatnaeth cynhwysfawr i ddiogelu a hyrwyddo lles plant sy'n cydymffurfio gyda ac yn cael eu llywio gan weithdrefnau BLIDP ac yn hygyrch i staff ar bob lefel yn y sefydliad;
- Dylai BILlau sicrhau bod yr holl staff iechyd yn cynnwys gwasanaethau contractwyr annibynnol yn effro i'r posiblilrwydd o Gam-drin Plant neu esgeuluso plant, bod ganddynt wybodaeth am weithdrefnau lleol a chenedlaethol a'u bod yn cydymffurfio â nhw, ac yn gwybod sut i gysylltu â'u gweithwyr proffesiynol penodol a dynodedig;
- Dylai BILlau sicrhau bod eu trefniadau comisiynu'n galluogi staff iechyd i gael mynediad at bediatryddon a hyfforddwyd i archwilio, adnabod ac asesu plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, a bod trefniadau lleol yn cynnwys cael yr holl gyfarpar a'r arbenigedd staff angenrheidiol i gynnal archwiliadau meddygol fforensig;
- Bydd BILlau yn gallu datblygu trefniadau partneriaeth i gomisiynu gwasanaethau mewn Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARCs) yn cynnwys gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Bydd SARCs yn darparu gwasanaethau fforensig, meddygol a chynghori i ddioddefwyr ymosodiad rhywiol a threisio yn cynnwys mewnbwn iechyd arbenigol;
- Mae'r BILl fel comisiynwyr yn gyfrifol gyda'u partneriaid awdurdod lleol am gomisiynu gwasanaethau integredig i ymateb i anghenion asesedig plant a phobl ifanc a'u teuluoedd pan fo plentyn wedi bod neu mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso;
- Bydd gan y BILlau fanylebau gwasanaeth sy'n cynnwys safonau gwasanaeth clir i ddiogelu plant a hybu eu lles ac sy'n gyson â gweithdrefnau amddiffyn plant. Dylid defnyddio'r manylebau gwasanaeth hyn gydol y broses gomisiynu gofal iechyd;
- Dylai BILlau sicrhau, trwy eu trefniadau contractio, bod darparwyr y sector annibynnol yn darparu gwasanaethau sy'n cydymffurfio â rhwymedigaethau'r BILl mewn perthynas â diogelu a hyrwyddo lles plant. Bydd angen i'r BILlau weithio gyda'r darparwyr annibynnol hyn i sicrhau bod cysylltiadau addas yn cael eu gwneud i'r BLIDPau a bod y darparwr yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau'r BLIDP (Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan);
- Mae'r BILlau yn gyfrifol am gomisiynu a chydgysylltu elfen iechyd adolygiadau achos difrifol trwy weithwyr proffesiynol dynodedig.

Gwasanaeth Amddiffyn Plant / Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (CPS/NPHS)

2.98 Mae'r CPS/NPHS, trwy ei weithwyr proffesiynol dynodedig, yn darparu'r arweiniad proffesiynol i'r BILlau ar gyfraniad y GIG i ddiogelu plant. Mae gan bob BILl fynediad i feddyg a nyrs ddynodedig a gweithwyr cymorth proffesiynol trwy'r NPHS a thrwy'r gweithwyr proffesiynol hyn mae'r BILlau yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau statudol fel y nodwyd uchod. Mae'r gweithwyr proffesiynol dynodedig yn gweithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol penodol mewn Ymddiriedolaethau a byddant yn rhan o gynrychiolaeth y gwasanaeth iechyd ar Fyrddau Lleol Diogelu Plant (BLlDP). Byddant yn cyflawni swyddogaeth bwysig yn hyrwyddo'r gwaith o amddiffyn plant a phobl ifanc drwy aelodaeth o'r BLlDPau, datblygu a chymryd rhan mewn rhaglenni hyfforddi, darparu cyngor arbenigol a chwblhau elfen iechyd adolygiadau achos difrifol. Mae'r gweithwyr proffesiynol dynodedig ar gael i ddarparu cyngor arbenigol a chymorth i'r BILlau, Ymddiriedolaethau GIG, awdurdodau lleol ac asiantaethau partner eraill, yn cynnwys y sector annibynnol a gwirfoddol a'r heddlu.

Gweithwyr Proffesiynol Dynodedig

2.99 Dylai pob BILl gael mynediad i feddyg dynodedig a nyrs ddynodedig sy'n gweithio yn yr NHPS i gymryd arweiniad proffesiynol, strategol ar bob agwedd ar gyfraniad y gwasanaeth iechyd i ddiogelu plant ledled ardal y BILl.

2.100 Bydd y meddyg dynodedig yn uwch bediatrydd profiadol gydag arbenigedd cyfredol priodol ym maes diogelu plant. Bydd y nyrs ddynodedig yn Uwch Nyrs Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol gyda phrofiad perthnasol ym maes diogelu plant.

2.101 Mae gweithwyr proffesiynol dynodedig yn cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am holl ardal y BILl yn cynnwys cyfrifoldeb am yr holl ddarparwyr. Maent yn ffynhonnell cyngor proffesiynol bwysig ar faterion amddiffyn/diogelu plant i adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, BILlau, Ymddiriedolaethau'r GIG, Comisiwn Iechyd Cymru, Galw Iechyd Cymru a Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Maent hefyd yn rhoi cyngor i'r holl asiantaethau partner a'r sector gwirfoddol. Bydd gweithwyr proffesiynol dynodedig yn darparu cyngor a chymorth i'r gweithwyr proffesiynol penodol ym mhob Ymddiriedolaeth ddarparu.

2.102 Mae gweithwyr proffesiynol dynodedig hefyd yn darparu mewnbwn proffesiynol medrus i brosesau amddiffyn plant yn unol â gweithdrefnau BLlDP ac yn cyflawni swyddogaeth bwysig yn hyrwyddo, dylanwadu ar a datblygu polisïau a gweithdrefnau ar lefel genedlaethol a lleol. Byddant yn gweithredu ar ran y BILl ac yn arwain ar elfen iechyd adolygiadau achos difrifol.

2.103 Nid yw cael eich penodi yn weithiwr proffesiynol dynodedig, ynddo'i hun, yn golygu eich bod yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth clinigol i amddiffyn plant. Dylai hyn fod yn rhan o drefniadau eraill gydag Ymddiriedolaethau perthnasol.

Sector annibynnol

2.104 Dylai Byrddau Iechyd Lleol sicrhau, trwy eu trefniadau comisiynu, bod darparwyr y sector annibynnol yn darparu gwasanaethau sy'n cydymffurfio â rhwymedigaethau'r BILl mewn perthynas â diogelu a hyrwyddo lles plant, sydd wedi'u cynnwys mewn cytundebau lefel gwasanaeth. Bydd angen i'r BILl weithio gyda'r darparwyr annibynnol i sicrhau bod cysylltiadau addas yn cael eu gwneud â'r BLlDP a bod y darparwr yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau'r BLIDP.

Ymddiriedolaethau'r GIG

2.105 Mae gofyn i Ymddiriedolaethau GIG benodi cyfarwyddwr gweithredol arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc (adran 27(3)(a) o'r Ddeddf) a dynodi cyfarwyddwr anweithredol arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc (adran 27(2)(b)). Bydd y cyfarwyddwr gweithredol arweiniol yn gyfrifol am oruchwylio swyddogaethau'r Ymddiriedolaeth o dan adran 25 y Ddeddf. O ran y swyddogaethau hyn, mae'r Ddeddf yn gofyn i Ymddiriedolaeth gydweithio ag awdurdod lleol i wneud trefniadau i wella lles plant yn ardal yr awdurdod.

2.106 Mae Ymddiriedolaethau'r GIG yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau iechyd acíwt ac iechyd cymuned mewn ysbytai a lleoliadau cymunedol. Bydd amrywiaeth eang o staff yn dod i gysylltiad â phlant a rhieni wrth gyflawni eu dyletswyddau arferol. Dylai'r holl staff gael eu hyfforddi i ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac i fod yn effro i ddangosyddion achosion posibl o gam-drin neu esgeuluso plant, a gwybod sut i weithredu yn unol â gweithdrefnau'r BLlDP os bydd ganddynt bryderon.

2.107 Dylai holl staff ysbytai ac iechyd cymuned fod yn effro i'r posiblilrwydd o gam-drin neu esgeuluso plant, bod yn ymwybodol o weithdrefnau lleol a chydymffurfio â nhw, gwybod sut i wneud atgyfeiriad amddiffyn plant a gwybod enwau a manylion cyswllt y gweithwyr proffesiynol dynodedig a phenodol perthnasol. Dylai'r staff sy'n pryderu am blentyn weithredu yn unol â Phennod 8 y ddogfen hon, gan gael cyngor gan y gweithwyr proffesiynol penodol lle bo'n briodol. Dylid cynnwys plant a theuluoedd yn y prosesau hyn oni bai y byddai hyn yn arwain at niwed i'r plentyn.

Gweithwyr Proffesiynol Penodol

2.108 Mae gofyn i bob Ymddiriedolaeth GIG nodi meddyg penodol, nyrs benodol a lle bo'n berthnasol, fydwraig benodol ar gyfer diogelu plant. Bydd y gweithwyr hyn yn arwain yn broffesiynol a strategol ar bob

agwedd ar gyfraniad y gwasanaeth iechyd i ddiogelu plant ledled yr Ymddiriedolaeth ac yn darparu cyngor ac arbenigedd i gydweithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill a bydd ganddynt arbenigedd penodol ym maes iechyd a datblygiad plant, cam-drin ac esgeuluso plant a threfniadau lleol ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles plant yn eu sefydliad. Dylid adlewyrchu'r swyddogaeth hon mewn disgrifiadau swydd.

2.109 Dylid diffinio swyddogaethau'r gweithwyr proffesiynol penodol yn glir mewn disgrifiadau swydd a rhoi digon o amser a chyllid iddynt gyflawni cyfrifoldebau amddiffyn plant yr Ymddiriedolaeth yn effeithiol. Yn achos Ymddiriedolaethau GIG a BILlau mawr sy'n darparu gwasanaethau acíwt a chymunedol, ar nifer o safleoedd o posiblll, gall gwaith tîm wella'r gallu i ddarparu cyngor a chyd-gymorth i'r rhai sy'n cyflawni'r swydd o weithiwr proffesiynol penodol. Os yw'r dull hwn yn cael ei fabwysiadu, mae'n bwysig sicrhau bod y trefniadau arwain ac atebolrwydd yn glir.

2.110 Yn achos Galw Iechyd Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, dylai'r person hwn fod yn weithiwr proffesiynol penodol.

2.111 Pan fo BILl yn darparu gwasanaethau acíwt neu gymunedol (er y gall BILlau gomisiynu Ymddiriedolaethau GIG i ddarparu'r gwasanaeth hwn) dylent nodi meddyg penodol, nyrs benodol a lle bo'n berthnasol, fydwraig benodol ar gyfer diogelu plant.

Egluro trefniadau/cyfathrebu rhwng gweithwyr proffesiynol dynodedig a phenodo

2.112 Bydd y gweithwyr proffesiynol dynodedig yn ymgynghori â phob Ymddiriedolaeth trwy'r gweithwyr proffesiynol penodol ar gyfer amddiffyn plant a nodwyd gan bob ymddiriedolaeth.

2.113 Bydd y gweithwyr proffesiynol penodol yn gweithio ac yn ymgynghori â'r gweithwyr proffesiynol dynodedig i sicrhau ymateb iechyd cyson ac effeithiol i ddiogelu plant.

2.114 Mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol dynodedig weithio gyda'r gweithwyr proffesiynol penodol ym mhob ymddiriedolaeth i sefydlu llinellau cyfathrebu clir o fewn a rhwng ymddiriedolaethau gwahanol a darparwyr iechyd eraill.

2.115 Mewn adolygiad achos difrifol bydd y gweithwyr proffesiynol penodol yn gweithio gyda'r gweithwyr proffesiynol dynodedig sydd â chyfrifoldeb cyffredinol ar ran y BILl.

2.116 Dylai gweithwyr proffesiynol penodol ymgynghori â gweithwyr proffesiynol dynodedig a gofyn iddynt gymryd rhan mewn materion a allai gael effaith y tu hwnt i'r ymddiriedolaeth. Gallai'r rhain gynnwys:

- Cyhuddiadau o gam-drin proffesiynol yn cynnwys gweithiwr iechyd (ble bydd y gweithiwr proffesiynol dynodedig yn cynrychioli'r BILl fel comisiynydd);
- Achosion difrifol o gam-drin ac esgeuluso plant;
- Cyhuddiadau, amheuon neu bryderon am arferion a allai effeithio ar ddiogelu plant.

Trefniadau ar gyfer goruchwylio a chymorth

2.117 Bydd y gweithwyr proffesiynol penodol yn gyfrifol ac yn atebol o fewn fframwaith rheoli'r ymddiriedolaeth sy'n eu cyflogi. Byddant hefyd yn cyflawni'r cyfrifoldeb proffesiynol arferol i'w cyrff proffesiynol.

2.118 Dylai ymddiriedolaethau sicrhau bod trefniadau clir ar waith i oruchwylio a chynorthwyo gweithwyr proffesiynol penodol. Bydd angen i hyn gael ei ddarparu ar lefel uwch a gwybodus briodol yn yr ymddiriedolaeth neu gan y gweithwyr proffesiynol dynodedig.

2.119 Pan fo angen, bydd y gweithiwr proffesiynol penodol yn gofyn am arweiniad a chyngor gan y gweithwyr proffesiynol dynodedig.

Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys

2.120 Dylai staff sy'n gweithio mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys ac unedau mân anafiadau fod yn gyfarwydd â gweithdrefnau amddiffyn plant. Dylent fod yn effro i ddangosyddion cam-drin plant, esgeulustod a cham-drin domestig. Dylai staff fod â manylion cyswllt gweithwyr proffesiynol amddiffyn plant penodol a dynodedig hefyd yn ogystal â manylion cyswllt Gwasanaethau Cymdeithasol. Dylai cyngor paediatrig arbenigol fod ar gael bob amser i'r adrannau hyn, a phob ward sy'n gofalu am blant. Os yw plentyn – neu blant o'r un cartref – yn mynychu dro ar ôl tro, hyd yn oed gyda mân anafiadau, a bod hynny'n peri pryder i'r meddygon, nyrsys a staff eraill, dylent weithredu yn unol â Phennod 8 y canllawiau hyn. Dylai staff wybod sut i wneud ymholiad i'r Gofrestr Amddiffyn Plant.

2.121 Dylai pob ymweliad gan blentyn i adran Damweiniau ac Achosion Brys gael ei hysbysu'n gyflym i dîm gofal iechyd sylfaenol y plentyn a'i gofnodi yn nodiadau ysbyty'r plentyn, os oes rhai a/neu gofnod claf electronig. Dylid hysbysu'r ymwelydd iechyd a'r nyrs ysgol bob amser.

Y Fydwraig a'r Nyrs Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (Ymwelydd Iechyd a Nyrs Ysgol)

2.122 Mae nyrsys yn gweithio gyda phlant a theuluoedd mewn sawl amgylchedd gwahanol ac mewn safle da i weld pryd mae plentyn angen cymorth, gwasanaethau neu mewn perygl posibl o niwed sylweddol.

2.123 Hybu iechyd yw prif fyrdwn gwaith ymwelydd iechyd gyda theuluoedd. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o grwpiau proffesiynol eraill, mae ymwelwyr iechyd yn darparu gwasanaeth cyffredinol sydd, o'i gyplysu gyda'u gwybodaeth am blant a theuluoedd a'u harbenigedd mewn asesu a monitro iechyd a datblygiad plentyn, yn golygu bod ganddynt swyddogaeth bwysig ym mhob cam o drefniadau cynorthwyo teuluoedd ac amddiffyn plant. Ymwelwyr iechyd, yn aml, yw'r man cychwyn ar gyfer atgyfeiriadau amddiffyn plant ac mae eu gwaith parhaus yn cynorthwyo teuluoedd yn eu rhoi mewn sefyllfa unigryw i barhau i fod â swyddogaeth bwysig wrth i'r ymholiadau barhau.

2.124 Mae bydwragedd yn rhan o fywydau rhieni o ddyddiad cadarnhau'r beichiogrwydd hyd at y cyfnod wedi geni'r babi. Yn ogystal â gweithio gyda'u cleientiaid i sicrhau beichiogrwydd iach a chynnig addysg ar ofal plant a bod yn rhieni, mae'r berthynas agos maent yn eu meithrin gyda'u cleientiaid yn rhoi cyfle i arsylwi ar agweddau at ddatblygiad y babi a nodi problemau posibl yn ystod y beichiogrwydd, yr enedigaeth a gofal cynnar y plentyn. Mae angen cysylltiad agos rhwng y fydwraig, yr ymwelydd iechyd a'r Meddyg Teulu cyn ac wedi'r enedigaeth fel bod yr wybodaeth berthnasol a gedwir gan y Meddyg Teulu a allai effeithio ar allu'r rhieni yn gallu cael ei rhannu'n effeithiol.

2.125 Mae nyrsys ysgol yn dod i gysylltiad rheolaidd â phlant oedran ysgol sy'n treulio cyfran sylweddol o'u hamser yn yr ysgol. Mae eu sgiliau a'u gwybodaeth am iechyd a datblygiad plentyn yn golygu bod ganddynt swyddogaeth bwysig ym mhob cam o brosesau amddiffyn plant trwy eu gwaith yn hybu, asesu a monitro iechyd a datblygiad plant.

2.126 Dylid darparu hyfforddiant ar amddiffyn plant a diweddariadau rheolaidd i nyrsys, bydwragedd, ymwelwyr iechyd a nyrsys ysgol fel rhan o'u rhaglen addysg ôl-gofrestru. Dylent gael eu goruchwylio'n ffurfiol a gallu troi at nyrs benodol / uwch nyrs am gyngor a chymorth.

Gwasanaethau iechyd i oedolion

2.127 Mae angen i bob gweithiwr iechyd proffesiynol sy'n gweithio gydag oedolion fod yn effro i anghenion plant. Dylent holi am unrhyw blant dibynnol neu blant y daw'r oedolyn claf i gysylltiad sylweddol â nhw yn rheolaidd ac ystyried unrhyw effaith ar y plentyn. Dylai pob gwasanaeth iechyd i oedolion holi am ac ystyried y canlynol yn rheolaidd:

- Plant dibynnol;
- Plant sy'n gweithredu fel gofalwyr ifanc;
- Unrhyw gyfaddawd ar y gallu i fod yn rhieni.

Gwasanaethau Iechyd Meddwl

2.128 Dylai pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio mewn gwasanaethau iechyd meddwl yn y sectorau statudol, gwirfoddol ac annibynnol fod yn effro i les plant, waeth a ydynt yn gweithio'n bennaf gydag oedolion neu blant a phobl ifanc. Maent yn debygol o ddod yn ymwybodol o anghenion plant yn eu holl amrywiaeth yn eu gwaith beunyddiol. Dylai pob gweithiwr iechyd meddwl proffesiynol fod yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth ar amddiffyn plant a chael eu hysbysu am weithdrefnau amddiffyn plant lleol a gwaith y BLlDP, a'u cyfrifoldebau amddiffyn plant. Efallai y bydd angen iddynt gyflawni eu dyletswydd i gynorthwyo gwasanaethau cymdeithasol mewn asesiadau, yn ogystal â mynychu cynadleddau amddiffyn plant ac adrodd iddynt lle bo angen.

2.129 Mae'r safbwynt iechyd meddwl yn bwysig i sawl agwedd ar les plant. Dylai BLlDPau allu galw ar arbenigedd gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, a gwasanaethau anabledd dysgu, oedolion, fforensig a chamddefnyddio sylweddau.

2.130 Mae'n rhaid i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau iechyd meddwl fod yn effro i'r posiblilrwydd y gall eu cleientiaid, boed yn oedolion neu'n blant fod yn berygl i blant. Os oes ganddynt unrhyw amheuon o'r fath dylent wneud atgyfeiriad i'r gwasanaethau cymdeithasol a dilyn gweithdrefnau amddiffyn plant.

Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed

2.131 Mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth yn nodi 11 safon ar gyfer hybu iechyd a lles plant a phobl ifanc a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i ddiwallu eu hanghenion. Mae Safon 9 yn trafod Iechyd Meddwl a Lles Seicolegol Plant a Phobl Ifanc. Pwysleisir pwysigrwydd gwaith partneriaeth effeithiol ac mae hyn yn arbennig o berthnasol i blant a phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl yn sgil cael eu cam-drin, eu hesgeuluso, cam-drin domestig a phlant sy'n agored i niwed yn sgil anabledd dysgu.

2.132 Wrth gyflawni eu gwaith, bydd gweithwyr iechyd proffesiynol plant a phobl ifanc yn siŵr o weld neu amau achosion o gam-drin a/neu esgeuluso plentyn. Mae ganddynt ddyletswydd i wneud atgyfeiriad amddiffyn plant i'r gwasanaethau cymdeithasol. Dylai trefniadau ymgynghori, goruchwylio ac adnoddau hyfforddi fod ar gael ym mhob gwasanaeth.

2.133 Mae'n rhaid i'r rhai sy'n gweithio i wasanaeth iechyd meddwl plant a'r glasoed fod yn ymwybodol y gall plant gam-drin plant eraill. Os ydynt yn dod yn ymwybodol o achos o'r fath, dylent ddilyn y gweithdrefnau amddiffyn plant lleol.

2.134 Gall gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol plant a'r glasoed gymryd rhan yn y broses asesu gychwynnol dan amgylchiadau lle mae eu sgiliau a'u gwybodaeth benodol yn fuddiol. Enghreifftiau: plant a phobl ifanc sydd â phroblemau ymddygiad ac aflonyddwch emosiynol difrifol, fel anhwylderau bwyta neu ymddygiad hunan-niweidio; teuluoedd lle mae yna risg uchel o berygl; plant ifanc iawn, neu pan fo gan y plentyn sydd wedi'i gam-drin neu'r sawl sy'n cam-drin broblemau cyfathrebu difrifol; sefyllfaoedd lle mae rhiant neu ofalwr yn ffugio symptomau salwch y plentyn neu'n achosi'r salwch yn fwriadol; ac achosion sy'n cynnwys mwy nag un dioddefwr. Yn ogystal, efallai y bydd angen darparu gwasanaethau asesu a thrin i droseddwyr ifanc sydd ag anhwylder meddwl. Efallai y bydd angen cael arbenigedd seiciatrydd neu seicolegydd clinigol arbenigol o wasanaeth anabledd dysgu neu wasanaeth iechyd meddwl i asesu plant ac oedolion sydd ag anawsterau dysgu sylweddol, anabledd, neu anawsterau gyda'r synhwyrau a chyfathrebu.

2.135 Mae gan wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed swyddogaeth mewn darparu amrywiaeth o wasanaethau asesu a thrin seiciatryddol a seicolegol i blant a theuluoedd. Mae'r gwasanaethau y gellir eu darparu, ar y cyd â gwasanaethau cymdeithasol, yn cynnwys darparu adroddiadau i Lys, a gwaith uniongyrchol gyda phlant, rhieni a theuluoedd. Gellir darparu gwasanaethau mewn timau aml-ddisgyblaeth cyffredinol neu arbenigol, yn dibynnu ar ba mor ddifrifol a chymhleth yw'r broblem. Yn ogystal, gellir cynnig ymgynghoriaeth a hyfforddiant i wasanaethau yn y gymuned yn cynnwys, er enghraifft, gwasanaethau cymdeithasol, ysgolion, timau gofal iechyd sylfaenol a meithrinfeydd.

Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion

2.136 Mae gan wasanaethau iechyd meddwl i oedolion, yn cynnwys y rhai sy'n darparu gwasanaethau cyffredinol a chymunedol i oedolion, gwasanaethau fforensig, seicotherapi, camddefnyddio alcohol a sylweddau a gwasanaethau anabledd dysgu, gyfrifoldeb i ddiogelu plant pan ddeuant yn ymwybodol o blentyn sydd mewn perygl o niwed. Gall hyn fod yn ganlyniad gwaith uniongyrchol gyda'r rhai sydd â salwch meddwl, rhiant, darpar riant, neu gamdriniwr nad yw'n perthyn, neu mewn ymateb i gais i asesu oedolyn y teimlir ei fod yn achosi perygl posibl neu wirioneddol i blentyn neu berson ifanc.

2.137 Mae cydweithio ac ymgynghori agos rhwng gwasanaethau iechyd meddwl oedolion a gwasanaethau lles plant yn hanfodol er lles y plant. Bydd gofyn rhannu gwybodaeth pan fo angen i ddiogelu plentyn, neu blentyn sydd ar fin cael ei eni, rhag niwed. Gall gwasanaethau iechyd

meddwl plant a'r glasoed helpu i hwyluso cyfathrebu rhwng gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion a gwasanaethau lles plant, yn arbennig pan fydd pryderon am ymateb yn briodol i'r ddyletswydd o gyfrinachedd ac amddiffyn plant. Gall y meddyg penodol a/neu'r nyrs benodol roi cyngor hefyd.

Plant sy'n ymweld â Chleifion Seiciatrig

2.138 Mae yna ddau faes penodol mewn perthynas â phlant yn ymweld â rhieni ac aelodau eraill o'r teulu mewn lleoliadau seiciatrig lle gellir gofyn i adrannau gwasanaethau cymdeithasol asesu a yw ymweld â'r claf penodol yn llesol i'r plentyn.

2.139 Mae'r Cyfarwyddiadau a'r canllawiau cysylltiedig i Awdurdodau Ysbytai Ashworth, Broadmoor a Rampton (HSC 1999/160) yn nodi'r broses aseu i'w dilyn wrth benderfynu a all plentyn ymweld â chlaf penodol yn yr ysbytai hyn. (Am gopi cysylltwch a assemblypunlications@wales.gsi.gov.uk) Pan fydd adran gwasanaethau cymdeithasol yn ystyried bod ganddi bwerau o dan Ddeddf Plant 1989 i wneud yr asesiad angenrheidiol, dylai helpu'r ysbyty trwy asesu a yw ymweld â'r claf penodol yn llesol i'r plentyn (LAC(99)23) (Am gopi cysylltwch a assemblypunlications@wales.gsi.gov.uk)

2.140 Mae'r Canllawiau ar Blant sy'n Ymweld â Chleifion Seiciatrig (HSC 1999/222: LAC (99)32) [http://www.dh.gov.uk/assetRoot/04/01/26/58/04012658.pdf] i Ymddiriedolaethau GIG, awdurdodau iechyd ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol, ar weithredu'r canllawiau ym mharagraff 26.3 Cod Ymarfer diwygiedig Deddf Iechyd Meddwl 1983, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 1999 [http://www.dh.gov.uk/assetRoot/04/07/49/61/04074961.pdf] yn datgan:

> "Hospitals should have written policies on the arrangements about the visiting of patients by children, which should be drawn up in consultation with local social services authorities. A visit by a child should only take place following a decision that such a visit would be in the child's best interests. Decisions to allow such visits should be regularly reviewed."

2.141 Mae'r canllawiau hefyd yn nodi'r egwyddorion sy'n sail i bolisïau ymweld plant mewn perthynas â phlant yn ymweld â chleifion sydd wedi'u cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Mae'r rhain yn pwysleisio pwysigrwydd hwyluso cysylltiad y plentyn â'i rieni neu aelodau allweddol eraill o'r teulu, lle bo'n posiblll. Pan fydd pryderon ynghylch lles plentyn, gall yr Ymddiriedolaeth ofyn i'r adran gwasanaethau cymdeithasol asesu a yw ymweld â'r claf penodol yn llesol i'r plentyn.

Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau

2.142 Mae amrywiaeth o wasanaethau'n cael eu darparu, gan Ymddiriedolaethau GIG a sefydliadau gwirfoddol yn arbennig, i ymateb i anghenion oedolion (sydd â chyfrifoldebau rhieni) sy'n camddefnyddio sylweddau. Mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol (PDC) yn gyfrifol am gydgysylltu'r gwaith o roi strategaeth camddefnyddio sylweddau Cymru ar waith yn lleol. Mae aelodaeth y PDCau yn cynnwys awdurdodau cyfrifol y mae gofyn iddynt gynnal adolygiad o lefel a phatrwm camddefnyddio sylweddau yn eu hardal. Mae gofyn iddynt hefyd lunio, gweithredu a chyhoeddi strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â chamddefnydd sylweddau yn eu hardal. Yr awdurdodau cyfrifol yw'r:

- Heddlu;
- awdurdodau lleol;
- awdurdodau tân;
- awdurdodau heddlu;
- Bwrdd Iechyd Lleol.

2.143 Y PDC neu ei Dîm Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau (SMAT) sy'n cydgysylltu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn lleol. Mae'n bwysig bod y BLlDPau a'r PDCau a'u SMATs yn cydweithio'n agos.

2.144 Mae'n bwysig bod trefniadau ar waith, ar lefel BLlDP, fel bod modd gwneud atgyfeiriadau amddiffyn plant a chamddefnyddio sylweddau mewn achosion perthnasol. Pan fo plant yn dioddef niwed sylweddol yn sgil eu camddefnydd eu hunain o sylweddau, neu pan fo camddefnydd eu rhieni'n achosi niwed o'r fath, bydd angen i wasanaethau camddefnyddio sylweddau wneud atgyfeiriadau yn unol â gweithdrefnau BLlDP. Pan nad yw plant yn dioddef niwed sylweddol, mae angen trefniadau i wneud atgyfeiriadau fel y gellir asesu ac ymateb i anghenion ehangach plant.

2.145 Mae'r BLlDPau yn gyfrifol am roi ystyriaeth lawn i'r heriau arbennig a'r gwaith cymhleth yn y maes hwn trwy sicrhau bod y canlynol ar waith:

- polisïau a gweithdrefnau BLlDP priodol;
- protocolau rhyngasiantaethol i gydgysylltu gwaith asesu a chymorth, yn enwedig ar draws gwasanaethau camddefnyddio sylweddau oedolion a gwasanaethau; a
- chydweithio agos gyda PDCau, eu SMATs a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau lleol, yn ogystal ag asiantaethau eraill yn cynnwys gwasanaethau iechyd, mamolaeth, gwasanaethau

cymdeithasol oedolion a phlant, llysoedd, carchardai a gwasanaethau prawf.

2.146 Amcangyfrifodd Adroddiad y Cyngor Cynghorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau *Hidden Harm : Responding to the needs of children of problem drug users* [http://www.drugs.gov.uk/publication-search/acmd/hidden-harm?view=Binary] bod rhwng 200,000 -300,000 o blant yng Nghymru a Lloegr yn blant i bobl â phroblem gyffuriau hy 2-3% o blant dan 16 oed. Daeth yr Adroddiad hefyd i'r casgliad bod rhieni sy'n camddefnyddio cyffuriau yn gallu ac yn achosi niwed i blant (a phobl ifanc) o bob oedran o'r cenhedlu i fod yn oedolyn, yn cynnwys camddefnyddio ac esgeulustod corfforol ac emosiynol. Mae angen asesiad trylwyr i benderfynu faint o angen a pherygl sydd ym mhob achos.

Gweithwyr Iechyd Proffesiynol Eraill

2.147 Mae llawer o weithwyr iechyd proffesiynol eraill yn darparu cymorth a chefnogaeth i hybu iechyd a datblygiad plant, ac mae llawer yn gweithio gyda phlant a theuluoedd agored i niwed sy'n cael problemau i ofalu am blant. Dylai'r canlynol, nad yw'n rhestr derfynol, fod yn ymwybodol o weithdrefnau BLIDP lleol:

- llawfeddygon orthopaedig;
- seicolegwyr clinigol;
- paediatryddion;
- nyrsys plant;
- deintyddion;
- staff gwasanaethau meddygol cenhedlol-wrinol;
- staff obstetreg a gynaecolegol;
- therapyddion galwedigaethol;
- ffisiotherapyddion;
- staff sy'n gweithio ym maes gofal iechyd preifat;
- staff gwasanaethau iechyd rhywiol, gwasanaethau cynghori ar feichiogrwydd;
- therapyddion lleferydd ac iaith; a
- gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gysylltiedig â meddygaeth.

Galw Iechyd Cymru

2.148 Gwasanaeth brysbennu ar y ffôn yw Galw Iechyd Cymru sy'n cynnig cyngor a chanllawiau ar iechyd i bobl sy'n cysylltu o Gymru'n bennaf, a rhai o Loegr. O ganlyniad, yr unig gysylltiad mae Galw Iechyd Cymru'n ei gael gyda phlant a phobl ifanc yw trwy blant/pobl ifanc yn eu ffonio

amdanynt eu hunain neu oedolion yn cysylltu â'r gwasanaeth gyda phryderon am blentyn/person ifanc sydd dan eu gofal.

2.149 Caiff y gwasanaeth ei weinyddu gan Ymddiriedolaeth GIG Abertawe. Mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu polisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant i ddiogelu plant a phobl ifanc sy'n cysylltu â'r gwasanaeth. Caiff canllawiau gweithdrefnol/adenda eu dylanwadu hefyd gan arferion polisi a gweithdrefnau NHS Direct yn Lloegr.

2.150 Mae gan Galw Iechyd Cymru ganllawiau gweithdrefnol ar drosglwyddo galwadau perthnasol i Childline a chanllawiau i sicrhau bod yna o leiaf un person cymwys a hyfforddwyd yn briodol ar ddyletswydd bob amser i ddelio â materion plant, fel yr argymhellwyd yn 'Adolygiad Carlile' 2002.

2.151 Mae Galw Iechyd Cymru wedi datblygu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant sy'n ffurfio adendwm i Bolisi Amddiffyn Plant Ymddiriedolaeth GIG Abertawe. Bydd pob un o staff canolfannau galwadau Galw Iechyd Cymru a gyflogir gan Galw Iechyd Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Abertawe, yn gweithredu'r weithdrefn os bydd achos honedig neu amheus o gam-drin plentyn.

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

2.152 Bydd gan staff sy'n gweithio yn y cyfleusterau iechyd hyn fynediad i lefydd lle mae teuluoedd yn byw neu byddant yn dod i gysylltiad â theuluoedd ar adeg o argyfwng ac felly mewn sefyllfa i nodi pryderon cychwynnol am les plentyn. Dylai pob un o'r cyrff ddynodi gweithiwr proffesiynol penodol ar gyfer diogelu plant.

2.153 Bydd unrhyw staff Ambiwlans a gyflogir gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn gweithredu'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt ar gyfer cofnodi ac atgyfeirio achosion pan mae yna achos honedig neu amheus o gam-drin plentyn. Mae hyn yn cynnwys cadarnhad llafar o unrhyw amheuon gyda'r heddlu neu nyrs brysbennu neu uwch nyrs neu feddyg yn yr ysbyty sy'n derbyn. Mae'r Rheolwr Rheoli Dyletswydd yn gyfrifol am ffonio'r Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol berthnasol sydd ar alwad i wneud yr atgyfeiriad cyn gynted â phosibll.

Meddyg Teulu a'r Tîm Gofal Iechyd Sylfaenol

2.154 Mae'r meddyg teulu ac aelodau eraill o'r tîm gofal iechyd sylfaenol (PCHT) mewn sefyllfa dda i weld pryd mae plentyn angen cymorth ychwanegol neu wasanaethau i hybu iechyd a datblygiad neu mewn perygl o niwed. Gall ymgynghoriadau yn y feddygfa, ymweliadau cartref, sesiynau ystafell driniaeth, mynychu clinigau iechyd plant, a gwybodaeth gan staff PCHT fel ymwelwyr iechyd, bydwragedd a nyrsys ymarfer helpu i greu darlun o sefyllfa'r plentyn a dangos unrhyw fylchau i'r tîm. Dylai holl aelodau'r tîm wybod pryd mae'n briodol i

atgyfeirio plentyn i'r gwasanaethau cymdeithasol am gymorth fel 'plentyn mewn angen', a gwybod beth i'w wneud os oes ganddynt bryderon y gallai plentyn fod mewn perygl o niwed sylweddol yn sgil cael ei gam-drin neu esgeulustod. Pan fo aelodau eraill y tîm yn pryderu am les plentyn dylid cymryd camau gweithredu yn unol â gweithdrefnau lleol. Dylid hysbysu'r Meddyg Teulu yn syth hefyd.

2.155 Pan fo practis yn cynnwys mwy na dau bartner, dylid nodi Meddyg Teulu arweiniol i arwain y gwaith o ddatblygu gwasanaethau gofal sylfaenol diogel ac ymatebol i blant a'u teuluoedd.

2.156 Dylai holl aelodau'r PHCT wybod sut i gysylltu â chydweithwyr sydd â phrofiad o faterion amddiffyn plant i gael cyngor, fel y gweithwyr proffesiynol dynodedig sy'n gweithredu ar ran y BILl, neu weithwyr proffesiynol penodol yn eu hymddiriedolaeth neu wasanaethau cymdeithasol.

2.157 Mae'r Meddyg Teulu a'r PHCT hefyd mewn safle da i weld pryd mae gan riant neu oedolyn arall broblemau a allai effeithio ar eu gallu fel rhiant neu ofalwr, neu a allai olygu eu bod yn achosi perygl i blentyn. Er bod gan Feddygon Teulu gyfrifoldebau i'w holl gleifion, mae plentyn yn fwy agored i niwed ac mae lles plentyn o'r pwys mwyaf. Os yw'r tîm yn pryderu y gallai neu fod problemau neu ymddygiad oedolyn yn achosi perygl o niwed sylweddol i blentyn, dylent ddilyn y gweithdrefnau a nodwyd ym Mhennod 8 y canllawiau hyn.

2.158 Yn sgil eu gwybodaeth am blant a theuluoedd, mae gan Feddygon Teulu (ac aelodau eraill y PHCT) swyddogaeth bwysig ym mhob cam o'r prosesau amddiffyn plant, o rannu gwybodaeth gyda gwasanaethau cymdeithasol pan wneir ymholiadau am blentyn, i fod yn rhan o gynllun amddiffyn plentyn i ddiogelu plentyn. Dylai Meddygon Teulu ddarparu gwybodaeth berthnasol am blentyn i gynadleddau amddiffyn plant. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth berthnasol am aelodau eraill y teulu ac effaith eu hanghenion iechyd a chymdeithasol ar eu gallu i fagu plant. Mae disgwyl i Feddygon Teulu ddarparu adroddiad waeth a ydyn nhw - neu aelod o'r tîm - yn gallu mynychu ai peidio.

2.159 Dylai Meddygon Teulu gymryd rhan mewn hyfforddiant ar amddiffyn plant a chael diweddariadau rheolaidd fel rhan o'u rhaglen addysg ôl-raddedig. Fel cyflogwyr, mae Meddygon Teulu'n gyfrifol am eu staff ac felly dylent sicrhau bod nyrsys practis, rheolwyr practis, derbynyddion ac unrhyw staff arall a gyflogant, yn cael cyfle i fynychu cyrsiau amddiffyn plant lleol, neu ddilyn hyfforddiant o fewn tîm y practis, yn cynnwys hyfforddiant ar y cyd i'r tîm cyfan.

2.160 Mae cael dulliau clir o nodi mewn cofnodion y plant hynny (a'u rhieni a'u brodyr a'u chwiorydd) sydd ar gofrestr amddiffyn plant yn arfer da. Bydd hyn yn galluogi partneriaid y practis ac unrhyw feddyg, nyrs practis neu ymwelydd iechyd arall a allai fod yn gysylltiedig â gofal y plant i adnabod y plant hyn. Dylid cael cyfathrebu da rhwng Meddygon

Teulu, ymwelwyr iechyd, nyrsys practis a bydwragedd mewn perthynas â phlant y maent yn pryderu yn eu cylch.

2.161 Yn ogystal, bwriedir defnyddio gwaith Llywodraeth y Cynulliad ar rannu gwybodaeth a Fframwaith Asesu Cyffredin yn gynnar yn y broses i nodi plant a fyddai'n elwa ar wasanaethau ychwanegol ac i benderfynu pa weithwyr proffesiynol/asiantaethau yw'r rhai gorau i ddarparu'r gwasanaethau hyn. Os oes plant angen asesiadau mwy trylwyr neu arbenigol ar blant, gallai'r rhain ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod cwblhau'r CAF.

2.162 Mae angen i Feddygon Teulu ac aelodau eraill o'r gwasanaeth cynenedigol fod yn effro i beryglon o niwed i'r plentyn yn y groth, a phlant eraill a gallu gweld y peryglon hynny. Mae traean o'r achosion o gam-drin domestig yn dechrau neu'n dwysáu yn ystod beichiogrwydd ac mae hyn yn gysylltiedig â chynnydd yng nghyfraddau cam-esgor, y ffetws yn marw neu'n cael ei anafu, pwysau geni isel a genedigaeth gynamserol. Dylai staff hefyd nodi bod menywod agored i niwed yn fwy tebygol o oedi cyn gofyn am gymorth ac o fethu mynychu clinigau'n rheolaidd. Dylid atgyfeirio'r rhai sydd angen cymorth arnynt i wasanaethau cymorth a chynghori priodol, neu i'r heddlu lle bo'n briodol.

2.163 Dylai pob Meddyg Teulu ac aelod o'r PHCT allu cael copi cyfredol o weithdrefn y BLIDP lleol.

Gwasanaethau y tu allan i oriau Meddygon Teulu

2.164 Mae BILlau yn gyfrifol am gynllunio gwasanaeth y tu allan i oriau Meddygon Teulu yn eu hardal. Dylai'r gwaith o gomisiynu'r gwasanaeth hwn gynnwys cyfrifoldebau clir ar gyfer diogelu plant, yn cynnwys gweithdrefnau recriwtio diogel. Dylai'r holl staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth y tu allan i oriau fod yn ymwybodol o weithdrefnau BLIDP lleol a chydymffurfio â nhw, gwybod sut i wneud atgyfeiriad amddiffyn plant a bod yn ymwybodol o sut i gael cyngor gan weithwyr proffesiynol dynodedig a phenodol.

Contractwyr annibynnol eraill

2.165 Dylai contractwyr annibynnol eraill yn y gwasanaeth iechyd hy deintyddion, fferyllwyr ac optometryddion fod yn ymwybodol o weithdrefnau amddiffyn plant a chydymffurfio â nhw. Dylent gael gweithdrefnau recriwtio diogel ar waith a dylent gael hyfforddiant ar amddiffyn plant.

Hyfforddiant a Goruchwyliaeth

2.166 Dylai holl staff y GIG dderbyn yr hyfforddiant a'r oruchwyliaeth briodol sydd eu hangen arnynt i adnabod a mynd i'r afael â phryderon ynghylch lles plant, ac i ymateb i anghenion plant.

Y sector annibynnol

2.167 Trwy eu trefniadau comisiynu, dylai Byrddau Iechyd Lleol sicrhau bod darparwyr y sector annibynnol yn darparu gwasanaethau sy'n cydymffurfio â rhwymedigaethau'r BILl i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, sydd wedi'u cynnwys mewn cytundebau lefel gwasanaeth. Bydd angen i'r BILlau weithio gyda darparwyr annibynnol i sicrhau bod cysylltiadau addas yn cael eu gwneud â'r BLlDPau a bod y darparwr yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau'r BLlDP.

Safonau'r GIG

2.168 Mae Adran 40(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 yn cynnwys dyletswydd ar bob corff y GIG i gyflwyno a chael trefniadau ar gyfer monitro a gwella ansawdd y gofal iechyd sy'n cael ei ddarparu gan y corff ac ar gyfer y corff hwnnw ac yn rhoi'r pŵer i Lywodraeth Cynulliad Cymru bennu safonau i'w dilyn gan bob corff GIG yng Nghymru wrth gyflawni'r ddyletswydd honno (a42 yn berthnasol).

2.169 Mae Deddf Safonau Gofal Cymru (2005) [http://www.wales.gov.uk/subihealth/content/keypubs/pdf/healthcare-standards-e.pdf] yn nodi'r safonau a ddaeth i rym o 1 Mehefin 2005 ac yn nodi'r ansawdd y disgwylir i bob sefydliad gofal iechyd ei gyrraedd neu ymgyrraedd ato yng Nghymru.

2.170 Mae Safon 17 yn berthnasol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Mae'n datgan fod yn 'rhaid i sefydliadau gofal iechyd gydymffurfio â gweithdrefnau amddiffyn plant cenedlaethol wrth gyflawni eu gweithgareddau eu hunain ac wrth ymwneud â sefydliadau eraill'.

2.171 I'r sefydliadau GIG perthnasol felly, bydd cyflawni dyletswydd adran 28 o'r Ddeddf Plant yn golygu:

- Bodloni safon 17; ac
- Ystyried argymhellion perthnasol y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth (NSF). Mae'r NSF yn cyfrannu at gyflawni nodau craidd Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer plant trwy wella ansawdd a lleihau amrywiadau yn y ddarpariaeth trwy bennu safonau cenedlaethol. Tra bod angen rhoi ystyriaeth arbennig i'r safon ddiogelu arfaethedig ym mhennod 2 yr NSF a'r camau gweithredu allweddol cysylltiedig, bydd safonau a chamau gweithredu yr NSF cyfan yn effeithio ar hyrwyddo lles plant. Enghraifft o hyn yw Pennod 7 – Salwch neu Anaf Acíwt neu Gronig, Safon 3 – Ansawdd Gwasanaethau, camau gweithredu allweddol 7.19 a 7.20. Nid enghraifft unigol yw hon, mae eraill i'w cael yn yr NSF.

Gwasanaethau gofal dydd

2.172 Mae gan wasanaethau gofal dydd – canolfannau teuluoedd a phlant, meithrinfeydd, gwarchodwyr plant, grwpiau chwarae cyn-ysgol a chynlluniau gwyliau a thu allan i oriau ysgol – swyddogaeth bwysig ym mywydau llawer o blant. Mae gan lawer o ddarparwyr gofal dydd brofiad sylweddol o weithio gyda theuluoedd lle mae angen diogelu plentyn rhag niwed, ac mae llawer o awdurdodau lleol yn darparu, comisiynu neu noddi gwasanaethau penodol, yn cynnwys gwarchodwyr plant, i weithio gyda phlant mewn angen a'u teuluoedd.

2.173 Dylai'r rhai sy'n darparu gwasanaethau gofal dydd wybod sut i adnabod ac ymateb i achosion posibll o gam-drin neu esgeuluso plentyn. Dylai darparwyr gofal dydd preifat, gwirfoddol ac awdurdod lleol sy'n gofalu am blant o dan 8 oed, ac sydd wedi'u rheoleiddio gan ASGC o dan Ddeddf Plant 1989, fod â pholisi amddiffyn plant ysgrifenedig. Dylai'r polisi hwn ddatgan yn glir gyfrifoldebau staff mewn perthynas ag adrodd am achosion tybiedig o gam-drin neu esgeuluso plant yn unol â gweithdrefnau'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant a dylai gynnwys rhifau cysylltu a rhifau ffôn yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol lleol. Dylai hefyd gynnwys gweithdrefnau i'w dilyn pan wneir cyhuddiad yn erbyn aelod o staff neu wirfoddolwr.

Yr Heddlu

2.174 Prif ddyletswyddau'r gwasanaeth heddlu yw diogelu bywyd ac eiddo, cadw heddwch y Frenhines, ac atal a chanfod troseddau.

2.175 Mae gan y gwasanaeth heddlu nifer o gyfraniadau allweddol i'w gwneud o ran diogelu a hyrwyddo lles plant. Er mai eu prif swyddogaeth yw ymchwilio i gyhuddiadau o gam-drin plant, maent hefyd yn cyflawni swyddogaeth allweddol i atal trais yn erbyn plant neu'n cynnwys plant a lleihau'r potensial i blant ddioddef.

2.176 Dylai cyfraniad y gwasanaeth heddlu gynnwys:

- nodi plant sy'n agored i niwed mewn achosion o drais domestig;
- defnyddio pwerau'r heddlu i gymryd plant i gystodaeth lle bo'n briodol;
- amddiffyn anghenion plant fel tystion neu ddioddefwyr;
- gweithio gydag asiantaethau partner yn y system cyfiawnder troseddol sy'n delio â throseddwyr ifanc er mwyn denu plant i ffwrdd o droseddu;
- gweithio gydag asiantaethau partner i addysgu plant a phobl ifanc ar faterion fel camddefnyddio sylweddau ac atal troseddu.

2.177 Wrth ddelio â'r materion hyn, nod y gwasanaeth heddlu yw diogelu bywydau plant a sicrhau mai lles y plentyn sy'n cael blaenoriaeth.

2.178 Mae gan y gwasanaeth heddlu gyfraniad sylweddol i'w wneud i ddiogelu a hyrwyddo lles plant trwy:

- weithredu polisi a lledaenu arferion da sy'n cydnabod lles plant fel y brif ystyriaeth, o fewn gofynion y system cyfiawnder troseddol;
- cydnabod bod gan swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu gyfrifoldeb yn ogystal ag unedau ymchwilio cam-drin plant arbenigol yr heddlu;
- blaenoriaethu'r gwaith o ymchwilio i droseddau ac amddiffyn plant rhag niwed; ac
- ymrwymiad tuag at weithio gydag asiantaethau eraill i sicrhau bod buddiannau'r plentyn yn cael eu gwasanaethu orau trwy waith partneriaeth effeithiol rhwng asiantaethau.

Gwneud trefniadau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant yng ngwasanaeth yr heddlu

2.179 Fel y soniwyd uchod, mae gan y gwasanaeth heddlu gyfrifoldeb i hybu a diogelu lles plant trwy atal troseddau yn eu herbyn a sicrhau bod ymchwiliadau i unrhyw droseddau o'r fath yn cael eu cynnal er lles y plentyn a'r system cyfiawnder troseddol. Ymhellach, mae adran 29 o Ddeddf yr Heddlu 1996 (fel y'i diwygiwyd gan adran 83 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002) yn gofyn i bob aelod o'r heddlu mewn ardal heddlu ardystio i sicrhau bod hawliau dynol sylfaenol yn cael eu parchu yn deg, cywir, diwyd a diduedd yn unol â'r gyfraith. Caiff y cyfrifoldebau hyn eu cyflawni yn unol â deddfwriaeth ddomestig a chytundebau rhyngwladol yn cynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol i ddiogelu unigolion rhag triniaeth annynol a diraddiol.

2.180 Mae Adran 28 o Ddeddf Plant 2004 yn cefnogi'r cyfrifoldebau hyn trwy osod dyletswydd ar yr heddlu i wneud trefniadau i sicrhau eu bod yn cyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â'r angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Nid yw hyn yn newid y swyddogaethau a osodwyd ar yr heddlu gan y statud cyfredol. Dylent barhau i ganolbwyntio ar fodloni amcanion y system cyfiawnder troseddol. Fodd bynnag, dylai'r gwasanaeth heddlu wneud y trefniadau canlynol, o dan adran 28 o Ddeddf Plant 2004, i sicrhau ei fod yn ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant wrth fodloni'r amcanion hyn.

Ymrwymiad ac atebolrwydd uwch reolwyr

2.181 Dylai pob heddlu sefydlu ymrwymiad gan uwch reolwyr i ddiogelu a hyrwyddo lles plant trwy:

- benodi ACPO i arwain ar faterion plant ym mhob llu;
- cael ymrwymiad cryf i bwysigrwydd y materion hyn drwy bolisïau a gweithdrefnau clir gyda chysylltiadau priodol ag asiantaethau partner; a

- sicrhau bod hyfforddiant a/neu ymwybyddiaeth addas ar waith i hyrwyddo lles plant.

2.182 Yn ogystal, dylai heddluoedd barhau i ddatblygu eu cynlluniau gweithredu ar weithredu argymhellion Adroddiad Ymchwiliad Victoria Climbié i sicrhau na fydd y camgymeriadau a wnaed yn achos Victoria Climbié yn cael eu hailadrodd.

2.183 Dylai heddluoedd dalu sylw i feini prawf asesu llinell sylfaenol HMIC 2005, yn enwedig 3C11 – 3C18,1C06 a 2A05 – 2A07, wrth fodloni eu hunain eu bod yn gwneud cynnydd effeithiol. [http://www.inspectorates.homeoffice.gov.uk/hmic/docs/ba2006frmwk/ba2006fwks.pdf?view=Binary]

2.184 Yn 2005, cyhoeddodd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu ganllawiau ar yr ymchwiliad i gyhuddiadau o gam-drin plant. [http://www.acpo.police.uk/asp/policies/Data/Child%20Abuse%20-%20ACPO%20guidelines.pdf] Mae Canllawiau ar Ymchwilio i Gam-drin Plant a Diogelu Plant 2005 yn darparu'r safonau gofynnol i Heddluoedd a dylid eu gweithredu ym mhob heddlu.

2.185 Mae'r materion strategol canlynol yn ymddangos o'r canllawiau i brif swyddogion:

- Gweithredu polisi heddlu cynhwysfawr sy'n cynnwys y *Guidance on Investigating Child Abuse and Safeguarding Children* ac sy'n gweithio ochr yn ochr â pholisïau cysylltiedig;
- Sicrhau bod ymchwilio i droseddu yn erbyn plant yr un mor bwysig ag ymchwilio i unrhyw fath arall o droseddu difrifol a dileu unrhyw awgrym fod gan ymchwilio i gam-drin plant statws is na mathau eraill o blismona;
- Datblygu systemau gwybodaeth sy'n cefnogi'r broses o rannu gwybodaeth yn yr Heddlu a chydag asiantaethau eraill;
- Canolbwyntio ar gyfrifoldeb yr heddlu i ymchwilio i gam-drin plant a chyflawni ei swyddogaeth yn y system cyfiawnder troseddol i sicrhau bod troseddwyr yn cael eu cosbi;
- Sicrhau bod pob agwedd ar blismona cam-drin plant yn cael eu goruchwylio'n effeithiol.

Datganiadau Cyfrifoldeb

2.186 Dylai pob heddlu sicrhau bod swyddogion yr heddlu a gweithwyr cyflogedig yr heddlu ar bob lefel yn ymwybodol o'u gofynion statudol i amddiffyn a diogelu lles plant.

2.187 I gyflawni hyn, bydd angen i heddluoedd ddangos agwedd ragweithiol i sicrhau bod yr holl weithwyr cyflogedig yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau.

Datblygu gwasanaeth

2.188 Mae gan awdurdodau'r heddlu swyddogaeth gyffredinol i sicrhau gwasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon yn eu hardal. Nhw hefyd sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r cynllun plismona lleol, gan dynnu o'r Cynllun Plismona Cenedlaethol.

2.189 Wrth ddatblygu eu cynlluniau adrannol a phlismona lleol dylai pob heddlu ac awdurdod:

- dalu sylw dyledus i bwysigrwydd materion amddiffyn plant mewn cymunedau lleol;
- adlewyrchu argymhellion Adroddiad Ymchwiliad Victoria Climbié;a
- sicrhau eu bod yn ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant wrth benderfynu ar flaenoriaethau cyfiawnder troseddol.

2.190 O dan adran 96 o Ddeddf yr Heddlu 1996 [http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1996/96016--i.htm#96] mae gan Awdurdodau'r Heddlu ddyletswydd i ymgynghori ar faterion sy'n ymwneud â phlismona eu hardal.

Hyfforddiant

2.191 Dylai heddluoedd sicrhau bod ganddynt brosesau a gweithdrefnau hyfforddi priodol i alluogi'r holl staff i gefnogi nodau ac amcanion Deddf Plant 2004 yn y ffordd orau posiblllll.

Gweithio gyda phlant unigol

2.192 Mae pobl o dan 17 oed yr amheuir eu bod wedi cyflawni trosedd yn cael eu cydnabod fel rhai agored i niwed. Mae Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 a'r Cod Ymarfer sy'n cyd-fynd â'r ddeddf (a'i hadolygu'n flynyddol) yn rhoi cyfrifoldeb statudol ar yr heddlu i sicrhau bod ystyriaethau ychwanegol yn cael eu rhoi i les a buddiannau person ifanc wrth ddelio â nhw yng nghyd-destun anghenion y system cyfiawnder troseddol. Mae gofyn i berson o dan 17 oed gael gofal arbennig yn cynnwys darparu oedolyn priodol pan fydd yn y ddalfa.

2.193 Mae Cymdeithas Swyddogion yr Heddlu wedi cyhoeddi llawlyfr o ganllawiau ar ymchwilio i gyhuddiadau o gam-drin plant. Mae'r canllawiau ar ymchwilio i gam-drin plant a diogelu plant 2005 [http://www.acpo.police.uk/asp/policies/Data/Child%20Abuse%20-%20ACPO%20guidelines.pdf] yn darparu'r safonau gofynnol a dylid eu gweithredu ym mhob heddlu.

Gwaith rhyngasiantaethol

2.194 Wrth gefnogi gwaith rhyngasiantaethol effeithiol, dylai heddluoedd gymryd rhan mewn Byrddau Lleol Diogelu Plant (BLlDPau). Dylai BLlDPau gael gweithdrefnau lleol i reoli gwaith rhyng-asiantaeth.

Rhannu gwybodaeth

2.195 Dylai heddluoedd wneud y defnydd gorau o gyfnewid gwybodaeth rhwng asiantaethau.

2.196 Mae'r Cynllun Plismona Cenedlaethol, y Papur Gwyn diweddar i ddiwygio'r heddlu a chyhoeddiad y Swyddfa Gartref, *Firm Foundations,* yn nodi'n glir bod angen cydgysylltu'r gwahanol ddogfennau a chylchoedd cynllunio.

2.197 Argymhellodd Ymchwiliad Bichard y dylid datblygu Cod Ymarfer ar Reoli Gwybodaeth i gynorthwyo'r gwasanaeth heddlu i fabwysiadu dull cyson o gofnodi, adolygu a rhannu gwybodaeth. Mae'r Cod wedi'i ddatblygu bellach [<http://police.homeoffice.gov.uk/news-and-publications/publication/operational-policing/CodeofPractice Final 12073.pdf?view=Binary>]. Diben y cod yw sicrhau bod yna gysondeb bras yn y ffordd mae heddluoedd yn rheoli gwybodaeth o fewn y gyfraith, i sicrhau defnydd effeithiol o wybodaeth sydd ar gael o fewn a rhwng heddluoedd unigol ac asiantaethau eraill, ac fel bod aelodau'r cyhoedd yn cael chwarae teg.

2.198 Yn ogystal, mae'r rhaglen IMPACT IT yn cael ei datblygu i sicrhau bod heddluoedd ac awdurdodau fetio'n cael mynediad i wybodaeth a chudd-wybodaeth a gedwir gan heddluoedd eraill.

Heddlu Trafnidiaeth Prydain

2.199 Heddlu Trafnidiaeth Prydain (BTP) yw'r heddlu cenedlaethol ar gyfer y rheilffyrdd sy'n darparu gwasanaeth plismona i weithredwyr rheilffyrdd, eu staff a theithwyr ledled Cymru, Lloegr a'r Alban.

2.200 Mae'r BTP yn cwmpasu'r ystod droseddu gyfan o droseddau treisgar a rhywiol difrifol i ddwyn oddi ar unigolyn a throseddau ceir. Mae hefyd yn arwain y gwaith o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gallu effeithio cymaint ar y rhai sy'n defnyddio a gweithio ar y rheilffordd. Ni fwriadwyd i ddyletswydd adran 28 gyfaddawdu gallu'r BTP i gyflawni'r swyddogaethau hyn.

2.201 Yn ymarferol, mae'r BTP yn deall ei gyfraniad i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, sy'n ymwneud yn benodol â phlant:

- sydd wedi'u harestio;
- yr hysbyswyd yr heddlu amdanynt;

- sydd wedi'u cyhuddo;
- sydd wedi cael rhybudd (*cautioned*);
- sydd wedi cael rhybudd (*warned*);
- sydd yn y ddalfa;
- sydd wedi'u cymryd i ofal yr heddlu;
- sydd wedi'u stopio a'u harchwilio (*stop searched*);
- sydd wedi'u stopio a'u harchwilio (*stop checked*);
- sydd wedi rhedeg i ffwrdd (hyd yn oed ar ôl dychwelyd i'w cyfeiriad cartref);
- sy'n triwanta; ac
- sy'n dod i sylw'r BTP am unrhyw reswm arall nas soniwyd amdano uchod.

2.202 Mae'r BTP yn cydnabod y ffactorau sy'n achosi perygl i ddiogelwch a lles plant ac yn rhoi gweithdrefnau ar waith i ddiogelu'r rhai sy'n agored i niwed.

2.203 Bydd y BTP yn cyflawni'r dyletswyddau hyn yn unol â'i bwerau deddfwriaethol ar gyfer darparu amddiffyniad gan yr heddlu o dan Ddeddf Plant 1989, a deddfwriaeth berthnasol, yn cynnwys cael gwared ar driwantiaid o dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998.

2.204 Bydd y dyletswyddau hyn hefyd yn cael eu cyflawni yn unol â pholisi'r Heddlu ar amddiffyn a diogelu lles plant, sydd yng nghronfa ddata polisïau'r Heddlu (yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd). Gweler yr adran *Datganiad Cyfrifoldeb* isod.

2.205 Mae'r polisïau hyn yn cynnwys canllawiau manwl ar sut i ddefnyddio pwerau deddfwriaethol, yn cynnwys, er enghraifft, penodi swyddog annibynnol dynodedig yn achos plentyn sy'n cael ei gymryd i amddiffyniad yr heddlu.

Ymrwymiad uwch reolwyr

2.206 Cafodd ystyriaeth i les plant ei gynnwys yn nogfennaeth strategol y BTP o fis Ebrill 2005. Mae'r dogfennau hyn yn eiddo i Awdurdod y BTP, y Prif Gwnstabl a Grŵp y Prif Swyddogion.

2.207 Bydd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol (Gweithrediadau) yn gyfrifol am fonitro effeithiolrwydd y polisi newydd hwn sy'n cwmpasu gofynion adran 28 o Ddeddf Plant 2004 ac am awdurdodi diwygiadau lle bo angen.

Datganiad cyfrifoldeb

2.208 Mae'r BTP yn cynnal adolygiad mawr o'r ffordd mae polisi'n cael ei greu a'i ledaenu. Fel rhan o'r broses hon, cyflwynir model asesu effaith newydd a fydd yn cynnwys adran sy'n gofyn i awduron polisi ystyried effaith eu dogfen ar les plant. Yn yr un modd, bydd y BTP yn cynnwys ystyriaeth o ofynion adran 11 yn ei adolygiad parhaus o bolisïau cyfredol.

Atebolrwydd yn y BTP am waith ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant

2.209 Mae'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol (Gweithrediadau) yn gyfrifol am sicrhau bod gwaith y BTP yn diogelu a hyrwyddo lles plant. O fewn y cyd-destun hwn, caiff ei gynorthwyo gan y Gyfarwyddiaeth Cyfiawnder a'r Uned Datblygu Strategol. Mae'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol (Gweithrediadau) yn atebol i'r Prif Gwnstabl.

2.210 Bydd y ddogfen bolisi *Children and Young Persons in Police Protection* [http://www.btp.police.uk/documents/Policies/D56540.pdf], sy'n egluro cyfrifoldebau Swyddogion BTP o dan Ddeddf Plant 1989, yn darparu'r sylfaen ar gyfer trefniadau i gydymffurfio ag adran 28 o Ddeddf Plant 2004.

Hyfforddiant

2.211 Fel rhan o hyfforddiant sylfaenol pob swyddog BTP, dylid rhoi canllawiau manwl ar bob agwedd ar ddeddfwriaeth berthnasol. Mae hyn yn cynnwys achosion lle mae swyddogion yn dod i gysylltiad â phlant a phobl ifanc. Yn ogystal, mae swyddogion penodol wedi'u dynodi fel swyddogion hyfforddedig *Achieving Best Evidence* (ABE) sydd â gwybodaeth benodol am dechnegau cyfweld plant dan ofal yr heddlu. Mae'r canllawiau hyn wedi'u cwmpasu ym mholisi *ABE - Vulnerable and Intimidated Witnesses*.

2.212 Mae natur arbenigol gweithgareddau'r BTP yn golygu bod rhaid i swyddogion ennill sgiliau i ddelio â throseddau fel troseddu ar y rheilffyrdd, tresmasu a fandaliaeth, a dwyn oddi ar unigolion, sy'n gyffredin i droseddwyr ar y rheilffyrdd a throseddwyr ifanc. Dylai'r sgiliau hyn gynnwys technegau cyfweld a amlinellir uchod (ABE), hyfforddiant diogelwch ar y traciau, gweithdrefnau cysylltu ag ysgolion, cysylltu â theuluoedd, a nifer o ddulliau partneriaeth.

Gweithdrefnau recriwtio, fetio a chwyno diogel

2.213 Mae'n rhaid i holl swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu gael archwiliad diogelwch llawn cyn dechrau ar eu swydd. Mae hyn yn sicrhau nad yw'r BTP yn cyflogi unrhyw un sydd â chollfarn flaenorol, sef unrhyw beth sy'n cyfaddawdu lles plant yn y cyd-desutn hwn.

Dylai'r BTP gael gweithdrefnau recriwtio sy'n cynnwys gwirio tystlythyron. Dylai Adran Safonau Proffesiynol yr Heddlu, a sefydlwyd ar gais Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu, archwilio pob cwyn.

Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

Swyddogaeth Byrddau Prawf mewn perthynas â diogelu a hyrwyddo lles plant

2.214 Swyddogaethau allweddol y Gwasanaethau Prawf Cenedlaethol yw diogelu'r cyhoedd a lleihau ail-droseddu. Mae'r swyddogaethau hyn yn cwmpasu:

- cosbi oedolion sy'n troseddu yn y gymuned yn briodol;
- sicrhau bod troseddwyr yn ymwybodol o effeithiau troseddau ar ddioddefwyr a'r cyhoedd; ac
- adsefydlu troseddwyr.

2.215 Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn, mae'n rhaid i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol weithredu'n unol â Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000 a Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 a'r Rheolau a wnaed oddi tanynt a chyda'r penderfyniadau polisi a'r cyfarwyddebau a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref. Ni fwriadwyd i ddyletswydd Adran 28 gyfaddawdu gallu Byrddau Prawf i gyflawni'r swyddogaethau hyn, ond bydd yn darparu cyfeiriad penodol i sicrhau bod y gwasanaeth prawf yn gweithredu o fewn gweledigaeth ehangach i ystyried lle gellir gwella'r gwasanaeth a'i ddatblygu i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

2.216 Mae'r Gwasanaeth Prawf yn deall mai ei gyfraniad i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, yn ymarferol, yw:

- rheoli oedolion sy'n troseddu mewn ffyrdd a fydd yn lleihau'r perygl o niwed y gallant ei achosi i blant trwy asesu medrus, darparu ymyriadau o ansawdd sydd wedi'u targedu'n dda a chynllunio i reoli perygl;
- darparu gwasanaethau i oedolion sy'n troseddu, a allai gynnwys rhieni neu ofalwyr, sy'n mynd i'r afael â'r ffactorau a ddylanwadodd ar eu rhesymau i droseddu, er enghraifft, sgiliau meddwl gwael, rhesymu moesol gwael, dibyniaeth ar alcohol/cyffuriau (yn ymwneud â'r ddau faes yn y Fframwaith Asesu – y gallu i fagu plant a ffactorau teuluol ac amgylcheddol);
- cydnabod ffactorau sy'n achosi perygl i ddiogelwch a lles plant, a rhoi gweithdrefnau asiantaeth ar waith i ddiogelu plant rhag niwed (trwy rannu gwybodaeth briodol a chynllunio rheoli perygl aml-asiantaeth cydweithredol, er enghraifft, Trefniadau Aml-asiantaeth

er Diogelu'r Cyhoedd, cyfraniad at Weithdrefnau Amddiffyn Plant a thrwy fforymau Trais Domestig);

- secondio staff i weithio mewn timau troseddau ieuenctid;
- darparu gwasanaeth i blant sydd wedi dioddef troseddau rhywiol neu dreisgar difrifol; a
- darparu gwasanaeth i fenywod a gafodd eu cam-drin yn ddomestig gan ddynion sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni trais domestig achrededig. Yn ymarferol, bydd hyn yn golygu ystyried anghenion unrhyw blant dibynnol yn y teulu.

Gwneud trefniadau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant yn y Gwasanaeth Prawf

2.217 Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn deall bod ganddo swyddogaeth bwysig i weithio gydag oedolion sy'n troseddu a allai achosi perygl uniongyrchol i blant a'u gofalwyr.

2.218 Bydd y gwaith o ddatblygu polisïau a chanllawiau ymarfer yn cael ei arwain gan asesiad o berygl niwed y mae troseddwr yn ei achosi i blentyn, y cyhoedd, dioddefwyr, ei hun a staff. Bydd cynlluniau'n cael eu gwneud wedyn i reoli a lleihau'r perygl. Yn ogystal, dylid cynllunio ymyriadau i ystyried sut gallai gyfrannu at wella sgiliau rhianta a gofalu troseddwyr sy'n gyfrifol am blant.

2.219 Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth i sicrhau newid. Caiff hyn ei ddatblygu o dan fantell y Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol i sicrhau rheolaeth hollgynhwysfawr ar droseddwyr, boed yn cwblhau eu dedfryd mewn carchar, yn y gymuned neu'r ddau.

2.220 Bydd y Gyfarwyddiaeth Brawf yn darparu strategaeth benodol i Ardaloedd Prawf i ddatblygu polisi a chanllawiau sy'n cefnogi rhoi Deddf Plant 2004 ar waith a datblygu proses i nodi a rhannu arferion da.

Ymrwymiad uwch reolwyr

2.221 Mae Prif Swyddogion y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Byrddau Prawf yn ymrwymedig i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Ym mhob Ardal Brawf, dylid cael Prif Swyddog (neu Brif Swyddog Cynorthwyol dynodedig), sy'n atebol i'r Byrddau Prawf, ac yn gyfrifol am ddiogelu a hyrwyddo lles plant a darparu arweiniad ar gyfer arferion da. Dylid cynnwys y Prif Swyddog yn y gwaith o ddatblygu strategaethau lleol a chanllawiau ymarfer i oedolion sy'n troseddu a dioddefwyr troseddau difrifol sy'n cynnwys y cyfrifoldeb i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Bydd ef/hi yn gyfrifol am weithredu strategaethau a chanllawiau o'r fath. Bydd y Prif Swyddog (neu'r Prif Swyddog Cynorthwyol dynodedig) yn gweithio gyda'r Byrddau Lleol Diogelu Plant i gytuno ar gamau

gweithredu i sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle i gyflawni ei botensial ac i leihau'r peryglon o ganlyniadau gwael i blant a phobl ifanc, a'r cyfraniad y gall y Gwasanaeth Prawf ei wneud i wella canlyniadau.

Datganiad cyfrifoldeb

2.222 Bydd y Gyfarwyddiaeth Brawf yn datblygu strategaeth genedlaethol ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac yn sicrhau bod y Byrddau Prawf yn cymryd rhan fel aelod perthnasol o'r Byrddau Lleol Diogelu Plant ac ymddiriedolaethau plant lle bo'n briodol. Yn y cyd-destun hwn, dylai Prif Swyddog pob Bwrdd Prawf fod yn gyfrifol am lunio a gweithredu polisi a chanllawiau ymarfer lleol a fydd yn nodi cyfrifoldebau'r staff mewn perthynas â diogelu a hyrwyddo lles plant.

Llinell atebolrwydd clir yn y sefydliad ar gyfer gwaith ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant

2.223 Mae'r Byrddau Prawf yn gyfrifol am reoli Ardaloedd Prawf a staff o ddydd i ddydd trwy eu Prif Swyddogion. Mae'r Cyfarwyddwr Prawf, y Prif Swyddogion a Chadeiryddion Byrddau Prawf yn atebol i Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref trwy Brif Weithredwr y Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol.

2.224 Dylai Byrddau Prawf sicrhau bod staff ardal lleol sy'n gweithio gyda throseddwyr:

- yn gyfarwydd â chanllawiau ar adnabod plant mewn angen, yn enwedig y rhai sydd wedi'u cam-drin neu eu hesgeuluso;
- yn gwybod beth i'w wneud os oes ganddynt bryderon am les plant, yn ymwybodol o'r Fframwaith Asesu ac yn gwybod sut i atgyfeirio plentyn sy'n bryder iddynt i wasanaethau cymdeithasol yr ALl yn yr ardal; ac
- yn adnabod y cyfraniad y gallant ei wneud o ran gweithio gyda throseddwyr i wella eu sgiliau i fagu plant ac i fod yn ofalwyr yn ogystal â lleihau'r tebygolrwydd o ail-droseddu.

Hyfforddiant

2.225 Dylai Byrddau Prawf ddarparu hyfforddiant ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant i'r holl staff sy'n gweithio neu'n dod i gysylltiad â phlant a'u teuluoedd.

2.226 Bydd y Byrddau Prawf Ardal yn sicrhau bod eu Hardal Brawf yn cael ei chynrychioli fel partner perthnasol ar y Bwrdd Lleol Diogelu Plant, a bod ymarferwyr prawf yn cymryd rhan mewn hyfforddiant rhyngasiantaethol ac yn gyfarwydd â'r Fframwaith Asesu Cyffredin, gweithdrefnau atgyfeirio pan mae yna bryderon am ddiogelwch neu les

plentyn a'u swyddogaeth i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, yn ogystal ag hyfforddiant yr asiantaeth leol.

Gweithdrefnau recriwtio, fetio a chwyno diogel

2.227 Dylai Byrddau Prawf ddilyn y gweithdrefnau a'r protocolau ar gyfer fetio gweithwyr cyflogedig a nodwyd yng Nghylchlythyr 69/2003 [http://www.probation2000.com/pit/circulars/PC69y03.doc]. Mae'r Cylchlythyr Prawf yn datgan yn glir mai rhan o ddiben fetio gweithwyr cyflogedig sy'n gweithio yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yw diogelu plant a phobl eraill sy'n agored i niwed sy'n derbyn gwasanaethau gan weithwyr cyflogedig y Gwasanaeth Prawf.

2.228 Mae gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol weithdrefn gwyno sefydledig i'w dilyn gan bob Ardal Brawf. (Cylchlythyr Prawf 128/2001. Gweithdrefn gwyno safonol, Ombwdsmon Carchardai a Phrawf).

Gwaith rhyngasiantaethol effeithiol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant

2.229 Dylai gweithwyr cyflogedig y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol weithio gyda gweithwyr cyflogedig asiantaethau eraill i ystyried y canllawiau hyn a'r *Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd* (2001).

2.230 Pan fo oedolyn sy'n troseddu wedi'i asesu fel person sy'n achosi Perygl o Niwed Sylweddol i blant trwy'r System Asesu Troseddwyr (OASys), bydd gweithwyr prawf cyflogedig yn sicrhau bod y cynllun rheoli perygl a'r cynllun dedfryd yn cynnwys amcan penodol i amlinellu'r strategaeth a'r ymyrraeth arfaethedig i reoli a lleihau'r perygl o niwed, a bydd achosion o'r fath yn derbyn goruchwyliaeth reoli reolaidd. Bydd gweithwyr prawf cyflogedig yn gweithio o fewn protocolau asiantaethau i rannu gwybodaeth yn ddiogel a phriodol ledled asiantaethau allweddol a fydd yn hybu diogelwch a lles y plentyn.

2.231 Wrth baratoi cynllun dedfryd, bydd angen i weithwyr prawf cyflogedig ystyried sut gallai ymyriadau arfaethedig effeithio ar gyfrifoldebau rhianta ac a allai'r ymyriadau hyn gyfrannau at well canlyniadau i blant y gwyddir eu bod mewn perthynas â'r troseddwr.

2.232 Bydd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn cefnogi'r defnydd o Fframwaith Asesu Cyffredin. Bydd Byrddau Prawf yn gyfrifol am sicrhau bod hyfforddiant ar ymwybyddiaeth yn cael ei ddarparu'n lleol i sicrhau bod gweithwyr prawf cyflogedig yn deall sut i gyfrannu'n briodol. Ni fydd gweithwyr prawf cyflogedig yn gyfrifol am asesu plentyn (o dan 18 oed), ac eithrio pan fo'r gweithiwr wedi'i secondio i'r Tîm Troseddau Ieuenctid.

Gweithio gyda phlant unigol

2.233 Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn gyfrifol am asesu perygl y troseddwr a chynllunio a darparu'r ymyriadau angenrheidiol i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn gweithio gydag oedolion sy'n droseddwyr sy'n achosi perygl o niwed i blant a phobl ifanc. Mae hefyd yn darparu gwasanaeth uniongyrchol i rai plant a phobl ifanc sy'n dod o dan ddiffiniad y Ddeddf o blant. Pan fo troseddwr yn achosi perygl i blant bydd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn parhau i weithio gydag asiantaethau eraill trwy'r MAPPA (Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd) a Byrddau Lleol Diogelu Plant, i amddiffyn y plentyn unigol a diogelu a hyrwyddo lles holl blant yr ardal.

2.234 Er bod y Gwasanaeth Prawf Cendlaethol yn gyfrifol am weithio gydag oedolion sy'n troseddu'n bennaf bydd angen iddo roi ystyriaeth ofalus i ddarpariaeth a gwasanaeth a allai gynnwys plant hefyd, fel derbynfeydd, yr hyn a wna gweithwyr cyflogedig wrth ymweld â chartrefi, neu'r gwaith o gynllunio a darparu rhaglenni i droseddwyr, a allai olygu sylw penodol yn cael ei roi i ddiogelu plant, fel gweithio gyda phobl sy'n cyflawni trais domestig neu droseddau rhyw. Mae'r gwasanaeth prawf yn gweithio'n uniongyrchol â phobl ifanc 16-17 oed i ddarparu gofynion gwaith di-dâl. Mae hefyd yn dod i gysylltiad â phlant sydd wedi dioddef troseddau rhywiol neu dreisgar, lle mae'r troseddwr wedi'i ddedfrydu i 12 mis neu fwy o garchar.

Rhannu gwybodaeth

2.235 Ymestynnodd Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 gyfrifoldebau ymgynghori a chydweithredu i bartneriaid eraill i reoli a lleihau'r perygl o droseddwyr yn cael eu hasesu fel pobl sy'n achosi perygl mawr neu berygl mawr iawn i'r gymuned. Mae gan bob bwrdd prawf ddyletswydd i rannu gwybodaeth a dylai barhau i rannu gwybodaeth gydag asiantaethau eraill er mwyn hybu a diogelu lles plant. Mae Canllawiau MAPPA (PC 52/2004) [http://www.probation.homeoffice.gov.uk/files/pdf/PC52.pdf] ynamlinellu'r ddyletswydd i rannu gwybodaeth ymhlith yr asiantaethau er mwyn diogelu'r cyhoedd yn well.

2.236 Pan fo aelod o staff yn dod yn ymwybodol o berygl posibl o niwed i blentyn trwy eu trefniadau rheoli troseddwyr byddant yn sicrhau bod lles y plentyn yn cael ei ddiogelu a'i hybu trwy rannu gwybodaeth gyda'r Awdurdod Gwasanaethau Plant. Bydd y Prif Swyddogion Prawf yn sicrhau bod gan eu hardal brawf brotocol i gefnogi'r broses o rannu gwybodaeth gydag aelodau'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant i gefnogi'r gwaith o ddiogelu plant. Bydd y Prif Swyddog yn sicrhau bod polisi'r Ardal Brawf yn egluro'n glir â phwy ddylid cysylltu a'r lefel angenrheidiol o oruchwyliaeth rheoli pan fo plentyn wedi'i asesu fel plentyn sydd mewn perygl o niwed. Pan fo oedolyn sy'n troseddu wedi'i asesu fel person sy'n achosi Perygl o Niwed Sylweddol i blant trwy'r

System Asesu Troseddwyr (OASys), bydd gweithwyr prawf cyflogedig yn sicrhau bod y cynllun rheoli perygl a'r cynllun dedfryd yn cynnwys amcan penodol i amlinellu'r strategaeth a'r ymyrraeth arfaethedig i reoli a lleihau'r perygl o niwed, a bydd achosion o'r fath yn derbyn goruchwyliaeth reoli reolaidd.

Timau Troseddau Ieuenctid

Swyddogaeth a gwaith Timau Troseddau Ieuenctid

2.237 Mae Timau Troseddau Ieuenctid (YOTs) yn dimau aml-asiantaeth. Mae aelodaeth statudol YOTs wedi'i nodi yn adran 39(5) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 [http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1998/98037--f.htm] ac yn cynnwys o leiaf un o'r canlynol:

- swyddog prawf;
- gweithiwr cymdeithasol adran gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol;
- swyddog heddlu;
- person a enwebwyd gan fwrdd iechyd lleol y mae unrhyw ran o'i ardal o fewn ardal yr awdurdod lleol;
- person a enwebwyd gan brif swyddog addysg a benodwyd gan yr awdurdod lleol o dan adran 532 o Ddeddf Addysg 1996.

2.238 Gall YOTs gynnwys cynrychiolwyr asiantaethau eraill hefyd, fel mae'r awdurdod lleol mewn ymgynghoriad â'r partneriaid statudol yn ei weld yn dda, a gweithio ar y cyd ag amrywiaeth o bartneriaid lleol.

2.239 Mae YOTs yn ganolog i'r system cyfiawnder ieuenctid – mae ganddynt ddyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau cyfiawnder troseddol yn cynnwys cynghori llysoedd, gweinyddu dedfrydau cymunedol ac ymyriadau, a gweithio gyda sefydliadau carcharol pobl ifanc. Mae YOTs yn gyfrifol am oruchwylio plant a phobl ifanc sy'n destun penderfyniadau statudol.

2.240 Prif nod statudol y system cyfiawnder ieuenctid, ac YOTs, yw atal plant a phobl ifanc rhag troseddu fel y nodwyd yn Adran 37 [http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1998/98037--f.htm] Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998.

2.241 Gan fod YOTs yn dimau aml-asiantaeth, bydd angen i rai aelodau o'r YOTs fod yn ymwybodol o'r adran ar ddiogelu a hyrwyddo lles y canllawiau hyn sy'n ymwneud â'u hasiantaeth ymgynghori o fewn yr YOT. Mae'r adran hon o'r canllawiau'n ymwneud â gwaith cyfunol yr YOT.

Cyfraniad yr YOTs i ddiogelu a hyrwyddo lles plant

2.242 Mae Deddf Plant 2004 yn gofyn i Dimau Troseddau Ieuenctid wneud trefniadau i sicrhau bod eu gwaith yn cael ei gyflawni mewn modd sy'n ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

2.243 Mae diogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc yn rhagofyniad hanfodol ar gyfer gwaith YOTs i leihau'r tebygolrwydd o droseddu ac ail-droseddu.

2.244 Mae'n rhaid i bawb sy'n gweithio mewn YOTs ddeall eu cyfrifoldeb i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Yn ymarferol, caiff y cyfrifoldebau hyn eu cyflawni trwy ddilyn Safonau Cenedlaethol ar asesiadau ac ymyriadau, canllawiau Elfennau Allweddol Ymarfer Effeithiol a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI) a'r canllawiau hyn.

2.245 Mae plant a phobl ifanc y mae'r YOT yn gweithio gyda nhw yn cael eu hasesu'n ofalus. Y prif ddull asesu ar gyfer y mwyafrif o blant a phobl ifanc a ddaw i gysylltiad ag YOTs yw dull asesu Asset y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid [http://www.youth-justice-board.gov.uk/PractitionersPortal/Assessment/Asset.htm]. Mae'r broses asesu hon yn edrych ar amrywiaeth o ffactorau:

- Trefniadau byw;
- Perthnasoedd teuluol a phersonol;
- Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth;
- Ffactorau cymdogaeth a chymuned;
- Ffordd o fyw;
- Camddefnyddio sylweddau;
- Iechyd (corfforol, emosiynol a meddyliol); a
- Bod yn agored i niwed, yn cynnwys y perygl o niwed i eraill neu eu hunain.

2.246 Waeth a yw'r broses Asset lawn yn cael ei defnyddio ai peidio, bydd angen asesu'r holl blant a phobl ifanc sy'n dod i gysylltiad â'r YOT mewn perthynas â lles, perygl o niwed i eraill neu eu hunain ac anghenion eraill.

2.247 Bydd cynllun ymyrryd yn cael ei gynllunio yn seiliedig ar wybodaeth o'r asesiad i fynd i'r afael ag anawsterau a diffygion, gan adeiladu ar gryfderau a nodwyd, mewn ymgynghoriad â'r person ifanc a'i deulu. Bydd yn cael ei weithredu er mwyn hyrwyddo lles y person ifanc, rheoli'r perygl y mae'r person ifanc yn ei greu a lleihau'r tebygolrwydd o ail-droseddu, fel y nodwyd yng nghanllawiau'r *National Standards for Youth Justice* [http://www.youth-justice-board.gov.uk/Publications/Downloads/NatStandYJS2004.pdf], ar y dull asesu Asset a *Key Elements of Effective Practice* [http://www.youth-justice-board.gov.uk/PractitionersPortal/PracticeAndPerformance/EffectivePractice/KEEPS/] a *Managing Risk in the Community* y BCI. Dylid monitro

a gwerthuso'r ymyriadau a'u heffaith ar fywyd person ifanc yn ofalus. Dylai unrhyw ymyrraeth ystyried unrhyw gynlluniau cyfredol yn cynnwys Cynllun Amddiffyn Plentyn. Mae defnyddio'r dull Asset yn y system cyfiawnder ieuenctid yn enghraifft amlwg o arfer gorau ym maes asesu ac Asset yw un o'r asesiadau arbenigol y bydd angen ei gyfuno â'r Fframwaith Asesu Cyffredin.

2.248 Bydd yr asesiad yn cynnwys asesu a oes perygl o niwed difrifol i'r person ei hun neu i bobl eraill. Pan fo asesiad yn nodi bod yna berygl i berson ifanc gyflawni niwed sylweddol iddo/iddi'i hun neu eraill mae'n rhaid cwblhau asesiad *Perygl o Niwed Sylweddol*. Bydd unrhyw bryderon niwed sylweddol sy'n cael eu nodi yn cael eu hatgyfeirio i'r adran gwasanaethau cymdeithasol perthnasol yn unol â gweithdrefnau BLIDP lleol. Bydd y ffaith fod gweithwyr cyflogedig gwasanaethau cymdeithasol yn rhan o'r YOT yn hwyluso atgyfeiriad effeithiol, a throsglwyddo gwybodaeth berthnasol. Bydd yr YOT yn cymryd rhan lawn mewn unrhyw ymholiadau amddiffyn plant dilynol a gwaith cynllunio, fel sy'n ofynnol gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu ac yn unol â gweithdrefnau'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant.

2.249 Yn ogystal â datblygu cynlluniau ymyrryd yn y gymuned, mae YOTs yn gyfrifol am y broses gynllunio dedfrydau cyffredinol i bobl ifanc sydd yn y ddalfa, gan sicrhau bod cynlluniau cydgysylltiedig sy'n mynd i'r afael â phob angen, yn enwedig anghenion adsefydlu - yn cael eu datblygu o ddechrau'r cyfnod carcharol, yn unol â safonau cenedlaethol.

Ymrwymiad uwch reolwyr a nodi llinellau atebolrwydd clir

2.250 Mae grŵp llywio/bwrdd rheoli'r YOT yn gyfrifol am oruchwylio gwaith yr YOT a sicrhau bod trefniadau ar waith i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc. Bydd grŵp llywio/bwrdd rheoli'r YOT yn hwyluso agwedd strategol at gyfranogiad YOT mewn trefniadau diogelu a lles rhwng asiantaethau.

2.251 Mae canllawiau'r BCI *Sustaining the Success (2004)* yn nodi'r trefniadau ar gyfer datblygu gwaith yr YOTs a grŵp llywio/bwrdd rheoli'r YOT ac yn cynnwys fframwaith ar gyfer sefydlu protocolau rhwng YOTs a gwasanaethau plant eraill. Mae'r fframwaith yn cynnwys egluro cyfrifoldebau ar gyfer ymateb i bryderon lles a diwallu anghenion plant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid.

2.252 Dylai rheolwr/pennaeth gwasanaeth yr YOT, sy'n gyfrifol am swyddogaethau strategol a gweithredol y tîm, sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith sy'n mynd i'r afael â diogelu a hyrwyddo lles.

2.253 Dylai rheolwr/pennaeth gwasanaeth yr YOT sicrhau bod yna linellau atebolrwydd clir yn yr YOTs mewn perthynas â diogelu a hyrwyddo lles plant. Mae angen hysbysu pob rheolwr o bwysigrwydd y maes gwaith hwn wrth gyflawni eu swyddogaethau.

Datganiad yn egluro'r cyfrifoldebau diogelu a hyrwyddo lles

2.254 Dylai pawb yn yr YOT fod yn glir am eu cyfrifoldebau o ran diogelu a hyrwyddo lles plant. Mae angen trefniadau cyfathrebu effeithiol sy'n sicrhau bod yr holl weithwyr cyflogedig yn ymwybodol o'r flaenoriaeth a roddir i ddiogelu a hyrwyddo lles a'u llinellau atebolrwydd.

Hyfforddi staff ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant

2.255 Dylai'r bartneriaeth YOT sicrhau bod yr holl weithwyr cyflogedig yn cymryd rhan mewn rhaglen hyfforddi sy'n sicrhau eu bod yn deall eu swyddogaeth a'u cyfrifoldebau a rhai gweithwyr proffesiynol a sefydliadau eraill mewn perthynas â diogelu a hyrwyddo lles plant. Dylid hyfforddi gweithwyr cyflogedig YOT a'u hysbysu o weithdrefnau amddiffyn plant. Mae'n rhaid i weithwyr cyflogedig gydymffurfio â threfniadau lleol a chanllawiau ymarfer a gyhoeddir gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

Gweithdrefnau recriwtio a fetio diogel

2.256 Mae angen i weithdrefnau recriwtio staff gydymffurfio â gofynion asiantaethau partner ar fetio a gwiriadau CRB. Bydd gofyn i weithdrefnau gwmpasu lleoliadau cyflogedig (wedi'u secondio ac uniongyrchol gyflogedig), gwirfoddol a myfyrwyr yn yr YOT.

Gwaith rhyngasiantaethol effeithiol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant

2.257 Dylai YOTs gymryd rhan mewn trefniadau lleol ar gyfer gwaith rhyngasiantaethol. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn BLlDP. Bydd gofyn i YOTs fod yn aelodau o Fyrddau Lleol Diogelu Plant ac ystyried unrhyw ganllawiau pellach a gyhoeddir ar BLlDPau o dan Adran 34 o Ddeddf Plant 2004.

2.258 Mae gofyn i YOTs hefyd gydweithio mewn trefniadau lleol i wella lles plant fel y nodwyd yn adran 25 o Ddeddf Plant 2004.

2.259 Yn achos digwyddiad difrifol sy'n cynnwys plentyn yn y system cyfiawnder ieuenctid, yn enwedig marwolaeth yn y ddalfa, bydd gofyn i YOTs gydweithio ag unrhyw ymchwiliad sy'n cael ei arwain gan Bwyllgor Ardal Amddiffyn Plant (PAAP) lleol, neu BLlDP olynol, yn ogystal ag unrhyw ymchwiliad sy'n cael ei arwain gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf (fel yr amlinellwyd yn y Canllawiau Digwyddiadau Difrifol a gyhoeddwyd gan yr BCI [http://www.youth-justice-board.gov.uk/Publications/Downloads/Serious%20Incidents%20guidance.pdf <http://www.youth-justice-board.gov.uk/Publications/Downloads/Serious Incidents guidance.pdf>].

Rhannu gwybodaeth a defnyddio prosesau cyffredin

2.260 Dylai YOTs weithredu yn unol â threfniadau lleol ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau allweddol, yn cynnwys mynegi pryderon am ddiogelwch a lles i asiantaethau priodol a bydd yn cyfrannu at brosesau cyffredin lle bo'n briodol.

Carchardai/Ystadau Ieuenctid Diogel

Swyddogaeth carchardai mewn perthynas â diogelu a hyrwyddo lles plant

2.261 Mae gan Lywodraethwyr Carchardai (a Chyfarwyddwyr yn yr ystâd gontract) ddwy brif ddyletswydd. Y gyntaf yw gweithredu gwarant y llys trwy gadw carcharor yn y ddalfa. Yr ail yw cyfrannu at brif nod y system cyfiawnder ieuenctid, sef atal troseddu ymysg plant a phobl ifanc (adran 37 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1998/19980037.htm). Wrth gyflawni'r prif ddyletswyddau hyn, mae'n rhaid i Lywodraethwyr/Cyfarwyddwyr weithredu yn unol â Deddf Carchardai 1952 a'r Rheolau a wnaed oddi tani ac ystyried penderfyniadau polisi a chyfarwyddebau a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref.

2.262 O fewn y fframwaith deddfwriaethol a pholisi hwn, mae Adran 28 o Ddeddf Plant 2004 yn rhoi cyfrifoldeb cyfreithiol i Lywodraethwyr/Cyfarwyddwyr Carchardai wneud trefniadau i sicrhau eu bod yn cyflawni eu swyddogaethau mewn modd sy'n ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant sydd yn y ddalfa a phlant y maent yn dod i gysylltiad â nhw. Ni fwriadwyd i'r ddyletswydd hon ddisodli neu darfu ar sut mae Llywodraethwyr/Cyfarwyddwyr yn cyflawni eu prif ddyletswyddau fel y nodwyd uchod. Nid ddylid gweithredu'r ddyletswydd mewn perthynas â swyddogaeth rhianta neu ofalu carcharorion sy'n oedolion, yn cynnwys penderfyniadau am leoli neu drosglwyddo carcharorion sy'n oedolion.

2.263 Mae Llywodraethwyr/Cyfarwyddwyr yn deall mai eu cyfraniad i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, yn ymarferol, yw datblygu a gweithredu polisïau a threfniadau a gynlluniwyd i:

- amddiffyn y plant sydd yn y ddalfa rhag niwed sylweddol, yn cynnwys hunan-niwed neu hunanladdiad, niwed gan blant eraill (bwlio a mathau eraill o gam-drin posibll a allai ddigwydd mewn carchar), a niwed gan weithwyr cyflogedig ac oedolion eraill ee ymwelwyr;
- diogelu'r plant nad ydynt yng ngofal y Gwasanaeth ond y mae'r Gwasanaeth yn dod i gysylltiad rheolaidd â nhw - pan fyddant yn dod i gysylltiad â nhw hy plant sy'n ymweld â'r sefydliad, a phlant carcharorion sy'n byw mewn Unedau Mam a Phlentyn; a

- lleihau'r peryglon o niwed i blant yn y gymuned gan garcharorion a nodwyd fel rhai sy'n achosi perygl o'r fath, a allai ddigwydd yn ystod unrhyw fath o gysylltiad gyda phlentyn, yn cynnwys gohebiaeth, galwad ffôn ac ymweliadau.

2.264 Mae'r Gwasanaeth Carchardai a'i Gyfarwyddwr Cyffredinol yn atebol i Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref trwy Brif Weithredwr y Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol. Mae Llywodraethwyr Carchardai yn atebol i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol trwy Reolwyr Ardal y Gwasanaeth Carchardai a Chyfarwyddwyr Gweithredol, tra bod Cyfarwyddwyr carchardai dan gontract yn atebol i Gyfarwyddwr Cynorthwyol y Swyddfa Carchardai dan Gontract.

2.265 Mae gan Fwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr (BCI) gyfrifoldeb statudol am gomisiynu a phrynu'r holl lety diogel i blant a gosod safonau ar gyfer darparu'r gwasanaethau hynny. Fel rhan o'r ystad hon, mae yna ystad carchardai ar wahân i bobl ifanc 15-17 oed a/neu'r rhai sydd wedi'u dedfrydu i'r Gorchymyn Cadw a Hyfforddi ("ystad ieuenctid"). Mae'r Gwasanaeth Carchardai yn un o'r prif ddarparwyr llety diogel i blant a phobl ifanc yr BCI. Mae yna gytundeb partneriaeth a chytundeb lefel gwasanaeth rhwng y ddau sefydliad.

Gwneud trefniadau i ddiogelu a hyrwyddo lles yn yr ystad ieuenctid

2.266 Cyflwynwyd polisïau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant sydd wedi'u cadw yn yr ystad ieuenctid am y tro cyntaf pan sefydlwyd yr ystad yn Ebrill 2000. Datblygwyd y polisïau hyn, a seiliwyd ar egwyddorion Deddf Plant 1989, ers hynny yng ngoleuni dyfarniad yr Uchel Lys, a ddarparwyd yn *The Howard League for Penal Reform -v- the Secretary of State for the Home Department* (November 2002). Dyfarnodd Mr Ustus Munby fod Deddf 1989, ac, yn arbennig, gyfrifoldebau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol o dan adrannau 17 a 47 o Ddeddf Plant 1989, yn berthnasol i blant mewn sefydliadau carchar yn amodol ar ofynion carcharu angenrheidiol. Roedd y dyfarniad hefyd yn cadarnhau bod gan garchardai rwymedigaeth gyfreithiol i ddiogelu lles plant dan eu gofal trwy Adran 6(1) o Ddeddf Hawliau Dynol ac Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

2.267 Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd yn Adran 28 o Ddeddf Plant 2004, dylai Llywodraethwyr/Cyfarwyddwyr ystyried y polisïau ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles plant sydd wedi'u cadw yn yr ystad ieuenctid, y cytunwyd arnynt gan y Gwasanaeth Carchardai a'r BCI. Maent wedi'u cyhoeddi yng Ngorchymyn Carchar 4950 ("cyfundrefn ieuenctid") [http://pso.hmprisonservice.gov.uk/PSO_4950_regimes_for_juveniles.doc]. Maent yn gofyn i bob sefydliad ieuenctid gael y trefniadau canlynol.

Ymrwymiad ac atebolrwydd uwch reolwyr

2.268 Mae yna uwch aelod o staff ("cydgysylltydd amddiffyn plant" neu "reolwr diogelu") yn atebol i'r Llywodraethwr/Cyfarwyddwr am faterion amddiffyn a diogelu plant.

2.269 Mae yna bwyllgor amddiffyn plant sy'n cynnwys yr uwch reolwr fel cadeirydd, staff amlddisgyblaeth a chynrychiolydd o'r PAAP neu olynydd, y BLIDP. Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am gytuno ar y polisi amddiffyn a diogelu plant lleol, monitro ei weithrediad, a'i adolygu'n rheolaidd.

Datganiadau cyfrifoldeb clir

2.270 Mae gan bob sefydliad ieuenctid:

- bolisi lleol, penodol i'r sefydliad ar amddiffyn a diogelu plant, y cytunwyd arno gyda'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant, sy'n ystyried polisi cyffredinol y Gwasanaeth Carchardai/BCI ac yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer delio ag achosion neu ddatgeliadau o gam-drin neu esgeuluso plant cyn neu yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa;
- strategaethau atal hunanladdiad a hunan-niwed a gwrth-fwlio, wedi'u cymeradwyo gan y Rheolwr Ardal/Swyddfa Carchardai dan Gontract;
- gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion a cheisiadau ffurfiol yn rhagweithiol, trylwyr, teg a buan, wedi'u hategu gan wasanaeth eiriolaeth.

Hyfforddiant

2.271 Mae hyfforddiant arbenigol ar waith i'r holl staff sy'n gweithio gyda phlant.

Recriwtio diogel

2.272 Mae yna weithdrefnau dethol, recriwtio a fetio i sicrhau bod staff newydd yn gweithio'n ddiogel a chymwys gyda phlant.

Gwaith rhyngasianaethol effeithiol

2.273 Cymerir camau gweithredu i reoli a datblygu partneriaethau gwaith effeithiol gydag asiantaethau eraill, yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, a all gryfhau'r cymorth sy'n cael ei ddarparu i'r person ifanc a'i deulu pan fydd yn y ddalfa ac ar ôl ei ryddhau.

Gweithio gyda phlant unigol

2.274 Gwneir asesiad cychwynnol wrth dderbyn y person ifanc i'r ddalfa i nodi ei anghenion, galluoedd a doniau. Yna, eir ati i greu cynllun dedfryd (yn cynnwys cynllun dysgu unigol) i fynd i'r afael â'r rhain, gydag adolygiadau rheolaidd o'r cynllun dedfryd i ddilyn.

2.275 Mae addysg, hyfforddiant a datblygiad personol yn cael ei ddarparu yn unol â Manyleb Genedlaethol yr BCI ar gyfer Darparu Dysgu a Sgiliau ac anghenion y person ifanc (bydd hyn yn cael ei newid i Daith Ddysgu'r Troseddwr, sy'n debyg iawn i'r Fanyleb Genedlaethol).

2.276 Cedwir cofnodion parhaol, preifat a diogel am y person ifanc, sy'n cynnwys yr holl wybodaeth bersonol berthnasol, rhifau cyswllt a manylion yr holl ddigwyddiadau perthnasol.

2.277 Cymerir camau gweithredu i annog y person ifanc i gymryd rhan weithgar yn y gwaith o baratoi eu cynllun dedfryd a'r adolygiadau ohono, fel eu bod yn gallu cyfrannu at, a dylanwadu ar, beth sy'n digwydd iddynt yn y ddalfa ac ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

2.278 Cymerir camau gweithredu i hyrwyddo cysylltiad cadarnhaol a chyfraniad gan deulu'r person ifanc, yn enwedig ym mhroses gynllunio'r ddedfryd.

2.279 Ymhellach, i gefnogi'r gwaith o gyflawni dyletswydd Adran 28:

- dylai'r cytundebau lefel gwasanaeth rhwng y Gwasanaeth Carchardai a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ystyried y ddyletswydd i ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac unrhyw newidiadau i'r lefel o wasanaeth sydd ei hangen i gyflawni hyn;
- mae gan Lywodraethwyr/Cyfarwyddwyr ddyletswydd i rannu gwybodaeth gydag asiantaethau statudol eraill lle bo angen, yn cynnwys ond nid wedi'u cyfyngu i: Dimau Troseddau Ieuenctid; Byrddau Lleol Diogelu Plant; gofal cymdeithasol; yr heddlu; ac asiantaethau perthnasol eraill;
- dylai Llywodraethwyr/Cyfarwyddwyr sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei rhannu'n briodol gyda'r asiantaethau hynny, gan ystyried cyfrinachedd. Mae gan Lywodraethwyr/Cyfarwyddwyr ddyletswydd i gyflwyno gweithdrefnau i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei throsglwyddo i'r asiantaethau eraill lle bo angen a bod staff yn ymwybodol ohonynt ac yn eu dilyn;
- dylai pob sefydliad ieuenctid ystyried sut gellir defnyddio eu systemau TG i wella effeithiolrwydd eu gwaith gyda phlant;
- tra bod y plentyn yn y ddalfa, ac o dan oruchwyliaeth y gymuned wedi hynny, y Tîm Troseddau Ieuenctid (YOT) perthnasol sy'n bennaf gyfrifol am weithio gyda'r rhieni a'r teulu. Mae staff yn yr ystad ieuenctid yn gweithio mewn partneriaeth agos gydag YOTs

yn ystod y cyfnod yn y ddalfa ac yn cefnogi'r YOTs yn y gwaith allweddol hwn cyn belled ag y gallant.

2.280 Dylai'r gwaith o reoli plant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw yn yr ystad ieuenctid, yn cynnwys cydymffurfio â'r trefniadau uchod, gael ei oruchwylio a'i fonitro drwy strwythurau rheoli llinell arferol a threfniadau monitro'r BCI. Mae pob sefydliad ieuenctid hefyd yn gorfod cael eu harolygu'n rheolaidd gan Brif Arolygwr Carchardai EM.

Gwneud trefniadau i ddiogelu a hyrwyddo lles ym mhob carchar

2.281 Dylai Llywodraethwyr/Cyfarwyddwyr sefydliadau menywod sydd ag Unedau Mam a Phlentyn gyflawni eu cyfrifoldebau o dan adran 28 o Ddeddf Plant 2004 trwy ystyried Gorchymyn Gwasanaeth Carchardai 4801 [http://pso.hmprisonservice.gov.uk/PSO_4801_management_of_mother_and_baby_units_3rd_edition.doc]. Golyga hyn fod angen iddynt sicrhau bod staff sy'n gweithio yn yr unedau yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer hyfforddiant amddiffyn plant, a bod yna aelod o staff sydd wedi cymhwyso mewn amddiffyn plant, iechyd a diogelwch a chymorth cyntaf/dadebru plant ar ddyletswydd yn yr uned bob amser. Mae'n rhaid i bob babi gael cynllun gofal plentyn sy'n nodi sut bydd buddiannau gorau'r plentyn yn cael eu cynnal a'u hyrwyddo yn ystod ei amser yn yr uned.

2.282 Mae Fframwaith Diogelwch Cenedlaethol y Gwasanaeth Carchardai yn ei gwneud hi'n ofynnol i Lywodraethwyr/Cyfarwyddwyr pob sefydliad carchar gael trefniadau i amddiffyn ymwelwyr, yn cynnwys plant. Mae polisi'r Gwasanaeth Carchardai, a nodwyd yn y *Public Protection Manual*, yn gofyn iddynt hefyd weithredu mesurau i leihau'r peryglon o niwed i blant gan garcharorion a nodwyd fel rhai a allai achosi perygl i blant yn ystod unrhyw fath o gysylltiad, yn cynnwys gohebiaeth, galwadau ffôn ac ymweliadau.

2.283 Mae Llywodraethwyr/Cyfarwyddwyr yn ymrwymedig i sicrhau bod amrywiaeth y carcharorion a'r staff – yn cynnwys materion fel hil, crefydd, rhyw ac anabledd – yn cael ei pharchu a bod sylw dyledus yn cael ei roi i'r mater mewn polisïau ac arferion. Mae hyfforddiant amrywiaeth yn orfodol i staff ym mhob sefydliad. Mae cyfieithiadau o wybodaeth bwysig ar gael i garcharorion nad Cymraeg neu Saesneg yw eu mamiaith, ac mae yna ddarpariaeth i allu defnyddio dehonglwyr lle bo angen. Cymerir gofal i ddiwallu anghenion carcharorion a staff anabl yn unol â'r canllawiau a'r cyfarwyddiadau a nodwyd yng Ngorchymyn Gwasanaeth Carchardai 2855 [http://pso.hmprisonservice.gov.uk/PSO_2855_prisoners_with_disabilities.doc].

Canolfannau Hyfforddi Diogel

Gwneud trefniadau i ddiogelu a hyrwyddo lles mewn canolfannau hyfforddi diogel

2.284 Mae Canolfannau Hyfforddi Diogel yn cael eu darparu o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994. Eu prif swyddogaeth yw rhoi llety i bobl ifanc sy'n cael eu hanfon yno gan y llysoedd mewn amgylchedd diogel dan amodau diogel mewn modd sy'n cynnal safonau gofal uchel, rheolaeth, trefn a disgyblaeth dda ac sy'n amddiffyn pobl ifanc aflonyddgar ac agored i niwed rhag eu hunain ac eraill.

2.285 O dan Adran 28 o Ddeddf Plant 2004, mae gan y Cyfarwyddwr neu'r Llywodraethwr ddyletswydd i wneud trefniadau ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles pobl ifanc sydd yn y Ganolfan. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, dylai Cyfarwyddwyr a Llywodraethwyr ddilyn y camau canlynol.

Ymrwymiad uwch reolwyr

2.286 Dylai Cyfarwyddwyr a Llywodraethwyr Canolfannau Hyfforddi Diogel gyhoeddi datganiad clir, diamwys yn nodi eu hymrwymiad i ddiogelu plant a hybu eu lles.

Datganiadau cyfrifoldebau

2.287 Dylai Cyfarwyddwyr a Llywodraethwyr sicrhau bod yna bolisïau a gweithdrefnau i egluro cyfrifoldebau staff mewn perthynas â diogelu, amddiffyn a hyrwyddo lles plant.

2.288 Dylai Cyfarwyddwyr a Llywodraethwyr enwebu unigolyn i arwain y gwaith o ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

2.289 Dylai Cyfarwyddwyr a Llywodraethwyr sicrhau bod yna weithdrefn gwyno sefydledig a chlir y mae'r holl staff yn gyfarwydd â hi, ac nad oes dim yn tarfu ar waith gwasanaethau eiriolaeth a phobl annibynnol. Dylent sefydlu gweithdrefnau hefyd i ymgynghori â phlant a sicrhau bod eu safbwyntiau'n cael eu hystyried, lle y bo'n briodol.

Recriwtio diogel

2.290 Dylai Cyfarwyddwyr a Llywodraethwyr sicrhau bod yr holl staff yn cael eu fetio'n drylwyr gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol. Dylent hefyd sicrhau eu bod yn cael geirda cyflogaeth a phersonol, a bod ymgeiswyr ar gyfer swyddi sy'n gweithio gyda phlant yn gallu cyfiawnhau bylchau yn eu cyflogaeth.

Hyfforddiant staff

2.291 Dylai Cyfarwyddwyr a Llywodraethwyr sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant ar weithdrefnau amddiffyn plant a'u bod yn gallu adnabod ac asesu arwyddion o blant a phobl ifanc sy'n wynebu anawsterau neu'n cael eu cam-drin. Dylai staff fod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau ar gyfer asesu anghenion plant a gwneud atgyfeiriadau i'r awdurdod lleol.

Gwaith rhyngasiantaethol effeithiol

2.292 Dylai Cyfarwyddwyr a Llywodraethwyr sicrhau bod cysylltiadau priodol yn cael eu gwneud gyda'r Byrddau Lleol Diogelu Plant a'r cyfarwyddwr arweiniol perthnasol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc neu ei gynrychiolydd. Mae'n rhaid i Gyfarwyddwyr a Llywodraethwyr hefyd hwyluso mynediad i weithwyr cymdeithasol awdurdodau lleol fel eu bod yn gallu cyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Plant 1989.

Gwaith gyda phlant unigol

2.293 Bydd gwaith asesu a chynllunio ffurfiol yn cael ei gwblhau ar gyfer pob plentyn gyda chynlluniau unigol yn cael eu creu sy'n mynd i'r afael ag anghenion lles a diogelwch pob plentyn. Dylai'r Cyfarwyddwr neu'r Llywodraethwr sicrhau bod anghenion unigol pobl plentyn yn cael eu nodi a'u hystyried wrth greu cynlluniau ar eu cyfer.

Rhannu gwybodaeth

2.294 Mae gan Gyfarwyddwyr a Llywodraethwyr ddyletswydd i weithio gydag asiantaethau statudol eraill, yn cynnwys ond nid wedi'u cyfyngu i: Dimau Troseddau Ieuenctid; Byrddau Lleol Diogelu Plant; gofal cymdeithasol; yr heddlu; ac asiantaethau perthnasol eraill. Dylai Llywodraethwyr/Cyfarwyddwyr sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei rhannu'n briodol gyda'r asiantaethau hynny, gan ystyried cyfrinachedd. Mae gan Lywodraethwyr/Cyfarwyddwyr ddyletswydd i gyflwyno gweithdrefnau i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei throsglwyddo i'r asiantaethau eraill lle bo angen.

3: Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Eraill

Llywodraeth Cynulliad Cymru

3.1 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc yng Nghymru, yn cynnwys plant sydd fel arfer yn preswylio yng Nghymru ond sydd ar hyn o bryd yn preswylio mewn mannau eraill, gan gynnwys lleoliadau maeth y tu allan i Gymru, plant mewn sefydliadau diogel mewn mannau eraill a phlant sy'n derbyn gofal preswyl mewn mannau eraill.

3.2 Mae gan rannau o'r Cynulliad swyddogaethau penodol wrth ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc. Wrth gyflawni eu swyddogaethau statudol, byddant felly'n rhoi ystyriaeth lawn i'r cyfarwyddyd hwn. Bydd yn cynnwys, yn arbennig:

- CAFCASS CYMRU; ac
- Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru.

3.3 Rhestrir swyddogaethau a chyfrifoldebau'r rhain yn y paragraffau canlynol.

Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS)

3.4 Sefydlodd Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaeth Llysoedd 2000 CAFCASS yn gorff cyhoeddus anadrannol atebol i'r Arglwydd Ganghellor o 1 Ebrill 2001. Ar 1 Ebrill 2005, daeth CAFCASS CYMRU yn isadran o Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel rhan o Grŵp Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Llywodraeth Cynulliad Cymru. Swyddogaeth y gwasanaeth yw diogelu lles plant mewn achosion teulu. Penodir gweithwyr cymdeithasol yn CAFCASS CYMRU fel swyddogion achosion teulu yng Nghymru (WFPOs) ac maent yn cyflawni sawl swyddogaeth yn ôl natur yr achosion sy'n ymwneud â'r plentyn.

3.5 Mewn achosion gofal ac achosion perthnasol eraill o dan Ddeddf Plant 1989, a nifer o achosion o dan ddeddfwriaeth fabwysiadu, cyfrifoldeb CAFCASS CYMRU yw diogelu a hyrwyddo lles plant unigol sy'n rhan o'r achosion drwy ddarparu cyngor gwaith cymdeithasol annibynnol i'r llys. Mae'r plentyn yn rhan o achosion o'r fath a hefyd mewn rhai achosion Deddf Plant cyfraith breifat lle pennwyd o dan r9.5 yn Rheolau Achosion Teulu 1991.

3.6 Mewn achosion eraill mewn cyfraith breifat, lle na chynrychiolir y plentyn, mae'r WFPO yn darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y plentyn i helpu i ddatrys anghydfodau ynghylch preswylfa'r plentyn neu

drefniadau cysylltiad cadarnhaol â'r ddau riant. Oni wneir Gorchymyn Cymorth Teulu, cyfyngir swyddogaeth y WFPO i gyfnod yr achos llys.

3.7 Mae hawl statudol gan y WFPO mewn achosion cyfraith gyhoeddus i weld a derbyn copïau o gofnodion awdurdod lleol sy'n ymwneud â'r plentyn dan sylw ac unrhyw gais o dan Ddeddf Plant 1989. Mae'r pŵer yma hefyd yn ymestyn i gofnodion eraill sy'n ymwneud â'r plentyn a swyddogaethau ehangach yr awdurdod lleol neu gofnodion a ddelir gan berson awdurdodedig (hy yr NSPCC) sy'n ymwneud â'r plentyn.

3.8 Lle penodwyd WFPO fel gwarcheidwad plant, dylid bob amser ei wahodd i bob cyfarfod cynllunio ffurfiol a elwir gan yr awdurdod lleol mewn perthynas â'r plentyn. Mae hyn yn cynnwys adolygiadau statudol o blant sy'n derbyn llety neu ofal a chynadleddau amddiffyn plant a chyfarfodydd Panel Mabwysiadu perthnasol. Dylai cadeirydd y gynhadledd sicrhau bod pawb sy'n mynychu cyfarfodydd o'r fath, gan gynnwys y plentyn ac unrhyw aelodau o'r teulu, yn deall mai er mwyn rhoi mynediad uniongyrchol iddynt i'r wybodaeth a rennir mewn cyfarfodydd o'r fath y mae'r gwarcheidwad plant yn bresennol, nid i gymryd rhan yn y penderfyniadau.

3.9 Swyddogaeth y gwasanaeth yng Nghymru mewn perthynas ag achosion teulu lle mae, neu lle gallai lles y plentyn fod dan sylw, yw:

- diogelu a hyrwyddo lles plant;
- rhoi cyngor i lys ynghylch unrhyw gais a gyflwynwyd mewn achosion o'r fath;
- gwneud darpariaeth ar gyfer cynrychioli plant mewn achosion o'r fath;
- darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth arall i'r plant a'u teuluoedd.

Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC)

3.10 Isadran o Lywodraeth Cynulliad Cymru yw Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC) sy'n gweithio'n annibynnol oddi arni. Fe'i sefydlwyd yn sgil Deddf Safonau Gofal 2000 ac mae'n rheoleiddio amrywiaeth eang o wasanaethau i oedolion a phlant ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mae ASGC yn rheoleiddio drwy gyfrwng y gweithgaredd canlynol:

- Cofrestru gwasanaethau perthnasol.
- Arolygu gwasanaethau.
- Ymateb i gwynion a phryderon ynghylch diogelwch.
- Rhoi camau gorfodi ar waith lle bo angen.

3.11 Mae ASGC yn cyhoeddi adroddiadau arolwg ar wasanaethau unigol bob blwyddyn sy'n adrodd ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

3.12 Hefyd, o dan adran 142 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2003, mae gofyn i ASGC gynhyrchu Adroddiad Blynyddol. Mae hwn yn rhoi gorolwg o:

- beth mae ASGC wedi ei ganfod yn ystod y flwyddyn wrth ymarfer ei weithgareddau rheoleiddio;
- sut y mae ASGC wedi ymarfer ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn.

3.13 Dyma'r gwasanaethau plant y mae ASGC yn eu rheoleiddio:

- Cartrefi plant yn cynnwys cartrefi plant diogel;
- Canolfannau preswyl i deuluoedd;
- Gwasanaethau maethu sector preifat ac annibynnol;
- Gwasanaethau mabwysiadu sector preifat a gwirfoddol, yn cynnwys gwasanaethau cymorth mabwysiadu;
- Ysgolion sy'n darparu llety hy ysgolion arbennig preswyl, ysgolion preswyl a cholegau addysg bellach;
- Gwasanaethau blynyddoedd cynnar a gofal plant hy gwarchodwyr plant, gofal dydd llawn, gofal y tu allan i'r ysgol, gofal sesiynol, darpariaeth mynediad agored, gofal crèche;
- Gwasanaethau gofal cartref ar gyfer plant.

3.14 Mae ASGC yn arolygu'r holl wasanaethau uchod. Hefyd, rhaid i lawer ohonynt fod wedi'u cofrestru gydag ASGC cyn gallu gweithio. Mae union natur swyddogaeth ASGC yn amrywio rhwng y gwasanaethau ond mae iddi swyddogaeth gyffredinol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn.

3.15 Mae ASGC yn ymgymryd â'i swyddogaeth diogelu yn y ffyrdd canlynol:

- sicrhau bod pob gwasanaeth yn cydymffurfio â rheoliadau a safonau gofynnol cenedlaethol penodol Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth gofrestru ac wrth gael eu harolygu. Mae hyn yn cynnwys pennu bod darparwyr a rheolwyr allweddol yn addas, neu'n gymwys i ddarparu gwasanaethau i blant a monitro bod gwasanaethau'n diogelu ac yn hyrwyddo lles plant;
- dod yn rhan o'r ystyriaeth o'r materion amddiffyn plant sy'n codi o fewn gwasanaethau perthnasol wedi'u rheoleiddio;
- derbyn a gweithredu ar hysbysiadau o gwynion neu faterion arwyddocaol eraill sy'n codi yn y gwasanaethau hyn;

- gweithredu'n uniongyrchol neu fel y cynlluniwyd pan fo gwasanaethau'n disgyn yn is na'r disgwyl. Mae pwerau gan ASGC i ymchwilio i bryderon ynghylch gwasanaethau a gellir dilyn ystod o lwybrau gorfodi, yn cynnwys achosion troseddol a sifil ar gyfer rhai gwasanaethau.

Cam-drin neu esgeuluso gwirioneddol neu debygol mewn lleoliad gofal plant wedi'i reoleiddio

3.16 Os yw unrhyw asiantaeth neu berson cofrestredig yn derbyn cyhuddiad neu'n dod yn ymwybodol o unrhyw fater yn ymwneud â diogelu neu gam-drin neu esgeuluso gwirioneddol neu debygol mewn lleoliad gofal plant wedi'i reoleiddio, rhaid iddynt ddwyn y mater i sylw'r asiantaethau cyfrifol yn syth, yn unol â gweithdrefnau Byrddau Lleol Diogelu Plant (BLlDP) yr ardal lle mae'r lleoliad a rhoi gwybod i Swyddfa Ranbarthol berthnasol yr Arolygiaeth Safonau Gofal.

3.17 Dylai awdurdod lleol sy'n ymwybodol, neu sydd wedi derbyn rhybudd, uniongyrchol neu anuniongyrchol, o unrhyw fater diogelu neu gyhuddiad neu amheuaeth o gam-drin/esgeuluso mewn lleoliad wedi'i reoleiddio gan ASGC roi gwybod i ASGC am y pryder heb oedi a chysylltu â'r Arolygiaeth ac asiantaethau eraill, fel sy'n briodol, i bennu strategaeth ar gyfer ymholi/ymchwilio sy'n rhoi ystyriaeth i ddyletswyddau a chyfrifoldebau statudol pob asiantaeth. Mae Pennod 8 yn rhoi canllawiau ar drafodaethau strategaeth a chyfarwyddyd hefyd lle ceir perygl i fywyd plentyn neu debygolrwydd o niwed uniongyrchol difrifol y dylai asiantaeth gyda phwerau amddiffyn plant statudol weithredu'n gyflym i sicrhau diogelwch uniongyrchol y plentyn. Gallai hyn olygu bod angen gweithredu ar frys cyn gynted ag y derbynnir yr atgyfeiriad. Yr awdurdod lleol, yr heddlu a'r NSPCC yw'r asiantaethau sydd â phwerau amddiffyn plant statudol.

3.18 Bydd trafodaeth ar strategaeth yn pennu sut y dylid cynnal ymholiad/ymchwiliad gyda phob asiantaeth sy'n cymryd rhan yn rhoi gwybod i'w gilydd am ddatblygiadau a allai fod â goblygiadau i ddyletswyddau a chyfrifoldebau ei gilydd.

Swyddogaeth a chyfrifoldebau ASGC wrth ddiogelu plant

3.19 Bydd yr Arolygiaeth Safonau Gofal yn:

- ymateb yn gadarnhaol ym mhob achos lle mae pryder am ddiogelwch plant neu achos o gam-drin neu esgeulustod gwirioneddol neu debygol mewn lleoliadau wedi'u rheoleiddio ym mha fodd bynnag y cânt eu derbyn;
- atgyfeirio unrhyw achos o'r fath at asiantaethau diogelu plant yn unol â gweithdrefnau BLlDP a gytunwyd yn lleol, eu cadarnhau'n ysgrifenedig a'u cofnodi yn unol â gweithdrefnau'r Arolygiaeth ei hun;

- gweithio gyda'r awdurdod lleol ac asiantaethau perthnasol eraill i bennu strategaeth addas ar gyfer ymchwilio, yn unol â'r cyfarwyddyd hwn a gweithdrefnau BLlDP lleol;
- darparu gwybodaeth berthnasol i'r awdurdod lleol (neu, lle bo'n briodol, yr heddlu) sy'n gyfrifol am yr ymchwiliad;
- ymdrin â materion rheoliadol perthnasol a allai godi o'r pryder yn unol â'r strategaeth y cytunwyd arni.

3.20 Bydd ymwneud yr Arolygiaeth mewn ymholiadau/ymchwiliadau yn unol â'r canllawiau hyn a gweithdrefnau BLlDP lleol.

3.21 Bydd ASGC yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau amddiffyn plant ar gyfer yr ardal ddaearyddol lle mae'r lleoliad. Bydd ASGC hefyd yn glynu wrth y prosesau mewnol a amlinellwyd yn y Bennod hon er mwyn cyflawni ei swyddogaeth reoliadol. Mae'n bwysig fod dull o weithredu i Gymru gyfan o fewn ASGC i sicrhau cysondeb.

3.22 Un o swyddogaethau allweddol yr Arolygiaeth Safonau Gofal yw sicrhau bod y personau sy'n atebol drwy reoleiddio yn cyflawni eu cyfrifoldebau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Mae'r Arolygiaeth Safonau Gofal yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw berson a gofrestrwyd neu sy'n rheoli gwasanaeth yn parhau'n gymwys, a rhaid i'r Arolygiaeth bennu a all y gwasanaeth barhau i weithio.

3.23 Mae dyletswydd ar ASGC i roi gwybod i'r heddlu os yw'n credu bod trosedd wedi'i chyflawni o fewn gwasanaeth wedi'i reoleiddio. Mae gan yr heddlu swyddogaeth arwyddocaol wrth amddiffyn plant ac adlewyrchir hyn yn y canllawiau hyn a gweithdrefnau BLlDP.

Egwyddorion ymchwilio ar gyfer ASGC

3.24 Anghenion sylfaenol plant sy'n defnyddio gwasanaeth wedi'i reoleiddio yw i ddarparwyr gwasanaethau sicrhau bod eu lles yn cael ei ddiogelu a'i hyrwyddo wrth iddynt ddefnyddio'r gwasanaethau. Gallai hyn olygu'r angen i gydbwyso preifatrwydd a hawliau eraill ochr yn ochr ag anghenion y plentyn. Mae'r Arolygiaeth Safonau Gofal yn ymrwymedig i weithio'n unol â'r arweiniad a geir yn y canllawiau hyn ac unrhyw ganllaw atodol y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru eu cyhoeddi. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ar rannu a datgelu gwybodaeth rhwng asiantaethau.

3.25 Ym mhob achos mae anghenion y plentyn

- yn dod gyntaf;
- yn gorfod cael eu hystyried ar wahân i unrhyw broses droseddol neu ddisgyblu;
- yn ei gwneud hi'n ofynnol i gynnal ymchwiliadau mewn ffordd sy'n creu cyn lleied â phosibl o drawma i'r plentyn.

3.26 Gan gydnabod swyddogaeth arweiniol yr awdurdod lleol wrth gydgysylltu gweithdrefnau amddiffyn plant, bydd yr Arolygiaeth Safonau Gofal yn cyfrannu'n llawn yn y cyswllt rhwng asiantaethau i sefydlu swyddogaethau a chyfrifoldebau.

Gweithdrefn i'w dilyn gan yr Arolygiaeth Safonau Gofal

3.27 Bydd yr Arolygiaeth Safonau Gofal yn dilyn y gweithdrefnau diogelu BLIDP a gytunwyd yn ffurfiol tra'n gweithredu'r camau canlynol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r swyddogaeth reoliadol.

3.28 Os yw'r Arolygiaeth Safonau Gofal yn derbyn cyhuddiad neu'n dod yn ymwybodol o fethiant i ddiogelu a hyrwyddo lles plentyn, neu o gam-drin neu esgeulustod gwirioneddol neu debygol, mewn lleoliad gofal plant wedi'i reoleiddio, bydd yn atgyfeirio ar unwaith yn unol â'r gweithdrefnau BLIDP lleol. Lle gwneir yr atgyfeiriad dros y ffôn, bydd yn cael ei gadarnhau'n ysgrifenedig wedyn.

3.29 Dylid sefydlu cyn gynted ag sy'n bosibl a yw'r gwasanaeth wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldeb i ddiogelu lles pob plentyn yn y gwasanaeth neu a oes unrhyw faterion rheoliadol eraill sy'n galw am sylw ASGC.

- Os nad oes materion rheoliadol i ymdrin â nhw, gall ASGC derfynu ei ymwneud gweithredol ond dylai gael ei hysbysu o'r canlyniad.
- Os yw'r drafodaeth ar strategaeth yn penderfynu nad oes angen ymholiadau amddiffyn plant dan a.47 nac ymchwiliadau heddlu, gallai fod angen o hyd i'r Arolygiaeth Safonau Gofal neu'r person cofrestredig/rheolwr cyfrifol fynd i'r afael â materion rheoliadol o dan weithdrefnau disgyblu.

3.30 Gall yr awdurdod lleol a/neu'r heddlu ofyn am wybodaeth gan ASGC a chyflwynir gwybodaeth yn ôl yr angen.

3.31 Bydd yr Arolygiaeth Safonau Gofal yn cyfrannu at unrhyw weithgaredd adolygu/archwilio gan y BLIDP mewn perthynas â phryderon ynghylch cam-drin neu esgeulustod gwirioneddol neu debygol mewn lleoliadau wedi'u rheoleiddio.

Comisiynydd Plant Cymru

3.32 Dylai pob asiantaeth berthnasol i ddyletswydd Adran 28 a phob asiantaeth sydd â swyddogaethau statudol neu sy'n darparu gwasanaethau statudol mewn meysydd swyddogaethol a ddatganolwyd i'r Cynulliad, fod yn ymwybodol o swyddogaeth y Comisiynydd Plant ac, yn arbennig, mai prif nod y Comisiynydd wrth ymarfer ei swyddogaeth yw diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant.

3.33 Sefydlwyd swydd Comisiynydd Plant Cymru dan o Ran 5 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 i adlewyrchu argymhellion Syr Ronald Waterhouse

ynghylch sefydlu Comisiynydd Plant annibynnol yn ei adroddiad *Ar goll mewn Gofal: Adroddiad y tribiwnlys ymchwilio i gam-drin plant mewn gofal yn hen ardaloedd cynghorau sir Gwynedd a Chlwyd ers 1974,* (HC201 – Chwefror 2000).

3.34 O dan Ddeddf 2000, mae swyddogaethau'r Comisiynydd yn ymestyn i bob gwasanaeth ar gyfer plant sy'n cael ei reoleiddio gan y Ddeddf:

- cartrefi plant;
- canolfannau preswyl i deuluoedd;
- gwasanaethau maethu a mabwysiadu awdurdodau lleol;
- asiantaethau maethu;
- asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol;
- gofal cartref;
- ysbytai/clinigau preifat a gwirfoddol;
- agweddau lles mewn gwasanaethau gofal dydd a gwarchod plant i bob plentyn o dan wyth oed; a
- lles plant sy'n byw oddi cartref mewn ysgolion preswyl.

3.35 O dan y Ddeddf, mae swyddogaethau'r Comisiynydd yn cynnwys:

- adolygu a monitro trefniadau darparwyr gwasanaethau ar gyfer ymdrin â chwynion, er mwyn sicrhau bod camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd mewn ymateb i wybodaeth yn ymwneud â gweithgaredd a allai fod yn anghyfreithlon neu'n beryglus, neu eu celu ("chwythu'r chwiban"), ac er mwyn sicrhau bod personau ar gael i gynrychioli safbwyntiau plant ac i roi cyngor a chefnogaeth iddynt ("eiriolaeth");
- darparu cyngor a gwybodaeth;
- lle mae'r Comisiynydd yn ystyried hynny'n briodol, astudio achosion plant arbennig sy'n derbyn neu sydd wedi derbyn gwasanaethau o'r fath;
- darparu cymorth, yn cynnwys cymorth ariannol, a chynrychiolaeth, mewn perthynas ag achosion neu anghydfodau neu mewn perthynas â gweithredu'r gweithdrefnau a'r trefniadau sy'n cael eu monitro gan y Comisiynydd; a
- llunio adroddiadau i'r Cynulliad, gan gynnwys adroddiad blynyddol ar y modd y rhoddodd ei swyddogaethau ar waith.

3.36 Ymestynnodd Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 gylch gorchwyl y Comisiynydd i gynnwys cyrff a phersonau yn gweithio yng Nghymru sydd â swyddogaethau statudol neu sy'n darparu gwasanaethau statudol mewn meysydd swyddogaethol a ddatganolwyd i'r Cynulliad.

3.37 Er hynny roedd swyddogaethau'r Comisiynydd yn Rhan 5 o Ddeddf 2000 a gynhwysai adolygu a monitro trefniadau cwyno, chwythu'r chwiban ac eiriolaeth, yn ymwneud yn benodol â gwasanaethau plant wedi'u rheoleiddio (fel y diffiniwyd yn adran 78(2) o Ddeddf 2000). Ymestynnodd Deddf 2001 y rhain i gynnwys unrhyw swyddogaeth a arferir gan y Cynulliad, ac unrhyw swyddogaeth gan unrhyw gorff cyhoeddus arall sydd â swyddogaethau yng Nghymru ym meysydd cyfrifoldeb datganoledig y Cynulliad, fel y'u rhestrir yn Atodlen 2A o Ddeddf Comisiynydd Plant Cymru 2001.

3.38 Y personau yr effeithir arnynt fwyaf yw:

- awdurdodau lleol, yn enwedig mewn perthynas â'u darpariaeth addysg a gwasanaethau cymdeithasol;
- ysgolion;
- sefydliadau addysg bellach ac uwch;
- sefydliadau hyfforddi;
- Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

3.39 Hefyd, mae Deddf 2001 yn pennu mai prif nod y Comisiynydd wrth arfer ei swyddogaethau yw diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant.

3.40 Mae'r Ddeddf hefyd yn pennu y gall y Comisiynydd ystyried, a chyflwyno sylwadau i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n effeithio ar hawliau neu les plant yng Nghymru.

3.41 O dan Ddeddf Plant 2004, mae Adran 61 yn rhoi pŵer i Gomisiynydd Plant Cymru fynd ar safleoedd, ac eithrio cartrefi preifat, i gyfweld plant wrth adolygu a monitro swyddogaethau a threfniadau a wnaed gan y Cynulliad a phersonau penodedig eraill. Nid oes gan y Comisiynydd bŵer o'r fath i gyflawni ei swyddogaeth o gynnal archwiliadau neu ystyried a chyflwyno sylwadau ar unrhyw fater, o dan adrannau 74 a 75A o Ddeddf Safonau Gofal 2000.

Y Lluoedd Arfog

3.42 Gall pobl ifanc o dan 18 oed fod yn y lluoedd arfog fel recriwtiaid neu hyfforddeion, neu gallant fod yn ddibynyddion mewn teuluoedd milwrol. Mae bywyd teuluol yn y Lluoedd yn wahanol mewn sawl ffordd i fywyd teuluol sifil, yn enwedig i rai sy'n gwasanaethu dramor neu ar safleoedd ac mewn garsiynau yn y DU. Mae'r Lluoedd yn rhoi cymorth wrth i deuluoedd symud mewn ymateb i ymrwymiadau'r Lluoedd. Mae amlder a lleoliad symudiadau o'r fath yn ei gwneud hi'n hanfodol i awdurdodau'r Lluoedd fod yn ymwybodol o unrhyw bryderon ynghylch diogelu a hyrwyddo lles plentyn o deulu milwrol. Mae'r Lluoedd Arfog yn gwbl ymrwymedig i gydweithredu ag asiantaethau statudol ac asiantaethau eraill i gefnogi teuluoedd mewn sefyllfa o'r fath, ac mae

gweithdrefnau yn eu lle i helpu i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Mewn ardaloedd lle ceir llawer o deuluoedd milwrol, mae'r Lluoedd Arfog yn gwneud ymdrech arbennig i weithio ochr yn ochr â gwasanaethau cymdeithasol plant yr awdurdodau lleol, gan gynnwys eu cynrychiolaeth ar y BLIDP ac mewn cynadleddau ac adolygiadau amddiffyn plant.

3.43 Mae gofal am rai dan 18 oed yn y Lluoedd Arfog yn dod o dan drefniadau lles cynhwysfawr y Weinyddiaeth Amddiffyn sy'n berthnasol i bob aelod o'r Lluoedd Arfog. Mae Penaethiaid Milwrol yn ymwybodol iawn o anghenion lles penodol recriwtiaid a hyfforddeion iau ac fel y nodwyd uchod, yn gwbl ymrwymedig i gydweithredu ag asiantaethau statudol ac asiantaethau eraill i ddiogelu a hyrwyddo lles rhai dan 18 oed. Eisoes, mae cyfrifoldeb ar Wasanaethau Cymdeithasol i fonitro lles y sawl sy'n gadael gofal a chaiff y rhai hynny ohonynt sy'n ymuno â'r Lluoedd Arfog fynediad digyfyngiad i weithwyr Gwasanaeth Cymdeithasol yr awdurdodau lleol.

3.44 Mae cyfrifoldeb statudol ar awdurdodau lleol i ddiogelu a hyrwyddo lles ac amddiffyn plant teuluoedd y Lluoedd yn y DU. Mae'r Lluoedd Arfog oll yn darparu cymorth lles proffesiynol gan gynnwys gwasanaethau gwaith cymdeithasol 'arbennig yn ôl math' yn ychwanegol at y gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol. Yn y Llynges (RN) fe'i darperir gan Wasanaeth Personol a Theulu'r Llynges (NPFS) a Gwasanaeth Lles y Llynges Frenhinol; yn y Fyddin, fe'i darperir gan Wasanaeth Lles y Fyddin (AWS); ac yn yr Awyrlu gan Gymdeithas Teuluoedd Milwyr, Môr-filwyr ac Awyrenwyr - Cymorth i'r Lluoedd (SSAFA-FH). Ceir manylion pellach am y gwasanaethau hyn a rhifau cyswllt yn Atodiad D.

3.45 Pan fo teuluoedd y Lluoedd neu sifiliaid sy'n gweithio gyda'r Lluoedd Arfog wedi'u lleoli dramor, Y Weinyddiaeth Amddiffyn sydd â chyfrifoldeb dros ddiogelu a hyrwyddo lles eu plant, a nhw sy'n ariannu Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol y Lluoedd Arfog (Tramor). Mae'r gwasanaeth hwn wedi'i gontractio i SSAFA-FH sy'n darparu gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol ac Iechyd Cymunedol wedi'i hyfforddi'n llawn yn y prif leoliadau tramor (yn yr Almaen ac ar Ynys Cyprus, er enghraifft). Cyhoeddir cyfarwyddiadau ar amddiffyn plant dramor sy'n adlewyrchu egwyddorion Deddf Plant 2004 ac athroniaeth o gydweithrediad rhyngasiantaethol gan Weinyddiaeth Amddiffyn ar ffurf 'Cyfarwyddyd Cyngor Amddiffyn (Cyd-wasanaeth)' (DCI(JS)). Mae safleoedd tramor mwy o faint yn cyhoeddi gweithdrefnau amddiffyn plant lleol, yn cynnal Cofrestr Amddiffyn Plant ar gyfer y Safle ac yn meddu ar Fwrdd Diogelu Plant ar gyfer y Safle sy'n gweithio mewn ffordd debyg i'r DU er mwyn cynnal safonau a sicrhau bod ymarfer gorau'n cael ei adlewyrchu mewn gweithdrefnau a'i weithredu'n ymarferol.

Symud Plant rhwng y Deyrnas Unedig a Thramor

3.46 Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod SSAFA-FH, Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Lluoedd Prydain (Tramor), neu'r NPFS ar gyfer teuluoedd y RN, yn cael gwybod am unrhyw blentyn Lluoedd sy'n destun cynllun amddiffyn plant pan fo'i deulu ar symud dramor. Er lles y plentyn, gall SSAFA-FH, Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Lluoedd Prydain (Tramor) neu NPFS gadarnhau fod adnoddau priodol ar gael yn y lleoliad y bwriedir symud iddo i fodloni anghenion a glustnodwyd. Dylid darparu'r holl ddogfennau i'w hanfon ymlaen i'r safle tramor perthnasol. Dylid atgyfeirio pob dim at y Director of Social Work, HQ SSAFA-FH neu'r Area Officer, NFPS (East) fel sy'n briodol yn y cyfeiriadau a roir yn Atodiad D. Mae trefniadau dwyffordd cynhwysfawr ar gael ar gyfer atgyfeirio achosion amddiffyn plant cofrestredig at awdurdodau perthnasol yn y DU wrth i blant o'r fath gael eu hadleoli dros dro neu'n barhaol i'r DU o dramor.

Lluoedd Arfog yr Unol Daleithiau a Leolwyd yn y Deyrnas Unedig

3.47 Dylai pob awdurdod lleol sydd â chanolfan filwrol Americanaidd yn ei ardal sefydlu trefniadau cyswllt â phennaeth y ganolfan a staff perthnasol. Dylid egluro gofynion deddfwriaeth les plant Cymru yn glir i'r awdurdodau Americanaidd, fel y gall awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswyddau statudol.

Ymholiadau am Blant Teuluoedd Cyn-filwyr

3.48 Lle mae awdurdod lleol yn credu fod plentyn sy'n rhan o brosesau amddiffyn plant cyfredol yn dod o deulu cyn-filwr, gellir cysylltu â NPFS, AWS neu SSAFA-FH er mwyn penderfynu a oes gwybodaeth sy'n bodoli'n barod a allai gynorthwyo gyda'r ymholiadau. Dylid cyfeirio ymholiadau o'r fath at yr NPFS, AWS neu'r Director of Social Work, SSAFA-FH yn y cyfeiriad a roir yn Atodiad D.

Y Sectorau Gwirfoddol A Phreifat

3.49 Mae sefydliadau gwirfoddol a darparwyr y sector preifat, gan gynnwys y rhai hynny sy'n darparu gwasanaethau i oedolion, yn chwarae rhan bwysig wrth gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Mae'n bosibl fod sefydliadau gwirfoddol, yn arbennig, mewn sefyllfa dda i gyrraedd y plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n fwyaf agored i niwed.

3.50 Mae cyfraniad sectorau gwirfoddol a phreifat yn cynnwys darpariaeth gofal dydd a blynyddoedd cynnar, gwasanaethau cymorth teulu, gwaith gydag ieuenctid a gwasanaethau cymdeithasol plant. Mae llawer o sefydliadau gwirfoddol yn fedrus mewn gwaith ataliol. Mae sefydliadau gwirfoddol hefyd yn cyflenwi eiriolaeth i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ac i rieni a phlant sy'n destun ymholiadau a.47 a chynadleddau

amddiffyn plant. Maent yn cynnig gwaith therapiwtig gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd, yn enwedig mewn perthynas â cham-drin plant yn rhywiol, a chefnogaeth a gwasanaethau arbennig i blant a phobl ifanc ag anableddau neu broblemau iechyd.

3.51 Mae rhai sefydliadau gwirfoddol yn rhedeg llinellau cymorth di-dâl cenedlaethol 24 awr. Mae gwasanaeth ChildLine ar gael i bob plentyn a pherson ifanc sydd mewn trybini neu berygl, tra mae gwasanaeth NSPCC yn bodoli'n bennaf ar gyfer oedolion sy'n pryderu ynghylch plant. Mae Parentline Plus yn cynnig cymorth i unrhyw un sy'n magu plentyn. Mae'r gwasanaethau hyn, ynghyd â llawer o linellau cymorth eraill llai o faint, yn darparu llwybrau pwysig at y gwasanaethau statudol a gwirfoddol i blant a phobl ifanc mewn angen ac i rai sydd angen eu diogelu rhag niwed sylweddol.

3.52 Mae gan sefydliadau gwirfoddol hefyd gyfraniad allweddol wrth ddarparu gwybodaeth ac adnoddau i'r cyhoedd yn gyffredinol am anghenion plant a phobl ifanc, ac adnoddau i helpu teuluoedd. Mae nifer yn ymgyrchu ar ran grwpiau ar faterion penodol.

3.53 Er mai dim ond yr NSPCC o blith y sefydliadau gwirfoddol sydd â hawl i gychwyn achosion o dan delerau Deddf Plant 1989, mae sefydliadau gwirfoddol yn ymgymryd ag asesiadau o angen ac yn darparu gwasanaethau therapiwtig a gwasanaethau eraill i blant sydd wedi'u cam-drin. Yn aml, darperir gwasanaethau o'r fath yng nghyd-destun cynlluniau amddiffyn plant ar gyfer plant y mae eu henwau ar y gofrestr amddiffyn plant. Mae sefydliadau gwirfoddol hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad a darpariaeth gwasanaethau i blant sydd wedi'u cam-drin yn sgil puteindra ac i blant sy'n cam-drin plant eraill.

3.54 Mae'r sector gwirfoddol yn gweithio'n galed i ddiogelu'r plant a'r bobl ifanc y mae'n gweithio gyda nhw. Ceir ystod o sefydliadau mantell ac arbenigol sy'n cynnig safonau, cyfarwyddyd, hyfforddiant a chyngor i sefydliadau gwirfoddol ar gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel rhag niwed.

3.55 Mae angen i sefydliadau o'r sectorau gwirfoddol a phreifat fod â pholisïau a gweithdrefnau clir yn eu lle i sicrhau eu bod yn gallu gweithio'n effeithiol gyda Byrddau Lleol Diogelu Plant. Mae angen i staff cyflogedig a gwirfoddol fod yn ymwybodol o anghenion a pheryglon i'r plant a'r bobl ifanc y maent mewn cysylltiad â nhw.

Cymunedau Ffydd

3.56 Mae eglwysi, mannau addoli a sefydliadau ffydd eraill yn darparu rhychwant eang o weithgareddau i blant a phobl ifanc. Ceir yn eu plith rai o brif ddarparwyr gwaith gyda phlant a phobl ifanc, ac mae rhan bwysig ganddynt i'w chwarae wrth ddiogelu plant a chefnogi teuluoedd. Bydd graddau'r cyswllt rhwng plant ag arweinwyr, staff a gwirfoddolwyr

crefyddol sy'n darparu gwasanaethau mewn mannau addoli ac mewn sefydliadau ffydd yn amrywio.

3.57 Fel sefydliadau eraill sy'n gweithio gyda phlant, mae angen i eglwysi, mannau addoli a sefydliadau ffydd eraill fod â threfniadau priodol yn eu lle ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles plant. Yn fwy arbennig, dylai'r rhain gynnwys:

- gweithdrefnau i staff ac eraill hysbysu am bryderon a allai fod ganddynt ynghylch y plant y maent yn eu cyfarfod sy'n unol â'r canllawiau hyn a gweithdrefnau BLIDP, yn ogystal â threfniadau megis y rhai a ddisgrifiwyd uchod;
- chodau ymarfer addas ar gyfer staff, yn enwedig rhai sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant, megis y rhai a gyhoeddwyd gan Wasanaeth Ymgynghorol Amddiffyn Plant yr Eglwysi (CCPAS) neu gan eu henwad, neu grŵp ffydd; a
- gweithdrefnau recriwtio yn unol ag egwyddorion Safe from Harm (a gyhoeddwyd gan Swyddfa Gartref, 1993, *Safe from harm: a code of practice for safeguarding the welfare of children in voluntary organisations in England and Wales*) a gweithdrefnau BLIDP. Hyfforddiant ochr yn ochr a goruchwylio staff (cyflogedig neu wirfoddol).

3.58 Gall eglwysi a sefydliadau ffydd geisio cyngor ar faterion amddiffyn plant gan Wasanaeth Ymgynghorol Amddiffyn Plant yr Eglwysi (CCPAS). Gall CCPAS helpu gyda pholisïau a gweithdrefnau; gall eu llawlyfr 'Guidance to Churches' gynorthwyo eglwysi a gall eu 'Safeguarding Children and Young People' gynorthwyo mannau addoli a grwpiau ffydd eraill.

3.59 Mae CCPAS yn darparu llinell gymorth genedlaethol 24 awr ar gyfer eglwysi, mannau addoli a grwpiau ffydd ac unigolion eraill, sy'n darparu cyngor a chymorth ar faterion diogelu.

Y Gymuned Ehangach

3.60 Rydym oll yn gyd-gyfrifol am hyrwyddo lles plant a phobl ifanc, boed fel rhiant neu aelod o deulu, ffrind neu gymydog, cyflogwr neu weithiwr cyflogedig neu wirfoddol. Gall aelodau o'r gymuned helpu i ddiogelu plant a phobl ifanc os ydynt yn ystyriol o'u hanghenion, ac yn barod ac yn abl i weithredu os oes ganddynt bryderon ynghylch lles plentyn neu berson ifanc. Gall asiantaethau lleol hyrwyddo partneriaeth â theuluoedd a'r gymuned ehangach drwy gyfathrebu'n agored â phobl leol a'r cyfryngau am eu gwaith, a darparu gwybodaeth a chyngor hygyrch sy'n eglur ac yn berthnasol i holl grwpiau'r boblogaeth. Gallai gwybodaeth berthnasol gynnwys manylion am y gwasanaethau y mae asiantaethau lleol yn eu darparu, sut a phryd i gysylltu lle ceir pryderon am blentyn, a'r ymateb y dylai aelodau o'r cyhoedd a defnyddwyr gwasanaethau ei ddisgwyl. Bydd hyn yn cynorthwyo pobl i ddatblygu

mwy o ddealltwriaeth ynghylch pryd sy'n briodol i fynd at asiantaethau statudol, sut i wneud hynny, a lle gallai rhywun fod yn gymwys i dderbyn gwasanaeth. Hefyd gall asiantaethau statudol gefnogi gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan aelodau o'r gymuned, drwy gynnig mynediad i gyngor a hyfforddiant ar ddiogelu plant a phobl ifanc.

3.61 Mae gan aelodau o'r gymuned ehangach hefyd gryfderau a medrau y gellid eu defnyddio er budd plant sy'n agored i niwed a'u teuluoedd, gan gynnwys plant sydd mewn perygl o niwed sylweddol. Gallai adnoddau cymunedol gynnwys mentrau hunangymorth a chyd-gymorth, adnoddau a rhwydweithiau gwybodaeth, gwasanaethau cefnogi ac eiriolaeth a mentrau ymgyrchu.

4: Byrddau Lleol Diogelu Plant

Rhaid i bob awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru sefydlu Bwrdd Lleol Diogelu Plant ar gyfer eu hardal.

(Adran 31(1); Deddf Plant 2004)

Aelodaeth

(2) Rhaid i Fwrdd a sefydlwyd o dan yr adran hon gynnwys cynrychiolydd neu gynrychiolwyr ar ran –

(a) yr awdurdod a'i sefydlodd; a

(b) phob partner Bwrdd yr awdurdod hwnnw yn ôl fel y penna'r Cynulliad drwy ei reoliadau.

(3) At ddiben yr adran hon y mae pob un o'r canlynol yn bartner Bwrdd i awdurdodau gwasanaethau plant yng Nghymru –

(a) prif swyddog yr heddlu dros ardal heddlu y mae unrhyw ran ohoni yn ardal yr awdurdod;

(b) bwrdd prawf lleol dros ardal y mae unrhyw ran ohoni yn ardal yr awdurdod;

(c) tîm troseddau ieuenctid dros ardal y mae unrhyw ran ohoni yn ardal yr awdurdod;

(d) Bwrdd Iechyd Lleol dros ardal y mae unrhyw ran ohoni yn ardal yr awdurdod;

(e) ymddiriedolaeth GIG sy'n darparu gwasanaethau yn ardal yr awdurdod;

(f) llywodraethwr unrhyw ganolfan hyfforddi ddiogel yn ardal yr awdurdod (neu, yn achos canolfan hyfforddi ddiogel wedi'i heithrio, ei chyfarwyddwr);

(g) llywodraethwr unrhyw garchar yn ardal yr awdurdod sydd fel arfer yn cadw plant (neu, yn achos carchar wedi'i eithrio, ei gyfarwyddwr).

(*Adran 31(2)ag(3); Deddf Plant 2004*)

4.1 Mae Adran 31 o Ddeddf Plant 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru sefydlu Bwrdd Lleol Diogelu Plant ar gyfer eu hardal, a fydd yn cydgysylltu'r hyn a wneir gan ei aelodau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant yn ardal yr awdurdod a'i sefydlodd. Mae'r Ddeddf yn pennu'r canlynol fel partneriaid ar Fyrddau Diogelu:

- yr awdurdod lleol;
- prif swyddog yr heddlu dros ardal heddlu y mae unrhyw ran ohoni yn ardal yr awdurdod;

- bwrdd prawf lleol dros ardal y mae unrhyw ran ohoni yn ardal yr awdurdod;
- tîm troseddau ieuenctid dros ardal y mae unrhyw ran ohoni yn ardal yr awdurdod;
- Bwrdd Iechyd Lleol dros ardal y mae unrhyw ran ohoni yn ardal yr awdurdod;
- ymddiriedolaeth GIG sy'n darparu gwasanaethau yn ardal yr awdurdod;
- llywodraethwr unrhyw ganolfan hyfforddi ddiogel yn ardal yr awdurdod (neu, yn achos canolfan hyfforddi ddiogel wedi'i heithrio, ei chyfarwyddwr);
- llywodraethwr unrhyw garchar yn ardal yr awdurdod sydd fel arfer yn cadw plant (neu, yn achos carchar wedi'i eithrio, ei gyfarwyddwr).

4.2 Mae Rheoliadau Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant (Cymru) 2006 yn pennu'r aelodau sy'n ofynnol eu cynnwys ar Fyrddau Diogelu ar ran pob un o'r asiantaethau partner fel a ganlyn:

- ar ran yr awdurdod lleol –
    i) cyfarwyddwr arweiniol gwasanaethau plant a phobl ifanc neu swyddog arall sy'n uniongyrchol atebol i'r person hwnnw ac sy'n dal swydd ddigon uchel i gynrychioli'r awdurdod yn lle'r person hwnnw;
    ii) lle nad yw'r cyfarwyddwr arweiniol yn gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod, cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod neu swyddog arall sy'n uniongyrchol atebol i'r cyfarwyddwr hwnnw ac sy'n dal swydd ddigon uchel i gynrychioli'r awdurdod yn lle'r cyfarwyddwr hwnnw;
    iii) lle nad yw'r cyfarwyddwr arweiniol yn brif swyddog addysg, prif swyddog addysg yr awdurdod neu swyddog arall sy'n uniongyrchol atebol i brif swyddog addysg yr awdurdod ac sy'n dal swydd ddigon uchel i gynrychioli'r awdurdod yn lle'r prif swyddog addysg; a'r
    iv) swyddog a benodwyd gan yr awdurdod i fod â chyfrifoldeb dros gyflawni ei swyddogaethau o dan Ran VI neu VII o Ddeddf Tai 1996 sy'n dal swydd ddigon uchel i weithredu fel cynrychiolydd yr awdurdod.
- ar ran yr heddlu dros unrhyw ardal heddlu y mae unrhyw ran ohoni yn ardal y Bwrdd, swyddog sydd –
    i) yn Arolygydd o leiaf; a
    ii) wedi derbyn cyfrifoldebau penodol gan y prif swyddog mewn perthynas ag amddiffyn plant;

- ar ran y bwrdd prawf lleol dros unrhyw ardal y mae unrhyw ran ohoni yn ardal y Bwrdd, y Prif Swyddog neu swyddog arall sy'n uniongyrchol atebol i'r Prif Swyddog ac sy'n dal swydd ddigon uchel i gynrychioli'r Bwrdd yn lle'r Prif Swyddog;
- ar ran tîm troseddau ieuenctid dros unrhyw ardal y mae unrhyw ran ohoni yn ardal y Bwrdd, rheolwr y tîm neu Dirprwy'r Rheolwr;
- ar ran Bwrdd Iechyd Lleol ("BILl") dros unrhyw ardal y mae unrhyw ran ohoni yn ardal y Bwrdd –
    i) swyddog arweiniol gwasanaethau plant a phobl ifanc y BILl neu swyddog arall sy'n uniongyrchol atebol iddo neu iddi ac sy'n dal swydd ddigon uchel i weithredu fel cynrychiolydd y BILl yn lle'r swyddog arweiniol;
    ii) ymarferydd meddygol cofrestredig gyda chyfrifoldebau penodol mewn perthynas ag amddiffyn plant yn ardal y BILl; a
    iii) nyrs gofrestredig gyda chyfrifoldebau penodol mewn perthynas ag amddiffyn plant yn ardal y BILl;
- ar ran Ymddiriedolaeth GIG sy'n darparu gwasanaethau meddygol yn ardal yr awdurdod, ac eithrio Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, cyfarwyddwr gweithredol arweiniol gwasanaethau plant a phobl ifanc yr Ymddiriedolaeth neu swyddog arall sy'n uniongyrchol atebol iddo neu iddi ac sy'n dal swydd ddigon uchel i weithredu fel cynrychiolydd yr Ymddiriedolaeth yn lle'r cyfarwyddwr gweithredol arweiniol;
- ar ran llywodraethwr unrhyw ganolfan hyfforddi ddiogel yn ardal y Bwrdd (neu, yn achos canolfan ddiogel wedi'i heithrio, ei chyfarwyddwr), dirprwy'r llywodraethwr (neu gyfarwyddwr) neu unigolyn mewn swydd uwch; ac
- ar ran llywodraethwr carchar yn ardal y Bwrdd sydd fel arfer yn cadw plant (neu, yn achos carchar wedi'i eithrio, ei gyfarwyddwr), dirprwy'r llywodraethwr (neu gyfarwyddwr) neu unigolyn o radd uwch.

Aelodau Eraill o'r Bwrdd

4.3 Mae'r Ddeddf yn caniatáu i gynrychiolwyr personau neu gyrff eraill perthnasol gael eu cynrychioli ar y Bwrdd, fel y gwêl yr awdurdod a'i sefydlodd yn dda, ac yn dilyn ymgynghori â'u partneriaid Bwrdd. Felly dylai'r Awdurdod Lleol sicrhau ymwneud sefydliadau lleol perthnasol eraill a'r NSPCC sy'n sicrhau bod cynrychiolwyr ar gael.

4.4 Hefyd dylai'r BLIDP wneud trefniadau i sicrhau bod y sawl sy'n gyfrifol am swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol i oedolion a ddylai cael eu cynrychioli ar y BLIDP oherwydd pwysigrwydd gwasanaethau cymdeithasol i oedolion wrth ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Yn yr un modd, dylai'r trefniadau sicrhau bod gwasanaethau iechyd i oedolion

ac yn arbennig gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion a gwasanaethau anabledd i oedolion wedi'u cynrychioli ar y BLlDP.

4.5 Mae'r sefydliadau lleol eraill y dylid eu cynrychioli ar y BLlDP yn cynnwys:

- grwpiau ffydd;
- ysgolion gwladol ac annibynnol;
- Colegau Addysg Bellach yn cynnwys Colegau 6ed Dosbarth;
- canolfannau plant;
- cartrefi plant annibynnol;
- darparwyr maethu annibynnol;
- meddygon teulu;
- sefydliadau gofal iechyd annibynnol; a
- sefydliadau sector gwirfoddol a chymunedol yn cynnwys cyrff sy'n darparu gofal arbenigol i blant ag anableddau difrifol ac anghenion iechyd cymhleth.

4.6 Mewn ardaloedd lle maent yn sylweddol weithgar yn lleol, dylid cynnwys hefyd y lluoedd arfog (mewn perthynas â theuluoedd dynion a menywod sy'n gwasanaethu yn ogystal â phersonél o dan 18 oed), y Gwasanaeth Mewnfudo, a'r Gwasanaeth Cynnal Cenedlaethol i Geiswyr Lloches. Lle nad oes modd cynrychioli sefydliadau tebyg i'w gilydd yn unigol ar y BLlDP oherwydd eu niferoedd neu eu maint, er enghraifft yn achos ysgolion neu gyrff ieuenctid gwirfoddol, dylai'r awdurdod lleol wneud ymdrech i'w cynnwys drwy gyfrwng rhwydweithiau neu fforymau sy'n bodoli'n barod, neu drwy hybu a datblygu rhwydweithiau neu fforymau addas i hwyluso cyfathrebu rhwng sefydliadau a chyda'r BLlDP.

Ymwneud asiantaethau a grwpiau eraill

Cafcass Cymru

4.7 Swyddogaeth y gwasanaeth yng Nghymru mewn perthynas ag achosion teulu lle mae, neu lle gallai lles plant fod yn y fantol, yw:

- diogelu a hyrwyddo lles plant;
- cynghori unrhyw lys ynghylch unrhyw gais a roir gerbron mewn achosion o'r fath;
- darparu ar gyfer y plant sydd i'w cynrychioli mewn achosion o'r fath;
- darparu gwybodaeth, cyngor a ffurfiau eraill o gymorth i'r plant a'u teuluoedd.

4.8 Gyda'i ddyletswydd statudol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, dylai CAFCASS CYMRU barhau'n aelod allweddol o bob Bwrdd Diogelu. Felly dylai Byrddau Lleol Diogelu Plant sicrhau bod cynrychiolaeth o CAFCASS CYMRU wedi'i chynnwys yn aelodaeth y BLlDP.

Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC)

4.9 O ystyried ei chyfrifoldeb dros amddiffyn plant mewn gwasanaethau wedi'u rheoleiddio (gweler Pennod 3) y mae'n briodol i ASGC ddatblygu perthynas waith agos â Byrddau Lleol Diogelu Plant mewn perthynas â lleoliadau o'r fath.

4.10 Dylai Byrddau Lleol Diogelu Plant wneud trefniadau i gynnwys ASGC yn ei waith fel sy'n briodol. Dylai BLlDP gytuno ar brotocolau gydag ASGC gan gynnwys gweithdrefnau rhyngasiantaethol lle canfyddir neu lle drwgdybir achosion o gam-drin neu esgeulustod o fewn gwasanaethau wedi'u rheoleiddio. Yn arbennig, dylai gweithdrefnau fynd i'r afael â'r angen i ASGC:

- gael ei hysbysu'n syth pan fo adran wasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol yn dod yn ymwybodol o achos o gam-drin neu esgeulustod gwirioneddol neu debygol mewn lleoliad wedi'i reoleiddio; ac
- i gael ei gwahodd i gyfrannu mewn unrhyw drafodaethau strategol sy'n dilyn.

4.11 Dylid ymgorffori'r gweithdrefnau yn y protocol rhwng y BLlDP ag ASGC.

Eraill

4.12 Dylai'r BLlDP wneud trefniadau priodol ar lefel rheoli strategol i gynnwys eraill yn ei waith fel y bo angen. Er enghraifft, efallai y bydd angen cynnwys rhai sefydliadau neu unigolion sydd mewn theori wedi'u cynrychioli gan bartneriaid statudol y bwrdd oherwydd eu swyddogaeth arbennig yn darparu gwasanaeth i blant a theuluoedd neu eu swyddogaeth yn amddiffyn y cyhoedd. Bydd sefydliadau eraill y bydd angen i'r BLlDP greu cysylltiad â nhw, naill ai drwy eu gwahodd i ymuno â'r BLlDP neu drwy fecanwaith arall. Er enghraifft:

- gwasanaeth y crwner;
- gwasanaethau iechyd deintyddol;
- Fforymau Trais yn y Cartref;
- gwasanaethau camddefnyddio sylweddau (gan gynnwys Ymddiriedolaethau GIG sy'n cyflenwi gwasanaethau y tu allan i'r dalgylch);
- gwasanaethau diwylliant a hamdden;
- darparwyr tai;

- gwasanaethau cyfreithiol awdurdod lleol;
- MAPPA lleol;
- cyrff a gwasanaethau chwaraeon lleol;
- Cyngor Cyfiawnder Teuluol lleol;
- Bwrdd Cyfiawnder Troseddol lleol;
- darparwyr iechyd eraill megis fferyllwyr;
- cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau;
- gwasanaethau iechyd rhywiol;
- Gwasanaeth Erlyn y Goron;
- meddygon, nyrsys a bydwragedd penodol sy'n ymwneud ag amddiffyn plant mewn Ymddiriedolaethau GIG;
- gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl fforensig;
- gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed;
- cynrychiolwyr gofalwyr maeth, a
- gwasanaethau cymorth i dystion.

4.13 Bydd angen i'r BLIDP elwa hefyd ar waith sefydliadau cenedlaethol allweddol a chysylltu â nhw pan fo angen, er enghraifft, Canolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein.

4.14 Y bwrdd yn lleol fydd yn penderfynu faint o gynrychiolwyr o asiantaethau unigol fydd ar y Bwrdd. Dylai'r Byrddau roi ystyriaeth arbennig i swyddogaeth ymarferwyr amddiffyn plant allweddol, yn cynnwys:

- cydgysylltwyr amddiffyn plant yr awdurdod lleol;
- gweithwyr proffesiynol penodol mewn ymddiriedolaethau GIG; ac
- athrawon dynodedig ar gyfer amddiffyn plant.

Hefyd efallai y bydd Byrddau'n dymuno gwahodd asiantaethau neu unigolion i gyfarfodydd y Bwrdd fel sylwebyddion neu fel ymgynghorwyr yn rhinwedd eu swyddi.

Swyddogaethau Byrddau Diogelu

Nod Bwrdd Lleol Diogelu Plant a sefydlwyd o dan adran 31 yw –


(a) cydgysylltu'r hyn a wneir gan bob person neu gorff a gynrychiolir ar y Bwrdd er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant yn ardal yr awdurdod a'i sefydlodd; a

(b) sicrhau effeithiolrwydd yr hyn a wneir gan bob person neu gorff o'r fath i'r perwyl hwnnw.

(Adran 32(1); Deddf Plant 2004)

4.15 Dylai'r Byrddau Diogelu ganolbwyntio'n barhaol ar amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Dylai polisïau ac ymarfer fod wedi'u targedu'n bennaf felly at blant sy'n dioddef, neu mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol.

4.16 Mae sicrhau bod polisïau ac ymarfer gwaith effeithiol yn eu lle i amddiffyn plant a'u bod wedi'u cydgysylltu'n briodol yn parhau'n swyddogaeth allweddol i'r Byrddau Diogelu. Dim ond pan fydd y rhain yn eu lle y dylai Byrddau edrych ar eu cylch gorchwyl ehangach o ddiogelu a hyrwyddo lles pob plentyn.



4.17 O dan Adran 28 o Ddeddf Plant 2004, mae dyletswydd statudol ar bob un o'r partneriaid statudol ar Fwrdd Diogelu i wneud trefniadau ar gyfer sicrhau bod –

- eu swyddogaethau'n cael eu cyflawni mewn perthynas â'r angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant; a
- bod unrhyw wasanaethau a ddarperir gan berson arall yn sgil trefniadau a wnaed gan y person neu gorff wrth gyflawni eu swyddogaethau yn cael eu darparu mewn perthynas â'r cyfryw angen.

4.18 Mae'n ofynnol i Fyrddau Lleol Diogelu Plant gydgysylltu gweithgareddau pob person neu gorff a gynrychiolir ar y Bwrdd mewn perthynas â diogelu a hyrwyddo lles plant ac i sicrhau effeithiolrwydd y gweithgareddau hynny.

4.19 Swyddogaethau penodol y Bwrdd Diogelu yw:

- cymryd camau gyda'r nod o feithrin perthynas o gyd-ymddiried a chyd-ddealltwriaeth ymhlith y personau neu'r cyrff a gynrychiolir ar y Bwrdd mewn perthynas â diogelu a hyrwyddo lles plant yn ardal y Bwrdd;
- cymryd camau gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth drwy ardal y Bwrdd o'r angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â sut y gellir cyflawni hynny;
- datblygu gweithdrefnau gyda'r diben o gydgysylltu'r hyn a wneir gan bob corff cynrychiadol er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant yn ardal y Bwrdd, gan gynnwys gweithdrefnau sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth;
- adolygu effeithlonrwydd y camau a gymerir gan bob person neu gorff a gynrychiolir ar y Bwrdd i gydgysylltu'r hyn a wnânt er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant yn ardal y Bwrdd ac i wneud unrhyw argymhellion y gwêl yn addas i'r personau neu'r cyrff hynny yng ngoleuni adolygiad o'r fath;
- cyflawni "adolygiadau achosion difrifol";
- monitro i ba raddau y cyflawnir neu y cyflawnwyd unrhyw argymhellion a wnaed mewn adolygiad o dan y ddau bwynt uchod;
- datblygu meini prawf ar gyfer mesur perfformiad yr awdurdod gwasanaethau plant yn ôl y cynllun a gynhyrchwyd o dan adran 26 o Ddeddf 2004 (cynlluniau plant a phobl ifanc), lle bo'r cynllun yn ymwneud â diogelu a hyrwyddo lles plant yn ardal yr awdurdod;
- lledaenu gwybodaeth am ymarfer gorau wrth ddiogelu a hyrwyddo lles plant ymhlith y cyrff cynrychiadol a phersonau eraill, fel y gwêl y Bwrdd yn addas;
- cynnal gwaith ymchwil i ddiogelu a hyrwyddo lles plant;
- adolygu anghenion hyfforddi pobl sy'n gweithio yn ardal y Bwrdd gyda golwg ar glustnodi gweithgareddau hyfforddi i gynorthwyo gyda diogelu a hyrwyddo lles plant yn ardal y Bwrdd;
- darparu hyfforddiant gyda'r diben o gynorthwyo gyda diogelu a hyrwyddo lles plant yn ardal y Bwrdd;
- cydweithredu â Byrddau eraill (yng Nghymru neu Loegr) ac unrhyw gyrff tebyg yn yr Alban a Gogledd Iwerddon lle ystyria'r Bwrdd y byddai'n fuddiol i'r ddwy ochr wneud hynny; a
- cheisio cyngor neu wybodaeth lle ystyria'r Bwrdd y byddai'n ddymunol at ddibenion y swyddogaethau uchod.

Ehangder y Buddiant

4.20 Mae ehangder y cyfrifoldebau a amlinellwyd ym mharagraff 4.15 a 4.16 (uchod) yn ymestyn i bob plentyn a pherson ifanc ond dylai'n arbennig gynnwys:

- plant mewn angen;
- plant sy'n cael eu cam-drin a'u hesgeuluso mewn teuluoedd, yn cynnwys rhai a niweidiwyd yng nghyd-destun cam-drin yn y cartref neu o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau;
- plant sy'n cael eu cam-drin y tu allan i'w teuluoedd gan oedolion y maent yn eu hadnabod;
- plant sy'n cael eu cam-drin a'u hesgeuluso gan ofalwyr proffesiynol, mewn lleoliad sefydliadol, neu unrhyw le arall lle mae plant yn derbyn gofal oddi cartref;
- plant sy'n cael eu cam-drin gan ddieithriaid;
- plant sy'n cael eu cam-drin gan bobl ifanc eraill;
- plant sy'n cam-drin;
- plant sy'n cael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol;
- plant sy'n camddefnyddio cyffuriau, alcohol a sylweddau eraill;
- plant sy'n rhedeg i ffwrdd o gartref neu o ofal;
- plant sy'n mynd ar goll;
- ceiswyr lloches sy'n blant boed gyda'u teuluoedd neu ar eu pen eu hunain;
- plant gydag anghenion arbennig neu anableddau;
- plant i rieni sy'n brin o allu magu plant.

4.21 Wrth gyflawni ei gyfrifoldebau dylai Bwrdd Diogelu fynd ati'n ddiwyd i:

- godi ymwybyddiaeth o fewn y gymuned ehangach, yn cynnwys cymunedau ffydd a chymunedau lleiafrifoedd ethnig, ac ymhlith asiantaethau statudol, gwirfoddol ac annibynnol, ynghylch sut y gall pawb gyfrannu at ddiogelu plant a hyrwyddo eu lles;
- gweithio gyda'i gilydd ar draws asiantaethau i glustnodi a gweithredu ar bryderon ynghylch diogelwch a lles plant; a
- gweithio gyda'i gilydd ar draws asiantaethau i helpu'r plant hynny sydd wedi dioddef, neu sy'n parhau mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol, er mwyn diogelu plant o'r fath a hyrwyddo eu lles.

4.22 Wrth ymarfer ei swyddogaethau, dylai Bwrdd hefyd:

- sicrhau mai amddiffyn plant a lles plant yw ei brif ystyriaeth;
- ystyried anghenion cymdeithas amlhiliol ac amlddiwylliannol;

- ystyried cynllun plant a phobl ifanc yr awdurdod gwasanaethau plant.

Trefniadaeth a Dull Llywodraethu

Atebolrwydd

4.23 Mae Byrddau Lleol Diogelu Plant yn atebol yn eu gwaith i'w prif asiantaethau cyfansoddol, a bydd arnynt angen eu cytundeb ar gyfer pob gwaith sydd â goblygiadau polisi, cynllunio a dyrannu adnoddau. Dylai uwch-reolwyr pob un o'r prif asiantaethau sy'n aelodau gytuno ar raglenni gwaith a'u cymeradwyo o fewn fframwaith y cynllun plant a phobl ifanc.

4.24 Dylai pob awdurdod lleol gymryd cyfrifoldeb arweiniol dros sefydlu'r Byrddau Lleol Diogelu Plant a sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol, er bod pob un o'r prif asiantaethau cyfansoddol yn gyfrifol am gyfrannu'n llawn ac yn effeithiol i waith y BLlDP.

4.25 Er bod swyddogaeth i'r BLlDP yn y gwaith o gydgysylltu a sicrhau effeithiolrwydd gwaith unigolion a sefydliadau lleol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, nid yw'n atebol am eu gweithgaredd. Mae pob partner Bwrdd yn cadw ei linellau atebolrwydd ei hun er diogelu a hyrwyddo lles plant o fewn eu gwasanaethau. Nid oes grym gan y BLlDP i gyfarwyddo sefydliadau eraill.

4.26 O bryd i'w gilydd, efallai y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gofyn i'r Byrddau Lleol Diogelu Plant am sylwadau neu wybodaeth ar faterion diogelu plant.

Cadeirio

4.27 Dylid cadeirio'r BLlDP gan rywun sy'n meddu ar safle ac arbenigedd digonol i fynnu parch a chefnogaeth yr aelod-asiantaethau, ac sydd ag amgyffred cadarn o faterion gweithredol lleol. Gall y cadeirydd berthyn i unrhyw un o'r aelod-asiantaethau, gall y gadeiryddiaeth gylchdroi rhwng yr aelod-asiantaethau, neu gall fod yn annibynnol ar yr aelod-asiantaethau, fel y gwêl y Bwrdd yn lleol yn dda.


Ffyrdd o Weithio

4.28 Yn lleol mae ystyried ymarfer gwaith aelodau'r BLlDP gyda golwg ar sicrhau bod swyddogaethau'r BLlDP yn cael eu gweithredu'n effeithiol a bod pob aelod-sefydliad yn chwarae ei ran yn effeithiol.

4.29 Ni phennwyd ymarfer a strwythurau gwaith o flaen llaw ac y mae'r rhain i'w cytuno'n lleol. Efallai y bydd rhai ardaloedd yn dymuno cynnwys cymaint o asiantaethau â phosibl wrth wneud penderfyniadau allweddol a mabwysiadu rhywbeth tebyg i'r model canlynol. Yn y model hwn a

modelau eraill gallai fod yn briodol i'r BLlDP sefydlu gweithgorau neu is-grwpiau, ar sail barhaol neu fyrdymor er mwyn:

- cyflawni tasgau penodol, er enghraifft:
  - cynnal a diweddaru gweithdrefnau a phrotocolau;
  - adolygu achosion difrifol; a
  - chlustnodi anghenion hyfforddi rhyngasiantaethol;
- darparu cyngor arbenigol, er enghraifft: mewn perthynas â gweithio gyda grwpiau ethnig a diwylliannol penodol, neu gyda phlant a/neu rieni anabl;
- dod â chynrychiolwyr ynghyd o sector i drafod materion perthnasol ac i ddarparu cyfraniad y sector hwnnw i waith BLlDP, er enghraifft: ysgolion, y sector gwirfoddol a chymunedol, grwpiau ffydd; a,
- chanolbwyntio ar ardaloedd daearyddol diffiniedig o fewn ffiniau'r BLlDP.



4.30 Fel arall, efallai y bydd rhai ardaloedd yn dymuno sefydlu ‘grŵp craidd’ llai o faint neu ‘weithgor’ o aelodau BLlDP i ddarparu arweiniad strategol ac i gyflawni peth o’r gwaith o ddydd i ddydd drwy gytundeb yn lleol.

4.31 Ni fyddai model o’r fath o reidrwydd yn sylfaenol wahanol i’r model cyntaf, ond gallai greu mwy o ymroddiad ac arweiniad strategol, eglur gan uwch-reolwyr o blith partneriaid statudol y BLlDP, y bydd gan bob un ohonynt ddyletswydd hefyd o dan adran 28 o Ddeddf Plant 2004 i wneud trefniadau ar gyfer sicrhau bod eu swyddogaethau’n cael eu cyflawni mewn perthynas â’r angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

4.32 Y BLlDP ddylai sefydlu pob grŵp sy’n gweithio o dan y BLlDP, a dylent weithio yn ôl cylch gorchwyl a gytunwyd, gyda llinellau adrodd, cyfathrebu ac atebolrwydd eglur i’r BLlDP. Gallai hyn fod ar ffurf cyfansoddiad ysgrifenedig yn manylu ar ddisgrifiad swydd i bob aelod a chytundebau lefel gwasanaeth rhwng y BLlDP, asiantaethau a phartneriaethau eraill.

4.33 Dylai’r BLlDP ystyried sut i roi trefniadau yn eu lle i ganfod teimladau a dymuniadau plant (yn cynnwys plant na fyddent fel rheol yn cael eu clywed) ynghylch blaenoriaethau ac effeithiolrwydd gwaith diogelu yn lleol, yn cynnwys materion yn ymwneud â mynediad i wasanaethau a phwyntiau cyswllt i blant er mwyn diogelu a hyrwyddo lles.

Ariannu a Gweinyddu

4.34 Mae Adran 31(8) o Ddeddf Plant 2004 yn dweud fod rhaid i’r Awdurdod Lleol a’i bartneriaid gydweithredu i sefydlu BLlDP a’i roi ar waith. Drwy hynny, mae Awdurdod Lleol a phartneriaid statudol y BLlDP yn rhwym i gefnogi gwaith y BLlDP.

4.35 Er mwyn iddynt allu gweithredu’n effeithiol, mae angen adnoddau digonol a dibynadwy i gefnogi’r BLlDP. Mae Adran 33 o Ddeddf Plant 2004 yn nodi y gall partneriaid statudol (neu yn achos carchardai, naill ai’r Ysgrifennydd Gwladol neu’r contractwr):

- wneud taliadau tuag at wariant yn sgil, neu at ddibenion cysylltiedig â BLlDP, naill ai’n uniongyrchol, neu drwy gyfrannu at gronfa y gellir gwneud taliadau allan ohoni;
- darparu staff, nwyddau, gwasanaethau, llety neu adnoddau eraill at ddibenion cysylltiedig â BLlDP.

4.36 Dylid cytuno’n lleol ar y gyllideb ar gyfer pob BLlDP a’r cyfraniad a wneir gan bob aelod-sefydliad. Mae cydgyfrifoldeb yr aelod-sefydliadau i gyflawni swyddogaethau’r BLlDP yn cynnwys cydgyfrifoldeb dros bennu sut y darperir yr adnoddau angenrheidiol i’w gefnogi.

4.37 Dylai'r Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am y bwrdd, y Bwrdd Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau GIG a'r Heddlu ddarparu'r cyfraniadau craidd. Bydd cyfraniadau sefydliadau eraill yn amrywio i adlewyrchu faint o adnoddau sydd ganddynt ac amgylchiadau yn lleol. I rai, efallai mai ymgymryd â gwaith y BLlDP fydd cwmpas priodol eu cyfraniad. Efallai y bydd sefydliadau eraill yn dymuno cyfrannu drwy addo adnoddau o fath arall yn hytrach nag arian, fel y darperir gan y ddeddf.

4.38 Lle mae cymar o Fwrdd yr BLlDP yn darparu arian, dylid ei neilltuo o flaen llaw, fel rheol i gyllideb gyfun.

4.39 Gall y bwrdd ddewis defnyddio peth o'i arian i gefnogi ymwneud rhai sefydliadau, megis grwpiau sector gwirfoddol neu gymunedol yn lleol, er enghraifft, pan na allant fforddio cymryd rhan fel arall.

4.40 Bydd gofyniad ariannu'r BLlDP yn dibynnu ar ei amgylchiadau a'r gwaith y mae'n bwriadu ei wneud. Er hynny, bydd i bob BLlDP graidd sylfaenol o waith.

4.41 Bydd angen i adnoddau'r BLlDP ei alluogi i gael staff i symud y gwaith yn ei flaen, i'w talu naill ai o gronfa gyffredin, neu wedi'u secondio fel rhan o gyfraniad o fath arall. Dylai partneriaid y Bwrdd gytuno'n lleol ar staffio penodol pob BLlDP. Mae angen staff ar Fwrdd Diogelu effeithiol iddo allu:

- gyrru gwaith y BLlDP o ddydd i ddydd yn ei flaen i gyflawni ei amcanion, yn cynnwys ei waith cydgysylltu a monitro/gwerthuso;
- gyrru unrhyw waith hyfforddi a datblygu staff a wneir gan y BLlDP yn ei flaen, yng nghyd-destun y strategaeth gweithlu lleol;
- darparu cymorth gweinyddol a chyfundrefnol i'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau, a'r sawl sy'n ymwneud â pholisi a hyfforddiant.

Ffiniau BLlDP

4.42 Yng Nghymru, nid yw terfynau awdurdodau lleol, yr heddlu ac aelod-asiantaethau eraill bob amser yn cyd-ffinio a gall rhai aelod-asiantaethau wynebu problemau wrth orfod gweithio yn ôl gwahanol weithdrefnau a phrotocolau yn ôl yr ardal dan sylw, neu o orfod cyfrannu ar sawl Bwrdd. Gallai fod o gymorth mewn amgylchiadau o'r fath i Fwrdd Diogelu gwmpasu ardal sy'n cynnwys mwy nag un awdurdod lleol, neu i Fwrdd Diogelu mewn ardal gyfagos gydweithredu cyn belled ag sy'n bosibl wrth sefydlu gweithdrefnau, polisïau a phrotocolau cyffredin, mewn hyfforddiant rhyngasiantaethol a ffyrdd o weithio ar y cyd gydag awdurdodau lleol cyfagos a'u partneriaid Bwrdd.

Cynllunio

4.43 Bydd gofyn i bob awdurdod lleol gynhyrchu Cynllun Plant a Phobl Ifanc (CPPhI) o 2008 ymlaen. Bydd y CPPhI yn cynnwys pob gwasanaeth a ddarperir gan yr awdurdod lleol a'i bartneriaid perthnasol sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc hyd at 25 oed, yn cynnwys gwasanaethau mamolaeth. Bydd pob CPPhI yn rhestru'r gwelliannau sydd i'w gwneud er lles plant a phobl ifanc yn ardal yr awdurdod gan gyfeirio at saith nod craidd Llywodraeth y Cynulliad.

4.44 Mae angen i waith y BLlDP fod wedi'i gynllunio'n briodol. Fel rheol dylai gweithgareddau'r BLlDP ei hun fod yn rhan o'r CPPhI cyffredinol a dylai gymryd ei le'n daclus o fewn y blaenoriaethau a'r camau gweithredu a glustnodwyd yn y CPPhI. Dylai fod gan y BLlDP raglen waith eglur, yn cynnwys amcanion mesuradwy, a chyllideb. Yn ei gynlluniau neu adroddiadau blynyddol, dylai gynnwys gwybodaeth reoli berthnasol ar weithgaredd y flwyddyn flaenorol; ac adolygiad o'i waith yn y flwyddyn flaenorol ee cynnydd yn ôl amcanion. Bydd hyn yn galluogi'r Awdurdod Lleol (efallai drwy'r pwyllgorau trosolwg a chraffu), partneriaid lleol eraill, a rhanddeiliaid lleol allweddol eraill yn ogystal â'r arolygiaethau i graffu ar waith y BLlDP. Efallai y bydd awdurdodau lleol a'u partneriaid yn dymuno cynnal trosolwg ar y cyd o waith y BLlDP. Argymhellir bod cynlluniau ac adroddiadau'r BLlDP yn cael eu cymeradwyo gan bob aelod o'r Bwrdd a'u bod ar gael i'r cyhoedd eu gweld.

Monitro ac Arolygu

4.45 Bydd gwaith y BLlDP i sicrhau effeithiolrwydd gwaith yr aelod-asiantaethau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant yn broses o adolygu gan gymheiriaid yn seiliedig ar hunanwerthuso, dangosyddion perfformiad, a chydarchwiliad. Ei nod yw hyrwyddo gwaith diogelu o safon uchel a meithrin diwylliant o wella parhaus. Bydd hefyd yn clustnodi ac yn gweithredu ar wendidau yn y gwasanaethau. I osgoi dyblygu gwaith yn ddiangen dylai'r BLlDP sicrhau bod ei swyddogaeth monitro'n ategu ac yn cyfrannu at waith y partneriaethau plant a'r arolygiaethau.

4.46 Lle gwelir nad yw partner Bwrdd yn perfformio'n effeithiol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, a lle nad yw'r BLlDP yn argyhoeddedig y bydd camau a gynlluniwyd i wella perfformiad yn ddigonol, dylai cadeirydd y BLlDP neu aelod neu weithiwr dynodedig gan y gadair egluro'r pryderon hyn i'r unigolion a'r sefydliadau sydd arnynt angen bod yn ymwybodol o'r diffyg ac a allai roi camau unioni ar waith. Er enghraifft, i'r unigolyn(ion) sy'n dal y swyddi uchaf yn y sefydliad partner, i'r arolygiaeth berthnasol, ac, os oes angen, i'r Adran berthnasol yn y Llywodraeth.

4.47 Bydd y fframwaith arolygu lleol yn chwarae rhan bwysig i atgyfnerthu gwaith monitro parhaus y BLlDP. Caiff gwasanaethau unigol eu hasesu drwy eu trefn ansawdd eu hunain. Fel rhan o'u cylchoedd gorchwyl,

bydd yr arolygiaethau gwahanol, yn cynnwys Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru, Estyn ac Arolygiaethau Cwnstabliaeth, Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yn ystyried effeithiolrwydd swyddogaeth eu hasiantaethau yn diogelu a hyrwyddo lles plant. Dylai'r BLlDP elwa ar eu gwaith a gall fwydo ei safbwyntiau am ansawdd y gwaith i ddiogelu a hyrwyddo lles plant i mewn i'r prosesau hyn.

4.48 Hefyd, dylai effeithiolrwydd y BLlDP ei hun ffurfio rhan o ddyfarniad yr Arolygiaethau. Gellid gwneud hyn drwy archwilio ansawdd proses gynllunio'r BLlDP er enghraifft, a phennu a gyflawnwyd yr amcanion allweddol. Yr Awdurdod Lleol fydd yn arwain y gwaith os oes angen ymyrryd ym mhrosesau'r BLlDP ei hun.

Protocolau BLlDP

4.49 Dylai protocolau fod yn eu lle gan Fyrddau Lleol Diogelu Plant i gynnwys:

- sut y dylid cynnal ymholiadau a.47 ac ymchwiliadau cysylltiedig gan yr heddlu, ac yn arbennig, dan ba amgylchiadau y mae ymholiadau ar y cyd yn angenrheidiol a/neu yn briodol;
- dulliau cyflym ac uniongyrchol o ddatrys gwahaniaethau mewn safbwyntiau proffesiynol mewn achos penodol, ee a ddylid galw cynhadledd amddiffyn plant;
- presenoldeb mewn cynadleddau amddiffyn plant, yn cynnwys y cworwm;
- cynnwys plant ac aelodau'r teulu mewn cynadleddau amddiffyn plant, swyddogaeth eiriolwyr yn ogystal â chynnwys meini prawf ar gyfer eithrio rhieni dan amgylchiadau eithriadol;
- proses wneud penderfyniadau ar gofrestru yn seiliedig ar safbwyntiau'r asiantaethau sy'n bresennol yn y gynhadledd amddiffyn plant;
- delio â chwynion gan deuluoedd am swyddogaeth cynadleddau amddiffyn plant;
- ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant;
- rhannu gwybodaeth; a
- threfniadau cydweithio ag Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru.

Fforymau Amddiffyn Plant Rhanbarthol

4.50 Mae'r Fforymau Amddiffyn Plant a sefydlwyd ledled Cymru'n darparu mecanwaith gwerthfawr ar gyfer dod â'r asiantaethau diogelu gwahanol sy'n gweithio mewn ardaloedd arbennig at ei gilydd. Maent wedi cyfrannu'n arwyddocaol i ddatblygiad protocolau a gweithdrefnau cyffredin a gafodd yna'u bwydo i mewn i Grŵp Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

Grŵp Gweithdrefnau

4.51 Er nad oes gofyniad statudol i sefydlu fforymau amddiffyn plant, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydnabod eu cyfraniad positif i ddatblygiad diogelwch plant a'r ffaith eu bod yn cryfhau trefniadau gwaith rhyngasiantaethol ac felly ceir anogaeth i aelodau Byrddau Diogelu barhau â'r trefniadau fforwm.

Grŵp Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan

4.52 Yn yr un modd, mae datblygu Grŵp Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan wedi bod yn gyfraniad positif i weithio rhyngasiantaethol ac i sefydlu ymarfer a gweithdrefnau cyffredin ledled Cymru. Unwaith eto, anogir Byrddau Diogelu ac asiantaethau unigol i hyrwyddo cydweithredu rhyngasiantaethol o'r fath ac i gefnogi gwaith y Grŵp yn y dyfodol.

5: Strwythurau Cynllunio a Diogelu

Nid bwriad y Bennod hon yw pennu'r trefniadau a'r strwythurau y gallai fod eu hangen ar asiantaethau i ddarparu dull cydgysylltiedig o gynllunio a chyflenwi gwasanaeth ar draws y Byrddau Diogelu, Partneriaethau Fframwaith, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a chyrff partneriaeth eraill. Mae'n awgrymu rhai templedi y gallai asiantaethau fod eisiau eu hystyried wrth gynllunio a chytuno ar eu trefniadau lleol eu hunain.

5.1 Yng Nghymru ceir nifer o gyrff sydd, i raddau amrywiol, yn comisiynu neu'n cyflenwi polisïau neu wasanaethau allweddol i blant ac sy'n effeithio ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Mae'r cyrff hyn yn cynnwys:

- Byrddau Lleol Diogelu Plant;
- Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc; a
- Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol.

ac mae i'r tri swyddogaeth allweddol yn diogelu a hyrwyddo lles. Mae agenda lawer ehangach gan y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc a'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol wrth gwrs, a hwyrach y bydd gan agweddau ohoni oblygiadau trawsbynciol i gyrff eraill. Felly mae hi'n bwysig i'r asiantaethau cysylltiedig, wrth iddynt lunio a chyflenwi eu gwasanaethau, gynllunio a chytuno ar strwythurau sy'n mynd i'r afael â'r materion trawsbynciol hyn a chydweithredu'n effeithiol i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant.

5.2 Sefydlwyd nifer o strwythurau/cyrff eraill sydd mewn sefyllfa i gyfrannu'n sylweddol at y broses hon, gan gynnwys:

- Partneriaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles;
- Pwyllgorau Ardal Amddiffyn Oedolion;
- Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd;
- Timau Troseddau Ieuenctid;
- Gyrfa Cymru;
- Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol.

ac felly, mae angen ystyried y modd y maent yn cyfaddasu i drefniadau cydgysylltu.

Byrddau Lleol Diogelu Plant

5.3 Mae Deddf Plant 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru sefydlu Bwrdd Lleol Diogelu Plant ar gyfer eu hardal er mwyn cynnull pob un o'r prif asiantaethau a gweithwyr proffesiynol sy'n

gyfrifol am helpu i ddiogelu plant rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Dylai'r partneriaid Bwrdd gynnwys:

- yr awdurdod lleol;
- yr heddlu;
- y bwrdd prawf lleol;
- y tîm troseddau ieuenctid;
- y Bwrdd Iechyd Lleol;
- unrhyw ymddiriedolaeth GIG sy'n darparu gwasanaethau yn ardal yr awdurdod;
- llywodraethwr neu gyfarwyddwr unrhyw ganolfan hyfforddi ddiogel;
- llywodraethwr neu gyfarwyddwr unrhyw garchar sydd fel arfer â phlant dan gadwad.

5.4 Rhestrir swyddogaethau Bwrdd yn y bennod flaenorol.

5.5 Mae'n bwysig i bob BLlDP ymarfer ei swyddogaeth statudol unigryw yn effeithiol. Rhaid iddynt allu ffurfio safbwynt am ansawdd gweithgaredd lleol, herio sefydliadau fel y bo angen, a siarad â llais annibynnol. Er mwyn sicrhau bod hyn yn bosibl, dyla'r BLlDP fod â hunaniaeth glir ac unigryw. Ni ddylai'r BLlDP fod yn israddol i, neu wedi'i ogynnwys oddi mewn i drefniadau partneriaeth yn lleol mewn ffordd a allai gyfaddawdu ei hunaniaeth neilltuol a'i lais annibynnol. Dylai'r partneriaethau ymgynghori â'r BLlDP ar faterion sy'n effeithio ar y modd y caiff plant eu diogelu a sut yr hyrwyddir eu lles. Ymgynghorir yn ffurfiol â'r BLlDP wrth ddatblygu'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc.

Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc

5.6 Mae Adran 25 o Ddeddf Plant 2004 yn rhoi cyfrifoldeb am gydweithredu i wella lles plant a phobl ifanc ar awdurdodau lleol, partneriaid perthnasol a chyrff eraill yr ystyria'r awdurdod lleol hi'n briodol eu cynnwys. Yn y Ddeddf Plant, rhestrir partneriaid perthnasol yr awdurdod lleol fel a ganlyn:

- yr awdurdod heddlu a phrif swyddog yr heddlu;
- y bwrdd prawf lleol;
- y tîm troseddau ieuenctid;
- y Bwrdd Iechyd Lleol;
- ymddiriedolaethau GIG sy'n darparu gwasanaethau yn ardal yr awdurdod.

5.7 Rhaid i'r partneriaid hyn gydweithredu â'r awdurdod i greu'r trefniadau partneriaeth y darperir ar eu cyfer yn y Ddeddf. Dylai awdurdodau lleol gynnwys hefyd yn eu trefniadau partneriaeth:

- gynrychiolwyr ysgolion;
- cynrychiolydd o'r Gwasanaeth Tân ac Achub; a
- sefydliadau gwirfoddol perthnasol, i gydnabod rhan allweddol y sector anstatudol yn y gwaith o gyflenwi gwasanaethau a chefnogi cyfranogiad.

5.8 Dylent hefyd sicrhau bod cyfle i glywed lleisiau plant, pobl ifanc a theuluoedd o fewn y partneriaethau.

5.9 Dylai cynrychiolwyr partneriaeth fod mewn swyddi digon uchel i allu siarad dros eu cyrff yng ngwaith y Bartneriaeth. Yn y cyd-destun hwn bydd rhaid rhoi trefniadau llywodraethu rhyngasiantaethol cadarn yn eu lle i gefnogi gweithio mewn partneriaeth. Geilw hyn am:

- arweinyddiaeth effeithiol ar ran yr awdurdod lleol;
- ymwneud llawn pob un o'r partneriaid allweddol, yn cynnwys darparwyr gwirfoddol ac eraill;
- atebolrwydd clir; ac
- ymddiriedaeth, rhannu gweledigaeth ac ymroddiad i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc ar draws yr holl bartneriaethau.

5.10 Rhaid i'r awdurdod lleol arwain y blaen fel bod trefniadau cydweithredu yn cael eu sefydlu yn eu hardal leol. Eisoes mae gan lawer o bartneriaethau brotocolau yn eu lle sy'n gosod y rheolau ar gyfer gweithio ar y cyd. Dylai Cyfarwyddwyr Arweiniol sicrhau bod protocolau o'r fath yn cael eu llunio, eu hymgorffori'n effeithiol yng ngwaith eu partneriaethau a'u hadolygu'n rheolaidd gan y partneriaid. Bydd Aelodau Arweiniol yn dymuno gwneud yn siŵr fod y broses hon yn cael ei chefnogi a bod llywodraethu cadarn ac atebolrwydd clir ar waith.

5.11 Dylai cynrychiolwyr fod mewn swyddi digon uchel i gyfrannu at natur lefel strategol gwaith y bartneriaeth. Dylent allu gwneud penderfyniadau ac ymrwymiadau ar ran eu sefydliadau, yn ymwneud ag ariannu er enghraifft. Bydd angen i brotocolau ddangos llinellau adrodd eglur i'r awdurdod lleol a chorff neu gyrff llywodraethu'r partneriaid perthnasol. Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod pob un o'r partneriaid yn deall eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau o fewn y bartneriaeth.

5.12 Yn flaenorol, roedd canllawiau cynllunio'n galw am ffurfio dau is-grŵp i'r Fframwaith ar gyfer Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, un yn ymwneud â phlant 0-10 oed ac un, a sefydlwyd o dan Ddeddf Dysgu a Medrau 2000, i ymwneud â phlant 11-25 oed.

5.13 Yn ychwanegol at y trefniadau hyn, mae gan y rhan fwyaf o ardaloedd amrediad o gyd-weithgorau, sydd wedi'u trefnu ar sail blaenoriaethau lleol a chenedlaethol ac sydd ar y cyfan yn adlewyrchu Saith Nod Craidd Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'r rhain yn gweithio i gyflenwi'r amcanion blaenoriaeth a restrwyd mewn cydgynlluniau lleol, er bod rhai'n ymwneud â gofynion system megis cyfranogiad wrth wneud penderfyniadau.

5.14 Mae gweithgorau o'r fath yn cynnig sylfaen ddelfrydol i ffocws cyffredin ar fanylion cynllunio a chyflenwi gwasanaeth ar draws y partneriaid perthnasol sy'n gyfrifol am wasanaethau ym mhob maes. Bydd datblygu'r rhwydweithiau hyn, a'r bobl o'u mewn sy'n gyfrifol am gyflenwi gwasanaethau cyffredin, wedi'u targedu ac ataliol, yn helpu i gryfhau gallu staff i gynllunio, cyflenwi a mesur gwelliant i ganlyniadau cyffredinol ar gyfer plant a phobl ifanc.

Partneriaethau Diogelwch Cymunedol

5.15 Mae Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 [http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1998/19980037.htm] yn gosod cyfrifoldeb statudol ar brif swyddogion yr heddlu ac awdurdodau lleol i weithio gyda phartneriaid eraill i fformiwleiddio a gweithredu strategaeth diogelwch cymunedol. Arweiniodd hyn at ffurfio Partneriaethau Gostwng Troseddau ac Anhrefn a elwir bellach yng Nghymru yn Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol. Ceir 22 o Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol yng Nghymru, un ym mhob ardal awdurdod lleol.

5.16 Ychwanegodd Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 [http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2002/20020030.htm] awdurdodau cyfrifol ychwanegol at y ddau a oedd yn wreiddiol gyfrifol am y strategaethau – yr heddlu ac awdurdodau lleol – a daeth i rym ar 1 Ebrill 2003. Yr awdurdodau cyfrifol newydd oedd yr awdurdodau heddlu, y Gwasanaeth Tân a Byrddau Iechyd Lleol. Mae'r Cynulliad hefyd wedi cadw'r hawl i bennu awdurdodau cyfrifol eraill drwy Orchymyn. Yr awdurdodau cyfrifol yw:

- yr heddlu;
- awdurdodau lleol;
- awdurdodau tân;
- awdurdodau heddlu;
- Byrddau Iechyd Lleol.

5.17 Mae Deddf 2002 hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Partneriaethau fformiwleiddio a gweithredu strategaethau ar gyfer brwydro yn erbyn camddefnyddio sylweddau, ynghyd â'r rhai ar gyfer trosedd ac anhrefn; mae felly'n rhoi cefnogaeth statudol i strategaethau camddefnyddio sylweddau am y tro cyntaf a hefyd yn tanlinellu'r cyswllt amlwg iawn rhwng cyffuriau a throsedd. Mae'r gofyniad hwn yn golygu bod

cyfrifoldeb statudol ar y Partneriaethau i gyflawni mewn maes datganoledig.

5.18 Gan weithio mewn Partneriaeth, mae gofyn i'r awdurdodau cyfrifol hyn gynnal archwiliad i ganfod maint y problemau o fewn eu cymuned, ymgynghori yn eu cymunedau a datblygu strategaethau sy'n ymdrin yn effeithiol â'r problemau. Mae'r Strategaethau sydd nawr yn eu lle yn cwmpasu'r cyfnod 2005-08 ac mae iddynt dargedau a gytunwyd – i leihau troseddau yn y 10 maes troseddol dynodedig.

Partneriaid Craidd

5.19 Ar draws Byrddau Lleol Diogelu Plant, Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol ceir craidd cyffredin o aelodau o blith partneriaid statudol:

- awdurdodau lleol;
- yr heddlu;
- Byrddau Iechyd Lleol;

ac mae gan bob un gyfraniad mawr i'w wneud yn darparu mesurau effeithiol i ddiogelu a hyrwyddo lles.

5.20 Mae'n ddyletswydd ar y cyrff canlynol o dan adran 28 o Ddeddf Plant 2004 i sicrhau bod eu swyddogaethau'n cael eu cyflawni mewn perthynas â'r angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant:

- Awdurdodau lleol;
- Heddlu;
- Byrddau Iechyd Lleol;
- Ymddiriedolaethau GIG y mae eu hysbytai, sefydliadau a chyfleusterau i gyd, neu'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u lleoli yng Nghymru;
- Byrddau prawf lleol dros ardal yng Nghymru; timau troseddau ieuenctid dros ardal yng Nghymru; a
- Llywodraethwyr carchardai neu ganolfannau hyfforddi diogel yng Nghymru (neu, yn achos carchar neu ganolfan hyfforddi ddiogel wedi'i heithrio, ei chyfarwyddwr).


5.21 Mae'r ddyletswydd gyffredin hon ar bob partner statudol ar Fyrddau Diogelu a'r rheini sydd â dyletswydd i gydweithredu (adran 25 o Ddeddf Plant 2004) gydag awdurdodau lleol i wneud trefniadau gyda golwg ar wella lles plant yn eu hardal, yn dangos yr angen am drefniadau i ddod â'r asiantaethau hyn at ei gilydd i sicrhau cyn belled ag sy'n bosibl, fod agwedd gyffredin yn bodoli mewn perthynas â gweithrediad strategol y Byrddau Diogelu a'r trefniadau partneriaeth.

5.22 Ni fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n pennu sut y dylai asiantaethau reoli'r agenda drawsbynciol hon ond anogir yr asiantaethau allweddol i ddatblygu strwythurau a fydd yn cyflawni trefniadau gweithio ar y cyd, yn lleihau dyblygu ac yn cynnig llinellau atebolrwydd clir. Mae'n argymell bod asiantaethau'n ystyried datblygu strwythur ar hyd y llinellau canlynol i gynnull uwch-swyddogion o bob un o'r asiantaethau allweddol sydd â chyfrifoldebau neu ddyletswyddau statudol o dan adrannau 25, 28 a 31 o Ddeddf Plant 2004 fel aelodau o Grŵp Cydgysylltu Strategol i ysgwyddo cyfrifoldeb dros gydgysylltu gweithgareddau pob un o'r cyrff ac arwain cyfeiriad strategol y cyrff partneriaeth allweddol a fydd yn cyflawni'r dyletswyddau/cyfrifoldebau statudol hynny.

5.23 Bydd gwaith o ddydd i ddydd y Bwrdd Diogelu, y Fframwaith Partneriaeth, y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, a strwythurau cynllunio neu ddiogelu eraill y gellid eu dwyn o fewn cylch gorchwyl y grŵp strategol, yn parhau gyda'r strwythurau hynny yn yr un modd ag y bydd polisi penodol a gweithrediadau swyddogaethol.

5.24 Mewn trefniadau o'r fath, byddai Byrddau Diogelu Lleol yn cadw cyfrifoldeb cyffredinol dros eu swyddogaethau statudol (cydweithredu rhyngasiantaethol ar hyrwyddo a diogelu lles, hyfforddiant rhyngasiantaethol yn y maes, adolygiadau achosion difrifol, ac ati) ond bydd yn gweithio drwy'r Grŵp Strategol ac yn dilyn arweiniad strategol a osodir gan y Grŵp hwnnw. Yn yr un modd, bydd Fframwaith Partneriaeth a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol yn cadw cyfrifoldeb uniongyrchol dros eu swyddogaethau statudol. Er hynny, dylid ceisio sicrhau nad yw'r cyrff hyn yn gweithio ar eu pen eu hunain, ac yn gallu rhannu syniadau a gweithio ar y cyd.

5.25 Hefyd mae angen ystyried sefyllfa cyrff eraill (MAPPA; Fforymau Cam-drin Domestig; Pwyllgorau Ardal Amddiffyn Oedolion; ac ati). Maent hwythau hefyd yn ymdrin â materion trawsbynciol ac mae angen i drefniadau ddarparu mecanwaith i'w cynnwys fel sy'n briodol.



Swyddogaeth a Chylch Gorchwyl y Grŵp Cydgysylltu Strategol

5.26 I fod yn effeithiol bydd angen i grŵp gyfeirio'i sylw at sicrhau bod y gwahanol drefniadau partneriaeth a bwrdd sydd o dan ei arolygiaeth yn gweithio'n drefnus tuag at nodau ac amcanion cyffredin. Ategir gwaith y Grŵp gan y Cynllun Plant a Phobl Ifanc sy'n cychwyn yn 2008, a bydd Byrddau Diogelu ac eraill yn cyfrannu tuag ato. Bydd aelodau'r grŵp strategol eisoes wedi cymryd rhan yn y gwaith o baratoi'r Cynllun.

5.27 Yng nghyd-destun y Cynllun Plant a Phobl Ifanc, dylai'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant ddatblygu ei gynllun gwaith blynyddol i arwain ei raglen waith dros y 12 mis sydd i ddod. Dylai'r cynllun gwaith fynd i'r afael â swyddogaethau statudol allweddol y Bwrdd a chlustnodi'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r cynllun. Dylai'r cynllun gwaith gyfrannu at fframwaith y Cynllun Plant a Phobl Ifanc lleol, yn ogystal â chael ei ysbrydoli ganddo.

5.28 O fewn yr awgrym yma o fodel, dylai cynllun gwaith y Bwrdd Diogelu gael ei ystyried a'i gymeradwyo neu ei addasu fel sy'n briodol gan y grŵp strategol. Dylai'r grŵp strategol fod mewn sefyllfa hefyd i ddyrannu'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni'r cynllun blynyddol.

5.29 Byddai'r grŵp strategol yn chwarae rôl debyg mewn perthynas â strwythurau cynllunio a diogelu eraill, wrth arwyddo cynlluniau neu raglenni gwaith blynyddol a sicrhau bod adnoddau digonol iddynt a'u bod yn gyson â'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc.

6: Effaith Cam-drin ac Esgeulustod

Cyflwyniad

6.1 Mae ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o les plant – a sut i ymateb er lles gorau plentyn i bryderon ynghylch cam-drin ac esgeulustod – yn datblygu dros amser, yn seiliedig ar ymchwil, profiad a chraffu beirniadol ar ymarfer. Mae ymarfer proffesiynol cadarn yn golygu barnu yn ôl tystiolaeth: tystiolaeth yn deillio o ymchwil a phrofiad o natur ac effaith cam-drin ac esgeulustod, a phryd a sut i ymyrryd er mwyn gwella canlyniadau i blant; a thystiolaeth yn deillio o asesu trylwyr ynghylch iechyd, datblygiad a lles plentyn penodol, a'i amgylchiadau teuluol.

6.2 Mae'r bennod hon yn cychwyn drwy sefydlu beth a olygir wrth gam-drin ac esgeulustod; yn ystyried eu heffaith bosibl ar blentyn; ac yn trafod y cysyniad o niwed sylweddol.

6.3 Gall cam-drin plant yn gyson, yn gorfforol, emosiynol, rhywiol neu drwy esgeulustod, effeithio'n fawr ac yn hirdymor ar bob agwedd ar iechyd, datblygiad a lles plentyn. Mae cam-drin cyson yn debygol o gael effaith ddofn ar hunanddelwedd a hunan-barch plentyn ac ar ei fywyd ef neu hi yn y dyfodol. Gallai anawsterau barhau wedi i'r plentyn droi'n oedolyn: gallai'r profiad o gam-drin hirdymor arwain at anawsterau wrth ffurfio neu gynnal perthynas glòs ag eraill, ymsefydlu yn y gweithlu, ac i anawsterau ychwanegol wrth ddatblygu'r ymagweddau a'r sgiliau sydd eu hangen i fod yn rhiant effeithiol.

6.4 Nid digwyddiadau dirdynnol cam-drin yn unig sy'n cael effaith, ond cyd-destun y digwyddiadau hefyd. Rhaid edrych ar bob digwyddiad a allai fod yn gamdriniaeth yn ei gyd-destun i asesu maint y niwed i blentyn a'r ymyriad priodol. Yn aml, y rhyngweithio rhwng nifer o wahanol ffactorau sy'n cynyddu tebygolrwydd o niwed sylweddol gwirioneddol a'i raddau.

6.5 I bob plentyn a theulu, gall fod yna ffactorau sy'n gwaethygu'r niwed a achosir i'r plentyn, a'r rhai sy'n amddiffyn yn erbyn niwed. Mae ffactorau perthnasol yn cynnwys sut mae plentyn unigol yn ymdopi ac addasu, cymorth gan deulu a rhwydwaith cymdeithasol, ac effaith unrhyw ymyriadau. Hefyd, mae ansawdd yr amgylchedd teuluol adeg y cam-drin, a digwyddiadau bywyd wedyn yn dylanwadu ar yr effeithiau ar blentyn. Un pwynt pwysig, sydd weithiau'n cael ei anghofio, yw bod y ffordd y mae gweithwyr proffesiynol yn ymateb yn dylanwadu'n sylweddol ar y canlyniadau.

Cam-drin ac Esgeulustod

6.6 Gall rhywun gam-drin neu esgeuluso plentyn drwy beri niwed, neu drwy fethu â gweithredu i atal niwed. Gall plentyn ddioddef

camdriniaeth mewn teulu neu mewn lleoliad sefydliadol neu gymunedol; gan rywun y mae'n ei adnabod, neu'n fwy anarferol, gan ddieithryn.

Cam-drin corfforol

6.7 Gall cam-drin corfforol gynnwys taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, tagu, neu achosi niwed corfforol mewn ffordd arall i blentyn. Hefyd, gellir peri niwed corfforol pan fo rhiant neu ofalwr yn ffugio neu'n creu salwch mewn plentyn o dan ei ofal.

6.8 Gall cam-drin corfforol arwain yn uniongyrchol at niwed niwrolegol, anafiadau corfforol, anabledd, neu – ar ei waethaf – marwolaeth. Gall plentyn ddioddef niwed yn sgil y cam-drin ynddo'i hun ac wrth i'r cam-drin ddigwydd o fewn cyd-destun teuluol neu sefydliadol ehangach o wrthdaro a thrais. Cysylltwyd cam-drin corfforol ag ymddygiad ymosodol mewn plant, problemau emosiynol ac ymddygiadol, ac anawsterau addysgol. Mae trais yn dreiddiol a cham-drin plant yn gorfforol yn aml yn cydfodoli â cham-drin domestig.

Cam-drin Emosiynol

6.9 Cam-drin emosiynol yw cam-drin plentyn yn emosiynol dros amser i'r graddau lle achosir effeithiau niweidiol difrifol a chyson i ddatblygiad emosiynol y plentyn. Gall olygu cyfleu i blant eu bod yn ddiwerth neu'n ddigariad, yn annigonol, neu â gwerth ond i'r graddau eu bod yn bodloni anghenion person arall. Gall gynnwys beichio plentyn â disgwyliadau anaddas i'w oed neu ddatblygiad. Gall gynnwys peri i blant deimlo ofn neu berygl yn aml, neu lygru neu gam-fanteisio ar blant. Mae rhyw lefel o gam-drin emosiynol ar waith ym mhob math o gamdriniaeth i blentyn, er y gall fodoli ar ei ben ei hun.

6.10 Ceir tystiolaeth gynyddol am ganlyniadau niweidiol hirdymor ar ddatblygiad plant lle maent wedi dioddef cam-drin emosiynol dros amser. Mae i gam-drin emosiynol effaith bwysig ar iechyd meddwl, ymddygiad a hunan-barch y plentyn sy'n datblygu. Gall fod yn arbennig o niweidiol yn ystod babandod. Mae'n bosibl bod cam-drin emosiynol dan yr wyneb yr un mor bwysig, os nad yn fwy felly, na ffurfiau eraill mwy gweladwy o gam-drin o ran ei effaith ar y plentyn. Mae cam-drin domestig, problemau iechyd meddwl mewn oedolion a rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau yn gallu bod yn nodweddion mewn teuluoedd lle mae plant yn agored i gam-drin o'r fath.

Cam-drin Rhywiol

6.11 Mae cam-drin rhywiol yn golygu gorfodi neu hudo plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, pa un a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio. Gall y gweithgareddau olygu cyffwrdd corfforol, gan gynnwys gweithredoedd treiddiol neu fel arall. Gallant olygu gweithgareddau heb gyffwrdd, fel

cynnwys plant i edrych ar, neu gynhyrchu deunydd pornograffig neu wylio gweithgareddau rhywiol, neu annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd anaddas yn rhywiol.

6.12 Mae ymddygiad cythryblus, gan gynnwys hunan-niweidio, ymddygiad rhywioledig anaddas, iselder a diffyg hunan-barch, oll wedi'u cysylltu â cham-drin rhywiol. Gall ei effeithiau niweidiol barhau wedi i'r plentyn dyfu'n oedolyn. Credir bod difrifoldeb yr effaith ar blentyn yn cynyddu po hiraf y pery'r cam-drin, yn ôl difrifoldeb y cam-drin, a pho hynaf yw'r plentyn. Cysylltwyd nifer o nodweddion cam-drin rhywiol hefyd â difrifoldeb yr effaith, gan gynnwys perthynas y sawl sy'n cam-drin â'r plentyn, faint o ragfwriad sy'n bodoli, graddau bygythiad a gorfodaeth, sadistiaeth, ac elfennau anarferol. Cryfheir gallu'r plentyn i ymdopi â phrofiad o gam-drin rhywiol, unwaith y caiff ei gydnabod neu ei ddatgelu, gan gefnogaeth gofalwr mewn oed nad yw'n cam-drin, sy'n credu'r plentyn, yn helpu'r plentyn i ddeall y cam-drin, ac sy'n gallu cynnig cymorth ac amddiffyniad. Mae ymatebion ymarferwyr hefyd yn effeithio ar allu'r plentyn i ymdopi â'r hyn a ddigwyddodd, a'i deimladau ef neu hi o hunanwerth.

6.13 Mae cyfran o oedolion sy'n cam-drin plant yn rhywiol wedi dioddef cael eu cam-drin yn rhywiol eu hunain pan oeddent yn blant. Mae'n bosibl hefyd iddynt ddioddef cam-drin domestig a diffyg parhad i'w gofal pan oeddent yn blant. Gall cam-drin plant yn rhywiol effeithio ar eu gallu i greu perthynas â phobl yn y dyfodol ac mae cyfran o blant a gafodd eu cam-drin yn rhywiol yn mynd i gam-drin plant yn rhywiol eu hunain. Er hynny, byddai'n gwbl anghywir awgrymu bod y rhan fwyaf o blant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol yn anorfod o fynd ati eu hunain i gam-drin.

Esgeulustod

6.14 Methiant cyson i fodloni anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol plentyn yw esgeulustod, sy'n debygol o arwain at nam difrifol i iechyd neu ddatblygiad y plentyn. Gall olygu methiant rhiant neu ofalwr i ddarparu digon o fwyd, cysgod neu ddillad, methiant i ddiogelu plentyn rhag niwed neu berygl corfforol, neu fethiant i sicrhau mynediad i ofal neu driniaeth feddygol addas. Gall hefyd olygu esgeulustod, neu ddiffyg ymateb, i anghenion emosiynol sylfaenol plentyn.

6.15 Mae esgeuluso plant ifanc yn ddifrifol yn effeithio'n niweidiol ar allu plant i ffurfio ymlyniad ac fe'i cysylltir ag amhariad mawr ar dwf a datblygiad deallusol. Gall esgeulustod cyson arwain at nam difrifol i iechyd a datblygiad, ac anawsterau hirdymor wrth weithredu'n gymdeithasol, creu perthynas a chynnydd addysgol. Gall plant a esgeuluswyd ddioddef o ddiffyg hunan-barch, teimladau o fod heb eu caru ac wedi'u hynysu. Gall esgeulustod arwain hefyd, mewn achosion eithafol, at farwolaeth. Mae effaith esgeulustod yn amrywio yn ôl hyd cyfnod esgeuluso'r plant, oed y plant, a sawl math o ymddygiad esgeulus y mae'r plant wedi ei ddioddef.

Cam-drin Domestig

6.16 Lansiwyd strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ymladd cam-drin domestig http://new.wales.gov.uk/about/strategy/strategypublications/strategypubs/935798/?lang=en ar 30 Mawrth 2005. Fe'i datblygwyd ar y cyd gan arbenigwyr o'r holl asiantaethau sy'n ymdrin â dioddefwyr cam-drin ledled Cymru.

6.17 Mae cam-drin domestig a cham-drin ehangach yn fater sy'n effeithio ar bob rhan o gymdeithas ac mae iddo ganlyniadau dinistriol i'w ddioddefwyr, yn wryw a benyw, ac i blant wrth gwrs. Gall ddigwydd ar sawl ffurf, nid dim ond ar ffurf trais yn erbyn y dioddefwr: gall hefyd gynnwys ynysu, codi ofn, rheoli a gwaradwyddo. Er bod dynion weithiau'n dioddef cam-drin domestig, menywod sy'n dioddef amlaf.

6.18 Mae effeithiau cam-drin domestig ar blant yn gallu bod yn fawr. Yn ogystal â dioddef camdriniaeth ddomestig yn uniongyrchol weithiau, maent hefyd yn aml yn dystion i gamdriniaeth rhiant/gofalwr. Yn aml, mae cam-drin domestig yn arwain at chwalu teuluoedd gyda'r trawma emosiynol cysylltiedig sy'n rhaid i blant ei wynebu yn sgil hynny.

6.19 Gall tystio i gam-drin domestig niweidio datblygiad plentyn yn sylweddol. Hyd yn oed os nad yw'r plentyn yn dioddef cam-drin uniongyrchol, mae effeithiau hirdymor tystio i gam-drin corfforol a/neu emosiynol yn gallu bod yn sylweddol. Hefyd efallai bod diffyg yng ngalluoedd magu plant y rhiant neu ofalwr sy'n dioddef cam-drin domestig a bydd hyn yn effeithio ar y plentyn.

6.20 Mae iddo ddod i gysylltiad dros amser a/neu yn rheolaidd â cham-drin domestig yn gallu effeithio'n ddifrifol ar ddatblygiad a lles seicolegol ac emosiynol plentyn, er gwaethaf ymdrechion gorau'r rhiant sy'n dioddef i amddiffyn y plentyn. Mae cam-drin domestig yn effeithio mewn nifer o ffyrdd:

- Gall greu bygythiad i blentyn cyn ei eni, gan fod ymosodiadau ar fenywod beichiog yn aml yn cynnwys dyrnu neu gicio'r abdomen, gan greu perygl o niwed i'r fam ac i'r ffetws.
- Gall plant hefyd gael eu taro yn ystod digwyddiadau o drais.
- Gall plant ddioddef gofid mawr wrth dystio i ddioddefaint corfforol ac emosiynol rhiant.
- Gall cam-drin domestig (corfforol a seicolegol) effeithio'n negyddol ar allu dioddefwyr i ofalu am eu plant.

6.21 Mae gwrthdaro rhwng rhieni, hyd yn oed pan nad oes trais, yn peri gofid i blant a gall arwain at bryder difrifol a gofid seicolegol dros gyfnod hirach. Gall plant dystio i'r cam-drin neu gael eu tynnu i mewn, neu fod dan bwysau i'w gelu, sy'n gwaethygu'r effeithiau niweidiol. Gall

camddefnyddio sylweddau hefyd fod yn ffactor sy'n cyfrannu at effaith ddifrifol cam-drin domestig.

Allgáu Cymdeithasol

6.22 Mae nifer o'r teuluoedd sy'n ceisio cymorth i'w plant, neu deuluoedd y lleisiwyd pryder gan eraill am les y plant, o dan anfanteision lluosog. Mae'n bosibl bod y teuluoedd hyn yn wynebu tlodi cronig, ynysu cymdeithasol, hiliaeth a phroblemau sy'n gysylltiedig â byw mewn ardaloedd difreintiedig, fel lefelau troseddu uchel, tai gwael, diffyg gwasanaethau gofal plant, trafnidiaeth ac addysg, a phrinder cyfleoedd gwaith. Mae nifer heb neb yn ennill cyflog. Gall tlodi olygu bod plant yn byw mewn tai gorlawn neu anaddas, ar ddeiet sâl, â phroblemau iechyd neu anabledd, yn agored i ddamweiniau, heb fynediad parod i gyfleoedd addysgol a hamdden da. Mae hiliaeth ac aflonyddu hiliol yn ffynhonnell straen ychwanegol i rai teuluoedd a phlant. Hefyd, gall allgáu cymdeithasol effeithio'n anuniongyrchol ar blant drwy ei gysylltiad ag iselder, anabledd dysgu a phroblemau iechyd corfforol hirdymor yn y rhieni.

Salwch Meddwl Rhiant neu Ofalwr

6.23 Nid yw salwch meddwl rhiant neu ofalwr o reidrwydd yn effeithio'n niweidiol ar blentyn, ond mae hi bob amser yn hanfodol asesu'r goblygiadau ar blant sy'n rhan o'r teulu. Gall salwch rhiant gyfyngu'n sylweddol ar weithgaredd cymdeithasol a hamdden y plentyn. Yn achos salwch meddwl neu gorfforol rhiant, efallai y caiff plant eu beichio gan gyfrifoldebau gofalu sy'n anaddas i'w hoed, gan arwain at ofid a phryder ar eu rhan. Os yw'n dioddef o iselder, gallai rhiant esgeuluso'i anghenion corfforol ac emosiynol ei hun a rhai'r plentyn. Dan rai amgylchiadau, gall rhai ffurfiau o salwch meddwl bylu emosiynau a theimladau'r rhieni, neu achosi iddynt ymddwyn mewn ffyrdd ryfedd neu dreisgar tuag at eu plant. Yn fwy anarferol, ond ar ei waethaf, gall plentyn fod mewn perygl o anaf difrifol, esgeulustod difrifol neu hyd yn oed farwolaeth. Dangosodd astudiaeth o 100 o adolygiadau o farwolaethau plant lle'r oedd cam-drin ac esgeulustod yn ffactor yn y farwolaeth, dystiolaeth glir o salwch meddwl rhiant mewn traean o'r achosion. Hefyd, gellir cysylltu iselder ôl-enedigaeth â phroblemau ymddygiadol a seicolegol ym mhlant mamau sy'n dioddef ohono.

6.24 Mae effeithiau niweidiol salwch meddwl rhieni ar y plant yn llai tebygol pan fo problemau rhieni'n fach, yn parhau dros gyfnod byr yn unig, heb fod yn gysylltiedig ag anghytgord teuluol, a heb fod yn arwain at chwalu'r teulu. Gellir amddiffyn plant hefyd wrth i'r rhiant arall neu aelod arall o'r teulu gynorthwyo gydag ymateb i anghenion y plentyn. Y plant sy'n fwyaf agored i niwed sylweddol yw'r rheini sy'n rhan o rithdybiau rhiant, a phlant sy'n dod yn dargedau i drais neu wrthodiad rhiant, neu a esgeulusir o ganlyniad i salwch meddyliol rhiant.

Camddefnyddio Sylweddau

6.25 Fel gyda salwch meddwl rhiant, mae'n bwysig peidio â chyffredinoli, na rhagdybio'r effaith ar blentyn pan fo rhiant yn camddefnyddio sylweddau. Er hynny, mae'n bwysig asesu'r goblygiadau i'r plentyn yn gywir. Gall camddefnyddio sylweddau tra'n feichiog effeithio ar ddatblygiad plentyn cyn ei enedigaeth. Mae'n bosibl bod sgiliau gofalu ymarferol rhiant wedi'u cyfyngu os yw'n camddefnyddio sylweddau. Gall peth camddefnyddio sylweddau arwain at gyflyrau meddwl neu ymddygiad sy'n creu perygl o niwed, gofid seicolegol neu esgeulustod i'r plentyn. Mae plant yn arbennig o agored i niwed pan fo rhieni'n dod oddi ar gyffuriau. Bydd y perygl yn fwy pan fo'r rhiant yn camddefnyddio sylweddau yn gaotig neu allan o reolaeth mewn rhyw ffordd arall. Gall rhai rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau ei chael hi'n anodd rhoi blaenoriaeth i anghenion eu plant, a gallai dod o hyd i arian i brynu cyffuriau a/neu alcohol gyfyngu ar yr arian sydd ar gael i fodloni anghenion sylfaenol y cartref, neu gallai gymell teuluoedd i droseddu.

6.26 Gallai plant fod mewn perygl o niwed corfforol os na chedwir cyffuriau a chyfarpar (ee nodwyddau) allan o'u cyrraedd yn ddiogel. Lladdwyd rhai plant wedi iddynt gael gafael ar gyffuriau drwy ddiofalwch (ee methadon a storiwyd mewn oergell). Hefyd, gallai plant fod mewn perygl os ydynt yn deithwyr mewn car tra mae gofalwr sy'n camddefnyddio sylweddau'n gyrru.

6.27 Mae plant i rieni sy'n camddefnyddio sylweddau mewn mwy o berygl o ddatblygu problemau eu hunain gyda defnyddio alcohol a chyffuriau, ac o gael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni. Mae plant sy'n dechrau yfed o oed cynnar mewn mwy o berygl o brofi digwyddiad rhywiol digroeso, ac anafiadau drwy ddamweiniau ac ymladd.

Anabledd Dysgu Rhieni

6.28 Nid yw anabledd dysgu mewn rhiant yn golygu ei fod yn dueddol o gam-drin neu esgeuluso'n fwriadol wrth fagu plant. Er hynny, efallai bod rhieni ag anableddau dysgu'n brin o'r ddealltwriaeth, adnoddau, sgiliau a'r profiad i fodloni anghenion eu plant. Bydd gofalu am blentyn anabl yn galw am fwy gan rieni, ac anaml y bydd gan rai ag anableddau dysgu'r cymhwysedd rhianta datblygedig iawn sydd ei angen.

6.29 Mae plant rhieni sydd ag anableddau dysgu mewn mwy o berygl o etifeddu anabledd dysgu ac yn fwy agored i anhwylderau seiciatrig a phroblemau ymddygiad. O oed cynnar, bydd plant yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros ofalu am eu rhiant ac mewn nifer o achosion, brodyr a chwiorydd eraill, y gallai un neu fwy ohonynt fod ag anabledd dysgu. Oni bai bod rhieni ag anableddau dysgu'n cael eu hasesu a'u cefnogi'n briodol, gallai iechyd a datblygiad eu plant ddioddef.

6.30 Dangosodd astudiaeth gymharol o atgyfeiriadau i wasanaethau cymdeithasol plant awdurdodau lleol fod plant sy'n byw gyda rhieni sydd ag anabledd dysgu o dan anfantais arbennig. Roedd gan ddwywaith cymaint o blant anghenion datblygiadol difrifol, ac roedd gan bum gwaith cymaint ohonynt rieni a gâi anhawster difrifol i fodloni anghenion eu plant.

Y Cysyniad o Niwed Sylweddol

6.31 Nododd Deddf Plant 1989 niwed sylweddol fel y trothwy sy'n cyfiawnhau ymyriad gorfodol i fywyd teuluol er lles gorau plant. Mae Adran 31(10) o'r Ddeddf yn datgan "*where the question of whether harm suffered by a child is significant turns on the child's health or development, his health or development shall be compared with that which could reasonably be expected of a similar child*".

6.32 Mae dyletswydd ar yr awdurdod lleol i wneud ymholiadau, neu i sbarduno ymholiadau, lle mae ganddo achos rhesymol dros amau fod plentyn yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol (a.47). Ni chaiff llys wneud gorchymyn gofal (yn traddodi'r plentyn i ofal yr awdurdod lleol) neu orchymyn goruchwylio (yn rhoi'r plentyn dan oruchwyliaeth gweithiwr cymdeithasol, neu swyddog prawf) ac eithrio mewn perthynas â phlentyn y mae wedi'i fodloni ei fod:

- yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol; a
- bod modd priodoli'r niwed neu'r tebygolrwydd o niwed i ddiffyg gofal neu reolaeth ar ran y rhiant.

6.33 Mae niwed sylweddol yn gyfuniad o ddigwyddiadau arwyddocaol, difrifol a hirdymor, sy'n amharu ar, yn newid neu'n niweidio datblygiad corfforol a seicolegol y plentyn. Mae rhai plant yn byw mewn amgylchiadau teuluol a chymdeithasol lle esgeulusir eu hiechyd a'u datblygiad. Iddynt hwy, effaith gyrydol cam-drin emosiynol, corfforol neu rywiol hirdymor sy'n achosi amhariad i'r graddau lle ceir niwed sylweddol. Ym mhob achos, mae angen ystyried unrhyw gam-drin ochr yn ochr â chryfderau a chefnogaeth y teulu.

6.34 Ni cheir unrhyw feini prawf absoliwt y gellir dibynnu arnynt wrth farnu beth sy'n creu niwed sylweddol. Gallai ystyriaeth o ddifrifoldeb y cam-drin gynnwys graddau a maint y niwed corfforol, am ba hyd a pha mor aml y mae cam-drin ac esgeuluso'n digwydd, a faint sy'n rhagfwriadol, graddau bygythiad a gorfodaeth, sadistiaeth, ac elfennau anarferol mewn perthynas â cham-drin plant yn rhywiol. Cysylltwyd pob un o'r elfennau hyn ag effeithiau mwy difrifol ar y plentyn, a/neu lefel gymharol uwch o anhawster wrth helpu'r plentyn i oresgyn effaith niweidiol y cam-drin. Weithiau, gall un digwyddiad trawmatig fod yn niwed sylweddol, ee ymosodiad difrifol, tagu neu wenwyno.

O dan a.31(9) o Ddeddf Plant 1989:

- mae ‘niwed’ yn golygu cam-drin neu amhariad ar iechyd neu ddatblygiad, yn cynnwys, er enghraifft, yr amharu a ddioddefir wrth weld neu glywed arall yn cael ei gam-drin;
- mae ‘datblygiad’ yn golygu datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol;
- mae ‘iechyd’ yn golygu iechyd corfforol neu feddyliol; ac
- mae ‘camdriniaeth’ yn cynnwys cam-drin rhywiol a ffurfiau ar gam-drin nad ydynt yn gorfforol.

O dan a.31(10) o’r Ddeddf, lle mae’r cwestiwn a yw’r niwed a ddioddefir gan blentyn yn sylweddol yn dibynnu ar iechyd a datblygiad y plentyn, a chymherir ei iechyd neu ei ddatblygiad â’r hyn y gellid yn rhesymol ei ddisgwyl mewn plentyn tebyg.

6.35 I ddeall a sefydlu beth sy’n niwed sylweddol, mae angen ystyried:

- cyd-destun y teulu;
- datblygiad y plentyn yng nghyd-destun ei deulu a’i amgylchedd cymdeithasol a diwylliannol ehangach;
- unrhyw anghenion arbennig, megis cyflwr meddygol, anhawster i gyfathrebu neu anabledd a allai effeithio ar ddatblygiad a gofal y plentyn o fewn y teulu;
- natur y niwed, o ran y cam-drin neu fethiant i ddarparu gofal digonol;
- yr effaith ar iechyd a datblygiad y plentyn; a
- pha mor ddigonol yw gofal rhiant.

6.36 Dylid canfod beth yw ymateb y plentyn, ei ganfyddiadau, a’i ddymuniadau a’i deimladau a’u hystyried yn ôl ei oed a’i ddealltwriaeth. Diwygiodd Adran 53 o Ddeddf Plant 2004 Adrannau 17 a 47 o Ddeddf Plant 1989 fel bod gofyn canfod beth yw dymuniadau a theimladau’r plentyn sydd mewn angen cyn belled ag sy’n rhesymol, a rhoi ystyriaeth haeddiannol iddynt cyn penderfynu pa wasanaethau, os o gwbl, i’w darparu iddo o dan a47. Mae hi bob amser yn bwysig ystyried ymateb y plentyn, a’i ganfyddiadau, yn ôl ei oed a’i ddealltwriaeth.

6.37 Dibynna hyn ar gyfathrebu’n effeithiol â phlant a phobl ifanc gan gynnwys plant sy’n ei chael hi’n anodd gwneud hynny oherwydd eu hoed, nam neu sefyllfa seicolegol neu gymdeithasol benodol. Mae’n hanfodol fod unrhyw ddisgrifiadau o brofiadau niweidiol a ddaw gan blant mor fanwl a chyflawn â phosibl. ‘*Accuracy is key, for without it effective decisions cannot be made and, equally, inaccurate accounts*

can lead to children remaining unsafe, or to the possibility of wrongful actions being taken that affect children and adults.[3]

Canfyddiadau o Ymchwiliadau Diweddar ac Adolygiadau Achosion Difrifol: Goblygiadau i Bolisi ac Ymarfer

Yr Ymchwiliad i Farwolaeth Victoria Climbié

6.38 *The support and protection of children cannot be achieved by a single agency…. Every Service has to play its part. All employees must have placed upon them the clear expectation that their primary responsibility is to the child and his or her family."*

Yr Arglwydd Laming yn Adroddiad Ymchwiliad Victoria Climbié, Paragraffau 17.92 a 17.93. http://www.victoria-climbie-inquiry.org.uk/finreport/finreport.htm

6.39 Mae gwella'r ffordd y mae pobl a chyrff allweddol yn diogelu a hyrwyddo lles plant yn hanfodol er mwyn gwella canlyniadau i blant. Yn ei adroddiad i farwolaeth Victoria Climbié, daeth yr Arglwydd Laming i'r casgliad fod dioddefaint a marwolaeth Victoria yn fethiant affwysol ar ran y system.

6.40 Un o'r prif resymau pam y bu i'r system wneud y fath gam â Victoria, a pham y gwnaeth gam â phlant eraill dros y blynyddoedd yw bod pobl a chyrff allweddol sy'n dod i gysylltiad rheolaidd â phlant yn aml yn methu â rhoi digon o flaenoriaeth i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Golyga hyn:

- nad yw'r system bob amser yn canolbwyntio ar anghenion y plentyn. Er enghraifft, yn achos Victoria Climbié, canolbwyntiwyd ar anghenion yr oedolion oedd yn gyfrifol amdani, yn hytrach nag ar y plentyn ei hun;
- nid oes digon o wybodaeth ynghylch materion diogelu a hyrwyddo gan uwch-reolwyr, yn cynnwys Prif Weithredwyr ac eraill mewn swyddi llywodraethol allweddol, ac maent yn methu ysgwyddo digon o gyfrifoldeb am weithredoedd eu gweithwyr mewn perthynas â diogelu a hyrwyddo lles plant;
- mae'n anodd i bobl a chyrff allweddol rannu gwybodaeth a gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant;
- mae nifer o weithwyr sydd heb eu hyfforddi'n ddigonol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Mae hon yn broblem arbennig i weithwyr sy'n aml yn dod i gysylltiad â phlant a theuluoedd ond na chânt eu hystyried yn "arbenigwyr amddiffyn plant".

[3] Jones, DPH (2003) Communicating with vulnerable children: a guide for practitioners, t.1-2, Llundain, Gaskell.

6.41 Gwelodd yr archwiliad o'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles plant a gynhwysir yn Neddf Plant 1989 ei fod yn ei hanfod yn gadarn: nid mewn perthynas â'r gyfraith y cafwyd anawsterau, ond gyda'i dehongliad, ei hadnoddau a'i gweithrediad. Ategodd argymhellion yr Ymchwiliad egwyddorion Deddf Plant 1989 a gwnaeth hi'n glir na ellir gwahanu gwasanaethau cefnogi plant a theuluoedd oddi wrth y gwasanaethau a luniwyd i ymchwilio ac amddiffyn plant rhag niwed bwriadol.

6.42 Adlewyrchwyd ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad Ymchwiliad Victoria Climbié yn *Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau* (2004) ac aethpwyd i'r afael â'r materion allweddol yn Neddf Plant 2004, yn enwedig y gofyniad i Awdurdodau Lleol sefydlu Byrddau Lleol Diogelu Plant a'r ddyletswydd newydd ar asiantaethau i wneud trefniadau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Dyma brif nodweddion trefniadau effeithiol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant sydd angen i bob asiantaeth eu hystyried wrth gyflawni eu swyddogaethau penodol:

- ymrwymiad uwch-reolwyr i bwysigrwydd diogelu a hyrwyddo lles plant;
- datganiad clir o gyfrifoldebau'r asiantaeth tuag at blant i fod ar gael i bob aelod o staff;
- sicrhau llinell atebolrwydd clir o fewn y sefydliad ar gyfer gwaith diogelu a hyrwyddo lles plant;
- datblygu'r gwasanaeth gan roi ystyriaeth i'r angen i ddiogelu a hyrwyddo lles a'i ategu, lle bo'n addas, gan safbwyntiau plant a theuluoedd;
- hyfforddiant i staff ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant i bob aelod o staff sy'n gweithio gyda neu (yn dibynnu ar brif swyddogaethau'r asiantaeth) mewn cysylltiad â phlant a theuluoedd;
- sicrhau bod gweithdrefnau recriwtio diogel yn eu lle;
- gweithio rhyngasiantaethol effeithiol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant; a
- rhannu gwybodaeth yn effeithiol.

Adolygiadau Achosion Difrifol – Cymru

6.43 Ym 1999 cynhaliodd Prifysgol East Anglia astudiaeth o ddeg adroddiad adolygu achosion difrifol a dderbyniwyd rhwng Ebrill 1996 a Rhagfyr 1998 yng Nghymru. Tanlinellai'r adroddiad "Learning How to Make Children Safer: An Analysis for the Welsh Office of Serious Child Abuse Cases in Wales" nifer o gasgliadau. Cynhaliwyd astudiaeth bellach gan Brifysgol East Anglia i 10 adolygiad achos difrifol a dderbyniwyd rhwng 1998 a Mawrth 2001. Tanlinellodd y ddau adroddiad y casgliadau canlynol:

Cyfathrebu a Chofnodi Gwybodaeth

- Roedd yr adroddiadau'n eithriadol o amrywiol o ran natur eu lluniad ac o ran cyfraniad yr asiantaethau unigol. Darparodd pob un ond un o'r adroddiadau wybodaeth annigonol neu anghyflawn am nodweddion unigol aelodau'r teulu a'u cefndir cymdeithasol;
- Er bod nifer o enghreifftiau o ymarfer proffesiynol da o blith y deg achos, cododd amrywiaeth o themâu a materion a ddangosai ddiffygion. Cynhwysai'r rhain: asesu diffygiol o angen a pherygl, cyfathrebu a rhannu gwybodaeth annigonol rhwng asiantaethau, gorbwyslais ar faterion penodol; methiant i ystyried patrymau cyffredinol; rhaglenni goruchwylio sâl; a methiant i gadw digon o gofnodion.

Cyfarwyddyd a Gweithdrefnau

- Ym mhob un o'r adroddiadau, cafwyd enghreifftiau o fethu â glynu at y gweithdrefnau, ond cafwyd enghreifftiau hefyd o ymarferwyr yn gweithio o fewn y cyfarwyddyd a phlentyn yn cael ei anafu neu ei ladd er hynny. Mae ymarfer proffesiynol da o reidrwydd yn galw am weithio o fewn gweithdrefnau'r asiantaethau a chyflawni gwaith amlddisgyblaethol. Er hynny, y ddadl yn y fan yma yw bod swyddogaeth gweithdrefnau'n gyfyngedig a rhaid i waith amlddisgyblaethol cymwys fod wedi'i seilio'n gadarn ar ymarfer cymwys a hyderus yn eich proffesiwn eich hun.
- Mae natur proffesiynoldeb yn yr adroddiadau hyn yn diffinio'i hun fel y gallu (neu'r anallu) i gyflawni dyletswyddau a thasgau proffesiynol, gan gynnwys goruchwylio, ymgynghori a hyfforddi mewn modd cymwys a hyderus, wedi'i gynnal gan strwythurau rheoli priodol. Pa un a yw hyn yn golygu dilyn trywydd atgyfeiriad, rhannu gwybodaeth, gwneud diagnosis priodol, neu herio penderfyniad a wnaed gan weithwyr proffesiynol eraill, mae'r neges sylfaenol yn glir iawn: y gallu i gyflawni'r swydd-ddisgrifiad yn ddigonol ac arfer doethineb proffesiynol yw'r trywydd gorau at ganfod ac atal niwed i blant.
- Yn y mwyafrif o achosion, roedd hi'n amhosibl rhagweld marwolaeth neu anaf difrifol i'r plentyn. Ategodd yr adroddiad gasgliad yr astudiaeth flaenorol mai sicrhau cymhwysedd a hyder proffesiynol yw'r elfen allweddol mewn ymarfer diogel ac effeithiol i raddau helaeth iawn.
- Staff wedi'u gorweithio, yn llenwi dros absenoldeb a salwch cydweithwyr ym mhob asiantaeth tra'n ymrafael â newid ac ad-drefnu. Nid yw'n rhyfeddod i hyn arwain at ddiffyg morâl ymhlith staff a sefydliad camweithredol nad yw'n gallu darparu'r gefnogaeth angenrheidiol i staff allu cyflawni eu dyletswyddau yn gymwys a hyderus.

- Mae goruchwylio'n hanfodol i ymarferwyr sicrhau bod eu gwaith yn gyson â gwaith eu cymheiriaid a'u galluogi i fagu dirnadaeth am safbwyntiau newydd a bylchau mewn ymarfer.
- Mae angen gwneud swyddogaeth seiciatryddion oedolion cyffredinol ac arbenigwyr eraill yn y broses asesu yn fwy eglur.
- Mae angen gwella cyfathrebu oddi mewn a rhwng asiantaethau yn seiliedig ar wella ymwybyddiaeth gweithwyr proffesiynol o berthnasedd a phwysigrwydd eu sylwadau a'u barn a'u sylfaen wybodaeth eu hunain a thrwy hynny eu grymuso i'w mynegi.
- Yr angen i seilio asesiadau ar ymchwil cadarn yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r theori datblygiad. Gall penderfyniadau ac ymyriadau fod yn fwy hyderus, cywir a chydlynol.
- Cydnabod bod persbectif unigryw a gwerthfawr gan bob asiantaeth i'w gynnig, yn deillio o'u sylfaen wybodaeth broffesiynol a'u profiad o bob achos. Er hynny, mae angen i'r safbwyntiau hyn fod yn rhan o broses asesu amlasiantaethol a chyfrannu tuag at wybodaeth am y gallu i fagu plant a/neu anghenion plant.

7: Egwyddorion gweithio gyda phlant a'u teuluoedd

Cyflwyniad

7.1 Mae yna rai egwyddorion a ffyrdd o weithio cyffredin a ddylai fod yn sail i arfer pob asiantaeth a gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio i ddiogelu plant a hyrwyddo'u lles. Mae'r bennod hon yn nodi rhai o'r pwysicaf o'u plith.

Cyfrifoldeb ar y Cyd

7.2 Mae diogelu a hyrwyddo lles plant – ac, yn benodol, eu diogelu rhag niwed sylweddol, yn dibynnu'n hanfodol ar rannu gwybodaeth, cydweithredu a dealltwriaeth effeithiol rhwng asiantaethau a gweithwyr proffesiynol. Mae angen i berthnasoedd adeiladol rhwng gweithwyr unigol gael eu cefnogi gan arweiniad cryf oddi wrth aelodau etholedig neu aelodau penodedig yr awdurdod, ac ymrwymiad prif swyddogion.

7.3 Er mwyn i'r cydweithio hwn ddigwydd, mae angen cael perthnasoedd adeiladol rhwng gweithwyr unigol, a hyrwyddir ac a gefnogir trwy:

- gynllunio gwasanaethau plant cynhwysfawr a chydlynol ar lefel strategol, yn bennaf trwy'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc a fydd yn dod i rym o 2008 ymlaen a'r trefniadau partneriaeth ym mhob ardal awdurdod lleol;
- arweiniad cryf gan aelodau etholedig neu aelodau penodedig yr awdurdod, ac ymrwymiad prif swyddogion ym mhob asiantaeth – ac yn benodol, yr unigolion hynny sydd wedi'u dynodi â swyddogaethau arwain o dan Ddeddf Plant 2004;
- cydlynu lleol effeithiol gan y Byrddau Lleol Diogelu Plant ym mhob ardal.

7.4 Bydd angen cymorth cydlynol gan y gwasanaethau iechyd, y gwasanaethau addysg, y gwasanaethau cymdeithasol, ac o bosibl gan y sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill, gan gynnwys y gwasanaethau troseddau ieuenctid ar blant unigol, yn enwedig rhai o'r plant mwyaf agored i niwed a'r rhai sydd yn y perygl mwyaf o gael eu heithrio'n gymdeithasol.

7.5 I'r plant hynny sy'n dioddef, neu sydd mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol, mae cydweithio'n hanfodol, er mwyn diogelu'r plant a, lle bo angen, i helpu i ddod â chyfiawnder i'r sawl sy'n cyflawni troseddau yn erbyn plant. Dylai pob asiantaeth a gweithiwr proffesiynol:

- fod yn effro i ddangosyddion posibl o gam-drin neu esgeulustod;
- bod yn effro i'r peryglon y gallai camdrinwyr unigol neu ddarpar gamdrinwyr, eu cyflwyno i blant;

- rhannu a helpu i ddadansoddi gwybodaeth fel y gellir gwneud asesiad deallus o anghenion ac amgylchiadau'r plentyn;
- cyfrannu at ba bynnag gamau gweithredu sydd eu hangen i ddiogelu'r plentyn a hyrwyddo'i (l)les;
- adolygu'n rheolaidd y canlyniadau ar gyfer y plentyn yn erbyn amcanion ar y cyd penodol; a
- gweithio'n gydweithredol gyda rhieni oni bai bod hyn yn anghyson â'r angen i sicrhau diogelwch y plentyn.

Gweithio mewn Partneriaeth â Phlant a Theuluoedd

Beth mae Partneriaeth wrth Ddiogelu Plant yn ei olygu?

7.6 Lle mae pryderon ynghylch niwed sylweddol i blentyn, mae gan y gwasanaethau cymdeithasol ddyletswydd statudol i wneud ymholiadau ac, os oes angen, rymoedd statudol i ymyrryd er mwyn diogelu'r plentyn a hyrwyddo'i (l)les. Lle ceir ymyriad gorfodol o'r math hwn ym mywyd y teulu, dylid parhau i helpu ac annog rhieni i chwarae rhan mor lawn â phosibl mewn penderfyniadau am eu plentyn. Dylid rhoi i blant o oedran a dealltwriaeth ddigonol wybodaeth lawn am brosesau sy'n effeithio arnynt; dylid ymgynghori â nhw mewn ffordd sensitif, a dylai penderfyniadau am eu dyfodol ystyried eu safbwyntiau.

7.7 Nid yw partneriaeth yn golygu cytuno bob amser â rhieni neu oedolion eraill sy'n aelodau o'r teulu, neu geisio ffordd ymlaen bob amser sy'n dderbyniol iddynt. Nod prosesau amddiffyn plant yw sicrhau diogelwch a lles y plentyn a buddiannau'r plentyn ddylai gael y flaenoriaeth bob amser. Hwyrach y bydd rhai rhieni'n teimlo wedi brifo ac yn ddig ac yn gwrthod cydweithredu â gweithwyr proffesiynol. Ni fydd pob rhiant yn gallu diogelu eu plant, hyd yn oed gyda chymorth a chefnogaeth. Gallai rhai fod yn agored i gael eu dylanwadu gan y sawl sy'n cam-drin, yn enwedig mewn achosion o gam-drin plant yn rhywiol. Mae lleiafrif o rieni'n weithredol beryglus i'w plant, i aelodau eraill o'r teulu neu i weithwyr proffesiynol, ac maent yn amharod i newid a/neu'n methu newid. Canolbwyntiwch yn ddyfal bob amser ar ddiogelwch y plentyn a'r hyn sydd orau i'r plentyn.

Gweithio gyda Phlant a Theuluoedd

7.8 Dylai'r sawl sy'n cydweithio i ddiogelu plant gytuno ar ddealltwriaeth gyffredin ym mhob achos, ac ar bob cam o'r gwaith, o ran sut y bydd plant a theuluoedd yn cymryd rhan mewn prosesau amddiffyn plant, a pha wybodaeth a rennir gyda nhw. Dylid tybio didwylledd, gwneud penderfyniadau ar y cyd a pharodrwydd i wrando ar deuluoedd a manteisio ar eu cryfderau, ond y brif egwyddor bob amser ddylai fod i weithredu er lles y plentyn. Dylid trin rhywfaint o'r wybodaeth sy'n hysbys i weithwyr proffesiynol yn gyfrinachol ac ni ddylid ei rhannu o flaen rhai plant neu rai oedolion sy'n aelodau o'r teulu. Gallai

gwybodaeth felly gynnwys gwybodaeth bersonol am iechyd aelodau penodol o'r teulu, oni bai bod caniatâd wedi'i roi, neu wybodaeth a allai, o'i datgelu, beryglu ymchwiliadau neu achosion troseddol.

7.9 Dylai asiantaethau a gweithwyr proffesiynol fod yn onest ac yn eglur gyda phlant a theuluoedd ynghylch swyddogaethau proffesiynol, cyfrifoldebau, grymoedd a disgwyliadau, ac ynghylch yr hyn y gellir ei drafod neu beidio â'i drafod.

7.10 Dylai perthnasoedd gweithio gyda theuluoedd ddatblygu yn unol ag amgylchiadau unigol. O'r dechrau, dylai gweithwyr proffesiynol asesu os, pryd a sut y gall ymrwymiad aelodau gwahanol o'r teulu – yn blant ac yn oedolion fel ei gilydd – gyfrannu at ddiogelu a hyrwyddo lles plentyn penodol neu grŵp o blant. Gallai'r asesiad hwn newid gydag amser wrth i fwy o wybodaeth ddod ar gael neu wrth i deuluoedd deimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan weithwyr proffesiynol. Mae goruchwyliaeth broffesiynol a thrafodaethau grwpiau cymheiriaid yn bwysig wrth helpu i archwilio gwybodaeth ac amgyffrediadau o gryfderau a gwendidau teuluoedd a diogelwch a lles y plentyn yn y teulu.

7.11 Mae strwythurau teuluoedd yn fwyfwy cymhleth. Yn ogystal â'r oedolion hynny sydd â gofal dyddiol o blentyn, gallai rhieni wedi ymddieithrio (ee tadau geni), tad-cu a mam-gu neu aelodau eraill o'r teulu chwarae rhan sylweddol ym mywyd y plentyn, a gallai fod gan rai ohonynt gyfrifoldeb rhiant hyd yn oed os nad ydynt yn cymryd rhan yn y gofal o ddydd i ddydd. Efallai bod rhai plant wedi'u cefnogi yn ystod anawsterau teuluol gan oedolion o'r tu allan i'r teulu. Dylai gweithwyr proffesiynol wneud yn siŵr eu bod yn rhoi sylw i safbwyntiau pawb sydd â rhywbeth arwyddocaol i'w gyfrannu at benderfyniadau am ddyfodol y plentyn. Gall plant gynnig cymorth gwerthfawr wrth nodi oedolion y maen nhw'n eu hystyried yn ddylanwadau cefnogol pwysig yn eu bywydau.

7.12 Gallai achlysuron godi lle nad yw perthnasoedd rhwng rhieni, neu aelodau eraill o'r teulu, yn gynhyrchiol o ran gweithio i ddiogelu plant a hyrwyddo'u datblygiad. Mewn achosion felly, dylai asiantaethau ymateb gyda chydymdeimlad i gais am newid gweithiwr, os gellir nodi y byddai newid o'r fath er lles y plentyn sy'n destun pryder.

7.13 Mae gan aelodau'r teulu swyddogaeth unigryw a phwysigrwydd ym mywydau plant, sy'n rhoi gwerth mawr i'w perthynas deuluol. Mae aelodau o'r teulu'n gwybod mwy am eu teulu nag y gallai unrhyw weithiwr proffesiynol ei wybod, a dylai penderfyniadau cadarn am blentyn dynnu oddi ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth hon. Fel arfer, dylai aelodau o'r teulu gael yr hawl i wybod yr hyn sy'n cael ei ddweud amdanynt, ac i gyfrannu at benderfyniadau pwysig am eu bywydau a bywydau eu plant. Mae canfyddiadau ymchwil a gafodd eu tynnu ynghyd yn Amddiffyn Plant: Negeseuon o'r Ymchwil, yn ardystio i

bwysigrwydd perthynas dda rhwng gweithwyr proffesiynol a theuluoedd wrth helpu i ddod â'r canlyniadau gorau posibl i blant.

Cynnwys Plant

7.14 Yn aml, mae gan blant o oed a dealltwriaeth ddigonol amgyffred clir o'r hyn sydd angen ei wneud i sicrhau eu diogelwch a'u lles. Mae gwrando ar blant a chlywed eu negeseuon yn gofyn am hyfforddiant a sgiliau arbennig, gan gynnwys y gallu i fagu eu hymddiriedolaeth a hyrwyddo ymdeimlad o ddiogelwch. Teimla'r rhan fwyaf o blant deyrngarwch tuag at y rhai sy'n gofalu amdanynt, ac maent yn cael trafferth dweud unrhyw beth yn eu herbyn. Nid yw llawer ohonynt yn dymuno rhannu cyfrinachau, neu efallai nad oes ganddynt yr iaith na'r cysyniadau i ddisgrifio'r hyn sydd wedi digwydd iddynt. Hwyrach bod rhai yn poeni am ddial neu y byddant yn cael eu symud o'u cartrefi.

7.15 Mae angen i blant a phobl ifanc ddeall graddau a natur eu rhan nhw mewn prosesau gwneud penderfyniadau a chynllunio. Dylid eu helpu i ddeall sut mae prosesau amddiffyn plant yn gweithio, sut y gallant gymryd rhan, a'u bod yn gallu cyfrannu at benderfyniadau am eu dyfodol yn unol â'u hoedran a'u dealltwriaeth. Fodd bynnag, dylent ddeall y bydd penderfyniadau yn y pen draw yn cael eu gwneud yng ngoleuni'r holl wybodaeth sydd ar gael a gyfrennir ganddynt eu hunain, gan weithwyr proffesiynol, eu rhieni a chan aelodau eraill o'r teulu, a chan oedolion arwyddocaol eraill.

Cynadleddau Grŵp Teuluol

7.16 Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Cynadleddau Grŵp Teuluol (CGTau) wedi'u datblygu mewn nifer o ardaloedd fel dewis cadarnhaol ar gyfer cynllunio gwasanaethau i blant a'u teuluoedd. Mae yna gorff cynyddol o ymchwil am effaith a chanlyniadau CGTau.

7.17 Mae CGTau yn broses lle caiff aelodau o'r teulu, gan gynnwys y rhai yn y teulu ehangach, eu galluogi i gyfarfod â'i gilydd i ddod o hyd i atebion i anawsterau y maen nhw a phlentyn neu berson ifanc yn eu teulu yn eu hwynebu. Nid un cyfarfod yn unig yw CGTau. Maent yn ddull o gynllunio a gwneud penderfyniadau sy'n defnyddio sgiliau a phrofiad y teulu ehangach, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol. Dylai'r diffiniad o bwy sydd mewn teulu ddod oddi wrth y teulu ei hun. Mae'n cynnwys rhieni a theulu estynedig, yn ogystal â chyfeillion, cymdogion ac aelodau o'r gymuned os ystyrir nhw'n rhan o 'deulu'r' plentyn.

7.18 Gallai CGTau fod yn briodol mewn nifer o gyd-destunau lle mae cynllun neu benderfyniad i'w wneud. Nid yw CGTau yn disodli nac yn tynnu ymaith yr angen am gynadleddau amddiffyn plant, y dylid eu cynnal bob amser pan gaiff y meini prawf perthnasol eu bodloni. Er enghraifft, gallant fod yn werthfawr:

- i blant mewn angen, mewn amrywiaeth o amgylchiadau lle mae cynllun yn ofynnol ar gyfer lles plentyn i'r dyfodol;

- lle nad yw ymholiadau adran 47 yn cadarnhau pryderon cyfeirio ynghylch niwed sylweddol ond lle mae angen cymorth a gwasanaethau;
- lle mae ymholiadau adran 47 yn symud ymlaen at gynhadledd amddiffyn plant, gallai'r gynhadledd gytuno bod CGT yn ddull priodol i'r grŵp craidd ei ddefnyddio i gyfrannu at ddatblygu'r cynllun amddiffyn plant amlinellol i gynllun wedi'i ddatblygu'n llawn.

7.19 Mae'n hanfodol fod pob parti yn cael gwybodaeth glir a chywir, a fydd yn gwneud cynllunio effeithiol yn bosibl. Y teulu yw'r prif grŵp cynllunio yn y broses. Mae angen i aelodau'r teulu allu deall beth yw'r materion o safbwynt y gweithwyr proffesiynol. Dylai'r teulu a'r gweithwyr proffesiynol sydd ynghlwm fod yn glir ynghylch:

- beth yw'r canfyddiadau proffesiynol o unrhyw asesiad craidd o'r plentyn a'r teulu;
- yr hyn y mae'r teulu'n ei ddeall am eu sefyllfa bresennol;
- pa benderfyniadau sy'n ofynnol;
- pa benderfyniadau sydd eisoes wedi'u cymryd;
- beth yw cwmpas gwneud penderfyniadau'r teulu, ac a oes unrhyw faterion/penderfyniadau na ellir eu trafod; a
- pha adnoddau sydd ar gael neu a allai fod ar gael i weithredu unrhyw gynllun.

7.20 O fewn y fframwaith hwn, dylai asiantaethau a gweithwyr proffesiynol gytuno i gefnogi'r cynllun os nad yw'n rhoi'r plentyn mewn perygl o niwed sylweddol, ac os gellir darparu'r adnoddau y gofynnwyd amdanynt.

7.21 Lle mae yna gynlluniau i ddefnyddio CGTau mewn sefyllfaoedd lle mae yna bryderon amddiffyn plant, dylid eu datblygu a'u gweithredu o dan nawdd y Byrddau Lleol Diogelu Plant. Bydd hyn yn cynnwys pob asiantaeth berthnasol yn eu datblygu ac yn cysylltu'u defnydd â pholisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant perthnasol eraill. Bydd angen hyfforddiant rhyngasiantaeth i feithrin y sgiliau perthnasol sydd eu hangen i weithio gyda phlant a theuluoedd yn y ffordd hon, ac i hyrwyddo hyder mewn dealltwriaeth ar y cyd o'r broses a'i datblygu.

7.22 Mae'n hanfodol bod yna eglurder am y ffordd ymlaen wrth weithredu unrhyw gynllun, yn enwedig mewn perthynas â phwy sydd â chyfrifoldeb am unrhyw gamau a nodwyd a phwy fydd yn monitro ac yn sicrhau y cymerir camau priodol.

Cymorth, Cyngor ac Eiriolaeth i Blant a Theuluoedd

7.23 Waeth pa mor sensitif yr ymdrinnir ag ymholiadau, mae llawer o deuluoedd yn teimlo bod ymrwymiad proffesiynol na ofynnwyd amdano yn eu bywydau yn boenus ac yn ymwthiol, yn enwedig os ydynt yn teimlo bod eu gofal am eu plant yn cael ei gwestiynu. Dylid cydnabod hyn bob amser. Gall asiantaethau a gweithwyr proffesiynol wneud cryn dipyn i wneud prosesau amddiffyn plant yn llai o straen i deuluoedd trwy fabwysiadu'r egwyddorion a nodir uchod. Bydd teuluoedd hefyd yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi'n well os yw'n glir bod ymyriadau yn eu bywydau, er eu bod yn canolbwyntio'n gadarn ar ddiogelwch a lles y plentyn, yn ymwneud hefyd ag anghenion ehangach y plentyn a'r teulu.

7.24 Gallai plant a theuluoedd gael eu cefnogi trwy eu hymwneud mewn prosesau amddiffyn plant gan wasanaethau cyngor ac eiriolaeth, a dylid rhoi gwybod iddynt bob amser am y gwasanaethau hynny sy'n bodoli'n lleol ac yn genedlaethol.

7.25 Lle mae plant a theuluoedd yn cymryd rhan fel tystion mewn achosion troseddol, gall yr heddlu, y gwasanaethau cymorth i dystion a gwasanaethau eraill a ddarperir gan Gymorth i Ddioddefwyr wneud cryn dipyn i esbonio'r broses, gwneud iddi deimlo'n llai brawychus a sicrhau y caiff plant eu paratoi ar gyfer proses y llys a'u cefnogi ynddi. Dylai gwybodaeth am y Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol gael ei chynnig mewn achosion perthnasol hefyd.

Cyfathrebu a Gwybodaeth

7.26 Mae gan bob asiantaeth a gweithiwr proffesiynol gyfrifoldeb i wneud yn siŵr fod gan blant ac oedolion yr holl wybodaeth y mae arnynt ei hangen i'w helpu i ddeall y prosesau sydd ynghlwm wrth ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Dylai gwybodaeth fod yn glir ac yn hygyrch a bod ar gael yn iaith gyntaf y teulu.

7.27 Os oes gan blentyn a/neu aelod o'r teulu anghenion cyfathrebu penodol, oherwydd iaith neu anabledd, efallai bod angen defnyddio gwasanaethau dehonglydd neu weithiwr arbenigol, neu ddefnyddio cymhorthion eraill i gyfathrebu. Dylid cymryd gofal penodol wrth ddewis dehonglydd, gan roi ystyriaeth i'w sgiliau iaith, eu dealltwriaeth o'r materion a drafodir, eu hymrwymiad i gyfrinachedd, a'u sefyllfa yn y gymuned ehangach. Gall fod anawsterau wrth ddefnyddio aelodau o'r teulu neu ffrindiau fel dehonglwyr a dylid osgoi hyn. Ni ddylid defnyddio plant fel dehonglwyr.

Amrywiaeth

7.28 Mae gan bob plentyn yr hawl i dyfu i fyny yn ddiogel rhag niwed ac i gael darpariaeth ddigonol i ddiogelu a hyrwyddo'i les. Mae plant o bob diwylliant yn cael eu cam-drin a'u hesgeuluso ac er mwyn dod i benderfyniadau proffesiynol sensitif a deallus am anghenion plentyn, a

gallu rhieni i ymateb i anghenion eu plant, mae'n bwysig bod gweithwyr proffesiynol yn sensitif i batrymau a dulliau o fyw gwahanol deuluoedd ac i batrymau magu plant sy'n amrywio ar draws grwpiau hiliol, ethnig a diwylliannol gwahanol. Dylai gweithwyr proffesiynol hefyd fod yn ymwybodol o'r ffactorau cymdeithasol ehangach sy'n gwahaniaethu yn erbyn pobl o leiafrifoedd du ac ethnig. Mae gweithio mewn cymdeithas amlhiliol ac amlddiwylliannol yn golygu bod angen i weithwyr proffesiynol a sefydliadau ymroi i gydraddoldeb wrth fodloni anghenion yr holl blant a'r teuluoedd, ac i ddeall effeithiau aflonyddu hiliol, gwahaniaethu ar sail hil a hiliaeth sefydliadol, yn ogystal â chamddealltwriaeth neu gamddehongli diwylliannol.

7.29 Dylai'r broses asesu ganolbwyntio'n ddyfal ar anghenion y plentyn unigol. Dylai gynnwys bob amser ystyriaeth o'r ffordd y mae credoau crefyddol a thraddodiadau diwylliannol mewn grwpiau hiliol, ethnig a diwylliannol gwahanol yn dylanwadu ar eu gwerthoedd, eu hagweddau a'u hymddygiad, a'r ffordd y caiff bywyd y teulu a'r gymuned ei strwythuro a'i drefnu. Nid yw ffactorau diwylliannol yn esbonio nac yn esgusodi gweithredoedd camwaith neu anwaith sy'n rhoi plentyn mewn perygl o gael niwed sylweddol. Dylai gweithwyr proffesiynol fod yn ymwybodol o'r cryfderau a'r systemau cymorth sydd ar gael mewn teuluoedd, grwpiau ethnig a chymunedau, y gellir adeiladu arnynt i helpu i ddiogelu plant a hyrwyddo'u lles, a dylent weithio gyda nhw.

7.30 Dylai gweithwyr proffesiynol wylio rhag mythau a stereoteipiau - yn gadarnhaol ac yn negyddol fel ei gilydd. Ni ddylai pryder am gael eu cyhuddo o ymarfer gwahaniaethol atal rhywun rhag cymryd y camau angenrheidiol i ddiogelu plentyn. Bydd asesu gofalus - ar sail tystiolaeth - o anghenion plentyn, ac o gryfderau a gwendidau teulu, a ddeellir yng nghyd-destun yr amgylchedd cymdeithasol ehangach, o gymorth i osgoi unrhyw effaith wyrdroëdig gan y dylanwadau hyn ar farn broffesiynol.

Dull Integredig

7.31 Mae gan blant anghenion amrywiol sy'n newid gydag amser. Yn aml ac yn anochel, bydd penderfynu sut orau i ymyrryd pan fo pryderon am niwed i blentyn yn golygu elfen o risg – yn y pen eithaf, gadael plentyn am gyfnod rhy hir mewn sefyllfa beryglus neu dynnu plentyn i ffwrdd o'i deulu yn ddiangen. Y ffordd o symud ymlaen yn wyneb ansicrwydd yw trwy ddod i benderfyniadau proffesiynol medrus yn seiliedig ar asesiad cadarn o anghenion y plentyn, gallu'r rhieni i ymateb i'r anghenion hynny – gan gynnwys eu gallu i gadw'r plentyn yn ddiogel rhag niwed sylweddol – ac amgylchiadau ehangach y teulu.

7.32 Ni ddylid ystyried mesurau effeithiol i ddiogelu plant ac i hyrwyddo'u lles ar wahân i'r ystod ehangach o gefnogaeth a gwasanaethau sydd ar gael i fodloni anghenion plant a theuluoedd:

- mae llawer o'r teuluoedd sy'n dod yn destun pryderon amddiffyn plant yn dioddef anfanteision niferus. Gallai darparu gwasanaethau a chymorth i blant a theuluoedd o dan straen atgyfnerthu gallu'r rhieni i ymateb i anghenion eu plant cyn i broblemau ddatblygu'n gam-drin;

dylai'r sawl sy'n gweithio gyda chleifion iechyd meddwl sy'n oedolion neu wasanaethau camddefnyddio sylweddau ofyn i'w defnyddwyr gwasanaethau yn rheolaidd a oes ganddynt blant dibynnol gan y gallai eu cyflwr beryglu eu gallu i fagu plant;

- gallai ymholiadau amddiffyn plant ddatgelu anghenion sylweddol heb eu bodloni am gymorth a gwasanaethau ymhlith plant a theuluoedd. Dylai'r rhain gael eu hystyried yn benodol bob amser, hyd yn oed lle nad yw pryderon wedi'u profi ynghylch niwed sylweddol i blentyn os yw'r teulu'n dymuno hynny;
- os bydd prosesau amddiffyn plant yn arwain at ganlyniadau gwell i blant, yna dylai cynlluniau effeithiol ar gyfer diogelu plant a hyrwyddo'u lles fod yn seiliedig ar asesiad eang ei amrediad o anghenion y plentyn a'u hamgylchiadau teuluol;
- dylai'r holl waith gyda phlant a theuluoedd ganolbwyntio'n ddyfal ar les y plentyn. Yn union fel y dylai prosesau amddiffyn plant ystyried anghenion ehangach y plentyn a'r teulu bob amser, dylai gwasanaethau cymorth teuluol eang eu sail fod yn effro bob amser i ddangosyddion posibl o gam-drin ac esgeulustod a gwybod sut i ymateb yn gyflym ac yn bendant iddynt.

Dylai staff rheng flaen mewn asiantaethau sy'n dod i gysylltiad â theuluoedd gyda phlant yn rheolaidd sicrhau, gyda phob cyswllt newydd, bod gwybodaeth sylfaenol am y plentyn yn cael ei chofnodi. Rhaid i hyn gynnwys enw, cyfeiriad ac oedran y plentyn, enw prif ofalwr y plentyn, y person(au) gyda chyfrifoldeb rhiant am y plentyn, meddyg teulu'r plentyn ac enw ysgol y plentyn os yw'r plentyn o oed ysgol. Dylid trosglwyddo bylchau yn y wybodaeth hon i'r awdurdod perthnasol yn unol â threfniadau lleol.

7.33 Bydd y ffordd y mae asiantaethau'n gweithio gyda neu'n cael cyswllt â phlant unigol a'u teuluoedd yn gwahaniaethu yn dibynnu ar swyddogaethau pob asiantaeth. Bydd rhai'n canolbwyntio ar waith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc, lle bydd eraill yn gweithio gyda phlant a'u teuluoedd, ac eraill yn parhau i weithio gydag oedolion sydd â chyfrifoldebau magu plant.

7.34 Wrth ddiogelu a hyrwyddo lles plant unigol, mae'r canlynol yn nodweddion allweddol o system effeithiol. Dylid eu hystyried pan fydd pob asiantaeth yn cynnal ei swyddogaethau arferol:

- rhaid i ffocws y gwaith gyda phob plentyn a/neu deulu fod ar wella canlyniadau ar gyfer pob plentyn;

- mae gan blant a phobl ifanc hawliau a rhaid gwrando arnynt. Rhaid cymryd yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud o ddifrif a gweithredu'n briodol;
- cynhelir ymyriadau yn gynnar pan fydd anawsterau neu broblemau'n cael eu nodi neu eu rhagweld;
- lle bo'n bosibl/ymarferol, caiff dymuniadau a theimladau'r plentyn penodol eu sicrhau a'u hystyried wrth benderfynu ar gamau i'w cymryd mewn perthynas ag ef neu hi. Cyfathrebir â'r plentyn trwy ddefnyddio eu dewis dull neu iaith gyfathrebu ac mewn ffordd sy'n briodol i'w hoedran a'u datblygiad;
- caiff etifeddiaeth hiliol, iaith, crefydd, ffydd ac anabledd eu hystyried wrth weithio gyda phlentyn a'i deulu;
- mae asesu plant a theuluoedd yn gyson â'r *Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd (2001)* [http://www.cafwales.co.uk] ac mae gweithwyr proffesiynol yn cyfrannu at gynlluniau, ymyriadau ac adolygiadau dilynol yn unol â'r gofynion mewn rheoliadau ac arweiniad perthnasol. Dylai'r asesiad ystyried anghenion datblygiad y plentyn, gallu'r rhieni i ymateb i anghenion y plentyn, o fewn cyd-destun teulu a chymuned ehangach y plentyn;
- caiff gwasanaethau perthnasol a phriodol eu darparu i ymateb i'r anghenion a nodwyd ar gyfer y plant ac i gefnogi rhieni/gofalwyr wrth ymgymryd â'u swyddogaethau magu plant yn effeithiol. Gallai hyn olygu cyfeirio at gydweithiwr yn yr asiantaeth neu gyfeirio at asiantaeth arall. Lle nad yw gwasanaeth penodol ar gael neu fod oedi wrth sicrhau ei fod ar gael, dylid ystyried a darparu gwasanaethau eraill lle bo'n bosibl i sicrhau y caiff lles y plentyn ei ddiogelu;
- lle mae nifer o weithwyr proffesiynol yn cymryd rhan wrth gefnogi plentyn a'i deulu, dylid datblygu dull cydlynol o fodloni eu hanghenion. Yn yr achosion hyn, mae'n briodol i un ymarferwr o blith y sawl sydd ynghlwm i gymryd swyddogaeth arwain wrth gydlynu'r cymorth. Adwaenir y swyddogaeth hon fel y "gweithiwr proffesiynol arweiniol". Bydd y swyddogaeth yn golygu:
    - gweithredu fel eiriolwr i'r plentyn neu'r person ifanc a'u teulu a gweithredu fel y brif sianel a'r ddolen gyswllt rhwng y plentyn neu berson ifanc a'i teulu a'r ymarferwyr sydd ynghlwm;
    - sicrhau y caiff cymorth ei gyflwyno gan ymarferwyr priodol, heb orgyffwrdd na gwrthdaro, ac y caiff cynllun i gefnogi'r plentyn ei gytuno arno gan y plentyn, eu gofalwr/gofalwyr ac ymarferwyr ac y caiff ei adolygu'n rheolaidd.
- dylai ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant unigol a'u teuluoedd gael eu goruchwylio a'u monitro'n gywir i sicrhau bod cymorth priodol ar gael bob amser;

- rhaid cadw cofnodion llawn ac ystyrlon o ansawdd a chaiff gwybodaeth ei rhannu'n briodol am yr holl waith gyda phlant unigol a'u teuluoedd yn unol â gofynion yr asiantaeth;
- mae systemau TG ar gyfer cofnodi gwybodaeth yn cefnogi gwaith effeithiol gyda phlant a'u teuluoedd, ac mae ganddynt y gallu i grynhoi gwybodaeth at ddibenion cynllunio a rheoli strategol.

7.35 Bydd natur yr ymrwymiad gyda phlant a'u teuluoedd o bob asiantaeth yn gwahaniaethu yn dibynnu ar eu swyddogaethau. Mewn perthynas â diogelu a hyrwyddo lles plant, dylai dealltwriaeth o sut mae plant yn datblygu'n llwyddiannus i fod yn oedolion fod wrth wraidd gwaith gyda phlant a theuluoedd. Dylai'r ddealltwriaeth hon ystyried yr ystod eang o ddylanwadau ar y plentyn, teulu'r plentyn ac yn eu cymuned sy'n effeithio'n gadarnhaol ac yn negyddol ar ddatblygiad plentyn ac a fydd ef neu hi yn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl.

7.36 I blant sy'n byw i ffwrdd o'u teuluoedd, bydd gan oedolion ar wahân i'w rhieni gyfrifoldeb am eu lles. Bydd y plant hyn yn byw i ffwrdd o gartref ee gyda gofalwyr maeth, mewn cartref i blant, mewn ysgol breswyl neu dan warchodaeth. Wrth weithio gyda phlant a'u teuluoedd, bydd rhaid ystyried yr holl gyd-destunau hyn wrth ddiogelu a hyrwyddo lles.

7.37 Mae nifer o egwyddorion a ddylai fod yn sail i waith gyda phlant a'u teuluoedd i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Byddant yn berthnasol i raddau amrywiol yn dibynnu ar swyddogaethau a lefel ymrwymiad yr asiantaeth a'r ymarferwr unigol dan sylw. Dylai gwaith gyda phlant a theuluoedd:

- ganolbwyntio ar y plentyn;
- bod â'i wreiddiau mewn datblygiad plant;
- cefnogi'r gwaith o sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant a gwella'u lles;
- meithrin ymagwedd holistaidd;
- sicrhau cyfle cyfartal;
- cynnwys plant a theuluoedd;
- adeiladu ar gryfderau yn ogystal â nodi a mynd i'r afael ag anawsterau;
- meithrin ymagwedd amlasiantaeth/rhyng-asiantaeth;
- bod yn broses barhaus;
- cael ei ddylunio i nodi'r gwasanaethau sy'n ofynnol a monitro'r effaith y mae eu darpariaeth yn ei chael ar gynnydd datblygiadol plentyn;
- bod yn seiliedig ar dystiolaeth.

Cydweithredu rhyngasiantaethol i wella lles plant

7.38 Mae wedi dod yn fwyfwy amlwg bod annog gwasanaethau perthnasol i integreiddio o amgylch anghenion y plentyn yn agwedd allweddol wrth wella canlyniadau ar gyfer plant mewn angen. I'r perwyl hwn, mae adran 25 Deddf Plant 2004 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau gwasanaethau plant i hyrwyddo cydweithredu gyda'r bwriad o wella lles plant, ac mae'n gosod dyletswydd gytbwys ar 'bartneriaid perthnasol' amrywiol i gydweithredu â'r awdurdod gwasanaethau plant wrth wneud y trefniadau hyn. Mae'r sefydliadau strategol yr ymdrinnir â nhw gan ddyletswydd Adran 28 hefyd yn destun y ddyletswydd hon i gydweithredu.

Rhai Goblygiadau ar gyfer Polisi ac Ymarfer

7.39 Mae'r materion a drafodir yn y bennod hon yn cyflwyno rhai gwersi pwysig ar gyfer polisi ac ymarfer. Yn eu plith y mae:

Ffocws ar Ganlyniadau ar gyfer y Plentyn

- ystyried beth y bwriadwyd i'r ymyriadau eu cyflawni, a beth fydd y manteision i les tymor hir y plentyn;
- buddsoddi amser ac adnoddau digonol ar draws pob asiantaeth berthnasol wrth gynllunio a gweithredu ymyriadau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant sydd mewn perygl parhaus o niwed sylweddol;
- anelu at ganlyniadau tymor hir da o ran iechyd, datblygiad a chyrhaeddiad addysgol ar gyfer pob plentyn ac yn benodol ar gyfer plant mewn angen a'r plant hynny y mae yna bryderon amddiffyn plant yn eu cylch.

Dulliau Diogelu Plant mewn Cyd-destun

- hyrwyddo mynediad i ystod o wasanaethau ar gyfer plant mewn angen heb sbarduno prosesau amddiffyn plant yn amhriodol;
- ystyried anghenion ehangach plant a theuluoedd, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â phrosesau amddiffyn plant, p'un a yw'r pryderon ynghylch cam-drin a/neu esgeulustod wedi'u profi neu beidio.

Gwaith gyda Phlant a Theuluoedd

- gwrando ar blant ac ystyried eu safbwyntiau;
- galluogi rhieni ac aelodau eraill o'r teulu i gymryd rhan mor lawn ag sy'n ymarferol, gan sicrhau diogelwch a lles y plentyn;
- mae profiadau cychwynnol negyddol yn dylanwadu ar berthnasoedd rhieni gyda gweithwyr proffesiynol yn y dyfodol. Gosodwch naws adeiladol ar gyfer ymyriad yn y dyfodol trwy

ansawdd y gwaith pan fydd pryderon yn cael eu codi am les plentyn am y tro cyntaf;

- mae llawer o deuluoedd yn ofni y bydd datgelu eu problemau yn arwain at ymatebion cosbol gan ddarparwyr gwasanaethau. Hyrwyddwch ddelwedd gadarnhaol ond realistig o wasanaethau i annog a galluogi pobl i gael mynediad i'r cymorth a'r cyngor y mae arnynt eu hangen. Mae angen gwybodaeth ar deuluoedd am sut i ennill mynediad i wasanaethau a beth i'w ddisgwyl os a phryd y byddant yn mynd at wasanaethau am gymorth.

Asesiad Medrus

- edrych ar y darlun cyfan - nid yn unig beth sydd wedi digwydd i'r plentyn, ond hefyd;
- iechyd a datblygiad plentyn, a'r cyd-destun teuluol ac amgylcheddol ehangach;
- bod yn ymwybodol o'r nifer fawr o ffactorau a allai effeithio ar allu rhiant i ofalu am blentyn, ac y gallai'r rhain gael effaith ar blant mewn llawer o ffyrdd gwahanol;
- adeiladu ar gryfderau teuluoedd, wrth fynd i'r afael ag anawsterau;
- gwneud defnydd llawn o ffynonellau gwybodaeth sy'n bodoli, gan gynnwys y Gofrestr Amddiffyn Plant.

Gweithio ar draws Gwasanaethau Oedolion a Phlant

- er y cydnabyddir bod diogelwch a lles plentyn yn hollbwysig, dylid rhoi ystyriaeth ddyledus i anghenion pob aelod o'r teulu;
- cydnabod swyddogaethau cyflenwol gwasanaethau oedolion a phlant mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Er enghraifft, dylai deall y goblygiadau i'r claf sy'n dioddef o iselder ysbryd difrifol sydd hefyd yn rhiant fod yn gyfrifoldeb staff iechyd meddwl oedolion a staff plant a theuluoedd fel ei gilydd. Dylid cyfuno arbenigedd i atgyfnerthu gallu rhieni i ymateb i anghenion eu plant, lle mae hyn er lles y plentyn;
- hwyrach bod angen hyfforddiant ar weithwyr proffesiynol sy'n gweithio'n bennaf gyda phlant i gydnabod a nodi problemau rhieni a'r effeithiau y gallai'r rhain eu cael ar blant. Yn yr un modd, dylai hyfforddiant i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gydag oedolion ymdrin â'r effaith y gallai problemau rhieni eu cael ar blant. Gall hyfforddiant ar y cyd rhwng staff oedolion a phlant fod o gymorth.

7.40 Gellir cael bylchau hyd yn oed ymhlith staff sy'n gweithio gyda phlant (yn enwedig rhwng staff plant a theuluoedd a'r rhai sy'n gweithio mewn timau arbenigol ar gyfer plant anabl), y mae angen eu llenwi.

8: Ymdrin ag achosion unigol

Cyflwyniad

8.1 Mae'r adran hon yn rhoi cyngor ar yr hyn a ddylai ddigwydd os oes gan rywun bryderon ynglŷn â lles plentyn (gan gynnwys plant sy'n byw oddi cartref), ac yn enwedig pryderon bod plentyn yn cael, neu ei fod mewn perygl o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso. Nid rhoi canllawiau arfer manwl yw bwriad y bennod hon, ond yn hytrach amlinellu disgwyliadau clir ynglŷn â'r ffordd y dylai asiantaethau a gweithwyr proffesiynol weithio gyda'i gilydd i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

8.2 Mae Pennod 9 yn rhoi arweiniad ar sut i fynd i'r afael â phryderon ynglŷn â lles plentyn dan amgylchiadau penodol (gan gynnwys pryderon ynglŷn â phlant anabl, cam-drin sefydliadol neu gyfundrefnol ac ati) ond, wrth ymdrin â'r achosion hynny, mae angen rhoi ystyriaeth i'r arweiniad a roddir yn y bennod hon.

Gweithio gyda phlant y mae pobl yn pryderu am eu lles

8.3 Er mwyn sicrhau canlyniadau da i blant, mae'n rhaid i bawb sy'n gyfrifol am asesu a darparu gwasanaethau weithio gyda'i gilydd yn unol â chynllun gweithredu cytunedig. I gydweithio'n effeithiol, mae'n rhaid i sefydliadau a phobl fod yn glir ynglŷn â'r canlynol:

- sail ddeddfwriaethol y gwaith;
- eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau o ran diogelu a hyrwyddo lles plant (a28 o Ddeddf Plant 2004 a phennod 4 Swyddogaethau a Chyfrifoldebau);
- diben eu gweithgareddau, y penderfyniadau sydd angen eu gwneud yn ystod y broses a'r canlyniadau y bwriedir eu sicrhau ar gyfer y plentyn ac aelodau'r teulu;
- y protocolau a'r gweithdrefnau i'w dilyn, gan gynnwys y ffordd y caiff gwybodaeth ei chofnodi a'i rhannu ar draws ffiniau proffesiynol ac o fewn asiantaethau (gweler pennod 12, Rhannu Gwybodaeth);
- pa sefydliad, tîm neu weithiwr proffesiynol sy'n bennaf gyfrifol am y gwaith ac union swyddogaethau pawb arall sy'n cymryd rhan, gan gynnwys y ffordd y bydd plant a theuluoedd yn cymryd rhan;
- unrhyw amserlenni a amlinellir mewn Rheoliadau neu Ganllawiau sy'n llywodraethu'r gwaith o gwblhau asesiadau, gwneud cynlluniau ac amseru adolygiadau.

Egwyddorion sy'n ategu'r gwaith o ddiogelu a hyrwyddo lles plant

8.4 Dylid dilyn yr egwyddorion canlynol wrth roi'r canllawiau a amlinellir yn y bennod hon ar waith. Bydd perthnasedd yr egwyddorion yn amrywio'n dibynnu ar y swyddogaethau a lefel cyfraniad y sefydliad a'r ymarferydd dan sylw. Dylai gwaith gyda phlant a theuluoedd ddilyn yr egwyddorion canlynol:

- canolbwyntio ar y plentyn;
- gwreiddiau mewn datblygiad plant;
- cefnogi'r gwaith o sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant a gwella'u lles;
- dull cyfannol;
- sicrhau cyfle cyfartal;
- cynnwys plant a theuluoedd;
- adeiladu ar gryfderau yn ogystal â nodi a mynd i'r afael ag anawsterau;
- dull aml-asiantaeth/rhyngasiantaethol;
- proses barhaus;
- nodi'r gwasanaethau sydd eu hangen a monitro'r effaith y mae eu darparu'n ei chael ar ddatblygiad plentyn;
- seiliedig ar dystiolaeth.

Canolbwyntio ar y plentyn

8.5 Gan amlaf, mae'r system yn methu pan fo gweithwyr proffesiynol yn canolbwyntio ar eu perthynas â'r oedolion yn hytrach na phroblemau'r plentyn. Dylai'r plentyn fynychu pob un o sesiynau'r ymarferydd a pharhau'n ganolbwynt ar gyfer gwaith gyda'r plentyn a'r teulu. Dylid rhoi cyfle i'r plentyn siarad a rhoi ystyriaeth deg i'w safbwyntiau a'i farn.

Gwreiddiau mewn datblygiad plant

8.6 Dylai'r bobl sy'n gweithio gyda'r plant gael eu llywio gan safbwynt datblygiadol sy'n cydnabod, wrth i blentyn dyfu, ei fod yn parhau i ddatblygu ei sgiliau a'i fedrau. Mae pob cyfnod, o fabandod drwy'r blynyddoedd canol i'r glasoed, yn gosod y seiliau ar gyfer datblygiad mwy cymhleth. Dylai cynlluniau ac ymyriadau i ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn fod yn seiliedig ar asesiad clir o ddatblygiad y plentyn a'r anawsterau y gall fod yn eu hwynebu. Hefyd, dylai camau gweithredu cytunedig fod yn amserol ac yn briodol ar gyfer oedran a chyfnod datblygiad y plentyn.

Canlyniadau i blant

8.7 Wrth weithio'n uniongyrchol gyda phlentyn, dylai unrhyw gynllun a ddatblygir ar gyfer y plentyn a'i deulu neu ei ofalwr fod yn seiliedig ar asesiad o anghenion datblygiadol y plentyn a gallu'r rhieni/gofalwyr i ymateb i'r anghenion hynny mewn cyd-destun cymunedol. Dylai'r cynllun hwn amlinellu'r canlyniadau arfaethedig ar gyfer pob plentyn a dylid cofnodi'r canlyniadau go iawn mewn adolygiad.

8.8 Diben pob ymyrraeth yw sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bob plentyn, gan gydnabod bod pawb yn unigryw. Dylai'r canlyniadau hyn ganolbwyntio ar y canlyniadau allweddol a amlinellir ar gyfer pob plentyn yn Neddf Plant 2004.

Dull cyfannol

8.9 Mae dull cyfannol yn golygu dealltwriaeth o blentyn yng nghyd-destun teulu'r plentyn (rhieni neu ofalwyr a'r teulu ehangach) a'r sefyllfa addysg, y gymuned a'r diwylliant y mae'n cael ei fagu ynddynt. Yn ystod asesiad, mae angen rhoi ystyriaeth fanwl i'r rhyngweithio rhwng anghenion datblygiadol plant, gallu rhieni neu ofalwyr i ymateb yn briodol i'r anghenion hynny ac effaith ffactorau amgylcheddol a theulu ehangach ar blant a gallu rhieni.

8.10 Y prif nod yw deall anghenion datblygiadol y plentyn yng nghyd-destun y teulu a darparu gwasanaethau priodol sy'n ymateb i'r anghenion hynny. Bydd dadansoddi sefyllfa'r plentyn yn llywio'r gwaith cynllunio a'r camau gweithredu er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer y plentyn ac yn llywio'r adolygiad dilynol o effeithiolrwydd y camau a gymerir a'r gwasanaethau a ddarperir. Bydd cyd-destun y plentyn yn fwy cymhleth fyth os yw'n byw oddi cartref ac yn derbyn gofal gan oedolion nad oes ganddynt gyfrifoldeb rhieni drosto.

Sicrhau cyfle cyfartal

8.11 Mae cyfle cyfartal yn golygu bod pob plentyn yn cael cyfle i sicrhau'r datblygiad gorau posibl, waeth beth fo'i ryw, gallu, ethnigrwydd, amgylchiadau neu oedran. Efallai y bydd rhai plant sy'n agored i niwed dan anfantais wrth geisio cael mynediad i gyfleoedd pwysig, a bydd angen rhoi sylw penodol i'w hanghenion iechyd ac addysgol er mwyn gwella'u lles a'u canlyniadau hirdymor yn y dyfodol.

Gweithio gyda phlant a theuluoedd

8.12 Wrth geisio pennu'r hyn sy'n digwydd i blentyn, mae'n bwysig gwrando a datblygu dealltwriaeth o'i ddymuniadau a'i deimladau. Pwysleisir pwysigrwydd datblygu perthynas waith gydweithredol er mwyn i rieni neu ofalwyr deimlo eu bod yn cael eu parchu a'u hysbysu, bod staff yr asiantaeth yn bod yn agored ac yn onest ac, yn eu tro, eu bod yn

hyderus ynglŷn â darparu gwybodaeth hanfodol amdanyn nhw, eu plentyn a'u hamgylchiadau. Dylid cael caniatâd plant, pobl ifanc a'u rhieni neu eu gofalwyr wrth rannu gwybodaeth oni bai y byddai hynny'n rhoi'r plentyn mewn perygl. Dylent hefyd gydsynio i'r penderfyniadau, lle bo hynny'n bosibl, oni bai y byddai hynny'n rhoi'r plentyn mewn perygl.

Adeiladu ar gryfderau yn ogystal â nodi anawsterau

8.13 Mae'n bwysig nodi cryfderau ac anawsterau mewn perthynas â'r plentyn, ei deulu a'r cyd-destun y mae'n byw ynddo, yn ogystal ag ystyried sut y mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar iechyd a datblygiad y plentyn. Yn aml, gwelir bod model gweithio gyda theuluoedd diffygiol ar waith yn amlach na pheidio a'i fod yn anwybyddu meysydd llwyddiant ac effeithiolrwydd hanfodol o fewn y teulu a fyddai'n sail i'w ymyriadau. Daw gweithio gyda chryfderau plentyn neu deulu yn rhan bwysig o gynllun i ddatrys anawsterau.

Dull aml-asiantaeth/rhyngasiantaethol

8.14 O adeg geni'r plentyn, bydd amrywiaeth o wahanol asiantaethau a rhaglenni yn y gymuned yn berthnasol i blant a'u datblygiad, yn enwedig mewn perthynas â'u hiechyd a'u haddysg. Mae gwaith aml-asiantaeth a rhyngasiantaethol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant yn dechrau cyn gynted â bod pryderon yn codi ynglŷn â lles plentyn, nid pan fo cwestiynau'n codi ynglŷn â pherygl posibl.

Asesiad fel proses barhaus, nid digwyddiad

8.15 Mae deall yr hyn sy'n digwydd i blentyn sy'n agored i niwed yng nghyd-destun ei deulu a'r gymuned leol a chymryd camau priodol yn brosesau parhaus a rhyngweithiol, nid digwyddiadau sengl. Dylid darparu camau gweithredu a gwasanaethau'n unol ag anghenion y plentyn a'r teulu, yn gyfochrog â'r gwaith o fonitro ac adolygu asesiadau lle bo angen. Nid oes angen aros tan ddiwedd y broses asesu. Dylid mynd i'r afael ag anghenion uniongyrchol ac ymarferol ochr yn ochr ag anghenion mwy cymhleth a hirdymor.

Seiliedig ar dystiolaeth

8.16 Mae gweithio'n effeithiol gyda phlant a theuluoedd yn gofyn am farn broffesiynol gadarn a ategir gan sail dystiolaeth fanwl sy'n tynnu ar wybodaeth a phrofiad yr ymarferydd.

Bod yn ymwybodol o les plant

8.17 Dylai pawb sydd â chysylltiad â phlant, yn cynnwys pawb sydd wedi gweithio neu wedi cael cysylltiad â phlant, rhieni ac oedolion eraill sydd mewn cysylltiad neu'n ceisio dod i gysylltiad â phlant allu cydnabod a gwybod sut i weithredu ar sail tystiolaeth bod iechyd neu ddatblygiad

plentyn yn cael neu y gallai gael ei amharu, yn enwedig os yw'n dioddef, neu mewn perygl o ddioddef, niwed sylweddol. Dylai ymarferwyr, gofalwyr maeth a rheolwyr fod yn ystyriol o les a diogelwch plant – gan gynnwys plant heb eu geni a phlant hŷn – yn eu gwaith.

Gyda phlant

- Er enghraifft: dylai pob gweithiwr proffesiynol, yn enwedig ym maes addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, allu cydnabod sefyllfaoedd lle mae angen help neu gymorth ychwanegol ar blentyn er mwyn sicrhau nad yw ei iechyd neu ei ddatblygiad yn cael eu hamharu neu er mwyn atal achosion o gam-drin neu esgeulustod. Dylai pob gweithiwr proffesiynol fod yn gyfarwydd â'r safonau craidd a amlinellir yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth.

Gyda rhieni neu ofalwyr sydd angen help i hyrwyddo a diogelu lles eu plant

- Er enghraifft: dylai gwasanaethau iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau i oedolion ystyried y goblygiadau i blant cleifion neu ddefnyddwyr gwasanaethau. Wrth weithio gyda rhieni, mae'n bwysig canolbwyntio ar les plant, gweithio mewn ffyrdd a fydd yn sicrhau gwell canlyniadau i blant a bod yn effro i achosion posibl o gam-drin neu esgeulustod. Er enghraifft, wrth ymdrin ag achosion o gam-drin domestig, dylai'r heddlu ac asiantaethau perthnasol eraill ystyried goblygiadau sefyllfa i unrhyw blant yn y teulu.

Gydag aelodau'r teulu, gweithwyr cyflogedig neu eraill sy'n dod i gysylltiad â phlant

- Er enghraifft: dylai'r heddlu a gwasanaethau prawf, gwasanaethau iechyd meddwl ac awdurdodau tai fod yn effro i'r posibilrwydd y gall unigolyn achosi niwed i blentyn penodol neu blant mewn cymuned leol. Dylai cyflogwyr staff neu wirfoddolwyr leihau'r posibilrwydd o gam-drin trwy brosesau dethol trylwyr, trefniadau goruchwylio priodol a chamau i gynnal a chadw amgylchedd diogel i blant. Am fanylion pellach am y mater hwn, gweler Pennod 13: Rheoli pobl sy'n cyflwyno perygl o niwed i blant.

8.18 Dylai pob aelod o staff sy'n poeni am les neu ddiogelwch plant neu blentyn wybod y canlynol:

- pryd a sut i atgyfeirio at wasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol;
- pa wasanaethau sydd ar gael yn lleol;
- sut i gael mynediad i'r gwasanaethau hynny;
- pa ffynonellau cyngor ac arbenigedd pellach sydd ar gael; ac
- â phwy i gysylltu dan ba amgylchiadau, a sut.

8.19 Pan gyflwynir asesiad Fframwaith Asesu Cyffredin, bydd yn cynorthwyo ymarferwyr i nodi natur a hyd a lled anghenion y plentyn, pa wasanaethau neu asesiad pellach sydd eu hangen a pha weithiwr proffesiynol neu asiantaeth sydd yn y sefyllfa orau i gynorthwyo'r plentyn. Os bydd ymarferydd yn credu bod angen cymorth ychwanegol ar blentyn i hyrwyddo ei les, dylai gwblhau asesiad cyffredin. Mewn rhai achosion, gall asesiad cyffredin nodi bod angen ymyrraeth i amddiffyn y plentyn.

8.20 Gellir trafod unrhyw bryderon gyda rheolwr, gweithiwr iechyd proffesiynol penodedig neu aelod o staff penodedig, yn dibynnu ar y sefydliad. Hefyd, gellir trafod pryderon, heb roi enw'r plentyn dan sylw, gyda chydweithwyr mewn asiantaeth arall er mwyn datblygu dealltwriaeth o anghenion ac amgylchiadau'r plentyn. Os yw'r pryderon hyn yn parhau ar ôl y trafod a'i bod yn ymddangos y byddai'r plentyn a'r teulu'n elwa ar wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau o ran arall o'r un asiantaeth, dylid gwneud penderfyniad ynglŷn ag atgyfeirio at y gwasanaeth priodol. Os ystyrir bod y plentyn yn blentyn mewn angen dan Ddeddf Plant 1989 (gweler 1.2), dylid cyfeirio'r plentyn at wasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol. Mae hyn yn cynnwys plentyn y credir ei fod mewn perygl o gael niwed sylweddol. Os yw'r pryderon hyn yn codi ynglŷn â phlentyn sydd eisoes yn hysbys i wasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol, dylid rhoi gwybod i'r gweithiwr dynodedig am y pryderon hyn.

8.21 Dylai ffynonellau gwybodaeth a chyngor gynnwys o leiaf un meddyg a nyrs brofiadol ddynodedig ym mhob Bwrdd Iechyd Lleol, un meddyg a nyrs brofiadol a dynodedig ym mhob Ymddiriedolaeth GIG ac un aelod o staff dynodedig ym mhob ysgol neu sefydliad addysg bellach. Dylai pawb gael y cyfle i drafod pryderon am les plentyn a cheisio cyngor gan gydweithwyr, rheolwyr, gweithiwr proffesiynol dynodedig neu asiantaethau eraill, ond:

- ni ddylid byth ohirio gweithredu brys i amddiffyn plentyn rhag niwed;
- dylid bob amser gofnodi pryderon ynglŷn â lles plentyn, gan gynnwys y penderfyniad ynglŷn â chymryd camau pellach ai peidio, yn ysgrifenedig; a
- dylid bob amser gofnodi pob trafodaeth ynglŷn â lles plentyn yn ysgrifenedig. Ar ddiwedd y drafodaeth, gwnewch yn siŵr eich bod yn cytuno'n bendant pwy fydd yn cymryd pa gamau, neu'n penderfynu peidio â chymryd camau pellach.

Lles plant heb eu geni

8.22 Dylid dilyn y gweithdrefnau a'r amserlenni a amlinellir yn y bennod hon pan fo pryderon ynglŷn â lles plentyn heb ei eni.

Y prosesau ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles plant

8.23 Mae pedair proses allweddol yn ategu gwaith gyda phlant a theuluoedd, ac mae'n rhaid eu cyflawni'n effeithiol ac mewn trefn er mwyn gwella bywydau'r plant mewn angen. Asesu, cynllunio, ymyrraeth ac adolygu yw'r pedair proses, ac fe'u hamlinellir yn y System Blant Integredig.

8.24 Mae'r siart llif ar ddiwedd y bennod hon yn dangos y prosesau ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles plant:

- o'r pwynt y mae pryderon ynglŷn â phlentyn yn codi ac yn cael eu cyfeirio at sefydliad statudol sy'n gallu cymryd camau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant (Siart 1);
- trwy asesiad cychwynnol o sefyllfa'r plentyn a'r hyn fydd yn digwydd ar ôl hynny (Siart 2);
- cymryd camau brys, os oes angen (Siart 3);
- cynnal trafodaeth strategaeth, lle mae pryderon ynglŷn â diogelwch plentyn, a thu hwnt i'r gynhadledd amddiffyn plant (Siart 4);
- yr hyn sy'n digwydd ar ôl y gynhadledd amddiffyn plant, a'r broses adolygu (Siart 5).

Atgyfeirio at wasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol lle mae pryderon ynglŷn â lles plentyn

8.25 Mae gan wasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol, ynghyd ag asiantaethau eraill, gyfrifoldebau tuag at blant y bydd eu hiechyd neu eu datblygiad yn cael ei amharu oni bai y darperir gwasanaethau, neu tuag at blant anabl (a ddiffinnir yn adran 17 o Ddeddf Plant 1989 fel plant 'mewn angen'). Dylai pob asiantaeth â chyfrifoldeb o'r fath:

- roi gwybod i blant a theuluoedd sut i gysylltu â hi;
- rhoi gwybod i blant a theuluoedd am yr hyn y gallant ei ddisgwyl o ran help, cyngor a gwasanaethau;
- cytuno ar feini prawf BLlDP gyda gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol lleol ynglŷn â phryd y byddai'n briodol atgyfeirio plentyn mewn angen at wasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol;
- cytuno ar fformat ar gyfer atgyfeirio a rhannu'r wybodaeth a gofnodir.

8.26 Pan gaiff ei gyflwyno, bydd y fframwaith asesu cyffredin yn cynnig sail ar gyfer atgyfeirio a rhannu gwybodaeth rhwng sefydliadau.

Atgyfeirio

8.27 Os cred rhywun bod plentyn yn dioddef, neu mewn perygl o ddioddef, niwed sylweddol, dylai gyfeirio ei bryderon at wasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol cyn gynted â phosibl. Yn ogystal â'r gwasanaethau cymdeithasol, mae gan yr heddlu â'r NSPCC rym i ymyrryd dan yr amgylchiadau hyn. Weithiau, bydd pryderon yn codi o fewn gwasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol wrth i wybodaeth newydd ynglŷn â phlentyn a theulu y mae staff eisoes mewn cysylltiad â nhw ddod i'r amlwg. Er y dylai gweithwyr proffesiynol, yn gyffredinol, geisio trafod unrhyw bryderon gyda'r teulu a, lle'n bosibl, ceisio'i annog i gytuno i atgyfeirio at wasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol, **dim ond lle na fydd trafodaeth a chytundeb o'r fath yn debygol o roi plentyn mewn mwy o berygl o niwed sylweddol y dylid gwneud hyn**. Pan fo rhiant, gweithiwr proffesiynol neu unigolyn arall yn cysylltu â gwasanaethau cymdeithasol plant gyda phryderon ynglŷn â lles plentyn, mae gan wasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol gyfrifoldeb i egluro i'r sawl sy'n atgyfeirio (gan gynnwys hunan-atgyfeiriadau gan blant a theuluoedd):

- natur y pryderon;
- sut y mae'r pryderon hynny wedi codi;
- anghenion y plentyn a'r teulu.

8.28 Dylai'r broses hon bob amser nodi unrhyw bryderon ynglŷn ag achosion o gam-drin neu esgeulustod, y rheswm drostynt ac a oes angen ystyried cymryd camau brys i sicrhau bod unrhyw blant yn cael eu hamddiffyn rhag niwed.

8.29 Os bydd gwasanaethau cymdeithasol plant awdurdodau lleol yn ymchwilio i bryderon ynglŷn â lles plentyn sy'n cynnwys neu'n gallu cynnwys trosedd yn erbyn plentyn, dylent bob amser drafod yr achos gyda'r heddlu. Yn yr un modd, pan fo asiantaethau eraill, gan gynnwys adrannau eraill yr awdurdod lleol, yn dod ar draws pryderon ynglŷn â lles plentyn sy'n cynnwys neu'n gallu cynnwys trosedd yn erbyn plentyn, dylent atgyfeirio'r achos at yr heddlu ar unwaith er mwyn amddiffyn y plentyn neu blant eraill rhag y perygl o niwed difrifol.

8.30 Pan fydd gweithwyr proffesiynol yn atgyfeirio achos at wasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol dros y ffôn, dylent gadarnhau'r atgyfeiriad yn ysgrifenedig o fewn 48 awr. Pan gaiff ei roi ar waith, bydd y fframwaith asesu cyffredin yn darparu strwythur ar gyfer yr atgyfeiriad ysgrifenedig.

Rhannu gwybodaeth

8.31 Bydd rhannu gwybodaeth am achosion sy'n peri pryder yn galluogi sefydliadau i ystyried sut i fynd ati i ddiogelu lles ac amddiffyn plant yn fwy cyffredinol. Mae canllawiau pellach ar rannu gwybodaeth rhyngasiantaethol ym mhennod 14.

8.32 Wrth fynd i'r afael â throseddau honedig mewn perthynas â phlentyn, dylai'r heddlu fel arfer weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau cymdeithasol plant a/neu asiantaethau eraill. Er mai'r heddlu sy'n gyfrifol am annog pobl i gyflwyno achos troseddol, dylai ystyried barn asiantaethau eraill. Mewn achosion llai difrifol, ar ôl trafod, cytunir y byddai gwasanaethau cymdeithasol plant neu ymyrraeth iechyd, yn hytrach nag ymchwiliad llawn gan yr heddlu, yn fwy priodol er lles y plentyn.

Cyfrinachedd

8.33 Mae gan lawer o weithwyr proffesiynol ddyletswydd cyfrinachedd. Mae'r ddyletswydd hon yn bwysig er mwyn cynnal hyder a chyfranogiad mewn gwasanaethau a helpu i ddiogelu iechyd a lles plentyn. Ond, fel y nodir mewn canllawiau perthnasol, nid yw'r ddyletswydd cydraddoldeb yn absoliwt ac, mewn rhai achosion, gellir ei hepgor er lles y plentyn a'r cyhoedd. Os bydd gweithwyr proffesiynol o'r farn bod angen datgelu gwybodaeth i amddiffyn y plentyn neu blant eraill rhag perygl o niwed difrifol, gellir torri'r ddyletswydd cyfrinachedd. Os bydd gweithwyr proffesiynol o'r farn bod angen rhannu gwybodaeth gyfrinachol gyda gwasanaethau cymdeithasol plant neu'r heddlu:

- Dylent geisio annog y plentyn, os mai'r plentyn yw'r ffynhonnell wybodaeth, i gytuno i ddatgelu gwybodaeth o fewn amserlen resymol;
- Gallant drafod yr achos gydag eraill, fel cydweithiwr â phrofiad addas o waith amddiffyn plant neu wasanaethau cymdeithasol plant, heb ddatgelu enw'r plentyn;
- Dylid rhoi gwybod i'r plentyn, oni bai y byddai gwneud hynny'n peryglu eu diogelwch yn ddifrifol;
- Dylid cofnodi'n gywir unrhyw benderfyniad i rannu gwybodaeth neu beidio;
- Efallai y bydd angen i bobl â phrofiad addas o waith amddiffyn plant, fel gweithwyr proffesiynol dynodedig, wneud penderfyniadau neu roi cyngor ar y maes hwn.

Honiadau o niwed o ganlyniad i weithgarwch rhywiol dan oedran

8.34 Mae achosion o weithgarwch rhywiol dan oedran sy'n peri pryder yn debygol o fod yn lletchwith ac anodd i'w trafod a dylid eu trin yn sensitif.

8.35 Yn ôl y gyfraith, nid yw plentyn dan 13 oed yn gallu cydsynio i weithgarwch rhywiol. Mae unrhyw drosedd dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 sy'n cynnwys plentyn dan 13 oed yn ddifrifol iawn a dylid ystyried bod yna berygl o niwed sylweddol i'r plentyn.

8.36 Dylid trafod pob achos sy'n cynnwys plentyn dan 13 oed gyda swyddog amddiffyn plant enwebedig arweiniol y sefydliad. Dan y Ddeddf Troseddau Rhywiol, ystyrir rhyw treiddiol gyda phlentyn dan 13 oed yn drais rhywiol. Os yw'r honiad yn ymwneud â rhyw treiddiol, neu weithgarwch rhywiol personol arall, byddai achos rhesymol dros amau bod plentyn, yn ferch neu fachgen, yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol. Tybir y bydd yr achos yn cael ei gyflwyno i'r gwasanaethau cymdeithasol a chynhelir trafodaeth strategaeth yn unol â'r canllawiau a amlinellir ym mharagraff 8.77 isod. Dylai hyn gynnwys gwasanaethau cymdeithasol plant, yr heddlu ac asiantaethau perthnasol yn trafod camau priodol gyda'r gweithiwr proffesiynol. Dylid cofnodi pob achos sy'n cynnwys plant dan 13 oed yn llawn, gan gynnwys rhesymau manwl os penderfynir peidio â rhannu gwybodaeth.

8.37 Mae gweithgarwch rhywiol gyda phlentyn dan 16 oed hefyd yn drosedd. Os yw'r plentyn yn cydsynio, gall fod yn llai difrifol na phe bai'r plentyn dan 13 oed ond gall gael effaith ddifrifol ar les yr unigolyn ifanc. Ym mhob achos o weithgarwch rhywiol sy'n cynnwys plentyn rhwng 13-15 oed, dylid pwyso a mesur y posibilrwydd o drafod y mater gydag asiantaethau eraill a chyfeirio at wasanaethau cymdeithasol plant. Dylai'r gweithiwr proffesiynol ddefnyddio'r ystyriaethau isod i wneud yr asesiad hwn. O fewn yr amrediad oed hwn, po ifancaf yw'r plentyn, po fwyaf y tybir bod y gweithgarwch rhywiol yn destun pryder. Dylid trafod achosion o bryder gyda'r swyddog amddiffyn plant enwebedig arweiniol ac asiantaethau eraill os oes angen. Os bydd angen cynnal cyfrinachedd, gellir trafod y mater cyn belled nad yw'n enwi'r plentyn (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol). Os bydd achos rhesymol dros amau bod plentyn yn dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol, tybir y bydd yr achos yn cael ei gyflwyno i wasanaethau cymdeithasol plant a chynhelir trafodaeth strategaeth a phenderfynir ar gamau priodol i'w cymryd. Eto, dylid cofnodi pob achos yn ofalus, gan gynnwys os penderfynir peidio â rhannu gwybodaeth.

8.38 Dylid pwyso a mesur yr ystyriaethau yn y rhestr wirio ganlynol wrth asesu i ba raddau y mae plentyn (neu blant eraill) yn dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed, ac felly'r angen am drafodaeth strategaeth er mwyn rhannu gwybodaeth:

- Oedran y plentyn. Mae gweithgarwch rhywiol pan fo plentyn yn ifanc yn ddangosydd clir bod lles y plentyn (yn fachgen neu ferch) ac eraill o bosib, mewn perygl;
- Aeddfedrwydd a lefel dealltwriaeth y plentyn;
- Yr wybodaeth sydd ar gael am amgylchiadau byw neu gefndir y plentyn;
- Anghydbwysedd oedran, yn enwedig os oes gwahaniaeth oedran sylweddol;
- Ymddygiad ymosodol neu anghydbwysedd grym;
- Gorfodaeth neu lwgrwobrwyo;
- Troseddau rhywiol yn erbyn plentyn yn y teulu;
- Ymddygiad y plentyn h.y. pell, pryderus;
- Camddefnyddio sylweddau i leddfu'r boen;
- Os yw ymddygiad y plentyn, oherwydd camddefnyddio sylweddau, yn ei roi mewn perygl fel na all wneud dewis gwybodus ynglŷn ag unrhyw weithgarwch;
- Os yw'r partner rhywiol wedi ceisio sicrhau cyfrinachedd, y tu hwnt i'r hyn a ystyrir yn gyffredin mewn perthynas rhwng pobl yn eu harddegau;
- Os yw'r plentyn yn gwadu, yn dibrisio neu'n derbyn pryderon;
- Os yw'r dulliau a ddefnyddir yn gyson â meithrin perthynas amhriodol; ac
- Os yw'r partner rhywiol yn hysbys i un o'r asiantaethau.

8.39 Mewn achosion o bryder, pan fo gwybodaeth ddigonol ar gael am y partner/iaid rhywiol, dylai'r asiantaeth dan sylw wirio'r wybodaeth gydag asiantaethau eraill, gan gynnwys yr heddlu, i sefydlu'r wybodaeth sydd ar gael am yr unigolyn/unigolion. Fel rheol, dylai'r heddlu rannu'r wybodaeth ofynnol heb gychwyn ymchwiliad llawn os bydd yr asiantaeth sy'n gwirio'n dymuno hynny.

8.40 Gall gweithgarwch rhywiol sy'n cynnwys unigolyn 16 neu 17 oed, er ei fod yn annhebygol o fod yn drosedd, achosi niwed neu'r perygl o niwed. Dylai gweithwyr proffesiynol bwyso a mesur yr ystyriaethau a'r prosesau a amlinellir yn yr arweiniad hwn wrth asesu'r risg honno a rhannu gwybodaeth fel sy'n briodol. Mae'n drosedd i unigolyn gael perthynas rywiol gydag unigolyn 16 neu 17 oed os oes ganddo swydd gyfrifol neu awdurdod mewn perthynas â'r unigolyn.

8.41 Dylid rhoi'r canllawiau hyn ar waith trwy ddatblygu protocolau lleol a ategir gan hyfforddiant rhyngasiantaethol.

Ymateb gwasanaethau cymdeithasol i gysylltiadau ac atgyfeiriadau

8.42 Dylid hyfforddi aelodau staff rheng flaen gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol i drosglwyddo galwadau ynglŷn â diogelwch plant i'r tîm dyletswydd priodol **heb oedi**, ar ôl cofnodi enw'r plentyn, ei gyfeiriad a natur y pryder. Os na ellir trosglwyddo galwad yn syth, dylid gofyn i'r cyfeiriwr am fanylion pellach (gan gynnwys ei enw, ei gyfeiriad a'i rif ffôn cyswllt). Yna, dylid cyfleu'r wybodaeth i'r tîm dyletswydd ar lafar ac yn ysgrifenedig. Os yw'r alwad yn nodi bod y plentyn mewn perygl uniongyrchol o niwed, dylid atgyfeirio'r wybodaeth yn syth i uwch-swyddog gwasanaethau cymdeithasol os nad yw'r tîm dyletswydd ar gael.

8.43 Ar ddiwedd unrhyw drafodaeth neu ddeialog ynglŷn â phlentyn, dylai'r atgyfeiriwr (boed yn weithiwr proffesiynol neu aelod o'r cyhoedd neu'r teulu) a gwasanaethau cymdeithasol plant yr awdurdod lleol fod yn glir ynglŷn â'r:

- camau i'w cymryd, neu'r ffaith na chymerir unrhyw gamau;
- amserlenni;
- pwy fydd yn cymryd y camau/swyddogaethau a chyfrifoldebau;
- yr hyn a ddywedir wrth y plentyn a'r rhieni ynglŷn â'r atgyfeiriad.

8.44 Dylai gwasanaethau cymdeithasol plant yr awdurdod lleol a'r atgyfeiriwr (os yw'n weithiwr proffesiynol mewn gwasanaeth arall) gofnodi'r penderfyniad.

8.45 Dylai gwasanaethau cymdeithasol plant yr awdurdod lleol gydnabod pob atgyfeiriad yn ysgrifenedig mewn ffordd amserol.

8.46 Os na fydd yr atgyfeiriwr wedi derbyn cydnabyddiaeth o fewn 7 diwrnod gwaith, dylai gysylltu â gwasanaethau cymdeithasol plant yr awdurdod lleol.

8.47 Dylai'r gwasanaethau cymdeithasol plant benderfynu ar gamau gweithredu a'u cofnodi o fewn diwrnod gwaith. Dylai'r wybodaeth a gofnodir mewn perthynas ag atgyfeiriad fod yn gyson â'r wybodaeth a amlinellir yng Nghofnod Gwybodaeth a Chyfeirio'r System Blant Integredig (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002). Fel rheol, dylai'r penderfyniad hwn ddilyn:

- trafodaeth gyda'r gweithiwr proffesiynol/gwasanaeth sy'n atgyfeirio;
- ystyriaeth o wybodaeth a gedwir mewn unrhyw gofnodion cyfredol; a
- thrafodaeth gyda gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau eraill, yn ôl yr angen (gan gynnwys yr heddlu, os oes trosedd wedi'i chyflawni yn erbyn plentyn).

8.48 Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, dylai'r ystyriaeth gychwynnol hon o'r achos fynd i'r afael â phryderon ynglŷn ag iechyd neu ddatblygiad y plentyn neu niwed gwirioneddol a/neu'r perygl o niwed sy'n cyfiawnhau asesiad cychwynnol sy'n nodi bod y plentyn hwn, o bosib, yn blentyn mewn angen. Gall camau pellach hefyd gynnwys atgyfeirio at asiantaethau eraill, darparu cyngor neu wasanaethau neu beidio â chymryd camau pellach.

8.49 Dylid cael caniatâd y rhieni, neu'r plentyn lle bo hynny'n briodol, cyn trafod atgyfeirio'r achos gydag asiantaethau eraill, oni bai y gall gofyn am ganiatâd roi'r plentyn mewn perygl o niwed sylweddol.

8.50 Wrth ymateb i atgyfeiriadau gan aelod o'r cyhoedd, yn hytrach na gweithiwr proffesiynol arall, dylai gwasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol gofio mai dim ond i drydydd partïon (gan gynnwys y teuluoedd ac asiantaethau eraill) a chyda chaniatâd yr atgyfeiriwr y dylid datgelu gwybodaeth bersonol am yr atgyfeiriwr, gan gynnwys manylion y gellir eu defnyddio i'w adnabod.

8.51 Ym mhob achos sy'n cynnwys yr heddlu, bydd y penderfyniad mewn perthynas â rhoi gwybod i'r rhieni (ynglŷn ag atgyfeiriadau gan drydydd partïon) yn cael effaith ar ymchwiliadau'r heddlu.

Gall atgyfeiriadau at wasanaethau cymdeithasol arwain at:

- Yr angen i gymryd camau uniongyrchol (gweler isod).
- Penderfynu bod angen asesiad cychwynnol/darparu gwasanaethau.
- Cyfeirio'r atgyfeiriad yn fwy priodol at asiantaeth arall ar gyfer gwasanaethau/cyngor.
- Peidio â chymryd camau pellach.

8.52 Os bydd gwasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol yn penderfynu peidio â chymryd camau pellach, dylid rhoi adborth i'r atgyfeiriwr ynglŷn â'r penderfyniad a'r rhesymau drosto. Yn achos atgyfeiriadau gan aelodau'r cyhoedd, dylid gwneud hyn mewn ffordd sy'n parchu cyfrinachedd y plentyn.

Camau uniongyrchol i amddiffyn plentyn

8.53 Weithiau, efallai y bydd angen cymryd camau brys i ddiogelu a hyrwyddo lles plentyn. Fel rheol, cyn penderfynu cymryd camau o'r fath, dylai'r heddlu, gwasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol ac asiantaethau eraill, fel sy'n briodol, gynnal trafodaeth strategaeth uniongyrchol.

8.54 Efallai y daw gwybodaeth newydd am blentyn neu deulu i law os bydd y plentyn neu aelod o'r teulu eisoes yn hysbys i wasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol. Os yw achos y plentyn yn agored a

bod pryderon bod y plentyn yn dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed, dylid penderfynu a ddylid cynnal trafodaeth strategaeth. Dan yr amgylchiadau hyn, efallai na fydd angen cynnal asesiad cychwynnol i lywio'r penderfyniad hwn. Fodd bynnag, efallai y byddai'n briodol cynnal asesiad craidd neu ddiweddaru asesiad blaenorol er mwyn deall anghenion ac amgylchiadau cyfredol y plentyn a llywio penderfyniadau yn y dyfodol.

Asesiad cychwynnol

8.55 Ystyr asesiad cychwynnol yw asesiad cryno o bob plentyn a atgyfeirir at wasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol lle bo angen pennu a yw'r plentyn yn blentyn mewn angen, natur unrhyw wasanaethau sydd eu hangen ac a ddylid cynnal asesiad craidd manylach (paragraff 3.9 y Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd (2001)). Dylai'r asesiad gael ei gwblhau gan wasanaethau cymdeithasol plant yr awdurdod lleol, gyda chymorth a chefnogaeth cydweithwyr o asiantaethau perthnasol, o fewn saith diwrnod gwaith i ddyddiad yr atgyfeiriad. Os bodlonir y meini prawf ar gyfer cychwyn ymholiadau a47, gall cyfnod yr asesiad fod yn fyr iawn. Dylid cynnal yr asesiad cychwynnol yn unol â'r Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd.

8.56 Os bydd asesiad cyffredin wedi'i gwblhau, dylid defnyddio'r wybodaeth hon i lywio'r asesiad cychwynnol.

8.57 Dylai fynd i'r afael â'r cwestiynau canlynol:

- beth yw anghenion datblygiadol y plentyn?
- a yw'r rhieni'n gallu ymateb yn briodol i anghenion y plentyn? A yw'r plentyn yn cael ei amddiffyn rhag niwed ac a yw'r rhieni'n gallu hyrwyddo iechyd a datblygiad y plentyn?
- beth yw effaith y teulu ehangach a'r amgylchedd ar anghenion ac amgylchiadau'r plentyn a pha gymorth sydd ar gael;
- a oes angen cymryd camau i ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn?

8.58 Dylid cynllunio'r asesiad cychwynnol yn ofalus ar ôl ystyried mater cydsynio. Dylid sicrhau eglurder ynglŷn â phwy sy'n gwneud beth, yn ogystal â pha wybodaeth i'w rhannu gyda rhieni a phryd. Dylid trefnu'r broses gynllunio a phenderfyniadau ynglŷn ag amseru'r gwahanol weithgareddau asesu mewn cydweithrediad â phawb sydd mewn cysylltiad â'r plentyn a'r teulu. Dylai'r asesiad cychwynnol gynnwys:

- gweld y plentyn a siarad ag ef (yn ôl oedran a dealltwriaeth) ac aelodau'r teulu fel sy'n briodol;
- casglu a dadansoddi gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau (gan gynnwys cofnodion cyfredol); a

- chynnwys a chael gwybodaeth berthnasol gan weithwyr proffesiynol ac eraill sydd mewn cysylltiad â'r plentyn a'r teulu.

8.59 Dylid ystyried yr holl wybodaeth berthnasol (gan gynnwys gwybodaeth hanesyddol). Mae hyn yn cynnwys cael gwybodaeth gan wasanaethau perthnasol os yw'r plentyn a'r teulu wedi byw dramor. Dylai gweithwyr proffesiynol o asiantaethau fel gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol neu'r heddlu wneud cais am yr wybodaeth hon gan eu hasiantaethau cyfatebol yn y wlad/gwledydd y mae'r plentyn wedi byw ynddynt. Mae gwybodaeth am bwy i gysylltu â nhw ar gael gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad ar 0207 008 1500 neu'r Llysgenhadaeth neu'r Swyddfa Is-gennad briodol yn Llundain (gweler Rhestr Ddiplomyddol Llundain (Y Llyfrfa), ISBN 0 11 591772 1 neu wefan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad www.fco.gov.uk).

8.60 Dylid gweld y plentyn fel rhan o'r asesiad cychwynnol o fewn amserlen sy'n briodol i natur y pryderon a fynegwyd adeg yr atgyfeirio (gall hyn olygu gweld y plentyn heb ei ofalwyr). Mae hyn yn cynnwys gweld a chyfathrebu â'r plentyn mewn ffordd sy'n briodol i'w oedran a'i ddealltwriaeth. Yn ôl Deddf Plant 1989 (fel y'i diwygiwyd gan a53 o Ddeddf Plant 2004), mae'n ofynnol i wasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol bennu dymuniadau a theimladau'r plentyn ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarperir a rhoi ystyriaeth ddigonol i hyn cyn penderfynu pa wasanaethau (os o gwbl) i'w darparu. Dylid cynnal cyfweliadau gyda'r plentyn yn yr iaith sydd orau ganddo. Ar gyfer rhai plant anabl, efallai y bydd angen defnyddio dulliau cyfathrebu eraill.

8.61 Efallai na fydd yn glir a oes trosedd wedi'i chyflawni, sy'n golygu y dylid cynnal trafodaethau gyda'r plentyn mewn ffordd sy'n lleihau'r pwysau arno ac yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd yn darparu gwybodaeth gywir a chyflawn, gan osgoi cwestiynau arweiniol ac awgrymog. Os ydych chi'n amau bod trosedd wedi'i chyflawni, dylech atgyfeirio'r achos yn uniongyrchol at yr heddlu. Ni ddylech gwestiynu'r plentyn ynglŷn ag unrhyw drosedd bosib, er mwyn osgoi peryglu ymchwiliad yr heddlu.

8.62 Dylid hefyd gynnal cyfweliadau ag aelodau'r teulu (gall hyn gynnwys y plentyn) yn yr iaith sydd orau ganddynt a, lle bo hynny'n briodol, trwy ddefnyddio dulliau cyfathrebu eraill.

8.63 Yn ystod asesiad cychwynnol, dylai gwasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol bennu:

- a yw'r plentyn yn blentyn mewn angen? (a17 o Ddeddf Plant 1989);
- a oes yna achos rhesymol dros amau bod y plentyn hwn yn dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol? (a47 Deddf Plant 1989).

8.64 Dylai'r asesiad cychwynnol ganolbwyntio ar les y plentyn. Mae'n bwysig cofio y gall teulu elwa ar gymorth a help ymarferol i hyrwyddo iechyd a datblygiad plentyn, hyd yn oed os mai pryder ynglŷn â cham-drin neu esgeulustod nas profwyd oedd y rheswm dros yr atgyfeirio. Pan fo gwasanaethau'n cael eu darparu, dylid datblygu cynllun plentyn yn seiliedig ar gasgliadau'r asesiad cychwynnol. Os yw anghenion ac amgylchiadau'r plentyn yn gymhleth, bydd angen asesiad craidd mwy trylwyr dan a17 o Ddeddf Plant 1989 er mwyn penderfynu pa fathau eraill o wasanaethau sydd eu hangen i helpu'r plentyn a'r teulu (Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Swyddfa Gartref, 2001). Mae amrywiaeth o ddeunyddiau ar gael i gefnogi ymarferwyr i gynnal asesiadau seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r deunyddiau hyn yn cynnwys y Llawlyfr Arsylwi yn y Cartref (Cox a Walker, 2002) a'r Pecyn Asesu Teuluoedd - Holiaduron a Graddfeydd (Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cox a Bentovim, 2001). Bwriad Atodiad B – Defnydd o Holiaduron a Graddfeydd fel tystiolaeth o asesu a gwneud penderfyniadau - yw helpu ymarferwyr i gynnal asesiadau a gwneud penderfyniadau seiliedig ar dystiolaeth.

8.65 Yn dilyn asesiad cychwynnol, dylai gwasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol benderfynu ar y cam nesaf, yn dilyn trafodaeth gyda'r plentyn a'r teulu, oni bai y byddai trafodaeth o'r fath yn rhoi'r plentyn mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol. Os ydych chi'n pryderu ynglŷn â gallu rhiant i amddiffyn plentyn rhag niwed, dylid rhoi ystyriaeth ofalus i'r hyn a ddywedir wrth y rhieni, pryd a chan bwy, gan gofio ystyried lles y plentyn. Os yw'n glir y dylai'r heddlu gynnal ymchwiliad fel rhan o ymholiad amddiffyn plant dan a47, bydd yr ystyriaethau isod yn berthnasol. Pa bynnag benderfyniadau a wneir, dylent gael eu cefnogi gan uwch-reolwr, dylai gwasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol gytuno arnynt a dylid eu cofnodi'n ysgrifenedig. Dylai'r wybodaeth hon fod yn gyson â'r wybodaeth a geir yn y Cofnod Asesiad Cychwynnol (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002). Dylai'r cofnod hefyd gynnwys y rhesymau dros y penderfyniadau hyn a chamau i'w cymryd yn y dyfodol. Os yn bosib, dylai'r teulu, yr atgyfeiriwr gwreiddiol a gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau eraill sy'n rhan o'r asesiad gael gwybod pa gamau sydd wedi'u cymryd a pha gamau a gymerir yn y dyfodol, gan gofio parchu cyfrinachedd y plentyn a'r teulu dan sylw a pheidio â pheryglu camau pellach mewn perthynas â phryderon ynglŷn â niwed (gall hyn gynnwys ymchwiliadau'r heddlu). Dylid anfon cadarnhad ysgrifenedig o'r wybodaeth hon i'r asiantaethau a'r teulu.

Os yw'n glir y dylai'r heddlu gynnal ymchwiliad yn unol ag ymholiad dan a47, bydd yr ystyriaethau canlynol yn berthnasol:

a) Mae plant yn ffynhonnell wybodaeth allweddol ac, weithiau, yr unig ffynhonnell wybodaeth am yr hyn sydd wedi digwydd iddyn nhw, yn enwedig mewn achosion o gam-drin rhywiol, ond hefyd mewn achosion o gam-drin corfforol a mathau eraill o gam-drin.

b) Mae gwybodaeth gywir a chyflawn yn hanfodol er mwyn cymryd camau i hyrwyddo lles y plentyn, yn ogystal ag ar gyfer unrhyw achosion troseddol mewn perthynas â'r sawl sydd wedi cyflawni'r drosedd honedig.

c) Pan fyddwch yn gweld plentyn am y tro cyntaf, efallai na fydd natur a graddau unrhyw niwed yn glir ac efallai na fydd yn glir a oes trosedd wedi'i chyflawni o gwbl.

ch) Mae'n bwysig i drafodaethau cychwynnol gyda phlant gael eu cynnal mewn ffordd sy'n lleihau'r pwysau arnyn nhw ac yn cynyddu'r tebygolrwydd y byddant yn darparu gwybodaeth gywir a chyflawn.

d) Lle bo hynny'n bosibl, mae'n bwysig cyfathrebu â phlentyn ar wahân, heb ei rieni neu eraill.

dd) Dylid osgoi cwestiynau arweiniol neu awgrymog.

e) Efallai y bydd plant angen amser, a mwy nag un cyfle, er mwyn magu digon o ymddiriedaeth i gyfleu unrhyw bryderon sydd ganddynt, yn enwedig os oes ganddynt anawsterau cyfathrebu, anawsterau dysgu, os ydynt yn ifanc iawn neu'n dioddef o broblemau iechyd meddwl.

Dan amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd angen i dîm ymholiadau/ymchwilio siarad â phlentyn heb yn wybod i'r rhiant neu'r gofalwr. Byddai amgylchiadau perthnasol yn cynnwys:

- y posibilrwydd y byddai plentyn yn cael ei fygwth neu ei orfodi i gadw'n dawel;
- y tebygolrwydd y byddai tystiolaeth bwysig yn cael ei dinistrio; neu
- nad oedd y plentyn dan sylw am i'r rhiant fod yn rhan o'r ymchwiliad ar yr adeg honno, a'i fod yn gymwys i wneud y penderfyniad hwnnw;
- Ym mhob achos sy'n cynnwys yr heddlu, dylid cynnal trafodaeth strategaeth i benderfynu beth i'w ddweud wrth y plentyn/rhieni/gofalwr, sut, pryd a chan bwy am y gall hyn gael effaith ar yr ymholiadau/ymchwiliad;
- Pa bynnag benderfyniadau a wneir, dylent gael eu cefnogi gan uwch-reolwr, dylai gwasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol gytuno arnynt a dylid eu cofnodi'n ysgrifenedig, yn ogystal â'r rhesymau drostynt;
- Os yn bosib, dylai'r teulu, yr atgyfeiriwr gwreiddiol a gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau eraill sy'n rhan o'r asesiad gael gwybod pa gamau sydd wedi'u cymryd, gan gofio parchu cyfrinachedd y plentyn a'r teulu dan sylw a pheidio â pheryglu camau pellach mewn perthynas â phryderon ynglŷn ag amddiffyn plant (gall hyn gynnwys ymchwiliadau'r heddlu).

Camau nesaf – plentyn mewn angen ond heb niwed sylweddol gwirioneddol neu debygol

8.66 Gall asesiad cychwynnol nodi bod plentyn yn 'blentyn mewn angen' yn ôl diffiniad a17 o Ddeddf Plant 1989, ond efallai na ellir profi pryderon bod y plentyn yn dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol. Efallai y bydd gwybodaeth ddigonol ar gael i benderfynu pa wasanaethau (os o gwbl) y dylid eu darparu a chan bwy yn unol â chynllun cytunedig. Ar y llaw arall, efallai y bydd angen cynnal asesiad mwy trylwyr er mwyn deall anghenion ac amgylchiadau'r plentyn. Dan yr amgylchiadau hyn, mae'r *Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd* (Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Swyddfa Gartref, 2000) yn darparu arweiniad ar gynnal asesiad craidd. Gall yr asesiad craidd hwn ddarparu sail dystiolaeth gadarn i bennu pa fathau o wasanaethau sy'n debygol o sicrhau canlyniadau da i'r plentyn. Gall Cynadleddau Grwpiau Teulu (gweler paragraffau 7.17 – 7.22) fod yn llwyfan effeithiol ar gyfer datblygu gwaith mewn achosion o'r fath.

8.67 Mae'r diffiniad o 'blentyn mewn angen' yn eang, ac mae'n cynnwys plant dan amrywiaeth eang o amgylchiadau. Bydd y mathau o wasanaethau a fydd yn helpu plant a theuluoedd o'r fath yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar eu hanghenion a'u hamgylchiadau.

Asesiad cychwynnol ac ymholiadau: Deg perygl a sut i'w hosgoi

Ni roddir digon o bwyslais ar wybodaeth gan y teulu, ffrindiau a chymdogion.

- Gofynnwch i chi'ch hun: A fyddem yn ymateb yn wahanol pe bai'r adroddiadau hyn yn dod o wahanol ffynhonnell? Sut alla i wneud yn siŵr bod sylwedd iddyn nhw? Hyd yn oed os nad ydyn nhw'n gywir, a ydyn nhw'n awgrymu bod angen rhyw fath o help neu gymorth ar y teulu?

Ni roddir digon o sylw i'r hyn y mae plant yn ei ddweud, eu hymddangosiad a'u hymddygiad.

- Gofynnwch i chi'ch hun: Ydw i wedi cael mynediad priodol i'r holl blant yn y teulu? Os nad ydw i wedi gallu gweld unrhyw blentyn, a oes yna reswm da iawn dros hynny ac ydw i wedi gwneud trefniadau i'w weld cyn gynted â phosib? Sut ddylwn i fynd i'r afael ag unrhyw bryder ynglŷn ag iechyd neu ddatblygiad y plentyn/plant? A yw'r plentyn yn ddigon hen ac a oes ganddo'r sgiliau cyfathrebu, beth yw fersiwn y plentyn o'r hyn a ddigwyddodd? Os yw'r plentyn yn defnyddio iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg, neu ddull cyfathrebu arall, ydw i wedi gwneud pob ymdrech i gael cymorth i'w ddeall? Pa dystiolaeth sy'n cefnogi neu'n gwrthbrofi fersiwn y plentyn neu'r unigolyn ifanc?

Rhoddir gormod o sylw i'r problemau mwyaf amlwg neu weledol ac ni werthfawrogir rhybuddion eraill.

- Gofynnwch i chi'ch hun: Beth yw'r peth mwyaf trawiadol am y sefyllfa hon? Pe bai'r nodwedd hon yn cael ei newid neu ei dileu, a fyddem yn parhau i bryderu?

Pwysau gan atgyfeirwyr statws uchel neu'r wasg, gydag ofn y gall plentyn farw, yn arwain at weithredu byrbwyll.

- Gofynnwch i chi'ch hun: A fyddem yn ystyried bod yr atgyfeiriad hwn yn fater sy'n ymwneud ag amddiffyn y plentyn pe bai'n dod o ffynhonnell arall?

Gweithwyr proffesiynol yn tybio, ar ôl iddyn nhw esbonio rhywbeth cystal ag y gallant, bod yr unigolyn arall wedi ei ddeall.

- Gofynnwch i chi'ch hun: Ydw i wedi gwneud yn siŵr bod y teulu a'r plentyn/plant yn deall beth fydd yn digwydd nesaf?

Mae tybiaethau a rhagdybiaethau ynglŷn â theuluoedd yn arwain at anwybyddu neu gamddehongli sylwadau.

- Gofynnwch i chi'ch hun: Beth oedd fy nhybiaethau ynglŷn â'r teulu hwn? Pa dystiolaeth gadarn, os o gwbl, sy'n eu cefnogi? Pa dystiolaeth gadarn, os o gwbl, sy'n eu gwrthbrofi?

Yn aml, caiff ymddygiad rhieni, waeth a ydynt yn cydweithredu neu'n gwrthod cydweithredu, ei gamddehongli.

- Gofynnwch i chi'ch hun: Beth oedd y rhesymau dros ymddygiad y rhieni? A oes yna bosibilrwydd arall heblaw'r ateb amlycaf? A allai eu hymddygiad fod yn ymateb i rywbeth a ddywedais i yn hytrach na rhywbeth yn ymwneud â'r plentyn?

Pan fo'r ymholiad cychwynnol yn dangos nad yw'r plentyn mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol, anaml yr atgyfeirir teuluoedd at wasanaethau eraill sydd eu hangen arnynt i atal problemau hirdymor.

- Gofynnwch i chi'ch hun: A yw sefyllfa'r teulu'n foddhaol er mwyn diwallu anghenion y plentyn/plant? Waeth a oes pryder ynglŷn â niwed ai peidio, a oes angen cymorth neu help ymarferol ar y teulu? Sut alla i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael iddyn nhw?

Yn achos teulu ymosodol neu frawychus, mae gweithwyr proffesiynol yn amharod i drafod pryderon am eu diogelwch eu hunain a gofyn am gymorth.

- Gofynnwch i chi'ch hun: A oeddwn i'n teimlo'n ddiogel yn y cartref hwn? Os na, pam? Os bydd angen i mi neu weithiwr proffesiynol arall ddychwelyd yno i sicrhau diogelwch y plentyn/plant, pa gymorth ddylwn i ofyn amdano? Os oes angen, nodwch eich pryderon a'ch ceisiadau ar bapur a'u hanfon at eich rheolwr.

Ni chofnodir gwybodaeth a geir adeg yr atgyfeirio, ni chaiff ffeithiau eu gwirio ac ni nodir rhesymau dros benderfyniadau.

- Gofynnwch i chi'ch hun: A ydw i'n siŵr bod yr wybodaeth a nodir yn gwbl gywir? Os na wiriais fy nodiadau gyda'r teulu yn ystod y cyfweliad, pa gamau ddylwn i eu cymryd i'w gwirio? A yw fy nodiadau'n dangos y gwahaniaeth rhwng yr wybodaeth a gefais gan y teulu, fy sylwadau uniongyrchol a'm dehongliad neu fy asesiad o'r sefyllfa? A yw fy nodiadau'n nodi pa gamau a gymerwyd/a gymerir yn y dyfodol? Pa gamau a gymerwyd/gymerir gan yr holl bobl berthnasol eraill?

Camau nesaf – plentyn mewn angen a niwed sylweddol gwirioneddol neu debygol

8.68 Yn dilyn asesiad cychwynnol, lle bo achos rhesymol dros amau bod plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol, mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol, dan a47 o Ddeddf Plant 1989, wneud ymholiadau i'w alluogi i benderfynu a ddylai gymryd unrhyw gamau i ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn. Dylai gwasanaethau cymdeithasol ***gynnal trafodaeth strategaeth cyn gynted â phosibl*** i'w galluogi i benderfynu, ynghyd ag asiantaethau eraill, a ddylid gwneud ymholiadau dan a47 o Ddeddf Plant 1989 ac felly cychwyn asesiad craidd mewn perthynas â chynnal yr ymholiadau hyn. Mae'r *Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd* yn darparu fframwaith strwythuredig ar gyfer casglu a dadansoddi gwybodaeth sydd ar gael am blentyn a theulu o fewn y tri pharth canlynol: anghenion datblygu'r plentyn, gallu'r rhieni a ffactorau amgylcheddol a theuluol. Bydd hyn yn help i ddarparu tystiolaeth gadarn fel sail ar gyfer penderfyniadau proffesiynol anodd mewn perthynas ag ymyrryd i ddiogelu a hyrwyddo lles plentyn ac, os felly, y ffordd orau o wneud hynny a'r canlyniadau arfaethedig.

Diogelwch uniongyrchol

8.69 Os yw bywyd plentyn mewn perygl neu fod niwed uniongyrchol difrifol yn debygol: dylai asiantaeth â phwerau amddiffyn plant statudol[4] weithredu'n gyflym i sicrhau diogelwch uniongyrchol y plentyn.

8.70 Efallai y bydd angen gweithredu brys cyn gynted ag y derbynnir atgyfeiriad neu ar unrhyw adeg yn ystod cysylltiad â phlant a theuluoedd.

[4]Mae asiantaethau â phwerau amddiffyn plant statudol yn cynnwys yr awdurdod lleol, yr heddlu a'r NSPCC.

8.71 Efallai y daw'r angen am weithredu brys i'r amlwg dros amser wrth i chi ddysgu mwy am amgylchiadau plentyn neu blant. Gall y perygl o niwed sylweddol o ganlyniad i esgeulustod, yn ogystal â cham-drin, bwysleisio'r angen am weithredu brys.

8.72 Wrth ystyried a oes angen gweithredu brys, dylai asiantaeth hefyd bwyso a mesur a oes angen gweithredu i ddiogelu a hyrwyddo lles plant eraill yn yr un cartref (brodyr a chwiorydd, er enghraifft), cartref y sawl yr honnir iddo gyflawni trosedd, neu rywle arall.

8.73 Fel rheol, cymerir camau brys ar ôl i'r heddlu, gwasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol ac asiantaethau eraill, fel sy'n briodol, gynnal trafodaeth strategaeth. Lle bo'n rhaid i asiantaeth â phwerau amddiffyn plant statudol weithredu ar unwaith i amddiffyn plentyn, dylid cynnal trafodaeth strategaeth **cyn gynted â phosib** ar ôl gweithredu o'r fath i gynllunio'r camau nesaf. Fel rheol, dylid cael cyngor cyfreithiol cyn cychwyn camau cyfreithiol, yn enwedig pan fo angen Gorchymyn Amddiffyn Brys.

8.74 Mewn rhai achosion, efallai y bydd gofyn i riant gymryd camau i gael gwared ar y sawl yr honnir iddo gyflawni trosedd neu ofyn i'r person hwnnw adael y cartref yn ddigon i sicrhau diogelwch plentyn. Mewn achosion eraill, efallai y bydd angen sicrhau bod y plentyn yn aros mewn man diogel neu'n symud i fan diogel, un ai'n wirfoddol neu drwy gael gorchymyn amddiffyn brys. Hefyd, mae gan yr heddlu bwerau i symud plentyn i lety addas mewn achos brys. Os oes angen symud plentyn, lle bo hynny'n bosibl – ac oni bai y byddai gwneud hynny'n rhoi plentyn mewn perygl uniongyrchol – dylai awdurdod lleol wneud cais am orchymyn amddiffyn brys. **Dim ond dan amgylchiadau eithriadol lle nad oes digon o amser i geisio Gorchymyn Amddiffyn Brys neu am resymau sy'n ymwneud â diogelwch uniongyrchol y plentyn y dylid defnyddio pwerau'r heddlu.**

8.75 Dan amgylchiadau sy'n gofyn am weithredu brys, awdurdod lleol y plentyn sy'n gyfrifol am gymryd y camau priodol. Os yw'r plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod arall neu'n destun cynllun amddiffyn plant awdurdod arall, ar ôl cymryd y camau brys sydd eu hangen, dylai'r awdurdod cyntaf ymgynghori â'r awdurdod sy'n gyfrifol am y plentyn. Dim ond ar ôl i'r ail awdurdod lleol dderbyn cyfrifoldeb llawn i weithredu y caiff yr awdurdod cyntaf ei ryddhau o'r cyfrifoldeb i gymryd camau brys. Dylid cadarnhau derbyniad o'r fath yn ysgrifenedig.

8.76 Dim ond amgylchiadau uniongyrchol y plentyn/plant y mae camau brys yn mynd i'r afael â nhw. Dylid cynnal ymholiadau dan a47 yn syth wedi hynny yn ôl yr angen. Yna, dylai'r asiantaethau sydd mewn cysylltiad â'r plentyn a'r teulu asesu anghenion ac amgylchiadau'r plentyn a'r teulu a chytuno i ddiogelu a hyrwyddo lles hirdymor y plentyn. Os bydd gorchymyn amddiffyn brys yn berthnasol, bydd rhaid i wasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol ystyried a ddylid cychwyn gweithdrefnau gofal neu weithdrefnau eraill neu ganiatáu i'r gorchymyn ddod i ben a gadael i'r plentyn ddychwelyd adref.

Pwer au Amddiffyn Brys

Gorchmynion Gwahardd Mae yna amrywiaeth o bwerau dan Ddeddf Cyfraith Teulu 1996 sy'n galluogi'r sawl sydd wedi cyflawni trosedd, yn hytrach na'r plentyn, i gael ei symud o'r cartref. Er mwyn i lys gynnwys gofyniad gwahardd mewn gorchymyn, mae'n rhaid iddo fod yn fodlon:

- bod achos dros gredu, os caiff y person ei wahardd o'r cartref y mae'r plentyn yn byw ynddo, na fydd y plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol; a
- bod unigolyn arall sy'n byw yn y cartref yn gallu ac yn barod i ddarparu'r gofal y byddai'n rhesymol disgwyl i riant ei roi i'r plentyn, ac yn cytuno i'r gofyniad gwahardd.

Gorchmynion Amddiffyn Brys

Gall y llys gyflwyno gorchymyn amddiffyn brys dan a44 o Ddeddf Plant 1989 os yw'n fodlon bod achos rhesymol dros gredu bod plentyn yn debygol o ddioddef niwed sylweddol:

- os na chaiff ei symud i lety; neu
- os na chaiff barhau i fyw yn y llety.

Gellir hefyd gyflwyno gorchymyn amddiffyn brys os yw ymholiadau dan a47 yn cael eu rhwystro a mynediad i'r plentyn yn cael ei rwystro'n afresymol i unigolyn ag awdurdod i gael mynediad, a bod gan yr ymgeisydd achos rhesymol dros gredu bod angen mynediad brys i'r plentyn.

Mae gorchymyn amddiffyn brys yn rhoi awdurdod i symud plentyn ac yn rhoi'r plentyn yng ngofal yr ymgeisydd am uchafswm o wyth diwrnod (gydag estyniad posib o hyd at saith diwrnod).

Pwerau Amddiffyn yr Heddlu

Dan a46 o Ddeddf Plant 1989, os bydd gan swyddog heddlu achos rhesymol dros gredu y byddai plentyn yn debygol o ddioddef niwed sylweddol, gall:

- symud y plentyn i lety addas a'i gadw yno; neu
- gymryd camau rhesymol i sicrhau na chaiff y plentyn ei symud o unrhyw ysbyty neu unrhyw lety arall y mae'r plentyn yn cael ei gadw.

Ni ellir cadw plentyn yng ngofal yr heddlu am fwy na 72 awr.

Trafodaeth strategaeth

8.77 Pan fo achos rhesymol dros amau bod plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol, dylid cynnal trafodaeth strategaeth cyn gynted â phosib. Ni ddylid cyfaddawdu diogelwch y plentyn trwy oedi.

8.78 Gellir cynnal trafodaeth strategaeth mewn cyfarfod neu drwy ddull arall (dros y ffôn, er enghraifft). Mewn achosion cymhleth o gam-drin, **mae'n debygol** mai cyfarfod fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o drafod lles y plentyn a chynllunio camau ar gyfer y dyfodol. Dan rai amgylchiadau, efallai y bydd angen cynnal mwy nag un drafodaeth strategaeth. Gall yr amgylchiadau hyn gynnwys lle bo amgylchiadau'r plentyn yn gymhleth iawn a lle bo angen nifer o drafodaethau i ystyried a ddylid cychwyn ymholiadau dan a47 a phryd a'r ffordd orau o fynd ati. Dylid cynnal cyfarfod o'r fath mewn lleoliad allweddol, fel ysbyty, ysgol, swyddfa'r heddlu neu swyddfa gwasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol.

8.79 Dylai'r drafodaeth gynnwys gwasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol a'r heddlu a chyrff eraill fel sy'n briodol (er enghraifft, meithrinfa/ysgol a sefydliad iechyd), gan gynnwys, yn enwedig, unrhyw asiantaeth sy'n atgyfeirio ac, yn achos gwasanaethau rheoliadol perthnasol, Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru.

8.80 Dylai'r cyfarfod trafodaeth strategaeth gael ei gynnal gan wasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol.

8.81 Dylai pawb sy'n cymryd rhan yn y drafodaeth fod yn gymwys ac ar lefel ddigon uchel i fedru cyfrannu at y drafodaeth ar yr wybodaeth sydd ar gael a gwneud penderfyniadau ar ran eu hasiantaethau. Os yw'r plentyn yn glaf mewn ysbyty (claf mewnol neu glaf allanol) neu'n derbyn gwasanaethau gan dîm datblygu plant, dylai'r ymgynghorydd paediatrig sy'n gyfrifol am iechyd y plentyn, yn ogystal â'r uwch nyrs os yw'r plentyn yn glaf mewnol, fod yn rhan o'r drafodaeth. Os bydd angen archwiliad meddygol neu os oes archwiliad meddygol eisoes wedi'i gynnal, dylai uwch feddyg o'r gwasanaethau darparu hefyd fod yn rhan o'r drafodaeth.

8.82 Gellir cynnal trafodaeth strategaeth yn dilyn atgyfeiriad ac asesiad cychwynnol neu ar unrhyw adeg arall (er enghraifft, os daw pryderon ynglŷn â niwed sylweddol i'r amlwg mewn perthynas â'r plentyn yn derbyn cymorth dan a17). Dylid defnyddio'r drafodaeth i:

- rannu'r wybodaeth sydd ar gael;
- cytuno ar gynnal ac amseru unrhyw ymchwiliad troseddol;
- penderfynu a ddylid cychwyn neu barhau ag asesiad craidd dan a47 o Ddeddf Plant 1989 (ymholiadau dan a47);
- cynllunio sut i gynnal ymholiadau dan a47 (os penderfynir eu cychwyn), gan gynnwys yr angen am archwiliad meddygol gan ymarferydd meddygol cymwys, a phwy fydd yn cymryd pa gamau, erbyn pryd ac at ba ddiben;
- cytuno ar bwy i'w cyfweld, gan bwy, at ba ddiben a phryd. Gall y ffordd y cynhelir cyfweliadau wneud cyfraniad sylweddol at leihau'r pwysau ar blant a chynyddu'r tebygolrwydd o gynnal perthnasoedd gwaith adeiladol gyda theuluoedd. Pan fo trosedd yn cael ei

chyflawni yn erbyn plentyn, gall yr amseru a'r ffordd y caiff cyfweliadau gyda dioddefwyr eu trin gael effaith bwysig ar y gwaith o gasglu a chadw tystiolaeth;

- cytuno ar sut i bennu dymuniadau a theimladau'r plentyn er mwyn eu hystyried wrth wneud penderfyniadau dan a47 o Ddeddf Plant 1989;
- yng ngoleuni hil ac ethnigrwydd y plentyn a'r teulu, bydd angen ystyried sut i fynd i'r afael â hyn a sefydlu a fydd angen cyfieithydd;
- ystyried anghenion plant eraill a all gael eu heffeithio, er enghraifft, brodyr a chwiorydd a phlant eraill sydd mewn cysylltiad â chamdrinwyr honedig;
- cytuno ar ba gamau uniongyrchol sydd eu hangen i ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn a/neu ddarparu gwasanaethau a chymorth dros dro. Os yw'r plentyn yn yr ysbyty, dylid gwneud penderfyniadau ynglŷn â sut i ryddhau'r plentyn yn ddiogel;
- pennu pa wybodaeth a drafodir gyda'r teulu, oni bai y byddai rhannu gwybodaeth o'r fath yn rhoi plentyn mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol neu'n peryglu ymchwiliadau'r heddlu i unrhyw drosedd(au) honedig; a
- phennu a oes angen cymryd camau cyfreithiol.

8.83 Dylai cadeirydd y drafodaeth gofnodi'n glir unrhyw wybodaeth a rennir, pob penderfyniad a wneir a'r rhesymau dros y penderfyniadau hynny a'u dosbarthu i'r holl bartïon sy'n berthnasol i'r drafodaeth o fewn diwrnod gwaith. Dylai'r cofnod o'r drafodaeth fod yn gyson â'r wybodaeth a amlinellir yn y Cofnod Trafodaeth Strategaeth (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002).

8.84 Felly, dylai'r cofnod hwn gynnwys

- Rhestr o bwyntiau gweithredu.
- Amserlenni cytunedig.
- Nodyn o bwy sy'n gyfrifol am gymryd y camau a nodir.
- Cofnod clir o'r drafodaeth a phenderfyniadau a wnaed.
- Mecanwaith cytunedig ar gyfer adolygu'r cynllun gweithredu.

8.85 Mae niwed sylweddol i blant yn peri pryderon ynglŷn â lles plant a dulliau gorfodi'r gyfraith, a gall ymholiadau dan a47 gael eu cynnal ochr yn ochr ag ymchwiliadau'r heddlu mewn perthynas â throsedd(au) cysylltiedig posibl. Mae gan yr heddlu ddyletswydd i gynnal ymchwiliadau trylwyr a phroffesiynol i honiadau o drosedd a sicrhau tystiolaeth glir a chadarn er lles y plentyn am y bydd hyn yn ei gwneud yn llai tebygol y bydd rhaid i ddioddefwr sy'n blentyn roi tystiolaeth mewn llys troseddol. Felly, efallai y bydd ymholiadau'n cyflwyno gwybodaeth sy'n berthnasol i benderfyniadau a wneir gan wasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol a'r heddlu.

8.86 Dylid defnyddio casgliadau'r asesiad a/neu ymchwiliad yr heddlu i lywio cynlluniau ar gyfer cymorth a help i'r plentyn a'r teulu yn y dyfodol. Gallant hefyd gyfrannu at achosion cyfreithiol, boed yn droseddol, yn sifil neu'r ddau.

8.87 Dylai fod gan bob Bwrdd Lleol Diogelu Plant (BLIDP) brotocol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol a'r heddlu, i helpu'r ddwy asiantaeth i benderfynu sut i gynnal ymholiadau dan a47 ac ymchwiliadau cysylltiedig yr heddlu ar y cyd ac, yn enwedig, dan ba amgylchiadau y mae ymholiadau dan a47 ac ymchwiliadau troseddol cysylltiedig yn angenrheidiol a/neu'n briodol. Pan gynhelir ymholiadau ar y cyd, yr heddlu fydd yn arwain yr ymchwiliad troseddol a gwasanaethau cymdeithasol plant yr awdurdod lleol fydd yn arwain yr ymholiadau dan a47 ac yn sicrhau lles y plentyn.

Ymholiadau ac Asesiad Craidd Adran 47

8.88 Yn ôl ymchwil a gynhaliwyd gan yr Adran Iechyd ym 1995, roedd llawer o'r plant a atgyfeiriwyd at wasanaethau cymdeithasol o ganlyniad i bryderon amddiffyn plant yn blant mewn angen. Fodd bynnag, er y byddai'r plant hyn wedi elwa ar wasanaethau, mewn sawl achos, oni bai bod enw'r plentyn yn cael ei roi ar y gofrestr amddiffyn plant, nid oeddent yn derbyn unrhyw gymorth. Felly, pan wneir penderfyniad i gynnal trafodaeth strategaeth, dylid cychwyn asesiad craidd. Mae'r Fframwaith Asesu'n darparu strwythur ar gyfer casglu gwybodaeth yn ystod ymholiadau dan a47 a dylai'r wybodaeth a gesglir yn ystod yr ymholiadau hyn lywio'r asesiad craidd. Dylai'r asesiad craidd gael ei arwain gan weithiwr cymdeithasol cymwys a phrofiadol. Gwasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol sy'n bennaf gyfrifol am yr asesiad craidd dan a47 o Ddeddf Plant 1989. Dan yr amgylchiadau hyn, dylai'r awdurdod lleol bennu a oes angen gweithredu i ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn neu blant sy'n destun yr ymholiadau. Mae'r *Fframwaith ar gyfer asesu plant mewn angen a'u teuluoedd* yn darparu strwythur ar gyfer helpu i gasglu a dadansoddi gwybodaeth a geir yn ystod yr ymholiadau dan a47.

8.89 Dylai'r asesiad craidd gychwyn trwy ganolbwyntio'n bennaf ar yr wybodaeth a nodir yn ystod yr asesiad cychwynnol fel yr wybodaeth bwysicaf wrth ystyried a yw plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol. Fodd bynnag, dylid cwmpasu'r holl ddimensiynau perthnasol yn y Fframwaith Asesu cyn ei gwblhau. Dylai'r rheini sy'n gwneud ymholiadau ynglŷn â phlentyn fod yn ymwybodol o ddiogelwch ac anghenion posibl unrhyw frodyr a chwiorydd, plant eraill neu oedolion sy'n agored i niwed yng nghartref y plentyn dan sylw. Hefyd, efallai y bydd angen i ymholiadau gwmpasu plant mewn cartrefi eraill, dan y Fframwaith Asesu, sydd mewn cysylltiad â'r troseddwr honedig. Mae Deddf Plant 1989 yn rhoi dyletswydd statudol ar wasanaethau iechyd, addysg a gwasanaethau eraill i helpu'r awdurdod lleol i gyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol dan Ran III o Ddeddf Plant 1989 ac ymholiadau dan a47. Hefyd, mae adran 25 o Ddeddf Plant 2004 yn rhoi

dyletswydd ar asiantaethau partner i gydweithio gydag awdurdod lleol i wneud trefniadau i wella lles plant yn ardal yr awdurdod. Dylai'r gweithwyr proffesiynol sy'n cynnal ymholiadau dan a47 wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau'n barod i gydweithio a chyfrannu trwy fod yn barod i esbonio a chyfiawnhau eu camau a dangos bod y broses yn cael ei rheoli mewn ffordd sy'n helpu i sicrhau gwell canlyniadau i blant. Mae gan y BLIDP gyfraniad pwysig i'w wneud at feithrin a hyrwyddo ymddiriedaeth a dealltwriaeth rhwng gwahanol weithwyr proffesiynol a gwasanaethau.

8.90 Yn aml, mae asesu'n iawn anghenion plentyn a gallu ei rieni neu ei rwydwaith teulu ehangach i sicrhau ei ddiogelwch, ei iechyd a'i ddatblygiad yn dibynnu ar greu darlun o sefyllfa'r plentyn ar sail gwybodaeth o sawl ffynhonnell. Dylai ymholiadau gynnwys:

- cyfweliadau ar wahân gyda'r plentyn sy'n destun pryder; a
- lle bo hynny'n briodol, gyfweliadau gyda rhieni a/neu ofalwyr a sylwadau ar y rhyngweithio rhwng rhieni a phlentyn/plant.

8.91 Gall ymholiadau hefyd gynnwys cyfweliadau gyda phobl sydd mewn cysylltiad personol a phroffesiynol â'r plentyn; archwiliadau neu asesiadau o'r plentyn gan weithwyr proffesiynol eraill (er enghraifft, archwiliadau meddygol neu ddatblygiadol, asesiad o gyflwr emosiynol neu seicolegol); a chyfweliadau gyda phobl sydd mewn cysylltiad personol a phroffesiynol â rhieni a/neu ofalwyr y plentyn.

8.92 Dylai unigolion allu cyfrannu'n llawn at y broses ymholiadau. Os bydd plentyn neu riant yn anabl, efallai y bydd angen darparu cymorth cyfathrebu i helpu'r plentyn neu'r rhiant i fynegi ei hun cystal ag y gall. Os bydd plentyn neu riant yn siarad iaith wahanol i'r iaith a ddefnyddir gan y sawl sy'n cyfweld, dylid darparu cyfieithydd. Os na all plentyn gymryd rhan mewn cyfweliad ar sail oedran neu ddealltwriaeth, dylid defnyddio dulliau eraill i ddeall safbwynt y plentyn, gan gynnwys arsylwi pan fo plant yn ifanc iawn neu os oes ganddynt anawsterau cyfathrebu.

8.93 Mae plant yn ffynhonnell wybodaeth allweddol ac, weithiau, yr unig ffynhonnell wybodaeth am yr hyn sydd wedi digwydd iddyn nhw, mewn achosion o gam-drin rhywiol yn ogystal ag achosion o gam-drin corfforol a mathau eraill o gam-drin. Mae gwybodaeth gywir a chyflawn yn hanfodol er mwyn cymryd camau i hyrwyddo lles y plentyn, yn ogystal ag ar gyfer unrhyw achosion troseddol mewn perthynas â'r sawl sydd wedi cyflawni'r drosedd honedig. Pan fyddwch yn gweld plentyn am y tro cyntaf, efallai na fydd natur a graddau unrhyw niwed yn glir ac efallai na fydd yn glir a oes trosedd wedi'i chyflawni o gwbl. Mae'n bwysig i drafodaethau cychwynnol gyda phlant gael eu cynnal mewn ffordd sy'n lleihau'r pwysau arnyn nhw ac yn cynyddu'r tebygolrwydd y byddant yn darparu gwybodaeth gywir a chyflawn. Pan fo hynny'n bosib, mae'n bwysig:

- cyfathrebu â phlentyn ar wahân;
- osgoi cwestiynau arweiniol neu awgrymog.

8.94 Efallai y bydd plant angen amser, a mwy nag un cyfle, er mwyn magu digon o ymddiriedaeth i gyfleu unrhyw bryderon sydd ganddynt, yn enwedig os oes ganddynt anawsterau cyfathrebu, anawsterau dysgu, os ydynt yn ifanc iawn neu'n dioddef o broblemau iechyd meddwl.

8.95 Dan amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd angen i dîm ymholiadau/ymchwilio siarad â phlentyn heb yn wybod i'r rhiant neu'r gofalwr. Byddai amgylchiadau perthnasol yn cynnwys:

- y posibilrwydd y byddai plentyn yn cael ei fygwth neu ei orfodi i gadw'n dawel;
- y tebygolrwydd y byddai tystiolaeth bwysig yn cael ei dinistrio; neu
- nad oedd y plentyn dan sylw am i'r rhiant fod yn rhan o'r ymchwiliad ar yr adeg honno, a'i fod yn gymwys i wneud y penderfyniad hwnnw.

8.96 Ym mhob achos sy'n cynnwys yr heddlu, bydd penderfynu pryd i roi gwybod i'r rhiant neu'r gofalwr yn effeithio ar ymchwiliadau'r heddlu a dylai'r drafodaeth strategaeth benderfynu ar yr amser mwyaf priodol i gynnwys y rhieni.

Cyfweliadau Ymchwiliol gyda Phlant

8.97 Weithiau, bydd angen cynnal cyfweliadau ymchwiliol gyda phlant, gyda'r nod o gasglu gwybodaeth ar gyfer achosion troseddol. Ni ddylid cyfweld â phlentyn ym mhresenoldeb y troseddwr honedig neu rywun a all fod yn cydgynllwynio gyda throseddwr. Dylid dilyn yr arweiniad yn *Achieving Best Evidence: Guidance for Vulnerable or Intimidated Witnesses, including Children* wrth gynnal pob cyfweliad ymchwiliol gyda phlant. Yn enwedig:

- Dylid gofyn i blant sut y maen nhw'n dymuno rhoi tystiolaeth.
- Dylai cyfweliadau o'r fath gael eu cynnal gan bobl â hyfforddiant arbenigol a phrofiad o gyfweld â phlant.
- Efallai y bydd angen help arbenigol ychwanegol os nad Cymraeg neu Saesneg yw iaith gyntaf y plentyn; os oes gan y plentyn broblem seicolegol ond y bernir ei fod yn abl; os oes nam ar y plentyn; neu os nad oes gan y bobl sy'n cynnal y cyfweliad wybodaeth a dealltwriaeth ddigonol o gefndir hiliol, crefyddol neu ddiwylliannol y plentyn.
- Dylid hefyd ystyried rhyw'r sawl sy'n cyfweld, yn enwedig mewn achosion honedig o gam-drin rhywiol.

8.98 Mae deddfwriaeth cyfiawnder troseddol, yn enwedig Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999, yn creu goblygiadau penodol i lysoedd sy'n ymdrin â thystion dan 17 oed. Mae'r goblygiadau hyn yn cynnwys rhoi tystiolaeth trwy fideos wedi'u recordio ymlaen llaw, yn

ogystal â defnyddio cysylltiadau fideo byw i roi tystiolaeth bellach ac i groesholi. Hefyd, gellir croesholi mewn gwrandawiadau fideo cyn prawf mewn achosion perthnasol.

Gorchmynion Asesu Plant

8.99 Dylai gwasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol wneud pob ymdrech bosibl i ddarbwyllo rhieni i gydweithredu gydag ymholiadau dan a47. Er gwaethaf yr ymdrechion hyn, os bydd y rhieni'n parhau i wrthod mynediad i blentyn at ddiben dod o hyd i ffeithiau sylfaenol ynglŷn â chyflwr y plentyn – ond nad yw pryderon ynglŷn â diogelwch y plentyn mor ddifrifol fel bod angen cyflwyno gorchymyn amddiffyn brys – gall awdurdod lleol gyflwyno cais i lys am orchymyn asesu plant. Dan yr amgylchiadau hyn, gall y llys ofyn i'r rhieni/gofalwyr gydweithredu gydag asesiad o'r plentyn, a dylid nodi'r manylion. Nid yw'r gorchymyn yn dileu hawl y plentyn i wrthod cymryd rhan mewn asesiad, er enghraifft, archwiliad meddygol, cyn belled â'i fod o oedran a dealltwriaeth ddigonol.

Effaith Ymholiadau a47 ar y Teulu a'r Plentyn

8.100 Dylid cynnal ymholiadau dan adran 47 mewn ffordd sy'n lleihau'r pwysau ar y plentyn ac yn sicrhau bod teuluoedd yn cael eu trin yn sensitif ac â pharch. Dylai gwasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol esbonio diben a chanlyniad ymholiadau dan a47 i'r rhiant a'r plentyn (gan ystyried oedran a dealltwriaeth) a bod yn barod i ateb cwestiynau'n agored, oni bai y byddai gwneud hynny'n effeithio ar ddiogelwch a lles y plentyn. Byddai o gymorth mawr i deuluoedd pe gallai gwasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig am ddiben, proses a chanlyniadau posibl ymholiadau dan a47. Dylai'r wybodaeth fod yn gyffredinol ac yn benodol i'r amgylchiadau penodol dan sylw. Dylai gynnwys gwybodaeth am sut i gael cyngor, eiriolaeth a chymorth o ffynonellau annibynnol.

8.101 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae plant yn aros gyda'u teuluoedd ar ôl ymholiadau dan a47, hyd yn oed pan gaiff pryderon ynglŷn â cham-drin neu esgeulustod eu cadarnhau. Os yn bosibl, dylid cynnal ymholiadau dan a47 mewn ffordd sy'n cefnogi'r gwaith o feithrin perthnasoedd gwaith adeiladol gyda theuluoedd ar gyfer y dyfodol. Gall y ffordd y caiff achos ei drin o'r cychwyn effeithio ar yr holl broses ddilynol. Pan gaiff achos ei drin yn dda ac yn sensitif, gall hyn gael effaith dda ar ganlyniad y plentyn.

Canlyniad Ymholiadau dan a47

8.102 Dylai gwasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol benderfynu beth i'w wneud ar ôl cynnal ymholiadau dan a47, ar ôl trafod y mater gyda phawb a gymerodd ran yn yr ymholiadau hynny, gan gynnwys

gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau perthnasol, yn ogystal â gofalwyr maeth a'r plentyn a'r rhieni. Ar ôl gwerthuso canlyniad yr ymholiadau, efallai y byddai'n werth gwneud argymhellion ar gyfer gweithredu mewn fforwm rhyngddisgyblaethol, os na chaiff yr achos ei gyflwyno i gynhadledd amddiffyn plant. Dylai canlyniad ymholiadau dan a47 gael ei gofnodi gan wasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol mewn fformat sy'n gyson â'r wybodaeth a amlinellir yng Nghofnod Canlyniad Ymholiadau dan a47 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002). Gall ymholiadau arwain at nifer o ganlyniadau.

Pryderon heb eu cadarnhau

8.103 Efallai na fydd ymholiadau dan adran 47 yn cadarnhau'r pryderon gwreiddiol bod y plentyn yn dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol ac nad oes angen gweithredu pellach. Fodd bynnag, yn ôl yr angen, dylai gwasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol ac asiantaethau perthnasol eraill ystyried pa gymorth a/neu wasanaethau all fod o gymorth i'r teulu; sut y gellir darparu'r gwasanaethau hyn i'r plentyn a'r teulu, os ydynt yn dymuno; a chan bwy. Mae ymholiadau dan a47 yn canolbwyntio ar les y plentyn, a gall yr asesiad ddatgelu amrywiaeth o anghenion. Ni ddylai darparu gwasanaethau i'r plant a'r teuluoedd hyn fod yn ddibynnol ar bresenoldeb camdriniaeth ac esgeulustod. Efallai y bydd help a chymorth i blant mewn angen a'u teuluoedd yn atal problemau rhag datblygu i'r pwynt y byddai plentyn yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

8.104 Mewn rhai achosion, efallai y bydd pryderon ynglŷn â niwed sylweddol, er nad oes unrhyw dystiolaeth o hynny. Efallai y byddai'n briodol rhoi trefniadau ar waith i fonitro lles y plentyn. Ni ddylid defnyddio dulliau monitro fel ffordd o ohirio neu osgoi penderfyniadau anodd. Dylai diben y monitro fod yn glir, hynny yw, beth sy'n cael ei fonitro a pham, ym mha ffordd a chan bwy. Hefyd, mae'n bwysig rhoi gwybod i rieni ynglŷn â natur unrhyw bryder parhaus. Dylid nodi amserlen ar gyfer adolygu'r trefniadau monitro trwy gynnal trafodaeth neu gyfarfod pellach.

Pryderon wedi'u cadarnhau ond ni ystyrir bod y plentyn bellach mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol

8.105 Efallai y cadarnheir bod plentyn wedi dioddef niwed sylweddol, ond bod yr asiantaethau sydd mewn cysylltiad â'r plentyn a'r teulu'n cytuno y gellir datblygu a gweithredu cynllun i sicrhau diogelwch a lles y plentyn yn y dyfodol heb yr angen am gynhadledd amddiffyn plant neu gynllun amddiffyn plant. Bydd dull o'r fath yn berthnasol pan fydd yn glir i'r asiantaethau nad yw'r plentyn bellach mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol.

8.106 Efallai na fydd angen cynhadledd amddiffyn plant os bydd rhesymau cadarn, yn seiliedig ar ddadansoddiad o dystiolaeth a geir trwy ymholiadau dan a47, dros farnu nad yw plentyn bellach mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol. Er enghraifft, gall hyn fod oherwydd nad

yw'r sawl a oedd yn gyfrifol am y niwed bellach mewn cysylltiad â'r plentyn. Gall fod oherwydd y cafwyd y niwed sylweddol o ganlyniad i ddigwyddiad unigol (er enghraifft, cam-drin gan ddieithryn).

8.107 Gall yr asiantaethau farnu bod rhiant, gofalwr neu aelod o deulu ehangach y plentyn yn barod ac yn gallu cydweithredu â chamau i sicrhau diogelwch a lles y plentyn yn y dyfodol ac felly nad yw'r plentyn bellach mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol. Dim ond yng ngoleuni'r holl wybodaeth berthnasol a gasglwyd yn ystod ymholiad dan a47, ac asesiad cadarn o debygolrwydd ymyrraeth lwyddiannus, yn seiliedig ar dystiolaeth glir ac o ystyried peryglon brwdfrydedd proffesiynol amhriodol, y gellir dod i'r farn hon. Mae gan wasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol ddyletswydd i gael safbwyntiau plant a phwyso a mesur eu dymuniadau a'u teimladau, yn ôl eu hoedran a'u dealltwriaeth. Efallai y bydd cyfarfod rhwng gweithwyr proffesiynol perthnasol ac aelodau'r teulu'n ddefnyddiol i gytuno ar ba gamau i'w cymryd a chan bwy, a'r canlyniadau arfaethedig ar gyfer iechyd a datblygiad y plentyn, gan gynnwys darparu gwasanaethau therapiwtig. Pa bynnag broses a ddefnyddir i gynllunio camau ar gyfer y dyfodol, dylai'r cynllun gael ei lywio gan gasgliadau'r asesiad. Dylai amlinellu pwy fydd yn gyfrifol am ba gamau, gan gynnwys pa gamau y dylid eu cymryd os na fydd y cynllun yn cael ei weithredu'n llwyddiannus. Dylai hefyd gynnwys amserlen ar gyfer adolygu cynnydd yn erbyn canlyniadau arfaethedig. Efallai y bydd gan Gynadleddau Grwpiau Teulu (paragraffau 7.16-7.22) gyfraniad pwysig i'w wneud at gyflawni'r tasgau hyn.

8.108 Dylai gwasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol bwyso a mesur yn ofalus unrhyw benderfyniad i beidio â chynnal cynhadledd amddiffyn plant os yw'n gwybod bod plentyn wedi dioddef niwed sylweddol. Dylai rheolwr gwaith cymdeithasol cymwys gwasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol gadarnhau'r penderfyniad. Mae gan y gweithwyr proffesiynol a'r asiantaethau hynny sydd mewn cysylltiad â'r plentyn a'r teulu, a'r rheini sydd wedi cymryd rhan yn yr ymholiad dan a47, hawl i ofyn i wasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol gynnal cynhadledd amddiffyn plant os oes ganddynt bryderon difrifol na fydd lles plentyn yn cael ei ddiogelu'n ddigonol fel arall. Fel rheol, dylid cytuno ar unrhyw gais o'r fath a gefnogir gan uwch-reolwr neu weithiwr proffesiynol dynodedig. Os bydd gwahaniaethau barn mewn perthynas â'r angen am gynhadledd mewn achos penodol, dylid gwneud pob ymdrech i ddatrys yr anghydfod trwy drafod ac esbonio ond, os daw hi i'r pen, dylai pob BLIDP fod â dull cyflym a syml o ddatrys gwahaniaethau barn.

Pryderon wedi'u cadarnhau ac ystyrir bod y plentyn mewn perygl parhaus o ddioddef niwed sylweddol

8.109 Os bydd yr asiantaethau perthnasol o'r farn bod plentyn mewn perygl parhaus o ddioddef niwed sylweddol, dylai gwasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol gynnal cynhadledd amddiffyn plant.

Nod y gynhadledd yw galluogi'r gweithwyr proffesiynol hynny sy'n dod i gysylltiad â'r plentyn a'r teulu, a'r teulu ei hun, i asesu'r wybodaeth berthnasol a chynllunio sut i ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn.

Y Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol

Diben

8.110 Mae'r gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol yn dod ynghyd ag aelodau'r teulu, y plentyn (lle'n briodol) a'r gweithwyr proffesiynol hynny sy'n dod i gysylltiad â'r plentyn a'r teulu yn dilyn ymholiadau dan a47. Ei diben yw:

- casglu a dadansoddi, mewn safle rhyngasiantaethol, yr wybodaeth am anghenion datblygu'r plentyn a gallu'r rhieni neu'r gofalwyr i ymateb i'r anghenion hyn i sicrhau diogelwch y plentyn a hyrwyddo iechyd a datblygiad y plentyn yng nghyd-destun ei deulu ehangach a'i amgylchedd;
- ystyried y dystiolaeth a gyflwynir i'r gynhadledd, ystyried y tebygolrwydd y bydd plentyn yn dioddef niwed sylweddol yn y dyfodol a phenderfynu a yw'r plentyn mewn perygl parhaus o ddioddef niwed sylweddol; *a*
- phenderfynu pa gamau sydd angen eu cymryd i ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn, sut y cymerir y camau hynny a beth fydd y canlyniadau targed.

Amseru

8.111 Bydd amseru'r gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol yn dibynnu ar frys yr achos a'r amser sydd ei angen i gael gwybodaeth berthnasol am y plentyn a'r teulu. Er mwyn i'r gynhadledd wneud penderfyniadau gwybodus yn seiliedig ar dystiolaeth, dylid ei chynnal yn dilyn gwaith paratoi ac asesiad digonol o anghenion ac amgylchiadau'r plentyn. Ar yr un pryd, ni ddylid esgeuluso achosion lle mae plant mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol. O ganlyniad, dylid cynnal cynhadledd amddiffyn plant gychwynnol o fewn 15 diwrnod gwaith i'r drafodaeth strategaeth neu'r drafodaeth strategaeth ddiweddaraf os cynhaliwyd mwy nag un.

Presenoldeb

8.112 Dylai'r bobl sy'n mynychu cynadleddau fod yno am fod ganddynt gyfraniad arwyddocaol i'w wneud, o ganlyniad i arbenigedd proffesiynol, gwybodaeth am y plentyn neu'r teulu neu'r ddau. Dylai fod digon o wybodaeth ac arbenigedd ar gael – trwy gynrychiolaeth bersonol ac adroddiadau ysgrifenedig – fel y gall y gynhadledd wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â pha gamau sydd angen eu cymryd i ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn, a chyflwyno cynigion ymarferol ar

ddatblygu'r camau hynny. Ar yr un pryd, gall cynhadledd sy'n fwy na'r angen atal trafodaeth a dychryn y plentyn ac aelodau'r teulu. Gall pobl sydd â chyfraniad perthnasol i'w wneud gynnwys:

- aelodau'r teulu (gan gynnwys plant o oedran a dealltwriaeth ddigonol a'r teulu ehangach);
- staff gwasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol sydd wedi arwain a bod yn rhan o asesiad o'r plentyn a'r teulu;
- gofalwyr maeth (cyfredol neu flaenorol);
- gweithwyr proffesiynol sydd mewn cysylltiad â'r plentyn (er enghraifft, ymwelwyr iechyd, bydwraig, nyrs ysgol, paediatregydd, staff addysg, staff blynyddoedd cynnar, meddyg teulu);
- gweithwyr proffesiynol sydd mewn cysylltiad â'r rhieni neu aelodau eraill o'r teulu (er enghraifft, gwasanaethau cymorth i deuluoedd, gwasanaethau iechyd meddwl oedolion, y gwasanaeth prawf, meddyg teulu);
- gweithwyr proffesiynol ag arbenigedd yn y math penodol o niwed neu gyflwr penodol y plentyn, er enghraifft, anabledd neu salwch hirdymor;
- pobl sy'n rhan o ymchwiliadau (er enghraifft, yr heddlu);
- gwasanaethau cyfreithiol awdurdod lleol (gofal plant);
- sefydliadau gwirfoddol perthnasol;
- cynrychiolydd o'r gwasanaethau arfog, mewn achosion sydd â chysylltiad ag un o'r gwasanaethau;
- Swyddog achosion teulu yng Nghymru.

8.113 Dylai protocol perthnasol y BLIDP nodi cworwm gofynnol ar gyfer presenoldeb a rhestru'r bobl y dylid eu gwahodd, cyn belled â bod ganddynt gyfraniad perthnasol i'w wneud. Ym mhob cynhadledd, dylai gwasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol ac o leiaf ddau grŵp proffesiynol neu asiantaeth arall sydd wedi dod i gysylltiad â'r plentyn dan sylw fod yn bresennol. Gall pobl y mae eu cyfraniad yn ymwneud â'u harbenigedd proffesiynol neu gyfrifoldeb am wasanaethau perthnasol hefyd fynychu. Mewn achosion eithriadol, lle nad yw plentyn wedi cael cysylltiad perthnasol â thair asiantaeth (hynny yw, gwasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol a dau arall), gellir anwybyddu'r cworwm hwn. Y disgwyliad yw y bydd y gweithwyr proffesiynol perthnasol yn mynychu er mwyn iddynt fod yn rhan o'r gwaith o gynllunio a gwneud penderfyniadau. Dan amgylchiadau eithriadol, lle caiff gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau eu gwahodd ond na allant fynychu, dylent gyflwyno adroddiad ysgrifenedig cyn y cyfarfod.

Cynnwys y plentyn ac aelodau'r teulu

8.114 Cyn cynnal cynhadledd, dylid esbonio i blentyn o oedran a dealltwriaeth ddigonol a'r rhieni ac aelodau perthnasol o'r teulu beth yw diben y gynhadledd, pwy fydd yn mynychu a'r ffordd y bydd yn gweithio. Os na fydd sgiliau Cymraeg neu Saesneg y plentyn a/neu aelodau'r teulu'n ddigonol i ddeall y drafodaeth a mynegi eu barn, dylid defnyddio cyfieithydd.

8.115 Dylai gwasanaethau cymdeithasol plant roi gwybod i rieni am asiantaethau cyngor ac eiriolaeth lleol ac esbonio y gallant ddod ag eiriolwr, ffrind neu gefnogwr gyda nhw.

8.116 Dylai'r plentyn, yn amodol ar ystyriaeth o oedran a dealltwriaeth, gael cyfle i fynychu, os yw'n dymuno, a dod ag eiriolwr, ffrind neu gefnogwr gydag ef. Os nad yw'r plentyn yn dymuno mynychu neu os nad yw'n briodol iddo fynychu, dylai gweithiwr proffesiynol gwasanaethau cymdeithasol plant yr awdurdod lleol sy'n gweithio'n agos gyda'r plentyn bennu ei ddymuniadau a'i deimladau a'u cyfleu i'r gynhadledd.

8.117 Fel rheol, gwahoddir y rhieni i fynychu'r gynhadledd a chyfrannu'n llawn. Fodd bynnag, dylai'r gwaith o gynnwys aelodau'r teulu gael ei gynllunio'n ofalus. Efallai na fydd yn bosibl cynnwys aelodau perthnasol o'r teulu yn y gynhadledd bob amser, er enghraifft, os mai un o'r rhieni yw'r troseddwr honedig neu os oes yna wrthdaro difrifol rhwng aelodau'r teulu. Efallai na fydd oedolion perthnasol ac unrhyw blant sydd am gyflwyno tystiolaeth i'r gynhadledd yn dymuno siarad o flaen ei gilydd.

8.118 Dan amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd angen gwahardd un neu fwy o aelodau'r teulu o'r gynhadledd yn gyfan gwbl neu o ran ohoni. Mae'r gynhadledd yn canolbwyntio ar y plentyn yn bennaf ac, er y croesewir presenoldeb y teulu fel rheol, mae'n rhaid i'r gweithwyr proffesiynol hynny sy'n mynychu allu rhannu gwybodaeth mewn amgylchedd diogel ac anfygythiol. Efallai y bydd gan weithwyr proffesiynol bryderon ynglŷn â thrais neu bwysau, a dylid cyfleu'r pryderon hyn i gadeirydd y gynhadledd ymlaen llaw.

8.119 Dylai gweithdrefnau BLIDP amlinellu meini prawf ar gyfer gwahardd rhiant neu ofalwr, gan gynnwys y dystiolaeth ofynnol. Gall perygl o drais neu bwysau gan aelod o'r teulu yn y gynhadledd neu ar ôl hynny, tuag at blentyn neu unrhyw un arall, fod yn rheswm dros wahardd. Nid yw'r posibilrwydd y caiff rhiant/gofalwr ei erlyn am drosedd yn erbyn plentyn yn ddigon o reswm dros wahardd. Er hynny, dan yr amgylchiadau hyn, dylai'r cadeirydd dderbyn cyngor gan yr heddlu ynglŷn ag unrhyw oblygiadau a all godi o ganlyniad i bresenoldeb troseddwr honedig. Os oes achos troseddol wedi cychwyn, dylid ystyried barn Gwasanaeth Erlyn y Goron. Cadeirydd y gynhadledd, yn gweithredu'n unol â gweithdrefnau BLIDP, sy'n gyfrifol am benderfynu gwahardd rhiant neu ofalwr o'r gynhadledd amddiffyn plant.

8.120 Os caiff y rhieni eu gwahardd neu os nad ydynt yn gallu neu'n barod i fynychu cynhadledd amddiffyn plant, dylent gael mynegi eu barn i'r gynhadledd mewn ffordd arall.

Cadeirio'r gynhadledd

8.121 Gweithiwr proffesiynol heb gyfrifoldebau gweithredol neu reoli llinell dros yr achos ddylai gadeirio'r gynhadledd. Dylai statws y cadeirydd fod yn ddigonol i sicrhau ymrwymiad rhyngasiantaethol i'r gynhadledd a'r cynllun amddiffyn plant. Lle bo hynny'n bosibl, dylai'r unigolyn hwn hefyd gadeirio adolygiadau amddiffyn plant dilynol mewn perthynas â phlentyn penodol. Mae cyfrifoldebau'r cadeirydd yn cynnwys:

- cyfarfod â'r plentyn ac aelodau'r teulu ymlaen llaw i sicrhau eu bod yn deall diben y gynhadledd a beth fydd yn digwydd;
- amlinellu diben y gynhadledd i bawb sy'n bresennol, gan bennu'r agenda a phwysleisio natur gyfrinachol yr achlysur;
- galluogi pawb sy'n bresennol a chyfranwyr absennol i gyfrannu'n llawn at y drafodaeth a'r gwaith o wneud penderfyniadau; *a*
- sicrhau bod y gynhadledd yn gwneud y penderfyniadau sy'n ofynnol ohoni mewn ffordd wybodus, systematig ac eglur.

8.122 Dylai cadeirydd cynhadledd fod wedi'i hyfforddi ar gyfer y gwaith a dylai feddu ar:

- ddealltwriaeth dda a gwybodaeth broffesiynol am les a datblygiad plant ac arfer gorau o ran gweithio gyda phlant a theuluoedd;
- y gallu i ystyried yn wrthrychol ac asesu goblygiadau'r dystiolaeth a ddefnyddir i wneud penderfyniadau;
- sgiliau o ran cadeirio cyfarfodydd mewn ffordd sy'n annog cyfranogiad adeiladol tra'n parhau i ganolbwyntio'n glir ar les y plentyn a'r penderfyniadau sydd angen eu cymryd; a
- gwybodaeth a dealltwriaeth o arferion gwrthwahaniaethol.

Gwybodaeth ar gyfer y gynhadledd

8.123 Dylai gwasanaethau cymdeithasol plant yr awdurdod lleol ddarparu adroddiad ysgrifenedig i'r gynhadledd sy'n crynhoi ac yn dadansoddi'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr asesiad cychwynnol a'r asesiad craidd a gynhaliwyd dan a47 o Ddeddf Plant 1989 (os cafodd ei gwblhau o fewn yr amserlen benodol) a gwybodaeth o gofnodion cyfredol mewn perthynas â'r plentyn a'r teulu. Os bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn perthynas â mwy nag un plentyn mewn teulu, dylid paratoi adroddiad ar bob plentyn.

8.124 Dylai'r adroddiad ar gyfer cynhadledd amddiffyn plant fod yn gyson â'r wybodaeth a amlinellir yn Adroddiad Cynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol y System Blant Integredig *(*Llywodraeth Cynulliad Cymru*,* 2002*)*. Mae'r Fframwaith Asesu'n darparu strwythur ar gyfer casglu gwybodaeth yn ystod ymholiadau dan a47 a dylid defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr ymholiadau hynny i lywio'r asesiad craidd. Er y bydd asesiad craidd wedi cychwyn ar yr adeg y penderfynwyd cynnal trafodaeth strategaeth, mae'n annhebygol y bydd wedi'i gwblhau erbyn y gynhadledd, o ystyried y cyfnod o 35 diwrnod gwaith sy'n berthnasol i asesiadau o'r fath. Dylai'r adroddiad gynnwys:

- cronoleg o ddigwyddiadau arwyddocaol a chysylltiadau rhwng asiantaethau a gweithwyr proffesiynol â'r plentyn a'r teulu;
- gwybodaeth am anghenion datblygiadol y plentyn nawr ac yn y gorffennol;
- gwybodaeth am allu'r rhieni ac aelodau eraill o'r teulu i sicrhau bod y plentyn yn ddiogel rhag niwed ac i ymateb i anghenion datblygiadol y plentyn yng nghyd-destun ei deulu ehangach a'i amgylchedd;
- barn, dymuniadau a theimladau'r plentyn, y rhieni ac aelodau eraill o'r teulu; a
- dadansoddiad o oblygiadau'r wybodaeth ar gyfer diogelwch y plentyn yn y dyfodol a'r gwaith o ddiwallu ei anghenion datblygiadol.

8.125 Os yw'n berthnasol, dylid darparu copi o'r adroddiad i'r rhieni a phob plentyn cyn y gynhadledd. Dylid esbonio a thrafod cynnwys yr adroddiad gyda'r plentyn ac aelodau perthnasol o'r teulu cyn y gynhadledd, yn yr iaith/ieithoedd a ddefnyddir gan y plentyn ac aelodau'r teulu.

8.126 Mae'n arfer da i bob gweithiwr proffesiynol a chyfrannwr arall ddarparu, ymlaen llaw, adroddiad ysgrifenedig i'r gynhadledd a fydd ar gael i bawb a fydd yn mynychu. Os yw'n bosibl, dylid rhannu'r adroddiad ymlaen llaw gyda rhieni/gofalwyr.

8.127 Dylai gweithwyr proffesiynol eraill sy'n mynychu'r gynhadledd ddod â manylion eu cysylltiad â'r plentyn a'r teulu gyda nhw, ynghyd â gwybodaeth am anghenion datblygiadol y plentyn a gallu'r rhieni i ddiwallu anghenion eu plentyn yng nghyd-destun eu teulu a'r amgylchedd.

8.128 Dylid helpu'r plentyn ac aelodau'r teulu ymlaen llaw i feddwl am yr hyn maent am ei gyfleu i'r gynhadledd a'r ffordd orau o leisio eu barn ar y dydd. Efallai y bydd rhai'n dymuno darparu eu hadroddiad ysgrifenedig eu hunain, a gallant gael cymorth i'w baratoi gan eu cynghorwr/eiriolwr.

8.129 Dylai pawb sy'n darparu gwybodaeth wneud yn siŵr eu bod yn gwahaniaethu rhwng ffeithiau, sylwadau, honiadau a barn.

Gweithredu a phenderfyniadau ar gyfer y gynhadledd

8.130 Wrth bennu a ddylai'r plentyn fod yn destun cynllun amddiffyn plant, dylai'r gynhadledd ystyried **a yw'r plentyn mewn perygl parhaus o ddioddef niwed sylweddol**. Mewn achosion o'r fath, dylai'r prawf nodi:

- bod y plentyn wedi'i drin yn wael neu wedi datblygu nam mewn perthynas â'i iechyd neu ei ddatblygiad o ganlyniad i gam-drin corfforol, emosiynol neu rywiol neu esgeulustod, a bod gweithwyr proffesiynol o'r farn bod y plentyn yn debygol o barhau i gael ei drin yn wael neu ddatblygu nam arall; neu
- bod gweithwyr proffesiynol, yn seiliedig ar gasgliadau'r achos unigol hwn neu dystiolaeth ymchwil, o'r farn bod y plentyn yn debygol o gael ei drin yn wael neu ddatblygu nam mewn perthynas â'i iechyd neu ei ddatblygiad o ganlyniad i gam-drin corfforol, emosiynol neu rywiol neu esgeulustod.

8.131 Os yw'r plentyn mewn perygl parhaus o ddioddef niwed sylweddol, bydd gofyn am ymyrraeth a chymorth rhyngasiantaethol trwy gynllun amddiffyn plant ffurfiol i ddiogelu'r plentyn. Hefyd, mae gan y gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol ddyletswydd i drefnu'r cynllun amddiffyn plant, a hynny mor fanwl â phosibl.

8.132 Dylai pawb sy'n cymryd rhan yn y gynhadledd seilio'u barn ar y dystiolaeth a gafwyd o gofnodion cyfredol, yr asesiad cychwynnol a'r asesiad craidd trylwyr a gynhaliwyd ar ôl i'r ymholiadau dan a47 gychwyn. Dylid amlinellu'r dull o ddod i benderfyniad yn y gynhadledd ynglŷn ag a ddylai'r plentyn fod yn destun cynllun amddiffyn plant yn y protocol BLlDP perthnasol. Dylai'r broses o wneud penderfyniadau fod yn seiliedig ar farn yr holl asiantaethau a gynrychiolir yn y gynhadledd a dylai bwyso a mesur unrhyw gyfraniadau ysgrifenedig a wnaed. Dylid cofnodi penderfyniad y gynhadledd a, os yw hynny'n briodol, manylion y math o gam-drin neu esgeulustod, enw'r gweithiwr allweddol ac aelodaeth y grŵp craidd mewn modd sy'n gyson ag Adroddiad Cynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol y System Blant Integredig *(*Llywodraeth Cynulliad Cymru*,* 2002) a dylid ei ddosbarthu i bawb a wahoddir i'r gynhadledd o fewn diwrnod gwaith.

8.133 Os penderfynir bod plentyn mewn perygl parhaus o ddioddef niwed sylweddol a bod angen rhoi cynllun amddiffyn plant ar waith, dylai'r cadeirydd bennu pa fath o gam-drin neu esgeulustod y mae'r plentyn wedi'i ddioddef. Bydd y categori a ddefnyddir (hynny yw, cam-drin corfforol, emosiynol neu rywiol neu esgeulustod) yn dangos prif bryderon y Gofrestr Amddiffyn Plant ar yr adeg y daeth y plentyn yn destun cynllun amddiffyn plant.

8.134 Os bydd plentyn yn destun cynllun amddiffyn plant, y gynhadledd sy'n gyfrifol am ystyried a gwneud argymhellion ar sut y dylai asiantaethau, gweithwyr proffesiynol a'r teulu weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y plentyn yn cael ei amddiffyn rhag niwed yn y dyfodol. Dylai hyn alluogi gweithwyr proffesiynol a'r teulu i ddeall yr hyn a ddisgwylir ganddynt a'r hyn y gallant ddisgwyl gan eraill. Mae tasgau penodol yn cynnwys y canlynol:

- penodi'r corff statudol arweiniol (naill ai gwasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol neu'r NSPCC) a gweithiwr allweddol, sef gweithiwr cymdeithasol cymwys a phrofiadol ac aelod o'r corff statudol arweiniol;
- nodi aelodaeth grŵp craidd o weithwyr proffesiynol ac aelodau'r teulu a fydd yn datblygu a gweithredu'r cynllun amddiffyn plant fel offeryn gwaith manwl;
- sefydlu sut y dylai plant, rhieni (gan gynnwys pawb â chyfrifoldebau rhieni) ac aelodau'r teulu ehangach gymryd rhan yn y broses o asesu, cynllunio a gweithredu'r cynllun a'r cymorth, cyngor ac eiriolaeth sydd ar gael iddynt;
- pennu amserlenni ar gyfer cyfarfodydd y grŵp craidd (gan gynnwys dyddiad y cyfarfod cyntaf), cynhyrchu cynllun amddiffyn plant a chyfarfodydd adolygu amddiffyn plant;
- nodi pa gamau pellach sy'n ofynnol er mwyn cwblhau'r asesiad craidd a pha asesiadau arbenigol eraill o'r plentyn a'r teulu sy'n ofynnol er mwyn gwneud dyfarniadau cadarn ynglŷn â'r ffordd orau o ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn;
- llunio'r cynllun amddiffyn plant (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002), yn enwedig nodi'r hyn sydd angen ei newid er mwyn diogelu a hyrwyddo lles y plentyn;
- sicrhau bod cynllun wrth gefn ar waith os na chaiff camau cytunedig eu cwblhau a/neu bod amgylchiadau'n newid, er enghraifft, os bydd gofalwr yn methu â chyflawni'r hyn a gytunwyd, os na fydd cais i lys yn llwyddiannus neu os bydd rhiant yn symud plentyn o le diogel;
- egluro gwahanol ddiben a chylch gwaith y gynhadledd gychwynnol, y grŵp craidd a'r gynhadledd adolygu amddiffyn plant; a
- chytuno ar ddyddiad ar gyfer y gynhadledd adolygu amddiffyn plant gyntaf a than ba amgylchiadau y bydd angen galw'r gynhadledd cyn y dyddiad hwnnw.

8.135 Dylai'r cynllun amddiffyn plant:

- nodi ffactorau sy'n gysylltiedig â'r tebygolrwydd y bydd y plentyn yn dioddef niwed sylweddol a ffyrdd o amddiffyn y plentyn trwy gynllun rhyngasiantaethol yn seiliedig ar gasgliadau cyfredol yr asesiad a gwybodaeth a gafwyd yn dilyn unrhyw gysylltiad blaenorol â'r plentyn a'r teulu;

- sefydlu nodau ac amcanion byrdymor a hirdymor sy'n gysylltiedig â'r gwaith o leihau'r tebygolrwydd o niwed i'r plentyn a hyrwyddo lles y plentyn, gan gynnwys cysylltiad ag aelodau'r teulu;
- bod yn glir ynglŷn â phwy fydd yn gyfrifol am ba gamau – gan gynnwys camau gan aelodau'r teulu – o fewn pa amserlenni penodedig;
- amlinellu ffyrdd o fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn y canlyniadau cytunedig a amlinellir yn y cynllun; a
- bod yn glir ynglŷn â pha weithiwr proffesiynol sy'n gyfrifol am wneud yn siŵr bod y newidiadau gofynnol wedi'u cyflawni, a pha gamau a gymerir a chan bwy os na fyddant wedi'u cyflawni.

8.136 Hyd yn oed os nad yw plentyn yn destun cynllun amddiffyn plant, efallai y bydd angen gwasanaethau i hyrwyddo ei iechyd neu ei ddatblygiad. Dan yr amgylchiadau hyn, dylai'r gynhadledd a'r teulu ystyried anghenion y plentyn a pha gymorth pellach fyddai'n helpu'r teulu i ymateb iddynt. Yn amodol ar farn a chaniatâd y teulu, efallai y bydd yn briodol cwblhau asesiad craidd o anghenion y plentyn i helpu i bennu pa gymorth fyddai'n helpu i hyrwyddo lles y plentyn. Os bydd anghenion y plentyn yn gymhleth, bydd gwaith rhyngasiantaethol yn parhau i fod yn bwysig. Os yw'n briodol, dylai cynllun plentyn mewn angen gael ei lunio a'i adolygu'n rheolaidd bob chwe mis o leiaf (paragraffau 4.33 a 4.36, Fframwaith Asesu).

Cwynion ynglŷn â chynhadledd amddiffyn plant

8.137 Weithiau, efallai y bydd gan rieni/gofalwyr a phlant bryderon ac yr hoffent gyflwyno cwyn mewn perthynas ag un neu fwy o'r agweddau canlynol ar waith cynadleddau amddiffyn plant:

- proses y gynhadledd; y canlyniad, o ran ffaith a/neu gategori'r prif bryder ar yr adeg y daeth y plentyn yn destun cynllun amddiffyn plant;
- penderfyniad i'r plentyn fod yn destun cynllun amddiffyn plant.

8.138 Dylid cyfeirio cwynion ynglŷn â'r agweddau uchod ar waith cynadleddau at gadeirydd y gynhadledd dan sylw. Dylid anfon cwynion o'r fath ymlaen i wasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol ac, am eu bod yn berthnasol i Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2005[5]. Wrth ystyried ac ymateb i gwynion, dylai'r awdurdod lleol ffurfio panel rhyngasiantaethol yn cynnwys uwch-gynrychiolwyr o asiantaethau BLlDP. Dylai'r panel ystyried a yw'r protocolau a'r gweithdrefnau rhyngasiantaethol

[5] Mae'r Cyfarwyddiadau'n seiliedig ar a7B o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdod Lleol 1970, a fewnosodwyd gan a50 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990.

perthnasol wedi'u dilyn ac a yw'r penderfyniad y cwynir amdano yn dilyn y protocol(au) cywir.

8.139 Dylid ymateb i gwynion ynglŷn ag asiantaethau unigol, eu perfformiad a darpariaeth (neu ddiffyg darpariaeth) gwasanaethau o ganlyniad i asesiadau a chynadleddau, gan gynnwys y rheini a amlinellir mewn cynlluniau amddiffyn plant, yn unol â gweithdrefn gwyno'r asiantaeth berthnasol. Er enghraifft, mae a26 o Ddeddf Plant 1989 yn ei gwneud yn ofynnol i Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol sefydlu gweithdrefnau cwyno i fynd i'r afael â chwynion mewn perthynas â Rhan III o'r Ddeddf.

Trefniadau gweinyddol a chadw cofnodion

8.140 Dylai pobl sy'n mynychu gael gwybod am gynadleddau cyn gynted â phosibl a dylid eu cynnal ar adeg ac mewn man sy'n debygol o fod yn gyfleus i gymaint o bobl â phosibl. Dylai pob cynhadledd amddiffyn plant, boed yn gynhadledd gychwynnol neu'n gynhadledd adolygu, gynnwys unigolyn i wneud nodiadau a chynhyrchu cofnodion y cyfarfod. Mae cofnod y gynhadledd yn ddogfen waith hanfodol i weithwyr proffesiynol a'r teulu. Dylai gynnwys:

- ffeithiau hanfodol yr achos;
- crynodeb o'r drafodaeth yn y gynhadledd, sy'n adlewyrchu'n gywir y cyfraniadau a wnaed;
- pob penderfyniad a wnaed, gyda gwybodaeth yn amlinellu'r rhesymau dros benderfyniadau; a
- chyfieithiad o benderfyniadau mewn cynllun amddiffyn plant diwygiedig er mwyn i bawb fod yn glir ynglŷn â'u tasgau.

8.141 Dylai'r cadeirydd gytuno ar gofnod y gynhadledd cyn ei ddosbarthu. Dylid anfon copi cyn gynted â phosibl ar ôl y gynhadledd i bawb a fynychodd neu a wahoddwyd i fynychu, gan gynnwys aelodau'r teulu, ac eithrio unrhyw ran o'r gynhadledd y cawsant eu gwahardd ohoni. Os yw aelodau'r teulu'n cael eu gwahardd o ran o'r gynhadledd, dylai'r cadeirydd benderfynu a ddylid darparu cofnodion llawn neu rannol o'r cyfarfod. Efallai y byddai'r cofnod yn cynnwys gwybodaeth gan drydydd parti a gwybodaeth a allai fod yn sensitif neu'n enwi trydydd partïon. Dylid rhannu pob gwybodaeth nad yw'n enwi trydydd partïon gyda'r rhieni am ei bod yn ymwneud â gofal a lles eu plentyn.

8.142 Mae'r cofnod yn gyfrinachol ac ni ddylai gweithwyr proffesiynol ei ddosbarthu i drydydd partïon heb ganiatâd cadeirydd y gynhadledd neu'r gweithiwr allweddol. Fodd bynnag, mewn achosion troseddol, gall yr heddlu ddatgelu bodolaeth y nodiadau i Wasanaeth Erlyn y Goron yn unol â Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996. Dylai'r asiantaethau a'r gweithwyr proffesiynol gadw cofnod o benderfyniadau'r gynhadledd amddiffyn plant yn unol â'u polisïau cadw cofnodion.

Gweithredu yn dilyn y gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol

Swyddogaeth y gweithiwr allweddol

8.143 Pan fo cynhadledd yn penderfynu y dylid rhoi enw plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ac, felly, y dylai'r plentyn fod yn destun cynllun amddiffyn plant. Dylai un o'r asiantaethau gofal plant â phwerau statudol (gwasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol neu'r NSPCC) fod yn gyfrifol am yr achos yn y dyfodol a dynodi gweithiwr cymdeithasol profiadol yn weithiwr allweddol. Dylai fod gan bob plentyn sy'n destun cynllun amddiffyn plant weithiwr allweddol penodol.

8.144 Y gweithiwr allweddol sy'n gyfrifol am sicrhau bod y cynllun amddiffyn plant yn datblygu'n gynllun rhyngasiantaethol manylach. Dylai gwblhau'r asesiad craidd o'r plentyn a'r teulu, gan sicrhau cyfraniadau gan aelodau grwpiau craidd ac eraill yn ôl yr angen. Mae'r gweithiwr allweddol hefyd yn gyfrifol am weithredu fel gweithiwr arweiniol ar gyfer y gwaith rhyngasiantaethol gyda'r plentyn a'r teulu. Dylai hefyd gydgysylltu cyfraniad aelodau'r teulu ac asiantaethau eraill at y gwaith o gynllunio'r camau sydd angen eu cymryd, rhoi'r cynllun amddiffyn plant ar waith ac adolygu cynnydd yn erbyn y nodau a amlinellir yn y cynllun. Mae'n bwysig i swyddogaeth y gweithiwr allweddol gael ei hesbonio yn y gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol a'r grŵp craidd.

Dylai'r gweithiwr allweddol penodol:

- Arwain y grŵp craidd fel yr amlinellir yn *Gweithio gyda'n Gilydd*, gan gynnwys sicrhau cofnod ysgrifenedig o'r camau y cytunwyd arnynt mewn cyfarfodydd, gwneud penderfyniadau a diweddaru'r cynllun amddiffyn plant yn ôl yr angen.
- Cwblhau'r asesiad craidd o fewn 35 diwrnod gwaith. Canolbwyntio'n benodol ar y meysydd hynny a amlygir gan y gynhadledd amddiffyn plant fel meysydd sy'n gofyn am archwiliad a dealltwriaeth bellach. Cydnabod efallai na ellir cwblhau rhai asesiadau arbenigol o fewn y cyfnod hwn, neu efallai mai ar ddiwedd neu hanner ffordd trwy asesiad craidd yn unig y gwelwch fod mathau penodol o asesiadau'n ofynnol, yn enwedig os yw anghenion y plentyn yn gymhleth iawn.
- Dadansoddi casgliadau'r asesiad i ddarparu dealltwriaeth o anghenion y plentyn a gallu rhieni i ymateb yn briodol i'r anghenion hyn yng nghyd-destun y teulu a llywio cynlluniau, amcanion yr achos a natur darpariaeth y gwasanaeth (yn unol â Phennod 4 y *Fframwaith Asesu*). Bydd y ddealltwriaeth hon yn gwella'r cynllun amddiffyn plant, yn ogystal â llywio penderfyniadau yn y gynhadledd adolygu amddiffyn plant gyntaf.
- Cwblhau'r Cofnod Asesiad Craidd.

Y Grŵp Craidd

8.145 Y grŵp craidd sy'n gyfrifol am ddatblygu'r cynllun amddiffyn plant fel offeryn gwaith manwl, gan adeiladu ar y cynllun amlinellol y cytunwyd arno yn y gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol, a'i roi ar waith. Dylai aelodau gynnwys y gweithiwr allweddol, sy'n arwain y grŵp craidd, y plentyn os yn briodol, aelodau perthnasol o'r teulu a gweithwyr proffesiynol neu ofalwyr maeth sy'n dod i gysylltiad uniongyrchol â'r teulu.

8.146 Er mai'r gweithiwr allweddol sy'n arwain, mae holl aelodau'r grŵp craidd yn gyfrifol am lunio a gweithredu'r cynllun amddiffyn plant, gan wella'r cynllun yn ôl yr angen, a monitro cynnydd yn erbyn y canlyniadau arfaethedig a amlinellir yn y cynllun. Mae'n rhaid i'r holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a/neu deuluoedd dan y cynllun amddiffyn plant fod yn effro i'r posibilrwydd nad yw'r cynllun yn llwyddo i amddiffyn y plentyn. Dylai unrhyw weithiwr proffesiynol sy'n pryderu ynglŷn â hyn roi gwybod i'r gweithiwr allweddol yn syth a dylai'r grŵp craidd gynnal ailwerthusiad o'r achos heb oedi. Dan amgylchiadau o'r fath, dylid rhoi gwybod i reolwr llinell y gweithiwr allweddol a'ch rheolwr chi.

8.147 Mae grwpiau craidd yn fforwm pwysig ar gyfer gweithio gyda rhieni, aelodau'r teulu ehangach a phlant o oedran a dealltwriaeth ddigonol. Yn aml, mae rhieni'n ei chael hi'n anodd cytuno i gynllun amddiffyn plant mewn cynhadledd ffurfiol. Gallant gytuno i'r cynllun yn ddiweddarach ar ôl i'r grŵp craidd benderfynu ar fanylion y cynllun. Weithiau, efallai y bydd gwrthdaro buddiannau rhwng aelodau'r teulu â diddordeb perthnasol yng ngwaith y grŵp craidd. Mae buddiannau'r plentyn bob amser yn bwysicach na buddiannau aelodau eraill o'r teulu.

8.148 Dylid cynnal cyfarfod cyntaf y grŵp craidd o fewn 10 diwrnod gwaith i'r gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol. Diben y cyfarfod cyntaf yw datblygu cynllun amddiffyn plant a phenderfynu pa gamau sydd angen eu cymryd, a chan bwy, i gwblhau'r asesiad craidd yn brydlon. Ar ôl hynny, dylai grwpiau craidd gyfarfod yn rheolaidd i weithio gyda'i gilydd, i fonitro camau a chanlyniadau yn erbyn y cynllun amddiffyn plant ac i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol wrth i amgylchiadau newid. Dylai'r wybodaeth yn y cynllun amddiffyn plant fod yn gyson â'r wybodaeth yn yr enghraifft o Gynllun Amddiffyn Plant y System Blant Integredig (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002).

8.149 Dylid gwneud nodiadau ysgrifenedig i gofnodi'r penderfyniadau a gymerir a'r camau y cytunir arnynt mewn cyfarfodydd grŵp craidd. Dylai'r wybodaeth a gofnodir fod yn gyson â'r wybodaeth a amlinellir yng nghofnodion y grŵp craidd cychwynnol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (2006). Dylid diweddaru'r cynllun amddiffyn plant yn ôl yr angen.

8.150 Dylai'r asesiad craidd, a gwblheir o fewn 35 diwrnod gwaith, gynnwys dadansoddiad o anghenion datblygu'r plentyn a gallu'r rhieni i ymateb i'r anghenion hynny, gan gynnwys gallu'r rhieni i sicrhau bod y plentyn yn ddiogel rhag niwed. Efallai y bydd angen comisiynu asesiadau arbenigol (er enghraifft, gan wasanaethau iechyd meddwl i blant a'r glasoed) na ellir eu cwblhau yn y cyfnod hwn. Ni ddylai hyn ohirio'r gwaith o gasglu casgliadau'r asesiad craidd.

8.151 Dylai'r dadansoddiad o anghenion y plentyn ddarparu tystiolaeth i helpu i gynllunio a phennu'r ffordd orau o ddiogelu a hyrwyddo lles plentyn a chynorthwyo rhieni i gyflawni'r nod hwn. Dylid defnyddio penderfyniadau'n seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion datblygu'r plentyn i ddatblygu'r cynllun amddiffyn plant.

Yn gryno, dylai'r grŵp craidd:

- Gael ei arwain gan y gweithiwr allweddol penodol a chynnwys, os yn briodol, y plentyn, aelodau'r teulu a gweithwyr proffesiynol neu ofalwyr maeth a fydd yn gweithio gyda'r teulu.
- Trefnu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau priodol wrth aros i unrhyw asesiad(au) arbenigol gael ei/eu c/gwblhau.
- Bod yn gyfrifol, fel grŵp, am ddatblygu'r cynllun amddiffyn plant fel offeryn gwaith manwl, a'i roi ar waith, yn seiliedig ar y cynllun y cytunwyd arno yn y gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol. Dylid ei wella yn ôl yr angen a monitro cynnydd y plentyn ac aelodau'r teulu yn erbyn yr amcanion a nodir yn y cynllun.
- Darparu fforwm pwysig ar gyfer gweithio gyda rhieni, aelodau'r teulu a phlant o oedran a dealltwriaeth ddigonol. Yn aml, mae rhieni'n ei chael hi'n anodd cytuno i gynllun amddiffyn plant mewn cynhadledd ffurfiol. Gallant gytuno i'r cynllun yn ddiweddarach ar ôl i'r grŵp craidd benderfynu ar fanylion y cynllun. Weithiau, efallai y bydd gwrthdaro buddiannau rhwng aelodau'r teulu â diddordeb perthnasol yng ngwaith y grŵp craidd. Mae buddiannau'r plentyn bob amser yn bwysicach na buddiannau aelodau eraill o'r teulu.
- Cynnal ei gyfarfod cyntaf o fewn 10 diwrnod gwaith i'r gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol, i ddatblygu'r cynllun amddiffyn plant a phenderfynu pa gamau pellach sydd angen eu cymryd, a chan bwy, i gwblhau'r asesiad craidd yn brydlon. Ar ôl hynny, dylai grwpiau craidd gyfarfod yn rheolaidd i weithio gyda'i gilydd, i fonitro camau a chanlyniadau yn erbyn y cynllun amddiffyn plant ac i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol wrth i amgylchiadau'r plentyn ac aelodau'r teulu newid.

Dylai gweithwyr proffesiynol eraill:

- Gydweithio'n agos gyda gwasanaethau cymdeithasol wrth gasglu deunydd hanesyddol perthnasol a'i integreiddio mewn asesiad o anghenion datblygu'r plentyn a gallu'r rhieni i ymateb i'r anghenion hyn.

- Defnyddio'r wybodaeth a gesglir yn ystod asesiad craidd, gan gynnwys gallu i newid, i lywio penderfyniadau ynglŷn â diogelwch y plentyn a gwaith gyda'r plentyn a'r teulu yn y dyfodol.
- Cynnal asesiadau arbenigol fel sy'n briodol a darparu adroddiadau i'r gweithiwr allweddol penodol.

Y Cynllun Amddiffyn Plant

8.152 Y gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol sy'n gyfrifol am gytuno ar gynllun amddiffyn plant. Dylai gweithwyr proffesiynol a rhieni/gofalwyr ddatblygu manylion y cynllun yn y grŵp craidd. Nod cyffredinol y cynllun yw:

- sicrhau bod y plentyn yn ddiogel a gwneud yn siŵr nad yw'n dioddef niwed pellach;
- hyrwyddo iechyd a datblygiad y plentyn hy ei les; *a*
- chyn belled â'i fod er lles y plentyn, helpu'r teulu a'r teulu ehangach i ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn.

8.153 Dylai'r cynllun amddiffyn plant fod yn seiliedig ar gasgliadau'r asesiad a dylai ddilyn y dimensiynau'n ymwneud ag anghenion datblygu'r plentyn, gallu'r rhieni a ffactorau amgylcheddol a theuluol a thynnu ar wybodaeth am ymyriadau effeithiol. Dylai cynnwys y cynlluniau amddiffyn plant fod yn gyson â'r wybodaeth a amlinellir yn yr enghraifft o Gynllun Amddiffyn Plant (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002). Dylai hefyd amlinellu pa waith sydd angen ei wneud, pam, pryd a chan bwy. Dylai'r cynllun:

- ddisgrifio anghenion datblygu'r plentyn a pha wasanaethau therapiwtig sydd eu hangen;
- cynnwys canlyniadau penodol sy'n canolbwyntio ar y plentyn gyda'r nod o ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn;
- cynnwys strategaethau ymarferol a chamau penodol i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig;
- nodi'n glir swyddogaethau a chyfrifoldebau gweithwyr proffesiynol ac aelodau'r teulu, gan gynnwys natur a mynychder cysylltiad rhwng gweithwyr proffesiynol a phlant ac aelodau'r teulu;
- nodi pwyntiau ar gyfer adolygu cynnydd a'r dull o fesur cynnydd; ac
- amlinellu swyddogaethau a chyfrifoldebau'r gweithwyr proffesiynol sydd mewn cysylltiad rheolaidd â'r plentyn, er enghraifft, ymwelwyr iechyd, meddygon teulu ac athrawon, yn ogystal ag unrhyw gymorth penodol neu arbenigol i'r plentyn a'r teulu.

8.154 Dylai'r cynllun amddiffyn plant bwyso a mesur dymuniadau a theimladau'r plentyn a barn y rhieni, cyn belled â'u bod yn hyrwyddo lles y plentyn.

Cytuno ar y cynllun gyda rhieni

8.155 Dylai rhieni fod yn glir ynglŷn â'r dystiolaeth o niwed sylweddol a arweiniodd at y plentyn yn dod yn destun cynllun amddiffyn plant, beth sydd angen newid a'r hyn a ddisgwylir ganddynt fel rhan o'r cynllun i ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn. Dylai pob parti fod yn glir ynglŷn â swyddogaethau a chyfrifoldebau aelodau'r teulu a gwahanol asiantaethau wrth roi'r cynllun ar waith.

8.156 Dylai'r gweithiwr allweddol wneud pob ymdrech i sicrhau bod gan y plant a'r rhieni ddealltwriaeth glir o'r canlyniadau arfaethedig, eu bod yn derbyn y cynllun ac yn barod i weithio tuag ato. Dylid datblygu'r cynllun gydag aelodau'r teulu yn yr iaith sydd orau ganddynt a dylent dderbyn copi ysgrifenedig yn yr iaith hon fel y gallant fod yn glir ynglŷn â phwy sy'n gwneud beth a phryd a'r canlyniadau arfaethedig ar gyfer y plentyn.

8.157 Os na dderbynnir awgrymiadau aelodau'r teulu ynglŷn â'r ffordd orau o ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn, dylid esbonio'r rhesymau am hyn iddynt. Dylai teuluoedd gael gwybod am eu hawl i gwyno a gwneud sylwadau, sut i fynd ati a'r cymorth sydd ar gael iddynt wrth gyflwyno cwyn.

Ymyrraeth

8.158 Dylai penderfyniadau ynglŷn â sut i ymyrryd, gan gynnwys pa wasanaethau i'w cynnig, fod yn seiliedig ar dystiolaeth o'r hyn sy'n debygol o weithio o ran sicrhau canlyniadau da i'r plentyn. Dylid ystyried sawl agwedd ar ymyrraeth yng nghyd-destun y cynllun amddiffyn plant ac yng ngoleuni tystiolaeth o ganlyniad i asesiad o anghenion datblygu'r plentyn, gallu'r rhieni i ymateb yn briodol i anghenion y plentyn ac amgylchiadau'r teulu ehangach.

8.159 Mae'n bwysig darparu gwasanaethau i helpu'r plentyn a'r teulu i geisio sicrhau'r newidiadau gofynnol. Os na all y sawl sy'n rhoi gofal ddiogelu plentyn, bydd rhaid ei symud i fan arall tra bod gwaith yn cael ei gyflawni gyda'r plentyn a'r teulu. Waeth lle mae'r plentyn yn byw, dylai ymyriadau fynd i'r afael ag:

- anghenion datblygiadol y plentyn;
- dealltwriaeth y plentyn o'r hyn sydd wedi digwydd iddo;
- y berthynas rhwng y sawl sy'n rhoi gofal a'r plentyn a gallu'r rhieni i ymateb i anghenion y plentyn;
- y berthynas rhwng yr oedolion sy'n rhoi gofal, fel oedolion a rhieni;
- perthnasoedd teuluol;

- y berthynas rhwng y teulu a'r gweithwyr proffesiynol;
- newidiadau posibl i amgylchiadau cymdeithasol ac amgylcheddol y teulu;
- Efallai y bydd ymyriadau'n cynnwys nifer o elfennau cydberthynol;
- gweithredu i sicrhau diogelwch plentyn;
- gweithredu i helpu i hyrwyddo iechyd a datblygiad plentyn;
- gweithredu i helpu rhiant/y sawl sy'n rhoi gofal i ddiogelu plentyn a hyrwyddo ei les;
- therapi i blentyn sydd wedi'i gam-drin; a
- chymorth neu therapi i'r sawl oedd yn gyfrifol am y cam-drin.

8.160 Mae datblygu ymlyniad cadarn rhwng rhieni a phlant yn hanfodol i ddatblygiad iach plentyn. Bydd ansawdd a natur yr ymlyniad yn fater allweddol i'w ystyried wrth wneud penderfyniadau, yn enwedig mewn perthynas â symud plentyn o un man i'r llall, aduno plentyn â'i deulu naturiol neu ystyried lleoliad parhaol i ffwrdd oddi wrth deulu'r plentyn. Os oes angen asesu a ellir aduno'r plentyn â'r sawl oedd yn rhoi gofal a oedd yn gyfrifol am y cam-drin, bydd angen cyflawni gwaith manwl i helpu'r gofalwr i ddatblygu'r sgiliau rhieni angenrheidiol.

8.161 Bydd ystyried a ellir ymateb i anghenion datblygiadol y plentyn yng nghyd-destun y teulu ac o fewn amserlenni sy'n briodol i'r plentyn yn fater allweddol wrth benderfynu ar ymyriadau addas. Efallai na fydd yr ymyriadau hyn yn cyd-fynd â'r ymyriadau ar gyfer y rhiant/gofalwr. Weithiau, efallai y bydd angen i ymarferwyr, rheolwyr a'u hasiantaethau ystyried a yw hyn yn berthnasol i rieni sy'n sâl, yn anabl a/neu'n agored i dderbyn help therapiwtig.

8.162 Dylai'r broses gwneud penderfyniadau a chynllunio fod mor agored â phosibl, o safbwynt moesegol ac ymarferol.

8.163 Lle nad yw sefyllfa'r teulu'n gwella neu'n newid yn ddigon cyflym i ymateb i anghenion y plentyn, bydd angen gwneud penderfyniadau mewn perthynas â dyfodol hirdymor y plentyn. Yn yr hirdymor, efallai y dylid gosod y plentyn gyda theulu arall er ei les ei hun. Mae lles y plentyn, wedi'i lywio gan farn y plentyn, yn allweddol i'r ystyriaethau hyn.

8.164 Gall plant sydd wedi dioddef niwed sylweddol barhau i deimlo canlyniadau'r cam-drin, waeth a ydynt yn aros gyda'u teuluoedd, yn cael eu haduno â'u teuluoedd neu'n symud i fyw gyda theulu arall. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'w datblygiad emosiynol a'u hymddygiad. Felly, dylai gwaith therapiwtig gyda'r plentyn barhau, waeth lle mae'r plentyn yn byw, er mwyn sicrhau yr ymatebir yn briodol i anghenion y plentyn.

8.165 Mae rhagor o wybodaeth am wneud penderfyniadau ynglŷn ag ymyriadau ar gael yn y *Fframwaith Asesu* a'r arweiniad arfer sy'n cyd-fynd ag ef.

Dylai'r gweithiwr allweddol penodol:

- Gyflawni gwaith gyda'r plentyn a'r teulu yn unol â'r cynllun amddiffyn plant.
- Cysylltu â'r holl weithwyr proffesiynol sy'n darparu gwasanaethau i'r plentyn a'r teulu i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a sicrhau bod pob gweithiwr proffesiynol yn ymwybodol o'r hyn a gyflawnir gan eraill fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynllun cytunedig.

Dylai ymarferwyr eraill:

- Gysylltu â'r gweithiwr allweddol a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo am gynnydd.
- Darparu gwasanaethau'n unol â'r cynllun cytunedig ac, yn ôl yr angen, cynnal asesiadau arbenigol i lywio'r adolygiad o'r cynllun.
- Bod yn rhan o'r gwaith o ystyried pwysigrwydd perthynol nifer o wahanol ffactorau, gan gynnwys lle bo plentyn wedi'i wahanu oddi wrth ei deulu naturiol, lefel y gobaith a phresenoldeb ffactorau sy'n gysylltiedig â methu ag aduno, yn seiliedig ar dystiolaeth ymchwil gadarn.
- Ymateb i geisiadau i gyflwyno adroddiadau i lysoedd ynglŷn ag effaith debygol ymyriadau penodol, neu eu llwyddiant gyda'r gofalwyr.

Y Gynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant

Amserlen

8.166 Dylid cynnal y gynhadledd adolygu amddiffyn plant gyntaf o fewn tri mis i'r gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol a dylid cynnal adolygiadau pellach o leiaf bob chwe mis, cyn belled â bod y plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ac yn destun cynllun amddiffyn plant. Bydd hyn yn sicrhau y caiff momentwm ei gynnal yn y broses o ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn. Lle bo angen, dylid cynnal adolygiadau'n gynt i fynd i'r afael â newidiadau yn amgylchiadau'r plentyn. Dylai mynychwyr gynnwys pobl sy'n dod i gysylltiad â'r plentyn a'r teulu, yn yr un modd â chyda chynhadledd amddiffyn plant gychwynnol, a bydd protocolau BLlDP ar gyfer sefydlu cworwm yn berthnasol.

Diben

8.167 Diben yr adolygiad amddiffyn plant yw adolygu diogelwch, iechyd a datblygiad y plentyn yn erbyn canlyniadau arfaethedig a amlinellir yn y cynllun amddiffyn plant; sicrhau bod y plentyn yn parhau i gael ei amddiffyn; ac ystyried a ddylid parhau â'r cynllun amddiffyn plant neu ei newid. Mae adolygu cynnydd y plentyn ac effeithiolrwydd ymyriadau'n hanfodol er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer y plentyn.

8.168 Mae'r adolygiad yn gofyn am gymaint o baratoi, ymrwymo a rheoli â'r gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol. Dylai pob adolygiad bwyso a mesur a yw'r plentyn mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol ac, felly, a oes angen ei amddiffyn rhag niwed trwy gynllun amddiffyn plant ffurfiol. Fel arall, gellir dileu enw'r plentyn o'r Gofrestr Amddiffyn Plant. Dylid defnyddio'r un broses gwneud penderfyniadau ar gyfer datgofrestru ag a ddefnyddir ar gyfer cofrestru yn y gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol. Yn union fel gyda'r cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol, dylai'r protocol BLlDP perthnasol nodi cworwm gofynnol ar gyfer presenoldeb mewn cynadleddau adolygu. Os yn bosibl, ni ddylai'r cworwm arwain at ohirio adolygiadau. Lle na ellir osgoi gohirio cynhadledd adolygu oherwydd y cworwm, dylid cymryd camau i gynnal yr adolygiad cyn gynted â phosibl.

8.169 Mae'r grŵp craidd yn gyfrifol am gynhyrchu adroddiadau ar gyfer yr adolygiad amddiffyn plant sy'n rhoi trosolwg o waith a gyflawnir gan aelodau'r teulu a gweithwyr proffesiynol ac yn gwerthuso'r effaith ar les y plentyn yn erbyn y canlyniadau cytunedig a amlinellir yn y cynllun amddiffyn plant. Dylai cynnwys yr adroddiad i'r gynhadledd adolygu amddiffyn plant fod yn gyson â'r wybodaeth a amlinellir yn Adolygiad Amddiffyn Plant y System Blant Integredig (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002).

Gwneud penderfyniadau

Terfynu'r cynllun amddiffyn plant/datgofrestru

8.170 Dylid dileu enw plentyn o'r gofrestr ac ni ddylai bellach fod yn destun cynllun amddiffyn plant:

- os ystyrir nad yw'r plentyn mewn perygl parhaus o ddioddef niwed sylweddol sy'n golygu bod yn rhaid ei ddiogelu trwy gynllun amddiffyn plant (er enghraifft, mae'r tebygolrwydd o niwed wedi'i leihau gan gamau a gymerwyd drwy'r cynllun amddiffyn plant; mae amgylchiadau'r plentyn a'r teulu wedi newid; neu fod ailasesiad o'r plentyn a'r teulu'n nodi nad oes angen cynllun amddiffyn plant). Dan yr amgylchiadau hyn, dim ond cynhadledd amddiffyn plant all benderfynu nad oes angen cynllun amddiffyn plant;
- os yw'r plentyn a'r teulu wedi symud yn barhaol i ardal awdurdod lleol arall. Mewn achosion o'r fath, dylai'r awdurdod lleol dan sylw alw cynhadledd amddiffyn plant o fewn 15 diwrnod gwaith i glywed am y symud. Dim ond ar ôl y gynhadledd hon y gellir terfynu'r cynllun amddiffyn plant mewn perthynas â'r awdurdod lleol gwreiddiol;
- os yw'r plentyn bellach yn 18 oed neu'n hŷn, wedi marw neu wedi gadael y DU yn barhaol.

8.171 Pan gaiff enw plentyn ei ddileu o'r gofrestr amddiffyn plant neu os nad yw plentyn bellach yn destun cynllun amddiffyn plant, dylid rhoi gwybod

i holl gynrychiolwyr yr asiantaethau hynny a wahoddwyd i fynychu'r gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol a arweiniodd at y cynllun.

8.172 Efallai y bydd angen cymorth a gwasanaethau ychwanegol ar blentyn nad yw bellach yn destun cynllun amddiffyn plant ac ni ddylai terfynu'r cynllun amddiffyn plant olygu gwrthod help i blentyn. Dylai'r gweithiwr allweddol drafod gyda'r plentyn a'r rhieni pa wasanaethau sydd eu hangen, yn seiliedig ar ailasesiad o anghenion y plentyn a'r teulu. Dan yr amgylchiadau hyn, dylid datblygu cynllun plentyn mewn angen mewn partneriaeth â'r plentyn, y teulu ac asiantaethau perthnasol eraill. Dylid adolygu'r cynllun hwn yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y plentyn/plant.

Dylai rheolwyr gwasanaethau cymdeithasol…

- Sicrhau y cynhelir y Gynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant gyntaf o fewn tri mis i'r gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol a dylid cynnal adolygiadau pellach o leiaf bob chwe mis, cyn belled â bod y plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant. Lle bo angen, dylid cynnal adolygiadau'n gynt i fynd i'r afael â newidiadau yn amgylchiadau'r plentyn.
- Sicrhau bod y gynhadledd yn cael ei threfnu fel y bydd y bobl sy'n dod i gysylltiad â'r plentyn a'r teulu'n gallu mynychu, yn yr un modd â chyda chynhadledd amddiffyn plant gychwynnol.
- Sicrhau bod canlyniad y cyfarfod yn cael ei gofnodi, gan gynnwys a gaiff enw'r plentyn ei ddileu o'r gofrestr ac unrhyw newidiadau i'r cynllun amddiffyn plant (Adran Iechyd, 2002c).
- Sicrhau, os caiff enw plentyn ei ddileu o'r gofrestr, bod holl gynrychiolwyr yr asiantaethau hynny a wahoddwyd i fynychu'r gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol a arweiniodd at y cofrestru yn cael gwybod.

Dylai'r gweithiwr allweddol penodol…

- Ystyried, gyda chadeirydd y gynhadledd adolygu, y ffordd orau o sicrhau cyfranogiad y plentyn, cyfranogiad priodol yr holl asiantaethau ac unigolion a gwaith goruchwylio gan reolwyr cyfrifol.
- Paratoi adroddiad ar gyfer y gynhadledd adolygu amddiffyn plant.
- Lle caiff enw'r plentyn ei ddileu o'r gofrestr, dylai drafod gyda'r plentyn a'r rhieni pa wasanaethau sydd eu hangen. Dylai'r drafodaeth hon fod yn seiliedig ar ailasesiad o anghenion y plentyn yn ei deulu, oherwydd efallai y bydd y plentyn angen cymorth a gwasanaethau ychwanegol. Ni ddylai datgofrestru arwain at wrthod cymorth.
- Os, ar ôl datgofrestru, y bydd gwasanaethau cymdeithasol yn parhau i ddarparu gwasanaethau, dylai cynllun plentyn mewn angen gael ei lunio a'i adolygu bob chwe mis tan i'r achos gael ei gau. Dylid cynnwys y plentyn, aelodau'r teulu a gweithwyr proffesiynol perthnasol yn y gwaith o ddatblygu'r cynllun.

Dylai'r holl ymarferwyr…

- Gynhyrchu adroddiadau ar gyfer y Gynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant, a fydd yn darparu trosolwg o waith a gyflawnir gan aelodau'r teulu a gweithwyr proffesiynol, a gwerthuso'r effaith ar les y plentyn yn erbyn y nodau a amlinellir yn y cynllun amddiffyn plant.
- Mynychu'r cyfarfod adolygu, fel sy'n briodol. Cyfrannu at y gwaith o wneud penderfyniadau.
- Cyfrannu at unrhyw gynllun amddiffyn plant neu blentyn mewn angen.

Cynadleddau adolygu amddiffyn plant cyn geni

8.173 Os bydd asesiad craidd dan a47 o Ddeddf Plant 1989 yn nodi pryderon bod plentyn heb ei eni mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol, gall gwasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol benderfynu galw cynhadledd amddiffyn plant gychwynnol cyn i'r plentyn gael ei eni. Bydd gan gynhadledd o'r fath yr un statws, a dylid ei chynnal yn yr un modd, â chynadleddau amddiffyn plant cychwynnol eraill, gan gynnwys penderfyniadau ynglŷn â chynllun amddiffyn plant. Mae'r un peth yn wir am gynadleddau adolygu amddiffyn plant. Mae cynnwys gwasanaethau bydwreigiaeth yn hanfodol mewn achosion o'r fath.

Plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol

8.174 Mae Rheoliadau Adolygu Achosion Plant 1991, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Adolygu Achosion Plant (Diwygio) (Cymru) 2004, yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ofalu am blant, sefydliadau gwirfoddol sy'n rhoi llety i blant dan Adran 59 o'r Ddeddf Plant a chartrefi plant cofrestredig sy'n rhoi llety i blant adolygu cynllun gofal pob plentyn. Mae'r Rheoliadau'n nodi gofynion mewn perthynas â mynychder yr adolygiadau a'r materion sydd angen eu trafod.

8.175 Mae Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Diwygio) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cyfrifol benodi swyddog adolygu annibynnol (IRO). Mae'r IRO yn gyfrifol am fonitro adolygiad yr awdurdod lleol o'r cynllun gofal, gyda'r nod o sicrhau bod camau sy'n ofynnol ar gyfer rhoi'r cynllun gofal ar waith yn cael eu cymryd a bod canlyniadau'n cael eu monitro. Mae'r Rheoliadau'n rhoi grym i IRO atgyfeirio achos at Swyddog Achosion Teuleuol Cymru er mwyn iddo gymryd camau cyfreithiol, ar ôl i bopeth arall fethu, pan ystyrir nad yw hawliau dynol plentyn yn cael eu bodloni trwy fethu â rhoi'r cynllun gofal ar waith.

8.176 Pan fo plant sy'n derbyn gofal hefyd yn destun cynhadledd adolygu amddiffyn plant, y brif egwyddor yw y dylai'r systemau gael eu hintegreiddio a'u monitro'n ofalus mewn ffordd sy'n hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn hytrach na dull biwrocrataidd. Mae'n bwysig i amseru'r gynhadledd adolygu amddiffyn plant fod yn berthnasol i'r adolygiad dan y Rheoliadau Adolygu i sicrhau y darperir gwybodaeth o'r gynhadledd yn y cyfarfod adolygu, a bod y wybodaeth

honno'n llywio'r broses gyffredinol o gynllunio gofal. Dylid cofio mai dim ond ar ôl y cyfarfod adolygu plant sy'n derbyn gofal y gellir gwneud newidiadau sylweddol i'r cynllun gofal.

8.177 Gellir cyflogi IRO i gadeirio cynadleddau amddiffyn plant yn ogystal ag adolygiadau plant sy'n derbyn gofal. Dylid ystyried pa mor briodol yw gofyn i'r IRO gyflawni'r gwaith hwn. Dylid rheoli hyn mewn ffordd sy'n sicrhau na chaiff annibyniaeth yr IRO ei gyfaddawdu.

Cofnodi bod plentyn yn destun cynllun amddiffyn gofal

8.178 Dylai systemau TG gwasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol allu cofnodi pryd caiff enw plentyn ei roi ar y gofrestr amddiffyn plant ac a yw'n destun cynllun amddiffyn plant yng nghofnod achos y plentyn. Dylai pob system TG awdurdod lleol sy'n cefnogi'r System Blant Integredig (ICS) (y mae'n ofynnol iddi fod yn weithredol o 31 Rhagfyr 2006) allu cynhyrchu rhestr o'r holl blant sy'n byw yn yr ardal (gan gynnwys y plant y mae asiantaeth neu awdurdod lleol wedi'u gosod yno) yr ystyrir eu bod mewn perygl parhaus o ddioddef niwed sylweddol ac sy'n destun cynllun amddiffyn plant.

8.179 Prif ddiben cael y gallu TG i gofnodi bod plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant ac yn destun cynllun amddiffyn plant yw galluogi asiantaethau a gweithwyr proffesiynol i fod yn ymwybodol o'r plant hynny yr ystyrir eu bod mewn perygl parhaus o niwed sylweddol ac sy'n destun cynllun amddiffyn plant. Mae'n hanfodol i'r heddlu a gweithwyr iechyd proffesiynol allu cael yr wybodaeth hon o fewn a'r tu allan i oriau swyddfa arferol.

8.180 Cadeirydd y gynhadledd amddiffyn plant ddylai benderfynu a ddylid cofnodi bod plant wedi'u cam-drin neu gael eu hesgeuluso dan un neu fwy o'r categorïau hyn: cam-drin corfforol, emosiynol neu rywiol neu esgeulustod. Mae'r categorïau hyn yn helpu i nodi natur y pryderon cyfredol. Mae cofnodi gwybodaeth fel hyn hefyd yn galluogi pobl i gasglu a dadansoddi gwybodaeth yn lleol a chenedlaethol a'i defnyddio i gynllunio darpariaeth gwasanaethau. Dylai'r categorïau a ddewisir adlewyrchu'r holl wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr asesiad cychwynnol a'r asesiad craidd dan a47 o Ddeddf Plant 1989 ac ni ddylai dadansoddiadau dilynol ganolbwyntio'n unig ar un neu fwy o achosion o gam-drin.

Rheoli a darparu gwybodaeth am blentyn

8.181 Dylai pob awdurdod lleol ddynodi rheolwr, gweithiwr cymdeithasol profiadol fel rheol, i fod yn gyfrifol am:

- sicrhau bod cofnodion plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant/yn destun cynllun amddiffyn plant yn cael eu diweddaru;
- sicrhau bod ymholiadau ynglŷn â phlant y mae pobl yn pryderu amdanynt neu sy'n destun cynllun amddiffyn plant yn cael eu cofnodi a'u hystyried yn unol â pharagraffau 8.42-8.52;

- rheoli'r gwaith o roi gwybod am blant sy'n symud o un ardal awdurdod lleol i'r llall, fel plant sy'n destun cynllun amddiffyn plant a phlant sy'n derbyn gofal;
- rheoli'r gwaith o roi gwybod am bobl a all achosi perygl o niwed i blant, sydd wedi'u hadnabod yn ardal yr awdurdod lleol neu sydd wedi symud i ardal yr awdurdod lleol.

8.182 Dylid diweddaru gwybodaeth am bob plentyn sy'n hysbys i wasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol ar system TG ICS Awdurdodau Lleol fel y gall gwasanaethau cymdeithasol ddarparu gwybodaeth gywir am y plentyn i'r sawl sydd â hawl i'r wybodaeth. Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael bob amser i unigolion o'r fath. Dylid gwirio a chofnodi manylion unigolion sy'n gwneud ymholiad ar y system cyn darparu'r wybodaeth.

8.183 Os gwneir ymholiad ynglŷn â phlentyn a bod achos y plentyn yn agored i wasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol, dylid darparu enw gweithiwr allweddol y plentyn a dylid rhoi gwybod i'r gweithiwr allweddol am yr ymholiad hwn er mwyn iddo wneud ymchwil. Os gwneir ymholiad ynglŷn â phlentyn sy'n byw yn yr un cyfeiriad â phlentyn sydd ar y gofrestr amddiffyn plant/yn destun cynllun amddiffyn plant, dylid anfon yr wybodaeth hon at weithiwr allweddol y plentyn sy'n destun y cynllun amddiffyn plant. Os gwneir ymholiad ynglŷn â phlentyn nad yw'n hysbys i wasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol, dylid cofnodi'r ymholiad hwn, ynghyd â'r cyngor a roddir i'r unigolyn, ar daflen gyswllt. O ran ail ymholiad ynglŷn â phlentyn nad yw'n hysbys i wasanaethau cymdeithasol, dylid rhoi gwybod i'r unigolyn am yr ymholiad cynt a dylai rheolwr dynodedig gwasanaethau cymdeithasol plant yr awdurdod lleol sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol plant yr awdurdod lleol yn pwyso a mesur a yw'r plentyn dan sylw yn blentyn mewn angen.

Cofnodi

8.184 Mae cadw cofnodion yn rhan bwysig o atebolrwydd **pob gweithiwr proffesiynol** i bawb sy'n defnyddio'i wasanaethau. Mae'n helpu i ganolbwyntio gwaith ac mae'n hanfodol er mwyn gweithio'n effeithiol ar draws ffiniau proffesiynol ac asiantaethau. Mae cofnodion clir a chywir yn sicrhau bod adroddiad o waith asiantaeth neu weithiwr proffesiynol gyda phlentyn a/neu deulu. Maen nhw'n helpu gyda chysondeb pan na fydd gweithwyr proffesiynol unigol ar gael ac maen nhw'n offeryn hanfodol o ran galluogi rheolwyr i fonitro gwaith i'w adolygu gan gydweithwyr. Mae cofnodion yn ffynhonnell hanfodol o dystiolaeth ar gyfer ymchwiliadau ac ymholiadau ac efallai y bydd angen eu datgelu mewn achosion llys. Dylid cadw cofnodion achosion lle na chadarnheir pryderon dan ymholiadau a47 yn unol â pholisïau cadw'r asiantaeth dan sylw. Dylai'r polisïau hyn sicrhau bod cofnodion yn cael eu storio'n ddiogel ac y gellir eu hadalw'n brydlon ac yn effeithiol.

8.185 At y dibenion hyn, dylai cofnodion ddefnyddio iaith glir a syml a dylent fod yn gryno ac yn gywir o ran ffaith ac er mwyn gwahaniaethu rhwng barn, dyfarniadau a damcaniaethau.

8.186 Mae cofnodion da'n ategu arferion proffesiynol da. Er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant, mae angen casglu gwybodaeth o nifer o ffynonellau a gwneud dyfarniadau proffesiynol gofalus ar sail yr wybodaeth hon. Dylai cofnodion fod yn glir, yn hygyrch ac yn gynhwysfawr a dylent gynnwys dyfarniadau, penderfyniadau ac ymyriadau. Lle bo penderfyniadau wedi'u gwneud ar y cyd gan asiantaethau, neu wedi'u cefnogi gan reolwr, dylid gwneud hyn yn glir.


8.187 Mae'r enghreifftiau (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002) a gynhyrchwyd i gefnogi'r gwaith o weithredu'r System Blant Integredig yn cynnwys y gofynion gwybodaeth ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol plant awdurdod lleol, ynghyd ag eraill, wrth gofnodi gwybodaeth am blant mewn angen a'u teuluoedd. Cyfeiriwyd at y cofnod priodol i'w ddefnyddio ar wahanol adegau wrth weithio gyda phlant a theuluoedd gydol y bennod hon.

Wrth gynnal asesiad craidd, dylai gweithwyr cymdeithasol y plentyn…


- Arwain yr asesiad craidd fel yr amlinellir yn y Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd a chofnodi'r casgliadau.
- Gweld y plentyn a chyfathrebu ag ef i geisio asesu ei ddealltwriaeth o'i sefyllfa, os yw'n ddigon hen, a natur ei berthynas â phob aelod o'r teulu (gan gynnwys pawb sy'n rhoi gofal).
- Pennu'r berthynas rhwng y gofalwyr a'r plentyn, perthynas y rhieni a'r berthynas rhwng y rhieni â'r plant yn y teulu, yn ogystal â'r ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol a theuluol ehangach sy'n effeithio arnynt. Defnyddio Holiaduron a Graddfeydd (gweler Atodiad B am fanylion) ac arfau tystiolaeth eraill i gael gwybodaeth am feysydd penodol mewn perthynas â bywyd y teulu.
- Wrth gyfweld â gofalwyr/rhieni, dylent geisio osgoi rhoi gormod o bwyslais ar yr hyn a ddywedant yn hytrach na'r hyn a ddywed y plentyn.
- Casglu gwybodaeth am hanes y plentyn a phob aelod o'r teulu, gan adeiladu ar yr wybodaeth a gasglwyd yn ystod gwaith pob asiantaeth gyda'r plentyn, a'i chofnodi yn y gronoleg. Defnyddio casgliadau unrhyw asesiadau penodol o'r plentyn a/neu aelodau'r teulu i lywio'r asesiad craidd.
- Cadw nodiadau gofalus a manwl, am y byddant yn bwysig iawn i unrhyw achos llys neu ymchwiliad dilynol gan yr heddlu. Cofnodi unrhyw ddigwyddiadau anarferol a gwahaniaethu rhwng digwyddiadau a nodir gan y gofalwr a'r digwyddiadau a nodir gan eraill gan gynnwys gweithwyr proffesiynol. Dylid amseru, dyddio a llofnodi nodiadau a'u cadw mewn man diogel fel na fyddant ar gael i bobl heb awdurdod.

- Ar ôl y cyfnod hwn yn yr asesiad, ac ar y cyd â'u rheolwr a gweithwyr proffesiynol eraill, fel sy'n briodol, dylai'r gweithwyr proffesiynol ddadansoddi'r casgliadau er mwyn deall amgylchiadau'r plentyn. Dylai hyn lywio cynlluniau ar gyfer y dyfodol, amcanion yr achos a phenderfyniadau ynglŷn â pha fathau o wasanaethau i'w darparu.


Siart Llif 1: Atgyfeirio




Siart Llif 2: Beth sy'n digwydd ar ôl yr Asesiad Cychwynnol




Siart Llif 3: Gweithredu brys i amddiffyn plant



Siart Llif 4: Beth sy'n digwydd ar ôl y Drafodaeth Strategaeth?



Siart Llif 5: Beth sy'n digwydd ar ôl y Gynhadledd Amddiffyn Plant, gan gynnwys y Broses Adolygu?



9: Diogelu plant a allai fod yn arbennig o agored i niwed

Cyflwyniad

9.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu rhai ystyriaethau arbennig sy'n berthnasol wrth ddiogelu plant dan amrywiaeth o amgylchiadau penodol. Mae'n ychwanegu at, yn hytrach na chymryd lle Pennod 8, sy'n nodi'r fframwaith sylfaenol ar gyfer y camau gweithredu i'w cymryd dan unrhyw amgylchiadau pan fo gan riant, gweithiwr proffesiynol, neu unrhyw un arall bryderon am les plentyn.

Plant sy'n Byw Oddi Cartref

Cyffredinol

9.2 Mae'r datguddiadau am y cam-drin a'r esgeuluso cyffredin y mae plant sy'n byw oddi cartref yn ei ddioddef wedi gwneud llawer i godi ymwybyddiaeth o ba mor agored yw plant i niwed mewn lleoliad preswyl. Mae llawer o'r rhain wedi canolbwyntio ar gam-drin rhywiol, ond mae cam-drin corfforol ac emosiynol ac esgeulustod - gan gynnwys cam-drin cyfoedion, bwlio a chamddefnyddio sylweddau - yn llawn cymaint o fygythiad mewn lleoliadau sefydliadol. Ni ddylid byth llaesu dwylo gan dybio mai problemau'r gorffennol yw'r rhain - mae angen gwyliadwriaeth barhaus.

9.3 Mae'n rhaid rhoi'r pryder am ddiogelwch plant sy'n byw oddi cartref yng nghyd-destun y sylw a roddir i anghenion datblygiadol cyffredinol plant fel hyn, a phryder am y canlyniadau gorau posibl ar gyfer eu hiechyd a'u datblygiad. Dylai pob lleoliad lle mae plant yn byw oddi cartref ddarparu'r un mesurau diogelwch sylfaenol yn erbyn camdriniaeth, yn seiliedig ar ddull sy'n hyrwyddo eu lles cyffredinol a'u diogelu rhag pob math o niwed, ac sy'n eu trin gydag urddas a pharch. Mae llawer o'r gwasanaethau hyn yn cael eu rheoleiddio yng Nghymru gan Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (a gan y Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol yn Lloegr) i sicrhau, ymysg pethau eraill, bod y trefniadau ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r rheoliadau priodol a'r safonau gofynnol cenedlaethol.

9.4 Dylai gweithdrefnau Byrddau Lleol Diogelu Plant (BLIDP) gynnwys datganiad polisi clir yn penu bod gweithdrefnau diogelu plant lleol yn gymwys ym mhob sefyllfa, gan gynnwys sefyllfa plant sy'n byw oddi cartref. Dylai fod gan asiantaethau unigol weithdrefnau eglur a chlir ar waith yn unol â threfniadau'r BLIDP. Cyfrifoldeb yr awdurdod sy'n gofalu am y plentyn yw rhoi'r gweithdrefnau diogelu plant ar waith. Bydd yr awdurdod hwn yn cyfathrebu ag awdurdod cartref y plentyn ac unrhyw awdurdod perthnasol arall.

Mesurau Diogelwch Sylfaenol

9.5 Mae llawer o fesurau diogelwch hanfodol y dylid cadw atynt ym mhob lleoliad y mae plant yn byw ynddo oddi cartref, mewn gofal maeth, gofal preswyl, maethu preifat, lleoliadau iechyd, ysgolion preswyl, carchardai, sefydliadau troseddwyr ifanc, unedau diogel ac unrhyw leoliad arall. Os nad yw gwasanaethau'n cael eu darparu'n uniongyrchol, dylid mynd i'r afael â mesurau diogelwch sylfaenol yn benodol mewn cytundebau gyda darparwyr allanol. Mae'r mesurau diogelwch hyn yn cynnwys:

- plant yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu a'u hunan-barch yn cael ei hyrwyddo;
- y sefydliad yn agored i'r byd allanol ac i graffu allanol, gan gynnwys bod yn agored gyda theuluoedd a'r gymuned ehangach;
- polisïau a gweithdrefnau clir, ysgrifenedig ar fesurau diogelwch plant sy'n unol â gweithdrefnau Byrddau Lleol Diogelu Plant ar gyfer yr ardal a bod yr holl staff yn cydymffurfio â'r rhain;
- staff a gofalwyr maeth yn cael eu hyfforddi ym mhob agwedd ar ddiogelu plant; cadw llygad ar ba mor agored yw plant i niwed a pherygl niwed; a gwybod sut i weithredu polisïau a gweithdrefnau diogelu plant;
- gweithdrefnau cwyno yn glir, effeithiol, hawdd eu defnyddio ac ar gael yn hawdd i blant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai hynny ag anableddau a rhai nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Dylid cynorthwyo plant i ddefnyddio'r gweithdrefnau hyn. Dylai gweithdrefnau fynd i'r afael â chwynion anffurfiol ynghyd â chwynion ffurfiol. Ni fydd systemau nad ydynt yn hyrwyddo cyfathrebu agored ynghylch 'mân' gwynion yn ymateb i rai pwysig, a gall patrwm o 'fân' gwynion ddynodi problemau dyfnach mewn rheolaeth a diwylliant sydd angen mynd i'r afael â nhw. Dylai bod cofrestr gwynion ym mhob cartref plant sy'n cofnodi pob cynrychiolaeth neu gŵyn, y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â nhw, a'r canlyniadau;
- plant yn gallu cael mynediad hawdd i oedolyn y gallant ymddiried ynddo y tu allan i'r sefydliad, ee perthynas, gweithiwr cymdeithasol y plentyn, ymwelydd annibynnol, eiriolydd plant. Dylid cynorthwyo plant i ddefnyddio'r gweithdrefnau hyn. Dylid sicrhau bod plant yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael iddynt gan wasanaethau eirioli annibynnol, mentoriaid allanol a ChildLine;
- gweithdrefnau recriwtio a dethol yn gadarn ac yn creu trothwy mynediad uchel i atal y rhai hynny nad ydynt yn addas i weithio gyda phlant;
- polisïau, gweithdrefnau a systemau cymorth clir ar waith ar gyfer delio â phryderon staff a gofalwyr am staff neu ofalwyr eraill. Dylai sefydliadau fod â chod ymddygiad sy'n rhoi cyfarwyddyd i staff ar

eu dyletswydd i'w cyflogwr a'u hymrwymiad proffesiynol i nodi pryderon dilys am ymddygiad cydweithwyr neu reolwyr.

- Dylid cael sicrwydd bod gweithdrefnau'n gallu cael eu galw i rym mewn ffordd nad ydynt yn amharu ar sefyllfa a rhagolygon gyrfa y 'chwythwr chwiban' ei hun;
- parch at amrywiaeth a sensitifrwydd i hil, diwylliant, crefydd, rhyw, rhywioldeb ac anabledd;
- goruchwyliaeth a chymorth effeithiol, sy'n ymestyn i staff dros dro a gwirfoddolwyr; a
- staff a gofalwyr yn effro i'r peryglon i blant yn yr amgylchedd allanol gan bobl sy'n barod i fanteisio ar natur arbennig o fregus plant sy'n byw oddi cartref.

Hil a Hiliaeth

9.6 Mae plant o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (a'u rhieni) yn debygol o fod wedi profi aflonyddwch, gwahaniaethu ar sail hil a hiliaeth sefydliadol. Er bod hiliaeth yn achosi niwed arwyddocaol, nid yw ohono'i hun yn cael ei gategoreiddio fel cam-drin. Mae'r profiad o hiliaeth yn debygol o effeithio ar ymatebion y plentyn a'r teulu i'r prosesau asesu ac ymchwilio. Bydd methu ystyried effeithiau hiliaeth yn tanseilio ymdrechion i ddiogelu plant rhag mathau eraill o niwed arwyddocaol. Mae effeithiau hiliaeth yn amrywio o un gymuned i'r llall ac o un unigolyn i'r llall, ac ni ddylid ei ystyried fel achos unffurf.

9.7 Dylid ystyried yr angen am wasanaethau cyfieithu neu ddehongli niwtral, o ansawdd uchel, sy'n briodol i'r rhyw dan sylw wrth weithio gyda phlant a theuluoedd nad ydynt fel arfer yn defnyddio'r Saesneg. Fodd bynnag, ni ddylid defnyddio plant fel cyfieithwyr ar unrhyw gyfrif.

9.8 Dylai pob sefydliad sy'n gweithio gyda phlant, gan gynnwys y rhai sy'n gweithredu mewn ardaloedd lle mae'r cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn fach, fynd i'r afael â hiliaeth sefydliadol, a ddiffinnir yn Adroddiad Ymchwiliad MacPherson ar Stephen Lawrence fel "*the collective failure by an organisation to provide an appropriate and professional service to people on account of their race, culture and/or religion*".

Bwlio

9.9 Gellir diffinio bwlio fel ymddygiad niweidiol bwriadol, sy'n digwydd dro ar ôl tro dros gyfnod o amser fel arfer, lle mae'n anodd i'r rhai sy'n cael eu bwlio amddiffyn eu hunain. Gall fod ar sawl ffurf, gan gynnwys: corfforol (ee taro, cicio, dwyn), llafar (ee sylwadau hiliol neu homoffobig, bygythiadau, galw enwau) ac emosiynol (ee ynysu unigolyn o weithgareddau a rhag cael eu derbyn yn gymdeithasol gan eu grŵp cyfoedion). Gall y defnydd amhriodol o ffôn symudol a thechnolegau eraill hefyd fod yn ffactor a dylid eu cydnabod.

9.10 Nid yw pobl yn sylweddoli graddfa'r niwed a wneir gan fwlio'n aml. Gall achosi gofid sylweddol i blant, i'r graddau ei fod yn effeithio ar eu hiechyd a'u datblygiad neu, yn yr achosion gwaethaf, peri niwed arwyddocaol iddynt (gan gynnwys hunan-niwed). Dylai pob lleoliad lle darperir gwasanaethau i blant neu sy'n byw yno oddi cartref sicrhau bod eu strategaethau gwrth-fwlio yn cael eu gorfodi'n llym.

Gofal Maeth

9.11 Darperir gofal maeth yng nghartrefi'r gofalwyr eu hunain. Gallai hyn ei gwneud yn anoddach i adnabod sefyllfaoedd o gam-drin ac i blant allu lleisio'u barn y tu allan i'r teulu. Mae'n ofynnol i weithwyr cymdeithasol weld plant sy'n derbyn gofal maeth ar eu pen eu hunain am ran o'u hymweliadau, a dylid cofnodi tystiolaeth o hyn.

9.12 Dylai gofalwyr maeth fonitro hynt a helynt eu plant maeth, eu patrymau absenoldeb a'u cysylltiadau. Dylai gofalwyr maeth roi gwybod i'r awdurdod lleoli am unrhyw absenoldeb heb ei awdurdodi gan blentyn a, lle nodir hyn mewn unrhyw brotocol lleol, o fewn unrhyw gyfnod penodedig.

9.13 Mae dyletswydd y gwasanaethau cymdeithasol i gynnal ymchwiliadau amddiffyn plant, pan fo pryderon ynghylch niwed sylweddol i blentyn, yn gymwys ar yr un sail i blant mewn gofal maeth ag y mae i blant yn eu teuluoedd eu hunain. Dylai ymchwiliadau ystyried diogelwch unrhyw blant eraill sy'n byw ar yr aelwyd, gan gynnwys plant y gofalwyr maeth eu hunain. Os yw'r ymchwiliadau hyn yn ymwneud â gofalwyr maeth a ddarparwyd gan asiantaeth faethu annibynnol, dylid hysbysu Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru.

9.14 Os yw gofalwyr maeth yn gofalu am blant sydd wedi'u cam-drin, a allai fod wedi'u cam-drin neu a allai fod wedi cam-drin eraill, mae ganddynt hawl i gael gwybodaeth lawn, er budd y plentyn a'r teulu maeth.

Maethu Preifat

9.15 O dan Ddeddf Plant 1989, mae'n ofynnol i ofalwyr maeth preifat a'r rhai sydd â chyfrifoldeb fel rhieni hysbysu'r awdurdod lleol o'u bwriad i faethu'n breifat neu i gael plentyn wedi'i faethu'n breifat o leiaf 6 wythnos cyn ei leoli neu o fewn 48 awr i ddechrau'r lleoliad.

9.16 Mae'n ddyletswydd ar bob awdurdod lleol i sicrhau bod lles plant sy'n cael eu maethu'n breifat yn eu hardal yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo'n foddhaol, ac i sicrhau bod y cyngor angenrheidiol yn cael ei roi i'r gofalwyr maeth preifat. Er mwyn gwneud hynny, mae'n rhaid iddynt ymweld yn rheolaidd â phlant sy'n cael eu maethu'n breifat. Nodir y gofynion ymweld yn y Rheoliadau Plant (Trefniadau Preifat ar gyfer Maethu) (Cymru) 2006.

9.17 Mae'n rhaid i awdurdodau lleol fod yn fodlon â materion fel addasrwydd y gofalwr maeth preifat, ac aelwyd a llety'r gofalwr maeth preifat. Mae ganddynt y pŵer i orfodi gofynion ar y gofalwr maeth preifat neu, os oes pryderon difrifol am drefniant, ei wahardd. Mae Deddf Plant 1989 yn creu nifer o droseddau mewn cysylltiad â maethu preifat, gan gynnwys methiant i hysbysu trefniant neu i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad neu waharddiad a osodir gan yr awdurdod. Mae rhai unigolion yn cael eu gwahardd rhag bod yn ofalwyr maeth preifat.

9.18 Mae Deddf Plant 2004 yn cryfhau trefniadau lleol ar gyfer hysbysu. Mae'n ofynnol o dan Ddeddf Plant 1989 i awdurdodau lleol hyrwyddo ymwybyddiaeth yng ngofynion hysbysu eu hardal, ac i sicrhau bod y cyngor angenrheidiol yn cael ei roi i bobl sy'n ymwneud â phlant sy'n cael, neu sy'n cael eu cynnig i gael, eu maethu'n breifat. Bydd hyn yn cynnwys rhieni a gofalwyr maeth preifat.

9.19 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol hefyd bodloni eu hunain o'u haddasrwydd o drefniant arfaethedig cyn i blentyn gael ei faethu'n breifat (lle rhoddir rhybudd ymlaen llaw).

9.20 Mae'n ofynnol hefyd o dan y rheoliadau maethu preifat i awdurdodau lleol fonitro eu cydymffurfiaeth â'u holl ddyletswyddau a swyddogaethau mewn perthynas â maethu preifat, a bydd yn rhoi dyletswydd arnynt i benodi swyddog at y diben hwn.

9.21 Dylai athrawon, gweithwyr iechyd a gweithwyr proffesiynol eraill hysbysu'r awdurdod lleol o unrhyw drefniant maethu preifat sy'n dod i'w sylw, lle nad ydynt yn fodlon bod yr awdurdod lleol wedi neu am gael ei hysbysu o'r trefniant. Mae'n arfer da i hysbysu rhieni maeth o'r atgyfeiriad ond os ystyrir y gallai hyn roi'r plentyn mewn perygl o niwed, yna nid oes angen cael cydsyniad y rhieni maeth.

Ymchwilio i Gam-drin Sefydliadol neu Gam-drin Lluosog

9.22 Gellir diffinio cam-drin sefydliadol neu gam-drin lluosog fel cam-drin sy'n cynnwys un camdriniwr neu fwy a nifer o blant a phobl ifanc wedi'u cam-drin sy'n perthyn neu ddim yn perthyn. Efallai bod y camdrinwyr dan sylw yn cydweithredu i gam-drin plant, gan weithredu ar eu pen eu hunain o bryd i'w gilydd, neu efallai eu bod yn defnyddio fframwaith sefydliad neu awdurdod i recriwtio plant i'w cam-drin.

9.23 Mae cam-drin cyfundrefnol a cham-drin lluosog yn digwydd fel rhan o rwydwaith o gam-drin ledled teulu neu gymuned, ac mewn sefydliadau fel cartrefi preswyl neu ysgolion. Mae cam-drin o'r fath yn drawmatig iawn i'r plant sy'n ei ddioddef. Mae ymchwilio iddo'n cymryd llawer o amser ac yn waith caled sy'n gofyn am sgiliau arbenigol gan yr heddlu a staff gwaith cymdeithasol. Mae rhai ymchwiliadau'n gymhleth iawn oherwydd y lleoedd a'r bobl niferus sy'n gysylltiedig â'r achos, a'r cyfnod yr honnir i'r cam-drin ddigwydd. Mae'r ymchwiliadau hyd yn oed yn fwy cymhleth os nad yw'r dioddefwyr honedig, fel sy'n digwydd

mewn achosion hanesyddol, yn byw yn y y man y digwyddodd y cam-drin bellach neu lle nad yw'r sawl sy'n cyflawni trosedd yn gysylltiedig â'r lleoliad neu'r swydd bellach.

9.24 Bydd pob ymchwiliad i gam-drin sefydliadol neu gam-drin lluosog yn wahanol, yn unol â nodweddion pob sefyllfa a graddfa a chymhlethdod yr ymchwiliad. Mae pob un yn gofyn am gynllunio trylwyr, gwaith rhyngasiantaethol da, a sylw i anghenion lles y plant dan sylw. Mae'r canllawiau uchod ar ymchwilio i honiadau o gam-drin yn erbyn gweithwyr proffesiynol yr un mor berthnasol i ymchwilio i gam-drin cyfundrefnol neu gam-drin lluosog sefydliadol. Yn ogystal, dylid mynd i'r afael â rhai materion pwysig ym mhob ymchwiliad mawr, a dylai'r rhain gael eu hadlewyrchu mewn gweithdrefnau lleol:

- ymgynnull tîm dibynadwy wedi'i fetio o'r heddlu a gwaith cymdeithasol (naill ai'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r NSPCC neu'r ddau) i reoli a chynnal ymchwiliadau pwysig lle mae ymchwiliad yn cael ei gynnal ochr yn ochr ag ymchwiliadau diogelu plant. Nodi'r amodau ymrwymiad yn glir ar gyfer y tîm. Pwysleisio'r angen am gyfrinachedd. Mae'n hanfodol bod rheolwyr y tîm wedi'u hyfforddi ac yn arbenigo ym meysydd cynnal ymchwiliadau, prosesau cyfreithiol, achosion disgyblu, lles plant; a phroffiliau a dulliau camdrinwyr (mewn achosion o gam-drin rhywiol). Mae angen i aelodau'r tîm fod yn arbenigwyr ar gynnal ymchwiliadau, prosesau diogelu plant, a lles plant, a dylent fod yn ymrwymedig i gydweithio'n agos;
- cynnwys yr uwch swyddogion o'r asiantaethau sy'n cymryd rhan ar lefel strategol. Dylent sicrhau bod adnoddau priodol yn cael eu defnyddio a bod staff yn cael eu cynorthwyo. Dylid cytuno ar ffordd o ddelio â'r cyfryngau a materion gwleidyddol sy'n deillio o'r ymchwiliad;
- os yw honiadau o gam-drin yn ymwneud â lleoliad a reoleiddir, dylid cynnwys Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru yn y trafodaethau strategaeth;
- dylai'r heddlu benodi Uwch Swyddog Ymchwilio ar lefel briodol ac sydd â'r profiad priodol, a dylid ystyried defnyddio Gweithdrefnau Gweinyddu Safonol Ystafell Digwyddiadau Mawr a System Ymchwiliadau Difrifol Mawr y Swyddfa Gartref;
- sicrhau bod cofnodion yn cael eu storio'n ddiogel;
- cydnabod a rhagweld y gall ymchwiliad fod yn ehangach nag yr awgrymir gan honiadau cychwynnol;
- os bydd staff adran gwasanaethau cymdeithasol (neu ofalwyr maeth) yn cael eu hymchwilio, mae'n hanfodol sicrhau annibyniaeth a gwrthrychedd y tîm gwaith cymdeithasol. Os yw'n ymarferol dan yr amgylchiadau i gynnal ymchwiliad cadarn ac amhleidiol yn defnyddio staff yr awdurdod ei hun, mae'n hanfodol sicrhau bod digon o bellter (yn nhermau strwythurol a daearyddol) rhwng y staff

a'r rhai sy'n cael eu hymchwilio. Mae hyn yn golygu y dylid ystyried yn ofalus iawn a ddylid cynnwys aelodau staff neu reolwyr o'r sefydliad neu'r gweithle sy'n cael eu hymchwilio;

- dechrau pob ymchwiliad gyda thrafodaeth strategaeth i gytuno ar gylch gorchwyl a ffyrdd o weithio. Mae meysydd perthnasol ar gyfer gwneud penderfyniadau'n cynnwys yr amseru, paramedrau a rheolaeth yr ymchwiliad; dulliau atebolrwydd a chyfathrebu; storio cofnodion yn ddiogel; y defnydd o staff ac adnoddau; a strategaeth gyfathrebu yn cynnwys aelodau'r awdurdod, staff, plant a theuluoedd, y cyfryngau, ac Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Dylai'r cylch gorchwyl gynnwys sicrwydd y bydd y tîm yn cael mynediad llawn i gofnodion ac unigolion sydd â gwybodaeth bwysig;
- mynediad diogel i gyngor cyfreithiol arbenigol. Mae'r gydberthynas rhwng prosesau troseddol, sifil a chyflogaeth yn gymhleth;
- defnyddio cyfarfodydd ac adolygiadau cynllunio strategol rheolaidd i ystyried sut mae'r ymchwiliad yn cael ei gynal, y camau nesaf, ac effeithiolrwydd cydweithio. Cadw cofnodion mewn cyfarfodydd bob tro;
- cytuno ar brotocolau ysgrifenedig clir rhwng yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau eraill mewn perthynas â'r holl faterion gweithredol a pholisi allweddol, gan gynnwys rhannu gwybodaeth;
- ystyried yn y lle cyntaf a oes unrhyw blant yn rhan o'r ymchwiliad sydd angen eu diogelu'n weithredol a/neu sydd arnynt angen cymorth therapiwtig, a sut y dylid cyflawni hyn mewn ffordd sy'n gyson â sut y cynhelir ymchwiliadau troseddol;
- cynnal asesiad trylwyr o anghenion dioddefwyr, a darparu gwasanaethau i ddiwallu'r anghenion hynny;
- mae'n arfer da i ddarparu gwasanaeth cynghori cyfrinachol ac annibynnol i ddioddefwyr a theuluoedd. Cytuno ar ganllawiau gyda gwasanaethau cynghori a lles ar ddatgelu gwybodaeth i osgoi llygru tystiolaeth;
- darparu gofal a chymorth i'r tîm ymchwilio - gall llawer o'r gwaith fod yn anodd a thrallodus;
- rhoi dull o adnabod ar waith a gweithredu ar wersi a ddysgir o'r ymchwiliad (ee o ran polisïau, gweithdrefnau ac arferion gwaith a allai fod wedi cyfrannu at y cam-drin) wrth i'r ymchwiliad fynd rhagddo, ac ar ei ddiwedd; ac
- ar ddiwedd yr ymchwiliad, asesu'r ffordd y cafodd ei gynnal a nodi gwersi ar gyfer cynnal ymchwiliadau tebyg yn y dyfodol.

Plant yn yr Ysbyty

9.25 Mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru (NSF) yn nodi safonau ar gyfer gwasanaethau ysbyty.

9.26 Pan fo plant yn yr ysbyty, ni ddylai hyn yn ei hun beryglu iechyd y plentyn neu'r person ifanc ymhellach. Mae'r NSF yn mynnu bod ysbytai'n sicrhau bod eu cyfleusterau yn ddiogel ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Dylid rhoi polisïau ar waith sy'n ymwneud â thorri amodau diogelwch a chynnwys yr heddlu. Yr ALl lle mae'r ysbyty wedi'i leoli sy'n gyfrifol am les y plant yn ei ysbytai.

9.27 Ni ddylid gofalu am blant ar ward oedolion. Mae'n ofynnol yn ôl Safon Gwasanaethau Ysbyty NSF bod gofal yn cael ei ddarparu mewn lleoliad priodol ac mewn amgylchedd sy'n ddiogel ac sy'n addas ar gyfer oed a chyfnod datblygiad y plentyn neu'r person ifanc. Dylai ysbytai fod yn lleoedd ystyriol o blant, diogel ac iach ar gyfer plant. Lle bynnag y bo hynny'n bosibl, dylid ymgynghori gyda phlant ynglŷn â lle maen nhw am aros yn yr ysbyty a dylid ystyried eu safbwyntiau a'u parchu. Dylai data derbyn i'r ysbyty gynnwys oed y plant er mwyn i ysbytai allu monitro a ydynt yn derbyn gofal priodol ar wardiau priodol.

9.28 Hefyd, mae'n ofynnol yn ôl adran 85 o Ddeddf Plant 1989 i Ymddiriedolaethau'r GIG hysbysu'r 'awdurdod cyfrifol' - hy yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal lle mae'r plentyn yn preswylio fel arfer neu lle mae'r plentyn yn preswylio os nad yw hyn yn glir - lle mae plant am dderbyn llety gan yr Ymddiriedolaeth am dri mis neu fwy (er enghraifft mewn ysbyty), er mwyn gallu asesu lles y plentyn os oes angen a'i adolygu.

Plant yn y Ddalfa

9.29 Yn dilyn dyfarniad Munby, J ym mis Tachwedd 2002 *(R(ar y cais gan Cynghrair Howard am ddiwygiad penydiol) v. Ysgrifennydd Gwladol I'r Adran Gartref ac eraill [2002] EWHC 2479(Admin*)), a benderfynodd bod yr awdurdodau lleol yn parhau i fod ag ymrwymiadau i blant yn y ddalfa, cytunwyd y bydd y Byrddau Cyfiawnder Ieuenctid (BCI) yn cyllido tua 25 o staff ALl am 2 flynedd ledled yr holl Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, i gyflawni dyletswyddau Deddf Plant 1989. Bydd rhan sylweddol o'r dyletswyddau hyn yn ymwneud â diogelu a hyrwyddo lles plant. Yn benodol, bydd y staff hyn yn gyfrifol am oruchwylio gweithdrefnau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant yn yr ystâd ddiogel, a chynorthwyo i sicrhau bod cysylltiadau priodol yn cael eu gwneud rhwng yr YOI a'i Fyrddau Lleol Diogelu Plant.

Cam-drin Plant Anabl

9.30 Mae'r dystiolaeth o'r DU sydd ar gael ar raddfa cam-drin plant anabl yn awgrymu bod plant anabl mewn perygl cynyddol o gam-drin, ac ymddengys bod presenoldeb anableddau lluosog yn cynyddu'r perygl o gam-drin ac esgeulustod. Hwyrach y bydd gan rai plant anabl:

- lai o gysylltiadau allanol na phlant eraill;
- yn derbyn gofal personol, gan nifer o ofalwyr o bosibl, a allai gynyddu'r perygl o fod yn agored i ymddygiad sy'n cam-drin, a'i gwneud yn anoddach i osod a chynnal ffiniau corfforol;
- llai o allu i ymwrthod neu osgoi camdriniaeth;
- anawsterau cyfathrebu a allai ei gwneud yn anodd dweud wrth eraill beth sy'n digwydd;
- yn dal yn ôl rhag cwyno oherwydd eu bod yn ofn colli gwasanaethau;
- yn agored iawn i fwlio a chael eu brawychu;
- yn fwy agored i gael eu cam-drin gan eu cyfoedion na phlant eraill;
- mewn perygl o gam-drin oherwydd methiant i gydnabod eu hanghenion penodol neu i ddarparu mesurau diogelwch, gwasanaethau neu ofal priodol.

9.31 Mae mesurau diogelwch ar gyfer plant anabl yr un fath yn y bôn ag ar gyfer plant nad ydynt yn anabl. Mae llawer o weithwyr proffesiynol yn gwrthod credu bod plant anabl yn cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso ac yn parhau'n amharod i herio rhieni. Felly mae angen rhoi sylw arbennig i hyrwyddo lefel uchel o ymwybyddiaeth ymysg y rhai hynny sy'n gweithio gyda phlant anabl a'u teuluoedd o'r peryglon ac o'r angen am safonau ymarfer uchel, ac i gryfhau gallu plant a theuluoedd i helpu eu hunain. Mae mesurau yn cynnwys:

- sicrhau bod cynorthwyo plant anabl i gyfleu eu dymuniadau a'u teimladau o ran eu gofal a'r ffordd y maen nhw'n cael eu trin yn rhywbeth sy'n digwydd yn naturiol;
- sicrhau bod plant anabl yn derbyn addysg bersonol, iechyd a chymdeithasol briodol (gan gynnwys addysg rhyw);
- sicrhau bod pob plentyn anabl yn gwybod sut i gyfleu eu pryderon os ydynt yn poeni neu'n flin am unrhyw beth, a rhoi mynediad iddynt i amrywiaeth o oedolion fel y gallant gyfathrebu â nhw. Dylai plant anabl sydd ag anawsterau cyfathrebu allu cael eu clywed mewn rhyw ffordd drwy'r adeg;
- ymrwymiad clir a dealltwriaeth o ddiogelwch a lles pob plentyn ymysg darparwyr gwasanaethau a ddefnyddir gan blant anabl;

- cysylltiad agos â theuluoedd, a diwylliant o fod yn agored ar ran gwasanaethau; a
- chanllawiau a hyfforddiant ar gyfer staff ar arferion da mewn gofal personol; gweithio gyda phlant o'r rhyw arall; delio ag ymddygiad anodd; cydsynio i driniaeth; strategaethau gwrth-fwlio; a rhywioldeb ac ymddygiad rhywiol ymysg pobl ifanc sy'n byw oddi cartref.

9.32 Dylid mynd i'r afael ag unrhyw bryderon am les plentyn anabl yn unol â'r canllaw ym Mhennod 8, yn yr un ffordd ag unrhyw blentyn arall. Mae'r un trothwyau ar gyfer gweithredu'n gymwys. Byddai'n annerbyniol pe bai safonau gofal gwael yn cael eu goddef ar gyfer plant anabl na fyddai'n cael eu goddef ar gyfer plant nad ydynt yn anabl. Os oes gan blentyn anabl anawsterau cyfathrebu, dylid rhoi sylw arbennig i anghenion cyfathrebu, ac i ganfod canfyddiadau'r plentyn o ddigwyddiadau, a'i ddymuniadau a'i deimladau.

9.33 Ym mhob ardal, dylai'r gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu fod yn ymwybodol o systemau cyfathrebu di-eiriau, pryd y gallant fod yn ddefnyddiol, sut i'w defnyddio a sut i gysylltu â chyfieithwyr neu hwyluswyr. Yn benodol, mae angen i asiantaethau fod yn ymwybodol o'r cynllun Gwasanaethau Cymorth Cyfryngol sy'n cael ei dreialu ar hyn o bryd mewn sawl ardal awdurdod heddlu yng Nghymru a Lloegr.

9.34 Ni ddylai asiantaethau wneud rhagdybiaethau am anallu plentyn anabl i roi tystiolaeth gredadwy, na'i allu i wrthsefyll llymder y broses llys. Dylid asesu pob plentyn yn ofalus, a'i helpu a'i gynorthwyo i gymryd rhan yn y broses cyfiawnder troseddol pan fo hyn er budd y plentyn ac er budd cyfiawnder. Os oes gan blentyn anabl namau cyfathrebu neu anableddau dysgu, dylid rhoi sylw arbennig i anghenion cyfathrebu, ac i ganfod canfyddiadau'r plentyn o ddigwyddiadau, a'i ddymuniadau a'i deimladau. Ym mhob ardal, dylai'r gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu fod yn ymwybodol o systemau cyfathrebu di-eiriau, pryd y gallant fod yn ddefnyddiol, sut i'w defnyddio a sut i gysylltu â chyfieithwyr neu hwyluswyr.

9.35 Mewn achosion troseddol mae tystion dan 17 oed yn gymwys yn awtomatig am gymorth i roi eu tystiolaeth. Mae'r mesurau arbennig y gellir eu darparu iddynt yn cynnwys: sgriniau o amgylch y blwch tystio fel nad ydynt yn gweld y diffynnydd, tystiolaeth fideo wedi'i recordio mewn dolenni fideo byw fel nad ydynt yn gorfod mynd i'r llys o gwbl, a chyfryngwyr a chymhorthion i gyfathrebu er mwyn hwyluso cyfathrebu da. Mae'r canllawiau '*Sicrhau'r Dystiolaeth Orau'* ar gyfer ymchwilwyr yn cynnwys canllawiau cynhwysfawr ar gynllunio a chynnal cyfweliadau gyda phlant ac adran benodol am gyfweld plant anabl.

9.36 Mae gan Fyrddau Lleol Diogelu Plant swyddogaeth bwysig wrth ddiogelu plant anabl drwy:

- godi ymwybyddiaeth ymysg plant, teuluoedd a gwasanaethau;
- nodi a diwallu eu hanghenion hyfforddi rhyngasiantaethol, sy'n annog 'cronni' arbenigedd rhwng y rhai hynny sydd â gwybodaeth a sgiliau o ran anableddau, a'r rhai â gwybodaeth a sgiliau o ran diogelu plant;
- sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau lleol ar gyfer diogelu plant yn diwallu anghenion plant anabl.

Cam-drin gan Blant a Phobl Ifanc

9.37 Mae plant, yn enwedig y rhai hynny sy'n byw oddi cartref, yn agored i gael eu cam-drin gan eu cyfoedion. Dylid ystyried cam-drin fel hyn mor ddifrifol â cham-drin a wneir gan oedolyn. Dylai fod yn destun yr un gweithdrefnau diogelu plant ag sy'n gymwys mewn perthynas ag unrhyw blentyn sy'n dioddef, neu mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol. Mae angen canllawiau a hyfforddiant clir ar staff a gofalwyr i nodi ystyr perthnasoedd cymhellol, amhriodol neu ecsbloetiol ymhlith cyfoedion. Mae angen i staff a gofalwyr fod yn ymwybodol y gall y glasoed a hyd yn oed plant iau gyflawni troseddau rhywiol. Felly ni ddylai staff ddiystyru ymddygiad rhywiol camdriniol rhwng pobl ifanc fel rhywbeth cwbl 'normal'. Dylent osgoi datblygu trothwyau uchel cyn gweithredu.

9.38 Dylai pobl sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n cam-drin eraill - gan gynnwys y rhai sy'n cam-drin/troseddu yn rhywiol - gydnabod bod plant fel hyn yn debygol o fod ag anghenion sylweddol eu hunain, ac efallai bod risg sylweddol y byddant yn niweidio plant eraill. Awgryma tystiolaeth y gall plant sy'n cam-drin eraill fod wedi dioddef aflonyddwch sylweddol yn eu bywydau, wedi bod yn ddiamddiffyn i drais yn y teulu, wedi gweld neu ddioddef cam-drin corfforol neu rywiol, gyda phroblemau yn eu datblygiad addysgol, ac wedi cyflawni troseddau eraill o bosibl. Mae'n debyg y bydd plant a phobl ifanc fel hyn yn debygol o fod yn blant mewn angen, a rhai hefyd yn dioddef neu mewn perygl o niwed arwyddocaol, ac efallai y byddant angen cael eu hamddiffyn eu hunain.

9.39 Dylai plant a phobl ifanc sy'n cam-drin eraill gael eu dal yn gyfrifol am eu hymddygiad camdriniol, tra'n cael eu henwi a'u trin mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion ynghyd ag amddiffyn eraill. Dengys gwaith gydag oedolion sydd wedi cam-drin bod llawer ohonynt wedi dechrau cam-drin yn ystod eu plentyndod neu lencyndod, a bod nifer sylweddol wedi'u cam-drin eu hunain. Felly gall ymyrryd yn gynnar gyda phlant a phobl ifanc sy'n cam-drin eraill gyfrannu'n allweddol at ddiogelu'r cyhoedd drwy atal parhad neu ddwysâd ymddygiad camdriniol.

9.40 Dylai tair egwyddor allweddol fod wrth wraidd y gwaith gyda phlant a phobl ifanc sy'n cam-drin eraill:

- dylai asiantaethau cyfiawnder ieuenctid, lles plant, addysg (gan gynnwys seicoleg addysgol) ac iechyd (gan gynnwys iechyd meddwl plant a phobl ifanc) fod ag agwedd gydlynol;
- dylid ystyried anghenion plant a phobl ifanc sy'n cam-drin eraill ar wahân i anghenion eu dioddefwyr;
- dylid cynnal asesiad ym mhob achos, gan werthfawrogi bod gan y plant hyn anghenion datblygiadol sylweddol heb eu diwallu, ynghyd ag anghenion penodol yn deillio o'u hymddygiad.

9.41 Dylai Byrddau Lleol Diogelu Plant a Thimau Troseddau Ieuenctid sicrhau bod fframwaith gweithredol clir ar waith ar gyfer asesu, gwneud penderfyniadau a rheoli achosion. Ni ddylai asiantaethau lles plant a chyfiawnder troseddol gymryd camau gweithredu sy'n achosi goblygiadau i eraill heb ymgynghori'n briodol.

9.42 Yn ogystal â'r asesiad craidd a gyflawnir yn y Fframwaith Asesu wrth asesu plentyn sy'n cam-drin plentyn arall, dylid hefyd ystyried:

- natur a graddfa yr ymddygiad camdriniol. O ran cam-drin rhywiol, ceir anawsterau o bryd i'w gilydd wrth wahaniaethu rhwng datblygiad rhywiol arferol plant a'u greddf i arbrofi'n rhywiol ac ymddygiad rhywiol ymosodol ac amhriodol. Efallai y bydd angen barn broffesiynol arbenigol, o fewn y cyd-destun o wybodaeth am rywioldeb arferol plant;
- cyd-destun yr ymddygiad camdriniol;
- datblygiad y plentyn ac amgylchiadau teuluol a chymdeithasol;
- anghenion am wasanaethau sy'n canolbwyntio'n benodol ar ymddygiad niweidiol ac anghenion pwysig eraill; a'r
- peryglon i'w hunain ac eraill, gan gynnwys plant eraill ar yr aelwyd, teulu estynedig, ysgol, grŵp cyfoedion neu rwydwaith cymdeithasol ehangach.

9.43 Mae'r perygl hwn yn debygol o fodoli: os nad yw'r cyfle i gam-drin ymhellach yn cael ei atal, os nad yw'r person ifanc wedi cydnabod yr ymddygiad camdriniol ac wedi derbyn cyfrifoldeb a bod y camdriniwr ifanc a'i deulu yn cytuno i weithio gydag asiantaethau perthnasol i fynd i'r afael â'r broblem.

9.44 Mae penderfyniadau ar gyfer asiantaethau lleol (gan gynnwys Gwasanaeth Erlyn y Goron lle'n berthnasol), yn unol â chyfrifoldebau pob un, yn cynnwys:

- y camau gweithredu mwyaf priodol o fewn y system cyfiawnder troseddol, os yw'r plentyn yn hŷn na'r oedran i gymryd cyfrifoldeb troseddol;
- a ddylai'r camdriniwr ifanc fod yn destun cynhadledd amddiffyn plant; a
- pha gamau gweithredu y dylid eu rhoi ar waith i fynd i'r afael ag anghenion y camdriniwr ifanc, gan fanylu ar gyfranogiad pob asiantaeth berthnasol.

9.45 Dylai camdriniwr ifanc fod yn destun cynhadledd amddiffyn plant os ystyrir ei fod mewn perygl personol o barhau i wneud niwed arwyddocaol. Lle nad oes rheswm i gynnal cynhadledd amddiffyn plant, efallai y bydd angen dull aml-asiantaeth os yw anghenion y camdriniwr ifanc yn gymhleth. Yn aml, rhaid wrth sgiliau a phwyso a mesur gofalus wrth ymdrin â materion sy'n ymwneud â threfniadau addysgol a llety addas.

Plant y mae eu Hymddygiad yn Dynodi Diffyg Rheolaeth Rhieni

9.46 Pan dynnir sylw'r heddlu neu'r gymuned ehangach at blant oherwydd eu hymddygiad, gall hyn fod yn arwydd bod y plant yn agored i niwed, eu bod yn cael eu goruchwylio'n wael neu'n cael eu hesgeuluso yn ei ystyr ehangach. Mae'n bwysig ystyried a yw'r plant mewn angen a chynnig cymorth a gwasanaethau iddynt sy'n adlewyrchu eu hanghenion. Dylid gwneud hyn ar sail aml-asiantaeth. Dylid defnyddio amrywiaeth o bwerau i gynnwys teuluoedd yn y broses o wella ymddygiad y plentyn.

9.47 Ymyriad gorfodol yw'r Gorchymyn Diogelu Plant (CSO) sydd ar gael dan y trothwy bod plentyn mewn perygl o niwed arwyddocaol. Gall awdurdod lleol wneud cais am CSO os yw'r plentyn wedi cyflawni gweithred a fyddai'n drosedd pe bai'n 10 oed neu hŷn, os yw hynny'n angenrheidiol i atal gweithred o'r fath, neu os yw'r plentyn wedi achosi aflonyddwch, trallod neu braw i eraill (hy wedi ymddwyn yn anghymdeithasol). Mae wedi'i gynllunio i gynorthwyo'r plentyn i wella ei ymddygiad ac mae'n debygol o gael ei ddefnyddio ochr yn ochr â gwaith gyda'r teulu ac eraill i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau sylfaenol.

9.48 Gellir gwneud Gorchymyn Rhianta ochr yn ochr â CSO neu lle torrir CSO. Mae hwn yn ddull effeithiol o gynnwys a chynorthwyo rhieni tra'n eu helpu i ddatblygu eu gallu i gyflawni eu cyfrifoldebau fel rhieni.

Cam-drin Domestig

9.49 Mae cam-drin domestig wedi'i ystyried, tan yn ddiweddar, yn fater sy'n effeithio ar oedolion yn bennaf. Ond yn amlwg, mae'n aml yn cynnwys

aelwydydd lle mae plant a phobl ifanc yn byw, sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig cymaint, os nad mwy, â'r oedolion dan sylw.

9.50 Lansiwyd strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar fynd i'r afael â cham-drin domestig ar 30 Mawrth 2005. Am fwy o wybodaeth cysylltwch a [http://new.wales.gov.uk/about/strategy/strategypublications/strategypubs/935798/?] Mae'r strategaeth wedi'i datblygu ar y cyd gydag arbenigwyr o'r holl asiantaethau sy'n delio â dioddefwyr cam-drin ledled Cymru.

9.51 Bydd plant yn dioddef, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, os ydynt yn byw mewn aelwydydd lle mae cam-drin domestig. Mae cam-drin domestig yn debygol o gael effaith niweidiol ar iechyd a datblygiad plant, ac yn aml bydd yn briodol ystyried plant o'r fath yn blant mewn angen. Dylai pawb sy'n gweithio gyda menywod a phlant fod yn effro i'r gydberthynas fynych rhwng cam-drin domestig a chamdriniaeth ac esgeulustod. Lle ceir tystiolaeth o gam-drin domestig, dylid ystyried y goblygiadau i unrhyw blentyn ar yr aelwyd, gan gynnwys y posibilrwydd y gallai'r plant eu hunain fod yn dioddef trais neu fath arall o niwed. Ar y llaw arall, os credir bod plentyn yn cael ei gam-drin, dylai'r rhai hynny sy'n ymwneud â'r plentyn a'r teulu fod yn effro i'r posibilrwydd o gam-drin domestig yn y teulu.

9.52 Yr heddlu fel arfer sy'n dod i'r cysylltiad cyntaf â theuluoedd lle ceir problemau cam-drin domestig. Wrth ymateb i ddigwyddiadau o drais, dylai'r heddlu ganfod a oes unrhyw blant yn byw ar yr aelwyd. Dylid cael trefniadau ar waith rhwng yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol i alluogi'r heddlu i ganfod a yw'r plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Mae eisoes yn ofynnol i'r heddlu bennu a oes unrhyw orchmynion llys neu orchmynion gwahardd mewn grym o ran aelodau'r aelwyd. Mae'n arfer da i'r heddlu hysbysu'r adran gwasanaethau cymdeithasol ar ôl iddynt ymateb i ddigwyddiad o gam-drin domestig a bod plentyn yn byw ar yr aelwyd. Os oes gan yr heddlu bryderon penodol am ddiogelwch neu les plentyn, dylent wneud atgyfeiriad i'r adran gwasanaethau cymdeithasol yn nodi sail eu pryderon. Mae'n bwysig hefyd bod yn eglur ynghylch a yw'r teulu'n ymwybodol bod atgyfeiriad am gael ei wneud. Dylai'r gwasanaethau cymdeithasol ymateb yn gyfrinachol i atgyfeiriadau o'r fath, gan gysylltu â menywod mewn ffyrdd na fydd yn eu rhoi hwy a'u plant mewn perygl pellach. Efallai y bydd angen amddiffyn plentyn ar unwaith mewn achosion difrifol.

9.53 Fel arfer bydd un digwyddiad difrifol neu sawl digwyddiad llai o gam-drin domestig lle mae plentyn ar yr aelwyd yn awgrymu y dylai'r adran gwasanaethau cymdeithasol gynnal asesiad cychwynnol o'r plentyn a'r teulu, gan gynnwys ymgynghori â chofnodion cyfredol. Gall plant sy'n dioddef cam-drin domestig elwa ar amrywiaeth o gymorth a gwasanaethau, ac efallai y bydd rhai angen eu diogelu rhag niwed. Yn aml, mae'n debyg mai cynorthwyo rhiant di-drais fydd y ffordd fwyaf effeithiol o hyrwyddo lles y plentyn. Mae'r heddlu a gwasanaethau

cymdeithasol wedi diffinio pwerau mewn cyfraith droseddol a sifil y gellir eu defnyddio i gynorthwyo'r rhai hynny sy'n dioddef cam-drin domestig.

9.54 Mae amrywiaeth eang o wasanaethau ar gyfer menywod a phlant a ddarperir drwy brosiectau lloches a weithredir gan Cymorth i Fenywod ac eraill. Mae ganddynt swyddogaeth hollbwysig, gan gyfrannu at ddull aml-asiantaeth mewn achosion amddiffyn plant lle ceir cam-drin domestig. Wrth ymateb i sefyllfaoedd lle gall cam-drin domestig fod yn digwydd, dylid ystyried:

- gofyn cwestiynau uniongyrchol am gam-drin domestig;
- ymchwilio i weld a oes cam-drin domestig wedi digwydd pryd bynnag y ceir amheuaeth o gam-drin plant ac ystyried effaith hyn ym mhob cam o'r asesiadau, ymchwiliadau ac ymyriadau;
- nodi pwy sy'n gyfrifol am gam-drin domestig fel y gellir sicrhau ymatebion cyfiawnder troseddol perthnasol;
- darparu gwybodaeth lawn i fenywod am eu hawliau cyfreithiol a graddfa a chyfyngiadau dyletswyddau a phwerau statudol;
- cynorthwyo menywod a phlant i osgoi cam-drin drwy ddarparu cymorth ymarferol a pherthnasol arall;
- cynorthwyo rhieni nad ydynt yn cam-drin i wneud dewisiadau diogel ar gyfer eu hunain a'u plant; a
- gweithio ar wahân gyda phob rhiant lle mae cam-drin domestig yn atal rhieni nad ydynt yn cam-drin rhag siarad yn agored a chymryd rhan, heb ofn dial.

9.55 Y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol sydd â'r cyfrifoldeb allweddol, ar lefel leol, i gydgysylltu camau gweithredu i ddelio â phroblemau cam-drin domestig. Yn ogystal, mae Fforymau Cam-drin Domestig wedi'u sefydlu mewn sawl ardal, i godi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig, i hyrwyddo cydweithio rhwng asiantaethau er mwyn atal ac ymateb i drais, ac i annog datblygiad gwasanaethau ar gyfer y rhai sy'n cael eu cam-drin neu'n dioddef ei effeithiau. Dylai bod gan bob Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, Fforwm Cam-drin Domestig a Byrddau Lleol Diogelu Plant gysylltiadau wedi'u diffinio'n glir a dylai rhai aelodau fod yn aelodau o bob un o'r cyrff a nodi a chydweithio ar feysydd o ddiddordeb cyffredin. Dylai'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, Fforwm Cam-drin Domestig a Byrddau Lleol Diogelu Plant gyfrannu gyda'i gilydd – yng nghyd-destun y cynllun gwasanaethau plant – at asesiad o'r achosion o blant sy'n dioddef cam-drin domestig, eu hanghenion, digonolrwydd trefniadau lleol i ddiwallu'r anghenion hynny, a'r goblygiadau i wasanaethau lleol.

Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

9.56 Dylid trin plant sy'n cael eu cam-drin yn sgil puteindra a ffurfiau eraill o gamfanteisio rhywiol fel dioddefwyr cam-drin yn bennaf, ac mae angen asesu eu hanghenion yn ofalus. Mae'n debyg y byddant angen gwasanaethau lles ac - mewn sawl achos - eu hamddiffyn o dan Ddeddf Plant 1989. Efallai y bydd yn anodd cyrraedd plant sy'n ymwneud â phuteindra ac y byddant dan bwysau cryf iawn i barhau i buteinio. Efallai y byddant yn ofn trafod â'r heddlu neu wasanaethau cymdeithasol plant ac yn ymateb yn well i gyswllt anffurfiol gyda gweithwyr allgymorth y sector iechyd neu wirfoddol. Mae'n hanfodol ennill ymddiriedaeth a hyder y plentyn os yw i gael ei gynorthwyo i fod yn ddiogel a hapus, a rhoi'r gorau i buteinio. Gall hyn gynnwys plant sydd wedi bod yn ddioddefwyr masnachu mewn pobl (gweler http://www.crimereduction.gov.uk/toolkits/tp00.htm am ganllawiau pellach). Dylai'r BLIDP fynd ati'n egnïol i ymchwilio i'r raddfa y mae plant yn ymwneud â phuteinio yn yr ardal leol. Ni ddylid rhagdybio nad yw hyn yn digwydd yn lleol.

9.57 Cyhoeddodd y Swyddfa Gartref, yr Adran Iechyd, yr Adran Addysg a Chyflogaeth a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ganllawiau ar y cyd ym mis Mai 2000 ar ddiogelu plant sy'n ymwneud â phuteindra. Mae'r canllawiau'n hyrwyddo dull lle dylai asiantaethau weithio gyda'i gilydd i:

- gydnabod y broblem;
- trin y plentyn yn bennaf fel dioddefwr cam-drin;
- diogelu'r plant dan sylw a hyrwyddo eu lles;
- cydweithio i atal cam-drin a darparu cyfleoedd a strategaethau i blant fel y gallant roi'r gorau i buteinio;
- ymchwilio i ac erlyn y rhai hynny sy'n gorfodi, camfanteisio a cham-drin plant.

9.58 Mae'r canllawiau'n nodi y dylai asiantaethau lleol ddatblygu protocolau rhyngasiantaethol i arwain camau gweithredu pan fo pryderon bod plentyn yn ymwneud â phuteindra, gan gynnwys canllawiau ar rannu pryderon am ddiogelwch plentyn. Dylid diweddaru ac ehangu'r protocolau hyn i gynnwys mathau eraill o gamfanteisio rhywiol. Dylent fod yn gyson â gweithdrefnau'r BLIDP ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles plant, gyda gweithdrefnau ar gyfer gweithio gyda phlant mewn angen, a chydag agweddau perthnasol ar brotocolau troseddau ieuenctid. Dylai canfod plentyn sy'n dioddef camfanteisio rhywiol, neu sydd mewn perygl o gamfanteisio rhywiol, sbarduno'r gweithdrefnau lleol y cytunwyd arnynt i sicrhau diogelwch a lles y plentyn, ac i alluogi'r heddlu i gasglu tystiolaeth am gamdrinwyr a gorfodwyr. Dylid cadw'r cysylltiadau cryf sydd wedi'u nodi rhwng camfanteisio rhywiol a chamddefnyddio sylweddau mewn cof wrth ddatblygu protocolau.

Delweddau Cam-drin Plant, y Rhyngrwyd a Thechnoleg Gwybodaeth

9.59 Mae'r Rhyngrwyd a'r cynnydd yn nefnydd camerâu digidol, gwe-gamerâu a chamerâu ffonau symudol wedi dod yn offer pwysig i gynhyrchu a dosbarthu delweddau cam-drin plant. Mae cyrchu delweddau o'r fath yn weithred niweidiol. Mae pobl sy'n cyrchu delweddau amhriodol o blant yn annog ac yn cyfrannu at gamdriniaeth barhaus y plant hynny. Mae'r plant hynny'n ddioddefwyr cam-drin difrifol a dylai'r camdrinwyr, sef cyflawnwyr y cam-drin cychwynnol neu'r rhai sy'n cyrchu'r delweddau, wynebu achosion troseddol priodol a chymesur.

9.60 Mae peth tystiolaeth yn awgrymu bod pobl sy'n cael eu dal ym meddiant lluniau/ffug-luniau anweddus o blant yn debygol o fod wedi cam-drin plant eu hunain. Felly pan ganfyddir bod rhywun wedi gosod neu gyrchu deunydd o'r fath ar y rhyngrwyd, dylai'r heddlu ystyried y perygl posibl bod yr unigolyn wedi cam-drin plant. Yn benodol, dylid barnu pa gysylltiad sydd gan yr unigolyn â phlant, o fewn y teulu, yng nghyd-destun cyflogaeth, a sefyllfaoedd eraill (ee gweithio gyda phlant fel gwirfoddolwr neu mewn swyddi lle mae plant yn ymddiried ynddo/i). Os oes pryderon penodol am un plentyn neu fwy, efallai y bydd angen cynnal ymholiad a47 mewn perthynas â'r plant hynny yn unol â gweithdrefnau'r BLIDP. Am fwy o wybodaeth cysylltwch a [http://www.iwf.org.uk/public/page.136.htm] (gweler y Memorandwm Dealltwriaeth gyda'r heddlu am hysbysiadau priodol i'r Internet Watch Foundation os oes pryder am bornograffi plant posibl a deunyddiau anghyfreithlon eraill ar y rhyngrwyd.)

9.61 Mae camdrinwyr hefyd yn defnyddio'r Rhyngrwyd i geisio dod i gysylltiad â phlant gyda'r bwriad o'u denu i berthynas amhriodol neu gamdriniol, a allai gynnwys ceisiadau i wneud a throsglwyddo delweddau pornograffig o'u hunain neu i berfformio gweithredoedd rhywiol yn fyw o flaen gwe-gamera. Mae'n debyg y bydd y cysylltiad cyntaf mewn ystafell sgwrsio yn cael ei wneud ar e-bost, drwy wasanaethau negeseuon cyflym, ffôn symudol neu neges testun. Mae pryder cynyddol hefyd am blant yn medru cael gafael ar ddeunydd amhriodol drwy dechnoleg cyfathrebu rhyngweithiol, ee pornograffi oedolion, a/neu fathau eithafol o ddeunydd anllad. Gall caniatáu neu annog plentyn i wylio deunydd o'r fath dros gyfnod sylweddol warantu ymchwiliad pellach. Gall plant eu hunain ddefnyddio negeseuon testun i fwlio a defnyddio camerâu ffonau symudol i ffilmio ymosodiadau treisgar ar blant eraill a'u hanfon ymlaen.

9.62 Fel rhan o'u rôl i atal cam-drin ac esgeulustod, dylai Byrddau Lleol Diogelu Plant ystyried gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth am ddefnydd diogel o'r Rhyngrwyd gan blant yn yr ysgol ac yn y cartref. Dylai hyn gynnwys hyfforddiant priodol ar gyfer staff ysgol a chanllawiau ar ddefnydd diogel o'r Rhyngrwyd ar gyfer plant a rhieni. Bydd BLIDP yn bartner allweddol yn natblygiad a darpariaeth

rhaglenni hyfforddiant ac addysg, gyda'r Ganolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein[6] (CEOP). Bydd hyn yn cynnwys ychwanegu at waith Asiantaeth Cyfathrebu a Thechnoleg Addysgol Prydain (BECTA), y Swyddfa Gartref a'r diwydiant TGCh i godi ymwybyddiaeth am ddefnydd diogel o dechnolegau cyfathrebu rhyngweithiol gan blant.

Salwch Ffug neu Salwch Gwneud

9.63 Bydd lle i bryderu os ystyrir bod iechyd neu ddatblygiad plentyn yn debygol o gael ei amharu'n sylweddol neu ymhellach gan riant neu ofalwr â salwch ffug neu salwch gwneud. Gall y pryderon hyn godi pan:

- nad oes unrhyw gyflwr meddygol y mae'r plentyn yn ei ddioddef yn egluro symptomau a adroddwyd ac arwyddion a ganfuwyd ar ôl archwiliad; neu
- nad yw archwiliad corfforol a chanlyniadau ymchwiliadau meddygol yn egluro symptomau ac arwyddion a adroddwyd; neu
- mae ymateb gwael ac anesboniadwy i feddyginiaeth a geir ar bresgripsiwn a thriniaethau eraill; neu
- mae symptomau newydd yn cael eu hadrodd ar ôl datrys y rhai blaenorol; neu
- nid yw'n ymddangos bod symptomau a adroddwyd ac arwyddion a ganfuwyd yn dechrau yn absenoldeb y gofalwr; neu
- mae'r plentyn yn cyflwyno amrywiaeth o symptomau drosodd a throsodd dros amser; neu
- mae gweithgareddau arferol y plentyn yn cael eu hamddifadu y tu hwnt i'r hyn y gellid ei ddisgwyl ar gyfer unrhyw anhwylder meddygol y mae'r plentyn yn dioddef ohono.

9.64 Efallai bod sawl esboniad am yr amgylchiadau hyn ac mae angen ystyried ac adolygu pob un yn ofalus.

9.65 Mae tair prif ffordd o ffugio neu beri salwch mewn plentyn. Nid yw'r rhain yn annibynnol ar ei gilydd:

- ffugio arwyddion neu symptomau. Gall hyn gynnwys ffugio hanes meddygol;
- ffugio arwyddion a symptomau a gwyrdroi siartiau a chofnodion ysbyty, a sbesimenau o hylifau gwaed. Gall hyn hefyd gynnwys gwyrdroi llythyrau a dogfennau;
- cymell salwch mewn sawl ffordd.

[6]Partneriaeth yw'r Ganolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein, a fydd yn cael ei rhoi ar waith ym mis Ebrill 2006, rhwng y Llywodraeth, gorfodi'r gyfraith, cyrff anllywodraethol (gan gynnwys elusennau plant) a diwydiant, sydd â'r nod cyffredin o amddiffyn plant. Bydd yn gweithio i amddiffyn plant, teuluoedd a chymdeithas rhag paedoffilyddion a throseddwyr rhyw, yn arbennig y rhai sy'n ceisio camfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein.

9.66 Yn 2002 cyhoeddodd yr Adran Iechyd, y Swyddfa Gartref, yr Adran Addysg a Sgiliau a Llywodraeth Cynulliad Cymru Diogelu Plant y mae Salwch yn cael ei Achosi neu'i Ffugio gan Ofalwyr [http://www.dh.gov.uk/assetRoot/04/05/66/46/04056646.pdf]. Mae'r Canllawiau hyn yn darparu fframwaith cenedlaethol er mwyn i asiantaethau a gweithwyr proffesiynol ar lefel leol - yn unigol ac ar y cyd - bennu a chytuno ar eu ffyrdd manwl eu hunain o gydweithio lle gall salwch plentyn fod wedi'i ffugio neu ei beri gan ofalwr sydd â chyfrifoldebau rhianta amdano/amdani. Dylai BLlDP ymgorffori'r Canllawiau hyn a'u cyfeiriadau at wyliadwriaeth fideo cudd, yn eu gweithdrefnau lleol ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles plant, yn hytrach na gweithredu gweithdrefnau ar wahân ar salwch ffug neu salwch gwneud mewn plant. Yn y gweithdrefnau lleol, dylai'r adran ar ddefnyddio gwyliadwriaeth fideo cudd gyfeirio at y cyngor ar arferion da ar gyfer heddweision sydd ar gael iddynt gan y National Crime Faculty.

Plant Rhieni sy'n Camddefnyddio Sylweddau

9.67 Mae'n bwysig bod trefniadau ar waith, ar lefel BLlDP, sy'n galluogi i atgyfeiriadau amddiffyn plant a chamddefnyddio sylweddau gael eu gwneud mewn achosion perthnasol. Pan fo plant yn dioddef niwed arwyddocaol oherwydd eu bod yn camddefnyddio sylweddau, neu os yw eu rhieni'n camddefnyddio ac yn achosi niwed o'r fath, bydd angen i wasanaethau camddefnyddio sylweddau wneud atgyfeiriadau yn unol â gweithdrefnau BLlDP. Os nad yw plant yn dioddef niwed arwyddocaol, mae angen i drefniadau atgyfeirio fod ar waith fel bod modd asesu ac ymateb i anghenion ehangach plant.

9.68 Cyfrifoldeb y BLlDP yw ystyried heriau a chymhlethdodau penodol y gwaith yn y maes hwn drwy sicrhau bod:

- gan y BLlDP bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith;
- protocolau rhyngasiantaethol priodol ar waith ar gyfer cydgysylltu'r gwaith o asesu a chynorthwyo, yn enwedig mewn gwasanaethau cyffuriau oedolion a gwasanaethau plant; a
- chydweithredu'n agos â Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol a gwasanaethau cyffuriau lleol, ynghyd â nifer o asiantaethau eraill, gan gynnwys gwasanaethau iechyd, gwasanaethau mamolaeth, gwasanaethau cymdeithasol oedolion a phlant, llysoedd, carchardai a gwasanaethau prawf.

9.69 Amcangyfrifodd adroddiad y Cyngor Cynghorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau 'Niwed Cudd – Ymateb i anghenion plant defnyddwyr cyffuriau' bod rhwng 200,000 – 300,000 o blant i ddefnyddwyr cyffuriau problemus yng Nghymru a Lloegr, hy 2 – 3% o'r holl blant dan 16 oed. Mae'r Adroddiad hefyd yn dod i'r casgliad bod rhieni sy'n camddefnyddio cyffuriau yn gallu ac yn achosi niwed i blant (a phobl ifanc) o bob oed o adeg cenhedlu nes eu bod yn oedolion, gan gynnwys cam-drin corfforol ac emosiynol ac esgeulustod. Mae angen

asesiad trylwyr i bennu hyd a lled yr angen a lefel y perygl ym mhob achos.

Cam-drin plant sy'n gysylltiedig â "meddiant" neu "ddewiniaeth", neu mewn ffyrdd eraill sy'n ymwneud â chredo ysbrydol neu grefyddol

9.70 Mae'r gred mewn "meddiant" a "dewiniaeth" yn gyffredin. Nid yw wedi'i gyfyngu i wledydd, diwylliannau a chrefyddau penodol, nac i gymunedau mewnfudwyr newydd yn y wlad hon.

9.71 Er nad oes llawer o achosion o gam-drin plant sy'n gysylltiedig â chyhuddiadau o "feddiant" neu "ddewiniaeth", gall y plant sy'n cael eu cam-drin ddioddef niwed i'w hiechyd corfforol a meddyliol, eu gallu i ddysgu, eu gallu i greu perthnasau a'u hunan-barch.

9.72 Mae cam-drin fel hyn yn digwydd fel arfer pan fo gofalwyr o'r farn bod plentyn yn "wahanol", ac yn credu mai'r rheswm am y gwahaniaeth hwn yw bod y plentyn wedi cael ei "feddiannu" neu'n cymryd rhan mewn "dewiniaeth", ac yn ceisio bwrw'r ysbryd allan ohono. Gellir ystyried bod plentyn yn "wahanol" am amrywiaeth o resymau fel: anufudd-dod; annibyniaeth; gwlychu'r gwely; hunllefau; salwch; neu anabledd. Gall yr ymgais i "fwrw allan" gynnwys cweir ddifrifol, llosgi, newynu, torri neu drywanu, a/neu ynysu, ac mae'n digwydd fel arfer ar yr aelwyd lle mae'r plentyn yn byw.

9.73 Dylai asiantaethau chwilio am y dangosyddion hyn, gallu nodi'r plant sydd mewn perygl o'r math hwn o gam-drin ac ymyrryd i'w atal. Dylent roi egwyddorion diogelu plant sylfaenol ar waith, gan gynnwys: rhannu gwybodaeth ledled asiantaethau; canolbwyntio ar y plant drwy'r amser; a chadw meddwl agored wrth siarad â rhieni a gofalwyr. Dylent ddilyn y canllawiau a nodir ym Mhennod 7yn eu gwaith gyda phob plentyn a theulu, sicrhau eu bod yn cyd-gysylltu'n agos â chydweithwyr a chreu cysylltiadau gyda phobl allweddol yn y gymuned, yn enwedig wrth weithio gyda chymunedau mewnfudwyr newydd, er mwyn canfod yr amrywiol agweddau sy'n perthyn i gredoau diwylliannol teulu.

Plant a Theuluoedd sy'n Mynd ar Goll

9.74 Wrth weithio gyda phlant a theuluoedd lle mae pryderon difrifol am amddiffyn plant (gan gynnwys pryderon am blentyn heb ei eni a allai fod mewn perygl o niwed arwyddocaol yn y dyfodol), dylai asiantaethau lleol a gweithwyr proffesiynol gofio y gall methu apwyntiad ar ôl apwyntiad neu ymweliadau cartref olygu bod y teulu wedi symud o'r ardal yn sydyn ac yn annisgwyl. Dylid hysbysu'r gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu ar unwaith os yw hyn yn digwydd.

9.75 Yn achos plant sy'n cael eu cymryd dramor, efallai y bydd yn briodol cysylltu â'r Gyfarwyddiaeth Gonsylaidd yn y Swyddfa Dramor a

Chymanwlad sy'n cynnig cymorth i Brydeinwyr mewn trallod dramor (www.fco.gov.uk 020 7008 1500). Efallai y byddant yn gallu delio ag achos drwy eu swyddog(ion) consylaidd yn y wlad dan sylw.

9.76 Mae angen rhoi ystyriaeth benodol i ymyriadau cyfreithiol priodol, os yw'n ymddangos bod plentyn, lle mae pryderon amddiffyn plant am ei ddiogelwch a'i les, yn cael ei gymryd o'r DU gan ei deulu er mwyn osgoi ymyrraeth gan asiantaethau â chyfrifoldebau diogelu. Dylid rhoi ystyriaeth benodol hefyd i ymyriadau cyfreithiol priodol pan fo plentyn, sy'n destun gorchymyn gofal, wedi'i symud o'r DU. Dylid hysbysu'r gwasanaethau cymdeithasol plant, Uned Amddiffyn Plant yr Heddlu a'r Adran Cipio Plant yn y Swyddfa Dramor a Chymanwlad ar unwaith.

Gall plant sy'n derbyn gofal redeg i ffwrdd neu'n mynd ar goll o'u lleoliad gofal

9.77 Dylai'r asiantaethau amrywiol sy'n gyfrifol am ofalu am blant sy'n derbyn gofal ddeall eu swyddogaethau priodol dan amgylchiadau lle mae plant yn mynd ar goll neu'n rhedeg i ffwrdd o'u lleoliad gofal. Dylid nodi'r rhain mewn protocolau safonol sy'n disgrifio trefniadau ar gyfer rheoli ymchwiliadau i bobl ar goll a ddatblygir gan yr heddlu lleol. Bydd yn bwysig deall y rhesymau sy'n achosi i blant redeg i ffwrdd o'u lleoliad gofal. Os oes posibilrwydd bod yr ymddygiad hwn yn deillio o bryderon amddiffyn plant, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol cyfrifol (neu eraill sy'n bryderus am y plentyn) ddilyn ei weithdrefnau i ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn yn yr ardal y mae'r plentyn yn byw ynddi.

Plant sy'n mynd ar goll o Addysg

9.78 Mae plant neu bobl ifanc sy'n derbyn addysg nid yn unig yn cael y cyfle i wireddu eu potensial, ond maent hefyd mewn amgylchedd sy'n galluogi asiantaethau lleol i ddiogelu a hyrwyddo eu lles. Os yw plentyn yn mynd ar goll o addysg, efallai ei fod mewn perygl o niwed arwyddocaol.

9.79 Mae nifer o resymau pam mae plant yn mynd ar goll o addysg a gall y rhain gynnwys:

- methu dechrau darpariaeth briodol ac felly byth yn mynd i mewn i'r system;
- methu mynychu, oherwydd gwaharddiad (ee gwaharddiadau answyddogol anghyfreithlon) neu eithrio; neu
- methu cwblhau'r cyfnod trosglwyddo rhwng darparwyr (ee methu canfod lle mewn ysgol briodol ar ôl symud i ardal awdurdod lleol newydd).

9.80 Gall eu hamgylchiadau personol neu amgylchiadau eu teuluoedd gyfrannu at y broses eithrio a methu trosglwyddo.

9.81 Mae grwpiau penodol o blant sy'n agored i niwed sy'n fwy tebygol nag eraill o fynd ar goll o addysg:

- pobl ifanc sydd wedi troseddu;
- plant sy'n byw mewn llochesau menywod;
- plant teuluoedd digartref sy'n byw mewn llety dros dro o bosibl;
- pobl ifanc sydd wedi rhedeg i ffwrdd;
- plant gyda phroblemau meddygol neu emosiynol hirdymor;
- plant sy'n derbyn gofal;
- plant o gefndir sipsiwn/teithwyr;
- gofalwyr ifanc;
- plant o deuleuoedd darfodedig;
- mamau yn eu harddegau;
- plant sydd wedi'u gwahardd yn barhaol o'r ysgol;
- plant mewnfudwyr o deuluoedd sy'n ceisio lloches neu'n; fewnfudwyr economaidd.

9.82 Mae gan bob ymarferwr sy'n gweithio gyda phlentyn gyfrifoldeb i hysbysu'r awdurdod lleol os ydynt yn gwybod neu'n amau nad yw plentyn yn derbyn addysg.

Plant o Deuluoedd sy'n Byw mewn Llety Dros Dro

9.83 Gall byw mewn llety dros dro, yn aml yn bell o rwydweithiau cymorth blaenorol neu'n cynnwys symud yn aml, achosi i'r system fethu unigolion a theuluoedd a'u pellhau o systemau cymorth iechyd, addysg, gofal cymdeithasol a lles. Gall rhai teuluoedd sydd wedi bod yn ddigartref ac sy'n cael eu gosod mewn llety dros dro gan awdurdodau lleol dan y brif ddyletswydd ddigartref fyw bywydau heb gartref parhaol.

9.84 Mae'n bwysig bod systemau effeithiol ar waith i sicrhau bod y plant o deuluoedd digartref yn derbyn gwasanaethau iechyd ac addysg ynghyd ag unrhyw fathau penodol eraill o wasanaethau oherwydd bod y teuluoedd hyn yn symud yn rheolaidd ac yn gallu bod mewn perygl o golli allan ar wasanaethau. Os oes pryderon am blentyn neu blant, dylid dilyn y gweithdrefnau a nodir ym mhennod 4.

Plant Mudol

9.85 Yn y blynyddoedd diwethaf mae nifer y plant mudol yn y DU wedi cynyddu am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys ehangiad yr economi byd-eang a rhyfeloedd a gwrthdaro. Mae'n hanfodol bod

asiantaethau yn parhau i ddiogelu a hyrwyddo lles y plant hyn wrth ddelio â'r grŵp hwn.

9.86 Dylai asiantaethau lleol roi ystyriaeth benodol i'r grwpiau canlynol.

Plant sy'n dioddef masnachu mewn pobl

9.87 Mae masnachu mewn pobl yn cynnwys casgliad o droseddau, yn rhychwantu amrywiaeth o wledydd ac yn cynnwys nifer cynyddol o ddioddefwyr - sy'n arwain at ddioddef sylweddol i'r bobl sy'n cael eu masnachu. Mae'n cynnwys camfanteisio ar blant drwy rym, gorfodaeth, bygwth a'r defnydd o dwyll a cham-drin hawliau dynol fel bod yn gaeth i ddyled, colli rhyddid a diffyg rheolaeth dros y gwaith mae rhywun yn ei wneud. Mae camfanteisio'n digwydd drwy buteindra a mathau eraill o gamfanteisio'n rhywiol, a thrwy gamfanteisio ar lafur. Mae'n cynnwys pobl yn symud ar draws ffiniau a hefyd symud a chamfanteisio o fewn ffiniau.

9.88 Mae'r DU yn gyrchfan i lawer o'r plant a'r bobl ifanc sy'n cael eu masnachu. Credir bod camfanteisio ar blant yn digwydd mewn sefyllfaoedd o wasanaeth domestig neu at ddiben twyll budd-daliadau. Mae ambell i achos o gamfanteisio ar blant dan oed (16 ac 17 oed yn bennaf) yn y diwydiant rhyw. Er nad oes tystiolaeth o fathau eraill o gamfanteisio fel 'rhoddi organau, neu gynaeafu', dylai pob asiantaeth fod yn wyliadwrus.

9.89 Mae plant fel hyn yn cyrraedd y DU mewn gwahanol ffyrdd. Mae rhai'n cyrraedd fel ceiswyr lloches ar eu pen eu hunain, neu fyfyrwyr neu fel ymwelwyr. Mae oedolion sy'n honni eu bod yn berthynas yn dod â phlant i'r wlad hefyd neu mae oedolyn sy'n honni ei fod yn perthyn yn cwrdd â nhw yn y maes awyr. Awgrymwyd hefyd bod plant yn cyrraedd drwy brynu ar y rhyngrwyd, trefniadau maethu, a chontractau fel staff domestig. Mewn rhai achosion bydd merched 16 neu 17 oed wedi'u twyllo i gymryd rhan mewn priodas ffug er mwyn eu gorfodi i buteinio.

9.90 Os oes amheuaeth bod plentyn wedi dioddef masnach o'r fath, dylid hysbysu'r heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol plant. Mae'r Trafficking Toolkit (mae manylion yn www.crimereduction.gov.uk/toolkits) yn rhoi canllawiau defnyddiol ar ddelio â masnachu mewn pobl. Dylai asiantaethau gydweithio i sicrhau ymateb cysylltiedig.

9.91 Cyflwynodd Deddf Troseddau Rhywiol 2003 droseddau amrywiol newydd a oedd yn cwmpasu masnach mewn pobl i'r DU, allan o'r DU neu o fewn y DU ar gyfer unrhyw fath o drosedd rywiol, sydd â'r gosb uchaf o 14 mlynedd. Cyflwynodd hefyd amrywiaeth o droseddau newydd sy'n cwmpasu camfanteisio rhywiol masnachol ar blentyn, sy'n amddiffyn plant hyd at 18 oed. Mae'r rhain yn cynnwys prynu gwasanaethau rhywiol plentyn (mae'r gosb yn amrywio o 7 mlynedd i oes, yn dibynnu ar oed y plentyn); ac achosi neu annog, trefnu neu

hwyluso a rheoli camfanteisio rhywiol masnachol ar blentyn drwy buteindra neu bornograffi, a'r gosb uchaf am hyn yw carchar am 14 mlynedd. Cyflwynwyd trosedd newydd, sef masnachu mewn pobl ar gyfer camfanteisio, sy'n cwmpasu masnachu pobl ar gyfer llafur gorfodol a thynnu organau, yn Neddf Lloches a Mewnfudo (Triniaeth Hawlwyr, ac ati) 2004. Bydd y mesurau hyn hefyd yn ystyried ymrwymiadau rhyngwladol y DU dan Brotocol Masnachu mewn Pobl y Cenhedloedd Unedig a Phenderfyniad Fframwaith yr UE ar Fasnachu Pobl at Ddibenion Camfanteisio Rhywiol a Llafur.

Plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches (UASC)

9.92 Plentyn dan 18 oed nad yw'n byw gyda'i rieni, perthynas neu warcheidwad yn y DU yw plentyn ar ei ben ei hun yn ceisio lloches.

9.93 Dylai awdurdodau lleol gynnal asesiad cynhwysfawr o anghenion pob plentyn sy'n cael ei atgyfeirio atynt gan y Gwasanaethau Mewnfudo, beth bynnag fo'i statws mewnfudo. Ar sail yr asesiad hwn, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ddarparu cymorth a gwasanaethau priodol i bob UASC a dylid darparu asesiad unigol a gwasanaethau cysylltiedig o'r un ansawdd i'r plant hyn ag y darperir i unrhyw blentyn arall sydd 'mewn angen'.

9.94 Yn y mwyafrif o achosion bydd yr asesiad hwn yn arwain at eu gosod mewn llety. Ar ôl i UASC gael eu rhoi mewn llety o dan Adran 20 Deddf Plant 1989, bydd yn ofynnol llunio cynllun gofal ar eu cyfer (cynllun llwybr i blant 16+) a fydd yn seiliedig ar yr asesiad cynhwysfawr hwn o'u hanghenion, gan ystyried y dimensiynau canlynol:

- Iechyd (gan gynnwys iechyd meddwl fel a oes angen cymorth a chynghori wedi trawma);
- Addysg;
- Datblygiad Emosiynol ac Ymddygiadol;
- Hunaniaeth;
- Cysylltiadau teuluol a chymdeithasol;
- Cyflwyniad Cymdeithasol; a
- Sgiliau hunan ofal, gan gynnwys dealltwriaeth y plentyn o oblygiadau eu statws mewnfudo a'r sgiliau sydd eu hangen i reoli trosglwyddiadau.

9.95 Dylai'r ALl cyfrifol ddarparu gwasanaethau ar gyfer UASC ar sail yr asesiad uchod, beth bynnag fo'r statws mewnfudo.

Anffurfio Organau Rhywiol Merched

9.96 Mae Anffurfio Organau Rhywiol Merched yn anghyfreithlon yn y Deyrnas Unedig. Pennodd Deddf Gwahardd Enwaedu Benywod 1985

ei bod yn anghyfreithlon anffurfio organau rhywiol merched (FGM), oni bai bod rheswm corfforol ac iechyd meddwl penodol.

9.97 Ym mis Hydref 2003 cafodd ei disodli gan Ddeddf Anffurfio Organau Rhywiol Merched, a ddaeth i rym ar 3 Mawrth 2004. Mae canllawiau yng Nghylchlythyr 10/2004 y Swyddfa Gartref [<http://www.knowledgenetwork.gov.uk/HO/circular.nsf/79755433dd36a66980256d4f004d1514/1b9ac55f598c73f780256e280040c40d?OpenDocument>]. Mae'r Ddeddf hon yn cryfhau ac yn diwygio deddfwriaeth 1985. Mae'n parhau i nodi bod anffurfio organau rhywiol merched yn drosedd yn y DU ac mae'r ddeddf yn ei gwneud yn drosedd am y tro cyntaf i bobl o'r DU neu breswylwyr parhaol yn y DU i wneud hyn dramor, neu i gynorthwyo, annog, cynghori neu achosi hyn i ddigwydd dramor, hyd yn oed mewn gwledydd lle mae'r ymarfer yn gyfreithlon. Mae'r gosb fwyaf sylweddol am gyflawni neu gynorthwyo'r drosedd wedi codi o 5 i 14 mlynedd mewn carchar. Mae polisi ac ymarfer y DU mewn gwledydd lle mae'r arfer hwn yn gyffredin yn allweddol i'w atal yn y DU oherwydd bod llawer o'r menywod a'r merched sydd mewn perygl yn y DU yn dod o'r gwledydd hyn ac yn dychwelyd yno i gael eu horganau rhywiol wedi'u hanffurfio.

9.98 Mae'n hanfodol bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ymwybodol o'r materion sy'n gysylltiedig ag anffurfio organau rhywiol merched ac yn gallu darparu gofal a chymorth priodol i fenywod a merched. Ond dengys ymchwil a gyflawnwyd ym 1998 mai dim ond 54% o weithwyr gofal iechyd proffesiynol y DU oedd yn ymwybodol o'r gyfraith yn y DU yn gwahardd yr arfer. Mae mwyafrif y cyrff anllywodraethol sy'n gweithio yn y maes hwn yn darparu gwasanaethau am ddim i fenywod a phlant ac mae angen rhagor o gydnabyddiaeth ac adnoddau ar gyfer y gwaith.

9.99 Dylai asiantaethau lleol fod yn effro i'r posibilrwydd o enwaedu menywod ymysg cymunedau lleiafrifoedd ethnig y gwyddom sy'n ei ymarfer. Mewn ardaloedd lleol lle mae cymunedau neu unigolion sydd wedi bod yn ymarfer hyn yn draddodiadol, dylai polisi BLIDP ganolbwyntio ar strategaeth ataliol i addysgu'r gymuned.

Priodasau Gorfod

9.100 Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng priodasau gorfod a phriodasau wedi'u trefnu. Mae priodasau wedi'u trefnu yn hollol gyfreithlon ac yn gallu arwain at berthnasau llwyddiannus a sefydlog rhwng partneriaid bodlon, cydsyniol. Fodd bynnag, mewn priodas orfod, ni roddir cydsyniad a gall un neu'r ddau bartner fod yn gyfranogwyr anfodlon.

9.101 Mae'n amlwg bod angen cynorthwyo dioddefwyr priodas orfod, lle gellir eu hadnabod. Gall hyn olygu canfod ac achub y dioddefwyr ac, os ydynt dramor, eu cynorthwyo i ddianc a dychwelyd i'r DU.

9.102 Mae rhai dioddefwyr yn cael eu twyllo i fynd dramor gan eu teuluoedd, ac yna canfod bod eu teuluoedd wedi paratoi priodas yn ddiymwybod ar eu cyfer a heb eu cydsyniad. Nid ydynt yn gwybod at bwy i droi am gymorth yn aml. Mae angen i bobl mewn perygl fod yn ymwybodol o'r ymarfer hwn, a gwybod beth i'w wneud ac i le i droi os yw'n digwydd iddynt.

9.103 Mae priodas orfod a dal pobl yn groes i'w hewyllys yn anghyfreithlon. Mae rhai priodasau gorfod yn digwydd yn y DU heb elfen dramor. Mae eraill yn cynnwys partner yn dod o dramor neu ddinesydd Prydeinig yn cael ei anfon dramor i briodi.

9.104 Er mai menywod ifanc yw prif ddioddefwyr priodasau gorfod, mae rhai dynion hefyd yn cael eu gorfodi i briodi. Mae adroddiadau diweddar gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad, sy'n ymchwilio i rhwng 200 a 300 o briodasau gorfod y flwyddyn, yn awgrymu bod hyd at 15 y cant o briodasau gorfod yn ymwneud â gorfodi dynion. Amcangyfrifodd y Council of British Pakistanis y gallai bron i 40% o briodasau gorfod ymwneud â dynion anfodlon.

9.105 Gall effaith priodasau o'r fath fod yn ddifrifol, ac yn angheuol hyd yn oed. Dengys ymchwil bod pobl ifanc Asiaidd sy'n rhedeg i ffwrdd yn tueddu i fod tua 16 oed, sef yr oedran y maent yn debygol o gael eu gorfodi i briodi ac mae lefelau uwch na'r cyffredin o ferched Asiaidd yn eu harddegau yn lladd eu hunain neu'n ceisio lladd eu hunain.

9.106 Mae parch annoeth at wahaniaethau diwylliannol wedi arwain o bryd i'w gilydd at esgeuluso hawliau unigolion. Mewn rhai achosion methwyd â gwahaniaethu rhwng priodasau gorfod a phriodasau wedi'u trefnu.

9.107 Mae'n debyg y bydd y rhai hynny sy'n dianc rhag priodasau plant neu briodasau gorfod yn ceisio cymorth gan y gwasanaethau cyffredinol sydd ar gael i fenywod sy'n ffoi rhag trais, gan gynnwys ffoaduriaid. Er mwyn diogelu pobl sy'n agored i briodasau gorfod yn effeithiol, neu bobl sy'n ffoi rhag priodas orfod, mae angen hyfforddiant priodol i'r gweithwyr proffesiynol hynny (gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol a gorfodi'r gyfraith) ar fanylion yr ymarfer hwn a'r peryglon o drawsblannu gweithdrefnau ailuno teuluoedd o feysydd gwaith cymdeithasol eraill.

9.108 Ym mis Mawrth 2004, cyhoeddodd y Swyddfa Dramor a Chymanwlad *"Young people and vulnerable adults facing forced marriage: Practice Guidance for Social Workers"* [http://www.adss.org.uk/publications/guidance/marriage.pdf]. Mae'r canllawiau hyn yn nodi:

> *" Cases of forced marriage can involve complex and sensitive issues that should receive the attention of the manager responsible for child protection (in the case of a child under the age of 18) or the team responsible for vulnerable adults. At the*

earliest opportunity, social workers dealing with such cases should seek advice from a specialist social worker who has had specific training in handling the issues raised. Close continuous consultation and supervision with such a person should be subsequently offered.

Information or a referral about a forced marriage may be received from the young person or from a friend or relative, or from another agency or non-governmental/community-based organisation. Forced marriage may also become apparent when other family issues are addressed, such as domestic violence, self-harm, child abuse or neglect, family/adolescent conflict or missing persons/runaways.

All social services should have procedures and protocols that include dealing with cases where forced marriage is alleged or known about."

10: Adolygu Achosion Difrifol

Cyflwyniad

10.1 O dan adran 32(2) o'r Ddeddf Plant 2004, bydd gan Fwrdd Lleol Diogelu Plant y swyddogaethau hynny y gall y Cynulliad eu rhagnodi trwy reoliadau, a gall y rhain yn arbennig gynnwys swyddogaethau adolygu ac ymchwilio. Mae Rheoliadau Byrddau Lleol Diogelu Plant (Cymru) 2005 yn mynnu bod Bwrdd Lleol Diogelu Plant yr ardal yn cynnal adolygiad achos difrifol pan fo'n gwybod am achos o gam-drin neu esgeuluso plentyn neu yn amau achos o'r fath, a:

- phan fo plentyn yn marw; neu
- pan fo plentyn yn dioddef anaf a allai fygwth ei fywyd neu amharu yn ddifrifol ac yn barhaol ar ei iechyd a'i ddatblygiad, mi fedrith hyn gynnwys achosion lle mae'r plentyn wedi dioddef cam-drin rhywiol arbennig o ddifrifol.

Mae'n rhaid i LNSB yr ardal gynnal adolygiad difrifol.

10.2 Yn ogystal, dylai Byrddau Lleol Diogelu Plant gynnal adolygiad achos difrifol bob amser:

- pan fo plentyn yn cyflawni hunanladdiad;
- pan fo plentyn yn cael ei ladd gan riant â salwch meddwl.

10.3 Gall Bwrdd hefyd gynnal adolygiad achos difrifol pan fo plentyn o fewn ei ardal yn dioddef niwed nad yw'n bodloni'r meini prawf a restrir ym mharagraff 10.1 a 10.2 ond pan fo pryderon ynghylch, er enghraifft:

- y modd y mae gwahanol asiantaethau yn cydweithio; neu
- bolisïau neu weithdrefnau lleol.

10.4 Fe allai'r cwestiynau canlynol fod o gymorth wrth benderfynu a ddylid cynnal adolygiad achos difrifol yn unol â pharagraff 10.3. Os rhoddir ateb cadarnhaol i nifer o'r cwestiynau hyn, mae hynny'n debygol o awgrymu y byddai adolygiad yn dwyn gwersi defnyddiol:

- a oedd tystiolaeth eglur o berygl o niwed sylweddol i blentyn;
- a bod yr asiantaethau neu weithwyr proffesiynol mewn cysylltiad â'r plentyn neu'r â'r rhai a achosodd y niwed heb sylweddoli hynny; neu
- a honno heb ei rhannu ag eraill; neu
- a chamau priodol heb eu cymryd?
- a gafodd y plentyn ei gam-drin mewn sefydliad (ee ysgol, meithrinfa, canolfan i deuluoedd)?

- a gafodd y plentyn ei gam-drin tra'i fod yng ngofal yr awdurdod lleol?
- a oes un neu fwy o asiantaethau neu weithwyr proffesiynol yn ystyried bod asiantaeth neu weithiwr proffesiynol arall heb gymryd ei bryderon ddigon o ddifrif, neu heb gymryd camau priodol yn eu sgil?
- a yw'r achos yn awgrymu y gall fod methiannau mewn un neu fwy o agweddau ar y modd y rhoddir y gweithdrefnau amddiffyn plant ffurfiol ar waith yn lleol, sy'n mynd y tu hwnt i'r modd yr ymdriniwyd â'r achos hwn?
- a oedd enw'r plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant neu a fu ar y gofrestr amddiffyn plant yn y gorffennol?
- a yw'n ymddangos bod i'r achos oblygiadau i amrywiaeth o asiantaethau a/neu weithwyr proffesiynol?
- a yw'r achos yn awgrymu y gall fod angen i'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant newid ei brotocolau neu ei weithdrefnau lleol, neu nad yw'r protocolau neu'r gweithdrefnau yn cael eu lledaenu, eu deall neu eu gweithredu yn ddigonol?

10.5 Mewn rhai achosion, fe ellir dwyn achos troseddol wedi i blentyn farw neu ddioddef anaf difrifol. Dylai'r rhai sy'n cydlynu'r adolygiad drafod gyda'r asiantaethau cyfiawnder troseddol perthnasol sut y dylai'r broses adolygu roi ystyriaeth i achos o'r fath, ee sut y mae'n effeithio ar yr amseru a'r dull o gynnal yr adolygiad (gan gynnwys cyfweld unigolion perthnasol), a phwy ddylai gyfrannu ym mha gam o'r broses.

10.6 Ni ddylid gohirio adolygiadau achos fel mater o drefn oherwydd bod achos troseddol ar y gweill neu oherwydd y disgwylir penderfyniad ynghylch pa un a ddylid erlyn ai peidio (gwelwch 10.18 am fwy o fanylion). Gellir gwneud llawer o waith defnyddiol yn aml i ddeall a dysgu gan elfennau o'r achos heb fod mewn perygl o gyfaddawdu tystion mewn achos troseddol. Mae'n bosibl na fydd modd cwblhau neu gyhoeddi adolygiad nes i achos troseddol neu achos y Crwner ddod i ben mewn rhai achosion, ond ni ddylai hyn rwystro'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant rhag rhoi ar waith y gwersi a ddysgwyd yn gynnar yn y broses.

10.7 Pan fo'n rhaid gohirio adolygiad llawn, dylai'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant ystyried a ellir gweithredu mewn rhyw ffordd wahanol a fyddai'n galluogi asiantaethau i nodi meysydd ble y gallent gymryd camau buan heb niweidio ymchwiliadau neu erlyniadau sydd ar y gweill. Gallai hyn gynnwys adolygu'r trefniadau rheoli neu archwilio polisïau a gweithdrefnau heb fod angen cyfweld pobl a allai gael eu galw fel tystion mewn achos troseddol.

Diben yr Adolygiadau

10.8 Diben adolygiadau achos difrifol a gynhelir o dan y canllawiau hyn yw nodi camau y gellid eu cymryd i rwystro marwolaeth neu niwed tebyg rhag digwydd eto, a thrwy hynny:

- gadarnhau pa un a oes gwersi i'w dysgu o'r achos o ran y modd y mae asiantaethau a gweithwyr proffesiynol lleol yn gweithio gyda'i gilydd i ddiogelu plant;
- nodi'n eglur beth yw'r gwersi hynny, sut y bwriedir eu rhoi ar waith, a pha newidiadau y disgwylir eu gweld o ganlyniad; a
- gwella'r modd y mae'r gwahanol asiantaethau yn cydweithio a diogelu plant yn well yn sgil hynny; a
- nodi enghreifftiau o arferion da.

10.9 Nid ymchwiliadau i sut y bu plentyn farw na phwy sy'n gyfrifol mo adolygiadau achos. Mater i Lys y Crwner yw'r cwestiwn cyntaf, a mater i'r Llys Troseddol yw'r ail, fel y bo'n briodol.

Pryd ddylai Bwrdd Lleol Diogelu Plant Gynnal Adolygiad Achos?

10.10 Pan fo gan fwy nag un Bwrdd Lleol Diogelu Plant wybodaeth am blentyn, y Bwrdd ar gyfer yr ardal ble y mae neu ble yr oedd y plentyn yn byw fel arfer ddylai gymryd y prif gyfrifoldeb am gynnal unrhyw adolygiad. Dylid cynnwys unrhyw Fwrdd Lleol Diogelu Plant arall, sydd â diddordeb neu ran yn yr achos, fel partneriaid yn y gwaith o gynllunio a chynnal yr adolygiad. Yn achos plant sy'n derbyn gofal, yr awdurdod cyfrifol ddylai ysgwyddo'r prif gyfrifoldeb am gynnal unrhyw adolygiad, unwaith eto gan gynnwys Byrddau Lleol Diogelu Plant eraill sydd â diddordeb neu ran yn yr achos.

10.11 Gall unrhyw asiantaeth neu weithiwr proffesiynol at gyfeirio achos at Gadeirydd y Bwrdd Lleol Diogelu Plant, pe byddai'n credu bod i'r achos hwnnw wersi pwysig o ran cydweithio rhwng asiantaethau. Yn ogystal, mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru rymoedd i beri i ymchwiliad gael ei gynnal i'r modd y cyflawnwyd swyddogaethau'r gwasanaethau cymdeithasol o dan adran 1 o'r Ddeddf Ymchwiliadau 2005.

Cychwyn Adolygiad Achos Difrifol

A yw'r Achos yn Bodloni'r Meini Prawf?

10.12 Dylai'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant benderfynu yn gyntaf a ddylid cynnal adolygiad achos difrifol, gan ddilyn y meini prawf ym mharagraffau 10.1 a 10.2. Dylai'r Byrddau Lleol Diogelu Plant sefydlu Panel Adolygu Achosion Difrifol, gan gynnwys o leiaf y gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, addysg a'r heddlu, i ystyried a ddylid cynnal adolygiad achos.

Mewn rhai achosion, fe allai fod yn ddefnyddiol i gynnal adolygiad o asiantaethau unigol, neu archwiliadau ar raddfa lai o achosion unigol sy'n destun pryder ond nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer adolygiad achos llawn. Mewn achosion o'r fath, dylid gwneud trefniadau i rannu'r canfyddiadau perthnasol â'r Panel Adolygu.

10.13 Dylid anfon penderfyniad y Panel Adolygu, fel argymhelliad, at Gadeirydd y Bwrdd Lleol Diogelu Plant, gan mai ef neu hi sy'n gyfrifol yn y pen draw am benderfynu a ddylid cynnal adolygiad achos ai peidio. Dylai'r awdurdodau lleol hysbysu Llywodraeth Cynulliad Cymru bob amser o bob achos a gyfeirir at Banel Adolygu, gan roi amlinelliad byr o amgylchiadau'r achos, ac o bob achos sy'n dod yn destun adolygiad achos wedi hynny.

Penderfynu ar Gwmpas yr Adolygiad

10.14 Dylai'r Panel Adolygu ystyried cwmpas y broses adolygu, yng ngoleuni pob achos unigol, a llunio cylch gorchwyl eglur. Dyma rai cwestiynau perthnasol:

- beth, yn ôl pob golwg, yw'r materion pwysicaf i fynd i'r afael â nhw wrth geisio dysgu gwersi'r achos penodol hwn? Beth yw'r ffordd orau o gael gafael ar yr wybodaeth berthnasol a'i dadansoddi?
- pwy ddylid ei benodi fel awdur annibynnol yr adroddiad cyffredinol?
- a yw'r achos yn cynnwys elfennau sy'n awgrymu y dylai unrhyw ran o'r broses adolygu gynnwys, neu gael ei chynnal gan, rywun sy'n annibynnol ar y gweithwyr proffesiynol/sefydliadau y bydd gofyn iddynt gymryd rhan yn yr adolygiad?
- a fyddai o fudd i'r panel adolygu ddod ag arbenigwr o'r tu allan i mewn ar unrhyw adeg i fwrw goleuni ar agweddau allweddol o'r achos?
- dros ba gyfnod o amser y dylid adolygu digwyddiadau, hy pa mor bell yn ôl, a hyd at ba ddyddiad, ddylai'r ymchwiliadau fynd? Pa wybodaeth gefndir/gwybodaeth am hanes y teulu fyddai o gymorth i ddeall y gorffennol agos a'r presennol yn well?
- pa sefydliadau a gweithwyr proffesiynol ddylai gyfrannu at yr adolygiad er enghraifft, ble y bo'n briodol, a ddylid gofyn i berchennog ysgol annibynnol neu arweinydd cylch chwarae gyflwyno adroddiadau neu gyfrannu mewn rhyw ffordd arall?
- sut ddylai aelodau'r teulu gyfrannu at yr adolygiad a phwy ddylai fod yn gyfrifol am hwyluso'u cyfraniad?
- a fydd yr achos yn creu'r angen am ymchwiliadau eraill i arferion gwaith, er enghraifft ymchwiliadau iechyd annibynnol neu adolygiadau hunanladdiad amlddisgyblaethol, adolygiad llofruddiaeth pan fo rhiant wedi'i lofruddio, Adolygiad Digwyddiad Difrifol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ac ymchwiliad Ombwdsmon y

Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf pan fo plentyn wedi marw tra yn y ddalfa?

- ac os felly, beth fyddai'r ffordd orau i adolygiad a gydlynir neu a gomisiynir ar y cyd fynd i'r afael â'r holl gwestiynau perthnasol y mae angen eu gofyn, a hynny yn y ffordd fwyaf ddarbodus?
- a oes angen cynnwys sefydliadau/gweithwyr proffesiynol mewn ardaloedd Byrddau Lleol Diogelu Plant eraill (gweler 6.5 uchod), a beth ddylai swyddogaethau a chyfrifoldebau'r gwahanol Fyrddau sydd â budd yn yr achos fod?
- sut ddylai'r broses adolygu ystyried ymchwiliad Crwner ac (os yn berthnasol) unrhyw ymchwiliad neu achos troseddol sy'n ymwneud â'r achos? Beth fyddai'r ffordd orau o gydlynu â'r Crwner a/neu Wasanaeth Erlyn y Goron?
- sut ddylai proses yr adolygiad achos difrifol gyd-fynd â'r prosesau ar gyfer mathau eraill o adolygiadau ee ar gyfer llofruddiaeth, iechyd meddwl neu'r carchardai?
- pwy fydd yn gwneud y cyswllt â'r buddiannau perthnasol y tu allan i'r prif sefydliadau statudol ee gweithwyr proffesiynol annibynnol, ysgolion annibynnol, mudiadau gwirfoddol?
- pryd ddylai'r broses adolygu gychwyn ac erbyn pa ddyddiad ddylid ei chwblhau?
- sut ddylid ymdrin ag unrhyw ddiddordeb gan y cyhoedd, y teulu a'r cyfryngau cyn, yn ystod ac ar ôl yr adolygiad?
- a oes angen i'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant gael cyngor cyfreithiol annibynnol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar yr adolygiad arfaethedig?

10.15 Mae'n bosibl y bydd angen ailedrych ar rai o'r pwyntiau hyn wrth i'r adolygiad fynd yn ei flaen ac wrth i wybodaeth newydd ddod i'r amlwg.

Amseru

10.16 Bydd adolygiadau yn amrywio'n fawr o ran eu cwmpas a'u cymhlethdod, ond dylid dysgu gwersi a'u rhoi ar waith mor gyflym ag y bo modd ym mhob achos. Dylid cynnull Panel Adolygu i drafod a rhoi cyngor ar ba un a ddylid cynnal adolygiad, ac yna i lunio cylch gorchwyl, o fewn mis i ddwyn achos at sylw Cadeirydd Bwrdd Lleol Diogelu Plant. Dylai asiantaethau unigol gael gafael ar gofnodion yr achos ar unwaith a dechrau gweithio'n gyflym i lunio cronoleg eu cyswllt â'r plentyn a'r teulu.

10.17 Dylid cwblhau adolygiadau o fewn chwe mis wedi hynny, oni bai y cytunir ar amserlen wahanol gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y cychwyn. Bydd adolygiad ar y gweill, weithiau, cyn iddi ddod i'r amlwg pa mor gymhleth yw achos. Cyn gynted ag y daw'n amlwg na ellir cwblhau adolygiad ymhen chwe mis o benderfyniad Cadeirydd Bwrdd Lleol Diogelu Plant i'w gynnal, dylid trafod gyda Llywodraeth Cynulliad

Cymru i gytuno ar amserlen ar gyfer ei gwblhau. Gall Llywodraeth Cynulliad Cymru ofyn am adroddiadau rheolaidd ar ddatblygiad yr adolygiad, fel rhan o unrhyw amserlen estynedig.

10.18 Mewn rhai achosion, fe allai achos troseddol gael ei gynnal wedi i blentyn farw neu gael ei anafu'n ddifrifol. Dylai'r rhai hynny sy'n cydlynu'r adolygiad drafod gyda'r asiantaethau cyfiawnder troseddol perthnasol, yn gynnar yn y broses, sut y dylai'r broses adolygu roi ystyriaeth i achos troseddol o'r fath, ee sut mae hyn yn effeithio ar amseriad yr adolygiad, y ffordd y caiff ei gynnal (gan gynnwys cyfweld unigolion perthnasol), yr effaith bosibl ar ymchwiliadau troseddol a phwy ddylai gyfrannu a phryd. Ni ddylid gohirio adolygiadau achos difrifol fel mater o drefn oherwydd bod achos troseddol ar y gweill neu oherwydd y disgwylir penderfyniad ynghylch pa un a ddylid erlyn ai peidio. Gellir gwneud llawer o waith defnyddiol yn aml i ddeall a dysgu gan elfennau o'r achos heb fod mewn perygl o gyfaddawdu tystion mewn achos troseddol. Mae'n bosibl na fydd modd cwblhau neu gyhoeddi adolygiad nes i achos troseddol neu achos y Crwner ddod i ben mewn rhai achosion, ond ni ddylai hyn rwystro'r gwersi a ddysgwyd yn gynnar rhag cael eu rhoi ar waith.

Pwy Ddylai Gynnal Adolygiadau?

10.19 Dylai'r ymarfer cychwynnol i bennu cwmpas yr adolygiad nodi pwy ddylai gyfrannu, er y gallai ddod i'r amlwg, wrth i fwy o wybodaeth fod ar gael, y byddai'n ddefnyddiol i bobl eraill gymryd rhan. Yn arbennig, fe allai gwybodaeth sy'n berthnasol i'r adolygiad ddod i'r amlwg yn sgil achos troseddol.

10.20 Dylai pob gwasanaeth perthnasol gynnal adolygiad ar wahân o'i gyswllt â'r plentyn a'r teulu. Dylid cychwyn ar hyn cyn gynted ag y gwneir y penderfyniad i symud ymlaen â'r adolygiad, a hyd yn oed yn gynt pe byddai'r achos yn peri pryder o fewn yr asiantaeth unigol. Dylai gweithwyr proffesiynol annibynnol perthnasol (gan gynnwys meddygon teulu) gyfrannu adroddiadau yn disgrifio'u cyswllt â'r plentyn a'r teulu. Dylai gweithwyr proffesiynol dynodedig adolygu a gwerthuso arferion gwaith yr holl weithwyr iechyd proffesiynol a darparwyr iechyd o fewn ardal Bwrdd Iechyd Lleol a fu'n ymwneud â'r achos. Fe allai hyn gynnwys adolygu cyfraniad ymarferwyr ac Ymddiriedolaethau unigol yn ogystal â rhoi cyngor i weithwyr proffesiynol a rheolwyr a enwir sy'n llunio adroddiadau ar gyfer yr adolygiad. Mae gan weithwyr proffesiynol dynodedig ran bwysig i'w chwarae o ran rhoi arweiniad ar sut i gael cydbwysedd rhwng sicrhau cyfrinachedd a datgelu gwybodaeth.

10.21 Pan fo Swyddog Achosion Teulu yng Nghymru yn cyfrannu at adolygiad, dylid ceisio cytundeb y llysoedd ymlaen llaw er mwyn gallu hepgor dyletswydd y Swyddog i sicrhau cyfrinachedd o dan reolau'r llys, i'r graddau y bo hynny'n angenrheidiol.

10.22 Dylai'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant gomisiynu adroddiad cyffredinol sy'n dwyn ynghyd ac yn dadansoddi canfyddiadau'r amrywiol adroddiadau a luniwyd gan yr asiantaethau ac eraill, ac yn argymell camau i'w cymryd at y dyfodol.

10.23 Ni ddylai'r rhai sy'n cynnal adolygiadau o wasanaethau'r asiantaethau unigol, neu sy'n llunio'r adroddiad cyffredinol, fod wedi bod â chyswllt uniongyrchol â'r plentyn neu'r teulu, na bod wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos, na bod yn rheolwr llinell uniongyrchol i'r ymarferydd/ymarferwyr dan sylw.

Adolygu Asiantaethau Unigol

10.24 Unwaith y gwyddir bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i gynnal adolygiad ar achos penodol, dylai pob asiantaeth gael gafael ar y cofnodion sy'n ymwneud â'r achos rhag iddynt gael eu colli neu rhag i unrhyw un ymyrryd â hwy. Dylid llunio cylch gorchwyl clir ar gyfer y rhai sy'n cynnal yr adolygiad.

10.25 Wrth adolygu'r asiantaethau, dylid ceisio edrych yn agored ac yn feirniadol ar arferion unigolion a'r sefydliad, a gweld a yw'r achos yn awgrymu y gellid ac y dylid gwneud newidiadau, ac os felly, nodi sut y dylid cyflawni'r newidiadau hynny. Yr uwch swyddog yn yr asiantaeth sydd wedi comisiynu'r adroddiad ddylai dderbyn adroddiad yr adolygiad o'r asiantaeth, ac ef neu hi fydd yn gyfrifol am sicrhau y rhoddir yr argymhellion ar waith.

10.26 Wedi cwblhau adroddiad yr adolygiad, dylid sefydlu proses ar gyfer rhoi adborth a bwydo gwybodaeth yn ôl i'r staff dan sylw, cyn i'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant gwblhau'r adroddiad cyffredinol. Mae'n bosibl y bydd hefyd angen cynnal sesiwn adborth ddilynol pe byddai adroddiad y Bwrdd Lleol Diogelu Plant yn codi materion newydd i'r asiantaeth a'r aelodau staff.

10.27 Nid yw adolygiadau achos yn rhan o unrhyw ymholiad na phroses ddisgyblu. Fodd bynnag, fe allai gwybodaeth a ddaw i'r amlwg yn sgil yr adolygiadau awgrymu y dylid cymryd camau disgyblu trwy'r gweithdrefnau arferol, neu y dylai Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru gymryd camau ar faterion rheoleiddio. Fel arall, gellid cynnal adolygiadau ochr yn ochr â chamau disgyblu. Mewn rhai achosion (ee honiad o gam-drin trwy sefydliad cyfan) hwyrach y bydd angen cymryd camau disgyblu ar frys er mwyn diogelu plant eraill.

10.28 Dylid dilyn yr amlinelliad canlynol wrth baratoi adolygiadau o asiantaethau, er mwyn cynorthwyo i ofalu yr ymdrinnir â'r cwestiynau perthnasol. Bydd hefyd yn gofalu y rhoddir gwybodaeth i Fyrddau Lleol Diogelu Plant ar ffurf gyson, gan eu cynorthwyo yn y broses o baratoi adroddiad cyffredinol. Nid yw'r cwestiynau a holir yn rhestr gynhwysfawr sy'n berthnasol i bob achlysur. Fe allai cwestiynau neu faterion penodol, y mae angen ymchwilio iddynt, godi yn sgil pob achos unigol.

Adolygu Asiantaethau

Beth oedd ein Cyswllt â'r Plentyn Hwn a'r Teulu?

- Lluniwch gronoleg gynhwysfawr o gyswllt yr asiantaeth a/neu'r gweithiwr/wyr proffesiynol â'r plentyn a'r teulu dros y cyfnod a nodir yng nghylch gorchwyl yr adolygiad. Rhowch grynodeb byr o'r penderfyniadau a wnaed, y gwasanaethau a gynigiwyd a/neu a ddarparwyd i'r plant/plentyn a'r teulu, a chamau eraill a gymerwyd.

Dadansoddiad o'r Cyswllt

Ystyriwch yr hyn a ddigwyddodd, y penderfyniadau a wnaed, a'r camau a gymerwyd neu na chymerwyd. Pan y gwnaed dyfarniad neu y cymerwyd camau sy'n awgrymu y gellid gwella'r arferion gwaith neu'r arferion rheoli, ceisiwch ddod i ddeall beth ddigwyddodd, ond hefyd pam y digwyddodd. Ystyriwch y canlynol yn benodol:

- A fu'r ymarferwyr yn sensitif i anghenion y plant wrth eu gwaith; a oeddynt yn gyfarwydd â'r arwyddion posibl bod plentyn yn cael ei gam-drin neu'i esgeuluso; ac oeddynt yn gwybod beth ddylent ei wneud pe byddai ganddynt bryderon am blentyn?
- A oedd gan yr asiantaeth bolisïau a gweithdrefnau i ddiogelu plant ac i weithredu ar bryderon ynglŷn â'u lles?
- Beth oedd y pwyntiau/cyfleoedd perthnasol, allweddol wrth asesu a gwneud penderfyniadau yn yr achos hwn mewn perthynas â'r plentyn a'r teulu? A yw'n ymddangos bod asesiadau wedi'u cynnal a phenderfyniadau wedi'u gwneud mewn modd proffesiynol, yn seiliedig ar yr holl wybodaeth?
- A oedd y camau a gymerwyd yn cyd-fynd â'r asesiadau a'r penderfyniadau? A gynigiwyd/ddarparwyd gwasanaethau priodol, neu a wnaed ymholiadau perthnasol, yng ngoleuni'r asesiadau?
- Pan yn berthnasol, a sefydlwyd cynlluniau amddiffyn plant neu gynlluniau gofal priodol, ac a gydymffurfiwyd â'r prosesau adolygu o ran amddiffyn plant a/neu blant sy'n derbyn gofal?
- Pryd, ac ym mha ffordd, y casglwyd ac yr ystyriwyd dymuniadau a theimladau'r plentyn/plant? A gofnodwyd yr wybodaeth hon?
- A fu'r arferion gwaith yn sensitif i hunaniaeth hiliol, ddiwylliannol, ieithyddol a chrefyddol y plentyn a'r teulu?
- A gafodd rheolwyr uwch, neu asiantaethau neu weithwyr proffesiynol eraill, eu cynnwys pryd y dylid bod wedi gwneud hynny?
- A oedd y gwaith yn yr achos hwn yn gyson â pholisi a gweithdrefnau diogelu plant yr asiantaeth a'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant ac â'r safonau proffesiynol ehangach?

Beth Allwn ni ei Ddysgu o'r Achos Hwn?

- A allai'r asiantaeth hon ddysgu gwersi o'r achos hwn, o ran y ffordd y mae'n gweithio i ddiogelu plant a hybu'u lles?
- A oes arferion da y dylid tynnu sylw atynt, yn ogystal â ffyrdd y gellid gwella arferion gwaith?
- A oes goblygiadau i ffyrdd o weithio; hyfforddiant (unigol a rhyngasiantaethol); arferion rheoli a goruchwylio; gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill; adnoddau?

Camau a Argymhellir

- Pa gamau ddylid eu cymryd, gan bwy, ac erbyn pryd?
- Pa ganlyniadau ddylai ddod yn sgil y camau hyn, a sut ddylai'r asiantaethau adolygu pa un a gyflawnwyd y rhain ai peidio?

10.29 Dylai adolygiadau ystyried amgylchiadau'r achosion unigol yn ofalus, ac ystyried y ffordd orau o strwythuro adolygiad yng ngoleuni'r amgylchiadau penodol hynny. Pan fo'r rhai hynny sy'n cynnal adolygiad asiantaeth yn cyfweld staff neu bobl eraill, dylid cadw cofnod ysgrifenedig o gyfweliadau o'r fath a rhannu'r cofnodion hynny gyda'r sawl a gyfwelwyd.

Adroddiad Cyffredinol y Bwrdd Lleol Diogelu Plant

10.30 Dylai adroddiad cyffredinol y Bwrdd Lleol Diogelu Plant ddwyn ynghyd yr wybodaeth a'r dadansoddiad a geir yn adolygiadau'r asiantaethau unigol, yn ogystal ag mewn adroddiadau a gomisiynwyd gan unrhyw fuddiannau perthnasol eraill, a'u cysylltu â'i gilydd. Dylid paratoi adroddiadau cyffredinol yn unol â'r amlinelliad canlynol, er y bydd yr union ffurf yn dibynnu ar nodweddion yr achos, fel gydag adolygiadau o'r asiantaethau. Bydd yr amlinelliad hwn yn fwyaf perthnasol ar gyfer achos o blentyn yn cael ei gam-drin neu'i esgeuluso o fewn y teulu.

10.31 Dylid cynnwys awdur yr adroddiad yn gynnar yn y broses, a dylai ef neu hi feddu ar gymwysterau, gwybodaeth neu brofiad perthnasol.

Adroddiad Cyffredinol Bwrdd Lleol Diogelu Plant

Cyflwyniad

- Rhowch grynodeb o'r amgylchiadau a arweiniodd at gynnal adolygiad yn yr achos hwn.
- Nodwch gylch gorchwyl yr adolygiad.
- Rhestrwch y rhai sydd wedi cyfrannu at yr adolygiad a natur eu cyfraniadau (ee adolygiad asiantaeth gan AALl, adroddiad gan wasanaeth iechyd meddwl i oedolion). Rhestrwch aelodau'r panel adolygu ac awdur yr adroddiad cyffredinol.

Y Ffeithiau

- Paratowch ddiagram yn dangos aelodau'r teulu, y teulu estynedig a'r aelwyd.
- Lluniwch gronoleg integredig yn disgrifio cyswllt yr holl weithwyr proffesiynol ac asiantaethau perthnasol, ac eraill sydd wedi cyfrannu at y broses adolygu, â'r plentyn a'r teulu. Nodwch yn arbennig yn y gronoleg bob achlysur y gwelwyd y plentyn ac y ceisiwyd neu y mynegwyd dymuniadau a barn y plentyn.
- Paratowch ddarlun cyffredinol, yn crynhoi'r wybodaeth berthnasol a oedd gan y gweithwyr proffesiynol a'r asiantaethau dan sylw am y rhieni/gofalwyr, unrhyw ddrwgweithredwr, ac amgylchiadau cartref y plant.

Dadansoddiad

- Dylai rhan hon yr adolygiad edrych ar sut a pham y digwyddodd pethau, y gwnaed penderfyniadau, y cymerwyd neu na chymerwyd camau penodol. Dyma'r rhan o'r adroddiad ble y gall yr adolygwyr ystyried, o edrych yn ôl, a fyddai pethau wedi digwydd yn wahanol pe byddai penderfyniadau neu gamau gwahanol wedi'u cymryd. Dyma hefyd yr adran ble y dylid tynnu sylw at unrhyw enghraifft o arferion da.

Casgliadau ac Argymhellion

- Dylai'r rhan hon o'r adroddiad grynhoi'r gwersi sydd i'w dysgu o'r achos, ym marn y panel adolygu, a nodi sut y dylid trosi'r gwersi hynny yn argymhellion.
- Dylai'r argymhellion gynnwys yr argymhellion a wnaed yn adroddiadau'r asiantaethau unigol, ond ni ddylid eu cyfyngu i'r rheiny.
- Dylid cael nifer fach o argymhellion penodol, pendant y gellir eu rhoi ar waith. Pwysleisiwch hyn.
- Dylid hefyd dynnu sylw at unrhyw wers ar gyfer polisi ac arferion cenedlaethol, yn ogystal â lleol, os oes rhai.

Camau'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant wedi Derbyn Adroddiadau

10.32 Wedi derbyn adroddiad cyffredinol, dylai Bwrdd Lleol Diogelu Plant:

- ofalu bod yr asiantaethau a'r unigolion a gyfrannodd at yr adroddiad cyffredinol yn fodlon bod eu gwybodaeth wedi'i chynnwys yn llawn ac yn deg ynddo;
- defnyddio'r argymhellion i lunio cynllun gweithredu a gofalu bod uwch reolwyr pob un o'r asiantaethau a gyfrannodd yn ei

gymeradwyo a'i fabwysiadu. Dylai'r cynllun nodi pwy fydd yn gwneud beth ac erbyn pryd, a pha ganlyniad y bwriedir ei gael. Dylai hefyd nodi sut y bwriedir monitro ac adolygu gwelliannau yn yr arferion gwaith/systemau;

- ei gwneud yn eglur i bwy y dylai'r adroddiad, neu unrhyw ran ohono, fod ar gael;
- dosbarthu'r adroddiad neu ganfyddiadau allweddol i'r rhai sydd â budd ynddo, fel a gytunwyd;
- gwneud trefniadau i roi adborth a bwydo gwybodaeth yn ôl i'r staff, aelodau teulu'r plentyn dan sylw a'r cyfryngau fel y bo'n briodol;
- trefnu i baratoi crynodeb gweithredol nad yw'n cynnwys enwau, a gofalu ei fod ar gael i'r cyhoedd ym mhrif swyddfeydd y Bwrdd (dylid hefyd ystyried cyhoeddi crynodebau gweithredol yn fwy eang, gan gynnwys ar wefannau'r asiantaethau);
- darparu copi o'r adroddiad cyffredinol, y crynodeb gweithredol, y cynllun gweithredu ac adroddiadau'r asiantaethau unigol i Lywodraeth Cynulliad Cymru (y Gyfarwyddiaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Plant neu rannau eraill o'r Cynulliad y gellir hysbysu'r Bwrdd ohonynt); ac
- darparu copi oŕ crynodeb sydd ddim yn cynnwys enwau l bob coiff cynrychiadol oddieithr bod y Bwrdd yn ystyried yr adroddiad arolwg yn amhriodol.

Adolygu Cam-drin Sefydliadol

10.33 Mae'r un egwyddorion yn berthnasol wrth adolygu achos pan fo plentyn yn cael ei gam-drin yn ddifrifol mewn sefydliad, neu gan nifer o bobl. Fodd bynnag, mae'r adolygiad yn debygol o fod yn fwy cymhleth ac ar raddfa fwy, ac fe allai gymryd mwy o amser. Bydd angen llunio'r cylch gorchwyl yn ofalus er mwyn archwilio'r materion sy'n berthnasol i'r achos penodol. Er enghraifft, pe byddai plant wedi'u cam-drin mewn ysgol breswyl, byddai'n bwysig archwilio a oedd yr ysgol wedi cymryd camau i greu amgylchedd diogel i blant ac a oedd wedi ymateb i bryderon penodol a godwyd, ac oes felly sut yr oedd wedi gwneud hynny.

10.34 Mae angen bod yn eglur ynglŷn â'r modd y mae'r gwahanol brosesau isod yn cysylltu â'i gilydd:

- ymchwilio (gan gynnwys ymchwiliadau troseddol a chamau a gymerir gan gyrff rheoleiddio ac arolygiaethau);
- rheoli achos (gan gynnwys cymorth i blant sydd wedi cael eu cam-drin);
- camau ar unwaith i ofalu bod plant eraill yn ddiogel; ac
- adolygu (hy dysgu gwersi o'r achos er mwyn ei gwneud yn llai tebygol y bydd rhywbeth tebyg yn digwydd eto).

Dylai'r gwahanol brosesau gyfrannu tuag at ei gilydd. Dylid cytuno ar unrhyw gynnig i gynnal adolygiad gyda'r rhai sy'n arwain ymchwiliadau troseddol er mwyn gofalu nad yw'r adolygiad yn niweidio achos troseddol posibl.

Atebolrwydd a Datgelu Gwybodaeth

10.35 Dylai Byrddau Lleol Diogelu Plant ystyried yn ofalus pwy allai fod â budd mewn adolygiadau - ee aelodau a etholwyd ac a benodwyd i awdurdodau, staff, aelodau o deulu'r plentyn, y cyhoedd, y cyfryngau – a pha wybodaeth ddylai fod ar gael i bob un o'r rhain. Bydd yn anodd sicrhau cydbwysedd rhwng gwahanol fuddiannau, gan gynnwys:

- yr angen i gadw gwybodaeth bersonol a geir yn yr adroddiadau am y plentyn, aelodau'r teulu ac eraill yn gyfrinachol;
- atebolrwydd gwasanaethau cyhoeddus a phwysigrwydd cadw hyder y cyhoedd yn y broses adolygu fewnol;
- yr angen i sicrhau bod y gwahanol asiantaethau a gweithwyr proffesiynol yn cymryd rhan lawn ac agored yn y broses;
- y cyfrifoldeb i ddarparu gwybodaeth berthnasol i'r rhai hynny â budd dilys yn y mater; a
- chyfyngiadau ar rannu gwybodaeth pan fo achos troseddol ar y gweill, yn yr ystyr nad y Bwrdd Lleol Diogelu Plant, o bosibl, sy'n rheoli pwy a all weld yr wybodaeth.

10.36 Mae'n bwysig rhagweld ceisiadau am wybodaeth a chynllunio ymlaen llaw sut i ymateb iddynt. Er enghraifft, fe allai un asiantaeth ysgwyddo'r prif gyfrifoldeb am fwydo gwybodaeth yn ôl i aelodau'r teulu, neu am ymateb i ddiddordeb ymhlith y cyfryngau mewn achos, gan gydlynu â'r asiantaethau a'r gweithwyr proffesiynol eraill sy'n cyfrannu at yr adolygiad. Ym mhob achos, dylai adroddiad cyffredinol y Bwrdd Lleol Diogelu Plant gynnwys crynodeb gweithredol a fydd ar gael i'r cyhoedd, a dylai hwn gynnwys gwybodaeth am y broses adolygu, materion allweddol sy'n codi o'r achos, a'r argymhellion a wnaed, o leiaf. Bydd angen cyhoeddi hwn ar yr adeg cywir i gyd-fynd â'r dyddiad y daw unrhyw achos llys cysylltiedig i ben. Bydd angen osgoi cynnwys unrhyw enw er mwyn gwarchod cyfrinachedd aelodau perthnasol y teulu ac eraill.

Dysgu Gwersi yn Lleol

10.37 Nid oes fawr o werth i adolygiadau oni bai y dysgir gwersi ohonynt. Dylid rhoi o leiaf yr un faint o ymdrech i weithredu'r argymhellion ag a roddir i gynnal yr adolygiad. Fe allai'r canlynol fod o gymorth wrth gael y budd mwyaf posibl o'r broses adolygu:

- ystyriwch pa wybodaeth y mae angen ei dosbarthu, a sut ac i bwy y dylid gwneud hynny, yng ngoleuni'r adolygiad. Byddwch yn barod i

ledaenu enghreifftiau o arferion da a meysydd ble y mae angen newid;

- canolbwyntiwch yr argymhellion ar nifer fach o feysydd allweddol, gan gynnwys cynigion penodol ar gyfer newidiadau y gellir eu cyflawni, a'r canlyniadau y bwriedir eu sicrhau;
- dylai'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant sefydlu dull o archwilio'r camau a gymerir o'u cymharu â'r argymhellion a'r canlyniadau a fwriadwyd;
- ceisiwch adborth ar yr adroddiadau adolygu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac AGCC. Dylai'r rhain ddefnyddio'r adroddiadau i gyfrannu at arolygiadau a threfniadau rheoli perfformiad.

10.38 O dan Reoliadau Byrddau Lleol Diogelu Plant (Cymru) 2006, mae gofyn i Fwrdd Diogelu fonitro i ba raddau y cyflawnir neu y cyflawnwyd unrhyw argymhelliad a wnaed mewn Adolygiad Achos Difrifol. Pan na chaiff argymhellion eu cyflawni neu ble y cânt eu cyflawni'n rhannol yn unig, dylid cofnodi'r rhesymau dros hynny. Fe all Llywodraeth Cynulliad Cymru fynnu bod Byrddau Diogelu yn darparu adroddiadau ar y gwaith a wnaed i gyflawni argymhellion.

10.39 Trwy ddilyn arferion da o ddydd i ddydd, gellir cynorthwyo i sicrhau y cynhelir adolygiadau yn llwyddiannus ac mewn modd sy'n ei gwneud yn fwyaf tebygol y dysgir y gwersi i'r eithaf. Dylai Byrddau Lleol Diogelu Plant ac asiantaethau sy'n aelodau ohonynt wneud y canlynol:

- sefydlu diwylliant o archwilio ac adolygu er mwyn gofalu nad yn sgil trychinebau yn unig y caiff gwaith rhyngasiantaeth ei adolygu;
- sefydlu systemau eglur a threfnus o gofnodi achosion a chadw cofnodio;
- datblygu systemau cyfathrebu da rhwng disgyblaethau ac aelodau'r Byrddau Lleol Diogelu Plant, a sicrhau eu bod yn eu deall ei gilydd;
- cyfathrebu â'r gymuned leol a'r cyfryngau er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r gwaith cadarnhaol y mae gwasanaethau statudol yn ei wneud i gynorthwyo plant, fel na chanolbwyntir y sylw yn anghymesur ar drychinebau;
- gofalu bod y staff a'u cynrychiolwyr yn deall beth ellir ei ddisgwyl pe bai plentyn yn marw/achos yn cael ei adolygu.

Dysgu Gwersi yn Genedlaethol

10.40 O'u cymryd gyda'i gilydd, mae adolygiadau achos yn ffynhonnell wybodaeth bwysig ar gyfer polisïau ac arferion cenedlaethol. Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am nodi a lledaenu themâu a thueddiadau sy'n gyffredin i amryw o adroddiadau adolygu, ac am weithredu ar y gwersi a ddysgwyd o ran polisi ac arferion gwaith. Gan ddibynnu ar nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd, bydd y Cynulliad yn comisiynu adroddiadau cyffredinol bob dwy flynedd, gan glustnodi canfyddiadau allweddol yr adolygiadau achos ac ystyried eu goblygiadau ar gyfer polisi ac arferion gwaith.

11: Hyfforddiant a Datblygiad Rhyngasiantaethol

Cyflwyniad

11.1 Mae'n rhaid i bawb sy'n gweithio gyda phlant, a chydag oedolion sy'n rhieni neu'n ofalwyr, feddu ar yr wybodaeth a'r sgiliau i gyflawni'u swyddogaethau, er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys gallu adnabod a chodi pryderon ynglŷn â diogelu lles plentyn. Rhaid iddynt hefyd allu gweithio yn effeithiol ag eraill, o fewn eu hasiantaeth eu hunain yn ogystal ag mewn asiantaethau eraill. Y ffordd orau o sicrhau hyn fydd trwy gyfuniad o hyfforddiant ar gyfer asiantaethau unigol a hyfforddiant aml-asiantaeth.

11.2 Mae asiantaethau unigol yn gyfrifol am ofalu bod eu staff yn gymwys a hyderus i gyflawni'u swyddogaethau o ran diogelu a hyrwyddo lles plant.

11.3 Mae gwaith rhyngasiantaethol yn nodwedd hanfodol o bob cwrs hyfforddiant mewn diogelu a hyrwyddo lles plant, gan gynnwys y rhai hynny a ddarperir o fewn asiantaethau unigol neu mewn lleoliadau proffesiynol. Dylai hyfforddiant a datblygiad penodol mewn gwaith rhyngasiantaethol gyd-fynd â hyfforddiant o'r fath, a dylai ganolbwyntio'n arbennig ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant, rhannu gwybodaeth a gweithio rhyngasiantaethol. Gellir hybu cyd-ddealltwriaeth o swyddogaethau a chyfrifoldebau gwahanol weithwyr proffesiynol yn hynod effeithiol trwy ddarparu hyfforddiant ar gyfer nifer o asiantaethau yr un pryd. Bydd hefyd yn cyfrannu at sefydlu perthynas waith effeithiol.

11.4 Dylai pob cwrs hyfforddiant mewn diogelu a hyrwyddo lles plant greu ethos sy'n rhoi gwerth ar gydweithio ag eraill, parchu amrywiaeth (gan gynnwys diwylliant, hil ac anabledd) a hybu cydraddoldeb. Dylai roi'r canolbwynt ar y plentyn a hybu'r egwyddor y dylai plant a'r teuluoedd gymryd rhan yn y prosesau.

Diben hyfforddiant ar gyfer gwaith rhyngasiantaethol

11.5 Diben hyfforddiant aml-asiantaeth yw cynorthwyo i ddatblygu a meithrin y canlynol er mwyn sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc:

- cyd-ddealltwriaeth o'r tasgau, y prosesau, yr egwyddorion y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau a amlinellir yn y canllawiau cenedlaethol a'r trefniadau lleol ar gyfer diogelu plant a hybu'u lles;
- gwasanaethau mwy effeithiol ac integredig ar lefel strategol ac o safbwynt achosion unigol;

- gwell cyfathrebu rhwng gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys cyd-dealltwriaeth o dermau, diffiniadau a throthwyon gweithredu allweddol;
- perthnasau gwaith effeithiol, gan gynnwys y gallu i weithio mewn grwpiau neu dimau amlddisgyblaethol;
- prosesau cadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar rannu gwybodaeth, asesu trylwyr, dadansoddi allweddol a dyfarnu proffesiynol.

Cynulleidfaoedd Targed

11.6 Dylid targedu hyfforddiant a datblygiad ar gyfer gwaith rhyngasiantaethol at y grwpiau canlynol o'r asiantaethau gwirfoddol, statudol ac annibynnol:

- uwch reolwyr mewn asiantaethau sy'n bartneriaid i'w gilydd, gan gynnwys prif weithredwyr, cyfarwyddwyr, aelodau etholedig ac aelodau'r byrddau;
- y rhai sy'n **gyfrifol am bennu'r strategaeth a rheoli'r** gwaith comisiynu a darparu gwasanaethau i blant a theuluoedd. Mae hyn yn cynnwys y rhai hynny ym mhob un o'r asiantaethau a restrir yn adran 28 o Ddeddf Plant 2004, unrhyw aelod arall o Fyrddau Lleol Diogelu Plant, ymddiriedolwyr a llywodraethwyr ysgolion;
- y rhai sydd mewn **cyswllt rheolaidd** â phlant a phobl ifanc a chydag oedolion sy'n rhieni/gofalwyr. Bydd y rhain yn bobl sydd mewn sefyllfa i nodi pryderon ynghylch cam-drin, gan gynnwys rhai a allai godi yn sgil defnyddio'r Fframwaith Asesu Cyffredin. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr ym meysydd tai, hamdden a chwaraeon, gweithwyr ieuenctid, gwarchodwyr plant, staff cymorth dysgu;
- y rhai sy'n **gweithio'n rheolaidd** â phlant a phobl ifanc, a chydag oedolion sy'n ofalwyr, gan gynnwys ymarferwyr sy'n cyfrannu at asesu plant mewn angen. Mae hyn yn cynnwys meddygon teulu, staff iechyd yn y gymuned ac mewn ysbytai, gweithwyr canolfannau i deuluoedd, athrawon, swyddogion lles addysg, gweithwyr cymdeithasol, staff iechyd meddwl ac anableddau dysgu, swyddogion prawf a staff carchardai a dalfeydd diogel i'r ifanc;
- y rhai â **chyfrifoldeb penodol** dros ddiogelu plant, megis gweithwyr proffesiynol dynodedig ym meysydd iechyd ac addysg, yr heddlu, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n cynnal ymholiadau adran 47 neu'n gweithio gydag achosion cymhleth, gan gynnwys salwch ffug a salwch a achoswyd gan rywun arall;
- **rheolwyr gweithredol** sy'n goruchwylio ymarferwyr a gwirfoddolwyr yn y grwpiau uchod ac sy'n gyfrifol am gomisiynu neu ddarparu gwasanaethau.

11.7 Mae cynulleidfaoedd hyfforddiant yn fawr a strategol. Mae gofyn gwneud dewisiadau o ran blaenoriaethau, fel rhan o strategaeth leol y gweithlu neu gan gymryd y strategaeth honno i ystyriaeth, a chyda chyfraniad gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant. Wrth wneud dewisiadau o'r fath, dylai partneriaid lleol gadw mewn cof eu cyfrifoldeb i gynyddu ymwybyddiaeth ymhlith y gymuned leol, er enghraifft gyda grwpiau cymunedol a grwpiau ffydd lleol.

Swyddogaethau a chyfrifoldebau ar gyfer hyfforddiant

11.8 Dylai partneriaid ym mhob ardal leol benderfynu pa gyrff sydd yn y sefyllfa orau i wneud y canlynol:

- **penderfynu ar yr angen** am hyfforddiant ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant ar gyfer asiantaethau unigol a nifer o asiantaethau gyda'i gilydd;
- **penderfynu ar y blaenoriaethau** a **dyrannu adnoddau;**
- **comisiynu** neu **gynnal** yr hyfforddiant;
- **gwerthuso'r** hyfforddiant a chymryd hynny i ystyriaeth wrth bennu gofynion ac wrth gomisiynu/cynnal hyfforddiant.

11.9 Mewn rhai meysydd, bydd yr elfennau cyffredin yn golygu mai'r peth gorau fyddai cynllunio a chomisiynu hyfforddiant aml-asiantaeth mewn diogelu a hyrwyddo lles plant ochr yn ochr â chamau eraill i ddatblygu'r gweithlu neu hyfforddiant aml-asiantaeth arall. Mewn meysydd eraill, mae'n bosibl y penderfynir y dylid dirprwyo'r cyfrifoldeb am drefnu'r hyfforddiant hwn i'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant.

11.10 Mae'n bwysig sicrhau bod yr hyfforddiant yn cynnwys ac ar gael i'r holl bartneriaid perthnasol.

11.11 Ym mhob ardal, y Bwrdd Lleol Diogelu Plant sy'n gyfrifol am sicrhau y darperir hyfforddiant i asiantaethau unigol a hyfforddiant aml-asiantaeth ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant sy'n diwallu'r anghenion lleol. Hyd yn oed pan na fydd y Bwrdd Lleol Diogelu Plant yn trefnu'r hyfforddiant ei hun, bydd yn dymuno gwneud y canlynol:

- rhoi sylwadau ar y gofynion a'r blaenoriaethau; a
- chyfrannu at werthuso'r hyfforddiant – yn arbennig gwerthuso pa un a yw'r hyfforddiant yn cynorthwyo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant yn well, yn ymarferol.

Fframwaith hyfforddiant

11.12 Ni all hyfforddiant ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant fod yn gwbl effeithiol oni bai iddo fod yn rhan annatod o fframwaith ehangach o ymrwymiad i weithio ar y cyd rhwng asiantaethau, gyda thargedau, prosesau cynllunio a gwerthoedd cyffredin yn sail i'r fframwaith hwnnw.

Mae'n fwyaf tebygol o fod yn effeithiol os caiff ei ddarparu o fewn fframwaith sy'n cynnwys y canlynol:

- mandad clir gan uwch reolwyr (er enghraifft, trwy'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant), â'r asiantaethau sy'n aelodau o'r Bwrdd yn ei gymeradwyo ac yn ymrwymo iddo;
- adnoddau digonol a'r gallu i ddarparu neu gomisiynu hyfforddiant;
- safonau ymarfer[7];
- polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau ymarfer i gyfrannu at y safonau hyn a'u cefnogi;
- cyfleoedd i atgyfnerthu'r hyn a ddysgwyd o fewn yr asiantaethau;
- trefn o nodi ac adolygu anghenion hyfforddiant lleol o bryd i'w gilydd gan ddefnyddio safonau ymarfer, a gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r blaenoriaethau yn sgil hynny;
- strategaeth hyfforddiant sy'n gwahaniaethu'n eglur rhwng y cyfrifoldebau o ran hyfforddiant i asiantaethau unigol a hyfforddiant aml-asiantaeth, ac sy'n nodi pa bartneriaethau neu gyrff sy'n gyfrifol am gomisiynu a darparu hyfforddiant;
- strwythurau a phrosesau ar gyfer trefnu a chydlynu'r hyfforddiant;
- systemau i ddarparu hyfforddiant aml-asiantaeth; a
- phrosesau sicrhau ansawdd (er enghraifft, fel rhan o brosesau gwerthuso a sefydlwyd gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant).

11.13 Dylid sefydlu systemau i ddarparu hyfforddiant ar gyfer asiantaethau unigol a hyfforddiant aml-asiantaeth mewn diogelu a hyrwyddo lles plant, fel rhan o drefniadau ehangach ar gyfer partneriaeth lleol. Dylai Byrddau Lleol Diogelu Plant gymryd rhan i ofalu bod yr hyfforddiant yn cael ei gynnal ac yn diwallu anghenion lleol. Dylai'r systemau feithrin cydweithrediad ymhlith asiantaethau a disgyblaethau mewn perthynas â chynllunio, dylunio, darparu a gweinyddu'r hyfforddiant. Dylent fod yn effeithlon yn ogystal â chael eu cynllunio mewn modd a fydd yn annog yr holl bartneriaid i gydweithio a theimlo mai hwy sy'n berchen ar yr hyfforddiant. Gellir darparu hyfforddiant yn fwy effeithiol trwy sicrhau cydweithrediad rhwng gwahanol ardaloedd lleol, yn arbennig ble mae ffiniau'r heddlu neu'r awdurdod iechyd yn croesi ffiniau ardaloedd awdurdodau lleol.

Swyddogaeth y Bwrdd Lleol Diogelu Plant

11.14 Y ffordd fwyaf tebygol o sicrhau hyfforddiant effeithiol, o ansawdd uchel, mewn diogelu a hyrwyddo lles plant yw trwy bennu un aelod o'r Bwrdd i ysgwyddo'r prif gyfrifoldeb dros hyfforddiant, ffurfio is-grŵp

[7] Troednodyn: Mae Prifysgol Salford wedi datblygu'r *Standards for Inter-Agency Working, Education and Training*. Gweler www.chscc.salford.ac.uk/scswr/projects/interagencyworking.shtml

hyfforddiant gyda'r aelod hwn o'r Bwrdd yn rhan ohono, a sicrhau y ceir staff â'r sgiliau priodol i fwrw ymlaen â gwaith y Bwrdd Lleol Diogelu Plant ym maes hyfforddiant a datblygiad. Bydd y trefniadau hyn yn ddefnyddiol os nad yw'r Bwrdd yn gwneud dim mwy na chyflawni ei swyddogaeth graidd o roi sylwadau ar y gofynion a'r blaenoriaethau, a chyfrannu at y gwerthuso. Byddant yn hanfodol os rhoddir y gwaith o gomisiynu neu ddarparu'r hyfforddiant i'r Bwrdd ei hun. Mae hefyd yn ddefnyddiol os yw'r Bwrdd yn chwarae rhan strategol yn y canlynol:

- sicrhau y caiff anghenion hyfforddiant eu nodi a'u diwallu yng nghyd-destun datblygiadau lleol a chenedlaethol mewn polisi ac arferion. Dylid gwneud hyn trwy gyfrwng system ffurfiol o nodi anghenion hyfforddiant, a systemau i werthuso'r hyfforddiant er mwyn gofalu ei fod yn diwallu anghenion lleol; a
- chynnwys hyfforddiant fel eitem reolaidd ar agenda'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant. Dylai'r Bwrdd roi ystyriaeth yn rheolaidd i ofalu:
- bod argymhellion a wneir mewn arolygiadau, archwiliadau ac adolygiadau achosion difrifol yn cael eu hadlewyrchu yng nghyfraniadau'r Bwrdd i hyfforddiant; bod hyfforddiant yn mynd i'r afael â blaenoriaethau a strategaethau cyfredol y Bwrdd; ac y trafodir ac y cytunir ar y cyfrifoldebau dros ddarparu hyfforddiant i asiantaethau unigol a hyfforddiant aml-asiantaeth.

11.15 Mae'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant, neu is-grŵp hyfforddiant yn gweithredu ar ei ran, yn gyfrifol am ddarganfod pa hyfforddiant sydd ei angen yn lleol, gofalu y darperir hyfforddiant priodol, a chadw golwg strategol dros hyfforddiant aml-asiantaeth, er mwyn hybu arferion effeithiol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

11.16 Dylid sefydlu prosesau i benderfynu a yw'r asiantaethau sy'n aelodau o'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant yn rhoi digon o gefnogaeth i'w staff i'w galluogi i gyflawni'u dyletswyddau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Ble y bo angen, dylai'r Bwrdd herio asiantaethau a'u dwyn i gyfrif ynglŷn â'r hyfforddiant y maent yn ei ddarparu.

Swyddogaeth yr Is-grŵp Hyfforddiant

11.17 Mae is-grŵp hyfforddiant y Bwrdd Lleol Diogelu Plant yn gyfrifol am y canlynol:

- rheoli'r broses o nodi anghenion hyfforddiant; bwydo'r rhain i mewn i'r broses o gynllunio a chomisiynu hyfforddiant; a
- gwerthuso'r hyfforddiant aml-asiantaeth er mwyn gofalu ei fod yn diwallu anghenion lleol;
- Dylai'r is-grŵp hyfforddiant gynnwys pobl â chyfrifoldeb dros y rhai hynny a fydd yn cymryd rhan mewn hyfforddiant ac â digon o awdurdod i wneud penderfyniadau mewn perthynas â hyfforddiant, er mwyn bod yn effeithiol. Dylai hefyd gynnwys aelodau â digon o

wybodaeth am y prosesau hyfforddi i'w galluogi i wneud dewisiadau cytbwys ynglŷn â datblygu a gwerthuso strategaeth hyfforddiant.

Sicrhau Ansawdd ac Effeithiolrwydd

11.18 Er mwyn bod yn effeithiol, dylai'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant ofalu ei fod wedi'i staffio'n briodol a bod ganddo'r gallu i fwrw ymlaen ag unrhyw waith hyfforddi a datblygu y mae'n ei gynnal. Dylai'r gallu hwn ym maes hyfforddiant a datblygiad, gan ystyried strategaeth leol y gweithlu, gynnwys cymorth gweinyddol a digon o adnoddau i gyfrannu at y gwaith o gynllunio hyfforddiant a datblygiad, a'i werthuso. Yn amlwg, bydd angen adnoddau priodol er mwyn i'r Bwrdd allu comisiynu neu ddarparu hyfforddiant ei hun.

11.19 Mae'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant, neu'r is-grŵp hyfforddiant yn gweithredu ar ei ran, yn gyfrifol am ofalu y darperir yr hyfforddiant i safon gyson uchel, ac y sefydlwyd proses i werthuso pa mor effeithiol y bu'r hyfforddiant. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys gofalu:

- y caiff yr holl hyfforddiant ei ddarparu gan hyfforddwyr sy'n wybodus ynglŷn â diogelu a hyrwyddo lles plant, ac sy'n meddu ar sgiliau hwyluso. Dylai hyfforddwyr feddu ar yr wybodaeth a'r sgiliau arbenigol perthnasol wrth roi hyfforddiant ar achosion cymhleth;
- bod tystiolaeth ymchwil gyfredol, gwersi o adolygiadau achosion difrifol, a datblygiadau lleol a chenedlaethol yn cyfrannu at yr holl hyfforddiant;
- bod yr holl hyfforddiant yn adlewyrchu dealltwriaeth o hawliau'r plentyn, a bod parch gweithredol at amrywiaeth a phrofiad defnyddwyr gwasanaeth, ac ymrwymiad i sicrhau cyfle cyfartal, yn rhan ohono bob amser;
- y caiff yr holl hyfforddiant ei adolygu'n rheolaidd er mwyn gofalu ei fod yn cyflawni'r canlyniadau dysgu y cytunwyd arnynt;
- a bod canlyniadau gwerthuso yn cyfrannu at y strategaeth hyfforddiant.

Swyddogaeth Cyflogwyr

11.20 Cyn dilyn cyrsiau hyfforddiant aml-asiantaeth, dylai cyflogwyr ofalu bod eu gweithwyr yn ymwybodol o sut i adnabod ac ymateb i bryderon ynglŷn â diogelu plant, gan gynnwys arwyddion o gam-drin bosibl. Dylent hefyd feddu ar y ddealltwriaeth a'r wybodaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd angenrheidiol i gyflawni'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau eu hunain a bod yn ymwybodol o arferion diogel yn eu lleoliad gwaith eu hunain.

11.21 Mae gan gyflogwyr hefyd gyfrifoldeb i nodi adnoddau a chymorth digonol a dibynadwy ar gyfer hyfforddiant aml-asiantaeth trwy:

- ddarparu staff â'r arbenigedd perthnasol i fod yn aelodau o is-grŵp hyfforddiant y Bwrdd Lleol Diogelu Plant a chyfrannu at hyfforddiant;
- neilltuo'r amser sydd ei angen i gwblhau tasgau hyfforddiant aml-asiantaeth yn effeithiol;
- rhyddhau staff i fynychu'r cyrsiau hyfforddiant aml-asiantaeth priodol, a gofalu bod aelodau staff yn derbyn hyfforddiant mewnol perthnasol sy'n eu galluogi i fanteisio i'r eithaf ar yr hyn a ddysgir trwy hyfforddiant aml-asiantaeth. Yn ogystal, dylai staff gael cyfleoedd i atgyfnerthu'r hyn a ddysgwyd mewn hyfforddiant aml-asiantaeth; a
- chyfrannu at y gwaith o gynllunio, sicrhau adnoddau, darparu a gwerthuso hyfforddiant.

Cynulleidfaoedd, Lefelau a Chanlyniadau Hyfforddiant

11.22 Dylai hyfforddiant fod ar gael ar nifer o lefelau er mwyn mynd i'r afael ag anghenion dysgu gwahanol aelodau staff. Dylai adlewyrchu'r egwyddorion, y gwerthoedd a'r prosesau a restrir yn y canllawiau hyn ar weithio gyda phlant a theuluoedd. Dylid cymryd camau i ofalu bod y cynnwys yn berthnasol i wahanol grwpiau o'r sectorau statudol, gwirfoddol ac annibynnol. Dylid adolygu cynnwys yr hyfforddiant yn rheolaidd a'i ddiweddaru yng ngoleuni ymchwil a phrofiad ymarferol.

11.23 Daw nifer sylweddol o bobl i gyswllt â phlant i ffwrdd o'u teuluoedd, er enghraifft gweithwyr ieuenctid, gwarchodwyr plant, gofalwyr maeth preifat, pobl sy'n gweithio gyda phlant mewn lleoliadau preswyl a gofal dydd, a phobl sy'n gweithio mewn lleoliadau chwaraeon a hamdden, a hynny ar sail gyflogedig neu wirfoddol. Dylai'r rhain i gyd dderbyn hyfforddiant sylfaenol, o leiaf, i'w cyflwyno i egwyddorion diogelu a hyrwyddo lles plant. O ystyried niferoedd a phatrwm gwaith y bobl hynny, dylid defnyddio dulliau creadigol o ddarparu'r hyfforddiant hanfodol iddynt. Er enghraifft, fe allai deunyddiau dysgu agored fod yn ddefnyddiol. Gellid hefyd gynnwys pobl ddynodedig o faes chwaraeon, grwpiau cymunedol neu grwpiau ffydd yn yr hyfforddiant, er mwyn iddynt hwythau yn eu tro gynorthwyo eraill i ddefnyddio deunyddiau dysgu agored neu hwyluso hyfforddiant o fewn eu sefydliad eu hunain.

11.24 Bydd rheolwyr gweithredol ar bob lefel, o fewn sefydliadau sy'n cyflogi staff i weithio gyda phlant a theuluoedd, yn elwa o hyfforddiant penodol ar arferion rhyngasiantaethol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Mae ar oruchwylwyr ymarfer, cynghorwyr proffesiynol/arbenigwyr amddiffyn plant dynodedig a rheolwyr gwasanaeth angen hyfforddiant ar lefel sylfaenol, ond mae'n bosibl y bydd arnynt hefyd angen hyfforddiant ar gynllunio a chomisiynu ar y cyd; rheoli cyd-wasanaethau a thimau;

cadeirio cyfarfodydd amlddisgyblaeth; trafod a chytuno ar brotocolau ar y cyd; a chyfryngu pan fo anghydfod a gwahaniaeth barn. Bydd hyfforddiant penodol ar gynnal adolygiadau achosion difrifol yn berthnasol i rai.

11.25 Er mwyn bod yn effeithiol, dylai Byrddau Lleol Diogelu Plant a chyrff lleol eraill, fel Partneriaethau Fframwaith, ystyried eu hanghenion datblygu eu hunain fel grŵp. Fe ellid sicrhau manteision sylweddol yn sgil cynnal gwaith datblygu, wedi'i hwyluso, o bryd i'w gilydd er mwyn gwella effeithiolrwydd. Dylid darparu hefyd ar gyfer hyfforddiant cynefino a datblygiad aelodau, fel y bo angen, er mwyn gofalu eu bod yn meddu ar y ddealltwriaeth, yr wybodaeth gyfredol a'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni'r swyddogaethau.

12: Honiadau o Gam-drin neu Bryder ynghylch Rhywun sy'n Gweithio gyda Phlant

Cyflwyniad

12.1 Gall plant gael eu cam-drin gan bobl sy'n gweithio gyda nhw mewn unrhyw leoliad. Rhaid rhoi sylw difrifol i bob achos o gam-drin neu honiad o gam-drin gan weithiwr proffesiynol, aelod staff, gofalwr maeth neu wirfoddolwr felly, ac ymdrin â'r mater yn unol â gweithdrefnau cyson. Mae Byrddau Lleol Diogelu Plant yn gyfrifol am ofalu bod gweithdrefnau rhyngasiantaethol effeithiol wedi'u sefydlu ar gyfer ymdrin â honiadau yn erbyn pobl sy'n gweithio gyda phlant, ac am fonitro a gwerthuso pa mor effeithiol yw'r gweithdrefnau hyn.

12.2 Dylai asiantaethau sy'n aelodau o Fwrdd Lleol Diogelu Plant, a sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau i blant neu sy'n darparu staff neu wirfoddolwyr i weithio gyda phlant neu ofalu amdanynt, ddilyn gweithdrefn sy'n gyson â'r canllawiau hyn wrth ymdrin â honiadau o'r fath.

12.3 Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng achosion sy'n ymwneud â materion fel arferion proffesiynol gwael, ac achosion sy'n codi pryderon ynglŷn ag amddiffyn plant (gan gynnwys achosion yn ymwneud â chymryd mantais ar ymddiriedaeth plentyn). Gellir ymdrin â'r cyntaf trwy weithdrefnau disgyblu neu trwy ddulliau eraill, ond dylid bob amser ymdrin â phryderon ynglŷn ag amddiffyn plant trwy weithdrefnau amddiffyn plant lleol yn unol â'r canllawiau hyn ac, yn arbennig, y canllawiau ym Mhennod 8.

Manteisio ar Ymddiriedaeth Plentyn

12.4 Mae Deddf Troseddau Rhywiol (Diwygio) 2000 [http://www.opsi.gov.uk/ACTS/acts2000/20000044.htm] yn nodi rhestr o swyddi y mae'r deddfau manteisio ar swydd gyfrifol yn berthnasol iddynt.

- Sefydliadau sy'n gofalu am blant ifanc sy'n cael eu dal o dan orchymyn llys neu ddeddf, fel Sefydliad Troseddwyr Ifanc;
- Llety a ddarperir gan awdurdodau lleol a mudiadau gwirfoddol dan ddarpariaeth statudol;
- Ysbytai, clinigau annibynnol, cartrefi gofal, cartrefi gofal preswyl, ysbytai preifat, cartrefi cymunedol, cartrefi gwirfoddol, cartrefi plant a chanolfannau preswyl i deuluoedd;
- Sefydliadau addysgol.

12.5 Mae Deddf Troseddau Rhywiol 2003 [http://www.opsi.gov.uk/ACTS/acts2003/20030042.htm] yn cyflwyno swyddi ychwanegol y mae'r deddfau ar fanteisio ar swydd gyfrifol yn berthnasol iddynt. Mae'r rhain yn ymdrin â phobl sy'n gofalu am bobl ifanc dan 18 oed yn y dulliau canlynol:

- Gofalu amdanynt yn unigol trwy ddarparu gwasanaethau dan Ddeddf Dysgu a Medrau 2000;
- Dod i gyswllt rheolaidd â nhw heb oruchwyliaeth fel rhan o ddarpariaeth llety awdurdod lleol i bobl ifanc sydd mewn angen, dan warchodaeth yr heddlu neu yn y ddalfa, neu yn y ddalfa yn aros eu prawf;
- Dod i gyswllt rheolaidd â nhw heb oruchwyliaeth fel rhywun sy'n rhoi adroddiadau rheolaidd i lys ar faterion yn ymwneud â'u lles;
- Gofalu amdanynt yn unigol fel Cynghorydd Personol a benodwyd dan ddeddfwriaeth berthnasol, er enghraifft pan fo pobl ifanc yn gadael gofal awdurdod lleol;
- Gofalu amdanynt yn rheolaidd mewn rôl swyddogol pan fyddant yn destun gorchymyn gofal, gorchymyn goruchwylio, neu orchymyn goruchwyliaeth addysg;
- Gweithredu fel eu gwarcheidwad fel a nodir yn Neddf Plant 1989, Rheolau Mabwysiadu 1984 a Rheol Achosion Teulu 1991; a
- Gofalu amdanynt yn unigol wedi iddynt gael eu rhyddhau o'r ddalfa neu yn unol â gorchymyn llys. Mae hyn yn cynnwys Timau Troseddau Ieuenctid a darparwyr triniaeth.

12.6 Prif ddiben y darpariaethau manteisio ar ymddiriedaeth yw amddiffyn pobl ifanc 16 a 17 oed, yr ystyrir eu bod yn arbennig o agored i gael eu hecsbloetio gan bobl sydd mewn sefyllfa o awdurdod neu ymddiriedaeth yn eu bywyd. Ym amodol ar nifer o ddiffiniadau cyfyngedig, mae'n drosedd i rywun mewn sefyllfa o ymddiriedaeth gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd rhywiol gyda rhywun dan 18 oed y mae ganddynt berthynas o ymddiriedaeth â nhw, waeth beth fo'r oedran cydsynio, hyd yn oed os bydd y ddau unigolyn yn cydsynio i'r berthynas. Mae perthynas o ymddiriedaeth yn bodoli pan fo aelod staff neu wirfoddolwr mewn sefyllfa i arfer grym neu ddylanwad dros bobl ifanc 16 neu 17 oed yn sgil y gwaith neu natur y gweithgaredd a gyflawnir. Dylai pob aelod staff sicrhau bod ei berthynas â phobl ifanc yn briodol i'w hoedran a'u rhyw, a gofalu nad yw ei iaith na'i ymddygiad yn achosi i eraill wneud sylwadau neu ddamcaniaethu ynghylch y berthynas. Mae angen rhoi gofal ac ystyriaeth i agweddau, ymddygiad ac iaith, yn arbennig pan fo aelodau staff yn ymdrin â bechgyn a merched yn eu harddegau.

12.7 O bryd i'w gilydd fe allai staff ddod ar draws pobl ifanc sy'n ceisio denu sylw trwy eu hymddygiad, neu sy'n honni eu bod yn cael yr aelod staff yn ddeniadol. Dylai staff geisio ymdrin â'r sefyllfaoedd hynny yn briodol

a sensitif, ond gan ofalu na ellir camddehongli eu hymddygiad. Dan amgylchiadau o'r fath, dylai'r aelod staff hefyd ofalu bod cydweithiwr uwch yn ymwybodol o'r sefyllfa.

Cwmpas

12.8 Mae'r fframwaith ar gyfer rheoli achosion a nodir yn y canllawiau hyn yn berthnasol i ystod ehangach o honiadau na'r rhai hynny ble y ceir achos rhesymol i gredu bod plentyn yn dioddef, neu yn debygol o ddioddef, niwed sylweddol. Mae hefyd yn berthnasol i honiadau a allai awgrymu bod unigolyn yn anaddas i barhau i weithio gyda phlant yn ei swydd bresennol, neu mewn unrhyw swydd. Dylid ei ddefnyddio mewn perthynas â phob achos ble yr honnir bod rhywun sy'n gweithio gyda phlant wedi:

- ymddwyn mewn modd sydd wedi niweidio plentyn, neu a allai fod wedi niweidio plentyn;
- cyflawni trosedd, o bosibl, yn erbyn plentyn neu yn ymwneud â phlentyn; neu
- wedi ymddwyn tuag at blentyn neu blant mewn modd sy'n awgrymu ei fod ef neu hi yn anaddas i weithio gyda phlant.

12.9 Fe allai'r broses o ystyried honiad gynnwys hyd at 3 ffrwd:

- ymchwiliad gan yr heddlu i drosedd bosibl;
- ymholiadau ac asesiad gan y gwasanaethau cymdeithasol plant i weld a oes angen amddiffyn plentyn neu a oes angen gwasanaethau arno;
- cyflogwr* yn ystyried cymryd camau disgyblu yn erbyn yr unigolyn.

* Er hwylustod, defnyddir y term 'cyflogwr' trwy'r canllawiau hyn i gyfeirio at sefydliadau sydd â pherthynas waith â'r unigolyn y gwneir honiad yn ei erbyn. Mae hynny'n cynnwys sefydliadau sy'n defnyddio gwasanaethau gwirfoddolwyr, neu bobl hunangyflogedig, yn ogystal â darparwyr gwasanaethau, mudiadau gwirfoddol, busnesau neu asiantaethau cyflogi, contractwyr, gwasanaethau maethu, cyrff rheoleiddio, ac eraill nad oes ganddynt berthynas uniongyrchol fel cyflogwr i'r unigolyn o bosibl, ond y bydd angen iddynt ystyried pa un a ydynt am barhau i ddefnyddio gwasanaethau'r unigolyn hwnnw, neu ddarparu'r unigolyn i weithio gyda phlant yn y dyfodol. DS Dan rai amgylchiadau, bydd y term 'cyflogwr' at y dibenion hyn yn cwmpasu mwy nag un sefydliad, er enghraifft ble y caiff y staff sy'n darparu gwasanaethau i blant mewn sefydliad eu cyflogi gan gontractwr, neu ble y darperir staff dros dro gan asiantaeth. Dan amgylchiadau o'r fath, bydd angen i'r contractwr neu'r asiantaeth, a'r sefydliad ble'r oedd yr unigolyn a gyhuddwyd yn gweithio, ymdrin â'r honiad.

12.10 Pe bai pryderon yn codi ynglŷn ag ymddygiad rhywun tuag at ei blant ei hun, mae angen i'r heddlu a/neu'r gwasanaethau cymdeithasol ystyried hysbysu cyflogwr yr unigolyn er mwyn asesu a oes goblygiadau posibl i blant y daw'r unigolyn i gyswllt â nhw yn y gwaith. Dylid ceisio cyngor cyfreithiol cyn ystyried cymryd camau o'r fath, fodd bynnag.

12.11 Rhoddwyd llawer o sylw yn y wasg i nifer o achosion o gam-drin yn y gorffennol, a hynny'n gam-drin wedi'i threfnu'n ofalus neu yn cynnwys nifer o bobl fel arfer. Daeth achosion o'r fath i'r amlwg fel arfer wedi i oedolion roi adroddiad am gam-drin yr oeddynt wedi'i dioddef pan yn blant, tra'n byw oddi cartref mewn lleoliadau a ddarperid gan awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol neu ddarparwyr annibynnol. Dylid mynd i'r afael â honiadau o'r fath yn union fel pe baent yn bryderon cyfoes. Mae'n bwysig hefyd, mewn achosion o'r fath, i ddarganfod a yw'r sawl a gyhuddwyd yn gweithio gyda phlant o hyd, ac os felly i ystyried a ddylid hysbysu cyflogwr presennol yr unigolyn neu fudiad gwirfoddol y mae'n gweithio iddo.

12.12 Dylai'r bobl hynny sy'n cynnal ymchwiliadau gadw'u llygaid ar agor am unrhyw arwydd neu batrwm sy'n awgrymu y gallai'r gamdriniaeth fod yn fwy eang neu drefnus nag y mae'n ymddangos ar yr olwg gyntaf, neu fod tramgwyddwyr neu sefydliadau eraill ynghlwm wrth y mater. Mae'n bwysig peidio â chymryd yn ganiataol y bydd yr arwyddion cyntaf yn ymwneud yn uniongyrchol â cham-drin, ac ystyried achlysuron pryd y cymylwyd y terfynau derbyniol, pryd y digwyddodd ymddygiad amhriodol neu pryd y gwelwyd materion fel twyll, dichell neu bornograffiaeth.

12.13 Os caiff honiad ei gadarnhau, dylai rheolwyr neu gomisiynwyr y gwasanaeth perthnasol roi ystyriaeth eang i wersi'r achos a sut y dylid eu rhoi ar waith. Dylai hyn gynnwys ystyried a allai unrhyw nodwedd o'r sefydliad fod wedi cyfrannu at y ffaith bod cam-drin wedi digwydd, neu fod wedi methu â rhwystro'r cam-drin rhag digwydd. Dan rai amgylchiadau, fe allai fod yn briodol cynnal adolygiad llawn o'r achos.

Cefnogi'r rhai dan sylw

12.14 Mewn achosion ble y gallai plentyn fod wedi dioddef niwed sylweddol, neu pryd y gellid cynnal erlyniad troseddol, dylai'r gwasanaethau cymdeithasol plant neu'r heddlu, fel y bo'n briodol, ystyried pa gefnogaeth y gallai fod ar y plentyn neu'r plant dan sylw ei hangen. Dylid cynorthwyo plant a'u rhieni neu'u gofalwyr i ddeall y broses, rhoi gwybod iddynt am ganlyniad yr ymchwiliad neu'r broses ddisgyblu, a'u cynorthwyo i ddeall y canlyniadau ble y bo angen. Rhaid rhoi gwybodaeth a chyngor mewn modd nad yw'n rhwystro'r prosesau ymholi, disgyblu ac ymchwilio rhag cael eu cynnal yn briodol.

12.15 Dylid rhoi gwybod i rieni neu ofalwyr plentyn neu blant ynglŷn â'r honiad cyn gynted ag y bo modd, os nad ydynt eisoes yn gwybod amdano. Dylid rhoi gwybod iddynt hefyd sut mae'r achos yn symud yn

ei flaen, a'u hysbysu o'r canlyniad os nad oes erlyniad troseddol ar y gweill. Mae hyn yn cynnwys canlyniad unrhyw broses ddisgyblu. *DS Ni ellir datgelu'r hyn a drafodir mewn gwrandawiad disgyblu na'r wybodaeth a ystyriwyd wrth wneud penderfyniad fel arfer, ond dylid rhoi gwybod i'r rhai hynny y mae'n berthnasol iddynt beth yw'r canlyniad.*

12.16 Dylid ymdrin yn deg a gonest â staff, gofalwyr maeth, gwirfoddolwyr ac unigolion eraill y ceir pryderon yn eu cylch, a dylid rhoi cefnogaeth iddynt hwythau hefyd trwy gydol y broses ymchwilio, yn ogystal ag i unrhyw un arall sy'n ymwneud â'r achos. Dylid eu cynorthwyo i ddeall y pryderon a fynegwyd a'r prosesau a ddilynir, a dylid rhoi gwybod yn eglur iddynt beth yw canlyniad unrhyw ymchwiliad, a beth yw'r goblygiadau o ran prosesau disgyblu neu brosesau cysylltiedig. Er hynny, dylid ymgynghori â'r heddlu ac asiantaethau perthnasol eraill bob amser cyn rhoi gwybodaeth i rywun sy'n destun honiadau ac a allai fod yn destun ymchwiliad troseddol.

12.17 Dylai'r cyflogwr hefyd roi gwybod i'r sawl sy'n destun yr honiadau sut mae'r achos yn symud yn ei flaen, a threfnu i roi cefnogaeth briodol i'r unigolyn tra bod yr achos ar y gweill. (Gellid gwneud hynny trwy'r trefniadau iechyd galwedigaethol neu les gweithwyr pan fyddont ar gael.) Os caiff yr unigolyn ei wahardd o'r gwaith, dylai'r cyflogwr wneud trefniadau hefyd i roi gwybod iddo ef neu hi am ddatblygiadau yn y gweithle. Os yw'r unigolyn yn aelod o undeb neu gymdeithas broffesiynol, dylid ei gynghori ef neu hi i gysylltu â'r corff hwnnw ar y cychwyn.

Cyfrinachedd

12.18 Dylid gwneud pob ymdrech i gynnal cyfrinachedd a gwarchod rhag cyhoeddusrwydd tra bod honiad yn cael ei ymchwilio/ei ystyried. Yn unol â chanllawiau Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO), ni fydd yr heddlu fel arfer yn rhoi unrhyw wybodaeth i'r wasg na'r cyfryngau a allai arwain at ddatgelu enw unigolyn sy'n destun ymchwiliad, oni bai neu nes i'r unigolyn hwnnw gael ei gyhuddo o drosedd. (Mewn achosion eithriadol, ble y gallai'r heddlu wyro oddi wrth y rheol honno, ee apêl i ddod o hyd i rywun dan amheuaeth, dylid gwneud cofnod ysgrifenedig o'r rhesymau ac ymgynghori ymlaen llaw â'r asiantaethau partner.) Mae'r system hunan-reoleiddio, a oruchwylir gan Gomisiwn Cwynion y Wasg, hefyd yn gwarchod rhag cyhoeddi gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol.

Ymddiswyddo a Materion yn ymwneud â Chontractau

12.19 Ni ddylai cyflogwyr fyth ddefnyddio'r hyn a elwir yn "gytundebau cyfaddawd" – ble mae rhywun yn cytuno i ymddiswyddo a'r cyflogwr yn cytuno i beidio â symud ymlaen â chamau disgyblu, a'r ddwy ochr yn cytuno ar ffurf y geiriau i'w defnyddio wrth gyfeirio at yr achos yn y dyfodol. Ni fydd cytundebau o'r fath yn rhwystro'r heddlu rhag cynnal

ymchwiliad trylwyr ble y bo'n briodol. Nid ydynt ychwaith yn disodli dyletswydd statudol cyflogwr i gyfeirio achos at Restr 99 neu restr y Ddeddf Amddiffyn Plant ble y bo'r amgylchiadau yn mynnu hynny.

12.20 Ni ddylai'r ffaith fod rhywun yn ymddiswyddo, neu'n rhoi'r gorau i ddarparu'u gwasanaethau, olygu na chynhelir ymchwiliad i'r honiad. Mae'n bwysig gwneud pob ymdrech i ddod i gasgliad ym mhob achos ble y gwneir honiadau yn ymwneud â diogelwch neu les plant, gan gynnwys unrhyw achos ble y bo'r unigolyn dan sylw yn gwrthod cydweithredu â'r broses. Ble bynnag y bo modd, dylid rhoi cyfle llawn i'r unigolyn ateb yr honiadau a gwneud cyflwyniadau. Er hynny, dylid parhau i gofnodi'r honiad ac unrhyw dystiolaeth i'w gefnogi, a pharhau i wneud dyfarniad ynghylch a ellir ystyried bod yr honiad hwnnw wedi'i brofi ar sail yr holl wybodaeth sydd ar gael, hyd yn oed os na all yr unigolyn sy'n destun yr honiad ymateb iddo na gwneud cyflwyniadau neu os nad yw'n cydweithredu. Fe allai fod yn anodd dod i gasgliad yn yr amgylchiadau hynny, ac mae'n bosibl na fydd modd cyflawni unrhyw gamau disgyblu os daw cyfnod rhybudd yr unigolyn i ben cyn cwblhau'r broses. Er hynny, mae'n bwysig dod i gasgliad a'i gofnodi, hyd yn oed pan nad yw'r casgliad hwnnw yn un boddhaol, a chofnodi'r penderfyniadau a arweiniodd at y casgliad hwnnw.

Cadw cofnodion

12.21 Mae'n bwysig i gyflogwyr gadw cofnod o unrhyw honiad a wneir ar ffeil gyfrinachol yr unigolyn dan sylw, yn ogystal â chofnodi manylion y gwaith dilynol a sut y cafodd yr honiad ei ddatrys, gan gynnwys manylion unrhyw gam a gymerwyd a phenderfyniad a wnaed. Trwy wneud cofnod clir a chynhwysfawr, gellir rhoi gwybodaeth gywir mewn ymateb i unrhyw gais am dystlythyr yn y dyfodol. Bydd hefyd yn egluro'r sefyllfa mewn achosion ble y bo Datgeliad y Swyddfa Cofnodion Troseddol yn y dyfodol yn datgelu gwybodaeth "feddal" gan yr heddlu y gwnaed honiad ond na chafodd yr unigolyn ei erlyn o ganlyniad. Bydd hefyd yn osgoi unrhyw ailymchwiliad diangen os daw honiadau yn ôl i'r amlwg yn ddiweddarach, fel sy'n digwydd o bryd i'w gilydd.

Amserlenni

12.22 Mae er budd pawb i ddatrys achosion cyn gynted ag y bo modd, gan gynnal ymchwiliad teg a thrwyadl. Dylid gwneud pob ymdrech i reoli achosion mewn modd sy'n osgoi unrhyw oedi diangen. Rhoddir syniad o'r amserlenni y dylid anelu atynt ar gyfer y gwahanol gamau posibl yn y disgrifiad cryno o'r broses. Nid dangosyddion perfformiad mo'r rhain: mae'r amser a gymerir i ymchwilio a datrys achosion unigol yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys natur, difrifoldeb a chymhlethdod yr honiad. Ar y llaw arall, maent yn ddefnyddiol fel targedau i anelu atynt, a gellir eu cyflawni mewn nifer o achosion.

Goruchwylio a Monitro

12.23 Gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol ddylai fod â'r prif gyfrifoldeb am y canlynol:

- gofalu bod yr awdurdod yn rhoi gweithdrefnau ar waith ar gyfer mynd i'r afael â honiadau yn unol â'r canllawiau hyn;
- datrys unrhyw faterion rhyngasiantaethol; a
- chydlynu â'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant ar y mater.

12.24 Dylent hefyd ddynodi swyddogion i ymwneud â'r canlynol:

- rheoli a goruchwylio achosion unigol;
- rhoi cyngor ac arweiniad i gyflogwyr a mudiadau gwirfoddol;
- cydlynu â'r heddlu ac asiantaethau eraill; a
- monitro datblygiad achosion er mwyn gofalu yr ymdrinnir â nhw mor gyflym ag y bo modd, gan ddilyn proses deg a thrwyadl.

12.25 Dylai heddluoedd hefyd glustnodi swyddogion i gyflawni swyddogaethau tebyg. Dylai hyn gynnwys uwch swyddog i edrych ar y trefniadau yn gyfan o safbwynt strategol, cydlynu â'r Byrddau Lleol Diogelu Plant yn ardal yr heddlu, a sicrhau cydymffurfiaeth. Dylai hefyd gynnwys swyddogion eraill - rheolwyr uned o bosibl - a fydd yn gyfrifol am gydlynu â swyddog(ion) dynodedig yr awdurdodau lleol, cymryd rhan yn y broses o drafod strategaeth, adolygu datblygiad yr achosion hynny y mae'r heddlu yn ymchwilio iddynt, a rhannu gwybodaeth wedi cwblhau'r ymchwiliad neu unrhyw erlyniad.

12.26 Dylai gweithdrefnau cyflogwyr nodi uwch reolwr o fewn y sefydliad y dylid rhoi adroddiad iddi ynglŷn â honiadau neu bryderon y gallai aelod o'r staff neu wirfoddolwr fod wedi cam-drin plentyn, a dylid gofalu bod y staff a'r gwirfoddolwyr i gyd yn gwybod pwy yw'r uwch reolwr hwnnw neu honno. Dylai'r gweithdrefnau hefyd nodi rhywun arall y dylid cyflwyno adroddiadau iddo pe bai'r uwch reolwr a enwir yn absennol, neu mewn achosion ble mai ef neu hi yw testun yr honiad neu'r pryder. Dylid cynnwys manylion cyswllt ar gyfer swyddog dynodedig yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am roi cyngor a monitro achosion.

Ystyriaethau Cychwynnol

12.27 Mae angen defnyddio synnwyr cyffredin a doethineb wrth ddilyn gweithdrefnau. Bydd rhai honiadau mor ddifrifol fel bod angen eu hatgyfeirio ar unwaith at y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu i ymchwilio iddynt. Fe allai eraill fod yn llai difrifol o lawer, ac fe allai ymddangos ar yr olwg gyntaf nad ydynt yn gwarantu ymchwiliad gan yr heddlu nac ymholiadau gan y gwasanaethau cymdeithasol plant. Er hynny, mae'n bwysig gofalu bod eraill yn gallu gweld y rhoddir

ystyriaeth i bob honiad, hyd yn oed y rhai sy'n ymddangos yn llai difrifol, ac y cânt eu harchwilio yn wrthrychol gan rywun annibynnol ar y sefydliad dan sylw. Dylid hysbysu gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol bob amser felly o bob honiad a ddaw i sylw'r cyflogwr ac sy'n codi materion amddiffyn plant, a hynny cyn gynted ag y bo modd, fel y gellir ymgynghori â'r heddlu ac eraill fel y bo'n briodol ac ystyried a ddylid rhoi'r gweithdrefnau amddiffyn plant ffurfiol ar waith. Dylid hefyd hysbysu gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol o unrhyw honiad a wneir yn uniongyrchol i'r heddlu.

12.28 Dylai gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol ddechrau trwy sefydlu nad yw'r honiad yn amlwg yn ffug neu'n ddi-sail, trwy drafod â'r cyflogwr, ac ystyried pwy ddylai roi gwybod i rieni'r plentyn dan sylw am yr honiad, a sut y dylid gwneud hynny (os nad ydynt eisoes yn ymwybodol o'r honiad). Dan amgylchiadau ble y gall fod angen cynnwys yr heddlu hefyd, dylai gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol ymgynghori â chydweithwyr yn yr heddlu ynglŷn â'r ffordd orau o roi gwybod i'r rhieni. Fodd bynnag, fe allai cyflogwr fod angen rhoi gwybod i rieni am ddigwyddiad yn ymwneud â'u plentyn ar unwaith dan rai amgylchiadau, er enghraifft pe bai'r plentyn yn cael ei anafu tra yng ngofal y sefydliad ac angen triniaeth feddygol.

12.29 Dylai'r cyflogwr hysbysu'r sawl a gyhuddwyd ynglŷn â'r honiad cyn gynted ag y bo modd ar ôl ymgynghori â gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol (a'r heddlu ble y bo'n briodol), ond ni ddylid gwneud hyn nes i'r asiantaethau hynny gytuno pa wybodaeth y gellir ei datgelu i'r unigolyn dan sylw. Os yw'r unigolyn yn aelod o undeb neu gymdeithas broffesiynol, dylid ei gynghori ef neu hi i geisio cymorth gan y sefydliad hwnnw.

12.30 Os na ellir dangos bod yr honiad yn ffug neu'n ddi-sail, ac os oes rheswm i amau bod plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol, dylid cynnull trafodaeth strategaeth. DS yn yr achosion hyn dylai cynrychiolydd y cyflogwr gymryd rhan yn y drafodaeth strategaeth (oni bai bod rhesymau da i hynny beidio â digwydd), a dylid rhoi ystyriaeth i unrhyw wybodaeth y gall y cyflogwr ei darparu ynglŷn ag amgylchiadau neu gyd-destun yr honiad. Mewn achosion ble nad yw'n briodol cynnal trafodaeth strategaeth ffurfiol ond ble y gallai'r heddlu fod angen cynnal ymchwiliad, dylai gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol gynnull trafodaeth debyg gyda'r heddlu, y cyflogwr ac asiantaethau eraill fel y bo'n briodol.

12.31 Os bydd yn amlwg na fydd angen i'r heddlu ymchwilio i'r gŵyn neu'r honiad a/neu na fydd angen i'r gwasanaethau cymdeithasol gynnal ymholiadau, neu os penderfynir yn sgil y drafodaeth strategaeth neu'r asesiad cychwynnol mai dyma'r sefyllfa, dylai'r awdurdod lleol drafod y camau nesaf gyda'r cyflogwr. (DS Rhaid ymgynghori â'r heddlu ynglŷn ag unrhyw achos ble y gallai trosedd fod wedi'i chyflawni.) Dan amgylchiadau o'r fath, bydd y dewisiadau i'r cyflogwr yn amrywio o beidio â chymryd unrhyw gam pellach, i ddiswyddo'r unigolyn ar

unwaith neu benderfynu peidio â defnyddio'i wasanaethau ef neu hi yn y dyfodol. Bydd natur ac amgylchiadau'r honiad, a'r dystiolaeth a'r wybodaeth sydd ar gael, yn llywio pa un o'r ystod o ddewisiadau posibl sydd fwyaf addas.

12.32 Bydd angen ymchwilio ymhellach mewn rhai achosion cyn gallu penderfynu beth i'w wneud nesaf. Os felly, dylai'r awdurdod lleol drafod gyda chyflogwr yr unigolyn dan sylw pwy ddylai gynnal yr ymchwiliad, a sut. Y cyflogwr ddylai wneud hynny fel arfer mewn achosion syml. Ar y llaw arall, mae'n bosibl na fydd adnoddau priodol ar gael yn sefydliad y cyflogwr dan rai amgylchiadau, neu fe allai natur a chymhlethdod yr honiad olygu bod angen cynnal ymchwiliad annibynnol.

Gwahardd

12.33 Mae angen cloriannu a rheoli yn effeithiol y perygl y gallai unigolyn a gyhuddwyd achosi niwed i blant – o ran y plentyn/plant dan sylw yn yr honiadau, ac unrhyw blentyn arall yng nghartref, gwaith neu fywyd yr unigolyn yn y gymuned. Mewn rhai achosion bydd gofyn i'r cyflogwr ystyried gwahardd yr unigolyn o'i waith yn sgil hynny. Dylid ystyried gwahardd rhywun o'i waith mewn unrhyw achos pan y ceir rheswm i amau bod plentyn mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol, neu pan fo'r honiad yn gwarantu ymchwiliad gan yr heddlu neu ei fod mor ddifrifol fel y gallai fod yn sail i ddiswyddo'r unigolyn dan sylw. Ni ddylid gwahardd pobl o'u gwaith yn awtomatig, na heb roi sylw gofalus i'r mater. Rhaid i gyflogwyr ystyried yn ofalus a yw amgylchiadau'r achos yn gwarantu gwahardd rhywun o ddod i gyswllt â phlant nes i'r honiad gael ei ddatrys. Ni all gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol na'r heddlu fynnu bod cyflogwr yn gwahardd aelod o'r staff na gwirfoddolwr o'i waith. Y cyflogwr yn unig sydd â'r grym i wahardd gweithiwr. Er hynny, ble y bo cyflogwr yn penderfynu peidio â gwneud hynny, dylid ei annog i gynnal asesiad rheoli risg a'i rannu ag aelodau'r grŵp strategaeth.

12.34 Pan ddaw trafodaeth strategaeth neu drafodaeth gwerthusiad cychwynnol i'r casgliad y dylai'r gwasanaethau cymdeithasol gynnal ymholiadau a/neu y dylai'r heddlu gynnal ymchwiliad, dylai gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol hefyd holi barn yr heddlu ynglŷn â'r angen i wahardd yr aelod staff a gyhuddwyd rhag dod i gyswllt â phlant, er mwyn cynorthwyo'r cyflogwr i wneud penderfyniad ar y mater.

Monitro cynnydd

12.35 Dylai'r awdurdod lleol fonitro'n rheolaidd sut y mae achosion yn symud yn eu blaenau, naill ai trwy gyfarfodydd strategaeth adolygu neu trwy gydlynu â'r heddlu, asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r achos, neu'r cyflogwr fel y bo'n briodol. Dylid cynnal adolygiadau unwaith bob pythefnos neu unwaith y mis gan ddibynnu ar ba mor gymhleth yw'r achos.

12.36 Os penderfynir, yn sgil y drafodaeth strategaeth neu'r gwerthusiad cychwynnol, bod angen i'r heddlu ymchwilio i'r achos, dylai'r heddlu hefyd bennu dyddiad targed ar gyfer adolygu datblygiad yr ymchwiliad gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron, er mwyn ystyried a ddylid cyhuddo'r unigolyn, parhau i ymchwilio neu ddirwyn yr ymchwiliad i ben. Ble bynnag y bo modd, dylid cynnal yr adolygiad hwnnw **ddim hwyrach na 4 wythnos** wedi'r cyfarfod gweithredu cyntaf. Os bydd yr ymchwiliad yn parhau, dylid pennu dyddiadau yn ystod y cyfarfod hwnnw ar gyfer cynnal adolygiadau pellach, bob pythefnos neu bob mis.

Rhannu gwybodaeth

12.37 Wrth ystyried y mater i ddechrau, naill ai mewn trafodaeth strategaeth neu fforwm arall, dylai pob asiantaeth, gan gynnwys y cyflogwr, rannu'r holl wybodaeth berthnasol sydd ganddynt am y sawl y gwneir yr honiad amdano a'r sawl yr honnir sydd wedi ei gam-drin.

12.38 Ble bynnag y bo modd, dylai'r heddlu geisio cydsyniad yr unigolion y maent yn eu cyfweld i rannu'r wybodaeth a roddant gyda'r cyflogwr a/neu gorff rheoleiddio at ddibenion disgyblu, wrth i'r ymchwiliad fynd rhagddo. Mae hyn yn galluogi'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron i rannu gwybodaeth berthnasol yn ddi-oed wedi i'w hymchwiliad neu unrhyw achos llys ddod i ben.

12.39 Dylai'r gwasanaethau cymdeithasol fabwysiadu gweithdrefn debyg wrth wneud ymholiadau i benderfynu a oes angen amddiffyn y plentyn neu'r plant a enwir yn yr honiad neu a oes angen gwasanaethau arnynt. Fel hyn, gellir trosglwyddo unrhyw wybodaeth a gesglir yn ystod yr ymholiadau hynny, sy'n berthnasol i achos disgyblu, i'r cyflogwr neu gorff rheoleiddio yn ddi-oed.

Camau wedi ymchwiliad troseddol neu erlyniad

12.40 Dylai'r heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron hysbysu'r cyflogwr a'r awdurdod lleol ar unwaith pan fo ymchwiliad troseddol ac unrhyw achos llys a gynhelir o ganlyniad wedi dod i ben, neu os penderfynir dirwyn ymchwiliad i ben heb ddwyn cyhuddiad, neu beidio ag erlyn unigolyn wedi iddo ef neu hi gael ei gyhuddo. Dan amgylchiadau o'r fath, dylai gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol drafod â'r cyflogwr a fyddai'n briodol cymryd unrhyw gamau pellach. Dylid ystyried yr wybodaeth a ddarperir gan yr heddlu a/neu'r gwasanaethau cymdeithasol wrth wneud y penderfyniad hwnnw. Bydd y dewisiadau yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos a chanlyniad ymchwiliad yr heddlu neu'r achos llys.

Camau wedi i achos ddod i ben

12.41 Os caiff honiad ei gadarnhau a bod yr unigolyn dan sylw yn cael ei ddiswyddo neu bod y cyflogwr yn rhoi'r gorau i ddefnyddio'i wasanaethau, neu ei fod ef neu hi yn ymddiswyddo neu'n rhoi'r gorau

fel arall i ddarparu'i wasanaethau, dylai'r awdurdod lleol drafod â'r cyflogwr a oes angen, neu a fyddai'n ddoeth, cyfeirio'r achos at Restr y Ddeddf Amddiffyn Plant neu Restr 99 yr Adran Addysg a Sgiliau. Dylid trafod hefyd ar ba ffurf i gyfeirio'r achos, a pha wybodaeth y dylid ei chynnwys. Mae dyletswydd statudol ar gyflogwyr yn y sector addysg i atgyfeirio unigolion dan amgylchiadau o'r fath. Mae canllawiau penodol ar gael yng nghylchlythyr y Cynulliad Cenedlaethol 33/2005 [http://www.dysgu.cymru.gov.uk/pdfs/c3305-cases-of-misconduct05-w.pdf]. Cyhoeddodd yr Adran Addysg a Sgiliau ganllawiau diwygiedig ar Restr y Ddeddf Amddiffyn Plant ar gyfer sefydliadau gofal plant rheoledig ym mis Medi 2005 [http://www.publications/teachernet.gov.uk/eOrderingDownload/DFES-1834-2005.doc].

12.42 Os penderfynir, wedi i achos ddod i ben, y gall rhywun a waharddwyd, ddychwelyd i'r gwaith, dylai'r cyflogwr ystyried beth yw'r ffordd orau o hwyluso hynny. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn elwa o gael peth cymorth a chefnogaeth wrth ddychwelyd i'r gwaith wedi profiad llawn straen. Gan ddibynnu ar amgylchiadau'r unigolyn, fe allai fod yn briodol iddo ef neu hi ddychwelyd yn raddol a/neu gael mentor i roi cymorth a chefnogaeth yn y tymor byr. Dylai'r cyflogwr hefyd ystyried beth yw'r ffordd orau o reoli cyswllt yr unigolyn â'r plentyn neu'r plant a wnaeth yr honiad, os ydynt yn y gweithle o hyd.

12.43 Mae'n bosibl y bydd angen i Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru ystyried amgylchiadau'r achos a'i ganlyniad mewn gwasanaethau rheoledig perthnasol, er mwyn penderfynu a oes angen iddi hi, fel yr awdurdod cofrestru, gymryd camau pellach.

Dysgu gwersi

12.44 Wedi i achos ble y cadarnhawyd yr honiad ddod i ben, dylai'r cyflogwr adolygu amgylchiadau'r achos i benderfynu a oes angen gwella gweithdrefnau neu arferion gwaith y sefydliad mewn unrhyw ffordd er mwyn cynorthwyo i rwystro unrhyw beth tebyg rhag digwydd yn y dyfodol.

Camau mewn perthynas â honiadau ffug neu ddi-sail

12.45 Os penderfynir nad oes sail i honiad, dylai'r cyflogwr gyfeirio'r mater at y gwasanaethau cymdeithasol i benderfynu a oes angen gwasanaethau ar y plentyn, neu a gafodd ei gam-drin gan rywun arall o bosibl. Pe gellir dangos i honiad ffug gael ei wneud ar bwrpas neu'n faleisus, dylid gofyn i'r heddlu ystyried a fyddai'n briodol cymryd camau yn erbyn y sawl sy'n gyfrifol.

13: Rheoli Pobl sy'n Cyflwyno Perygl o Niwed i Blant

13.1 Mae'r adran hon yn rhoi canllawiau a gwybodaeth am amrywiaeth o fecanweithiau sydd ar gael wrth reoli pobl sydd wedi'u nodi fel rhai sy'n cyflwyno perygl neu berygl posibl o niwed i blant. Mae'n cynnwys meysydd megis:

- sefydliadau ac asiantaethau yn cydweithredu i nodi a rheoli pobl sy'n cyflwyno perygl o niwed i blant;
- y Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA) sy'n galluogi asiantaethau i gydweithio wrth fynd i'r afael â phobl sydd angen mwy o adnoddau arnynt i reoli'r perygl y maent yn ei gyflwyno i'r cyhoedd.

Cydweithio

13.2 Roedd Deddf Plant 1989 yn cydnabod bod angen i wahanol asiantaethau gydweithredu er mwyn nodi ac ymchwilio i gam-drin plant yn ogystal ag amddiffyn a chefnogi dioddefwyr a'u teuluoedd. Mae hyn wedi canolbwyntio, fel y dylai, ar y plentyn a'r rhiant/gofalwr sy'n cefnogi.

13.3 Er bod y polisi wedi llwyddo wrth fynd i'r afael â diogelwch dioddefwyr penodol, nid yw bob amser wedi cydnabod y perygl parhaus o niwed y gall tramgwyddwr unigol ei gyflwyno i blant eraill yn y dyfodol.

13.4 Mae'r term 'troseddwr Atodlen Un' a 'throsedd Atodlen Un' (Schedule One offender a Schedule One offence) wedi'u defnyddio'n gyffredin ar gyfer unrhyw un sydd wedi'i gael yn euog o drosedd yn erbyn plentyn sydd wedi'i rhestru yn Atodlen Un o Ddeddf 1933. Fodd bynnag, nid yw euogfarn am drosedd yn Atodlen Un yn ysgogi unrhyw ofyniad statudol mewn perthynas â materion amddiffyn plant a dim ond oed y dioddefwr a'r drosedd y dedfrydwyd y troseddwr amdani a arweiniodd at benderfyniad i roi rhywun ar y rhestr ac nid asesiad o'r perygl o niwed i blant yn y dyfodol.

13.5 Felly nid yw'r term 'troseddwr Atodlen Un' yn cael ei ddefnyddio bellach. Erbyn hyn 'Perygl i Blant' neu 'Risg i Blant' sy'n cael ei ddefnyddio. Mae hyn yn dangos yn glir bod yr unigolyn wedi'i nodi fel un sy'n cyflwyno perygl neu berygl posibl o niwed i blant. Dylai ymarferwyr asesu trwy'r broses MAPPA a yw unigolion yn parhau i gyflwyno perygl i blant.

13.6 Mae Canllawiau Interim, "NAFWC 29/2005: Identification of Individuals who Present a Risk to Children" [http://www.cymru.gov.uk/keypublegislationcirculars/circulars/NAFWC29-05-e.pdf], wedi'u dosbarthu yn egluro sut y dylid nodi'r bobl hynny sy'n cyflwyno perygl posibl neu

berygl o niwed i blant. Mae'r Canllawiau'n egluro nad yw'r dull cyfredol o nodi'n awtomatig y troseddwr sydd wedi'i gael yn euog o drosedd wedi'i rhestru yn Atodiad Un o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933, fel perygl i blant yn canolbwyntio ar y rhai sy'n parhau i gyflwyno perygl.

Canllawiau ar droseddau yn erbyn Plant

Cefndir

13.7 Mae Atodlen Un o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 yn rhoi rhestr o droseddau, wedi'u diwygio gan ddeddfwriaeth ddilynol. Mae'r troseddau'n amrywio o lofruddiaeth a cham-drin plant i unrhyw drosedd sy'n achosi niwed corfforol i blentyn.

13.8 Ar hyn o bryd, nid yw euogfarn am un o'r troseddau yn Atodlen Un yn ysgogi unrhyw ofyniad statudol mewn perthynas â materion amddiffyn plant. Mae'r rhestr o droseddau yn Atodlen 1 yn berthnasol i faterion megis y modd i gyhuddo, deponiadau gan blant a phenderfynu ar oed. Fodd bynnag, yn ymarferol, mae euogfarn am drosedd Rhestr Un yn ysgogi asesiadau risg ac yn ymarferol ystyrir Atodlen Un yn arf defnyddiol i gynorthwyo'r gwasanaeth prawf, y gwasanaeth carchardai, gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a'r heddlu i ganolbwyntio ar yr unigolion hynny a all achosi perygl i blant. Ceir nifer o broblemau gydag Atodlen Un, gan gynnwys diffyg cysondeb yn y defnydd a wneir ohoni ac anghysondebau yn y troseddau y mae'n eu cwmpasu.

Yr Adolygiad

13.9 Yn ystod 2004, cynhaliwyd adolygiad o Atodlen Un a gweithdrefnau cysylltiedig. Cafodd Gweithgor Aml-asiantaeth ei gynnull i edrych ar weithdrefnau asiantaeth cyfredol, ac i ystyried a oedd angen dull mwy effeithiol o nodi'r rheiny a allai achosi perygl hysbys i blant. Mae'r adolygiad yn dal ar waith. Fodd bynnag, mae'n glir nad yw'r term 'troseddwr Atodlen Un', sy'n cael ei ddefnyddio gan amrywiaeth o asiantaethau, wedi'i ddiffinio'n glir ac i ryw raddau, nid yw'n fawr o ddefnydd gan ei fod yn diffinio pobl ar sail eu hanes o droseddu yn hytrach na'r perygl parhaus y maent yn ei achosi. Gyda hyn mewn cof dylid disodli'r term trwy ddefnyddio "unigolyn a nodwyd fel un sy'n cyflwyno perygl neu berygl posibl i blant" (*"a person identified as presenting a risk, or potential risk, to children")*. Yn amlwg mae hanes o droseddu yn ffactor pwysig mewn asesiadau o'r fath, ond nid dyna'r unig ffactor. Daeth ystod o ddeddfwriaeth amddiffyn plant i rym ers Deddf 1933, ac mae hyn wedi creu darlun dryslyd. Mae llawer o ymarferwyr yn ansicr ynglŷn â pha droseddau sydd wedi'u cynnwys yn Atodlen Un ac a oes troseddau eraill, nad ydynt wedi'u cynnwys yn Atodlen Un, a all nodi bod unigolyn yn achosi perygl i blant.

13.10 Er mwyn darparu rhywfaint o eglurdeb ar y mater hwn, darparwyd rhestr gyfunol o droseddau y gall yr holl asiantaethau eu defnyddio i

nodi “unigolyn a nodwyd fel un sy’n cyflwyno perygl neu berygl posibl i blant”. Mae’r rhestr hon, (Atodiad B), yn nodi’r prif droseddau yn erbyn plant sydd ar y statud ar hyn o bryd. Gall asiantaethau sy’n dod i gysylltiad neu sy’n gweithio gydag unigolyn sydd wedi’i gael yn euog o drosedd yn erbyn plentyn ddefnyddio’r rhestr fel rhan o’u polisïau a’u gweithdrefnau arferol.

13.11 Fodd bynnag, dylid nodi’r pwyntiau pwysig canlynol:

- Nid oes unrhyw ofynion statudol yn gysylltiedig â’r rhestr yn Atodiad B. Dim ond rhestr o’r prif droseddau y gellid eu cyflawni yn erbyn plant yw hi. Nid yw Atodlen Un o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc wedi’i diddymu na’i diwygio. Bydd yr Adolygiad yn ystyried ymhellach a yw hynny’n angenrheidiol.
- Nid yw’n rhestr ddiderfyn. Mae mathau eraill o droseddau ar y statud lle efallai y bwriadwyd i’r dioddefwr fod yn blentyn, ond nid yw’r brif drosedd yn drosedd benodol yn erbyn plentyn (hy troseddau telegyfathrebu - negeseuon testun anweddus, aflonyddu ac ati). Hefyd, gall deddfwriaeth newydd greu troseddau newydd. Mae angen i ymarferwyr ddefnyddio’u crebwyll proffesiynol ym mhob achos.
- Efallai bod rhai o’r troseddau ond yn nodi perygl i blant dan rai amgylchiadau. Eto, mae angen i ymarferwyr ddefnyddio’u crebwyll proffesiynol yn yr achosion hyn.
- Ni fydd pob unigolyn a gafwyd yn euog/gafodd ei rybuddio yn achosi perygl i blant. Hefyd, bydd yna achosion lle bydd unigolyn heb ei ddedfrydu’n euog yn achosi perygl i blant.
- Nid yw hon yn gyfarwyddeb newydd. Nid oes unrhyw newidiadau i weithdrefnau cyfredol rhyngasiantaethol a gweithdrefnau amddiffyn plant, a dylid eu dilyn yr un fath ag arfer.
- Bydd y gwasanaeth carchardai yn parhau i hysbysu’r heddlu, gwasanaethau prawf a gwasanaethau cymdeithasol cyn rhyddhau troseddwr a nodwyd. Bydd y broses gyfredol yn parhau fel y mae.
- Mae’r rhestr yn cynnwys troseddau cyfredol a rhai a ddiddymwyd oherwydd bydd sawl troseddwr wedi’i gael yn euog cyn cyflwyno deddfwriaeth newydd, megis Deddf Troseddau Rhyw 2003.

13.12 Dylai ymarferwyr ddefnyddio’r rhestr newydd o droseddau i ysgogi asesu pellach er mwyn penderfynu a ddylid ystyried troseddwr fel un sy’n cyflwyno perygl parhaus i blant. Mae hyn yn galluogi asiantaethau i ganolbwyntio’u hadnoddau ar y grŵp cywir o unigolion a pheidio â chynnwys y rhai sydd wedi’u nodi dim ond am fod plentyn wedi cael niwed yn ystod y drosedd, er enghraifft, fel yn achos damwain ffordd. Efallai na fydd troseddwr sydd wedi gwneud niwed i blentyn yn dal i gyflwyno perygl iddo. Os bydd troseddwr ifanc yn troseddu yn erbyn plentyn, dylai ymarferwyr ystyried ei bod yn bosibl nad oes fawr ddim neu ddim perygl yn y dyfodol o niwed i blant eraill, a gall y stigma o

gael ei nodi fel un sy'n cyflwyno perygl parhaus i blant lesteirio datblygiad y troseddwr ifanc o bosibl.

13.13 Pan fydd unigolyn wedi ei ddedfrydu a'i nodi fel rhywun sy'n cyflwyno perygl o niwed i blant, mae gan asiantaethau gyfrifoldeb i gydweithio er mwyn monitro a rheoli'r perygl o niwed i eraill. Os bydd troseddwr wedi cael dedfryd yn y gymuned, bydd Rheolwyr Troseddwyr (neu weithiwr Tîm Troseddau Ieuenctid) yn monitro ymddygiad a pherygl yr unigolyn i eraill ac yn cysylltu ag asiantaethau partner fel y bo'n briodol.

13.14 Mewn achosion lle mae'r troseddwr wedi'i ddedfrydu i gyfnod yn y ddalfa, bydd carchardai yn cymryd cyfrifoldeb tebyg ac yn ogystal, yn hysbysu asiantaethau eraill cyn iddo gael ei ryddhau am unrhyw gyfod.

MAPPA

13.15 Mae Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd yn darparu fframwaith cenedlaethol mewn 42 ardal, yng Nghymru a Lloegr, ar gyfer asesu a rheoli'r perygl a achosir gan droseddwyr difrifol a threisgar. Mae hyn yn cynnwys unigolion sy'n cael eu hystyried fel rhai sy'n achosi perygl, neu berygl posibl o niwed i blant. Mae'r trefniadau'n rhoi gofynion statudol ar yr heddlu a'r gwasanaethau prawf (yr "Awdurdodau Cyfrifol") i wneud y trefniadau hyn o dan Adrannau 67 a 68 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000 [http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2000/00043--k.htm#67]. Gwnaeth Adran 325-327 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 [http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2003/30044--x.htm#325] ymestyn a chryfhau'r trefniadau hyn i amddiffyn y cyhoedd:

- Trwy gynnwys y Gwasanaeth Carchardai fel rhan o'r Awdurdodau Cyfrifol;
- Trwy roi dyletswydd ar nifer o asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau i droseddwyr gan gynnwys iechyd, tai, gwasanaethau cymdeithasol, addysg, timau troseddau ieuenctid, canolfan byd gwaith a darparwyr monitro electronig i gydweithredu â'r Awdurdod Cyfrifol; a
- Thrwy gynyddu cysylltiad y cyhoedd gyda MAPPA trwy benodi dau gynghorydd lleyg i gynorthwyo'r Awdurdod cyfrifol ym mhob ardal i fonitro ac adolygu'r trefniadau hynny yn lleol.

13.16 Er na fydd MAPPA yn mynd i'r afael â phryderon o niwed difrifol pellach a achosir gan yr holl dramgwyddwyr sy'n cam-drin plant, ei ddiben yw canolbwyntio ar droseddwyr rhyw a throseddwyr treisgar sydd wedi'u heuogfarnu sy'n dychwelyd i'r gymuned ac sydd yn y gymuned. Bydd datblygu cronfeydd data yn gwella'r gallu i olrhain yn fawr, gan olrhain troseddwyr sy'n symud rhwng cymunedau ac ar draws ffiniau sefydliadol.

13.17 Atgyfeirir troseddwyr i'r broses MAPPA yn dilyn euogfarn am drosedd berthnasol. Yn dilyn yr atgyfeiriad hwn, cynhelir asesiad risg trylwyr ar

sail pob achos yn unigol. Erbyn hyn mae gan y rhan fwyaf o ardaloedd gydgysylltydd y gellir cysylltu ag ef neu hi trwy unrhyw rai o'r Awdurdodau Cyfrifol lleol. Bydd Bwrdd Rheoli Strategol MAPPA yr Ardal ar waith ac yn cynnwys rheolwyr arweiniol yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Carchardai, nifer o asiantaethau â Dyletswydd i Gydweithio a dau Gynghorydd Lleyg. Mae Canllawiau llawn MAPPA ac Adroddiadau Blynyddol yr Ardaloedd Lleol ar gael ar y wefan ganlynol. http://www.probation.homeoffice.gov.uk/output/page30.asp

Nodi troseddwyr MAPPA

13.18 Dyma'r troseddwyr sy'n dod o fewn cylch gwaith MAPPA ym mhob maes:

- Categori 1: troseddwyr rhyw cofrestredig - fel y diffinnir hwy yn Neddf Troseddwyr Rhyw 1997, a'i diwygio gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000 a Deddf Troseddau Rhyw 2003.
- Categori 2: troseddwyr treisgar a throseddwyr rhyw eraill - troseddwyr rhyw a threisgar sy'n cael dedfryd o garchar o 12 mis neu fwy, y rhai sy'n cael eu cadw'n gaeth dan orchmynion ysbyty neu warcheidiaeth a'r rhai sydd wedi cyflawni troseddau penodol yn erbyn plant.
- Categori 3: troseddwyr eraill – troseddwyr nad ydynt yng Nghategori 1 na 2 ond sy'n cael eu hystyried gan yr Awdurdod Cyfrifol fel rhai sy'n achosi perygl difrifol i'r cyhoedd.

Rhannu gwybodaeth berthnasol

13.19 Yr hyn sy'n penderfynu i raddau helaeth ar ansawdd y prosesau nodi perygl ac asesu; ac ansawdd asesu perygl a'r cynllun rheoli perygl, yw pa mor effeithiol yw'r trefniadau rhannu gwybodaeth. Dylai'r holl wybodaeth berthnasol fod ar gael, mewn da bryd, i'r rhai sy'n cynnal yr asesiadau ac yn llunio'r cynlluniau rheoli, neu fel arall, efallai y bydd y gwaith o amddiffyn y cyhoedd yn cael ei beryglu.

13.20 Mae'n hanfodol cyfnewid gwybodaeth er mwyn amddiffyn y cyhoedd yn effeithiol. Mae Canllawiau MAPPA yn egluro sut y gall asiantaethau MAPPA gyfnewid gwybodaeth ymhlith ei gilydd a chydag unigolion a sefydliadau eraill y tu allan i'r MAPPA.

Asesu perygl o niwed difrifol

13.21 Mae'r gwasanaeth prawf a charchardai yn asesu'r perygl o niwed gan ddefnyddio'r System Asesu Troseddwr (OASys). Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn defnyddio ASSET i'r rhai dan ddeunaw oed. Mae'r canlynol yn disgrifio pob lefel o berygl:

- Isel: dim dangosyddion perygl o niwed sylweddol ar hyn o bryd.
- Canolig: mae rhai dangosyddion perygl o niwed ar hyn o bryd. Mae gan y troseddwyr y potensial i achosi niwed ond yn annhebygol o wneud hynny oni bai bod amgylchiadau'n newid ee methu â chymryd meddyginiaeth, colli llety, perthynas yn chwalu, camddefnyddio cyffuriau neu alcohol.
- Uchel: ar hyn y bryd mae yna ddangosyddion perygl o niwed difrifol. Gallai'r digwyddiad arfaethedig ddigwydd unrhyw bryd a byddai'r effaith yn ddifrifol.
- Uchel iawn: mae yna berygl y gall niwed ddigwydd unrhyw bryd. Mae'r digwyddiad arfaethedig yn fwy tebygol na pheidio o ddigwydd yn fuan iawn a byddai'r effaith yn ddifrifol.

13.22 Mae perygl yn cael ei gategoreiddio trwy gyfeirio at bwy all gael ei niweidio. Mae hyn yn cynnwys plant a all fod yn agored i niwed o wahanol fathau, gan gynnwys ymddygiad treisgar neu rywiol, niwed neu esgeulustod emosiynol. Yn y cyd-destun hwn, bydd MAPPA yn gweithio'n agos gyda Byrddau Lleol Diogelu Plant i sicrhau y gellir gwneud y cyd-drefniadau gorau yn lleol ar gyfer unrhyw blentyn unigol sy'n cael ei ystyried gan y naill neu'r llall.

Rheoli Perygl

13.23 Mae angen i'r Awdurdod Cyfrifol sicrhau bod strategaethau i fynd i'r afael â pherygl yn cael eu nodi a bod cynlluniau yn cael eu datblygu, eu gweithredu a'u hadolygu yn rheolaidd. Rhaid i'r cynlluniau hynny gynnwys camau gweithredu i fonitro ymddygiad ac agweddau'r troseddwyr ac i ymyrryd yn eu bywydau er mwyn rheoli a sicrhau cyn lleied o berygl â phosibl o niwed difrifol i eraill.

13.24 Mae fframwaith y MAPPA yn nodi tair lefel ar wahân ond cysylltiedig â'i gilydd ar gyfer asesu a rheoli perygl:

- Lefel 1 – rheoli perygl cyffredin: dyma lle y gallai un asiantaeth reoli'r perygl a gyflwynir gan y troseddwr heb gynnwys asiantaethau eraill yn sylweddol.
- Lefel 2 –nifer o asiantaethau lleol yn rheoli perygl: dyma lle mae angen defnyddio mwy nag un asiantaeth yn sylweddol ond lle nad yw lefel y perygl neu'r cymhlethdod o reoli'r perygl mor fawr fel bod angen cyfeirio i lefel 3.
- Lefel 3 - MAPPP – Paneli Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd: Mae hyn yn ymwneud â'r "ychydig critigol" a byddai'n cynnwys troseddwr sy'n.
    - Cael ei asesu dan OASys/ASSET fel perygl mawr neu berygl mawr iawn o achosi niwed difrifol; ad

- Yn cyflwyno peryglon na ellir ond eu rheoli drwy gynllun sy'n golygu cydweithredu agos ar lefel uwch am fod yr achos yn gymhleth a/neu oherwydd bod angen ymrwymiad anghyffredin o adnoddau; neu
- Er heb ei asesu fel perygl mawr neu berygl mawr iawn, mae'r achos yn eithriadol oherwydd bod yna debygrwydd y bydd gan y cyfryngau a/neu'r cyhoedd ddiddordeb brwd yn y ffordd y bydd yr achos yn cael ei reoli a bod angen sicrhau bod y cyhoedd yn parhau â hyder yn y system cyfiawnder troseddol.

13.25 Mae gan baneli amlasiantaethol ar gyfer diogelu'r cyhoedd (MAPPP) y pwerau i ddatgelu gwybodaeth am droseddwyr i ysgolion, grwpiau gwirfoddol ac eraill.

Prosesau a Mecanweithiau Eraill

Datgymhwyso rhag Gweithio gyda Phlant

13.26 Mae Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003, yn cynnwys darpariaeth ar gyfer datgymhwyso pobl rhag gweithio gyda phlant. Mae unigolyn yn cael ei ddatgymhwyso naill ai trwy:

- orchmynion datgymhwyso a wneir gan Lys y Goron pan fo unigolyn yn ei gael yn euog am drosedd yn erbyn plentyn (dan 18 oed) wedi'i rhestru yn Atodlen 4 o'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys [http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2000/00043--r.htm#sch4];
- mae Atodlen 4 yn cynnwys troseddau rhyw, troseddau treisgar a throseddau gwerthu cyffuriau Dosbarth A i blentyn; neu
- cael ei gynnwys yn barhaus ar restr o bobl sy'n anaddas i weithio gyda phlant sy'n cael ei chadw o dan a1 o Ddeddf Amddiffyn Plant 1999; neu
- cael ei gynnwys ar Restr 99 y DfES ar y sail ei fod yn anaddas i weithio gyda phlant.

13.27 Wrth wneud gorchymyn datgymhwyso mae'r llys yn defnyddio gwahanol ragdybiaethau gan ddibynnu ar oed y troseddwr a'r ddedfryd a gafwyd:

- Troseddwr sy'n oedolyn sy'n cael dedfryd gymhwysol (12 mis neu fwy neu gyfwerth) neu orchymyn perthnasol: rhaid gwneud gorchymyn datgymhwyso oni bai bod y llys yn fodlon ei bod yn annhebygol y bydd yr unigolyn yn cyflawni unrhyw drosedd bellach yn erbyn plentyn.

- Troseddwr ifanc sy'n cael dedfryd gymhwysol neu orchymyn perthnasol: rhaid gwneud gorchymyn datgymhwyso os yw'r llys yn fodlon ei bod yn debygol y bydd yr unigolyn yn cyflawni trosedd bellach yn erbyn plentyn.
- Troseddwr ifanc neu droseddwr sy'n oedolyn nad yw'n cael dedfryd gymhwysol neu orchymyn perthnasol: gellir gwneud gorchymyn datgymhwyso os yw'r llys yn fodlon ei bod yn debygol y bydd y troseddwr yn cyflawni trosedd bellach yn erbyn plentyn.

13.28 Mae gorchymyn datgymhwyso yn para am gyfnod amhenodol (hy am oes) ond gellir gwneud cais i orchymyn gael ei adolygu gan Dribiwnlys Safonau Gofal ar ôl 10 mlynedd. Gwneir gorchmynion fel rhan o'r ddedfryd ac felly ni ellir eu gwneud ar gais. Fodd bynnag, mae gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 ddarpariaeth sy'n caniatáu i Wasanaeth Erlyn y Goron gyfeirio achosion yn ôl i'r llys os yw'n ymddangos y dylai'r llys fod wedi ystyried gwneud gorchymyn datgymhwyso ond heb wneud hynny. Felly, os nodir troseddwr, a ddylai, mae'n debyg fod wedi cael gorchymyn datgymhwyso, yna dylid trafod y mater gydag asiantaethau eraill MAPPA a Gwasanaeth Erlyn y Goron.

13.29 Gwaherddir pobl sydd wedi'u datgymhwyso rhag gweithio gyda phlant rhag gwneud cais am, cynnig gwneud, derbyn neu wneud unrhyw waith mewn swydd reoledig. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda phlant mewn swyddi am dâl neu ddi-dâl lle mae'r dyletswyddau arferol yn cynnwys gofalu, hyfforddi, goruchwylio neu fod â gofal llwyr am blant a swyddi lle mae'r dyletswyddau arferol yn cynnwys cyswllt heb oruchwyliaeth gyda phlant dan drefniadau a wnaed gan unigolyn cyfrifol, er enghraifft, rhiant. Mae'r swyddi sy'n cael eu cwmpasu wedi'u nodi'n benodol yn a.36 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000 [http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2000/00043--f.htm#36] ac yn cael eu diffinio'n gyffredinol. Mae enghreifftiau o "weithio gyda phlant" yn ymestyn o warchod plant i weithio fel athrawon ysgol ac o weithio mewn adran addysg neu wasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol i waith gwirfoddol mewn clwb pêl-droed i fechgyn. Maent hefyd yn cynnwys swyddi lle mae'r dyletswyddau arferol yn cynnwys goruchwylio neu reoli unigolion eraill sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant, er enghraifft aelod o gorff llywodraethu ysgol.

13.30 Mae unigolyn sydd wedi'i ddatgymhwyso yn cyflawni trosedd os yw ef neu hi, yn fwriadol, yn gwneud cais am, cynnig gwneud, derbyn neu'n gwneud unrhyw waith gyda phlant. Mae'n drosedd hefyd i unigolyn, yn fwriadol, gynnig gweithio gyda phlant, neu gaffael gwaith gyda phlant ar gyfer unigolyn sydd wedi'i ddatgymhwyso rhag gweithio gyda phlant neu ganiatáu i'r cyfryw unigolyn barhau mewn gwaith o'r fath. Dylid cysylltu â'r heddlu os cyflawnir trosedd o'r fath. Gellir cael hyd at 5 mlynedd o garchar am dorri'r gyfraith fel hyn.

Cofrestr Troseddwyr Treisgar a Throseddwyr Rhyw (ViSOR)

13.31 Mae gofynion hysbysu Rhan 2 o Ddeddf Troseddau Rhyw 2003 yn ofyniad awtomatig ar droseddwyr sy'n cael euogfarn, rhybudd neu rybudd terfynol am rai troseddau rhyw. Bwriad y gofynion hysbysu yw sicrhau bod yr heddlu yn cael gwybod ymhle mae troseddwyr yn y gymuned. Nid yw'r gofynion hysbysu yn gwahardd troseddwyr rhag rhai mathau o gyflogaeth, rhag bod ar eu pen eu hunain gyda phlant ac ati.

13.32 Rhaid i droseddwyr hysbysu'r heddlu am rai manylion personol cyn pen tri diwrnod ar ôl euogfarn, rhybudd neu rybudd terfynol am drosedd rhyw berthnasol (neu, os ydynt yn y carchar ar y dyddiad hwn, cyn pen tri diwrnod ar ôl eu rhyddhau). Rhaid i'r cyfryw droseddwr wedyn hysbysu'r heddlu, cyn pen tri diwrnod, am unrhyw newid i'r manylion a roddwyd a phryd bynnag y byddant yn treulio 7 niwrnod neu fwy mewn cyfeiriad arall.

13.33 Rhaid i bob troseddwr ail-gadarnhau eu manylion o leiaf unwaith bob deuddeg mis a dweud wrth yr heddlu 7 niwrnod ymlaen llaw am unrhyw deithiau tramor am gyfnod o 3 diwrnod neu fwy.

13.34 Mae'r cyfnod y mae'n rhaid i droseddwr gydymffurfio â'r gofynion hyn yn dibynnu ar a gawsant euogfarn neu rybudd am eu trosedd, a lle bo'n briodol, y ddedfryd a gawsant. Bydd methu â chydymffurfio â'r gofynion hyn yn dramgwydd troseddol gyda chosb o hyd at 5 mlynedd o garchar. Dylid cysylltu â'r heddlu os cyflawnir trosedd o'r fath.

Gorchmynion hysbysu

13.35 Bwriad gorchmynion hysbysu yw sicrhau y gall dinasyddion neu breswylwyr Prydain yn ogystal â phreswylwyr o dramor, fod yn destun gofynion hysbysu (ViSOR) yn y DU os ydynt yn cael euogfarn neu rybuddion am droseddau rhyw dramor.

13.36 Gwneir gorchmynion hysbysebu ar gais gan yr heddlu i Lys Ynadon. Felly, os nodir troseddwr sydd wedi cael euogfarn neu rybudd am drosedd rhyw dramor yna dylid cyfeirio'r achos at sylw'r heddlu lleol

13.37 Os oes gorchymyn hysbysu mewn grym ac yna y daw'r troseddwr yn destun gofynion hysbysu (gweler uchod).

13.38 Er enghraifft: gallai gorchymyn hysbysu sicrhau bod y gofynion hysbysu yn berthnasol i ddyn o Brydain, a oedd, tra ar wyliau yn Ne Ddwyrain Asia, wedi cael rhybudd am drosedd rhyw ar blentyn.

13.39 Dylai unrhyw wybodaeth bod unigolyn wedi cael euogfarn neu rybudd am drosedd rhyw dramor, lle y bo'n briodol, gael ei rhannu gyda'r heddlu.

Gorchmynion Atal Troseddau Rhyw (SOPOs)

13.40 Wedi'u cyflwyno gan Ddeddf Troseddau Rhyw 2003 [http://www.opsi.gov.uk/ACTS/acts2003/30042--c.htm#104], gorchmynion ataliol sifil yw'r SOPOs wedi'u llunio i amddiffyn y cyhoedd rhag niwed rhywiol difrifol. Gall llys wneud SOPO pan fo'n ymdrin â throseddwr sydd wedi cael euogfarn am drosedd wedi'i rhestru yn Atodlen 3 (troseddau rhyw) [http://www.opsi.gov.uk/ACTS/acts2003/30042--g.htm#sch3] neu Atodlen 5 (troseddau treisgar a throseddau eraill) [http://www.opsi.gov.uk/ACTS/acts2003/30042--i.htm#sch5] o'r Ddeddf ac sydd wedi'i asesu fel un sy'n achosi perygl o niwed rhywiol difrifol. Gall yr heddlu hefyd wneud cais am SOPO i lys Ynadon mewn cysylltiad ag euogfarn neu rybudd blaenorol am drosedd Atodlen 3 neu 5 ac sy'n achosi perygl o niwed rhywiol difrifol.

13.41 Mae SOPOs yn cynnwys gwaharddiadau y mae'r llys yn ystyried sy'n briodol. Er enghraifft, gellid gwahardd troseddwr rhyw yn erbyn plant sy'n achosi perygl o niwed rhywiol difrifol rhag loetran ger ysgolion neu fannau chwarae. Bydd y troseddwr hefyd yn dod yn destun gofynion hysbysu am gyfnod y gorchymyn, os nad yw hynny eisoes ar waith.

13.42 Gellid gwneud SOPOs ar gais gan yr heddlu, felly dylid atgyfeirio unrhyw droseddwr rhyw sy'n achosi perygl o niwed rhywiol difrifol at asiantaethau MAPPA a'r heddlu yn arbennig. Mewn cais am orchymyn gall yr heddlu amlinellu gwaharddiadau yr hoffent i'r llys eu hystyried. Mae torri unrhyw waharddiadau mewn SOPO yn dramgwydd troseddol gyda chosb o hyd at 5 mlynedd o garchar. Felly dylid cysylltu â'r heddlu os yw SOPO yn cael ei dorri.

13.43 Gall SOPOs fod yn hynod ddefnyddiol wrth reoli troseddwyr rhyw sydd wedi'u hasesu fel rhai sy'n parhau i achosi perygl uchel o niwed ond nad ydynt bellach yn cael eu goruchwylio o dan drwydded.

Gorchmynion Perygl o Niwed Rhywiol (RSHOs)

13.44 Wedi'u cyflwyno gan Ddeddf Troseddau Rhyw 2003 [http://www.opsi.gov.uk/ACTS/acts2003/30042--c.htm#123], gorchmynion ataliol sifil yw RSHOs a ddefnyddir i amddiffyn plant rhag y peryglon a achosir gan unigolion nad oes ganddynt o reidrwydd euogfarn blaenorol am drosedd rhyw neu dreisgar ond sydd, ar ddau achlysur o leiaf, wedi ymddwyn neu gyfathrebu mewn modd hynod rywiol â phlentyn neu blant ac sy'n achosi perygl o niwed pellach o'r fath. Er mwyn gwneud RSHO nid yw'n angenrheidiol bod yna berygl y bydd y diffynnydd yn cyflawni trosedd rhyw yn erbyn plentyn - efallai mai'r perygl yw ei fod yn bwriadu cysylltu â phlant mewn ffordd rywiol eglur. Gall yr RSHO gynnwys gwaharddiadau o'r fath, fel y gwêl yn dda. Er enghraifft, efallai bod oedolyn yn cysylltu'n rheolaidd â phlant ifanc mewn ystafelloedd sgwrsio ar y we. Gellid defnyddio RSHO i wahardd troseddwr rhag defnyddio'r Rhyngrwyd er mwyn ei atal/hatal rhag gweithgarwch niweidiol o'r fath.

13.45 Gwneir RSHOs ar gais gan yr heddlu, felly dylid atgyfeirio unrhyw un y tybir ei fod/bod yn achosi perygl o niwed rhywiol i blant at yr heddlu. Mewn cais am orchymyn gall yr heddlu amlinellu'r gwaharddiadau yr hoffent i'r llys eu hystyried.

13.46 Mae torri unrhyw waharddiadau mewn RSHO yn dramgwydd troseddol gyda chosb o hyd at 5 mlynedd o garchar. Mae'n drosedd hefyd sy'n gwneud y troseddwr yn ddarostyngedig i'r gofynion hysbysu (gweler uchod). Dylid cysylltu â'r heddlu pryd bynnag y mae RSHO yn cael ei dorri.

Y Rhestr Deddf Amddiffyn Plant

13.47 Mae Deddf Amddiffyn Plant 1999 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol gadw rhestr o bobl sy'n anaddas i weithio gyda phlant mewn swyddi gofal plant. Mae'n ofynnol i sefydliadau gofal plant yn y sector rheoledig roi adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol dan amgylchiadau arbennig, yn bennaf os ydynt yn diswyddo rhywun am gamymddygiad sydd wedi niweidio plentyn neu roi plentyn mewn perygl o niwed, neu os yw unigolyn wedi ymddiswyddo dan amgylchiadau lle y gallai fod wedi'i ddiswyddo/diswyddo am reswm o'r fath. Gall sefydliadau eraill sy'n cyflogi gweithwyr gofal plant hefyd gyflwyno adroddiadau dan yr amgylchiadau hynny, ond nid yw hynny'n orfodol.

13.48 Os yw'n ymddangos bod yna sail i gynnwys unigolyn ar y Rhestr bydd ei enw/henw'n cael ei ychwanegu dros dro tra gwneir ymholiadau pellach, a chaiff yr unigolyn gyfle i wneud sylwadau ysgrifenedig am yr achos. Os, ar ddiwedd y dydd, y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod:

- y sefydliad sy'n atgyfeirio o'r farn resymol, yn ôl yr hyn sy'n debygol, bod yr unigolyn yn euog o gamymddygiad a niweidiodd blentyn, neu a roddodd blentyn mewn perygl o niwed;
- nad yw'r unigolyn yn addas i weithio gyda phlant;
- ychwanegir yr unigolyn i'r Rhestr yn barhaol.

13.49 Gall unrhyw un sydd ar y Rhestr yn barhaol apelio i Dribiwnlys Safonau Gofal cyn pen 3 mis wedi'r penderfyniad.

13.50 Rhaid i sefydliadau gofal plant wirio'r Rhestr cyn cyflogi rhywun mewnswydd gofal plant.

Rhestr 99 y DfES

13.51 Rhestr gyfrinachol o bobl y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cyfarwyddo na allant gael eu cyflogi gan Awdurdodau Addysg Lleol (AALl), ysgolion (gan gynnwys ysgolion annibynnol) neu sefydliadau Addysg Bellach fel athrawon neu mewn gwaith sy'n cynnwys cysylltiad rheolaidd gyda phlant dan 18 oed – dyna yw Rhestr 99. Mae'r Rhestr

hefyd yn cynnwys manylion pobl y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi dweud y gellir eu cyflogi dan amodau penodol yn unig.

13.52 Mae gan AALlau, ysgolion, sefydliadau AB a chyflogwyr eraill ddyletswydd statudol i gyflwyno adroddiadau i'r DfES os ydynt yn rhoi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau unigolyn ar sail camymddwyn neu anaddasrwydd i weithio gyda phlant neu pan fo rhywun yn gadael eu gwasanaeth ar sail un o'r rhain. Mae'r heddlu hefyd yn adrodd i'r DfES os yw athrawon neu aelodau eraill o staff mewn ysgol yn eu cael yn euog o dramgwydd troseddol.

14: Rhannu gwybodaeth

14.1 Mae'r canllawiau hyn ar rannu gwybodaeth am blant a phobl ifanc yn cwmpasu pob gwasanaeth yn cynnwys iechyd; addysg; blynyddoedd cynnar a gofal plant; gofal cymdeithasol; troseddau ieuenctid; yr heddlu; gwasanaethau cynghori a chymorth; a hamdden.

14.2 Mae ymchwil a phrofiad wedi dangos pwysigrwydd adnabod plant ag anghenion ychwanegol yn gynnar er mwyn atal problemau rhag gwaethygu. Mae rhannu gwybodaeth am blant a phobl ifanc gydag anghenion o'r fath yn hanfodol er mwyn darparu ymyrraeth gynnar fel bod plant yn llwyddo yn erbyn y saith Nod Craidd a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r nodau yn nodi y dylai plant a phobl ifanc:

- gael dechrau da mewn bywyd;
- cael amrywiaeth cynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu;
- mwynhau'r iechyd gorau posibl a bod yn rhydd o gamdriniaeth, fictimeiddio ac ecsbloetio;
- cael mynediad i weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol;
- cael eu clywed, eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod;
- cael cartref a chymuned diogel sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol; ac
- na ddylent fod o dan anfantais oherwydd tlodi.

14.3 Mae'r canllawiau anstatudol hyn wedi'u bwriadu ar gyfer pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn y gwasanaethau hyn, boed yn weithwyr cyflogedig neu'n wirfoddolwyr, ac yn gweithio yn y sectorau preifat, cyhoeddus neu wirfoddol. Maent yn cydnabod fod y rhan fwyaf o benderfyniadau i rannu gwybodaeth yn gofyn am farn broffesiynol, ac yn ceisio darparu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth y mae ymarferwyr eu hangen i wneud penderfyniadau. Maent yn cwmpasu'r prif resymau pam y byddai ymarferwyr am neu angen rhannu gwybodaeth:

- i helpu plant a phobl ifanc i gyflawni'r canlyniadau allweddol rydym am eu sicrhau i bawb: bod yn iach, cadw'n ddiogel, mwynhau a chyflawni, gwneud cyfraniad cadarnhaol, a chyflawni lles economaidd;
- diogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc trwy eu hamddiffyn rhag cael eu cam-drin, atal niwed i'w hiechyd neu ddatblygiad, neu sicrhau eu bod yn tyfu mewn amgylchiadau sy'n gyson â darparu gofal diogel ac effeithiol; ac
- atal plant a phobl ifanc rhag troseddu.

14.4 Mae'r canllawiau hefyd yn:

- nodi prif egwyddorion rhannu gwybodaeth;
- amlygu'r materion anodd y mae ymarferwyr yn eu hwynebu o bryd i'w gilydd wrth rannu gwybodaeth;
- nodi canllawiau craidd materion rhannu gwybodaeth i'r holl ymarferwyr;
- crynhoi'r pethau allweddol y dylai ymarferwyr wybod amdanynt mewn perthynas â Dyletswydd Hyder Cyfraith Gwlad, y Ddeddf Hawliau Dynol a'r Ddeddf Diogelu Data ac yn;
- darparu gwybodaeth bellach am y ddeddfwriaeth sy'n rhoi sail gyfreithiol i gasglu, defnyddio a rhannu gwybodaeth.

Egwyddorion Allweddol Rhannu Gwybodaeth

14.5 Er mwyn gwneud penderfyniadau cadarn mae angen i ymarferwyr ddeall egwyddorion cyffredinol rhannu gwybodaeth am blentyn, person ifanc neu eu rhiant/gofalwyr.

- Diogelwch a lles plentyn neu berson ifanc yw'r brif ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau am rannu gwybodaeth amdanynt.
- Mae'n rhaid cael sail gyfreithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth a gwir bwrpas dros wneud hynny.
- Wrth ymdrin â gwybodaeth gyfrinachol bydd angen i chi fod yn fodlon bod:
    - rhwymedigaeth statudol i ddatgelu'r wybodaeth;
    - caniatâd diamwys neu ddealledig gan y personau dan sylw; neu
    - ei bod hi o fudd cyhoeddus tra phwysig i ddatgelu'r wybodaeth.
- Dylech ystyried arwyddocâd, neu arwyddocâd posibl y wybodaeth sydd gennych. Dylai'r wybodaeth rydych chi'n ei rhannu fod yn berthnasol i'r diben rhannu a dim ond gyda'r ymarferwyr neu'r asiantaethau sydd 'angen gwybod' y dylid rhannu'r wybodaeth.
- Dylech fod yn agored a gonest gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd am y rhesymau dros rannu gwybodaeth a pham mae angen cymryd rhai camau gweithredu, oni bai bod hynny'n effeithio'n andwyol ar ddiben rhannu'r wybodaeth.
- Dylech gael caniatâd i rannu gwybodaeth oni bai ei bod hi'n beryglus neu'n amhosibl gwneud hynny, neu y byddai'n tanseilio'r gwaith o atal neu ganfod trosedd.
- Dylai'r wybodaeth fod yn gywir, wedi'i chadw'n ddiogel ond nid am gyfnod mwy nag sydd raid.

14.6 Y ffordd orau o sicrhau bod y broses o rannu gwybodaeth yn cael ei chyflawni'n briodol yw gweithio o fewn protocolau rhannu gwybodaeth sydd wedi'u cynllunio'n ofalus rhwng yr asiantaethau a'r gweithwyr proffesiynol cysylltiedig, a chymryd cyngor cyfreithiol mewn achosion unigol pan fo angen. Pan fo gwybodaeth yn cael ei rhannu, gyda neu heb ganiatâd, dylid cofnodi'r wybodaeth a rannwyd, pryd, gyda phwy ac at ba ddiben. Yn yr un modd, dylid cofnodi penderfyniad i beidio â rhannu gwybodaeth.

Materion Anodd Sy'n Wynebu Ymarferwyr

14.7 Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr gwasanaethau plant yn deall bod ganddynt ddyletswydd i rannu gwybodaeth pan fo ganddynt neu fod gan bobl eraill dystiolaeth bod plentyn yn cael, neu mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso (hy amddiffyn plant). Y sefyllfaoedd mwyaf anodd yw:

- pan nad oes fawr o dystiolaeth glir, os o gwbl, ond bod gennych chi neu eraill bryder yng nghefn eich meddwl y gallai'r plentyn fod mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso;
- pan nad yw'r pryder yn ymwneud â cham-drin neu esgeuluso, ond am agweddau eraill ar les plentyn, er enghraifft, mater iechyd, eu presenoldeb a'u perfformiad yn yr ysgol, neu duedd i droseddu.

14.8 Cydnabyddir yn gynyddol y gallai methu â rhannu gwybodaeth wrth ymarfer, hyd yn oed am bryder yng nghefn eich meddwl, gael canlyniadau difrifol i les plentyn neu berson ifanc, neu eraill. Yn aml, nid oes darlun cliriach yn datblygu nes bod gwybodaeth yn cael ei rhannu a'i deall, a allai gadarnhau neu dawelu pryderon am ddiogelwch a lles plentyn neu berson ifanc.

14.9 Mae'r gyfraith yn cael ei nodi'n aml fel rhwystr i rannu gwybodaeth yn y sefyllfaoedd hyn. Efallai eich bod chi'n ansicr am y materion cyfreithiol neu foesol sy'n gysylltiedig â rhannu gwybodaeth, yn enwedig gydag asiantaethau eraill. Efallai eich bod chi'n pryderu am rannu gwybodaeth, er enghraifft:

- Rydych chi'n pryderu eich bod chi wedi camfarnu'r sefyllfa ac y byddwch chi'n cael eich beio, eich disgyblu neu eich erlyn hyd yn oed.
- Dydych chi ddim yn siŵr sut i ddweud wrth riant eich bod chi'n pryderu am y modd y maent yn gofalu am eu plentyn.
- Rydych chi'n pryderu y gallech chi niweidio eich perthynas gyda'ch claf neu'ch cleient wrth fynegi eich pryderon.
- Rydych chi'n pryderu na fydd ymarferwyr eraill yn trin y plentyn a'r teulu gyda chydymdeimlad os ydych chi'n lleisio'ch pryderon.

- Rydych chi'n pryderu na fydd ymarferwyr eraill yn trin y wybodaeth yn gyfrinachol.
- Rydych chi'n pryderu y bydd ymarferwyr eraill yn gwneud pethau'n waeth ac yn chwalu teulu o bosibl.
- Rydych chi'n amau bod yna drais yn y teulu ac y gallech chi wneud pethau'n waeth i'r plentyn, person ifanc neu bartner yn y teulu a.
- Rydych chi'n ofni y gallai rhywun ymosod arnoch chi'n llafar neu gorfforol.

14.10 Mae'r rhain yn bryderon gwirioneddol a chyffredin iawn sy'n rhan o brofiad y rhan fwyaf o ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd ac nid yw'n hawdd delio â nhw.

14.11 Heb wybodaeth berthnasol ni all ymarferwyr wneud penderfyniadau cadarn, asesu anghenion na phenderfynu ar wasanaethau priodol i ddiwallu anghenion. Mae diffyg gwybodaeth yn cynyddu'r perygl o blant yn llithro drwy'r rhwyd. Ni ddylech beidio â rhannu gwybodaeth oherwydd bod yna rwystrau cyfreithiol na thybio mai peidio â rhannu gwybodaeth yw'r llwybr mwyaf diogel.

14.12 Yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd bydd angen i chi wneud penderfyniad proffesiynol i ofyn am ganiatâd i rannu gwybodaeth ai peidio. Mae angen i chi ddeall y gyfraith yn fras i wneud y penderfyniad hwnnw. Dylech hefyd fod yn ymwybodol o unrhyw god ymddygiad neu ganllawiau eraill sy'n berthnasol i'ch proffesiwn neu asiantaeth. Mae'r gyfraith a'r codau ymddygiad hyn bron bob amser yn caniatáu datgelu gwybodaeth gyda chaniatâd. Wrth benderfynu a ddylech rannu gwybodaeth gyfrinachol heb ganiatâd, mae angen i chi benderfynu a yw budd cyhoeddus rhannu'r wybodaeth, er enghraifft i ddiogelu a hyrwyddo lles plentyn neu berson ifanc neu i atal neu ganfod trosedd, yn bwysicach na budd cyhoeddus cynnal cyfrinachedd.

14.13 Lle bo'n bosibl, dylech egluro'r mater, ceisio sicrhau cytundeb ac os ydych chi'n penderfynu'n groes i ddymuniadau rhiant, person ifanc neu blentyn, dylech egluro'r rhesymau dros wneud hynny. Efallai na fydd hyn yn briodol bob amser, er enghraifft mewn rhai achosion lle bydd angen rhannu gwybodaeth gyda'r heddlu i atal neu i ymchwilio i achosion posibl o droseddu. Cofnodwch eich penderfyniad ar y cofnodion priodol. Mae Pennod 7 ac 8 yn cynnwys canllawiau arfer da I weithio gyda phlant, pobl ifanc a rhieni.

14.14 Hwyrach y bydd yn werth i chi drafod pethau gyda'ch rheolwr neu gydweithiwr rydych chi'n ymddiried ynddo, os ydynt yn brofiadol yn y materion hyn, neu os ydych chi'n gweithio yn y GIG neu'r Awdurdod Lleol trafod gyda'r Gwarcheidwad Caldicott. Os yw'r pryder yn ymwneud â cham-drin neu esgeulustod, mae gan bob sefydliad berson penodol sy'n cyflawni swyddogaeth arweiniol ar gyfer amddiffyn plant, felly gallai trafod â'r person hwn fod yn ddefnyddiol hefyd.

Beth yw'r cyfyngiadau cyfreithiol?

14.15 Gall y penderfyniad i ddatgelu gwybodaeth ai peidio godi mewn sawl cyd-destun. Efallai bod gennych bryder yng nghefn eich meddwl am blentyn ac y byddai rhannu'r wybodaeth ag asiantaeth arall yn fodd o dawelu neu gadarnhau'r pryder hwnnw. Efallai y gofynnir i chi am wybodaeth mewn cysylltiad ag asesiad o anghenion plentyn o dan adran 17 o Ddeddf Plant 1989 neu ymchwiliad o dan adran 47 o'r Ddeddf honno mewn cysylltiad ag achos llys. Ym mhob achos, y prif gyfyngiadau ar ddatgelu gwybodaeth yw:

- dyletswydd hyder cyfraith gwlad;
- Deddf Hawliau Dynol 1998;
- Deddf Diogelu Data 1998.

14.16 Mae'n rhaid ystyried pob cyfyngiad ar wahân. Gall darpariaethau statudol eraill fod yn berthnasol hefyd. Ond yn gyffredinol, ni fydd y gyfraith yn eich atal rhag rhannu gwybodaeth ag ymarferwyr eraill os:

- yw'r rhai sy'n debygol o gael eu heffeithio yn rhoi caniatâd; neu
- os yw budd cyhoeddus diogelu lles y plentyn yn fwy na'r angen i gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol; neu
- os oes angen datgelu'r wybodaeth o dan orchymyn llys neu rwymedigaeth gyfreithiol arall.

Dyletswydd Hyder Cyfraith Gwlad

14.17 Mae'r amgylchiadau lle mae dyletswydd hyder cyfraith gwlad yn codi wedi datblygu dros amser mewn cyfraith achos. Mae'r ddyletswydd yn codi pan fo person yn rhannu gwybodaeth gyda pherson arall dan amgylchiadau lle mae hi'n rhesymol disgwyl y bydd y wybodaeth yn cael ei chadw'n gyfrinachol.

Mae'r llysoedd wedi nodi bod dyletswydd hyder yn bodoli pan fo:-

- contract yn darparu ar gyfer cadw gwybodaeth yn gyfrinachol;
- perthynas arbennig rhwng partïon fel claf a meddyg, cyfreithiwr a chleient, athro a disgybl;
- asiantaeth neu adran o'r llywodraeth fel Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn casglu a chadw gwybodaeth bersonol i gyflawni ei gwaith;
- Nid yw'r ddyletswydd yn absoliwt. Gellir cyfiawnhau datgelu-
  - pan nad yw'r wybodaeth yn gyfrinachol;
  - pan fo'r person sy'n destun y ddyletswydd wedi rhoi caniatâd diamwys neu ddealledig i ddatgelu'r wybodaeth.

- pan fo hynny er budd cyhoeddus tra phwysig.
- pan fo angen datgelu'r wybodaeth yn ôl gorchymyn llys neu rwymedigaeth gyfreithiol arall.

A yw'r wybodaeth yn gyfrinachol?

14.18 Mae rhai mathau o wybodaeth, fel cofnodion meddygol a chyfathrebu rhwng meddyg a chlaf, yn cael eu cydnabod fel rhai sy'n destun dyletswydd hyder. Efallai na fydd hynny'n wir am fathau eraill o wybodaeth, yn enwedig os yw'r wybodaeth yn ddibwys neu ar gael yn hawdd o ffynonellau eraill neu os na fyddai cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol o fudd i'r person y mae'r wybodaeth amdano. Er enghraifft, gallai gweithiwr cymdeithasol sy'n poeni lle'r oedd y plentyn ffonio'r ysgol i weld a oedd y plentyn wedi mynychu'r diwrnod hwn.

Cynnal cyfrinachedd

14.19 Fel rheol gyffredinol dylech drin yr holl wybodaeth bersonol y cewch chi yn eich gwaith o weithio gyda phlant a theuluoedd fel gwybodaeth gyfrinachol a chymryd gofal arbennig wrth ymdrin â gwybodaeth sensitif.

Datgelu gyda chaniatâd

14.20 Ni fyddwch wedi torri cyfrinachedd os yw'r person sy'n destun y ddyletswydd hyder yn rhoi caniatâd i ddatgelu'r wybodaeth. Gall caniatâd fod yn ddiamwys (ar lafar neu'n ysgrifenedig) neu'n ddealledig o'r amgylchiadau lle rhoddwyd yr wybodaeth (caniatâd dealledig).

14.21 **Caniatâd pwy sydd ei angen?** Mae'r ddyletswydd hyder yn ddyledus i'r person sydd wedi darparu gwybodaeth ar y ddealltwriaeth y bydd y wybodaeth yn cael ei chadw'n gyfrinachol neu, yn achos cofnodion meddygol neu gofnodion eraill, y person y mae'r wybodaeth yn cyfeirio ato/ati.

14.22 **A roddwyd caniatâd?** Nid oes angen caniatâd diamwys os oes gennych chi resymau rhesymol i gredu bod y person sy'n destun y ddyletswydd yn deall ac yn derbyn bod yr wybodaeth yn mynd i gael ei datgelu. Er enghraifft, byddai person sy'n atgyfeirio cyhuddiad o gam-drin i weithiwr cymdeithasol yn disgwyl i'r wybodaeth honno gael ei rhannu ar sail yr angen i wybod gyda'r rhai sy'n gyfrifol am ddelio â'r cyhuddiad. Mae unrhyw un sy'n derbyn gwybodaeth gan wybod ei bod yn gyfrinachol hefyd yn destun dyletswydd hyder. Pan fyddwch yn rhoi neu'n derbyn gwybodaeth a ymddiriedwyd i chi dylech sicrhau bod yna ddealltwriaeth glir o ran sut bydd yn cael ei defnyddio neu ei rhannu.

14.23 **A ddylwn i ofyn am ganiatâd?** Os ydych chi'n ansicr ynglŷn ag a gafwyd caniatâd i ddatgelu gwybodaeth ai peidio mae'n well cael caniatâd diamwys. Ond ni ddylech wneud hynny pe bai'n andwyol i les

y plentyn. Er enghraifft, os oes angen yr wybodaeth ar frys efallai na ellir cyfiawnhau'r oedi i gael caniatâd. Gall gofyn am ganiatâd amharu ar ymchwiliad gan yr heddlu neu gynyddu'r perygl o niwed i'r plentyn.

14.24 **Beth os gwrthodir caniatâd?** Bydd angen i chi benderfynu a yw'r amgylchiadau'n cyfiawnhau datgelu'r wybodaeth, gan ystyried beth sy'n cael ei ddatgelu, at ba ddiben ac i bwy.

Datgelu heb ganiatâd

14.25 Mae'r gyfraith yn cydnabod y gellir cyfiawnhau datgelu gwybodaeth gyfrinachol heb ganiatâd neu orchymyn llys os yw hynny er lles y cyhoedd i atal niwed i eraill.

14.26 Y ffactor allweddol wrth benderfynu a ddylid datgelu gwybodaeth gyfrinachol yw **cymesuredd**: a yw'r datgeliad arfaethedig yn ymateb cymesur i'r angen i amddiffyn lles y plentyn. Ni ddylai faint o wybodaeth gyfrinachol a ddatgelir, a nifer y bobl sy'n derbyn y wybodaeth honno, fod yn fwy nag sy'n hollol angenrheidiol i fodloni'r budd cyhoeddus i amddiffyn iechyd a lles plentyn. Po fwyaf sensitif yw'r wybodaeth, po fwyaf pwysig yw hi bod a wnelo'r rheswm i ddatgelu â'r plentyn ac mae'n bwysicach sicrhau mai dim ond y gweithwyr proffesiynol sydd arnynt angen yr wybodaeth sy'n derbyn y deunydd ("y sail yr angen i wybod").

Y sail 'yr angen i wybod'

Ffactorau Perthnasol:

- beth yw diben datgelu'r wybodaeth?
- beth yw natur yr wybodaeth i'w datgelu a faint o wybodaeth sydd?
- i bwy y datgelir yr wybodaeth (ac a yw'r derbynnydd o dan ddyletswydd i drin y deunydd yn gyfrinachol)?
- a yw'r datgeliad arfaethedig yn ymateb cymesur i'r angen i amddiffyn lles y plentyn y mae'r wybodaeth gyfrinachol yn ymwneud ag ef?

A oes yna wahaniaeth rhwng datgelu gwybodaeth o fewn eich sefydliad a datgelu gwybodaeth i sefydliad arall?

14.27 Dylai'r dull o ddatgelu gwybodaeth fod yr un peth ble bynnag mae hynny'n digwydd – yn fewnol yn y sefydliad (ee mewn ysgol, neu wasanaethau cymdeithasol) neu rhwng asiantaethau (ee o athro i weithiwr cymdeithasol).

14.28 Bydd yr angen i ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol i eraill yn eich sefydliad yn codi'n amlach na'r angen i ddatgelu gwybodaeth i asiantaethau eraill. Er enghraifft, bydd angen i athro drafod

gwybodaeth gyfrinachol gyda'r Pennaeth Blwyddyn a Phennaeth yr Ysgol yn amlach na chyda gweithiwr cymdeithasol. Bydd disgyblion a'u rhieni yn disgwyl i drafodaethau o'r fath ddigwydd yn yr ysgol, felly bydd yna ganiatâd dealledig fel rheol. Fel arall, (ee os ydych chi'n datgelu gwybodaeth y mae plentyn wedi gofyn i chi ei chadw'n gyfrinachol) bydd rhaid i chi benderfynu a yw'r amgylchiadau'n cyfiawnhau datgelu'r wybodaeth.

Beth os yw'r ddyletswydd yn ddyletswydd i blentyn neu berson ifanc?

14.29 Efallai y bydd plentyn neu berson ifanc yn teilyngu dyletswydd hyder eu hunain. Gall person ifanc dros 16 oed, neu blentyn o dan 16 oed, sy'n gallu deall a gwneud eu penderfyniadau eu hunain, roi (neu wrthod rhoi) caniatâd i ddatgelu gwybodaeth. Fel arall, dylai person sydd â chyfrifoldeb rhieni roi caniatâd ar eu rhan.

Deddf Hawliau Dynol 1998

14.30 Mae Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (sy'n rhan o gyfraith y DU o dan y Ddeddf Hawliau Dynol 1998) yn cydnabod hawl i barchu bywyd preifat a theuluol.

- 8.1 Everyone has the right to respect for his private and family life, his home and his correspondence.
- 8.2 There shall be no interference by a public authority with exercise of this right except such as is in accordance with the law and is necessary in a democratic society in the interests of national security, public safety or the economic well-being of the country, for the prevention of disorder or crime, protection of health or morals or for the protection of rights and freedom of others.

14.31 Nid yw'r hawl yn absoliwt. Gallai datgelu gwybodaeth gyfrinachol i amddiffyn lles plentyn darfu'n sylweddol ar fywyd preifat neu deuluol person. Fodd bynnag, gellir cyfiawnhau hyn gan Erthygl 8(2) os oes angen atal troseddu neu amddiffyn iechyd a lles plentyn. Yn y bôn, dyma'r un prawf 'cymesuredd' ag sy'n berthnasol i ddyletswydd hyder cyfraith gwlad.

14.32 Os gellir cyfiawnhau rhannu gwybodaeth o dan ddyletswydd hyder cyfraith gwlad ac nad yw hynny'n torri gofynion diogelu data nac unrhyw ofynion cyfreithiol penodol eraill, dylai fodloni Erthygl 8.

Deddf Diogelu Data 1998

14.33 Mae Deddf Diogelu Data 1998 [http:www.opsi.gov.uk/ACTS/acts1998/19980029.htn] yn rheoleiddio'r broses o drin data personol. Yn y bôn, gwybodaeth sy'n cael ei chadw am unigolyn ar gyfrifiadur neu system ffeilio â llaw yw hon. Mae'r

Ddeddf yn nodi gofynion ar gyfer prosesu'r wybodaeth hon, sy'n cynnwys cael, cofnodi storio a datgelu'r wybodaeth.

14.34 Os ydych chi'n penderfynu datgelu data personol mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r Ddeddf, sy'n cynnwys wyth o egwyddorion diogelu data. Ni ddylai'r rhain fod yn rhwystr os:

- oes gennych chi bryderon arbennig am les y plentyn;
- ydych chi'n datgelu gwybodaeth i wasanaethau cymdeithasol neu weithiwr proffesiynol arall; a
- bod modd cyfiawnhau datgelu'r wybodaeth o dan ddyletswydd hyder cyfraith gwlad.

14.35 Yr egwyddorion diogelu cyntaf a'r ail yw'r rhai mwyaf perthnasol.

Yr Egwyddor Gyntaf

- Personal data shall be processed fairly and lawfully and, in particular shall not be processed unless-
  - at least one of the conditions in Schedule 2 is met; and
  - in the case of sensitive personal data, at least one of the conditions in Schedule 3 is met.

Yr Ail Egwyddor

- Personal data shall be obtained only for one or more specified lawful purposes, and shall not be further processed in any manner incompatible with that purpose or those purposes.

14.36 Ystyr tegwch ("fairness") yw bod yn agored gyda phobl ynglŷn â sut bydd gwybodaeth amdanynt yn cael ei defnyddio ac amgylchiadau posibl datgelu'r wybodaeth. Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau yn cymryd camau i hysbysu pobl o'u polisi y tro cyntaf y byddant yn gofyn am wybodaeth ganddynt ee trwy nodi hyn ar ffurflenni neu daflenni neu mewn hysbysiadau mewn ystafelloedd aros. Mae yna nifer o eithriadau i'r gofyniad hwn. Y prif rai yw pan fo angen datgelu'r wybodaeth er mwyn atal neu ganfod achos o droseddu (sy'n cynnwys cam-drin neu esgeuluso plentyn) neu fod angen gwneud hynny o dan orchymyn llys neu statud.

14.37 Mae'n rhaid bodloni amod yn Atodlen 2. Mae'r amodau hyn yn sefydlu a oes rheswm cyfreithlon i gyfiawnhau rhannu gwybodaeth. Maent yn cynnwys:

- bod testun y data (y person y mae'r data yn sôn amdano) yn rhoi caniatâd;

- bod angen datgelu'r wybodaeth i gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol;
- bod angen datgelu'r wybodaeth er budd hanfodol testun y data;
- bod angen datgelu'r wybodaeth i gyflawni swyddogaeth statudol, neu swyddogaeth gyhoeddus arall er lles y cyhoedd (ee at ddibenion asesiad adran 17 neu ymchwiliad adran 47);
- bod angen datgelu'r wybodaeth at ddibenion buddiannau cyfreithlon y sawl sy'n rhannu'r wybodaeth, ac eithrio pan na ellir gwarantu hyn yn sgil rhagfarn yn erbyn hawliau a rhyddid neu fuddiannau cyfreithlon testun y data.

14.38 Mae yna amod i gwmpasu'r rhan fwyaf o sefyllfaoedd pan fo ymarferwr yn rhannu gwybodaeth i ddiogelu lles plentyn. Yn arbennig, mae'r amod olaf (budd cyfreithlon) yn berthnasol ym mhob achos ac yn cynnwys prawf cymesuredd sy'n debyg iawn i'r un a ddefnyddiwyd i brofi achosion o dorri cyfrinachedd.

14.39 Os yw'r wybodaeth sy'n cael ei rhannu yn ddata personol sensitif, mae'n rhaid bodloni'r amod yn Atodlen 3 hefyd. Mae data personol sensitif yn ymwneud â'r elfennau canlynol o fywyd testun y data:

- tarddiad hiliol neu ethnig;
- safbwyntiau gwleidyddol;
- syniadau crefyddol;
- aelodaeth o undeb llafur;
- cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol;
- bywyd rhywiol;
- tramgwyddau troseddol.

14.40 Yr amodau perthnasol yn Atodlen 3 yw:

- bod testun y data wedi rhoi caniatâd i ddatgelu'r wybodaeth;
- bod angen datgelu'r wybodaeth i amddiffyn buddiannau hanfodol testun y data neu berson arall lle na ellir rhoi caniatâd testun y data neu ei fod wedi'i wrthod yn afresymol neu lle na ellir disgwyl ei gael yn rhesymol;
- bod angen sefydlu, gweithredu neu amddiffyn hawliau cyfreithiol;
- bod angen datgelu'r wybodaeth i gyflawni unrhyw swyddogaeth statudol.

14.41 Mae "hawliau cyfreithiol" ("*legal rights*") yn cynnwys hawliau'r plentyn o dan y Ddeddf Hawliau Dynol a gallai amddiffyn yr hawliau hynny gynnwys datgeliadau rhwng gweithwyr proffesiynol i bennu a oes angen diogelu lles plentyn. Mae cyflawni swyddogaeth statudol yn

cwmpasu rhannu gwybodaeth ymysg gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau eraill mewn cysylltiad ag asesiad adran 17 neu ymchwiliad adran 47.

14.42 Mae'r ail egwyddor diogelu data'n gofyn i ddiben datgelu'r wybodaeth fod yn wahanol i ddiben cael y wybodaeth. Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau'n cynnwys datgeliadau i asiantaethau eraill yn y dibenion a nodwyd i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae datgelu gwybodaeth i atal neu ganfod achos o droseddu trwy orchymyn llys neu statud hefyd wedi'u heithrio o'r egwyddor hon.

14.43 Os ydych chi angen cyngor ar ofynion diogelu data, dylech gysylltu â swyddog cydymffurfio diogelu data eich sefydliad neu, os nad oes swyddog o'r fath i'w gael, gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth (www.dataprotection.gov.uk).

Darpariaethau Statudol Eraill

14.44 Mae Adrannau 27 a 47 o Ddeddf Plant 1989 yn galluogi awdurdodau lleol i ofyn am gymorth gan awdurdodau penodol (awdurdodau lleol eraill, awdurdodau addysg, awdurdodau tai, cyrff GIG) ac yn gosod rhwymedigaeth ar yr awdurdodau hynny i gydweithredu. Un cais posibl am gymorth fyddai cais am wybodaeth mewn cysylltiad ag asesiad adran 17 neu ymchwiliad adran 47. Ni fyddai'r naill ddarpariaeth na'r llall yn golygu tor-hyder heb gyfiawnhad. Ond ni ddylai awdurdod wrthod cais heb ystyried yr holl amgylchiadau.

14.45 Mae Adran 115 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn galluogi unrhyw berson i ddatgelu gwybodaeth i awdurdod perthnasol at unrhyw ddibenion o'r Ddeddf os na fyddai ganddynt y pŵer i wneud hynny fel arall. Mae awdurdodau perthnasol yn cynnwys awdurdodau lleol, cyrff GIG ac awdurdodau heddlu. Mae dibenion y Ddeddf yn fras yn cwmpasu atal a lleihau troseddu a nodi neu arestio troseddwyr.

Datgelu Gwybodaeth am Droseddwyr Rhyw

14.46 Mae'r Swyddfa Gartref [http://www.homeoffice.gov.uk] wedi cynhyrchu canllawiau[7] ar gyfnewid gwybodaeth am unrhyw un sydd wedi'u cael yn euog, neu wedi cael eu rhybuddio, neu wedi bod o flaen llys am drosedd rywiol; a'r rhai y mae'r asiantaethau perthnasol yn eu hystyried fel pobl sy'n achosi perygl i blant ac eraill. Mae'r canllawiau hefyd yn mynd i'r afael â materion sy'n codi mewn perthynas â phobl nad ydynt wedi'u cael yn euog neu wedi cael rhybudd am droseddau, ond yr amheuir eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol troseddol.

14.47 Mae'r canllawiau'n pwysleisio y dylai datgelu gwybodaeth ddigwydd bob amser o fewn system sefydledig a phrotocol rhwng asiantaethau, a dylid cynnwys y broses mewn system asesu a rheoli risg. Dylai pob achos gael ei farnu'n unigol gan yr heddlu ac asiantaethau perthnasol eraill, gan ystyried faint o risg sy'n gysylltiedig. Mae'r canllawiau'n rhoi

cyfrifoldeb ar yr heddlu i gydgysylltu ac arwain y broses asesu a rheoli risg. Mae'n cynghori y dylai asiantaethau weithio o fewn protocolau rhannu gwybodaeth sydd wedi'u cynllunio'n ofalus, ac yn cyfeirio at ddeunydd arferion gorau sydd ar gael. Mae hefyd yn hyrwyddo sefydlu paneli perygl aml-asiantaeth i rannu gwybodaeth am droseddwyr ac i lunio strategaethau i reoli eu perygl.

Canllawiau Proffesiynol

Meddygol

14.48 Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) wedi cynhyrchu canllawiau ar gyfrinachedd (1995). Mae'n pwysleisio pwysigrwydd cael caniatâd claf i ddatgelu gwybodaeth bersonol dan y rhan fwyaf o amgylchiadau, ond yn nodi'n glir y gellir rhyddhau gwybodaeth i drydydd partïon – heb ganiatâd os oes angen – dan rai amgylchiadau. Mae'r amgylchiadau hynny'n cynnwys y canlynol:

Datgelu er lles meddygol y claf

14.49 "Problems may arise if you consider that patient is incapable of giving consent to treatment because of immaturity, illness, or mental incapacity, and you have tried unsuccessfully to persuade the patient to allow an appropriate person to be involved in the consultation. If you are convinced that it is essential in the patient's medical interests, you may disclose relevant information to an appropriate person or authority. You must tell the patient before disclosing any information. You should remember that the judgement of whether patients are capable of giving or withholding consent to treatment or disclosure must be based on an assessment of their ability to appreciate what the treatment or advice being sought may involve, and not solely on their age. (para. 10)

14.50 "If you believe a patient to be a victim of neglect or physical or sexual abuse, and unable to give or withhold consent to disclosure, you should usually give this information to an appropriate responsible person or statutory agency, in order to prevent further harm to the patient. In these and similar circumstances, you may release information without the patient's consent, but only if you consider that the patient is unable to give consent, and that the disclosure is in the patient's best medical interests." (para. 11)

Datgelu er lles eraill

14.51 "Disclosures may be necessary in the public interest where a failure to disclose information may expose the patient, or others, to risk of death or serious harm. In such circumstances you should disclose the information promptly to an appropriate person or authority." (para. 18)

14.52 Mae'r GMC wedi cadarnhau bod ei ganllawiau ar ddatgelu gwybodaeth a allai helpu i atal neu ganfod achosion o gam-drin, yn berthnasol i wybodaeth am drydydd partïon (ee oedolion a allai achosi perygl o niwed i blentyn), ac am blant a allai fod yn cael eu cam-drin.

Nyrsio

14.53 Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) wedi cyhoeddi cyngor ar ymarfer proffesiynol (2006), sy'n cynnwys y cyngor canlynol ar ddatgelu gwybodaeth [http://www.nmc-uk.org/aFrameDisplay.aspx?DocumentID=1560]:

"**Disclosing information**

Registrants need to take account of clauses 5.3 and 5.4 of the Code before deciding to disclose information:

5.3 If you are required to disclose information outside the team that will have personal consequences for patients or clients, you must obtain their consent. If the patient or client withholds consent, or if consent cannot be obtained for whatever reason, disclosures may bemade only where:

1. They can be justified in the public interest (usually where disclosure is essential to protect the patient or client or someone else from the risk of significant harm);
2. They are required by law or by order of a court.

5.4 Where there is an issue of child protection, you must act at all times in accordance with national and local policies.

Registrants who decide to disclose confidential without the patient's/client's consent should do so only in exceptional circumstances. They should be able to justify their actions. Disclosure without consent is done only in the public interest to protect individuals, groups or society as a whole from the risk of significant harm. Examples could include child abuse, serious crime or drug trafficking."

Cadw Cofnodion

14.54 Mae cadw cofnodion da yn rhan bwysig o atebolrwydd gweithwyr proffesiynol i'r rhai sy'n defnyddio eu gwasanaethau. Mae'n helpu i ganolbwyntio gwaith, ac yn hanfodol i weithio'n effeithiol ar draws ffiniau asiantaethau a ffiniau proffesiynol. Mae cofnodion clir a chywir yn sicrhau bod yna gofnod wedi'i ddogfennu o waith yr asiantaeth neu weithiwr proffesiynol gyda phlentyn a/neu teulu. Maent yn helpu gyda dilyniant pan nad yw gweithwyr unigol ar gael neu pan fo gweithwyr yn newid, ac yn darparu dull hanfodol i reolwyr fonitro gwaith neu ar gyfer adolygiad gan gymheiriaid. Mae cofnodion yn ffynhonnell dystiolaeth

hanfodol ar gyfer ymchwiliadau ac ymholiadau, ac efallai y bydd angen eu datgelu mewn achosion llys. Dylid cadw achosion lle nad yw'r ymholiadau'n arwain at gadarnhau pryderon sydd wedi'u hatgyfeirio yn unol â pholisïau cadw cofnodion yr asiantaeth. Dylai'r polisïau hyn sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel a bod modd eu hadfer yn sydyn ac effeithlon.

14.55 I wasanaethu'r dibenion hyn, dylid rhoi amser a dyddiad ar gofnodion, defnyddio iaith uniongyrchol a chlir, dylent fod yn gryno a chywir yn ffeithiol a hefyd o ran gwahaniaethu rhwng barn, dyfarniadau a damcaniaeth.

14.56 Mae cofnodion da yn rhoi sylfaen hanfodol i arferion amddiffyn plant da. Er mwyn diogelu plant yn briodol, mae angen casglu gwybodaeth o ffynonellau niferus a gwneud penderfyniadau proffesiynol gofalus ar sail y wybodaeth honno. Dylai cofnodion fod yn glir, hygyrch a chynhwysfawr, gyda dyfarniadau wedi'u gwneud, a chamau gweithredu a phenderfyniadau wedi'u cofnodi'n ofalus. Dylid nodi'n glir os oes penderfyniadau wedi'u cymryd ar y cyd rhwng gwahanol asiantaethau, neu wedi'u cymeradwyo gan reolwr.

14.57 Fel rheol, bydd gwybodaeth berthnasol am blentyn neu deulu sy'n destun pryderon amddiffyn plant wedi'i choladu mewn un lle gan yr adran gwasanaethau cymdeithasol. Yn benodol, dylai'r darllenydd allu olrhain:

- hanes perthnasol y plentyn a'r teulu a arweiniodd at yr ymyrraeth;
- natur ymyriadau, yn cynnwys canlyniadau a fwriedir;
- y dull o gyflawni newid a'r;
- cynnydd a wneir.

14.58 Dylai asiantaethau ystyried pa asiantaethau a gweithwyr proffesiynol eraill sydd angen eu hysbysu am newid mewn amgylchiadau, er enghraifft newid ym Meddyg Teulu plentyn sydd ar y gofrestr amddiffyn plant. Dylai pob asiantaeth sicrhau bod cofnodion y plentyn yn cael eu trosglwyddo'n fuan i'r asiantaeth berthnasol yn yr ardal newydd pan fo plentyn yn symud i ardal arall.

Goruchwyliaeth a Chymorth

14.59 Mae'n rhaid gwneud penderfyniadau proffesiynol anodd a pheryglus wrth weithio ym maes amddiffyn plant. Mae'n waith heriol sy'n gallu achosi gofid a straen. Dylai pawb sy'n gysylltiedig â'r gwaith allu cael gafael ar gyngor a chymorth, gan gymheiriaid, rheolwyr, gweithwyr proffesiynol penodol a dynodedig ac ati.

14.60 I lawer o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd o ddydd i ddydd, mae goruchwyliaeth effeithiol yn bwysig i hyrwyddo

safonau ymarfer da ac i gefnogi aelodau staff unigol. Dylai goruchwyliaeth helpu i sicrhau bod ymarfer yn gadarn ac yn gyson â gweithdrefnau BLIDP a gweithdrefnau sefydliadol. Dylai sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu swyddogaethau, cyfrifoldebau a chwmpas eu disgresiwn proffesiynol a'u hawdurdod yn llawn. Dylai hefyd helpu i nodi a datblygu anghenion ymarferwyr fel bod gan bob un y sgiliau angenrheidiol i ddarparu gwasanaeth effeithiol.

14.61 Dylai goruchwyliaeth gynnwys craffu a gwerthuso'r gwaith a gyflawnwyd, asesu cryfderau a gwendidau'r ymarferwr a darparu datblygiad hyfforddi a chymorth bugeiliol. Dylai ymarferwyr allu cysylltu â goruchwylwyr i gael cyngor ac arbenigedd ac efallai y bydd gofyn iddynt gymeradwyo penderfyniadau ar adegau allweddol yn y prosesau amddiffyn plant. Dylai goruchwylwyr gofnodi penderfyniadau allweddol mewn cofnodion achos hefyd.

14.62 Dylai trefniadau effeithiol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant gynnwys systemau, safonau a phrotocolau y cytunwyd arnynt ar gyfer rhannu gwybodaeth am blentyn a'i deulu ym mhob sefydliad a rhwng sefydliadau. Dylai'r protocolau lleol hyn gydymffurfio â'r canllawiau hyn.

14.63 Dylai pawb sy'n dod i gysylltiad â phlant trwy eu gwaith ddeall diben rhannu gwybodaeth er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant. Mae angen iddynt fod yn hyderus ynglŷn â beth ellir ac y dylid ei wneud o dan y gyfraith, yn cynnwys sut i gael caniatâd neu rannu gwybodaeth, a phryd gellir rhannu gwybodaeth hyd yn oed pan na chafwyd caniatâd neu y byddai gofyn am ganiatâd yn rhoi'r plentyn mewn perygl o niwed cynyddol.

14.64 Mae ymchwil a phrofiad wedi dangos dro ar ôl tro bod angen i weithwyr proffesiynol ac eraill rannu gwybodaeth er mwyn gallu cadw plant yn ddiogel: gwybodaeth am iechyd a datblygiad plant a'u cysylltiad â niwed posibl; gwybodaeth am riant a all fod angen cymorth i ofalu am blentyn yn ddigonol a diogel neu na all wneud hynny; a gwybodaeth am y rhai a allai achosi perygl o niwed i blentyn. Yn aml, dim ond ar ôl rhannu gwybodaeth o ffynonellau niferus a'i gwerthuso y gellir gweld bod plentyn mewn perygl neu'n dioddef o niwed, neu y gallai rhywun fod yn achosi perygl o niwed i blant.

14.65 Bydd y rhai sy'n darparu gwasanaethau i oedolion a phlant yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng eu dyletswyddau i amddiffyn plant rhag niwed a'u dyletswydd gyffredinol tuag at eu claf neu ddefnyddiwr y gwasanaeth. Mae rhai gweithwyr a staff proffesiynol yn wynebu'r elfen ychwanegol o fod yn gysylltiedig â gofalu am, neu gefnogi, mwy nag un aelod o deulu - y plentyn sy'n cael ei gam-drin, brodyr a chwiorydd, y sawl sy'n cael ei gyhuddo o gam-drin. Fodd bynnag, pan mae yna bryderon bod plentyn mewn perygl o niwed sylweddol, neu y gallai fod mewn niwed sylweddol, dylai anghenion y plentyn ddod yn gyntaf. Dan amgylchiadau o'r fath, y prif nod fydd diogelu a hyrwyddo lles y plentyn. Yn ogystal, mae angen i bob sefydliad gadw gwybodaeth yn ddiogel.

14.66 Er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant, dylai'r BLlDP sicrhau bod gan ei asiantaethau partner drefniadau ar waith o dan a28 o Ddeddf Plant 2004 lle mae:

- yr holl staff sy'n dod i gysylltiad â phlant yn deall beth i'w wneud a'r dulliau mwyaf effeithiol o rannu gwybodaeth os ydynt yn credu bod angen gwasanaethau ychwanegol o bosibl ar blentyn a theulu er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau;
- yr holl staff sy'n dod i gysylltiad â phlant yn deall beth i'w wneud a phryd i rannu gwybodaeth os ydynt yn credu bod y plentyn yn blentyn mewn angen, yn cynnwys y plant sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed;
- canllawiau priodol sy'n benodol i wahanol sefydliadau yn cael eu cynhyrchu i ategu canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru a bod canllawiau o'r fath a hyfforddiant priodol yn cael eu darparu i staff cyfredol a staff newydd fel rhan o'u trefniadau cynefino;
- canllawiau a hyfforddiant yn cwmpasu rhannu gwybodaeth rhwng proffesiynau, sefydliadau ac asiantaethau, yn ogystal ag yn y sefydliadau hyn, a bod trefniadau ar gyfer hyfforddiant yn ystyried gwerth hyfforddiant aml-asiantaeth yn ogystal ag hyfforddiant asiantaeth unigol;
- rheolwyr gwasanaethau plant yn hollol gyfarwydd â'r fframwaith cyfreithiol a'r canllawiau arfer da a gyhoeddir ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant.

Atodiad A

Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd

Mae'r Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd (a amlinellir yn Ffigur 1) yn darparu sail systematig ar gyfer casglu a dadansoddi gwybodaeth i gefnogi penderfyniadau proffesiynol ynghylch sut i helpu plant a theuluoedd er lles y plentyn. Dylai ymarferwyr ddefnyddio'r fframwaith i feithrin dealltwriaeth o anghenion datblygiadol y plentyn; gallu'r rhieni neu'r gofalwyr i ymateb yn briodol i'r anghenion hynny, gan gynnwys eu gallu i ddiogelu'r plentyn rhag niwed; ac effaith ffactorau teuluol ac amgylcheddol ehangach ar y rhieni a'r plentyn. Caiff pob un o'r tair prif agwedd ar y fframwaith - anghenion datblygu'r plentyn, gallu'r rhieni; a ffactorau teuluol ac amgylcheddol ehangach - eu hamlinellu'n fanylach ym Mlychau 1, 2 a 3 yn y drefn honno.


Bydd y fframwaith yn cael ei ddefnyddio yn adrannau'r gwasanaethau cymdeithasol i asesu pob plentyn mewn angen, gan gynnwys y rhai lle mae gofidiau y gallai plentyn fod yn dioddef niwed sylweddol. Dylai'r broses o gynnal asesiad gael ei hystyried fel rhan o'r ystod o wasanaethau a gynigir i blant a theuluoedd.

Dylai defnyddio'r fframwaith ddarparu tystiolaeth i helpu, arwain a llywio penderfyniadau am les a diogelwch plentyn o'r cyswllt cyntaf, trwy brosesau o asesiadau cychwynnol ac asesiadau craidd manylach, yn unol â natur a graddau anghenion y plentyn. Nid ddylai darparu gwasanaethau priodol aros tan ddiwedd y broses asesu ac nid oes angen i hynny ddigwydd chwaith, ond dylid ei bennu yn unol â'r hyn sydd ei angen, a phryd y mae ei angen, er mwyn hyrwyddo lles a diogelwch y plentyn.

Dylai tystiolaeth am gynnydd datblygiadol plant - a gallu eu rhieni i ymateb yn briodol i anghenion y plentyn yng nghyd-destun ehangach y teulu a'r amgylchedd - fod yn sail i benderfyniadau ynghylch:

- lles a diogelwch y plentyn;
- p'un a i ddarparu cymorth i blant ac aelodau'r teulu ac os felly, sut; a
- pha fath o ymyriad a fydd yn dod â'r canlyniad gorau posibl i'r plentyn, a beth yw canlyniadau bwriedig yr ymyrryd.

Ffigur 1 Fframwaith Asesu



Assessment Framework – Fframwaith Asesu

Blwch 1

DIMENSIYNAU ANGHENION DATBLYGIADOL PLENTYN

Iechyd

Mae hyn yn cynnwys twf a datblygiad yn ogystal â lles corfforol a meddyliol. Mae angen ystyried effaith ffactorau genetig ac unrhyw nam. Mae'n cynnwys derbyn gofal iechyd priodol pan fyddant yn sâl, deiet digonol a maethlon, ymarfer corff, imiwneiddiadau lle bo hynny'n briodol ac archwiliadau datblygiadol, gofal deintyddol ac optegol ac, ar gyfer plant hŷn, cyngor a gwybodaeth briodol am faterion sy'n cael effaith ar iechyd, gan gynnwys addysg rhyw a chamddefnyddio sylweddau.

Addysg

Mae hyn yn ymdrin â holl feysydd datblygiad gwybyddol plant, sy'n dechrau o'u genedigaeth. Mae'n cynnwys cyfleoedd: i chwarae a rhyngweithio gyda phlant eraill i gael mynediad at lyfrau; i gaffael ystod o sgiliau a diddordebau; i brofi llwyddiant a chyflawniad. Mae'n cynnwys oedolyn sydd â diddordeb mewn gweithgareddau addysgol, cynnydd a chyflawniadau, sy'n ystyried man cychwyn y plentyn ac unrhyw anghenion addysgol arbennig.

Datblygiad Emosiynol ac Ymddygiad

Mae'n ymwneud â phriodoldeb yr ymateb a ddengys plentyn mewn teimladau a gweithredoedd, i ddechrau i rieni a gofalwyr ac, wrth i blentyn dyfu'n hŷn, i bobl eraill y tu hwnt i'r teulu. Mae'n cynnwys natur ac ansawdd ymlyniadau cynnar, nodweddion o ran cymeriad, addasu i newid, ymateb i straen a graddau o hunanreolaeth briodol.

Hunaniaeth

Mae'n ymwneud ag ymdeimlad cynyddol plentyn o'i hun fel unigolyn ar wahân ac unigolyn a werthfawrogir. Mae'n cynnwys barn plentyn amdano'i hun a'i alluoedd, hunanddelwedd a hunan-barch, a meddu ar ymdeimlad cadarnhaol o unigoliaeth. Gallai hil, crefydd, oedran, rhyw, rhywioldeb ac anabledd gyfrannu at hyn. Teimladau o berthyn a chael eu derbyn gan y teulu, cyfoedion, a'r gymdeithas ehangach, gan gynnwys grwpiau diwylliannol eraill.

Perthnasoedd Teuluol a Chymdeithasol

Meithrin empathi a'r gallu i roi ei hun yn esgidiau rhywun arall. Mae'n cynnwys perthynas sefydlog ac annwyl gyda rhieni neu'r sawl sy'n rhoi gofal, perthynas dda gyda brodyr a chwiorydd, pwysigrwydd cynyddol cyfeillgarwch priodol i oedran gyda chyfoedion ac unigolion arwyddocaol eraill ym mywyd y plentyn ac ymateb y teulu i'r perthnasoedd hyn.

Ymddygiad Cymdeithasol

Mae'n ymwneud â dealltwriaeth gynyddol plentyn o'r ffordd y mae ymddangosiad, ymddygiad ac unrhyw nam yn cael eu hystyried gan y byd tu allan a'r argraff a grëir. Mae'n cynnwys priodoldeb gwisg ar gyfer oedran, rhyw, diwylliant a chrefydd; glanweithdra a hylendid personol; ac argaeledd cyngor gan rieni neu'r sawl sy'n rhoi gofal am ymddygiad mewn sefyllfaoedd gwahanol.

Sgiliau Hunanofal

Mae'n ymwneud â'r plentyn yn datblygu medrau ymarferol, emosiynol a chyfathrebu sy'n ofynnol ar gyfer annibyniaeth gynyddol. Mae'n cynnwys sgiliau ymarferol gwisgo a bwydo cynnar, cyfleoedd i fagu hyder ac ennill sgiliau ymarferol i ymgymryd â gweithgareddau heb y teulu a sgiliau byw'n annibynnol fel plant hŷn. Mae'n cynnwys anogaeth i ddatblygu dulliau o ddatrys problemau cymdeithasol. Dylid rhoi sylw arbennig i effaith nam a gwendidau eraill plentyn, ac ar amgylchiadau cymdeithasol sy'n effeithio ar y rhain wrth ddatblygu sgiliau hunanofal.

Blwch 2

DIMENSIYNAU GALLU RHIANTA

Gofal Sylfaenol

Darparu ar gyfer anghenion corfforol plentyn a gofal meddygol a deintyddol priodol. Mae'n cynnwys darparu bwyd, diod, gwres, cysgod, dillad glân a phriodol a hylendid personol digonol.

Sicrhau Diogelwch

Sicrhau y caiff plentyn ei amddiffyn yn ddigonol rhag niwed neu berygl.
Mae'n cynnwys amddiffyn rhag niwed neu berygl arwyddocaol, a rhag cyswllt gydag oedolion/plant eraill anniogel a rhag hunananafu. Cydnabod peryglon yn y cartref ac mewn mannau eraill.

Cynhesrwydd Emosiynol

Sicrhau y caiff anghenion emosiynol plentyn eu bodloni gan roi i blentyn ymdeimlad o gael ei werthfawrogi'n arbennig ac ymdeimlad cadarnhaol o'i hunaniaeth hiliol a diwylliannol ei hun.
Mae'n cynnwys sicrhau gofynion y plentyn am berthnasoedd diogel, sefydlog ac annwyl gydag oedolion arwyddocaol, gyda sensitifrwydd ac ymatebolrwydd priodol i anghenion y plentyn. Cyswllt corfforol, cysur ac anwesu priodol sy'n ddigonol i ddangos ystyriaeth wresog, canmoliaeth ac anogaeth.

Ysgogiad

Hyrwyddo dysgu a datblygiad deallusol plentyn trwy anogaeth ac ysgogiad gwybyddol a thrwy hyrwyddo cyfleoedd cymdeithasol.

Mae'n cynnwys hwyluso datblygiad gwybyddol a photensial y plentyn trwy ryngweithio, cyfathrebu, siarad ac ymateb i iaith a chwestiynau plant, gan annog ac ymuno yn chwarae'r plentyn, a hyrwyddo cyfleoedd addysgol. Galluogi'r plentyn i brofi llwyddiant a sicrhau presenoldeb yn yr ysgol neu gyfle cyfatebol. Cynorthwyo'r plentyn i fodloni heriau bywyd.

Arweiniad a Ffiniau

Galluogi'r plentyn i reoli ei emosiynau a'i ymddygiad ei hun.

Y tasgau rhianta allweddol yw dangos a modelu ymddygiad priodol a rheoli emosiynau a rhyngweithio gydag eraill, ac arweiniad sy'n golygu pennu ffiniau, er mwyn i'r plentyn allu datblygu model mewnol o werthoedd a chydwybod moesol, ac ymddygiad cymdeithasol sy'n briodol i'r gymdeithas y byddant yn tyfu i fyny ynddi. Y nod yw galluogi'r plentyn i dyfu i fyny'n oedolyn annibynnol, gan feddu ar eu gwerthoedd eu hunain, a gallu ymddwyn yn briodol gydag eraill yn hytrach na bod yn ddibynnol ar reolau y tu allan iddynt. Mae hyn yn cynnwys peidio â goramddiffyn plant rhag profiadau archwiliol a dysgu.

Mae'n cynnwys datrys problemau cymdeithasol, rheoli dicter, bod yn ystyriol am bobl eraill, a disgyblaeth effeithiol a ffurfio ymddygiad.

Sefydlogrwydd

Darparu amgylchedd teuluol digon sefydlog i alluogi plentyn i ddatblygu a chynnal ymlyniad diogel i'r prif un/rhai sy'n rhoi gofal er mwyn sicrhau'r datblygiad gorau posibl. Mae'n cynnwys: sicrhau na fydd ymyrryd ar ymlyniadau diogel, darparu cysondeb o ran cynhesrwydd emosiynol dros amser ac ymateb mewn ffordd debyg i'r un ymddygiad. Mae ymatebion rhieni'n newid ac yn datblygu yn unol â chynnydd datblygiadol y plentyn. Yn ogystal, sicrhau bod plant yn cadw mewn cysylltiad ag aelodau pwysig o'r teulu a phobl arwyddocaol eraill.

Blwch 3

FFACTORAU TEULUOL AC AMGYLCHEDDOL

Hanes a Swyddogaeth y Teulu

Mae hanes y teulu'n cynnwys ffactorau genetig a seicogymdeithasol.

Dylanwadir ar weithrediad y teulu gan bwy sy'n byw yn y cartref a sut maent yn perthyn i'r plentyn; newidiadau arwyddocaol yng nghyfansoddiad y teulu/cartref; hanes profiadau plentyndod rhieni; trefn digwyddiadau bywyd arwyddocaol a'u hystyr i aelodau'r teulu; natur gweithrediad y teulu, gan gynnwys perthnasoedd brodyr a chwiorydd a'u heffaith ar y plentyn; cryfderau ac anawsterau rhieni, gan gynnwys rhai rhiant absennol; y berthynas rhwng rhieni wedi gwahanu.

Y Teulu Ehangach

Pwy mae'r plentyn a'r rhieni'n ystyried yw aelodau'r teulu ehangach? Mae hyn yn cynnwys unigolion sy'n perthyn ac unigolion nad ydynt yn perthyn a theulu ehangach absennol. Beth yw eu swyddogaeth a'u pwysigrwydd i'r plentyn a'r rhieni ac ym mha ffordd yn gywir?

Tai

A oes gan yr adeilad amwynderau a chyfleusterau sylfaenol sy'n briodol i oedran a datblygiad y plentyn ac aelodau preswyl eraill? A yw'r tai o fewn cyrraedd ac yn addas i anghenion aelodau anabl o'r teulu? Mae hyn yn cynnwys y tu fewn a'r tu allan i'r adeilad a'r hyn sydd yn uniongyrchol o'i amgylch. Mae amwynderau sylfaenol yn cynnwys dŵr, gwres, iechydaeth, cyfleusterau coginio, trefniadau cysgu a glanweithdra, hylendid a diogelwch a'u heffaith ar fagwraeth plentyn.

Cyflogaeth

Pwy sy'n gweithio yn y cartref, eu patrwm gwaith ac unrhyw newidiadau? Pa effaith y mae hyn yn ei chael ar y plentyn? Sut caiff gwaith neu absenoldeb gwaith eu hystyried gan aelodau'r teulu? Sut mae'n effeithio ar eu perthynas gyda'r plentyn? Mae'n cynnwys profiad y plentyn o waith a'i effaith arno.

Incwm

Incwm sydd ar gael dros gyfnod parhaus o amser. A yw'r teulu'n derbyn yr holl fudd-daliadau y mae ganddynt hawl i'w cael? Digon o incwm i fodloni anghenion y teulu. Y ffordd y caiff adnoddau sydd ar gael i'r teulu eu defnyddio. A oes anawsterau ariannol sy'n effeithio ar y plentyn?

Integreiddio Cymdeithasol Teulu

Archwilio cyd-destun ehangach y gymdogaeth a'r gymuned leol a'i effaith ar y plentyn a'r rhieni. Mae'n cynnwys y graddau y mae'r teulu wedi'i integreiddio neu'i ynysu, eu grwpiau cyfoed, cyfeillgarwch a rhwydweithiau cymdeithasol a'u pwysigrwydd.

Adnoddau Cymunedol

Mae'n disgrifio'r holl gyfleusterau a'r gwasanaethau mewn cymdogaeth, gan gynnwys gwasanaethau cyffredinol gofal iechyd sylfaenol, gofal dydd ac ysgolion, mannau addoli, cludiant, siopau a gweithgareddau hamdden. Mae'n cynnwys argaeledd, hygyrchedd a safon adnoddau ac effaith ar y teulu, gan gynnwys aelodau anabl o'r teulu.

Atodiad B

Defnydd o holiaduron a graddfeydd fel tystiolaeth o asesu a gwneud penderfyniadau

1. **Holiaduron Cryfderau ac Anawsterau** (Goodman et al, 1997; Goodman et al, 1998). Mae'r graddfeydd hyn yn addasiad o'r offerynnau a ddefnyddir ar raddfa eang i sgrinio ar gyfer problemau emosiynol ac ymddygiad mewn plant a'r glasoed - graddfeydd A + B Rutter i rieni ac athrawon. Er yn debyg i Rutter, diwygiwyd geiriad yr Holiadur Cryfderau ac Anawsterau i ganolbwyntio ar gryfderau emosiynol ac ymddygiad plentyn yn ogystal ag anawsterau. Mae'r holiadur a ddefnyddiwyd yn ymgorffori pum graddfa: cymdeithasgarwch, gorfywiogrwydd, problemau emosiynol, problemau ymddygiad, a phroblemau gyda chyfoedion. Yn y pecyn, ceir fersiynau o'r raddfa i'w chwblhau gan yr oedolion sy'n rhoi gofal, neu athrawon ar gyfer plant 3 i 16 oed, a phlant rhwng 11-16 oed. Defnyddiwyd yr holiaduron hyn gyda phlant anabl a'u hathrawon a'u gofalwyr. Maent ar gael mewn 40 iaith ar y wefan ganlynol: http://chp.iop.kcl.ac.uk/sdq/b3.html.

2. **Graddfa Trafferthion Dyddiol Magu Plant** (Crinic a Greenberg, 1990; Crinic a Booth, 1991). Nod y raddfa hon yw asesu amledd a dwysedd/effaith 20 o drafferthion 'dyddiol' posibl magu plant a brofir gan oedolion sy'n gofalu am blant. Fe'i defnyddir mewn amrywiaeth eang o astudiaethau ymchwil sy'n ymwneud â phlant a theuluoedd - yn enwedig teuluoedd gyda phlant ifanc. Canfuwyd bod rhieni (neu ofalwyr) yn hoffi ei llenwi yn gyffredinol, gan ei bod yn cyffwrdd ar lawer o agweddau ar fod yn rhiant sy'n bwysig iddynt.

3. Mae'r **Holiadur Digwyddiadau Bywyd Diweddar** (A gymerwyd o Brugha *et* al, 1985) yn helpu diffinio digwyddiadau negyddol bywyd dros y 12 mis diwethaf, ond gellir ei ddefnyddio dros gyfnod hwy, ac yn arwyddocaol a oedd yr ymatebwr yn credu bod ganddynt ddylanwad parhaus. Gofynnir i ymatebwyr nodi pa ddigwyddiadau sy'n parhau i effeithio arnynt. Y gobaith oedd y byddai defnyddio'r raddfa:

    - yn arwain at ddarlun llawnach o hanes y teulu ac yn cyfrannu at fwy o ddealltwriaeth gyd-destunol o sefyllfa'r teulu ar hyn o bryd;
    - yn helpu ymarferwyr i archwilio sut mae digwyddiadau bywyd diweddar penodol wedi effeithio ar y gofalwr a'r teulu;
    - mewn rhai sefyllfaoedd, yn nodi digwyddiadau bywyd na wnaeth aelodau'r teulu gyfeirio atynt yn gynharach.

4. Mae'r **Asesiad o Amodau'r Cartref** (Davie *et al, 1984)* o gymorth i wneud penderfyniadau am y cyd-destun yr oedd y plentyn yn byw ynddo, gan ymdrin â chwestiynau o ran diogelwch, trefn a glanweithdra sy'n fater pwysig lle mae materion esgeulustod yn destun pryder.

Canfuwyd bod cyfanswm y sgôr yn cydberthyn i raddau helaeth â mynegeion datblygiad plant.

5. Mae'r **Raddfa Gweithgarwch Teuluol** (Sy'n deillio o'r Raddfa Plentyn-Ganolog. Smith, 1985) yn rhoi cyfle i ymarferwyr archwilio gyda'r gofalwyr yr amgylchedd a ddarperir ar gyfer eu plant, trwy weithgareddau ar y cyd a chefnogaeth ar gyfer gweithgareddau annibynnol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am yr amgylchedd diwylliannol ac ideolegol y mae plant yn byw ynddo, yn ogystal â sut mae eu gofalwyr yn ymateb i weithredoedd eu plant (er enghraifft, yn ymwneud â chwarae ac annibyniaeth). Eu nod yw bod yn annibynnol ar adnoddau cymdeithasol-economaidd. Mae yna ddwy raddfa ar wahân; un ar gyfer plant rhwng 2-6 oed, ac un ar gyfer plant 7-12 oed.

6. **Graddfa Alcohol**. Datblygwyd y raddfa hon gan Piccinelli et al (1997). Amcangyfrifir bod camddefnyddio alcohol yn bresennol mewn rhyw 6% o brif ofalwyr, sy'n ei raddio'n drydydd o ran amledd ar ôl iselder ysbryd mawr a phryder cyffredinol. Canfuwyd cyfraddau uwch mewn rhai ardaloedd, ac yn enwedig ymhlith y rhieni hynny sy'n hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae yfed alcohol yn effeithio ar unigolion gwahanol mewn ffyrdd gwahanol. Er enghraifft, hwyrach nad effeithir rhyw lawer ar rai pobl gan yr un swm o alcohol sy'n analluogi pobl eraill. Felly, y prif ofid yw nid yw faint o alcohol a gaiff ei yfed, ond sut mae'n effeithio ar yr unigolyn ac, yn fwy penodol, ar eu swyddogaeth fel rhiant. Canfuwyd bod yr holiadur hwn yn effeithiol yn canfod unigolion ag anhwylderau alcohol a'r rhai ag arferion yfed peryglus.

7. **Graddfa Lles Oedolion** (Anniddigrwydd, Iselder Ysbryd, Pryder – Graddfa IDA. Snaith et al, 1978). Dyfeisiwyd y raddfa hon, sy'n seiliedig ar y Raddfa Anniddigrwydd, Iselder Ysbryd a Phryder, gan weithiwr cymdeithasol a oedd yn cymryd rhan yn y peilot. Mae'r cwestiynau wedi'u llunio mewn ffordd 'bersonol' (hynny yw, rwy'n teimlo, mae gen i awydd…). Mae'r raddfa hon yn edrych ar sut mae oedolyn yn teimlo o ran ei iselder ysbryd, ei bryder a'i anniddigrwydd. Mae'r raddfa'n galluogi'r oedolyn i ymateb gan ddewis un o bedwar ateb posibl, sy'n rhoi rhywfaint o ddewis i oedolion, ac felly llai o gyfyngiad. Gallai hyn alluogi'r oedolyn i deimlo'n fwy grymus.

8. **Graddfa Lles y Glasoed** (Graddfa Hunanraddio ar gyfer Iselder Ysbryd mewn Pobl Ifanc. Birleson, 1980). Fe'i dilyswyd yn wreiddiol ar gyfer plant rhwng 7-16 oed. Mae'n cynnwys 18 cwestiwn gyda phob un yn ymwneud ag agweddau gwahanol ar fywyd plentyn neu unigolyn ifanc, a sut maent yn teimlo am y rhain. O ganlyniad i'r peilot, newidiwyd geiriad rhai cwestiynau er mwyn bod yn fwy priodol i bobl ifanc. Er bod plant mor ifanc â saith ac wyth oed wedi'i defnyddio, mae meddyliau a chredoau plant hŷn am eu hunain yn fwy sefydlog. Diben y raddfa yw galluogi ymarferwyr i gael mwy o ddealltwriaeth ynglŷn â sut mae unigolyn ifanc yn teimlo am ei fywyd.

9. Mae asesiad **Llawlyfr Arsylwi yn y Cartref** (Cox a Walker, 2002) trwy gyfweld ac arsylwi yn cynnig proffil helaeth o'r cyd-destun gofal a ddarperir ar gyfer y plentyn ac mae'n ddull dibynadwy o asesu rhianta. Mae'n rhoi adroddiad dibynadwy o allu rhieni i ddarparu deunyddiau dysgu, ysgogiad iaith, ac amgylchedd ffisegol priodol, i fod yn ymatebol, yn ysgogol, gan ddarparu amrywiaeth modelu a derbyniad digonol. Gall proffil o anghenion gael ei adeiladu yn y meysydd hyn, a dadansoddiad o ba mor sylweddol y byddai angen i'r newidiadau fod i fodloni anghenion penodol y plentyn a niweidiwyd yn sylweddol; a chyfraniad yr amgylchedd a ddarperir gan y rhieni i'r niwed a ddioddefwyd. Defnyddiwyd y Llawlyfr Arsylwi yn y Cartref yn helaeth i ddangos newid yng nghyd-destun y teulu o ganlyniad i ymyriad, a gellir ei ddefnyddio i asesu a fu ymyriad yn llwyddiannus.

10. **Asesiad Teuluol** (Bentovim a Bingley Miller, 2001). Mae modiwlau amrywiol yr Asesiad Teuluol sy'n cynnwys archwilio safbwyntiau teuluol a phroffesiynol y sefyllfa bresennol, y gallu i addasu i anghenion y plentyn, ac ansawdd rhianta, agweddau amrywiol ar berthnasoedd teuluol ac effaith hanes yn darparu dull seiliedig ar dystiolaeth safonol o edrych ar gryfderau ac anawsterau teuluol presennol sydd wedi chwarae rôl yn y niwed sylweddol i'r plentyn, a hefyd wrth asesu'r gallu i newid, adnoddau yn y teulu i sicrhau cyd-destun diogel ar gyfer y plentyn, a gwrthdroi ffactorau teuluol a allai fod wedi cyfrannu at niwed sylweddol, a chynorthwyo adferiad ac iechyd y plentyn i'r dyfodol. Mae'r proffil Asesiad Teuluol yn eu darparu trwy ei wybodaeth ansoddol a meintiol am ddealltwriaeth y rhieni o gyflwr y plentyn, a lefel y cyfrifoldeb maent yn ei gymryd ar gyfer y niwed sylweddol, gallu'r rhieni i addasu i anghenion newidiol y plant yn y gorffennol a'r dyfodol, eu gallu i hyrwyddo datblygiad, rhoi arweiniad digonol, gofal a rheoli gwrthdaro, i wneud penderfyniadau ac uniaethu â'r teulu ehangach a'r gymuned. Amlinellir cryfderau ac anawsterau ym mhob un o'r meysydd hyn, dylanwad hanes, meysydd newid i'w cyflawni, a gallu'r teulu i wneud y newidiadau hynny.

Atodiad C

Troseddau a restrir yn Atodlen Un y Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933

Trosedd	Adran	Deddf
Llofruddiaeth	Cyfraith Gwlad	
Dynladdiad	Cyfraith Gwlad	
Babanladdiad	Cyfraith Gwlad	
Herwgipio	Cyfraith Gwlad	
Cam-garcharu	Cyfraith Gwlad	
Ymosod neu guro	Cyfraith Gwlad	
Dinoethiad anweddus	Adran 4	Deddf Crwydradaeth 1824
Dinoethiad Anweddus	Adran 28	Deddf Cymalau Heddlu Tref 1847
Cynllwynio neu geisio cyflawni llofruddiaeth	Adran 4	Deddf Troseddau Corfforol 1861
Gweini gwenwyn, neu glwyfo, gyda'r bwriad o lofruddio	Adran 11	Deddf Troseddau Corfforol 1861
Bygythiadau i ladd	Adran 16	Deddf Troseddau Corfforol 1861
Clwyfo ac achosi anaf difrifol i'r corff: Clwyfo gyda bwriad	Adran 18	Deddf Troseddau Corfforol 1861
Clwyfo ac achosi anaf difrifol i'r corff: Clwyfo'r corff	Adran 20	Deddf Troseddau Corfforol 1861
Gweini gwenwyn yn faleisus	Adran 23	Deddf Troseddau Corfforol 1861
Gadael plant dan ddwy oed	Adran 27	Deddf Troseddau Corfforol 1861
Ymosod gan achosi anaf gwirioneddol i'r corff	Adran 47	Deddf Troseddau Corfforol 1861
Dwyn plant	Adran 56	Deddf Troseddau Corfforol 1861
Meddw yng ngofal plentyn o dan 7 oed	Adran 2	Deddf Trwyddedu 1902
Creulondeb i blant	Adran 1	Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933
Caniatáu i unigolion o dan 16 oed fod mewn puteindai	Adran 3	Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933

Trosedd	Adran	Deddf
Achosi neu alluogi unigolion o dan 16 oed i gael eu defnyddio ar gyfer cardota	Adran 4	Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933
Rhoi / achosi i roi gwirod meddwol i blentyn o dan 5 oed	Adran 5	Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933
Rhoi plant dan saith oed mewn sefyllfa lle mae perygl o losgi	Adran 11	Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933
Atal unigolion o dan 16 oed i gymryd rhan mewn perfformiadau sy'n peryglu bywyd a chorff	Adran 23	Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933
Babanladdiad	Adran 1	Deddf Babanladdiad 1938
Trais rhywiol	Adran 1	Deddf Troseddau Rhywiol 1956
Caffael menyw trwy fygythiadau	Adran 2	Deddf Troseddau Rhywiol 1956
Caffael menyw trwy dwyll	Adran 3	Deddf Troseddau Rhywiol 1956
Gweini cyffuriau er mwyn cael neu hwyluso cyfathrach rywiol	Adran 4	Deddf Troseddau Rhywiol 1956
Cyfathrach rywiol â merch o dan 13 oed	Adran 5	Deddf Troseddau Rhywiol 1956
Cyfathrach rywiol â merch o dan 16 oed	Adran 6	Deddf Troseddau Rhywiol 1956
Cyfathrach rywiol ag unigolyn diffygiol	Adran 7	Deddf Troseddau Rhywiol 1956
Caffael unigolyn diffygiol	Adran 9	Deddf Troseddau Rhywiol 1956
Llosgach gan ddyn	Adran 10	Deddf Troseddau Rhywiol 1956
Llosgach gan fenyw	Adran 11	Deddf Troseddau Rhywiol 1956
Sodomiaeth lle mae'r dioddefwr o dan 16 oed*	Adran 12	Deddf Troseddau Rhywiol 1956
Anwedduster rhwng dynion (anwedduster garw)	Adran 13	Deddf Troseddau Rhywiol 1956
Ymosodiad anweddus ar fenyw	Adran 14	Deddf Troseddau Rhywiol 1956
Ymosodiad anweddus ar ddyn	Adran 15	Deddf Troseddau Rhywiol 1956
Ymosodiad gyda'r bwriad o gyflawni sodomiaeth	Adran 16	Deddf Troseddau Rhywiol 1956
Cipio menyw trwy rym neu er mwyn ei heiddo	Adran 17	Deddf Troseddau Rhywiol 1956

Trosedd	Adran	Deddf
Cipio merch ddi-briod o dan 18 oed oddi wrth ei rhieni neu warcheidwaid	Adran 19	Deddf Troseddau Rhywiol 1956
Cipio merch ddi-briod o dan 16 oed oddi wrth ei rhieni neu warcheidwaid	Adran 20	Deddf Troseddau Rhywiol 1956
Cipio unigolyn diffygiol oddi wrth ei rieni neu warcheidwaid	Adran 21	Deddf Troseddau Rhywiol 1956
Achosi menywod i buteindra	Adran 22	Deddf Troseddau Rhywiol 1956
Caffael merch o dan 21 oed	Adran 23	Deddf Troseddau Rhywiol 1956
Cadw menyw mewn puteindy neu eiddo arall	Adran 24	Deddf Troseddau Rhywiol 1956
Caniatáu i ferch o dan 13 oed i ddefnyddio safle ar gyfer cyfathrach rywiol	Adran 25	Deddf Troseddau Rhywiol 1956
Caniatáu i ferch rhwng 13 ac 16 oed i ddefnyddio eiddo ar gyfer cyfathrach rywiol	Adran 26	Deddf Troseddau Rhywiol 1956
Caniatáu i unigolyn diffygiol ddefnyddio eiddo ar gyfer cyfathrach rywiol	Adran 27	Deddf Troseddau Rhywiol 1956
Achosi neu annog merch o dan 16 oed i buteindra, neu gael cyfathrach rywiol â hi neu ymosod yn anweddus arni	Adran 28	Deddf Troseddau Rhywiol 1956
Achosi neu annog unigolyn diffygiol i buteindra	Adran 29	Deddf Troseddau Rhywiol 1956
Dyn yn byw ar enillion puteindra	Adran 30	Deddf Troseddau Rhywiol 1956
Menywod â rheolaeth dros butain	Adran 31	Deddf Troseddau Rhywiol 1956
Cyfathrach rywiol gyda chleifion	Adran 128	Deddf Iechyd Meddwl 1959
Ymddygiad anweddus tuag at blentyn ifanc	Adran 1	Deddf Anweddustra gyda Phlant 1960
Cynorthwyo, annog, cynghori neu gaffael plentyn neu berson ifanc i gyflawni hunanladdiad	Adran 2	Deddf Hunanladdiad 1961

Trosedd	Adran	Deddf
Caffael pobl eraill i gyflawni gweithredoedd cyfunrywiol (trwy gaffael plentyn i gyflawni sodomiaeth gydag unrhyw unigolyn, neu gaffael unrhyw unigolyn i gyflawni sodomiaeth gyda phlentyn)	Adran 4	Deddf Troseddau Rhywiol 1967
Byw ar enillion puteindra gan ddynion	Adran 5	Deddf Troseddau Rhywiol 1967
Byrgleriaeth (trwy fynd i mewn i adeilad neu ran o adeilad gyda'r bwriad o dreisio plentyn)	Adran 9	Deddf Dwyn 1968
Cyflenwi neu gynnig cyflenwi cyffur Dosbarth A i blentyn, ymwneud â chyflenwi cyffur felly i blentyn, neu ymwneud â chynnig i blentyn gyflenwi cyffur felly.	Adran 4	Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971
Cymell merch o dan 16 oed i gael cyfathrach rywiol llosgachaidd	Adran 54	Deddf Cyfiawnder Troseddol 1977
Ffotograffau anweddus o blant	Adran 1	Deddf Amddiffyn Plant 1978
Trosedd cipio plentyn gan riant	Adran 1	Deddf Herwgydio Plant 1984
Trosedd o gipio plentyn gan unigolion eraill	Adran 2	Deddf Herwgydio Plant 1984
Meddu ar ffotograffau anweddus o blant	Adran 160	Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988
Cipio Plentyn mewn Gofal/ Amddiffyniad yr Heddlu..cymryd i ffwrdd/cymell i ffwrdd/cynorthwyo i redeg i ffwrdd/cadw i ffwrdd	Adran 49	Deddf Plant 1989
Adfer plant coll neu blant a gedwir yn anghyfreithlon	Adran 50	Deddf Plant 1989
Camddefnyddio Ymddiriedaeth	Adran 3	Deddf Troseddau Rhywiol (Diwygiad) 2000
Masnachu mewn puteindra	Adran 145	Deddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002
Trais rhywiol	Adran 1	Deddf Troseddau Rhywiol 2003

Trosedd	Adran	Deddf
Ymosod trwy ymdreiddiad	Adran 2	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Ymosodiad rhywiol	Adran 3	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Achosi i unigolyn gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol heb eu caniatâd	Adran 4	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Treisio plentyn o dan 13 oed	Adran 5	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Ymosod ar blentyn o dan 13 oed trwy ymdreiddiad	Adran 6	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Ymosodiad rhywiol ar blentyn o dan 13 oed	Adran 7	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Achosi neu gymell plentyn o dan 13 oed i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol	Adran 8	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Gweithgarwch Rhywiol gyda phlentyn	Adran 9	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Achosi neu gymell plentyn i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol	Adran 10	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Cymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol ym mhresenoldeb plentyn	Adran 11	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Achosi i blentyn wylio gweithred rywiol	Adran 12	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Troseddau rhyw ar blant a gyflawnwyd gan blant neu bersonau ifanc	Adran 13	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Trefnu neu hwyluso cyflawni trosedd rhyw ar blentyn	Adran 14	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Cyfarfod â phlentyn ar ôl ei baratoi i bwrpas rhyw ac ati	Adran 15	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Camddefnyddio sefyllfa o ymddiriedaeth: gweithgarwch rhywiol gyda phlentyn	Adran 16	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Camddefnyddio sefyllfa o ymddiriedaeth: achosi neu gymell plentyn i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol	Adran 17	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Camddefnyddio sefyllfa o ymddiriedaeth: gweithgarwch rhywiol ym mhresenoldeb plentyn	Adran 18	Deddf Troseddau Rhywiol 2003

Trosedd	Adran	Deddf
Camddefnyddio sefyllfa o ymddiriedaeth: achosi i blentyn wylio gweithred rywiol	Adran 19	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Gweithgarwch rhywiol gyda phlentyn sy'n aelod o'r teulu	Adran 25	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Cymell plentyn sy'n aelod o'r teulu i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol	Adran 26	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Gweithgarwch rhywiol gydag unigolyn ag anhwylder meddyliol sy'n rhwystro dewis	Adran 30	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Achosi neu gymell unigolyn ag anhwylder meddyliol sy'n rhwystro dewis, i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol	Adran 31	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Cymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol ym mhresenoldeb unigolyn ag anhwylder meddyliol sy'n rhwystro dewis	Adran 32	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Achosi i unigolyn, gydag anhwylder meddyliol sy'n rhwystro dewis, i wylio gweithred rywiol	Adran 33	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Cymell, bygwth neu dwyllo i gaffael gweithgarwch rhywiol gydag unigolyn ag anhwylder meddyliol	Adran 34	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Achosi unigolyn ag anhwylder meddyliol i gymryd rhan neu gytuno i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol trwy gymell, bygwth neu dwyll	Adran 35	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Cymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol ym mhresenoldeb unigolyn ag anhwylder meddyliol sy'n rhwystro dewis trwy gymell, bygwth neu dwyll	Adran 36	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Achosi i unigolyn ag anhwylder meddyliol i wylio gweithred rywiol trwy gymell, bygwth neu dwyll	Adran 37	Deddf Troseddau Rhywiol 2003

Trosedd	Adran	Deddf
Gweithwyr gofal: gweithgarwch rhywiol gydag unigolyn ag anhwylder meddyliol	Adran 38	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Gweithwyr gofal: achosi neu annog gweithgarwch rhywiol	Adran 39	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Gweithwyr gofal: gweithgarwch rhywiol ym mhresenoldeb unigolyn ag anhwylder meddyliol	Adran 40	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Gweithwyr gofal: achosi i unigolyn ag anhwylder meddyliol i wylio gweithred rywiol	Adran 41	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Talu am wasanaethau rhywiol plentyn	Adran 47	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Achosi neu annog plentyn i buteindra neu bornograffi	Adran 48	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Rheoli plentyn sy'n butain neu blentyn sydd ynghlwm â phornograffi	Adran 49	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Trefnu neu hwyluso puteindra neu bornograffi plant	Adran 50	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Achosi neu annog puteindra er mwyn mantais	Adran 52	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Rheoli puteindra er mwyn mantais	Adran 53	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Masnachu pobl i'r DU i'w camddefnyddio'n rhywiol	Adran 57	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Masnachu pobl yn y DU i'w camddefnyddio'n rhywiol	Adran 58	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Masnachu pobl o'r tu allan i'r DU i'w camddefnyddio'n rhywiol	Adran 59	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Gweini sylwedd yn fwriadol	Adran 61	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Cyflawni trosedd gyda'r bwriad o gyflawni trosedd rywiol (mewn achos lle'r oedd y drosedd fwriedig yn drosedd yn erbyn plentyn)	Adran 62	Deddf Troseddau Rhywiol 2003

Trosedd	Adran	Deddf
Tresmasu gyda'r bwriad o gyflawni trosedd rywiol (mewn achos lle'r oedd y drosedd fwriedig yn drosedd yn erbyn plentyn)	Adran 63	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Dinoethi	Adran 66	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Llygadu	Adran 67	Deddf Troseddau Rhywiol 2003
Masnachu pobl i'w camddefnyddio	Adran 4	Lloches a Mewnfudo (Triniaeth Hawlwyr ac ati)

Mae cyfeiriad at drosedd yn y rhestr hon yn cynnwys:

- **cyfeiriad at ymgais, cynllwyn neu anogaeth i gyflawni'r drosedd honno, a**
- **chyfeiriad at gynorthwyo, annog, cynghori neu achosi i gyflawni'r drosedd honno.**

Oni nodir fel arall, bydd dioddefwr y troseddau a restrir uchod o dan 18 oed.

Bydd rhybuddion a rhyddhau'n berthnasol ar gyfer y troseddau a restrir uchod.

Atodiad D

Cysylltiadau Amddiffyn Plant y Weinyddiaeth Amddiffyn

1. Mae'r Atodiad hwn yn cynnig mannau cyswllt ar gyfer asiantaethau perthnasol y Lluoedd Arfog mewn materion amddiffyn plant.

Y Llynges Frenhinol

2. Rheolir yr holl faterion amddiffyn plant yn y Llynges Frenhinol gan Wasanaeth Personol a Theuluol y Llynges (NPFS), sef adran gwaith cymdeithasol y Llynges Frenhinol. Mae hwn yn cynnig gwasanaeth gwaith cymdeithasol cyfrinachol a phroffesiynol i holl staff y Llynges a'u teuluoedd, gan gysylltu fel sy'n briodol gydag adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Dylid cyfeirio materion amddiffyn plant sy'n ymwneud â theulu aelod o'r Llynges Frenhinol at Swyddog Ardal perthnasol yr NPFS.

NPFS Ardal Dwyrain Lloegr, Portsmouth	(02392) 722712	Ffacs: 725803
NPFS Ardal Gogledd Lloegr, Helensburgh	(01436) 672798	Ffacs: 674965
NPFS Ardal Gorllewin Lloegr, Plymouth	(01752) 555041	Ffacs: 555647

Y Môr-filwyr Brenhinol

3. Caiff Gwasanaeth Lles y Môr-filwyr Brenhinol eu staffio gan uwch swyddogion heb eu comisiynu (NCOs) hyfforddedig ond heb gymwysterau sy'n aelodau o'r Môr-filwyr Brenhinol. Maent yn atebol i reolwr gwaith cymdeithasol cymwys ym Mhencadlys y Môr-filwyr Brenhinol, Portsmouth. Ar gyfer materion amddiffyn plant sy'n ymwneud â theuluoedd y Môr-filwyr Brenhinol, dylai adrannau'r gwasanaethau cymdeithasol hysbysu SO3 (WFS) yn Portsmouth.
Ffôn: (02392) 547542.

Y Fyddin

4. Mae Gwasanaeth Lles y Fyddin (AWS) sydd wedi'i staffio gan Weithwyr Cymdeithasol sifil cymwys a Gweithwyr Lles y Fyddin wedi'u hyfforddi a'u goruchwylio, yn cynnig cymorth lles proffesiynol i staff y Fyddin a'u teuluoedd. Mae AWS hefyd yn cysylltu ag awdurdodau lleol lle bo hynny'n briodol, yn enwedig pan fo plentyn yn destun pryderon amddiffyn plant. Dylai Awdurdodau Lleol sydd ag unrhyw ymholiadau neu bryderon o ran diogelu neu hyrwyddo lles plentyn o Deulu yn y Fyddin gysylltu ag Uwch Weithiwr Lles y Fyddin yn lleoliad y tîm AWS agosaf neu:

Chief Personal Support Officer
HQ AWS
HQ Land Command
Erskine Barracks
Wilton
Salisbury
SP2 0AG

Ffôn: 01722 436564 Ffacs: 01722 436307
e-bost christine.blagbrough576@land.mod.uk

Yr Awyrlu Brenhinol

5. Rheolir Cymorth Lles i deuluoedd yn yr RAF fel rhan o'r gwaith Rheolaeth arferol ac fe'i cydlynir gan Swyddog Personél pob Gorsaf, Prif Swyddog Rheoli Personél y Sgwadron (OPCMS) neu Brif Swyddog Gweinyddol y Sgwadron (OCA), yn dibynnu ar faint yr Orsaf.

6. Mae nifer o Weithwyr Cymdeithasol Cymorth Lluoedd SSAFA cymwys a Gweithwyr Cymorth Personol a Theuluol hyfforddedig ac a oruchwylir yn broffesiynol wedi'u lleoli ar hyd a lled y DU i gynorthwyo'r gadwyn Rheolaeth wrth ddarparu cymorth lles.

7. Dylai unrhyw Awdurdod Lleol sydd ag unrhyw ymholiadau neu bryderon mewn perthynas â diogelu neu hyrwyddo lles plentyn o deulu yn yr RAF gysylltu ag uned y rhieni, neu os nad yw'n hysbys, dylent gysylltu ag OCPMS/OCA yr Uned RAF agosaf. Yn ogystal, gellir cysylltu â Phennaeth Gwasanaeth RAF Cymorth y Lluoedd SSAFA yn:

Head of Service
SSAFA-Forces Help Social Work Service RAF
HQ Personnel & Training Command
RAF Innsworth
Gloucester
GL3 1 EZ

Ffôn: 01452 712612 est 5815/5840
Ffacs: 01452 510875

Neu

Director of Social Work SSAFA-Forces Help
19 Queen Elizabeth Street
London SE1 2LP

Ffôn: 020 7403 8783
Ffacs: 020 7403 8815

Tramor

Dylid ymgynghori â'r canlynol:

Y Llynges Frenhinol

Area Officer (NPFS) Eastern
HMS Nelson
Queen Street
Portsmouth
PO1 3HH

Ffôn: (02392) 722712
Ffacs: (02392) 725083

Y Fyddin a'r Awyrlu Brenhinol

Cyfarwyddwr Gwaith Cymdeithasol Cymorth Lluoedd SSAFA, mae'r manylion cyswllt i'w gweld uchod

*Ar gyfer **unrhyw** blentyn sy'n cael ei gymryd dramor ac sy'n destun gweithdrefnau amddiffyn plant neu sydd ar gofrestr amddiffyn plant, **rhaid** ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Gwaith Cymdeithasol Cymorth Lluoedd SSAFA, gan ddefnyddio'r un manylion cyswllt sydd i'w gweld uchod.*